Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>20 MAWRTH 2017<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>20 MARCH 2017<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Mairwen Hughes<br>01248 752516** | Committee Officer |

**Annibynnol / Independent**

R Dew, K P Hughes, H E Jones a Ieuan Williams (Cadeirydd/Chair)

**Plaid Lafur/Labour Party**

J A Roberts (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Alwyn Rowlands

**Aelod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru /Welsh Liberal Democrat (Heb Ymuno / Unaffiliated)**

Aled Morris Jones

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 20)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y Pwyllgor Gwaith (Cyllideb) a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2017.

**4** **COFNODION ER GWYBODAETH** (Tudalennau 21 - 24)

Cyflwyno er gwybodaeth, gofnodion drafft y Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 12 Ionawr, 2017.

**5** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 25 - 36)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**6** **CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL – CHWARTER 3, 2016/17** (Tudalennau 37 - 52)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol.

**7** **POLISI TALIADAU TAI DEWISOL 2017/18** (Tudalennau 53 - 72)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8** **CYLLIDO'R AILSTRWYTHURO O FEWN YSGOLION UWCHRADD** (Tudalennau 73 - 78)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9** **ASESIAD LLESIANT – BWRDD GWASANAETHAU LLEOL** (Tudalennau 79 - 82)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**10** **AROLWG AGGCC O WASANAETHAU PLANT YN YNYS MÔN** (Tudalennau 83 - 164)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**11** **CYNLLUN BUSNES CYFRIF REFENIW TAI 2017-2047** (Tudalennau 165 - 236)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**12** **STRATEGAETH INTERIM AR DDIGARTREFEDD** (Tudalennau 237 - 250)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**13** **POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD** (Tudalennau 251 - 304)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**14** **ARBRAWF GORFODAETH AMGYLCHEDDOL** (Tudalennau 305 - 320)

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**15** **CYMRAEG MEWN ADDYSG - CYNLLUN STRATEGOL 2017-2020** (Tudalennau 321 - 362)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**16** **GOSTWNG OEDRAN MYNEDIAD YN YSGOL BRYNSIENCYN** (Tudalennau 363 - 370)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**17** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 371 - 372)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.

**18** **TRAWSNEWID Y GWASANAETH DIWYLLIANT – ASEDAU TREFTADAETH** (Tudalennau 373 - 404)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH (CYLLIDEB)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd J Arwel Roberts (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R Dew, K P Hughes, A M Jones, H E Jones a Alwyn Rowlands |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes),<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Dysgu,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democratiadd,<br>Prif Swyddog Datblygu (Cefnogi Pobl) (ar gyfer eitem 17),<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (ar gyfer eitem 11),<br>Rheolwr Gwasanaethau Technegol (DR),<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) (eitemau 1 i 13),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) (eitemau 14 i 25). |
| **YMDDIHEURIADAU :** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr John Griffith, G.O. Jones, R. Llewelyn Jones (bore yn unig), R. Meirion Jones, Llinos M. Huws, T. Victor Hughes (prynhawn yn unig), Alun Mummery. |

Croesawodd y Cadeirydd y sawl a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwaith. Dywedodd y byddai sesiwn y bore yn rhoi sylw'n bennaf i faterion ariannol yn cynnwys cymeradwyo'r cynigion terfynol ar gyfer Cyllideb 2017/18 ar gyfer cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2017 i osod Cyllideb y Cyngor am 2017/18 yn ffurfiol. Eglurodd y Cadeirydd bod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwiath, o ran y gyllideb, yn benllanw misoedd o drafodaethau, her a sgriwtini ymysg Aelodau, Swyddogion, y cyhoedd a chydranddeiliaid eraill a bod eu mewnbwn nhw wedi helpu i siapio'r cynigion sydd dan ystyriaeth yn y cyfarod heddiw a bod hynny'n cael ei werthfawrogi'n arw.

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Gwnaed y datganiadau o ddiddordeb isod –

Gwnaeth y Cynghorydd Richard Dew dddatganiad o ddiddordeb personol a rhagfarnus mewn perthynas ag eitem 10 ar y rhaglen.

Gnwaeth y Cynghorydd H. Eifion Jones dddatganiad o ddiddordeb personol a rhagfarnus yn eitem 8 ar y rhaglen a datganiad o ddiddordeb personol yn unig yn eitem 25.

Gwnaeth y Cynghorydd Aled Morris Jones ddatganiad o ddiddordeb personol a rhagfarnus yn eitemau 13 a 22 ar y rhaglen.

Gwnaeth y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 ddatganiad o ddiddordeb mewn perthynas ag eitem 13 ar y rhaglen.

**2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim i'w hadrodd.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd ar gyfer eu cadarnhau, gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 23 Ionawr, 2017.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith fel rhai cywir.**

**4 MONITRO'R GYLLIDEB 2016/17 CH 3 - REFENIW**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer y trydydd chwarter o 1 Ebrill, 2016 i 31 Rhagfyr, 2016 ynghyd â'r sefyllfa a ragamcenir ar gyfer y flwyddyn gyfan.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid mai'r sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir yn Chwarter 3 ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17, yn cynnwys Cyllid Corfforaethol a Chronfa'r Dreth Gyngor yw gorwariant o £16k, neu 0.01% o gyllideb net y Cyngor am 2016/17. Mae hyn yn well o lawer na'r gorwariant o £660k a ragwelwyd yn ystod Chwarter 2; gellir priodoli'r gostyngiad yn y gorwariant a ragwelwyd i'r tanwariant yn y gyllideb Cyllid yn bennaf. Dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod yn gobeithio y bydd modd cynnal y sefyllfa hon hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol; o brofiad y blynyddoedd diwethaf, pur anaml y ceir unrhyw syrpreis yn Chwarter 4.

Roedd y Pwyllgor Gwaith, tra'n derbyn bod cyfanswm y gwariant cyfalaf yn adlewyrchu sefyllfa gytbwys, yn nodi bod amrywiadau amlwg yng nghyllidebau'r gwasanaethau unigol gyda nifer o enghreifftiau o orwariant a thanwariant; gofynnodd am esboniad o'r modd y cawsant eu ffactora i mewn i gynlluniau'r flwyddyn nesaf.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 mai'r gwasanaethau sy'n dioddef pwysau ariannol ac sydd, o'r herwydd, yn gorwario, yw

Dysgu Gydol Oes a'r Gwasanaethau Plant. O ran yr ail wasanaeth, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo rhyddhau cyllid i sefydlu Tîm Trothwy Gofal fel mesur ymyrraeth gynnar i gefnogi teuluoedd a thrwy hynny, gostwng nifer y plant sy'n cael eu cymryd i ofal yr Awdurdod, sy'n arwain at gostau. Mae dwy elfen o'r gyllideb Dysgu Gydol Oes yn gorwario, sef Cludiant Ysgol a'r gyllideb Addysg All-sirol sy'n cwrdd â chost darpariaeth addysg ar gyfer plant sydd, oherwydd eu hanghenion, mewn lleoliadau y tu allan i Ynys Môn. Mae cynlluniau cyllidebol y flwyddyn nesaf yn cydnabod y pwysau ar y gyllideb benodol hon ac yn darparu arian ychwanegol i'r Gwasanaeth Addysg er mwyn cwrdd â'r costau cynyddol yn y maes hwn. Mae'n gyllideb anodd i'w rheoli oherwydd mae'n cael ei harwain gan y galw am y gwasanaeth; gall cost cwrdd ag anghenion un plentyn mewn lleoliad all-sirol fod yn sylweddol ac achosi gorwariant.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r perfformiad ariannol hyd yma.**

- **Caniatáu trosglwyddo unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn yn y gyllideb graeanu ffyrdd i gronfa wrth gefn a glustnodwyd i gynorthwyo i gyllido costau ychwanegol yn y dyfodol yn sgil tywydd garw dros y gaeaf.**

**5 MONITRO'R GYLLIDEB 2016/17 CH 3 - CYFALAF**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 161 yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2016/17.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid na fu unrhyw newidiadau mawr o ran y prif risgiau i'r gyllideb gyfalaf yr adroddwyd arnynt ar ddiwedd yr ail chwarter.Y gwariant a broffiliwyd hyd at ddiwedd y trydydd chwarter ar gyfer y Gronfa Gyffredinol oedd 100%, serch hynny, dim ond 51% o'r gyllideb flynyddol sydd wedi ei wario hyd yma a hynny oherwydd bod gwariant ar nifer o gynlluniau'n digwydd tuag at chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Mae'r sefyllfa o ran derbyniadau cyfalaf wedi gwella a gobeithir y bydd modd sicrhau'r cyfanswm o £8m a ragamcanwyd erbyn diwedd Mawrth 2017. Bydd hyn yn cyfrannu at y gost o gwrdd â rhaglen gyfalaf 2017/18 sy'n rhaglen uchelgeisiol a bydd yn gostwng anghenion y Cyngor o safbwynt benthyciadau.

Soniodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 am y sefyllfa mewn perthynas â llithriad ar y Cyfrif Refeniw Tai, y gwelliannau i'r briffordd ar gyfer prosiect Wylfa Newydd a Phrosiect Seilwaith Strategol Caergybi a Llangefni. Y rhain yw cynlluniau pwysicaf y Cyngor ac er bod rhywfaint o lithriad ar y cynlluniau hyn yn debygol, bydd cyllid o'r Cyfrif Refeniw Tai ar gael y flwyddyn nesaf a'r gyfer cynlluniau'r CRT a bydd cyllid grant hefyd ar gael Horizon a SCEC yn achos y ddau gynllun arall gan olygu na fydd y Cyngor yn colli unrhyw arian.

**Penderfynwyd nodi'r gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf.**

## 6 ARIAN WRTH GEFN

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 ar y defnydd o arian wrth gefn a balansau.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid mai bod £8.886m yn y balansau cyffredinol ar 31 Mawrth 2016. Yng nghyllideb 2016/17, crëwyd cronfa o £1m o'r balansau cyffredinol er mwyn ariannu prosiectau unigol oedd â'r modd i greu arbedion effeithlonrwydd i'r Awdurdod. Mae sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn dda ar hyn o bryd gyda lefel iach o falansau cyffredinol a chronfeydd sydd wedi eu clustnodi. Fodd bynnag, mae yna nifer o risgiau y bydd angen eu hasesu wrth benderfynu ar lefel y balansau cyffredinol y bydd eu hangen yn y dyfodol a sonnir am y rhain yn adran 3.3 yr adroddiad. Ers 2011/12, mae balansau cyffredinol y Cyngor wedi codi o £5.796m yn 2012 i £8.86m yn 2016. Yr argymhelliad ar sail asesiad y Swyddog Adran 151 yw y dylai'r Cyngor geisio cadw o leiaf £6m yn ei falansau cyffredinol.

Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am gadarnhad bod y gwariant mewn perthynas â chronfeydd sydd wedi eu clustnodi yn cydymffurfio gyda'r gwariant a broffiliwyd ar gyfer pob cronfa.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod cronfeydd wedi eu clustnodi yn cael eu monitro er mwyn sicrhau bod y gwariant yn unol â'r dibenion y cafodd yr arian wrth gefn ei neilltuo ar eu cyfer; mae cyfyngiadau ar rai o'r cronfeydd sydd wedi eu clustnodi a bydd eu hangen i gyllido costau posibl yn y dyfodol; cyfyngir eu defnydd i ddibenion penodol. Mae cronfeydd eraill yn rhai dal grantiau - cronfeydd sy'n dal swm unrhyw grant a dderbyniwyd nad yw wedi cael ei ddefnyddio. Felly mae nifer o'r balansau a gedwir mewn cronfeydd wrth gefn yn falansau y mae'n rhaid i'r Cyngor eu dal yn ychwanegol at y Gronfa Gyffredinol.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r polisi cyffredinol ynglŷn â chronfeydd a balansau a fabwysiadwyd ar 1 Mawrth 2016, fel y nodir hynny yn Atodiad A.**
- **Pennu isafswm balansau cyffredinol o £6m ar gyfer 2017/18 yn unol ag asesiad y Swyddog Adran 151.**
- **Cadarnhau parhad y cronfeydd presennol a glustnodwyd.**

## 7 FFIOEDD A THALIADAU 2017/18

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 ar lefel y ffioedd a thaliadau ar gyfer 2017/18.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod y Pwyllgor Gwaith wedi gosod amcan y dylai'r holl ffioedd a thaliadau anstatudol gael eu cynyddu 3% ar gyfartaledd ar draws pob gwasanaeth unigol. Er bod hyn wedi caniatáu i'r Penaethiaid Gwasanaeth gynyddu ffioedd unigol gan fwy neu lai na 3%, mae'r cynnydd cynnydd cyfartalog ar draws y gwasanaeth yn cyfateb i 3%. Mae'r adroddiad yn mabwysiadu ymagwedd at yr adolygiad o ffioedd a thaliadau lle mae'r rhai sy'n berthnasol i bob gwasanaeth (ac eithrio ffioedd ar gyfer Gofal Cymdeithasol sy'n cael eu hystyried ar

wahân) yn cael eu dwyn ynghyd mewn un rhestr gyfansawdd. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod ystyried codi ffioedd a thaliadau'n incrementaidd bob blwyddyn yn beth synhwyrol i'w wneud er mwyn cadw i fyny gyda chwyddiant ac fel nad yw'r Cyngor yn canfod ei hun mewn sefyllfa lle mae ar ei hôl hi o gymharu ag awdurdodau eraill ac yn gorfod ceisio dal i fyny. Hefyd, mae'n sicrhau ei fod yn deg gyda'r rheiny sy'n derbyn y gwasanaeth a threthdalwyr fel ei gilydd.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r rhestr o ffioedd a thaliadau ar gyfer 2017/18.**

## 8 Y TÂL SAFONOL AR GYFER GARTREFI GOFAL Y CYNGOR 2017/18

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Oedolion yn gofyn am ganiatâd y Pwyllgor Gwaith i bennu lefel Tâl Safonol yr Awdurdod ar gyfer cartrefi gofal yr awdurdod am y cyfnod rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018.

*Wedi datgan diddordeb a oedd yn rhagfarnu yn y mater hwn, gadawodd y Cynghorydd H. Eifion Jones y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad arno.*

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion mai'r tâl safonol yw'r ffi y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei chodi ar y preswylwyr hynny sydd â'r modd ariannol i dalu am gost lawn eu gofal preswyl. Cyfeiriodd at ddull yr Awdurdod hwn o bennu'r tâl safonol a'r ffactorau a gymerwyd i ystyriaeth wrth gyfrifo'r ffi ar gyfer 2017/18. Fel y nodir yn nhabl A yr adroddiad, ystyriwyd cynyddu'r tâl i gost lawn y ddarpariaeth ond gwrthodwyd hynny oherwydd y byddai'n arwain at gynnydd sylweddol ac anghymesur i breswylwyr.

**Penderfynwyd -**

- **Er bod y Cyngor yn cydnabod y costau sy'n gysylltiedig â gofal preswyl, nid yw cost wirioneddol darparu'r gwasanaeth wedi cael ei adlewyrchu yn y tâl a godir ar drigolion.**
- **Bod y cynnydd ar gyfer y rheini sy'n cyfrannu tuag at gost eu gofal yn gyson gyda'r canllawiau ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor, sef 3%, a bod ffi o £584.29 yn cael ei gosod.**

## 9 FFIOEDD PRESWYL A CHARTREFI NYRSIO'R SECTOR ANNIBYNNOL 2017/18

Cyflwynwyd i'w ystyried – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn gofyn am ganiatâd y Pwyllgor Gwaith i bennu ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol am 2017/18.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod rhaid i ni, wrth bennu ffioedd ar gyfer cartrefi gofal yn y sector annibynnol, ddangos ein bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i gostau'r ddarpariaeth wrth benderfynu ar y ffioedd gofal safonol. Gwneir hyn mewn cydweithrediad ag Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio methodoleg ffioedd ranbarthol (Atodiad 1). Caiff argymhellion Methodoleg Gogledd Cymru eu nodi yn Nhabl 1 yr adroddiad. Mae'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio'r fethodoleg ar gyfer yr holl gategorïau yn Nhabl 1 ac eithrio Gofal Preswyl (Oedolion) am y sail na fyddai gweithredu'r model yn llawn ar draws

pob sector yn fforddiadwy. Yr argymhelliad felly oedd gweithredu'r cyfraddau a nodir yn Nhabl 2 yr adroddiad. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ar y ffioedd gyda darparwyr lleol, dywedodd y Swyddog y bydd efallai angen ystyried achosion unigol. Os ceir tystiolaeth glir nad yw'r ffi a bennwyd yn ddigonol mewn unrhyw achos unigol, bydd angen i'r Cyngor ystyried eithriadau i'r cyfraddau.

**Penderfynwyd -**

- **Cydnabod Methodoleg Ffioedd Gogledd Cymru fel y cafodd ei gweithredu hyd yma gan yr Awdurdodau yng Ngogledd Cymru fel sylfaen ar gyfer pennu ffioedd yn Ynys Môn yn ystod 2017/18 fel y nodir hynny yn Atodiad 1 yr adroddiad.**
- **Cymeradwyo'r argymhelliad i gynyddu'r lefelau ffioedd  fel y nodwyd yn Nhabl 2 yr adroddiad.**
- **Yn yr un modd ag Awdurdodau eraill, rhoi'r awdurdod i'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyllid ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi i edrych ar eu cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sylfaen i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Rhaid i unrhyw eithriadau gael eu cytuno gyda'r Deilydd Portffolio, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion o'r cyllidebau cyfredol. Oni cheir cytundeb, bydd y mater yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Gwaith i'w benderfynu arno.**

## 10 FFIOEDD A THALIADAU AR GYFER GWASANAETHAU DI-BRESWYL 2017/18

Cyflwynwyd i'w ystyried – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn gofyn am ganiatâd y Pwyllgor Gwaith i bennu'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol di-breswyl sy'n seiliedig yn y gymuned am 2017/18.

*Wedi datgan diddordeb a oedd yn rhagfarnu yn y mater hwn, gadawodd y Cynghorydd Richard Dew y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad arno.*

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ei bod yn arferol i adolygu'r ffioedd a godir mewn perthynas â gwasanaethau cartref bob blwyddyn i gyd-fynd ag adolygiad y Llywodraeth Ganolog o lefelau budd-daliadau a phensiwn a ddaw i rym eleni ar 01/04/17 1.2 Mae'r adroddiad yn nodi taliadau a ffioedd a godir am ofal cymdeithasol di-breswyl yn y gymuned yn 2017/18 yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cyfeiriodd y Swyddog yn benodol at y ddau faes y cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn eu cylch, sef taliadau Gofal Cartref a Thele-ofal a chanlyniadau'r ymgynghori hwnnw. Y nod yn y ddau achos oedd cytuno ar drefniadau codi ffioedd sy'n gyson, yn deg ac yn hawdd i'w deall.

**Penderfynwyd -**

- **Cymeradwyo'r ffioedd Gofal Cartref a amlinellir yn Nhabl 2 yr adroddiad.**
- **Mabwysiadu'r argymhelliad fel yr amlinellwyd yn 2.13 i weithredu'r trefniadau bandio newydd ar gyfer gofal cartref yn 2017/18.**
- **Cymeradwyo'r ffioedd ar gyfer prydau mewn gwasanaethau dydd a amlinellir yn Nhabl 3 yr adroddiad h.y.**

***Prydau mewn Gwasanaeth Dydd i oedolion (ac eithrio pobl ag Anabledd Dysgu) - £5.70***
***Byrbryd canol dydd mewn gwasanaethau dydd i bobl ag anableddau dysgu - £2.30***
***Lluniaeth arall (te / coffi / teisen) mewn gwasanaethau dydd - £1.30***

- **Cymeradwyo'r ffioedd ar gyfer gwasanaethau Teleofal fel yr amlinellwyd yn Nhabl 4 yr adroddiad h.y.**

  ***Haen 1 – bydd pawb yn talu £45.24***
  ***Haen 2 a 3 – bydd pawb yn talu £90.22***

- **Mabwysiadu'r argymhelliad fel yr amlinellwyd yn 4.7 i weithredu'r codiadau y cytunwyd arnynt o dan argymhelliad 4 ar sail raddol, sef 50% dros ddwy flynedd.**
- **Cymeradwyo'r gyfradd o £10.50/awr ar gyfer Taliadau Uniongyrchol fel yr amlinellir ym mharagraff 5.2 yr adroddiad.**
- **Cynnal ffi o £10.00 ar gyfer costau gweinyddu mewn perthynas â cheisiadau am Fathodyn Glas ac i ddarparu bathodynnau glas newydd yn lle rhai a gollwyd neu a gafodd eu dwyn fel yr amlinellir ym mharagraff 6.1 yr adroddiad.**
- **Cyflwyno cynnydd o 3% yn y ffi am brynu gwasanaethau gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol i £31.28.**
- **Cynyddu'r ffioedd a delir ar gyfer gofal cartref a gomisiynwyd o £15.50 i £15.90 yr awr.**
- **Cynnig cyfradd sylfaenol o £14.50 i'r holl ddarparwyr am becynnau Anabledd Dysgu a chytuno pecynnau ar sail unigol ar gyfer 2017/18.**

## 11 STRATEGAETH ARIANNOL AR GYFER Y TYMOR CANOL A'R GYLLIDEB 2017/18

Cyflwynwyd i'w ystyried – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn cynnwys y cynigion manwl ar gyfer cyllideb refeniw 2017/18 ac effaith hynny ar gyllideb refeniw Cyngor Sir Ynys Môn. Yn yr adroddiad hefyd, cafwyd diweddariad ar y Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol sy'n darparu cyd-destun ar gyfer gweithio ar gyllidebau'r Cyngor yn y dyfodol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion terfynol i'r Cyngor Sir sydd yn gyfrifol am gymeradwyo'r Gyllideb swyddogol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Rhoes yr Aelod Portffolio Cyllid adroddiad ar y broses a oedd wedi arwain at y cynigion manwl ar gyfer y gyllideb refeniw, yn cynnwys cyfraniadau gan Aelodau, Swyddogion, y cyhoedd a grwpiau a chydranddeiliaid eraill a oedd â diddordeb. Cafodd y cynigion cychwynnol drafft ar gyfer Cyllideb 2017/18 eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2016 ac fe'u cyhoeddwyd wedyn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd y rhain yn seiliedig ar gynnydd 0.3% yn setliad grant cymorth refeniw drafft Llywodraeth Cymru (sy'n cyfrif am oddeutu 80% o gyllid y Cyngor) a oedd, er yn well na'r disgwyliad, yn annigonol i bontio'r bwlch cyllido.

Gwnaed cyhoeddiad terfynol Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2016 ac er bod y cynnydd o 0.5% yn y setliad yn well hyd yn oed, roedd yn parhau i fod yn is na chyfradd chwyddiant ac yn gadael y Cyngor gyda diffyg cyllidol. Mae’r rhan fwyaf o wariant y Cyngor yn gysylltiedig â chostau staffio; mae’r dyfarniad tâl i staff ar gyfer 2017/18 yn 1%. Mae gwasanaethau ar draws y Cyngor yn teimlo’r pwysau ariannol; mae’r pwysau mwyaf dwys ar gyllidebau’r Gwasanaethau Plant a’r Gwasanaethau Oedolion a’r gyllideb Addysg All-sirol. Yn ogystal, mae newidiadau mawr ar y gweill yn y sector ysgolion yn Ynys Môn ac efallai y bydd angen i rywfaint o gost y benthyciadau ar gyfer rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ddod o’r gyllideb refeniw. Ar adeg lansio’r ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Tachwedd, nodwyd bod angen gwneud arbedion oddeutu £2.9m. Ar ôl derbyn ymatebion y cyhoedd ac ystyried y materion a godwyd ganddynt, mae’r cynigion ar gyfer y gyllideb wedi cael eu diwygio yn y modd a nodir ym mharagraff 10 Atodiad 1 gyda’r cynigion diwygiedig yn rhoi sylw i’r prif bryderon a fynegwyd drwy’r ymgynghoriad cyhoeddus. Mae’r newidiadau i’r cynigion ar gyfer y gyllideb wedi gostwng cyfanswm gwerth yr arbedion a gynigiwyd i £2.444m (Atodiad 3) ac mae’r rhain yn ymwneud yn bennaf â gweithio’n gallach ac ni fydd hyn yn cael bron dim effaith wasanaethau. Er gwaethaf y newidiadau a gynigiwyd, mae sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn parhau i fod yn gadarn.

Dyweodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 bod raid iddo sicrhau, i’r graddau y mae hynny’n bosibl, bod y broses a ddefnyddiwyd i lunio’r Gyllideb a’r rhagdybiaethau a’r rhagamcanion y mae’n seiliedig arnynt yn gadarn. Dywedodd ei fod yn fodlon yn hyn o beth a bod modd cyflawni’r cyllidebau. Caiff y gwahanol risgiau i’r gyllideb eu cydnabod a’u nodi yn adran 8 yr adroddiad ac oherwydd y risgiau hynny, mae’n ddoeth ac yn angenrheidiol i fod ag arian wrth gefn fel y gellir cwrdd ag unrhyw gostau annisgwyl petai’r risgiau hynny’n digwydd. Yn adran 13 yr adroddiad, ceir diweddariad ar y Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canol. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch setliadau yn y dyfodol ar ôl 2017/18 a’r anhawster y mae hynny’n ei greu o ran llunio rhagdybiaethau gydag unrhyw lefel o gywirdeb, ceir yn adran 13 dau fodel posibl yn seiliedig ar y senario waethaf (Tabl 9) lle byddai’n rhaid i’r Cyngor ddod o hyd i arbedion oddeutu £8m dros y 3 blynedd nesaf a’r senario orau (Tabl10) lle byddai’n rhaid dod o hyd i oddeutu £3m o arbedion. Bydd diweddariad ar y Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canol yn cael ei chyflwyno i’r Pwyllgor Gwaith wrth i wybodaeth ynghylch setliadau yn y dyfodol ddod yn gliriach.

Cyflwynodd y Cynghorydd R. Meirion Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, adroddiad ar ganlyniadau trafodaethau’r Pwyllgor hwnnw ar y cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror, 2017. Roedd y Pwyllgor wedi sgriwtineiddio’r cyniogn yn ofalus ac wedi ystyried cynnwys yr ymatebion gan y cyhoedd i’r cynigion drafft a’r newidiadau dilynol i’r cynigion hynny a nodir ym mharagraff 10, Atodiad 1, penderfynodd gefnogi’r cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb gydag ychwanegiadau. Dylid dwyn sylw’r ysgolion at y ffaith bod angen iddynt ymrwymo i gyflawni £490k o arbedion effeithlonrwydd mewn perthynas â chostau cymorthyddion dysgu neu arbedion eraill yn y cyllidebau sydd wedi eu datganoli yn 2018/19 a chynllunio ar gyfer hynny; dylai’r Pwyllgor Sgriwtini gael gwybodaeth o bryd i’w gilydd am y sefyllfa o ran balansau ac arian wrth gefn y Cyngor a dylai’r pwyllgor gael y ddogfen/holiadur ar gyfer yr Ymgynghoriad

Cyhoeddus yn gynt yn y broses o bennu'r gyllideb fel y gall gynorthwyo gyda diwyg ac iaith yr holiadur er mwyn ei wneud yn haws i'r cyhoedd ei ddeall.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod ac yn nodi mewnbwn Sgriwtini i'r broses o osod y Gyllideb ar gyfer 2017/18.

Cyflwynodd y Cynghorydd R. Llewelyn Jones, a oedd wedi gofyn am gael siarad yn y cyfarfod hwn, yr achos dros rewi prisiau cinio ysgol yn 2017/18 a'r rhesymau a roddodd am beidio â chodi pris cinio gan 10c fesul pryd fesul diwrnod oedd fforddiadwyedd a'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar deuluoedd incwm is nad ydynt yn gymwys i dderbyn cinio am ddim.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid nad yw'r Cyngor yn y gorffennol wedi codi prisiau ac o ganlyniad mae o, yn y blynyddoedd diwethaf, ar ei hôl hi o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth gan olygu bod y bydd y Cyngor newydd yn etifeddu sefyllfa o orfod dal i fyny â nhw. Yn ychwanegol at hynny, mae costau bwyd yn codi ac mae chwyddiant ar fwyd ar hyn o bryd yn uwch na'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Mae'r cynnydd a gynigir ym mhris prydau ysgol yn un cymhedrol ac nid yw'n afresymol i ddisgwyl i bobl dalu pris teg am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu bod y Cyflog Byw Cenedlaethol wedi dod i rym yn Ebrill 2016 a bod hynny, ynghyd â chodiad cyflog 2017, wedi golygu cynnydd sylweddol o 11.7% mewn costau cyflogi dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r bwriad i godi prisiau 5% y llynedd a 5% eleni yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at gwrdd â'r costau hyn. Fodd bynnag, mae gwir gost cynhyrchu prydau bwyd mewn ysgolion wedi codi bron i 15% yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Nid yw'r codiad yn y pris eleni yn cwrdd â'r cynnydd yn y gost o gynhyrchu'r bwyd.

Dywedodd y Prif Weithredwr nad yw pris cinio ysgol yn adlewyrchu cost wirioneddol y ddarpariaeth. Os na fydd y cynnydd yn y prisiau'n cael ei weithredu, bydd yn rhaid gwneud i fyny am golli refeniw o rhywle arall, naill ai o'r cyllidebau sydd wedi eu datganoli i'r ysgolion neu'r gyllideb addysg ganolog neu o gyllidebau gwasanaeth eraill sydd eisoes dan bwysau.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi'r cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol ar y gyllideb a'r adborth a gafwyd yn sgil hynny fel yr amlinellir yn Adran 2 Atodiad 1 ac Atodiad 2 yr adroddiad.**
- **Nodi'r crynodeb yn Adran 11 yr adroddiad ar oblygiadau'r cynigon o safbwynt cydraddoldebau.**
- **Cytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor gan gynnwys y cyllid diwygiedig mewn ymateb i'r pwysau ar y gyllideb a'r arbedion arfaethedig fel y'u dangosir yn Adran 10 Atodiad 1 ac Atodiad 3 yr adroddiad.**
- **Dyrannu'r arbedion sydd eu hangen o ran cyllidebau ysgolion i'r 3 sector ysgolion fel yr amlinellir yn Adran 12 Atodiad 1 yr adroddiad.**

- **Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 bod o leiaf £6m yn cael ei gadw ym malansau'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer 2017/18.**
- **Nodi'r sylwadau a wnaed gan y Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon a wnaed fel y cânt eu hamlinellu yn Adran 8 Atodiad 1 yr adroddiad.**
- **Argymell cyllideb net ar gyfer y Cyngor Sir a'r cynnydd yn lefel y Dreth Gyngor o ganlyniad, gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol, yn cynnwys y Praeseptau i Heddlu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Cymuned yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 28 Chwefror, 2017;**
- **Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau a all fod yn angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor.**
- **Cytuno fod unrhyw gyllidebau a arweinir gan y galw ac y ceir pwysau annisgwyl arnynt yn ystod y flwyddyn ariannol, yn gallu tynnu ar gyllid o'r cyllidebau wrth gefn cyffredinol.**
- **Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os bydd y gyllideb wrth gefn gyffredinol wedi'i hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn.**
- **Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 y pŵer i ryddhau hyd at £50k o'r gronfa wrth gefn gyffredinol ar gyfer unrhyw un eitem. Ni chaniateir cymeradwyo unrhyw eitem dros £50k heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Pwyllgor Gwaith.**
- **Argymell cynnydd o 2.5% yn y Dreth Gyngor i'r Cyngor llawn.**

## 12 CYLLIDEB CYFALAF 2017/18

Cyflwynd i sylw'r Pwyllgor Gwaith ac ar gyfer ei argymell i'r Cyngor llawn ar 28 Chwefror, 2017 – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn nodi'r cynigion terfynol ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2017/18.

Argymhellodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod y Pwyllgor Gwaith yn derbyn y rhaglen gyfalaf.

Dywedodd y Cynghorydd R. Meirion Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, bod y Pwyllgor, fel rhan o'r broses o sgriwtineiddio'r cynigion ar gyfer Cyllideb 2017/18, wedi ystyried y Rhaglen Gyfalaf. Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am, ac wedi derbyn sicrwydd, ei bod yn fforddiadwy.

**Penderfynwyd argymell y rhaglen gyfalaf isod i'r Cyngor Llawn:**

- **Cynlluniau yr ymrwymwyd iddynt ac a ddygwyd ymlaen o 2016/17 — £8.826m**
- **Buddsoddi yn ein hasedau cyfredol (gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl) — £2.301m**
- **Prosiectau Buddsoddi i Arbed — £0.186m**
- **Cynnal a Chadw Priffyrdd — £0.761m**
- **Cynlluniau cyfalaf mawr newydd — £11.675m**

| | |
|---|---|
| • **Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain** | **£6.865m** |
| **Cyfanswm Cynlluniau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol** | **£30.614m** |
| **Cynlluniau Cyfalaf CRT** | **£9.889m** |
| **Cyfanswm y Gyllideb Gyfalaf Arfaethedig ar gyfer 2017/18** | **£40.503m** |

## 13 TRETHI CENEDLAETHOL ANNOMESTIG – POLISI AR GYFER CYMORTH DEWISOL TUAG AT DRETHI BUSNES AM 2017/18

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn gofyn am ganiatâd y Pwyllgor Gwaith I ymestyn y Polisi ar Gymorth Dewisol tuag at Drethi Busnes ar gyfer Elusennau a Sefydliadau Dielw yn 2017/18.

*Wedi datgan diddordeb a oedd yn rhagfarnu yn y mater hwn, gadawodd y Cynghorydd Aled Morris Jones y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad arno.*

**Penderfynwyd -**

- **Mabwysiadu'r Polisi cyfredol ar Gymorth Dewisol tuag at Drethi Busnes – Elusennau a Sefydliadau Dielw fel y manylir arno yn Atodiad A yr adroddiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 yn unig a'i fod yn rhoi cyfarwyddyd i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 i sicrhau bod y gweithdrefnau gweinyddol cyn 31 Mawrth 2017 yn rhoi gwybod i'r elusennau a'r sefydliadau dielw perthnasol y bydd y polisi mewn grym ar gyfer 2017/18 yn unig ac y bydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2018.**
- **Gohirio'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y polisi yn ystod 2016/17 ac i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith parthed datblygiad y polisi hwn i'r dyfodol, ar ôl cymryd i ystyriaeth adolygiad Llywodraeth Cymru o'i gynllun rhyddhad i fusnesau bach ac effaith yr ail brisiad ar gost y polisi presennol, yn ystod 2017/18.**

## 14 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiadd yn nodi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng Mawrth a Hydrefn 2017.

Dygodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sylw ar y newidiadau isod i'r Flaenraglen Waith :-

Eitem 4 – Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw a Chyfalaf – Chwarter 3 ac Eitem 9 – Bid Twf Rhanbarthol Gogledd Cymru – Llywodraethiant wedi cael eu trafod yn y cyfarfod hwn.

Eitem 7 – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – angen tynnu'r eitem hon oddi ar y Flaenraglen waith oherwydd mae'r un fath ag Eitem 9 uchod.

**Eitemau newydd ar y Flaenraglen Waith**

Eitem 15 – Strategaeth Ynni – wedi ei rhaglennu i'w thrafod gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth, 2017;
Eitem 16 – Polisi Archwilio Priffyrdd - wedi ei rhaglennu i'w thrafod gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth, 2017;
Eitem 17 – Camau Gorfodaeth mewn perthynas â Sbwriel a Baw Ci - wedi ei rhaglennu i'w thrafod gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth, 2017.

**Eitemau sydd wedi cael eu hailraglennu**

Eitem 12 – Cymraeg mewn Addysg – Cynllun Strategol 2017 – 2020; wedi ei ailraglennu o'r Pwyllgor Gwaith ar 14 Chwefror, 2017 i'r cyfarfod a gynhelir ar 20 Mawrth, 2017.

**Eitem Newydd i'w hystyried nad yw wedi ei chynnwys ar y Flaenraglen Waith:-**

Bydd Darpariaeth Gofal Plant am hyd at 30 awr yr wythnos yn cael ei hystyried fel eitem i'w dirprwyo i'r Aelod Portffolio perthnasol.

**PENDERFYNWYD cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Mawrth – Hydref 2017 yn amodol ar y newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 15 GWELLIANT I'R CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ynghylch diwygio Cyfansoddiad y Cyngor.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor Sir roi awdurdod i'r Swyddog Monitro i wneud y newidiadau a ganlyn i Gyfansoddiad y Cyngor a'u cyhoeddi:**

- **Bydd paragraff 2.2.2 bellach yn darllen '*Cynhelir etholiad rheolaidd Cynghorwyr ar ddyddiad ac ar gyfnodau i'w penderfynu arnynt gan Weinidogion Cymru. Bydd tymor Cynghorwyr yn eu swydd yn dechrau ar y pedwerydd diwrnod ar ôl cael eu hethol a bydd yn diweddu ar y pedwerydd diwrnod ar ôl dyddiad yr etholiad rheolaidd canlynol.'***
- **Bydd paragraff 2.7.3.1 bellach yn darllen '*Bydd tymor yr Arweinydd yn ei swydd yn parhau am dymor y Cyngor, yn amodol ar baragraff 2.7.3.3 isod*.'**
- **Unrhyw ddiwygiadau sy'n dilyn ac sy'n berthnasol i 1 a 2 uchod gan gynnwys y rhai hynny sy'n codi o Fesur Llywodraeth Cymru neu weithredu pwerau Gweinidog Cymru dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.**

## 16 ASESIAD ANGHENION POBLOGAETH

Roedd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn cyfeirio at yr angen i ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngori gynnwys yr Asesiad Anghenion Poblogaeth yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014).

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) bod rhaid paratoi un adroddiad ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru a fydd yn cael ei gymetadwyo gan y chwe Chyngor Sir a Bwrdd y Gwasanaeth Iechyd Lleol erbyn 1 Ebrill, 2017. Nododd bod rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), baratoi adroddiad asesiad poblogaeth bob cylch etholiadol o bum mlynedd ac, yn ogystal, adolygu'r asesiad ar ôl dwy flynedd. Nodwyd y bydd yr Asesiad Anghenion Poblogaeth yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo yn y cyfarfod a gynhelir ar 28 Chwefror, 2017.

Rhoes Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini ac Adfywio grynodeb o argymhellion y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2017, a chyfeiriodd yn benodol at y pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor ynghylch lefel y cyllid sydd ar gael i weithredu'r Cynllun Ardal Leol a fydd yn dilyn ymlaen o'r Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru ac na ddylai unrhyw un o'r grwpiau a effeithir orfod talu unrhyw gostau ychwanegol. Roedd y Cadeirydd yn derbyn argymhellion y Pwyllgor Sgriwtini ac yn cytuno gyda'i bryderon ond nododd ei bod yn amhosib darogan a fydd y costau i'r cyrff sy'n gysylltiedig â'r Asesiad hwn yn codi mewn gwirionedd.

Dywedodd y Cadeirydd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried modd o ddadansoddi'r cyfan o'r data sy'n gysylltiedig â'r Asesiad Anghenion Poblogaeth oherwydd mae'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y ddogfen yn cael ei diweddaru'n rheolaidd. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) bod Bwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi gorfod dadansoddi nifer anferthol o setiau data mewn perthynas â'r Asesiad hwn sy'n orchwyl gymhleth sy'n cymryd llawer iawn o amser. Nododd y byddai o fantais petai system gyfrifiaduol yn cael ei datblygu i ddadansoddi'r cyfan o'r data; dywedodd y byddai'n codi'r mater ym Mwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru a chyda Llywodraeth Cymru yn y man.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor Sir llawn :-**

- **Gymeradwyo'r adroddiad;**
- **Bod Adran 3.2 y Cyfansoddiad yn cael ei ddiwygio i gynnwys cymeradwyo Asesiad Anghenion Poblogaeth dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) fel swyddogaeth y mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn ei chyflawni.**
- **Awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r materion sydd wedi eu neilltuo fel swyddogaethau y mae'n rhaid i'r Cyngor llawn eu cymeradwyo yn y Cyfansoddiad ynghyd ag unrhyw newidiadau y mae'n rhaid eu gwneud o ganlyniad i adlewyrchu hynny.**

## 17 CYNLLUN COMISIYNU CEFNOGI POBL

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r Rhaglen Cefnogi Pobl, sef menter polisi a fframwaith cyllido gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai.

Dywedodd yr Aelod Portffolio (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) y derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2016, yn dweud mai oddeutu £2,643,866 fyddai'r dyraniad i Ynys Môn ar gyfer 2017-2018. Mae'r grant hwn yn grant pwysig i'r Rhaglen Cefnogi Pobl sy'n canolbwyntio ar gynllunio, comisiynu a monitro llety â chefnogaeth a gwasanaethau cymorth a ddarperir gan wahanol ddarparwyr ar draws amrywiaeth o ddeiliadaethau sy'n cynnwys llety hygyrch a fforddiadwy, stoc tai cyngor, stoc cymdeithasau tai, rhentu preifat, tai gwarchod, perchen ddeiliaid, byw â chymorth, tenantiaethau â chymorth a thai gofal ychwanegol.

Dywedodd y Prif Swyddog Datblygu (Cefnoi Pobl) bod y grant hwn yn bwysig i gefnogi 800 o bobl fregus er mwyn osgoi digartrefedd a helpu pobl i fyw'n annibynnol.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cymeradwyo argymhellion y Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl 2017-20;**
- **Cymeradwyo'r dyraniad o gyllid ar gyfer pob maes Gwasanaeth, fel yr argymhellir ar dudalen 47 o'r Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl.**

**18 DEFNYDD O'R PREMIWM TRETH GYNGOR AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMOR**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo polisi ar gyfer benthyciadau Ecwiti ar gyfer prynwyr tro a grantiau ar gyfer tai gwag i'w cyllido o'r premiwm Treth Gyngor a godir ar ail gartrefi a chartrefi gwag.

Dywedodd yr Aelod Portffolio (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) y bydd y ddau gynllun hyn yn defnyddio rhan o'r refeniw ychwanegol o £170k a gyllidir o'r premiwm Treth Cyngor a godir ar ail gartrefi a chartrefi gwag ar yr Ynys o Ebrill 2017. Bydd y polisi yn weithredol yn yr ardaloedd cyngor cymuned penodol sydd â'r nifer uchaf o ail gartrefi a/neu'r lefelau isaf o gartrefi sydd â phrisiau tai ar y chwartel isaf.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, mai'r risg sy'n gysylltiedig â'r cynllun hwn yw'r ansicrwydd ynghylch lefel yr incwm a gynhyrchir o gasglu'r Premiwm Treth Cyngor a godir ar ail gartrefi a chartrefi gwag oherwydd mai hon yw blwyddyn gyntaf y cynllun. Nododd y bydd perchenogion ail gartrefi a thai gwag yn cael eu sbarduno efallai i rentio eu heiddo allan pan fyddant yn derbyn biliau Treth Gyngor uwch; gall lefel yr incwm o'r cynllun ostwng oherwydd y camau a gymerir gan berchenogion ail gartrefi a thai gwag.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r polisi ar gyfer gweithredu'r ddau gynllun canlynol i'w hariannu o'r premiwm Treth Gyngor a godir ar ail gartrefi a chartrefi gwag ar Ynys Môn o Ebrill 2017 ymlaen :-**

- **Grant i helpu prynwyr tro cyntaf brynu ac ailwamio tai gwag;**
- **Benthyciadau ecwiti er mwyn helpu prynwyr tro cyntaf.**

## 19 SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR AR YNYS MÔN

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad gan y Pennaeth Gwasaethau tai mewn perthynas â'r posibilrwydd o sefydlu safleodd parhaol a dros dro ar gyfer sipsiwn a theithwyr ym Mhenhesgyn a Star.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai mai Capita enillodd y tendr ar gyfer paratoi Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol ar safleodd Penhesgyn a Star. Roedd Mr. Jon Stoddard o Capita yn bresennol yn y cyfarfod. Dywedodd mai'r camau nesaf ar gyfer y ddau safle y paratoi dyluniadau amlinellol yn unol â chanllawiau arfer dda ac ar gyfer eu trafod gyda chydranddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau bod gofynion eraill o safbwynt technegol ac iechyd a diogelwch yn cael eu hymgorffori yn y cynllun yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Efallai y bydd angen cynnal asesiadau technegol ac amgylcheddol pellach er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei darparu. Roedd copi drafft o'r Asesiad Effaith ar Iechyd mewn perthynas â safleoedd Star a Phenhesgyn ynghlwm wrth yr adroddiad i'r Pwyllgor. Bydd angen paratoi costau ar gyfer y ddau gynllun a byddant yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ystod Haf 2017. Fodd bynnag, dywedodd y Swyddog bod y ddau gynllun yn dibynnu ar sicrhau caniatâd cynllunio.

Cynhaliwyd gweithdy yn Ionawr 2017 ar yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wedi ei hwyluso gan y Rheolwr Gweithrediadau – Iechyd yr Amgylchedd ac roedd y tri aelod etholedig lleol, Mr. Bryn Hall o Unity sy'n Arbenigwr ar Ymgysylltu gyda Sipsiwn a Theithwyr, cynrychiolwyr o Capita a Swyddogion o'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn bresennol yn y gweithdy hwnnw. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd gyda'r rheini a fynychodd y gweithdy. Yn gyffredinol, ystyrir bod y ddau safle'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant sipsiwn o'u cymharu â'r ddarparieth bresennol.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai hefyd bod y gymuned leol yn Star wedi cyflwyno Asesiad Risg o'r safle. Roedd Capita wedi ystyried y risgiau perthnasol a nodwyd yn eu Hadroddiad Gwerthuso ac wedi nodi mesurau yn eu hadroddiad ar gyfer lliniaru'r risgiau hyn. Roedd y Swyddogion yn dymuno diolch i gynrychiolwyr cymuned Star am eu gwaith.

Dywedodd y Cynghorydd R. Meirion Jones, a oedd wedi gofyn am gael siarad ar y mater hwn, bod angen iddo gyfeirio at gofnodion y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2016 a oedd yn argymell 'asesiad pellach o unrhyw risgiau i ddiogelwch neu risgiau technegol ar y safle; yn ei farn ef, nid oedd y Cyngor wedi delio'n briodol gyda'r risgiau hynny. Dywedodd fod cynrychiolwyr lleol o gymuned Star wedi nodi 15 o risgiau yn eu gwaith papur i'r awdurdod ond ymddengys nad yw'r gymuned leol wedi derbyn unrhyw adborth ar y casgliadau. Dywedodd y Cyngorydd Jones ymhellach y bydd y Cyngor yn cynnal gweithdy ar gyfer Swyddogion a Capita; roedd ef o'r farn y dylid yn ogystal, gynnal cyfarfod cyhoeddus yn Star er mwyn rhoddi sylw i'r materion a godwyd o ran y risgiau technegol a'r risgiau i ddiogelwch sy'n gysylltiedig â'r safle arfaethedig. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai bod y ffactorau risg a nodwyd gan y gymuned wedi cael eu hanfon ymlaen i Capita i'w hystyried. Dywedodd bod Capita'n cymryd y risgiau hyn o ddifrif ac yn gweithio ar hyn o bryd ar ffyrdd posibl o oresgyn y risgiau hyn. Cynhelir gweithdy mewnol ymhen ychydig wythnosau ac mae Capita wedi cytuno i gwrdd â chynrychiolwyr cymuned Star ac aelodau etholedig lleol ar ddyddiad addas.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Nodi'r cyngor a gynhwysir yn Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol Capita;**

- **Nodi canfyddiadau'r Asesiad Effaith ar Iechyd ar gyfer safleoedd Star a Penhesgyn;**
- **Awdurdodi'r Swyddogion i symud ymlaen i gam nesaf y prosiect, sef dylunio safleoedd a gweithio allan y costau ac i ddod ag adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith ym Mehefin 2017.**

## 20 CWRS GOLFF, LLANGEFNI

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Economaidd ac Adfywio Economaidd ar gais gan Bartneriaeth Llangefni i ymestyn cytundeb Cwrs Golff Llangefni.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaeth) bod Partneriaeth Llangefni o'r farn bod y Cwrs Golff â rhan hollbwysig yn eu huchelgais gyffredinol i adfywio Llangefni. Byddai ymestyn y cytundeb yn fodd iddynt, gyda'r Cyngor Sir a chydranddeiliaid eraill, i symud ymlaen ymhellach gyda'r ymdrechion i sefydlu gweledigaeth a chynllun cyflawni cynhwysfawr a chadarn er mwyn gwella a chryfhau Llangefni.

**PENDERFYNWYD ymestyn y cytundeb presennol gyda Phartneriaeth Llangefni (Menter Gymdeithasol Llangefni) tan fis Gorffennaf 2018.**

## 21 TRAWSNEWID Y GWASANAETH LLYFRGELLOEDD

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Dysgu yn ymgorffori'r Strategaeth Ddrafft ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgelloedd am 2017 – 2022.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg bod y Strategaeth Ddrafft ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi cael ei thrafod yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 6 Chwefror, 2017. Roedd yn dymuno diolch i'r Swyddogion am eu gwaith yn hyn o beth ac yn dymuno nodi y bydd y gwasanaeth yn parhau i drafod ac ymgynghori gyda phartïon yn y gymuned sydd â diddordeb cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i drawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgelloedd.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu mai pwrpas y Strategaeth yw ceisio sicrhau bod y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar Ynys Môn yn cwrdd ag anghenion trigolion yr Ynys ac yn diwallu'r gofynion statudol dros y blynyddoedd nesaf. Nododd y cynhaliwyd ymarfer ymgynghori gyda'r cyhoedd a chydranddeiliaid yn ystod Hydref 2015 er mwyn casglu sylwadau ar yr opsiynau a nodwyd a gwahodd unrhyw syniadau eraill. Cafwyd bron i 2,000 o ymatebion i'r ymgynghori ond nid oedd unrhyw opsiwn pendant yn cael ei ffafrio. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth i awgrymu y byddai'n fuddiol ymchwilio i gynigion ar gyfer modelau 'cymorth cymunedol'. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn awr yn gwneud cynlluniau i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Ddrafft ac i symud ymlaen i drafod gyda phartïon â diddordeb. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, bydd Strategaeth derfynol ar gyfer y Gwasanaethau Llyfrgelloedd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer penderfyniad terfynol yn yr hydref 2017.

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar drafodaethau ac argymhellion y Pwyllgor Sgriwtini.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Nodi'r broses a ddilynwyd o ran datblygu'r strategaeth, ynghyd â'r rhesymeg y tu ôl i'r hyn a gynigir o fewn Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell;**
- **Cymeradwyo'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad Anghenion;**
- **Awdurdodi Swyddogion i fwrw ymlaen â'r gwaith o gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell, yn unol â'r amserlen a amlinellir yn yr adroddiad;**
- **Nodi y bydd y gwasanaeth yn parhau i drafod ac ymgynghori â phartïon sydd â diddordeb ac y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno yn nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref ar yr opsiynau gafodd eu hadnabod ar gyfer trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgell.**

## 22 TRAWSNEWID Y GWASANETH IEUENCTID

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad gan y Pennaeth Dysgu ar yr opsiynau ar gyfer ailfodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid.

*Wedi datgan diddordeb a oedd yn rhagfarnu yn y mater hwn, gadawodd y Cynghorydd Aled Morris Jones y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad arno.*

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg yr ymgynghorwyd yn eang ar yr opsiynau ar gyfer ailfodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid. Yn ystod yr ail ymgynghoriad, nododd y bobl ifanc eu blaenoriaeth. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u nodi yn yr adorddiad.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu bod y Tîm Gwasanaeth Ieuenctid wedi treulio cryn dipyn o amser ar y broses ymgynghori ac wedi asesu'r holl ymatebion a dderbyniwyd mewn perthynas ag ailfodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid. Yn 2013/14 rhoddwyd i'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yr orchwyl o ddod o hyd i arbedion posibl rhwng 10% a 60% yng nghyllideb y gwasanaeth ieuenctid; nodwyd 5 o fodelau darparu gwasanaeth i sicrhau'r arbedion hynny.

Rhoes Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio amlinelliad o'r drafodaeth a gafwyd ar yr opsiynau ar gyfer ailfodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid. Roedd copi o'r trafodaeth a'r argymhelliad wedi'i gynnwys gyda'r adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod angen i'r opsiynau a gyflwynir fod yn gynaliadwy yn y tymor canol; yn ei farn ef, Opsiwn 2 fyddai orau ar gyfer y gwasanaeth.

Holodd y Cadeirydd am effaith Opsiynau 1 a 2 ar y gwasanaeth. Dywedodd y Prif Swyddog Ieuenctiad y bydd y ddau opsiwn yn golygu ailfodelu'r gwasanaeth ond y bydd Opsiwn 2 yn caniatáu i'r gwasanaeth barhau i gyflogi Gweithiwr Ieuenctid yn nalgylchoedd yr ysgolion uwchradd; byddai'r ddau glwb sy'n darparu ar gyfer y rhai a chanddynt anghenion addysgol arbennig yn parhau i fod ar agor fel y maent ar hyn o bryd. Mae'r strwythur yn caniatáu i'r rhan fwyaf o'r clybiau gwledig barhau ond byddai angen cau'r clybiau hynny nad oes llawer yn eu mynychu.

**PENDERFYNWYD gweithredu Opsiwn 2 yn yr adroddiad er mwyn trawsnewid y Gwasanaeth Ieuenctid.**

## 23 STRATEGAETH A GWELEDIGAETH TWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r Weledigaeth a'r Strategaeth Dwf ar gyfer Economi Gogledd Cymru.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod y weledigaeth ar gyfer twf yn nodi uchelgais strategol glir ar gyfer datblygu seilwaith, sgiliau a chyflogaeth a thwf busnes yng Ngogledd Cymru. Mae Gogledd Cymru wedi cael gwahoddiad ffurfiol i ddatblygu'r strategaeth yn 'Fid Dwf' ar gyfer buddsoddiad cenedlaethol a rhoi pwerau i'r rhanbarthol gan Lywodraethau'r DU a Chymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo i flaenoriaethu cynnwys y strategaeth ar gyfer ei gynnwys mewn bid ffurfiol. Mae'r chwe chyngor wedi dod i gytundeb amlinellol ar fodel llywodraethiant ar gyfer y strategaeth economaidd ranbarthol.

Dywedodd y Pwyllgor Gwaith ei bod yn bwysig cydweithio a chefnogi'r Weledigaeth a'r Strategaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cymeradwyo'r model llywodraethu rhanbarthol a ffefrir, sef cyd-bwyllgor statudol ar gyfer datblygiad pellach;**
- **Gwahodd y Cyngor newydd i ymrwymo i fodel Cydbwyllgor statudol gyda'r pum cyngor partner, o fewn tri mis cyntaf y Cyngor newydd, unwaith y bydd cyfansoddiad manwl a chytundeb rhyng-awdurdod ar gael.**

## 24 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganolyn oherwydd y tebygrwydd y byddai gwybodaeth yn cael ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

## 25 ACHOS BUSNES LLAWN NEWYDD AM YSGOL NEWYDD YM MRO RHOSYR/ABERFFRAW

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad gan y Pennaeth Dysgu mewn perthynas â'r Achos Busnes llawn ar gyfer yr ysgol gynradd newydd yn Niwbwrch ac ar gyfer adnewyddu Ysgol Brynsiencyn ac Ysgol Parc y Bont.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar gyfer ysgol gynradd newydd yn ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw;**
- **Cymeradwyo cyflwyno'r Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru;**

- **Cymeradwyo gwerthu Ysgol Bodorgan a Thŷ’r Ysgol, Ysgol Dwyran, Ysgol Niwbwrch ac Ysgol Llangaffo unwaith y byddant yn wag, ac i’r derbyniadau cyfalaf hynny gael eu neilltuo i ariannu adeiladu’r ysgol gynradd newydd, ar yr amod na fydd unrhyw broblemau’n codi efo gwerthu’r safleoedd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.15 pm

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Alun Mummery (Cadeirydd) |
| | **Awdurdod Lleol** |
| | Y Cynghorwyr Jim Evans, Alwyn Rowlands, Ieuan Williams |
| | **Y Sector Gwirfoddol** |
| | Mr Andrew M Hughes (Medrwn Môn)<br>Ms Eleri Lloyd Hughes (Age Cymru)<br>Mr Islwyn Humphreys (Samariaid/Samaritans) |
| **WRTH LAW:** | Mrs Annwen Morgan (Prif Weithredwr Cynorthwyol - CSYM)<br>Mr J Huw Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd - CSYM)<br>Mrs Sian Purcell (Medrwn Môn)<br>Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor - CSYM) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones<br>Mr Wyn Thomas (BIPBC) |

---

**1. CADEIRYDD**

Etholwyd Alun Mummery yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Cyswllt hyd at ddiwedd Mawrth 2017.

**2. IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Mr Islwyn Humphreys yn Is-gadeirydd ar y Pwyllgor.

**3. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**4. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2016, a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**Materion yn codi:-**

**Eitem 1 - Cadeirydd**

Mewn perthynas â rôl cynrychiolydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar y pwyllgor, **penderfynwyd y byddai'r Dirprwy Brif Weithredwr yn gofyn am gadarnhad gan yr Ymddiriedolaeth.**

**Gweithredu: Fel y nodwyd uchod.**

**Eitem 3 – Cofnodion 14 Hydref 2016**

Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol ei bod wedi rhannu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani mewn perthynas â buddsoddiad yr Awdurdod yn y Trydydd Sector gyda Phrif Swyddog Medrwn Môn.

**Eitem 5 – Adolygu'r Cod Ymarfer Cyllido a Dyraniad y Sector Gwirfoddol 2015/16**

Adroddodd y Prif Swyddog, Medrwn Môn bod yr Ymddiriedolaeth Elusennol wedi gofyn am gyfarfod gyda'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i drafod y posibilrwydd o dderbyn cyllid gan yr Ymddiriedolaeth.

**Eitem 6 – Strategaeth y Sector Gwirfoddol a Rôl y Pwyllgor Cyswllt**

Adroddodd y Prif Swyddog, Medrwn Môn bod Bwrdd Medrwn Môn wedi trafod opsiynau pellach i gryfhau'r trefniadau partneriaeth presennol mewn perthynas â drafftio strategaeth ar gyfer gweithio ar y cyd.

Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol bod y data a gasglwyd o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei ddadansoddi.

Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol y byddai **Llio Johnson, yr Uwch Reolwr Partneriaeth, yn rhoi diweddariad yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Medrwn Môn.**

Nododd y Pwyllgor nad oedd cworwm yng nghyfarfod Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a drefnwyd ar gyfer 13 Hydref 2016, ac o ganlyniad ni chynhaliwyd y cyfarfod.

**5. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH**

Cyflwynodd y Prif Swyddog, Medrwn Môn bapur trafod ar y weledigaeth a'r strategaeth ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gyda'r Trydydd Sector ar Ynys Môn, a'r angen i gael cynllun gweithredu i wireddu gweledigaeth a nodau'r dogfennau strategol a gynhyrchwyd h.y. Compact, Cod Cyllido, Polisi Gwirfoddol, Polisi Partneriaeth.

Roedd y Prif Swyddog, Medrwn Môn yn cydnabod, er gwaetha'r ffaith bod y sector wedi wynebu nifer o heriau yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda chyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r bartneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), bod

cyfraniad y Sector yn cael effaith gadarnhaol ar y defnyddwyr gwasanaeth. Nodwyd bod angen gwneud gwaith pellach i gynnwys Medrwn Môn yn y trafodaethau, i wella cyfathrebu, ac i ymateb yn fwy effeithiol i aelodau'r cyhoedd.

Cyfeiriwyd at lwyddiant hybiau cymunedol ym Miwmares, Porthaethwy ayb o ran dod â phobl ynghyd a rhannu syniadau ac adnoddau. Nodwyd fod y model hybiau cymunedol yn caniatáu i unigolion wneud penderfyniadau am weithgareddau yn eu cymunedau.

**Gweithredu:**

**Medrwn Môn, mewn ymgynghoriad â Chyngor Sir Ynys Môn i ddrafftio cynllun gweithredu i'w gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.**

## 6. LLEISIAU LLEOL

Cyfeiriodd y Prif Swyddog, Medrwn Môn at eitem 8 yng nghofnodion cyfarfod 8 Gorffennaf 2016, sy'n nodi y byddai'r prosiect Lleisiau Lleol yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2017.

Nodwyd fod trafodaethau wedi eu cynnal â'r Loteri Genedlaethol am drefniadau cyllido'r Trydydd Sector yn y dyfodol. Cyflwynir cais am grant ddiwedd mis Mawrth 2017, a phetai'r cais yn llwyddiannus byddai'n sicrhau dyfodol y prosiectau canlynol:

- Panel Dinasyddion;
- Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyngor Sir;
- Fframwaith Plant a Phobl Ifanc ar gyfer gweithio gyda'r Cyngor Sir;
- Model ar gyfer Adeiladu Cymunedau.

Nodwyd hefyd bod Medrwn Môn wedi gwneud cais am gyllid i'r Ymddiriedolaeth Elusennol.

Mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar Gyllideb 2017/18, gofynnodd Medrwn Môn am eglurhad ynglŷn ag effaith toriadau yn y gyllideb ar drefniadau ariannu'r Trydydd Sector yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Yn codi o'r drafodaeth, amlygwyd bod diffyg gwirfoddolwyr yn y Trydydd Sector, a bod angen datblygu sgiliau gwirfoddoli. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar ffyrdd o annog pobl i wirfoddoli, a'r posibilrwydd o ddefnyddio sgiliau'r nifer fawr o wirfoddolwyr sy'n gysylltiedig ag Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017.

**Gweithredu:**

**Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i drafod yr agwedd hon gyda swyddogion yr Eisteddfod Genedlaethol.**

## 7. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Flaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Ionawr i Awst 2017, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Rhagfyr 2016.

Anfonir y Rhaglen Waith i Medrwn Môn yn fisol er mwyn rhoi diweddariad i'r Sector ar faterion sydd wedi eu hamserlennu i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgorau Sgriwtini.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 8. CYFARFOD NESAF

Yn dilyn trafodaeth am gynnal cyfarfodydd yn ganolog yn y dyfodol, cytunodd y Pwyllgor i gynnal y cyfarfod nesaf, sydd wedi ei drefnu ar gyfer dydd Iau, 13 Gorffennaf 2016, yn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni.

**Penderfynwyd cynnal bob 2 gyfarfod allan o dri yn fewnol ac 1 yn allanol. Cytunwyd i adolygu'r trefniant hwn yn y dyfodol.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.15 pm

**Y Cynghorydd Alun Mummery**
**Cadeirydd**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **20 Mawrth 2017** |
| **Pwnc:** | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Ieuan Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaenraglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaenraglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Ebrill – Tachwedd 2017;**<br><br>Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;<br><br>Nodi bod blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| - |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydyw. |

| DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i chylchredir yn rheolaidd hefyd i Gyfarwyddwr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 6 | **Eiddo** | |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 8 | **Sgriwtini** | Bydd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn llywio rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith: Ebrill – Tachwedd 2017. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

* *Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2017

Diweddarwyd: 8 Mawrth 2017

Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaenraglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaenraglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Ebrill – Tachwedd 2017** ar y tudalennau dilynol.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2017

Diweddarwyd: 8 Mawrth 2017



| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Ebrill 2017** | | | |
| 1 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ebrill 2017 | |
| 2 | **Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant**<br><br>Cymeradwyaeth. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn cyn cyflwyno'r Asesiad i Lywodraeth Cymru. | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ebrill 2017 | |
| 3 | **Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni** | | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Dewi Williams<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng John Arwel Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ebrill 2017 | |
| | | | | **Mehefin 2017** | | | |
| 4 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2016/17**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2017

Diweddarwyd: 8 Mawrth 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 5 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Mehefin 2017 | |
| 6 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2016/17 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | I'w gytuno | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Mehefin 2017 | |
| 7 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2016/17 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | I'w gytuno | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Mehefin 2017 | |
| 8 | **Rhaglen Amlinellol Strategol Moderneiddio Ysgolion Môn – Band B (2019-2024)**<br><br>Cymeradwyo'r rhaglen amlinellol strategol. | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Mehefin 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2017

Diweddarwyd: 8 Mawrth 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Asesu Diogelwch Ffyrdd Cerdded i'r Ysgol**<br><br>Mabwysiadu trefn. | | Dysgu / Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Delyth Molyneux Pennaeth Dysgu / Dewi Williams Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Deilyddion portfolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Mehefin 2017 | |
| | | | | **Gorffennaf 2017** | | | |
| 10 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Gorffennaf 2017 | |
| 11 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni - Ymgynghoriad Statudol**<br><br>Ystyried adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol. | | Dysgu | Delyth Molyneux Pennaeth Dysgu<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Gorffennaf 2017 | |
| 12 | **Rhaglen Welliannau i'r Mân-ddaliadau - diweddariad** | | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Dewi Williams Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Deilydd portfolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Gorffennaf 2017 | |

Tudalen 31

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2017

Diweddarwyd: 8 Mawrth 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Medi 2017** | | | |
| 13 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017 | |
| 14 | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2016/17**<br><br>Cymeradwyaeth ac argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017 | 26 Medi 2017 |
| 15 | **Cynllun Corfforaethol 2017 – 2022**<br><br>Cymeradwyaeth ac argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017 | 26 Medi 2017 |
| 16 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2017/18 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | I'w gytuno | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2017

Diweddarwyd: 8 Mawrth 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2017/18 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | I'w gytuno | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017 | |
| **Hydref 2017** | | | | | | | |
| 18 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Hydref 2017 | |
| 19 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni - Achos Busnes Amlinellol**<br><br>Cymeradwyo'r achos busnes amlinellol. | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Hydref 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2017

Diweddarwyd: 8 Mawrth 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Tachwedd 2017** | | | |
| 20 | **Cyllideb 2018/19 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Deilydd portfolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>6 Tachwedd 2017 | |
| | | | | | | | |
| 21 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |
| 22 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2017/18 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | I'w gytuno | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |
| 23 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2017/18 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | I'w gytuno | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2017

Diweddarwyd: 8 Mawrth 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 24 | **Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgelloedd** | | Dysgu | Delyth Molyneux Pennaeth Dysgu<br><br>Deilydd Portffolio perthnasol | 13 Tachwedd 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |
| 25 | **Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant** | | Dysgu | Delyth Molyneux Pennaeth Dysgu<br><br>Deilydd Portffolio perthnasol | 14 Tachwedd 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL A'R PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **13 & 20 MAWRTH 2017** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 3 (2016/17)** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ALWYN ROWLANDS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **SCOTT ROWLEY** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.1** Hwn yw trydydd cerdyn sgorio ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17.

**1.2** Mae'n dangos sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol ar gyfer Chwarter 3.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

***1.3.1*** *Cydnabyddir meysydd sy'n tanberfformio (dangosyddion coch neu ambr ar y cerdyn sgorio) a sefydlir mesurau priodol ar gyfer eu gwella fydd yn cael eu cyflwyno i'r deilyddion portffolio yn fisol ac i'r byrddau rheoli cysylltiedig.*

***1.3.2*** *Parhau gyda'r panelau herio salwch a gynhelir yn rheolaidd sydd wedi bod yn allweddol o ran gwella ein ffigurau rheoli salwch hyd at Ch3.*

***1.3.3*** *Adroddir i'r Pwyllgorau Gwaith a Sgriwtini Corfforaethol ar y gwaith a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch materion salwch unwaith y bydd ar gael. Yna dylid mabwysiadu arferion gorau a gwneud gwelliannau pellach yn seiliedig ar arferion gorau cenedlaethol.*

***1.3.4*** *Mae'r Cynllun Gwella ar gyfer y Gwasanaethau Plant sydd wedi ei ddrafftio a'i alinio ag adroddiad AGGCC yn cael ei oruchwylio gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Panel Plant.*

***1.3.5*** *Darperir cymorth pellach i werthuso'r prosesau ar gyfer casglu'r*

*wybodaeth ar gyfer y dangosyddion yn y maes Dysgu yn ystod Ch4 ac yn y flwyddyn ariannol newydd*

**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| d/b |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Ystyriwyd y mater gan yr UDA yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror ac mae eu sylwadau wedi eu hadlewyrchu yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Sylwadau wedi'i cynnwys yn yr adroddiad |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **(TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad Monitro’r Cerdyn Sgorio – Chwarter 3, 2016/17 a’r Cerdyn Sgorio. |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| • Adroddiad monitro Cerdyn Sgorio 2016/17 - Chwarter 2 (fel y cafodd ei gyflwyno i’r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2016 a’i dderbyn ganddo). |

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 3 (2016/17)**

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Un o amcanion y Cyngor dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw sicrhau bod gennym ddull o dystiolaethu a chyflwyno gwelliant parhaus ar draws y sefydliad. I'r perwyl hwn, llunnir adroddiad ar berfformiad bob blwyddyn i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref sy'n dangos y cynnydd a wnaed neu'r diffyg cynnydd (fel sy'n berthnasol).

**1.2** Datblygwyd y cerdyn sgorio hwn i roi gwybod i arweinwyr y Cyngor am gynnydd a wneir yn erbyn dangosyddion sy'n dangos yn eglur bod gwaith dydd i ddydd y Cyngor yn cael ei wneud yn llwyddiannus ac i gynorthwyo i ddarparu sail dystiolaeth ar gyfer drafftio'r adroddiad ar berfformiad.

**1.3** Mae'r cerdyn sgorio (Atodiad 1) yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd Ch3 a bydd yn cael sylw pellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Tachwedd.

## 2. RHEOLI PERFFORMIAD

**2.1.1** Mae'r cerdyn sgorio ar gyfer Rheoli Perfformiad yn dangos perfformiad yn erbyn dangosyddion y gofynnwyd amdanynt gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**2.1.2** Ar ddiwedd Ch3, mae'n galonogol nodi bod y mwyafrif o'r dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau ond nodwn fod 5 o ddangosyddion yn tanberfformio ac yn Ambr neu'n Goch yn erbyn eu targed am y flwyddyn.

**2.1.3** Mae tri dangosydd o fewn y <u>Gwasanaethau Oedolion</u> nad ydynt yn perfformio cystal â'r targedau –

(i) LI/018b – AMBR - *% o ofalwyr ar gyfer Oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac sydd wedi cael asesiad neu adolygiad yn ystod y flwyddyn*. Ch3 – 87.5% Targed – 93%. Mae'r perfformiad yn well nag yr oedd yn Chwarter 3 yn 2015/16, sef 86.3%, ond mae dipyn yn fyr o'r targed.

Yn yr adroddiad ar Ch2 y camau lliniaru a nodwyd gan y gwasaneth oedd gwella'r DP hwn trwy ddefnyddio Gweithwyr Cymdeithasol i wneud asesiadau ac adolygu asesiadau yn ôl y gofyn. Mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i wella perfformiad yn erbyn y DP hwn yn ystod Ch3 ac felly mae'n hyderus y bydd modd cwrdd â'r targed ac mae wedi nodi bod angen adolygu 30 o gleientiaid cyn diwedd Ch4.

***Camau lliniaru*** – er mwyn gwella'r safonau hyn yn Ch4 bydd Gweithwyr Cymdeithasol yn gorffen yr asesiadau a oedd i fod i gael eu cwblhau ac yn cwblhau asesiadau ac adolygiadau newydd yn y tri mis nesaf, sef ar gyfer o leiaf 30 o gleientiaid, er mwyn cyrraedd y targed ar gyfer y flwyddyn.

(ii) PM18 – AMBR - Canran yr ymholiadau diogelu oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol. Ch3 – 81.25%, Targed – 90%. Mae'r DP hwn yn newydd ar

gyfer 2016/17 ac o'r herwydd, gellir ystyried y targed fel un uchelgeisiol. Fodd bynnag, mae'r perfformiad cyfredol cryn dipyn islaw'r hyn yr hoffai'r adran ei gyflawni.

Yn yr adroddiad ar Ch2 nododd y Gwasanaeth fod amseriadau ymchwiliadau gan asiantaethau partner yn cael effaith ar amserlenni a pherfformiad y dangosydd hwn. Mae'r materion hyn eto wedi'u codi mewn cyfarfodydd grŵp strategol a gwelwyd gwelliant bychan yn Ch3 o ganlyniad.

***Camau lliniaru*** – Mae'r mater yn parhau i gael ei godi yn y cyfarfodydd o'r grŵp strategol a gynhelir rhwng Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn ceisio ei ddatrys. Mae'n annhebygol y bydd modd cwrdd â'r targed ar gyfer y flwyddyn ond gwneir pob ymderch i fod cyn agosed â phosib i'r targed erbyn diwedd Ch 4.

(iii) PM19 – AMBR - Oedi gyda throsglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu'n hŷn. Ch3 – 5.8 Targed 1.5. Fel y DP uchod, mae hwn yn ddangosydd newydd ac mae'r targed yn un uchelgeisiol. Mae diffyg capasiti yn y maes gofal cartref yn cael effaith negyddol ar y DP hwn.

***Camau lliniaru*** – Mae'r camau lliniaru a nodwyd yn yr adroddiad Ch2 yn parhau i fod yn berthnasol. Mae cynllun trawsnewid yn mynd rhagddo i sicrhau capasiti gofal cartref mwy cynhwysfawr yn ystod 2017. Yn ychwanegol mae diffyg gwelyau gofal nyrsio EMI yn arwain at rywfaint o oedi. Er mwyn ymdrin â'r mater hwn mae'r gwasanaeth yn datblygu capasiti arbenigol ychwanegol mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd. Ni fydd modd cyrraedd y targed o 1.5 erbyn diwedd Ch4.

**2.1.4** Mae un dangosydd yn y Gwasanaethau Plant yn parhau i danberfformio fel a ganlyn –

(i) SCC/025 - y % o ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yr oedd angen eu cynnal yn ystod y flwyddyn ac a gynhaliwyd yn unol â rheoliadau yn Ch3 – 80% Targed – 100% **COCH**. Mae hyn yn cymharu gyda pherfformiad o 86.54% yn yr un cyfnod yn 2015/16. Trafodwyd y dangosydd hwn hefyd yn yr adroddiad ar gerdyn sgorio Ch2 a chredir bod bod perfformiad yn y dangosydd hwn wedi dirywio eto yn Chwarter 3 oherwydd cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd o 20% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ystod naw mis cyntaf y flwyddyn.

***Camau lliniaru*** – er mwyn gwella'r safonau hyn ar gyfer Ch4, gweithredir ar yr isod :

- Mwy o weithwyr cymdeithasol a defnyddio system dracio bob wythnos, ynghyd â system reoli newydd a ddyluniwyd i sicrhau bod ymweliadau'n cael eu gwneud pan fo staff ar eu gwyliau neu i ffwrdd o'u gwaith oherwydd salwch.
- Ni fydd y gwasanaeth yn cwrdd â'r targed ar gyfer y flwyddyn ond mae'r cynllun gwella gwasanaeth yn mynd i'r afael ar faterion sydd wedi arwain at y dirywiad mewn perfformiad sydd wedi digwydd ers i'r nifer o blant sy'n derbyn gofal cynyddu.

(ii) Arolygwyd y gwasanaeth gan AGGCC yn Ch3 a thrafodir argymhellion yr arolygiad a'r cynllun gwella ar gyfer cyflawni'r argymhellion hynny mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 13 Mawrth ac yn y Pwyllgor Gwaith ar 20 Mawrth.

**2.1.5** Un dangosydd newydd sydd bellach yn AMBR ar y Cerdyn Sgorio yw un o ddangosyddion y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd -

(I) LCS / 002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol Ch3 - 312k, Targed - 334k. Mae hyn 12k yn llai nag yn Ch3 15/16 (324k).

Un o'r prif resymau dros beidio cyrraedd y targed ar gyfer Ch3 oedd cau Canolfan Hamdden Caergybi am 3 mis dros yr haf, a arweiniodd at golli 12.5k o ymweliadau fe dybir. Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai'r ffigwr hwn yn cael ei gynnwys byddai'r gwasanaeth yn dal i fod 10k yn fyr o'r targed ar gyfer y flwyddyn. Mae pryderon bod pobl yn defnyddio'r cyfleusterau hamdden heb sweipio i mewn, sydd wedi arwain at ostyngiad yn y ffigyrau o ran faint o bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau. Mae rhai o'r cwsmeriaid hyn yn talu drwy Ddebyd Uniongyrchol ac nid ydynt eisiau disgwyl i sweipio i mewn wrth y ddesg flaen. Yr ateb delfrydol fyddai gosod system rwystr a fyddai'n golygu bod raid i ddefnyddwyr sweipio i mewn, gan arwain at gynnydd yn y ffigyrau o ran y niferoedd sy'n defnyddio'r ganolfan.

**Lliniaru –** Fel cam lliniaru tymor byr sy'n cael eu fabwysiadu yw darparu cwsmeriaid Debyd Uniongyrchol gyda taflen iddynt arwyddo fel gallant basio'r ciw ac yn dal i gael eu cynnwys mewn niferoedd cyfranogiag. Yr ateb yw gosod rhwystrau yn y derbynfeydd i roeli mynediad, cyfri rhifau cyfranogiad yn gywir, gwella iechyd a diogelwch, a chryfhau arferion diogelu

**2.1.6** Mae gweddill y dangosyddion yr adroddwyd arnynt ar gyfer Ch3 yn **WYRDD** neu'n **FELYN** yn y rhan sy'n ymwneud â rheoli perfformiad.


**2.1.7** Mae Atodiad 2 yn dangos y rhaglen gyfan o waith y mae'r ddau Fwrdd Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol yn eu goruchwylio. Er bod statws rhai o'r rhaglenni / prosiectau yn GOCH, mae'n bwysig nodi bod y materion a amlygwyd yn cael eu rheoli a'u monitro drwy gyfrwng y Byrddau sy'n cyfarfod bob dau fis.

## 2.2 RHEOLI POBL

**2.2.1** O ran Rheoli Pobl, nodir bod perfformiad y Cyngor o safbwynt cyfraddau salwch (*dangosydd 3 ar y cerdyn sgorio dan 'rheoli pobl')* yn dangos gwelliant sylweddol ar ddiwedd Ch3 (7.21 Diwrnod o Salwch fesul pob aelod o staff ALIC) o gymharu â'r llynedd (8.43 Diwrnod o Salwch fesul pob aelod o staff ALIC), cyfartaledd o 3110 diwrnodau yn well na yn 2015/16.

**2.2.2** Mae hyn yn awgrymu y rhagwelir y bydd y cyfraddau salwch erbyn diwedd y flwyddyn (os bydd y tueddiadau yn parhau fel yn y ddwy flynedd diwethaf, h.y. cyfraddau salwch


uwch yn Ch3 a Ch4 nag yn Ch1 a Ch2) yn cyfateb i 10.5 o ddyddiau o salwch ar gyfer pob gweithiwr llawn amser (Tabl 1). Fodd bynnag, os bydd y perfformiad cryf Ch3 yn parhau yn Ch 4 mae'n debygol y llwyddir i gwrdd â'r targed o 10 diwrnod.




Tabl 1


**2.2.3** Mae perfformiad y Gwasanaethau yn erbyn y targedau hyn ar gyfer Ch3 yn nodi mai dim ond 2 o Wasanaethau sy'n GOCH o gymharu â'u targedau ar gyfer y chwarter:

- Gwasanaethau Plant - COCH – 11.11 o ddiwrnodau o salwch fesul ALIC (Targed 7.58). Mae'r gwasanaeth wedi gwella eu salwch yn sylweddol yn ystod Ch3 (Tabl 2)





Tabl 2

- Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo - COCH – 8.30 o ddiwrnodau o salwch fesul ALlC (Targed o 7.13). Gwelodd y gwasanaeth dirywiad yn eu cyfraddau salwch yn ystod Ch3 (Tabl 3). Mae'r gostyngiad hwn yn bennaf i lawr at y cynnydd mewn salwch tymor hir oedd yn cyfateb i 56% o'r salwch ar gyfer y flwyddyn hyd at ddiwedd Chwarter 3.




Tabl 3


**2.2.4** Un o’r prif resymau am beidio â chyrraedd ein targed corfforaethol ar gyfer 2015/16 oedd y cynnydd yn yr achosion Salwch Tymor Hir a oedd yn cyfateb i 58% o’r cyfanswm dyddiau a gollwyd oherwydd salwch blwyddyn diwethaf. Fodd bynnag, gwelwyd gwelliant yn Ch 3 2016/17 o gymharu â Ch 3 2015/16, pryd collwyd 2800 o ddyddiau oherwydd salwch o gymharu â 3800 (gweler tabl 4 isod). Gwelliant o 1000 diwrnodau.




Tabl 4

**2.2.5** Roedd salwch tymor hir yn cyfateb i 54% o'n cyfraddau salwch ar gyfer Ch3 o gymharu â 59% am yr un cyfnod yn 2015/16. Mae hyn yn welliant ar le roedd y Cyngor y llynedd ac mae wedi bod yn allweddol i'r Cyngor cyrraedd y targed ar ddiwedd Ch3.

**2.2.6** O ran salwch tymor byr, mae'r gymhariaeth gyda blynyddoedd cynt yn dangos bod y sefyllfa wedi gwella erbyn hyn. Yn wir, ar gyfer y 9 mis cyntaf y flwyddyn (cyfanswm cronnus) collwyd 350 yn llai o ddyddiau oherwydd salwch tymor byr o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Fodd bynnag, mae'r ymgyrch i leihau cyfraddau salwch tymor byr yn parhau, a gellir gweld effaith hynny yn Ch3 sy'n welliant o 640 o ddiwrnodau o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (Tabl 5).




Tabl 5

**2.2.7** Mae 'rheoli' salwch yn gysylltiedig â chyfraddau salwch. Mae cydymffurfiaeth y staff gyda pholisïau salwch corfforaethol yn rhan annatod o'r broses reoli o fewn y Cyngor ac mae hynny'n cynnwys y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a'r Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb *(dangosyddion 7 i 9 ar y cerdyn sgorio).*

**2.2.8** Mae'r Cyngor yn parhau i ymgorffori arfer gwaith yma ar draws ei wasanaethau ac yn perfformio'n dda yn erbyn ei targed cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith (RTW) o fewn amserlen (h.y. 5 diwrnod gwaith) yn gweithredu ar gyfradd llwyddiant o 78%, tra bod cyfanswm o gyfweliadau RTW yn gweithredu ar 90% gyfradd llwyddiant.

**2.2.9** Argymhellodd yr UDA yn 2015/16, y dylid rhoi rhagor o sylw i reoli'r achosion hynny o absenoldebau salwch tymor byr ailadroddus sy'n cyrraedd pwyntiau sbardun a lle mae'n rhaid cynnal cyfarfodydd adolygu presenoldeb (CAP). Mae'r rhain yn parhaui i gael sylw yn y Panelau Herio Salwch.

**2.2.10** Mae ffigurau CAP ar gyfer Ch3 wedi aros yr un peth a Ch2 ar 75% (nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys ysgolion). Er nad oes unrhyw welliant wedi ei wneud yn y chwarter, mae Adnoddau Dynol wedi nodi bod ansawdd y CAP wedi gwella'n sylweddol.

**2.2.11** Nid yw'r ffigyrau yr adroddwyd arnynt yn ystadegau salwch eleni'n cynnwys y diwrnodau o salwch a gymerwyd oherwydd profedigaeth (750 diwrnod). Petaem yn cynnwys profedigaethau yn y swm, byddem yn parhau i weld gwelliant bychan (7.54 diwrnod fesul pob aelod o staff ALlC). Gwnaed y newid hwn i'r modd y caiff y ffigyrau eu gweithio allan er mwyn cwrdd â'r canllawiau a ddarparwyd gan Uned Ddata Cymru ar gyfer y dangosydd perfformiad cenedlaethol.

**2.4.12** ***Mae'r UDA yn argymell felly:***

- *Parhau gyda'r panelau a gynhelir yn rheolaidd i herio gwasanaethau mewn perthynas â chyfraddau salwch er mwyn cadw'r ffocws ar wella ein ffigyrau rheoli absenoldeb.*

- *Nid yw'r adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â rheoli absenoldebau wedi dod i alw hyd yma ond mae'r bwriad yn parhau i adroddir arno i'r Pwyllgorau Gwaiith a Sgriwtini Corfforaethol pan fydd ar gael.*

## 2.3 GWASANAETH CWSMER

**2.3.1** Mae dau o'r dangosyddion newydd o ran newid sianelau yn edrych ar lansio ApMôn yn llwyddiannus. Mae pobl wedi defnyddio'r dechnoleg i roi gwybod am 248 o faterion sydd angen sylw hyd at ddiwedd Ch3. (ynghylch, er enghraifft, gadael gwastraff yn anghyfreithlon, goleuadau stryd diffygiol, canmoliaethau neu gwynion, pafinau wedi torri, ffurflenni data-bas clybiau chwaraeon ac archebu biniau ailgylchu). Yn anffodus, nid ydym ar hyn o bryd yn medru rhoi gwybod faint o weithiau y mae ApMôn wedi ei lawrlwytho.

**2.3.2** Mae'r dangosyddion sy'n weddill yn canolbwyntio ar y wefan a'n presenoldeb ar y cyfryngau cyhoeddus. Cafwyd 395k o ymweliadau unigol i'r wefan yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn. Mae ein presenoldeb ar y cyfryngau cyhoeddus wedi arwain at 20k o gyfrifon cyfryngau cyhoeddus yn ein dilyn - Facebook (9k o ddilynwyr) a Twitter (11k o ddilynwyr).

**2.3.3** O ran Rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid, roedd 52 o gwynion wedi dod i law erbyn diwedd Ch3 ac un gŵyn Cam 2 yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ymatebwyd i'r holl gwynion ac o'r rhain, cadarnhawyd 6 ohonynt yn llawn (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd [1]), Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [2] ac Adnoddau [3]. Cadarnhawyd 8 yn rhannol (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd [1], Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [4] a Tai [3]) ac ni chadarnhawyd y 35 oedd yn weddill. Mae'r Bwrdd Rhagoriaeth Gwasaanethau Cwsmer yn cael gwybod am y rhain ac yn eu monitro.

**2.3.4** Ymatebwyd i 77% o'r cwynion o fewn yr amserlen ond roedd 23 o ymatebion hwyr (Gwasanaethau Oedolion [5], Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [1], Tai [1],Gwastraff a Thai [1]. Busnes y Cyngor [1] a Gwasanaethau Plant [14]. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o'r 64% a gafwyd ar ddiwedd 2015/16 ond mae'n parhau i fod ychydig yn is na'r targed o 80%.

**2.3.5** Ymatebwyd i 73% o'r ceisiadau am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth erbyn diwedd Ch3 o gymharu â 67% ar ddiwedd 2015/16. Mae hon yn welliant sylweddol flwyddyn ar flwyddyn wrth gofio bod y Cyngor wedi delio â mwy na 4000 o gwestiynau yn y 3 chwarter cyntaf 2016/17.

**2.3.6** Cafwyd 704 o geisiadau DRhG ar ôl Ch3 gyda 189 o ymatebion hwyr. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion hwyr o'r Gwasanaeth Adnoddau,sef 37% o'r ymatebion hwyr (59% o'r 119 a dderbyniwyd gan y gwasanaeth, sy'n debyg i'r 60% o ymatebion hwyr yn Ch2). Mae hyn wedi cael ei adnabod gan y Pennaeth Gwasanaeth fel maes gwella a mae newidiadau i'r systemau yn y ffordd mae Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu prosesu mewn lle fydd yn arwain at welliant yn ystod y chwarter 4. Mae gwasanaethau eraill yn cynnwys y Gwasanaethau Dysgu gyda 16% (52% o'r 58 a dderbyniwyd gan y gwasanaeth), Gwasanaethau Cymdeithasol gyda 14% (19% o'r 139 a dderbyniwyd yn y gwasanaeth) a Rheoleiddio a Datblygu Economaidd gyda 14% (33% o'r 108 a dderbyniodd y gwasanaeth). Mae ein hymateb i'r ceisiadau hyn y bwysig ac mae'r UDA a'r Penaethiad Gwasanaeth yn monitro perfformiad yn y maes hwn yn agos.

**2.3.7** Mae'r ymarfer Siopwr Cudd (eitemau 16-19 ar y cerdyn sgorio) yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a bydd wedi ei gwblhau erbyn Ch4. Unwaith eto, y Grŵp Ymgynghorol Tenantiaid sydd yn cynnal yr ymarferiad. Adroddir ar gasgliadau ac argymhellion eu hadroddiad yma yn Ch4.

## 2.4 RHEOLAETH ARIANNOL

**2.4.1** Rhagwelir gorwariant o £16k (0.01%) ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2017.

**2.4.2** Rhagwelir £756k o orwariant ar gyllidebau'r gwasanaethau, er rhaid pwysleisio bod hyn yn cynnwys nifer o orwariannau a thanwariannau. Y gwasanaethau sy'n parhau i deimlo pwysau ar eu cyllidebau yw'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a'r Gwasanaethau Plant. Mae hynny oherwydd costau lleoliadau arbenigol statudol ac mae gallu'r gwasanaethau i reoli'r costau hyn yn gyfyngedig. Disgwylir i'r gorwariant ar wasanaethau gael ei ariannu gan danwariant Cyllid Corfforaethol o £1.004m, sydd wedi digwydd yn bennaf oherwydd tanwariant ar y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac arbedion ar Ariannu Corfforaethol. Yn ogystal, amcangyfrifir y cesglir £264k yn llai o Dreth Gyngor na'r disgwyl, yn bennaf oherwydd bod angen darparu ar gyfer dyledion drwg.

**2.4.3** Dylid nodi mai rhagolygon yw'r rhain ac y bydd materion sydd y tu allan i reolaeth y Cyngor, megis tywydd garw, yn cael effaith ar wariant, ond ni ellir eu cynnwys yn y rhagolwg hwn. Gall rhagolygon newid wrth i wybodaeth newydd ddod i law. Fodd bynnag, bydd sgriwtini rheolaidd gan yr UDA a chamau adferol gan y Penaethiaid Gwasanaeth yn helpu'r gwasanaethau i ymdopi o fewn y cyllidebau y gallant eu rheoli.

**2.4.4** Gellir cael rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol yn yr Adroddiad ar Fonitro Cyllideb Refeniw ar gyfer Ch3 sydd wedi'i adrodd i'r Pwyllgorau Gwaith a Sgriwtini Corfforaethol ym mis Chwefror.

## 3. ARGYMHELLION

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

**3.1.1** Cydnabyddir meysydd sy'n tanberfformio (dangosyddion coch neu ambr ar y cerdyn sgorio) a sefydlir mesurau priodol ar gyfer eu gwella, fydd yn cael eu cyflwyno i'r deilyddion portffolio yn fisol ac i'r byrddau rheoli cysylltiedig.

.

**3.1.2** Parhau gyda'r panelau herio salwch a gynhelir yn rheolaidd sydd wedi bod yn allweddol o ran gwella ein ffigurau rheoli salwch hyd at Ch3.

**3.1.3** Adroddir i'r Pwyllgorau Gwaith a Sgriwtini Corfforaethol ar y gwaith a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch materion salwch unwaith y bydd ar gael. Yna dylid mabwysiadu arferion gorau a gwneud gwelliannau pellach yn seiliedig ar arferion gorau cenedlaethol.

**3.1.4** Mae'r Cynllun Gwella ar gyfer y Gwasanaethau Plant sydd wedi ei ddrafftio a'i alinio ag adroddiad AGGCC yn cael ei oruchwylio gan yr Panel Plant a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth

**3.1.5** Darperir cymorth pellach i werthuso'r prosesau ar gyfer casglu'r wybodaeth ar gyfer y dangosyddion yn y maes Dysgu yn ystod Ch4 ac yn y flwyddyn ariannol newydd

**3.1.6** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 15/16 Result | Canlyniad 14/15 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Melyn / Yellow | ↑ | 52 | 49 | 59 | 65 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | - | 1 | - | 5 | |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | - | 14 | - | 21 | |
| 04) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod | Melyn / Yellow | ↓ | 77% | 80% | 64% | |
| 05) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | ↓ | 125 | - | 261 | 71 |
| 06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | - | 43 | - | 53 | |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | ↑ | 465 | - | 712 | 521 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Melyn / Yellow | ↓ | 73% | 80% | 67% | 65% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | - | - | 704 | - | 854 | 894 |
| 10) % o'r galwadau ffôn heb ei ateb | - | - | - | 15% | 12% | |
| 11) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn | - | - | - | - | - | |
| 12) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 248 | - | - | |
| 13) Nifer o daliadau dros y we | - | - | - | - | - | |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | ↑ | 20k | - | - | |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↓ | 395k | - | - | |
| 16) % o gyfathrebu ysgrifenedig a atebwyd o fewn 15 diwrnod gwaith o'u derbyn (Siopwr Cudd) | - | - | - | - | - | |
| 17) % o ymatebion ysgrifenedig mewn dewis iaith y cwsmer (Siopwr Cudd) | - | - | - | - | - | |
| 18) % o alwadau ffôn a atebwyd yn ddwyieithog (Siopwr Cudd) | - | - | - | - | - | |
| 19) % y staff a gymerodd y cyfrifoldeb am ymholiad y cwsmer (Siopwr Cudd) | - | - | - | - | - | |

| People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 15/16 Result | Canlyniad 14/15 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2258 | - | 2310 | 2336 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1250 | - | 1303 | 1362 |
| 03) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 7.21 | 7.2 | 11.68 | 11.53 |
| 04) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 3.33 | - | 4.89 | 5.49 |
| 05) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 3.88 | - | 6.79 | 6.04 |
| 06) % o salwch sy'n gysylltiedig â straen | Gwyrdd / Green | ↓ | 7% | 9% | 7% | 5% |
| 07) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd o fewn yr amserlen | Melyn / Yellow | ↓ | 78% | 80% | 84% | 85% |
| 08) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd | Melyn / Yellow | ↓ | 90% | 95% | - | |
| 09) % o Gyfarfodydd Adolygu Phresenoldeb (CAP) a gynhaliwyd | Melyn / Yellow | - | 74% | 80% | - | |
| 10) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynddol) | - | - | - | - | - | |
| 11) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen | Gwyrdd / Green | - | 85.50% | 80% | - | |
| 12) % y staff sydd a Thystysgrif DBS (os oes angen o fewn eu rôl) | - | - | - | - | 98% | |
| 13) Nifer o staff Asiantaeth | - | → | 21 | - | 26 | 21 |
| 14) Arolwg Staff (Bodlonrwydd Staff) - i'w gadarnhau | - | - | - | - | - | |
| 15) Arolwg Staff (Bodlonrwydd Staff) - i'w gadarnhau | | | | | | |
| 16) Arolwg Staff (Bodlonrwydd Staff) - i'w gadarnhau | | | | | | |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Gwyrdd / Green | ↑ | £124,037,000 | - | - | £124,053,000 | 0.01% |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | - | ↓ | £52,863,268 | - | - | £38,786,031 | -26.63% |
| 03) Amrywiad yn y Gyllideb ar gyfer Talu Cyflogau hyd yma yn y Flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | £61,623,633 | £61,705,719 | 0.13% | - | - |
| 04) % y Gyllideb a wariwyd ar Gyflogau | - | - | - | - | 62.50% | - | - |
| 05) Cost staff asiantaeth | Coch / Red | ↓ | £173,451 | £984,885 | 467.82% | - | - |
| 06) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Coch / Red | ↑ | - | - | -1.91% | - | - |
| 07) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | - | - | - | - | -19.10% | - | - |
| 08) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↑ | - | - | 8.22% | - | - |
| 09) Swm a fenthycwyd | - | - | - | £110M | - | - | - |
| 10) Chost benthyca | - | - | - | - | - | £8,450,000 | - |
| 11) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | Ambr / Amber | - | - | 81.58% | - | - | - |
| 12) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | - | 98.40% | - | - | - |
| 13) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | - | 98.90% | - | - | - |
| 14) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | - | 96.50% | - | - | - |
| 15) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | - | - | - | - | - | - |
| 16) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | - | - | - | - | - | - |

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 15/16 Result | Canlyniad 14/15 Result | Chwartel 15/16 Quartile |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) SCA/002b: Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | Gwyrdd / Green | ↑ | 19.87 | 22 | 20.3 | 22 | Isaf / Lower |
| 02) Ll/18b Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Ambr / Amber | ↑ | 87.5 | 93 | 90.8 | 93 | - |
| 03) PM18 - Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Ambr / Amber | ↑ | 81.25 | 90 | - | - | - |
| 04) PM19 - Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd | Ambr / Amber | ↓ | 5.8 | 1.5 | - | - | - |
| 05) PM20a - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | - | - | 50 | - | - | - | - |
| 06) PM20b - The percentage of adults who completed a period of reablement and have no package of care and support 6 months later | - | - | 33.3 | - | - | - | - |
| 07) SCC/025: % yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Coch / Red | ↓ | 80 | 100 | 82.79 | 93.53 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 08) PM24 - Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn terfynau statudol (42 diwrnod gwaith) | Gwyrdd / Green | ↓ | 92.67 | 100 | - | - | - |
| 09) PM32 - Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi (1) neu ragor o achosion o symud ysgol, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddent yn drefniadau dros dro, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth | Melyn / Yellow | ↑ | 13.25 | 15 | - | - | - |
| 10) PM33 - Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 5.22 | 8 | - | - | - |
| 11) Presenoldeb – Cynradd (%) | - | - | - | - | - | - | - |
| 12) Presenoldeb – Uwchradd (%) | - | - | - | - | - | - | - |
| 13) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Cynradd | - | - | - | - | - | - | - |
| 14) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Uwchradd | - | - | - | - | - | - | - |
| 15) CA4 – % y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni L2+ | - | ↑ | 58.8 | - | 56.9 | 53.8 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 16) CA3 - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC | - | ↑ | 87.6 | - | 84.5 | 83.6 | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 17) CA2 - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC | - | ↓ | 89.4 | - | 91.8 | 87.8 | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 18) CS - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC/DCS | - | ↓ | 84.7 | - | 86.2 | 84.6 | Isaf / Lower |
| 19) LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 213k | 210k | 289k | 285k | Isaf / Lower |
| 20) LCL/004: Nifer y deunyddiau llyfrgell a roddwyd allan yn ystod y flwyddyn | - | - | - | 75k | 284k | 305k | - |
| 21) Nifer yr ymgeiswyr gyda phlant sy'n ddibynyddion iddynt y mae'r Cyngor wedi sicrhau llety gwely a brecwast iddynt (llety nad yw'n hunangynhaliol) | Gwyrdd / Green | → | 0 | - | 0 | - | - |
| 22) % y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol | Gwyrdd / Green | ↑ | 94.1 | 92 | 89.5 | 92 | - |
| 23) Cynhyrchiant y gweithlu – % yr amser sy'n cael ei gategoreiddio fel amser cynhyrchiol | Gwyrdd / Green | ↓ | 79.7 | 75 | 74.6 | - | - |
| 24) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | - | ↓ | 30.8 | 25 | 33.7 | 25 | - |
| 25) STS/005b: Canran y priffyrdd a archwiliwyd sydd o safon uchel neu dderbyniol o ran glanweithdra | Melyn / Yellow | ↓ | 92 | 94 | 95.1 | 95 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 26) STS/006: Canran yr achosion o adael gwastraff yn anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith, ar ôl i rywun adrodd amdanynt | Gwyrdd / Green | ↑ | 96.7 | 96.7 | 94 | 95 | Uchaf / Upper |
| 27) WMT/009b: Canran y gwastraff sirol a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac a baratowyd i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu | Gwyrdd / Green | ↑ | 65 | 60 | 59.5 | 58 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 28) WMT/004b: Canran y gwastraff sirol a anfonwyd i'w dirlenwi | Gwyrdd / Green | ↑ | 8.3 | 22 | 16.9 | 41 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 29) THS/011c: % y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan (blynyddol) | - | - | - | 13.5 | 13.5 | 15 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 30) Nifer y bobl ifanc sydd wedi mynychu rhaglenni gweithgareddau datblygu chwaraeon / gweithgareddau allgymorth | Gwyrdd / Green | ↑ | 94k | 50k | 132k | 85k | - |
| 31) LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol | Ambr / Amber | ↓ | 312k | 334k | 458k | 540k | Canolrif Isaf / Lower Median |

Atodiad 2 Diweddariad Chwarter 3

ALLWEDD LLIW (RAG): Cwblhawyd Ar y gweill Ar ei hôl hi – angen penderfyniadau allweddol/cefnogaeth Hwyr (gwyn = heb ddechrau)



| Rhaglen / Prosiect | Prosiectau Cysylltiedig | RAYG a Diweddariad byr |
|---|---|---|
| Moderneiddio Ysgolion | Ardal y Llannau | Strwythur allanol yr adeilad bellach wedi ei gwblhau. |
| | Ardal Caergybi | Y prosiect yn parhau i ddatblygu'n dda ac yn gweithredu ar amser. Dyddiad gorffen y prosiect yn parhau sef diwedd Mawrth 2017 |
| | Bro Rhosyr a Bro Aberffraw | Amserlen ar gyfer cyflwyno'r Achos Busnes Llawn fel a ganlyn - gerbron y Pwyllgor Gwaith ar 13eg Chwefror a chyflwyno i Banel Cyfalaf LlC ym mis Chwefror / Mawrth 2017 |
| | Llangefni | Pwyllgor Gwaith ar 19eg Rhagfyr wedi penderfynnu awdurdodi swyddogion i fynd ymlaen i'r broses ymgynghori ffurfiol neu statudol ac ymgynghori ar yr opsiynau dasn sylw |
| Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn – Prosiect Opsiynau Gwella Llety | Gofal Ychwanegol Llangefni | Mae gwaith paratoi'r safle ar gyfer adeiladu yn parhau ar hen safle Ysgol y Bont. Mae cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Gweithredol Hafan Cefni yn cael eu cynnal. Disgwylir i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau erbyn Haf 2018. |
| | Gofal Ychwanegol Amlwch | Y gwaith yn ardal Amlwch mewn sefyllfa o Oedi ac Adolygu tan 2018 |
| | Gofal Ychwanegol De'r Ynys | Ystyriaethau holistaidd ar gyfer ardal newydd yn cael eu cysidro gan y Bwrdd |
| | Gofal Ychwanegol Garreglwyd | |
| | Byw â Chymorth | Cadarnhad pellach o strategaeth risg y prosiect ei angen yn ogystal ac ail-asesiad o'r sefyllfa ariannol cysylltiedig |
| | Tendro Gwasanaeth Gofal Cartref | |
| | Allanoli Gwasanaethau wardeniaid | |
| Trawsnewid llyfrgelloedd, gwasanaeth ieuenctid, amgueddfeydd a diwylliant | Trawsnewid Amgueddfeydd a Diwylliant | Amserlen ddiwygiedig wedi ei gytuno gan y Bwrdd Trawsnewid Llyfrgelloedd, Diwylliant a Ieuenctid ar y 20/12/2016 |
| | Ailfodelu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd | Amserlen ddiwygiedig wedi ei gytuno gan y Bwrdd Trawsnewid Llyfrgelloedd, Diwylliant a Ieuenctid ar y 20/12/2016 – model newydd mewn lle erbyn Ionawr 2018 |
| | Adolygiad Gwasanaeth Ieuenctid | Yr adrodd ar yr ail-fodelu arfaethedig y gwasanaeth Ieuenctid yn cael ei gyflwyno i'r PG wedi ei ymestyn i'r 13/02/2017 i gyd fynd ar ymgynghoriad ar y gyllideb |
| Hamdden | | |
| Ynys Ynni | | Wedi cael eu gwahodd i'r Bwrdd mis **Ionawr 2017** i roi diweddariad ar ddyfodol y rhaglen |
| Lleoedd Llewyrchus, Llawn Addewid (VVP) | | Yn symud ymlaen yn ei gyfanrwydd yn iawn. Rhai risgiau wedi'i cydnabod fel a nodir isod gyda Neuadd y Farchnad |
| Market Hall | | Cyflwynwyd a derbyniwyd adroddiad ar y mater I'r PG ar y 19eg o Ragfyr. Yr oedd yn adroddiad Rhan II gan ei fod yn digwydd yn ystod cyfnod o dendr byw ar y pryd. |
| Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) | DIM DIWEDDARIAD | |
| Cynllun Rheoli Cyrchfan (CRhC) | | Cynllun Datblygu Cyrchfan wedi ei fabwsyiadu'n gorfforaethol gan y PG. Angen gwell dealltwriaeth o beth sy'n ddisgwyliedig gan y Cyngor parthed ei wireddiad |
| Gwerthuso Swyddi a Statws Sengl | | |
| Cyswllt Adnoddau - Northgate (AD) | | |
| Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid | | |
| Caffael | | |
| Effeithlonrwydd Ynni | | |
| Parhad Busnes | | |

ALLWEDD LLIW (RAG): Cwblhawyd Ar y gweill Ar ei hôl hi – angen penderfyniadau allweddol/cefnogaeth Hwyr (gwyn = heb ddechrau)

| | | |
|---|---|---|
| **Strategaeth TGCh** | | |
| **Moderneiddio a Chydlynu Cyngor am Fudd-daliadau** | | |
| **WCCIS** | | |
| **Rheoli Polisi** | | |

## Prosiectau a gwblhawyd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwelliannau Civica** | Busnes fel arfer i Adnoddau bellach | | | |
| **Gweithio'n Gallach** | Asedau | TGCh | Datblygu Gweithlu | Cyswllt Môn |
| **Tai Fforddiadwy** | Prosiect wedi newid. O ganlyniad y Bwrdd wedi cytuno i'w dynnu. Yr USC wedi cytuno i roi diweddariad i'r Bwrdd o ddatblygiadau cysylltiedig i'r dyfodol, dyddiad i'w gytuno | | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **20 MAWRTH, 2017** |
| **PWNC:** | **Y POLISI TALIADAU TAI DEWISOL AR GYFER 2017/2018 A'R BLYNYDDIOEDD DILYNOL** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD HYWEL EIFION JONES (AELOD PORTFFOLIO - CYLLID)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES (PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A'R SWYDDOG ADRAN 151)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br><br>FFÔN:<br>E-BOST: | **RUSSELL WILLIAMS, RHEOLWR BUDD-DAL A GERAINT JONES, RHEOLWR GWASANAETHAU REFENIW A BUDD-DALIADAU**<br>**01248 752212**<br>**RussellWilliams@ynysmon.gov.uk** |
| | **AMHERTHNASOL** |

**A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

**ARGYMHELLION**

Cymeradwyo'r Polisi Lleol diwygiedig ar gyfer y cynllunTaliadau Tai Dewisol (TTD) o 4 Ebrill 2017 ar gyfer y flwyddyn 2017/18 a'r blynyddoedd dilynol (gweler Atodiad A).

Sicrhau bod y cyfanswm a gaiff ei wario ar Daliadau Tai Dewisol yn y flwyddyn ariannol yn parhau i gyfateb yn fras i'r swm a ddyrannwyd ar gyfer y cynllun gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGP).

**RHESYMAU A CHEFNDIR**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Pwyllgor Gwaith am weithrediad y cynllun TTD yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17 a'i hysbysu o unrhyw newidiadau ar gyfer y dyfodol.

**TALIADAU TAI DEWISOL**

Mae TTD yn rhoi 'cymorth ariannol pellach' i hawlwyr gwrdd â'u costau tai, ar ben unrhyw fudd-daliadau lles eraill y maent yn eu derbyn, os yw'r Awdurdod Lleol yn ystyried bod cymorth ychwanegol o'r fath yn angenrheidiol.

Rhaid gwneud y taliadau o fewn y cyfyngiadau ariannol cyffredinol a bennir gan yr AGP. Bydd yr AGP yn rhoi swm i'r Awdurdod Lleol (ALl) bob blwyddyn *(Cyfraniad y Llywodraeth)* tuag at weinyddu'r cynllun. Gall A Ll ychwanegu 150% at Gyfraniad y Llywodraeth (*cyfanswm* a ganiateir) os ydynt yn dymuno. Byddai unrhyw daliadau sy'n uwch na'r cyfanswm a ganiateir yn anghyfreithlon.

**NEWIDIADAU A ARGYMHELLIR I'R POLISI TTD AR GYFER 2017/18**

Yn dilyn mesurau diwygio lles Ebrill 2013, mae'r galw am TTD wedi cynyddu'n sylweddol. Er mwyn cymryd i ystyriaeth y cynnydd yn y galw ac effeithiau canllawiau diwygiedig yr AGP ar gyfer gwneud taliadau, diwygiwyd a diweddarwyd polisi TTD y Cyngor bob blwyddyn. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, roedd arwyddion bod patrwm y ceisiadau a'r taliadau yn parhau i newid, ond i raddau llai; adlewyrchir y newidiadau hyn yn y mân ddiwygiadau i'r polisi a argymhellir ar gyfer 2017/18 (a'r blynyddoedd dilynol), sef: -

- Ystyrir TTD yn awr pan fo hawlydd budd-dal tai wedi derbyn tenantiaeth eiddo newydd ond heb symud i mewn ac yn dal i dderbyn Budd-dal Tai. Bydd y rhesymau pam nad yw'r hawlydd wedi symud i mewn yn cael sylw er mwyn sefydlu a ydynt yn rhesymol. Deuir i gasgliad wedyn ynghylch a fyddent wedi medru symud i mewn ar ddechrau'r denantiaeth (paragraff 2.2 diwygiedig);

- Wrth ystyried cais am TTD, os yw budd-dal tai a ordalwyd yn cael ei adennill o fudd-dal a delir ar hyn o bryd, ystyrir yn awr a ellir gostwng y gyfradd adennill (paragraff 2.4 diwygiedig);

- Ychwanegu cyfeiriad at baragraff 6.13 ym mharagraff 4.2;

- Os gwrthodir cais am TTD oherwydd yr ystyriwyd bod yr ymgeisydd yn byw y tu hwnt i'w fodd yn afresymol, gan olygu felly bod y fath wariant wedi cael ei anwybyddu wrth asesu'r cais, bydd raid darparu eglurhad llawn yn awr am y penderfyniad hwnnw (paragraff 6.5 diwygiedig);

- Bydd taliad net o Gredyd Treth yn cael ei drin yn awr fel incwm (nid y taliad Gros) os ad-delir Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith o flwyddyn flaenorol o daliad a wneir ar hyn o bryd. Mae hyn bellach yn cyd-fynd â rheolau Budd-dal Tai (paragraff 6.13 diwygiedig).

**DADANSODDIAD O FLWYDDYN 2016/2017 HYD YMA**

Y grant gan yr AGP i'r Cyngor ar gyfer TTD yn 2016/17 oedd £136,898.00. Caniateir gwario mwy na'r swm hwn ond byddai'n rhaid i'r Cyngor ei gyllido.

Mae cyfuniad o alw amrywiol a chanllawiau diwygiedig yr AGP yn golygu ei bod yn gynyddol anodd i daro cydbwysedd priodol rhwng gwario'r cyfan o'r arian sydd ar gael gan yr AGP ar gyfer TTD a sicrhau nad oes unrhyw orwariant sylweddol nad oes gan y Cyngor unrhyw ddarpariaeth ar ei gyfer yn y gyllideb.

Y prif ffactorau i'w nodi o ran gweinyddu'r cynllun TTD am y flwyddyn ariannol hon yw: -

- Mae effeithiau'r Cymhorthdal Ystafell Sbâr (treth ystafell wely) yn parhau i fod yn sylweddol. Mae 58% o'r holl geisiadau am TTD yn ymwneud â hynny, o'i gymharu â 49.5% yn y flwyddyn flaenorol;

- Pery'r galw i gwrdd â chostau 'unwaith ac am byth' megis blaendaliadau rhent, costau symud a rhent o flaen llaw. Mae'r ceisiadau hyn bellach yn 12.4% o'r holl geisiadau am TTD (15.7% yn 2015/2016). Gall y costau hyn fod yn sylweddol, yn enwedig os hawlir pob un o'r tair elfen;

- Mae effaith cap is ar lefelau budd-dal a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn wedi bod yn llai na'r disgwyl;

- Mae swm cyfartalog TTD yn y sector preifat yn sgil rhewi'r Lwfans Tai Lleol yn sylweddol uwch oherwydd lefel y rhenti preifat;

- 'Roedd bron i 35% o'r taliadau ar gyfer ymgeiswyr oedd wrthi'n chwilio am waith;

- Mae 23% o'r taliadau am resymau nad ydynt yn ymwneud â Diwygio Lles.

Ar 7 Chwefror, 2017, 'roedd y gwariant cyffredinol ar TTD (arian a wariwyd ac a ymrwymwyd) yn dod i gyfanswm o £128,907.84 (94.2% o'r cyllid sydd ar gael). Mae hyn yn gadael swm o £7,990.16 i'w wario dros weddill y flwyddyn ariannol hon. Rhagwelir y bydd y gwariant yn cyfateb i'r swm a gafwyd gan yr AGP ar gyfer y flwyddyn neu ychydig yn is.

Cafwyd 639 o geisiadau TTD hyd at 7 Chwefror, 2017 ac, o'r rhain: -

- Cymeradwywyd 393 i'w talu (62%);
- Gwrthodwyd 246 (38%);

Mae'r tablau isod yn dangos sut mae Diwygiadau Lles wedi effeithio ar wariant TTD ac i ba ddiben y caniatawyd TTD (Cesglir y data hwn ar gyfer, ac ar gais, yr AGP): -

**Tabl 1 - Effaith Diwygio Lles**

| Rheswm dros dalu | Nifer y taliadau | Gwariant |
|---|---|---|
| Gosod Cap ar Fudd-daliadau o dan y drefn Diwygio Lles | 3 | £ 1,856.13 |
| Cyflwyno Meini Prawf Maint Cymdeithasol (Treth Ystafell Wely) oherwydd Diwygio Lles yn y Sector Tai Cymdeithasol | 228 | £ 54,036.38 |
| Cyfyngiadau Lwfans Tai Lleol yn y Sector Preifat oherwydd Diwygio Lles | 93 | £ 42,834.47 |
| Taliadau a wnaed nad oeddent yn gysylltiedig â Diwygio Lles | 69 | £ 30,180.86 |
| **CYFANSWM** | **393** | **£128,907.84** |

**Tabl 2 - Pwrpas Taliadau Tai Dewisol**

| Pwrpas Taliadau Tai Dewisol | Nifer y taliadau |
|---|---|
| Helpu i sicrhau ac i symud i lety arall h.y. blaendal rhent | 49 |
| Helpu gyda chostau rhentu tymor byr tra bod yr hawlydd yn sicrhau llety arall ac yn symud i mewn | 68 |
| Helpu gyda chostau rhentu tymor byr tra bod yr hawlydd yn chwilio am waith | 136 |
| Helpu gyda chostau rhentu ar gyfer gofalwr maeth | 0 |
| Helpu gyda chostau rhentu ar gyfer person anabl mewn llety wedi'i addasu | 15 |
| Helpu gyda chostau rhentu parhaus (mae hyn yn cynnwys unrhyw bwrpas perthnasol arall) | 125 |
| **CYFANSWM** | **393** |

Mae bellach yn bedair blynedd ers cyflwyno mesurau diwygio lles yn 2013. Er gwaethaf y ffaith bod gwneud mwy nag un taliad yn amodol ar yr ymgeisydd yn gwneud pob ymdrech i wella eu sefyllfa ariannol drwy chwilio am lety rhatach, lleihau costau byw neu ddod o hyd i waith, ‘roedd 25% o'r holl geisiadau yn y flwyddyn gyfredol yn geisiadau gan ymgeiswyr a oedd wedi cael taliad o’r blaen.

Fodd bynnag, mae hyn yn llai na’r ffigwr o 49% ar gyfer y flwyddyn gynt. Yn gyffredinol, ‘roedd 46% o'r ceisiadau hyn yn llwyddiannus. O’r rheini a ymgeisiodd: -

- ‘Roedd 7.9% yn gwneud cais am ail daliad;
- ‘Roedd 3.7% yn gwneud cais am drydydd taliad;
- ‘Roedd 1.7% yn gwneud cais am bedwerydd taliad;
- ‘Roedd 1% yn gwneud cais am 5ed, 6ed neu 7fed taliad.

Dim ond 22 o’r ymgeiswyr y gwrthodwyd taliad iddynt a ofynnodd am adolygiad o’r penderfyniad gan ail swyddog uwch. Mae hyn yn cyfateb i 3.4% o'r holl geisiadau. Yn ystod y flwyddyn gyfredol, ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau am apêl ffurfiol i Banel Apêl y Cyngor.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Bwriad y Pwyllgor Gwaith, ers nifer o flynyddoedd, yw gwario hyd at y swm grant a roddwyd gan yr AGP, neu’n agos i’r swm hwnnw. Mae'r polisi presennol wedi cwrdd â’r amcan hwn. Byddai unrhyw newidiadau mawr i'r polisi naill ai’n golygu gwario’n sylweddol llai na’r swm a gafwyd gan yr AGP (gwrthodwyd hyn) neu gwario mwy (gwrthodwyd hyn gan nad oes unrhyw gyllideb ychwanegol ar gael ar hyn o bryd ac nid hyn oedd bwriad y Pwyllgor Gwaith).

| C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r mesurau diwygio lles a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2013 wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am TTD. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch maint ac effaith y newidiadau, mae'r polisi TTD wedi ei ddiweddaru a'i ddiwygio gan y Pwyllgor Gwaith yn seiliedig ar y profiad o weithredu'r polisi am y tair blynedd ariannol diwethaf. Mae newidiadau mewn deddfwriaeth a phatrwm y ceisiadau a'r taliadau wedi golygu y bu angen gwneud newidiadau pellach (rhai bychan) i'r polisi. |
| **CH- A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| Mae'n gyson â Chynllun Corfforaethol y Cyngor am y cyfnod 2013 - 2017 ac mae'n cyfrannu at y flaenoriaeth - 'Cynyddu Opsiynau Tai a Lleihau Tlodi'. |
| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Nid oes cyllideb benodol ar gyfer TTD dros ben lefel y grant gan yr AGP. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, y bwriad yw sicrhau bod gwariant cyffredinol ar y cynllun yn cyfateb i'r swm grant a neilltuwyd gan yr AGP (£136,898 ar gyfer 2016/17), neu ychydig yn is. Am 2017/18 mae'r AGP wedi cyhoeddi bydd lefel y grant yn £162,656, sy'n gynnydd o 19%. |

| | DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Awdur yr Adroddiad |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

| | E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Troseddau ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Cynhaliodd y Gwasanaeth Asesiad Effaith Cychwynnol ar gyfer ei Gynllun TTD arfaethedig. Mae'r Asesiad hwn yn nodi'r grwpiau sy'n debygol o gael cymorth o dan y Polisi TTD, a hynny'n seiliedig ar Asesiadau Effaith yr AGP ei hun ynghylch y grwpiau yr effeithir arnynt gan y diwygiadau lles a wnaed gan Lywodraeth y DU.<br>Mae'r ymgynghoriad a'r asesiad effaith cychwynnol yn cynorthwyo'r Cyngor i gwrdd â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus fel y nodir hi yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac maent ar gael gan yr Adain Refeniw a Budd-daliadau, Swyddogaeth Adnoddau. |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A - Polisi Taliad Tai Dewisol 2017/18 a'r blynyddoedd dilynol. |
| **FF- Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad os gwelwch yn dda am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| • Canllawiau Taliadau Tai Dewisol gan yr AGP (gan gynnwys Canllawiau Arfer Da ar gyfer Awdurdodau Lleol) Rhagfyr 2016;<br>• Asesiad Effaith Cychwynnol, Adroddiad Canlyniad a Chynllun Gweithredu Swyddogaeth Adnoddau (Refeniw a Budd-daliadau) - Hydref 2012. |

# POLISI TALIADAU
# TAI DEWISOL
# 2017 (a blynyddoedd dilynol)

| Dyddiad | Fersiwn | Enw |
|---|---|---|
| Ionawr 2014 | 1.0 | Kevin Spice |
| Awst 2015 | 1.1 | Kevin Spice |
| Ionawr 2016 | 1.2 | Kevin Spice |
| Chwefror 2017 | 1.3 | Russell Williams |

## 1. CEFNDIR

**1.1** Bwriad y Cynllun Taliadau Tai Dewisol (TTD) yw rhoi *'cymorth ariannol pellach'* i gwsmeriaid sy'n derbyn Budd-daliadau Tai neu'r Elfen Tai o Credyd Cynhwysol tuag at eu costau tai, pan fydd yr Awdurdod Lleol o'r farn bod cymorth o'r fath yn angenrheidiol.

**1.2** Y Rheoliadau sy'n darparu ar gyfer talu TTD yw Rheoliadau Cymorth Ariannol Yn Ôl Disgresiwn 2000. Er bod y Rheoliadau'n rhoi disgresiwn eang i Awdurdodau Lleol ynglŷn â sut y maent yn gweinyddu'r cynllun, mae'n rhaid gwneud penderfyniadau yn unol ag egwyddorion da ar gyfer gwneud penderfyniadau gweinyddol. Wrth benderfynu a yw am ddyfarnu taliad, y mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol weithredu yn deg, yn rhesymol ac yn gyson bob amser.

**1.3** Mae'n ofynnol bod pob TTD yn cael ei wneud o fewn y terfynau ariannol cyffredinol a bennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGP). Bydd yr AGP yn dyfarnu swm blynyddol i'r Awdurdod Lleol (C*yfraniad y Llywodraeth)* tuag at weinyddu'r cynllun. Yn ychwanegol at Gyfraniad y Llywodraeth, gall yr Awdurdod Lleol wario hyd at 150% ychwanegol. (*y cyfanswm a ganiateir*) mewn TTD. Byddai unrhyw daliadau dros ben y cyfanswm a ganiateir yn anghyfreithiol.

**1.4** Ni ddylai'r swm o arian sydd ar ôl yn y 'pot' TTD fod yn ffactor yn y broses o wneud penderfyniadau; rhaid gwneud pob penderfyniad ar ei ragoriaethau ei hun, heb roi sylw i'r ffaith a fydd dyfarniad yn cael ei ariannu gan yr elfen Cyfraniad Llywodraeth neu'r elfen cyfraniad Awdurdod Lleol o'r Cyfanswm a Ganiateir. Rhaid i'r broses o wneud penderfyniadau fod yn deg, yn dryloyw ac yn gyson drwy gydol y flwyddyn.

**1.5** Bydd dyfarniadau TTD bob tro'n daliadaeth niwtral. Bydd ceisiadau'n cael eu trîn mewn ffordd gyfartal petaent yn ymwneud â tenantiaid y sector breifat neu'r sector gymdeithasol. Y prif benderfynydd, bob tro, ar gyfer gwneud dyfarniad bydd amgylchiadau unigol yr ymgeisydd.

**1.6** Mae'n rhaid dychwelyd unrhyw arian o'r TTD sydd heb gael ei wario i'r AGP ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 2. AT BA DDIBENION Y GELLIR DEFNYDDIO TALIADAU TAI DEWISOL?

**2.1** Nid yw costau tai yn cael eu diffinio yn y rheoliadau, felly mae hynny'n rhoi disgresiwn eang i Awdurdodau Lleol ddehongli'r term. Yn ychwanegol at ymrwymiadau rhent, gellir dehongli costau tai i gynnwys y canlynol hefyd:-

- Rhent ymlaen llaw;
- Blaendaliadau;
- Costau lwmp swm sy'n gysylltiedig ag anghenion tai, er enghraifft costau symud tŷ.

Lle gwneir taliadau 'costau lwmp swm', ni fydd angen iddynt gael eu had-dalu gan y derbynnydd, cyn belled ag y'i defnyddir am y pwrpas a fwriedir.

**2.2** Dyma rai o'r amgylchiadau penodol lle gall TTD fod yn berthnasol:-

- Gostyngiadau mewn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol lle mae'r trefniant capio budd-daliadau wedi cael ei defnyddio;

- Gostyngiadau mewn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol oherwydd tanddefnyddio yn y sector rhentu cymdeithasol;
- Gostyngiadau mewn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol o ganlyniad i gyfyngiadau ar y Lwfans Tai Lleol;
- Talu diffyg yn y rhent er mwyn atal teulu rhag digartrefedd tra bydd Adran Dai'r Awdurdod yn edrych ar wahanol bosibiliadau;
- Cyfyngiadau gan y Swyddog Rhent, er enghraifft Rhent Cyfeiriadol Lleol neu gyfradd rhannu ystafell;
- Didyniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynnol;
- Ceiswyr sy'n maethu plant ac y mae'r "dreth ystafelloedd gwely" yn effeithio arnynt;
- Ceiswyr sydd â phroblemau iechyd penodol a allai arwain at wariant ychwanegol iddynt neu geiswyr sydd angen lle byw ychwanegol;
- Gostyngiad yn yr hawl o ganlyniad i effaith taprau incwm;
- Darparu taliadau lwmp swm mewn perthynas â chostau 'unwaith ac am byth' fel rhent ymlaen llaw, blaendaliadau neu gostau symud. Pan yn ystyried dyfarniadau TTD am y costau yma, dylau'r swyddog asesu fodloni ei hun bod yr eiddo newydd yn fforddiadwy ac yn addas i anghenion y tenant a bod yna reswm dilys am y symud;
- Lle nid yw'r rhent yn fforddiadwy bellach oherwydd newid perthnasol mewn amgylchiadau sydd tu draw i reolaeth yr ymgeisydd, e.e. colli swydd;
- Lle mae'r ceisiwr wedi cymryd y denantiaeth o eiddo newydd ond heb symud i mewn eto ac mae'n parhau i dderbyn Budd-dal Tai. Fe ystyrir y rhesymau pam nad yw'r ceisiwr wedi symud i mewn eto er mwyn sefydlu os yw hyn yn rhesymol. Bydd casgliad yn cael ei wneud a allent fod wedi symud ar ddechrau'r denantiaeth.

**2.3** Bwriedir TTD fel rhwyd ddiogelwch i bobl sy'n cael anawsterau i dalu eu costau tai. Ni ddylid edrych ar y cynllun fel ffordd i ganiatáu i ymgeiswyr gynnal ffordd o fyw ar lefel y maent wedi arfer â hi. I'r perwyl hwnnw, gall y swyddog asesu ddewis lleihau neu wrthod TTD mewn achosion lle mae'n amlwg nad yw'r ymgeisydd yn fodlon i wneud cyfaddawd rhesymol o ran eu gwariant a ffordd o fyw.

**2.4** Pan yn asesu TTD, dylai'r ymgeiswyr gwblhau datganiad ariannol yn rhestru holl incwm a gwariant yr aelwyd. Fe ystyrir incwm o bob ffynhonell, petaent fel arfer yn cael eu diystyru neu beidio ar gyfer prawf modd budd-daliadau lles prif-lif. Os nodir fod ad-daliad yn ei le ar gyfer gordaliad Budd-dal Tai, yna rhoddir ystyriaeth i pu'n a all y raddfa gostyngiad gael ei leihau.

**2.5** Fel arfer, mesur tymor byr yw dyfarniadau TTD gyda'r bwriad o roi digon o amser i'r ymgeisydd i :-

- Geisio cael llety arall fydd yn rhatach (ni fydd yn berthnasol i denantiaid mewn tai cymdeithasol);
- Negodi rhent is gyda'u landlord (ni fydd yn berthnasol i denantiaid mewn tai cymdeithasol);
- Chwilio am waith;
- Addasu gwariant eu haelwyd.

Ni ddylid edrych ar TTD fel ychwanegiadau amhenodol tuag at ddiffygion rhent; bydd dyfarniadau'n cael eu gwneud fel arfer am gyfnod o 26 wythnos. Ni fydd ail ddyfarniadau neu rai dilynol yn cael eu gwneud ond lle y gall yr ymgeisydd ddangos eu bod wedi gwneud pob ymdrech i wella eu sefyllfa ariannol a bod unrhyw fethiant i wneud hynny oherwydd rhesymau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.

Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, bydd amgylchiadau'r ymgeisydd angen dyfarniad hirach neu amhenodol o TTD. Mewn amgylchiadau o'r fath, fe adolygir y dyfarniad yn gyfnodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw newid mewn amgylchiadau a all gael effaith ar y dyfarniad.

**2.6** Gall un maes o anhawster wrth asesu cymhwysedd am TTD godi, efallai, yng nghyswllt ymgeiswyr gyda phroblemau cam-drin alcohol ac/neu sylweddau. Efallai y bydd yr unigolion hyn yn byw bywydau dryslyd a all achosi iddynt wneud penderfyniadau gwael, yn cynnwys gwario ar eitemau a fyddai, i'r rhan fwyaf o bobl, i'w gweld yn rhai afresymol. Fodd bynnag, ni ddylai hyn o anghenraid atal gwneud dyfarniad TTD.

Y prif feini prawf wrth wneud penderfyniad mewn achosion o'r fath fydd penderfynu a yw'r ymgeisydd yn derbyn cymorth priodol i ddelio gyda'u problemau. Os ydynt yn cael cefnogaeth ar raglen ffurfiol, a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth swyddogol, **efallai** y bydd yn berthnasol i ystyried gwneud dyfarniad o TTD. Dylai dyfarniadau mewn amgylchiadau o'r fath gael eu cefnogi gan dystiolaeth ddogfennol gan y sefydliad sy'n gweithio gyda'r ymgeisydd.

Yn ogystal, bydd cyfran incwm yr aelwyd sydd wedi ei neilltuo ar gyfer yr eitemau yma hefyd yn ffactor berthnasol yn y broses gwneud penderfyniad.

**2.7** Rhaid i swyddogion asesu TTD gymryd amgylchiadau unigol i ystyriaeth bob amser pan yn asesu pa mor rhesymol yw gwariant aelwyd. Er enghraifft, gall rhai cyflyrau meddygol neu anableddau fod angen lefelau uchel o wariant ar rai eitemau; ni ddylai hyn o anghenraid atal gwneud dyfarniad. Fodd bynnag, lle bo amgylchiadau o'r fath yn berthnasol, efallai y bydd y swyddog asesu angen i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r gwariant a honnir.

**2.8** Yn dilyn diddymu Budd-daliadau y Dreth Gyngor yn 2013, **ni ellir talu TTD bellach tuag at Atebolrwydd y Dreth Gyngor.**

## 3. MEINI PRAWF AR GYFER DYFARNU TTD

**3.1** Cyn gwneud dyfarniad, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol fod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn gymwys i dderbyn:-

- Budd-dal Tai; **neu**
- Chredyd Cynhwysol sy'n cynnwys elfen costau tai; **a**
- Bod ganddynt atebolrwydd am rent; **a**
- Bod angen cymorth ariannol pellach at gostau tai.

Yn sgîl cyflwyno Credyd Cynhwysol, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ystyried ceisiadau am TTD oddi wrth gwsmeriaid nad ydynt yn derbyn budd-daliadau tai. Pan fo cwsmer sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gwneud cais am TTD, dylai'r swyddog asesu sicrhau :-

- Nad yw'r dyfarniad Credyd Cynhwysol yn cynnwys elfen o gostau tai; **ac**
- Nad yw swm y TTD yn uwch na rhent wythnosol cymwys yr ymgeisydd;
- Fe sefydlir gwerth y 'costau tai' a gynhwysir yn y dyfarniad Credyd Cynhwysol.

## 4. PETHAU NA ELLIR DEFNYDDIO TTD AR EU CYFER

**4.1** Mae rhai elfennau o rent ymgeisydd na ellir eu cynnwys o fewn y costau tai ar gyfer TTD gan eu bod yn cael eu gwahardd gan y rheoliadau. Mae'r elfennau sy'n cael eu gwahardd yn cynnwys:-

- Taliadau anghymwys am wasanaethau;
- Codiadau rhent oherwydd dyledion rhent sydd heb eu talu;
- Rhai sancsiynau penodol a gostyngiadau mewn budd-daliadau.

**4.2** Yn ychwanegol at yr uchod, ni fydd TTD yn cael ei dalu ar gyfer diffygion sy'n deillio o:-

- Ddewis yr ymgeisydd i fyw mewn ffordd na all yn amlwg mo'i fforddio (efallai y bydd angen ymweld â'r cartref i asesu eu ffordd o fyw);
- Ad-dalu rhai gordaliadau budd-daliadau lles a dirwyon (gweler hefyd 6.13).

## 5. Y BROSES O WNEUD CAIS

**5.1** Mae'r rheoliadau yn mynnu bod cais am TTD yn cael ei gyflwyno cyn y gall yr Awdurdod Lleol ystyried dyfarnu taliad.

**5.2** Bydd yr Awdurdod Lleol yn weithgar yn hybu'r cynllun TTD gyda phartneriaid mewnol ac allanol yn ogystal â gyda rhai sy'n hawlio Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol. Bydd polisi TTD y Cyngor ar gael ar-lein ac mewn ffurf papur. Darperir copïau o'r polisi hefyd i gydranddeiliaid mewnol ac allanol. Pan fydd staff yn gweld sefyllfaoedd lle gallai TTD fod yn berthnasol, dylent bob tro wahodd y cwsmer neu ei gynrychiolydd i wneud cais.

**5.3** Dylid gwneud ceisiadau mewn ysgrifen a gellir eu derbyn gan yr Adain Refeniw a Budd-daliadau neu unrhyw adran o'r Awdurdod Lleol sy'n gweithredu ar ei rhan. Lle gwneir cais i adran arall heblaw'r Adain Refeniw a Budd-daliadau, bydd y cais yn cael ei anfon ymlaen i'r adain honno i gael penderfyniad.

**5.4** Gyda'r cais am TTD dylid cynnwys datganiad o incwm a gwariant yr ymgeisydd er mwyn penderfynu a yw'n dioddef o galedi ariannol. Os gofynnir, efallai y bydd angen i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gadarnhau'r gwariant a honnir. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r rhai sy'n gwneud cais am daliadau 'unwaith ac am byth' ddarparu datganiadau banc i gefnogi eu cais am TTD.

**5.5** Pan fo'r cais am TTD yn ymwneud â chostau symud, bydd yr ymgeisydd yn darparu dau ddyfynbris ar gyfer cost y symud.

**5.6** Bydd ceisiadau am TTD yn cael eu gwneud fel arfer gan y person sydd â hawl i Fudd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol. Fodd bynnag, gellir hefyd dderbyn hawliadau gan drydydd partïon, fel eiriolwyr neu rai wedi eu penodi i weithredu ar ran yr hawlydd os ydynt yn fregus.

## 6. Y BROSES O WNEUD PENDERFYNIAD

**6.1** Dylai pob cais am TTD gael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun. Dylai penderfyniadau fod yn deg ac yn gyson drwy gydol y flwyddyn. Ni ddylai faint o arian sydd yn y 'pot' TTD fod yn ystyriaeth yn y broses o wneud penderfyniadau.

**6.2** Pan yn clandro hawl TTD, bydd budd-daliadau lles a lwfansau sydd fel arfer yn cael eu di-ystyru yn ystod prawf modd **yn** cael eu trin fel incwm ar gyfer dibenion TTD. Yr unig eithriad fydd yr Elfen Symudedd o'r Lwfans Byw Anabledd (LBA) os yw'r ymgeisydd yn defnyddio'r lwfans i dalu am gerbyd dan y cynllun symudedd. Tra ystyrir LBA a Taliadau Annibyniaeth Personol yn cael eu dosbarthu fel incwm, dylai'r swyddog asesu hefyd sicrhau fod unrhyw wariant aelwyd ychwanegol sy'n ymwneud â salwch neu anabledd yr ymgeisydd yn cael ei ystyried pan yn gwneud penderfyniad ar y cais.

**6.3** Lle gall yr ymgeisydd ddangos bod y budd-daliadau neu lwfansau wedi cael eu defnyddio at y dibenion penodol y bwriadwyd hwy ar eu cyfer, er enghraifft, yr angen am wariant ychwanegol oherwydd anabledd neu gyflwr meddygol, gall y swyddog asesu ddewis eu hanwybyddu fel ffynhonnell incwm wrth asesu TTD.

**6.4** Ar adegau, gall y swyddog asesu ofyn i Swyddog Ymweld Refeniw a Budd-daliadau alw yng nghartref yr ymgeisydd er mwyn cael darlun cliriach o amgylchiadau ac amodau byw'r ymgeisydd.

**6.5** Pe bai'r swyddog asesu yn penderfynu bod y gwariant a nodir gan yr ymgeisydd ar gyfer rhai eitemau penodol yn **afresymol** ormodol, mae ganddynt ddisgresiwn i anwybyddu'r rhan honno, neu'r cyfan, o'r gwariant hwnnw wrth wneud yr asesiad ariannol. Wrth benderfynu hyn, rhaid rhoi esboniad o'r penderfyniad. Yn yr un modd, pan fydd y swyddog yn barnu bod yr ymgeisydd yn byw uwchlaw ei incwm mewn ffordd afresymol, gall ddewis gadael y gwariant hwnnw allan o'r cyfrifiad. Eto, rhaid rhoi esboniad.

**6.6** Mewn rhai amgylchiadau, bydd ymgeisydd yn darparu proffiliau gwariant sydd yn amlwg yn afrealistig o isel neu nad ydynt yn cynnwys gwariant a fyddai fel arfer i'w weld mewn unrhyw aelwyd. Mewn achosion o'r fath, dylai'r swyddog asesu ystyried cynyddu'r proffil gwariant gan swm tybiannol priodol er mwyn sicrhau na fydd yr ymgeisydd dan ormod o anfantais yn ystod y broses asesu TTD.

**6.7** Dylai'r swyddog asesu wneud yn sicr bod yr holl wybodaeth berthnasol ganddynt mewn perthynas â'r cais cyn dod i benderfyniad. I'r perwyl hwn, os na chynhelir ymweliad cartref, dylid gwneud pob ymdrech i gyfweld yr ymgeisydd, naill ai wyneb yn wyneb neu ar y ffôn, er mwyn cael darlun mwy cywir o'u hamgylchiadau.

**6.8** Ni fwriedir i TTD fod yn ateb tymor hir ar gyfer diffygion rhent. Felly, ni fydd taliadau 26 wythnos o TTD fel arfer yn cael eu hadnewyddu oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

**6.9** Wrth asesu hawl i TTD, dylid ystyried fforddiadwyaeth y denantiaeth dan sylw. Mewn rhai amgylchiadau, bydd yn glir fod amgylchiadau ariannol yr ymgeisydd yn hollol anghynaliadwy; ni fyddai dyfarniad TTD yn cael unrhyw effaith ar allu'r ymgeisydd i aros yn eu cartref waeth bynnag unrhyw gyfaddawdu y byddant yn ei wneud. Mewn amgylchaidau o'r fath, **gall** y cais gael ei wrthod ar y sail nad yw'n cynrychioli'r defnydd gorau o'r gyllideb gyfyngedig. Fel arfer, gellir gwneud dyfarniad cychwynnol er mwyn caniatau amser i'r ymgeisydd i wneud trefniadau llety arall. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau o'r fath, anhebygol fyddai dyfarniadau pellach.

**6.10** Fel arfer, caiff didyniadau ar gyfer pobl sy'n byw gyda'r hawlydd ond nad ydynt yn ddibynnol arno eu trin fel incwm i'r aelwyd. Fodd bynnag, **gall** y swyddog asesu, mewn rhai amgylchiadau penodol, ddewis anwybyddu'r didyniad hwn fel incwm. Yn gyffredinol, pan fo'r didyniad yn ymwneud â rhywun sydd mewn gwaith, dylid ei drin fel incwm bob amser. Fodd bynnag, os bydd y didyniad yn ymwneud â rhywun sy'n derbyn budd-daliadau, **gall** y swyddog asesu ddewis ei anwybyddu fel incwm os yw'n teimlo nad oes unhyw ragolygon rhesymol y bydd yr unigolyn yn cyfrannu at gostau'r aelwyd **ac** y bydd methiant i'w anwybyddu yn peri caledi ariannol i'r sawl sy'n hawlio TTD.

**6.11** Ni fwriadwyd TTD i fod yn ychwanegiad di-ben-draw i ddiffyg mewn rhent. Felly, bydd asesu cymhwyster am ail-ddyfarniad, neu ddyfarniad dilynol, i'r un cyfeiriad yn gofyn am ystyried ffactorau ychwanegol i'r rhai a ystyriwyd ar gyfer y cais cychwynnol. Rhaid i'r swyddog asesu ystyried a yw'r ymgeisydd wedi gwneud pob ymdrech resymol i wella ei amgylchiadau ers dyfarnu'r TTD cychwynnol. Bydd ffactorau sydd i'w hystyried yn cynnwys:-

- Ymdrechion i leihau gwariant ar yr aelwyd - a yw gwariant ar yr aelwyd wedi gostwng ers i'r dyfarniad TTD gwreiddiol gael ei wneud? Os nad yw'r gwariant wedi gostwng, a oes yna reswm dilys?;
- Ymdrechion i ail-negodi'r rhent contract. A yw'r tenant wedi rhoi caniatâd i'r Cyngor gysylltu â'i landlord? (ni fydd yn berthnasol i denantiaid tai cymdeithasol);
- Ymdrechion i geisio cael llety llai o faint os ydynt yn denantiaid tai cymdeithasol hefo gormod o le. Er enghraifft:-
    - Ydynt wedi gofyn i'w landlord cymdeithasol am drosglwyddiad i eiddo llai?;
    - Ydynt ar restr trosglwyddo eu darparwr tai?;
    - Os nad oes llety arall ar gael yn y sector gymdeithasol, gallent ystyried symud i'r sector rhentu breifat?

Bydd asesu'r elfen hon o geisiadau ailadroddus yn fater goddrychol; rhaid ystyried pob achos ar ei ragoriaethau ei hun. Lle y mae'n cael ei dderbyn bod yr ymgeisydd wedi gwneud pob ymdrech resymol i wella ei sefyllfa, **neu** fod yr amgylchiadau oedd yn rhwystro iddynt wneud hynny yn rhai oedd y tu hwnt i'w rheolaeth, efallai y bydd yn briodol gwneud dyfarniad pellach. Fodd bynnag, lle ei bod yn glir nad yw'r ymgeisydd wedi gwneud unrhyw ymdrech i wella eu hamgylchiadau, ni fydd dyfarniad pellach fel arfer yn briodol.

**6.12** Bydd rhai achosion lle bo amgylchiadau'r ymgeisydd o fath na fyddai'n rhesymol nac yn ymarferol i'r ymgeisydd am TTD symud cartref, dod o hyd i waith na gostwng eu gwariant ar yr aelwyd, er enghraifft, rhywun gydag anableddau sy'n byw mewn eiddo a addaswyd ar gyfer eu hanghenion. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd dyfarniad am gyfnod hwy neu amhenodol yn briodol. Dylai dyfarniadau o 12 mis gael eu gwneud a'u hadolygu'n flynyddol er mwyn penderfynu a fu newid mewn amgylchiadau fyddai'n atal ymestyn TTD am gyfnod pellach.

**6.13** Ni fydd gwariant ar ddirwyon llys neu ordaliadau budd-daliadau lles yn cael eu hystyried yn y clandriad ariannol; ni ellir rhoi unrhyw argraff bod TTD yn cael ei ddefnyddio i'r perwyl hwnnw. Mae eithriad i'r rheol yn berthnasol i Gredyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith. Lle mae ad-dalu gordaliadau blynyddoedd blaenorol o Gredyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith yn cael eu hadennill o'r dyfarniad cyfredol, yna mae'r taliad net o Gredyd Treth yn cael ei drin fel incwm. Mae hyn yn unol â rheoliadau Budd-daliadau Tai. Ni ystyrir taliadau o ôl-ddyledion trwydded teledu fel dirwy at y diben hwn.

**6.14** Bydd y cwestiwn a ddylid derbyn gwariant sy'n ymwneud â thalu dyledion yn y clandriad TTD ai peidio yn aml yn un cynhennus. Tra bydd ad-dalu dyledion yn amlwg yn gosod pwysau ariannol ychwanegol ar sawl aelwyd, ni ddylid edrych ar TTD fel ffordd o dalu dyledion o'r fath. Bydd swyddogion asesu TTD angen ystyried swm y ddyled sydd ar ôl yn ogystal â sut a phryd y daeth y ddyled i fodolaeth cyn iddynt wneud eu penderfyniad. Bydd rhai o'r ffactorau yng nghyswllt gwariant ar wasanaethu dyled yn cynnwys:-

- A yw'r ymgeisydd wedi gofyn a gaiff ail-drafod dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth? Er enghraifft cytundebau cardiau credyd;
- A ydynt wedi ceisio cael cyngor proffesiynol ar sut i glirio eu dyledion neu leihau ei had-daliadau?
- A oedd modd i'r ymgeisydd dalu'r arian dyledus cyn dechrau hawlio budd-daliadau?
- A aethpwyd i'r dyledion hyn trwy fenthyca neu wario'n anghyfrifol tra roedd yr ymgeisydd yn derbyn budd-daliadau lles?
- Lefel y ddyled sydd ar ôl i'w thalu a chyfran incwm yr aelwyd sydd wedi ei neilltuo ar gyfer talu'r ddyled honno.

**6.15** Mewn achosion lle mae perygl i'r ymgeisydd fod yn ddigartref, dylai staff Refeniw a Budd-daliadau ymgynghori gyda'r Tîm Opsiynau Tai er mwyn penderfynu a oes ffordd arall o weithredu neu ffynhonnell ariannol arall a allai fod yn fwy perthnasol na TTD.

**6.16** Lle bo'r ymgeisydd mewn perygl ar unwaith o gael ei droi allan o'i lety, dylai'r cais TTD gael ei 'dracio'n gyflym'. Ni fydd hyn yn cael ei ystyried ond pan fydd y cais yn dod gan gorff swyddogol fel CAB, Adran Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac ati. Lle mae tracio cyflym yn briodol, dylai'r mater gael ei ddatrys yn llawn ymhen tri diwrnod gwaith.

**6.17** Os nad yw'r holl wybodaeth gefnogol ar gael pan fernir bod angen tracio cyflym, dylid dyfarnu TTD am gyfnod o fis hyd nes y ceir y dystiolaeth gefnogol sydd ei hangen. Rhaid dweud wrth yr ymgeisydd mai dyfarniad dros dro ydyw ac nad oes unrhyw warant y bydd TTD yn parhau unwaith y ceir yr holl wybodaeth sydd ei hangen.

**6.18** Os gwelir, ar ôl derbyn yr holl wybodaeth, na fyddai'r TTD wedi cael ei ddyfarnu, ni ddylai unrhyw daliad tracio cyflym a wnaed eisoes gael ei adennill.

**6.19** Lle gwneir cais TTD oherwydd diffyg rhwng Budd-dal Tai a rhent contract, dylid gwneud pob ymdrech i sefydlu a oes unrhyw bosibilrwydd bydd y landlord yn cytuno i ostwng y rhent contract neu beidio (ni ellir gwneud hyn ond gyda chaniatâd yr hawlydd). Bydd y cais TTD yn mynd yn ei flaen fel arfer; fodd bynnag, os llwyddwyd, yn dilyn negodi, i sicrhau gostyngiad yn y rhent, bydd unrhyw TTD a ddyfernir yn cael ei leihau neu ei ddileu fel bydd yn briodol.

**6.20** Pan fo'r cais am TTD fel cymorth tuag at ddiffyg mewn rhent y sector breifat, dylid gofyn i ymgeiswyr roi eu caniatâd i'r Cyngor gysylltu â'u landlord i weld os oes unrhyw sgôp i ail-negodi gostyngiad yn y rhent. Os gwrthodir caniatâd, dylid dweud wrth yr ymgeiswyr y gall peidio â rhoi caniatâd heb achos da olygu y gallai eu cais am TTD gael ei wrthod.

**6.21** Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen trafod y cais TTD gydag adrannau neu asiantaethau eraill cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y mater. Mewn achosion o'r fath, rhaid cael caniatâd yr hawlydd bob amser i'r wybodaeth gael ei rhannu.

**6.22** Bydd hyd y dyfarniad yn cael ei benderfynu gan y person sy'n delio â'r hawliad. Fel arfer, bydd dyfarniadau am gyfnod o 26 wythnos; ond, mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd dyfarniad penagored yn berthnasol. Lle mae dyfarniad yn un amhenodol, dylid ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau na fu unrhyw newid o bwys yn yr amgylchiadau. Fe all newid yn amgylchiadau'r sawl sy'n derbyn y TTD yn ystod cyfnod y dyfarniad arwain at leihau neu derfynu'r dyfarniad.

**6.23** Yn arferol bydd y taliad yn cael ei wneud i'r hawlydd; fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn briodol talu i drydydd parti:-

- Talu rhent ymlaen llaw neu flaendal i'r landlord;
- Talu i'r landlord os ystyrir bod yr hawlydd yn fregus ac os yw eisoes yn talu Budd-daliadau Tai i'r landlord;
- Talu i gwmni cludiant am symud dodrefn;
- Trwy roi credyd yn y cyfrif rhent ar gyfer diffygion mewn Ad-daliadau Rhent;
- Landlord lle y mae eisoes ddyledion rhent sy'n gyfartal â rhent 8 wythnos neu fwy.

**6.24** Dan Credyd Cynhwysol, y dull diofyn o dalu bob tro fydd yn uniongyrchol i'r hawlydd. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i'r elfen 'lwfans tai' o'r dyfarniad Credyd Cynhwysol. Fodd bynnag, fe ellir talu'r landlord petai'r hawlydd yn cwrdd â'r meini prawf pobl bregus sy'n berthnasol i'r Trefniadau Taliadau Arall. Mae'r ddarpariaeth yn berthnasol i denantiaid y sector breifat a'r sector gymdeithasol. Bydd rhaid i ymgeiswyr TTD sy'n derbyn Credyd Cynhwysol nodi i bwy dylid gwneud y taliadau elfen 'lwfans tai' o'r Credyd Cynhwysol.

**6.25** Dyled ystyried ceisiadau TTD yng ngoleuni hanes presennol a blaenorol yr ymgeisydd. Bydd y ffactorau i'w hystyried yn cynnwys :-

- A ydynt wedi derbyn blaendaliadau yn ôl wedi eu tenantiaeth flaenorol?;
- A oedd yr ymgeisydd yn medru fforddio'r gofynion rhent wrth symud i mewn i'r eiddo am y tro cyntaf?;
- A ydynt yn symud yn aml i dai sydd â rhent afresymol o uchel?;
- A oes ganddynt hanes o rentu eiddo sy'n fwy o faint nag y mae ei angen arnynt?;
- A yw'r ymgeisydd neu'r partner yn disgwyl plentyn ac yn symud i eiddo mwy mewn disgwyliad bod angen ystafell wely ychwanegol?;
- A oes unrhyw amgylchiadau meddygol neu deuluol a fyddai'n cyfiawnhau taliadau TTD?;
- A yw'r ymgeisydd wedi dangos bod ymdrechion rhesymol wedi cael eu gwneud i ddarganfod eiddo arall rhatach?;
- Oes yna amgylchiadau eithriadol neu annisgwyl sy'n cyfiawnhau gwobrwyo TTD?;
- P'un a fydd rhywun ar yr aelwyd yn cyrraedd 'oed critigol'. Er engraifft, plentyn yn cyrraedd oedran lle maent yn gymwys am ddefnydd unigol o ystafell wely ychwanegol; neu unigolyn oedran gweithio sydd mewn tenantiaeth gymdeithasol yn dod yn oedran pensiynadwy.

**6.26** Mewn rhai amgylchiadau, gall dyfarniadau TTD fod yn rhai amodol ar i'r ymgeisydd gytuno i gamau a allant helpu i wella eu problemau ariannol. Ni ellir gorfodi'r ymgeisydd i gymryd y camau sy'n cael eu hawgrymu. Fodd bynnag, dylid dweud wrthynt y gall methiant â chytuno gydag unrhyw un o'r camau sy'n cael eu hawgrymu arwain at wrthod y ceisiadau er bod yna achos ariannol dros wneud dyfarniad. Gall amgylchiadau o'r fath gynnwys:-

- Methu â derbyn atgyfeiriad am gymorth / cyngor i gydranddeiliad mewnol neu allanol yng nghyswllt gallu ariannol, cyllidebu, rheoli dyled ac ati;
- Methiant i roi awdurdod i'r Cyngor gysylltu â'u landlord i geisio negodi gostyngiad mewn rhent.

Bydd dyfarniadau TTD amodol yn oddrychol ac fe allant fod yn rhai cynhennus o ran natur; dylid cymryd gofal bob amser i sicrhau bod unrhyw gamau amodol a roddir ar yr ymgeisydd yn rhai teg a rhesymol ac nad ydynt yn gosod disgwyliadau afrealistig arnynt.

**6.27** Gyda thaliadau lwmp swm, ni fydd angen sefydlu cymhwysedd i dderbyn Budd-daliadau Tai/ elfen costau tai o'r Credyd Cynhwysol yn y cyfeiriad ar gyfer y cais. Cyn belled â bod yr ymgeisydd yn derbyn budd-dal tai neu gredyd cynhwysol yn eu cyfeiriad blaenorol (hyd yn oed os oedd yr eiddo tu allan i ffîn yr Awdurdod Lleol), gellir gwneud TTD. Dylid cynnal gwiriadau i weld a yw'r Awdurdod Lleol lle'r oedd yr ymgeisydd yn byw cynt eisoes wedi gwneud TTD ar gyfer symud tŷ.

**6.28** Pan yn ystyried cais am flaendal, rhent ymlaen llaw neu gostau symud, dylid ystyried y meini prawf canlynol:-

- Oes rheswm teilwng i'r ymgeisydd symud cartref? Gall ceisiadau am gostau unwaith-ac-am-byth fod am symiau sylweddol o arian, yn enwedig os yw'r ymgeisydd yn gwneud cais am flaendal, rhent ymlaen llaw a chostau symud. Cyn i geisiadau gael eu hystyried, dylai'r swyddog asesu fodloni ei hun fod cyfiawnhad dros symud. Gall rhesymau dros symud gynnwys :-

- Rhesymau meddygol, e.e. angen eiddo heb grisiau;
- Gormod o bobl yn byw yn y ty;
- Dianc rhag trais yn y cartref;
- Cael eu troi allan o denantiaeth blaenorol.

Ni ddylid gwneud taliadau TTD tuag at gostau'n ymwneud â symud lle mae'r ymgeisydd, yn syml, ond yn dymuno symud i eiddo arall heb gyfiawnhad dilys.

- A fydd yr eiddo newydd yn fforddiadwy. Ni ddylid ystyried TTD ond lle bo'r eiddo newydd yn fforddiadwy ac yn addas ar gyfer anghenion yr hawlydd;
- Oes blandal rhent i fod i gael ei ddychwelyd o'r denantiaeth flaenorol?;
- Petai cais am gostau symud, oedd cyfeiriad blanorol yr ymgeisydd wedi ei ddodrefnu neu heb ddodrefn? Os oedd hebi ei ddodrefnu, oes angen am wasanaeth symud llawn?
- Oes gan yr ymgeisydd rhywun all eu helpu hefo'r costau neu'r symud?

Os nad yw'r dyfarniad TTD yn cwrdd yn llawn â chost yr hawliad, efallai bydd yn briodol i gyfeirio'r ymgeisydd i'r Gronfa Cymorth Dewisol am gymorth ychwanegol drwy Daliad Cymorth Mewn Argyfwng. Lle gwneir cyfeiriadau o'r fath, mae'n bwysig i adael i'r ymgeisydd wybod nad oes warant bydd y cyais yn llwyddiannus.

**6.29** Os yw'r cais am flaendal/rent ymlaen llaw/costau symud yn un ar gyfer eiddo y tu allan i Ynys Môn, y mae'n dal i fod yn bosibl gwneud taliad os oes gan yr hawlydd hawl i fudd-dal tai neu gredyd cynhwysol o fewn yr ardal ar hyn o bryd.

**6.30** Mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn briodol gwneud TTD ar gyfer dau gartref, e.e. dianc rhag trais yn y cartref.

**6.31** Gellir ystyried ôl-dalu taliadau ond ni ellir dyfarnu TTD ar gyfer cyfnod cyn 2 Gorffennaf 2001. Rhaid i bob cais am ôl-dalu ddangos rheswm digonol parhaus.

## 7. TERFYNAU AMSER

**7.1** Ceisir am TTD am fod yr ymgeisydd yn dioddef caledi ariannol ac yn cael anhawster cwrdd â'u costau tai. O ganlyniad, mae'n hollbwysig bod ceisiadau yn cael sylw mor gyflym ag y bo modd. Os nad oes amgylchiadau eithriadol yn atal hynny, dylai pob cais am TTD gael ei benderfynu o fewn mis i'w dderbyn.

**7.2** Lle bydd y swyddog sy'n gweinyddu'r TTD yn barnu y byddai ymweliad â'r tŷ yn briodol, dylid gwneud hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol fel nad achosir unrhyw oedi diangen yn y broses o benderfynu.

**7.3** Efallai na fydd angen ymweliad cartref os yw'r holl dystiolaeth gefnogol am incwm a gwariant wedi ei gynnwys gyda'r cais TTD **ac** nad oes unrhyw awgrym o wariant afresymol neu bod yr ymgeisydd yn byw y tu hwnt i'w fodd mewn dull afresymol.

## 8. MAINT Y TTD

**8.1** Bydd maint a hyd y dyfarniad yn amrywio yn ôl amgylchiadau'r unigolyn. Gall fod ar ffurf taliad "unwaith ac am byth" neu yn daliadau rheolaidd am gyfnod. Mewn rhai achosion, gallai fod yn briodol gwneud dyfarniad parhaus. Pan wneir dyfarniad o'r fath, dylid ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau na fu unrhyw newid mewn amgylchiadau a allai fod yn berthnasol i'r dyfarniad.

**8.2** Gall lefel y dyfarniad glirio'r cyfan neu ran o ddiffyg mewn rhent neu gynorthwyo tuag at gostau derbyn tenantiaeth newydd. Fodd bynnag, ni chaiff dyfarniadau fod yn uwch na rhent cymwys yr hawlydd (ni fydd hyn yn berthnasol gyda thaliadau "unwaith-ac-am-byth", megis blaendaliadau, rhent ymlaen llaw neu gostau symud).

**8.3** Lle gwneir taliadau "unwaith-ac-am-byth" ar gyfer rhent ymlaen llaw neu flaendaliadau rhent, dylai'r ymgeisydd gael gwybod bod yn rhaid defnyddio'r taliad ar gyfer y dibenion a nodir. Os na ddefnyddiwr y taliad ar gyfer y dibenion a nodir, gall hynny arwain at orfodi'r ymgeisydd i dalu'r swm yn ôl.

## 9. APELIO

**9.1** Nid yw TTD yn rhan o'r cynllun Budd-dal Tai, felly, nid yw'r hawliau apêl arferol yn bodoli. Fodd bynnag, mae egwyddorion cyfiawnder naturiol yn mynnu y dylai fod proses ffurfiol o adolygu pan fydd yr ymgeisydd yn anghytuno gyda phenderfyniad yr Awdurdod Lleol.

**9.2** Lle bydd yr ymgeisydd yn anghytuno â'r penderfyniad i beidio â dyfarnu TTD, neu gyda maint neu hyd y dyfarniad, gallant ofyn bod y penderfyniad yn cael ei ailystyried. Bydd y mater yn cael ei ailystyried gan swyddog gwahanol ar lefel uwch.

**9.3** Os bydd yr ymgeisydd yn anghytuno â dyfarniad y swyddog adolygu, gall fynnu bod y mater yn cael ei gyfeirio at banel o Aelodau etholedig y Cyngor i gael penderfyniad terfynol ar y mater.

**9.4** Wrth ystyried eu penderfyniad, dylai Aelodau etholedig ofalu bod eu penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi TTD y Cyngor a'u bod yn ymwybodol na ddylai unrhyw ddyfarniad arwain at wariant uwchlaw 'cyfanswm a ganiateir' y Cyngor.

**9.5** Os yw'r ymgeisydd yn anghytuno â phenderfyniad Panel Apêl y Cyngor, yr unig opsiwn sydd ganddynt am adolygiad pellach fydd i'r gwasanaeth Ombwdsmon Llywodraeth Leol os ydynt yn anfodlon â'r ffordd cafodd y mater ei drin, neu Adolygiad Barnwrol os teimlant fod y penderfyniad yn gyfreithiol anghywir.

## 10.0 HYSBYSIADAU

**10.1** Pan fydd cais am TTD wedi cael ei benderfynu, mae'n rhaid hysbysu'r ymgeisydd am y canlyniad yn ysgrifenedig. Dylai llythyrau hysbysiad fod yn ddigonol fanwl ac i alluogi'r ymgeisydd gyflwyno apêl petaent yn anghytuno â'r penderfyniad. Bydd yr hysbysiadau'n cynnwys y canlynol:-

- Maint y dyfarniad;
- A yw'r dyfarniad i gael ei dalu mewn lwmp swm neu dros gyfnod;
- Y cyfnod y bydd y dyfarniad yn para, gan gynnwys y dyddiad y daw i ben, os yn berthnasol;
- Y dull o dalu;
- I bwy y mae'r taliad i'w wneud;
- Lle bo'r taliad am lai na maint y diffyg, eglurhad sut y penderfynwyd ar y ffigwr hwnnw;
- Eglurhad mai bwriad y dyfarniad yw: -
    - Rhoi amser i'r ymgeisydd chwilio am gartef arall sy'n rhatach;
    - Rhoi amser i'r ymgeisydd gytuno ar rent is gyda'r landlord;
    - Helpu i liniaru caledi ariannol yn y tymor byr/tymor canol.
- Egluro y gellir hawlio'n ôl unrhyw ddyfarniadau a wneir ar sail gwybodaeth anghywir, camliwio neu fethiant i ddatgan ffeithiau perthnasol;
- Egluro ei bod yn ofynnol i'r ymgeisydd roi gwybod i'r Adain Budd-daliadau Tai os yw eu hamgylchiadau ariannol yn newid yn ystod cyfnod y dyfarniad TTD. Gall methiant i hysbysu newidiadau arwain at ad-dalu'r TTD;
- Eglurhad o'r broses apêl.

**10.2** Lle gwneir dyfarniad er mwyn talu blaendal, dylid cynnwys gwybodaeth am ddyletswydd gyfreithiol y landlord i warchod y blaendal mewn cynllun gwarchod blaendal tenantiaeth a gymeradwyir gan y llywodraeth.

**10.3** Lle gwrthodwyd TTD, mae'n rhaid i'r hysbysiad gynnwys digon o wybodaeth i ganiatáu i'r ymgeisydd benderfynu a yw am ofyn i'r mater gael ei ailystyried neu yw am wneud apêl. Dylai'r hysbysiad ddatgan yn glir y rhesymau am y penderfyniad a nodi pa ffactorau a gymerwyd i ystyriaeth wrth ddod i'r penderfyniad hwnnw.

**10.4** Hefyd, dylai'r hysbysiad nodi'n glir fod hawliau apêl sy'n ymwneud â phenderfyniadau TTD yn gwbl ar wahân i hawliau apêl ar gyfer budd-daliadau tai a chredyd cynhwysol.

**10.5** Lle bo TTD yn cael ei dalu gyda'r budd-dal tai, rhaid i'r hysbysiadau ddangos yn glir faint sy'n fudd-dal tai a faint sy'n TTD.

**10.6** Pan fo cyfnod dyfarniad TTD i fod i ddod i ben, byddir yn hysbysu'r hawlydd o hynny un mis cyn terfynu'r dyfarniad. Byddant hefyd yn derbyn ffurflen gais am ddyfarniad arall tebyg. Fodd bynnag, dylid ei gwneud yn glir nad oes unrhyw warant y bydd cais arall yn llwyddiannus, hyd yn oed pe bai amgylchiadau'r hawlydd yn parhau heb newid.

**10.7** Lle bo'r ymgeisydd wedi rhoi eu caniatâd i'r landlord gael gwybod am ganlyniad y cais TTD, bydd yr Awdurdod yn hysbysu'r landlord o'r ceisiadau llwyddiannus **a'r** canlyniadau aflwyddiannus.

## 11. CYLCHOEDD TALU

**11.1** Bydd cylchoedd talu yn amrywio yn ôl amgylchiadau'r ymgeisydd a'r rhesymau am y dyfarniad. Lle dyfernir taliad 'unwaith-ac-am-byth', dylid gwneud y ffaith honno yn eglur i'r ymgeisydd yn yr hysbysiad.

**11.2** Yn arferol, bydd taliadau cyfnodol yn cael eu gwneud bob pedair wythnos; fodd bynnag, gall taliadau wythnosol fod yn berthnasol pe bai'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn cael problemau gyda rheoli arian neu gyllidebu.

**11.3** Lle bo'r ymgeisydd yn derbyn Credyd Cynhwysol, bydd angen alinio'r cylchoedd talu hefo'r taliad misol o Gredyd Cynhwysol.

## 12. GORDALIADAU A HAWLIO TALIADAU YN ÔL

**12.1** Lle dyfernir TTD o ganlyniad i wybodaeth gamarweiniol, gamliwio neu fethiant i ddatgelu ffeithiau perthnasol, boed trwy dwyll neu beidio, gellir hawlio'n ôl unrhyw ordaliad.

**12.2** Ni ellir hawlio gordaliadau TTD o unrhyw fudd-daliadau eraill a roddwyd. Yr unig ddull o gael yr arian yn ôl yw gofyn i'r ymgeisydd am ad-daliad. Gall hyn fod trwy system mân ddyledwyr y Cyngor, trwy asiantaethau casglu dyledion neu drwy'r llysoedd.

**12.3** Does dim angen talu yn ôl TTD a ddyfarnwyd am flaen-daliadau rhent cyhyd bod y TTD wedi cael ei ddefnyddio at y pwrpas priodol.

**12.4** Ni ddylid ceisio adennill dyfarniadau TTD a wnaed 'ar gyfrif' o dan y broses tracio cyflym.

## 13. CADW COFNODION

**13.1** Mae'n ofynnol i'r AGP fonitro sut y mae TTD yn cael eu defnyddio gan y cwsmeriaid y mae diwygiadau lles yn effeithio arnynt. O ganlyniad, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gadw cofnod o'r prif resymau dros wneud dyfarniadau. Dylid cofnodi pob dyfarniad TTD o dan y categorïau canlynol:-

- I gefnogi cwsmeriaid y mae cap ar fudd-daliadau yn effeithio arnynt;
- I gefnogi cwsmeriaid y mae meini prawf maint y sector tai rhent cymdeithasol yn effeithio arnynt;
- I gefnogi cwsmeriaid y mae diwygiadau'r Awdurdod Iechyd Lleol yn effeithio arnynt;
- Unrhyw reswm arall.

**RUSSELL WILLIAMS**
**RHEOLWR BUDD-DALIADAU** **CHWEFROR 2017**

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **20 MAWRTH 2017** |
| **PWNC:** | **CYLLIDO’R AILSTRWYTHURO O FEWN YSGOLION UWCHRADD** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES**<br>**Y CYNGHORYDD K HUGHES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi:ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.** Bod y Pwyllgor Gwaith yn cytuno mewn egwyddor i ddefnyddio cyllidebau canolog i ariannu unrhyw gostau diogelu cyflog sy'n deillio o ailstrwythuro rheolaeth Ysgolion Uwchradd y Cyngor.

**2.** Ariannu’r trefniadau diogelu cyflog yn 2017/18 o’r gyllideb wrth gefn ar gyfer Dileu Swyddi ond, os nad yw’r gyllideb honno’n ddigonol, dylid defnyddio balansau cyffredinol y Cyngor.

**3.** Bod yn rhaid i bob ysgol sydd angen cymorth i gwrdd ag unrhyw gostau diogelu gyflwyno cynllun ffurfiol yn manylu ar y newidiadau arfaethedig, y costau diogelu cyflog a’r arbedion refeniw a gyflawnir. Rhaid i'r cynllun fod yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y cynnig ailstrwythuro a ddrafftiwyd eisoes a rhaid ei gytuno gyda'r Pennaeth Dysgu a’r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**4.** Bod rhyddhau cyllid ar gyfer ysgolion unigol yn cael ei ddirprwyo i'r Aelod Portffolio (Cyllid) a'r Aelod Portffolio (Addysg) yn amodol ar gyflwyno achos busnes boddhaol gan yr Ysgol dan sylw.

**5.** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adennill cyfran o'r cyllid a ddyrennir tuag at gostau diogelu cyflog, os bydd ysgol sydd wedi derbyn cyllid trwy’r penderfyniad hwn yn penderfynu ailstrwythuro eto yn y dyfodol e.e. o ganlyniad i gynnydd yn nifer y disgyblion.

Mae'r rhesymau dros yr argymhellion wedi'u nodi yn Atodiad 1.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Bod ysgolion yn ariannu costau diogelu cyflog o'u cyllidebau eu hunain. Gan y byddai angen gwneud hynny am gyfnod o dair blynedd, mae'n annhebygol y byddai'r ysgolion mewn sefyllfa i ariannu'r costau ac, felly, ni fyddent yn gweithredu'r ailstrwythuro. Er mwyn mantoli eu cyllidebau, byddai ysgolion yn fwy tebygol o leihau nifer y staff a byddai'r costau hynny’n disgyn ar y gyllideb gorfforaethol.

Mae’r opsiwn a argymhellir yn golygu y gall ysgolion wneud y gostyngiad angenrheidiol yn y costau fel bod modd iddynt weithredu o fewn yr arian sydd ar gael ac mae hefyd yn caniatáu i'r ysgolion fod mewn sefyllfa well i gynnal y niferoedd staffio cyfredol.

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | | |
|---|---|---|
| | Mae defnyddio'r balansau cyffredinol a datblygu strategaeth gyllidebol wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| | Ydi | |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| | Ydi ar gyfer 2017/18 – cymeradwyir cyllid am y cyfnod 2018/19 i 2020/21 gan y Cyngor llawn fel rhan o'r pecyn cyllideb cyffredinol. | |
| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**(mandadol) | Yn cytuno gyda'r cynnig. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Nodi'r angen am eglurder ynghylch datganiadau o ddiddordeb gan y ddau Aelod Portffolio |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| | • Adroddiad manwl ar y cynnig. | |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| | | |

# ARIANNU'R GWAITH O AD-DREFNU STRWYTHUR RHEOLI YSGOLION UWCHRADD

## 1. CYFLWYNIAD A GWYBODAETH GEFNDIR

**1.1.** Mae niferoedd y disgyblion yn Ysgolion Uwchradd y Cyngor wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf (yn enwedig mewn pedair allan o'r pum ysgol) - ond nid yw strwythur rheoli'r ysgolion wedi newid o ran nifer y staff ar uwch dimau rheoli'r Ysgolion (Penaethiaid, Dirprwyon a Phenaethiaid Cynorthwyol, Penaethiaid Blwyddyn a Phenaethiaid Pynciau).

**1.2.** Mae'r setliad ariannol cyffredinol ar gyfer y Cyngor a'r angen i wneud arbedion yn gyffredinol, ynghyd â'r gostyngiad yn y cyllid chweched dosbarth wedi arwain at newidiadau canlynol i'r gyllideb ar gyfer ysgolion uwchradd.

**Tabl 1**

**Cyllidebau Ysgolion Uwchradd 2014/15 - 2017/18**

| Blwyddyn | Blynyddoedd Cyllido Oed 7 - 11 | Grant Chweched Dosbarth | Cyfanswm Cyllideb Ysgolion Uwchradd | Newid o'r Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| | £ '000 | £ '000 | £ '000 | % |
| 2014/15 | 13,521 | 2,962 | 16,483 | - |
| 2015/16 | 13,728 | 2,711 | 16,439 | -0.3% |
| 2016/17 | 14,321 | 2,554 | 16,875 | + 2.6% |
| 2017/18 | 14,047 | 2,522 | 16,570 | -1.8% |

**1.3.** Fel y gellir gweld, mae lefel gyffredinol y cyllid wedi aros yn weddol gyson ond bu'n rhaid i ysgolion i ariannu cynnydd mewn costau staff (dyfarniadau cyflog ac imcrementau) a'r cynnydd cyffredinol mewn costau oherwydd chwyddiant. Mae ysgolion wedi bod yn defnyddio balansau i helpu i ymdopi ag anawsterau cyllidebol yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae gwerth y cronfeydd wrth gefn wedi gostwng yn y ddwy neu dair blynedd diwethaf ac nid yw'r ffynhonnell hon o arian ar gael mwyach.

**1.4.** Mae'r broblem ar ei gwaethaf mewn un ysgol uwchradd, sydd wedi gweld y gostyngiad mwyaf yn nifer y disgyblion. Mae diffyg ariannol yn ei chronfeydd wrth gefn ar ddiwedd mis Mawrth 2016.

**1.5.** Mae Pennaeth yr ysgol hon wedi cysylltu ag Uwch Dîm Rheoli yr ysgol i sefydlu a fyddai modd i'r Cyngor gefnogi'r ysgol yn ei hymdrechion i leihau costau tra'n cadw lefel y staff dysgu.

## 2. Y CYNNIG

**2.1.** Mae'r rhan fwyaf o wariant unrhyw ysgol ar gostau staffio ac mae'r rhan fwyaf o'r costau hynny'n ymwneud â staff dysgu. Lle bo angen gwneud gostyngiadau sylweddol mewn gwariant, bydd hynny'n ddieithriad yn arwain at ostyngiad yn nifer y staff dysgu ac mae hynny'n cael effaith ar y gymhareb disgybl:athro a maint y cwricwlwm a gynigir i ddisgyblion.

**2.2.** Yn ychwanegol at eu cyflog arferol, mae athrawon hefyd yn derbyn lwfans ychwanegol am gyflawni cyfrifoldebau ychwanegol, e.e. Penaethiaid Blwyddyn, Penaethiaid Pynciau ayb. Er bod modd cael gwared ar y cyfrifoldeb ychwanegol ac, felly'r, lwfans ychwanegol, mae amodau gwasanaeth athrawon yn golygu bod gofyn diogelu'r cyflog am gyfnod o dair blynedd.

**2.3.** Fel y nodwyd uchod, mae'r sefyllfa ariannol mewn un ysgol yn fwy difrifol nag yn y lleill ac, er mwyn mantoli cyllideb 2017/18, mae'r Pennaeth wedi llunio cynnig i ailstrwythuro rheolaeth yr ysgol a gostwng y lwfansau a delir i athrawon. Byddai'r cynnig yn arwain at leihad parhaol mewn costau staffio o £102k ond byddai angen diogelu cyflog y staff yr effeithir arnynt am gyfnod o dair blynedd, sef cyfanswm o £118k y flwyddyn.

**2.4.** Trafodwyd y cynnig gyda Phenaethiaid y 4 ysgol uwchradd arall ac mae penaethiaid y tair ysgol uwchradd lai wedi cytuno mewn egwyddor i rannu eu syniadau ailstrwythuro ac wedi cytuno ei fod yn gwneud synnwyr i alinio cymaint â phosib y lwfansau cyfrifoldeb ychwanegol sy'n daladwy i athrawon. Yn ogystal, mae tair o'r pedair ysgol yn bwriadu ailstrwythuro yn unol â themâu dysgu Donaldson yn hytrach nag ar sail pynciau.

**2.5.** Fel y nodwyd yn flaenorol, mae un ysgol yn bwriadu ailstrwythuro ym mis Medi 2017, gyda tair arall yn bwriadu ailstrwythuro un ai yn Ebrill 2018 neu ym Medi 2018.

## 3. ARIANNU'R TREFNIADAU DIOGELU CYFLOG

**3.1.** I ddiogelu'r tâl am gyfnod o dair blynedd byddai angen cyllid fel a ganlyn: -

| Dyddiad Gweithredu | Blwyddyn ariannol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** |
| Medi 2017 | 7/12 o'r gost flynyddol | Cost flynyddol lawn | Cost flynyddol lawn | 5/12 o'r gost flynyddol | Dim cost |
| Ebrill 2018 | Dim cost | Cost flynyddol lawn | Cost flynyddol lawn | Cost flynyddol lawn | Dim cost |
| Medi 2018 | Dim cost | 7/12 o'r gost flynyddol | Cost flynyddol lawn | Cost flynyddol lawn | 5/12 o'r gost flynyddol |

**3.2.** Gan nad oes unrhyw ddarpariaeth yng nghyllideb 2017/18 i ariannu'r costau diogelu cyflog, bydd angen ariannu'r costau o'r £200,000 a neilltuwyd yn y gyllideb i dalu cost dileu swyddi yn ystod y flwyddyn ac, oni fydd arian ar ôl yn y gyllideb hon, bydd angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor.

**3.3.** Ar gyfer y blynyddoedd dilynol, bydd modd cynnwys y costau yn y gyllideb refeniw flynyddol a'u hariannau fel rhan o'r pecyn cyllideb cyffredinol a pheidio â dibynnu ar ddefnyddio balansau cyffredinol y Cyngor ei hun.

**3.4.** Hyd yma, dim ond un ysgol sydd wedi darparu manylion am gostau tebygol unrhyw ddiogelwch cyflog a bydd angen cyllido fel a ganlyn. Dylid nodi mai ffigurau dangosol yw rhain ar hyn o bryd a gallent newid pan fydd yr ysgol wedi cwblhau ei gynllun :-

2017/18 - £ 69k
2018/19 - £ 118k
2019/20 - £ 118k
2020/21 - £ 49k

**3.5.** Mae'n anodd amcangyfrif y costau tebygol yn y tair ysgol arall gan y bydd y diogelwch yn dibynnu ar lefel y lwfansau a delir ar hyn o bryd a'r ailstrwythuro arfaethedig. Dylid nodi bod gan yr ysgol a ddangosir uchod nifer fawr o athrawon sy'n derbyn lwfansau cyfrifoldeb ychwanegol (23 i gyd) a'r bwriad yw gostwng y nifer i 15 o athrawon yn derbyn lwfansau cyfrifoldeb ychwanegol.

**3.6.** Mae'r ysgolion eraill yn fwy ac efallai y byddant yn gwneud llai o ostyngiad yn niferoedd yr athrawon sy'n derbyn lwfans a byddai hynny'n golygu llai o gostau diogelu cyflog i'w hariannu. Yn yr achos yma, bydd y costau diogelu cyflog a roddir yn seiliedog ar y meincnod a osodir gan yr ysgol yma.

**3.7.** Dylid nodi hefyd, os bydd ysgolion angen ailstrwythuro eto yn y dyfodol neu'n dymuno gwneud hynny, e.e. oherwydd cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adennill cyfran o'r arian a ddyrannwyd tuag at ddiogelu cyflogau.

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **20 Mawrth 2017** |
| **Pwnc:** | **Asesiad o Lesiant Lleol Ardal Awdurdod Ynys Môn** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Ieuan Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dr Gwynne Jones, Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Llio Johnson, Rheolwr Uned Partneriaeth Gwynedd a Môn**<br>**01248 752033**<br>**lliojohnson@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Bod y Pwyllgor Gwaith yn:<br>(a) Nodi cynnwys yr Asesiad o Lesiant Lleol ar gyfer ardal Awdurdod Lleol Ynys Môn<br>(b) Yn ymateb i'r broses ymgynghori drwy anfon unrhyw sylwadau i Reolwr Uned Partneriaeth Gwynedd a Môn. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Yn unol â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi ei sefydlu ar gyfer ardal Awdurdod Ynys Môn baratoi a chyhoeddi Asesiad o Lesiant Lleol erbyn diwedd Ebrill 2017.<br><br>Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn wedi cytuno i gyd-weithio gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac mae Bwrdd ar y cyd wedi ei sefydlu sydd yn arwain ar y gwaith o baratoi yr asesiad ar draws y ddwy sir.<br><br>Aelodau y Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus sydd yn gyfrfiol am gymeradwyo'r Asesiad o Lesiant Lleol. Mae'r Cyngor yn aelod statudol o'r BGC ac mae'r Ddeddf yn nodi mai'r Arweinydd a'r Prif Weithredwyr yw'r unigolion sy'n cynrychioli'r Awdurdod Lleol ar y Bwrdd. |

| |
|---|
| Fodd bynnag, cyn i'r BGC allu cymeradwyo a chyhoeddi eu hasesiad o lesiant lleol, rhaid i'r Bwrdd ymgynghori a rhai a restrir yn y canllawiau statudol. Mae pwyllgor o'r awdurdod lleol yn un o'r rhai a ymgynghorir â hwy yn statudol.<br><br>Cyflwynir felly yr Asesiad Drafft o Lesiant Lleol ar gyfer sylwadau. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylwadau pellach |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau pellach |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau pellach |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Mae copi papur o'r Asesiad o Lesiant Lleol eisoes wedi ei rannu i bob Aelod. Gellir gweld y dogfennaeth i gyd ar y wefan www.lleisantgwyneddamon.org. |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Gwaith**<br>**Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **DYDDIAD:** | **20 Mawrth 2017**<br>**13 Mawrth 2017** |
| **PWNC:** | **Adroddiad AGGCC ar Arolwg o'r Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2016** |
| **AELOD(AU)PORTFFOLIO:** | **Y Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **Llyr Bryn Roberts, Pennaeth Dros Dro - Gwasanaethau Plant, (Gweithredol)**<br>**Leighton Rees, Pennaeth Dros Dro - Gwasanaethau Strategol, Gwasanaethau Plant** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **LeightonRees@ynysmon.gov.uk** |

## 1.0 ARGYMHELLIAD

1.1 Bod yr Aelodau'n nodi canlyniadau'r Arolwg a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2016.

1.2 Bod yr Aelodau'n nodi a chadarnhau derbyn yr Argymhellion.

1.3 Bod yr Aelodau'n nodi bod yr Argymhellion a'r camau i ymdrin â hwy wedi cael eu hymgorffori yn y Cynllun Gwella ar gyfer y Gwasanaeth.

## 2.0 CEFNDIR

2.1 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yw'r corff rheoleiddio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

2.2 Cynhaliodd AGGCC arolwg o'r Gwasanaethau Plant yn Ynys Môn ym mis Tachwedd 2016, gan edrych yn ofalus ar ansawdd y canlyniadau a gyflawnir ar gyfer plant sydd angen cymorth, gofal a chefnogaeth ac y mae angen eu

hamddiffyn.  Canolbwyntiwyd yn benodol ar ansawdd yr ymarfer, y broses gwneud penderfyniadau a gwaith amlasiantaethol mewn perthynas â darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a gwasanaethau ataliol.

2.3 Bydd yr Arolygydd Arweiniol yn rhoi cyflwyniad i'r Aelodau ar y casgliadau allweddol. Mae AGGCC wedi cydnabod meysydd arferion da, ond mae hefyd yn nodi meysydd i'w gwella. Cydnabu'r arolygwyr fod ffocws yr arolygiad yn canolbwyntio'n sylweddol ar gyfrifoldebau a dyletswyddau a gyflwynwyd yn Ebrill 2016 dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cyflwynodd y  Ddeddf newidiadau sylweddol yn y ffordd y bwriedir i'r Gwasanaethau Cymdeithasol weithredu, gyda llawer mwy o ffocws ar ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a gwasanaethau ataliol.  Darparwyd Codau Ymarfer a Hyfforddiant ar y ddeddfwriaeth o ddiwedd 2015 / dechrau 2016.

2.4 Cydnabuwyd yn yr Hunanasesiad a wnaed wrth baratoi ar gyfer yr arolwg fod meysydd sylweddol i'w gwella. Daeth yr Arolwg i gasgliadau tebyg gan wneud gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau.

2.5 Mae'r argymhellion hyn wedi eu hymgorffori yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor Sgriwtini hwn hefyd.  Datblygwyd trefniadau rheoli a llywodraethu i sicrhau y gellir cyflawni'r camau a gynigir mewn modd effeithiol ac amserol.

| **ATODIADAU** |
|---|
| Llythyr AGGCC<br>Adroddiad Arolygiad AGGCC |

Awdur: Leighton Rees
Teitl y Swydd: Pennaeth Gwasanaethau Strategol
Dyddiad: 23 Chwefror 2017

Atodiad 1

AGGCC
CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Caroline Turner
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Cyfarwyddwr
Gwasanaethau Cymdeithasol) Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Sir
Llangefni LL77 7TW

carolineturner@ynysmon.gov.uk

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:
Dyddiad / Date: 9 Chwefror 2017

Annwyl Caroline

Diolch am gwrdd â'r Arolygiaeth ar 31 Ionawr. Roeddwn yn gwerthfawrogi'r ymroddiad roedd uwch-swyddogion a chynrychiolwyr y cyngor yn ei ddangos.

Yn benodol, nodais y canlynol:

1) Gwnaeth y cyngor ei hun nodi problemau difrifol ynglŷn â gwasanaethau gofal plant dros flwyddyn yn ôl ac mae eisoes wedi rhoi cynllun cynhwysfawr ar waith. Mae ar daith i wella. Mae'r cyngor wedi bod yn agored gydag AGGCC ynghylch y problemau mae wedi bod yn eu hwynebu. Mae'r arolygiad diweddar wedi cael ei groesawu gan y cyngor ac mae wedi bod yn ymarfer adeiladol.

2) Mae'n debyg bod y problemau gyda gwasanaethau i blant sydd wedi dod i'r amlwg unwaith eto wedi cael eu peri gan gyfuniad o nifer o ffactorau: colli staff newydd eu recriwtio unwaith maent wedi ennill profiad, yr her o fodloni targedau'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, ac, yn arwyddocaol, y broblem gyda pherfformiad staff rheoli allweddol, sydd wedi gwrthdynnu sylw ac wedi cymryd amser i'w datrys.

3) Y flaenoriaeth uchel iawn mae swyddogion ac aelodau'n ei rhoi i wasanaethau cymdeithasol i blant, o ran ymrwymiadau ariannol a'r gonestrwydd a'r craffu sy'n cael eu harfer wrth drafod ac ystyried problemau mewn gwasanaethau i blant.


CSSIW
Welsh Government
Rhydycar Business Park
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ

AGGCC, Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

03000628812

www.aggcc.org.uk david.francis@wales.gsi.gov.uk www.cssiw.org.uk



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


4) Mae'r cynllun gweithredu mae'r cyngor wedi'i roi ar waith yn rhoi sylw i nifer o argymhellion a nodwyd yn ein hadroddiad. Yn ôl bob golwg, mae cyflwyniad strwythur grŵp ymarfer yn darparu ateb i'r problemau sydd gennych ynghylch gwneud penderfyniadau, ansawdd a materion cyfrinachedd, a dylai hyn helpu i gadw staff sydd newydd eu cymhwyso.

Argymhellais y dylech ystyried y canlynol hefyd:

1) Cryfhau llais Ynys Môn ar y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol – yn enwedig mewn perthynas â'r problemau a nodwyd yn ein hadroddiad am asiantaethau eraill.

2) Sicrhau bod y cynllun gwella'n gynyddol ac yn realistig o ran ei gyflawni. Mae'n hawdd ceisio gwneud gormod yn rhy fuan. Mae'n bosibl hefyd y byddwch am roi asesiad risg ar waith a cheisio lliniaru unrhyw risgiau o fethiannau difrifol yn y cyfamser. Rwy'n meddwl am ymarferwyr penodol neu bryderon diogelu lle mae'n bosibl y byddwch am roi mesurau rheoli ar waith er mwyn rhoi sicrwydd.

Gwnaethom drafod y camau nesaf. Bydd AGGCC yn cyflwyno'r adroddiad i'r panel craffu yn gynnar ym mis Mawrth ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi. Byddai'n ddefnyddiol pe bai ein dau dîm cyfathrebu'n cydlynu wrth ymdrin â'r mater hwn a'r llinellau i'w dilyn. Er bod problemau'n cael eu nodi yn yr adroddiad, hoffem ddweud bod cynnydd yn cael ei wneud yn Ynys Môn ac mae cynllun ar waith.

Bydd Marc Roberts yn cwrdd â chynrychiolwyr y cyngor bob mis i fonitro cynnydd eich cynllun gweithredu, a gallai hyn gynnwys cymryd rhan yn y gwaith o oruchwylio unrhyw weithgareddau ar gyfer rhoi sicrwydd. Bydd AGGCC yn cynnal arolygiad pellach ymhen tua 12 mis.

Bydd AGGCC yn ysgrifennu at gadair Byrddau Diogelu Plant Rhanbarthol ynglŷn â'r problemau rhyngasiantaethol a nodwyd yn yr adroddiad, a bydd hefyd yn ysgrifennu at yr heddlu i'w hysbysu am rywfaint o'i gynnwys.

Diolch ichi unwaith eto am y dull defnyddiol ac adeiladol mae swyddogion Ynys Môn wedi'i ddefnyddio wrth ymateb i'r arolygiad.

Yn gywir



David Francis
**Prif Arolygydd Cynorthwyol**
AGGCC – Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

cc Dr Gwynne Jones, Prif Weithredwr gwynnejones@ynysmon.gov.uk

AGGCC
CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gwasanaethau Plant

## Cyngor Sir Ynys Môn

Mawrth 2017

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG30963
Digital ISBN 978 1 4734 8635 5 Print ISBN 978 1 4734 8633 1

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad a’r camau nesaf | 4 |
| Trosolwg o’r canfyddiadau | 6 |
| Argymhellion | 8 |
| Trefniadau mynediad | 10 |
| Diogelu ac asesu | 18 |
| Arweinyddiaeth, rheoli a llywodraethu | 27 |
| Atodiad 1: Methodoleg | 37 |

# Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) arolygiad o wasanaethau plant yng Nghyngor Sir Ynys Môn ym mis Tachwedd 2016. Edrychodd arolygwyr yn fanwl ar ansawdd canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer plant yr oedd angen cymorth, gofal a chymorth a/neu ddiogelwch arnynt. Canolbwyntiwyd yn benodol ar ansawdd arfer, penderfyniadau a gwaith aml-asiantaeth ar gyfer trefniadau diogelu, mynediad ac asesu'r awdurdod; yn cynnwys y trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a gwasanaethau ataliol. Hefyd, gwnaeth yr arolygwyr werthuso'n hyn a wyddai'r awdurdod lleol am ei berfformiad ei hun a pha wahaniaeth yr oedd yn ei wneud i'r bobl y mae'n ceisio rhoi help, gofal a chymhorth a/neu ddiogelwch iddynt.

Trefnwyd yr arolygiad o amgylch llwybr pobl at y gwasanaethau gofal a chymorth, ac yn benodol mynediad at y gwasanaethau ataliol a statudol a'r cyswllt rhwng y gwasanaethau hyn, yn ogystal ag unrhyw faterion diogelu sy'n codi. Ystyriwyd yn ofalus y cyfraniadau a wnaed gan y gwasanaethau cymdeithasol mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill er mwyn cyflawni canlyniadau da i blant a theuluoedd a'u diogelu rhag niwed pan fo hynny'n berthnasol.

Bu'r arolygwyr yn darllen ffeiliau achosion ac yn cyfweld â'r staff, rheolwyr a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner. Lle bynnag y bo'n bosibl, a phan oedd yn briodol gwneud hynny, bu'r arolygwyr yn siarad â'r plant a'u teuluoedd[1].

Roedd y cyngor yn profi cyfnod o newidiadau sylweddol ar adeg yr arolygiad, yn cynnwys y gofyniad i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Er bod rhai gweithgareddau gwella penodol a phwrpasol yn bodoli, roedd yr awdurdod lleol yn cydnabod na roddwyd sylw digonol i wella arfer yn y gwasanaethau plant yn y blynyddoedd diwethaf. Er y rhoddir llawer mwy o fuddsoddi, ffocws a sylw yn awr i wella arfer, yn arbennig yn y naw mis diwethaf, mae angen i'r datblygiadau hyn wreiddio a chael eu cynnal. Gwelsom fod arolygiaeth y rheolwyr o'r trefniadau diogelu, mynediad ac asesu yn annigonol a bod rhaid cyflymu'r newid wrth wella'r ddarpariaeth cymorth, gofal a chefnogaeth a/neu ddiogelu i blant a theuluoedd ar Ynys Môn.

Roedd yr arolygwyr yn falch o nodi bod yr uwch reolwyr yn derbyn ein canfyddiadau a'u bod yn ymrwymedig i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol.

Mae'r argymhellion ar dudalennau 8 a 9 yr adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol y dylai'r gwaith datblygu ganolbwyntio arnynt ar ôl yr arolygiad. Eu nod yw cynorthwyo cyngor Ynys Môn a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

[1] Mae pob enw wedi cael ei newid yn yr enghreifftiau o arfer yn yr adroddiad hwn.

# Y camau nesaf

Mae AGGCC yn disgwyl i Gyngor Sir Ynys Môn gynhyrchu cynllun gwella mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad hwn o fewn 20 diwrnod o'i gyhoeddi. Caiff y cynllun gwella ei fonitro yn ystod ein rhaglen o gynnal arolygiadau ac adolygiadau o berfformiad drwy gydol 2017/18.

Oherwydd y pryderon arwyddocaol a nodwyd yn yr arolygiad hwn, rhoddir ystyriaeth i gynnal ail arolygiad o wasanaethau plant Ynys Môn o fewn 12 – 18 mis i gyhoeddiad yr adroddiad hwn.

# Trosolwg o'r canfyddiadau

## Trefniadau mynediad

Nodwyd bod trefniadau mynediad at y gwasanaethau ataliol a statudol wedi'u sefydlu ac yn cael eu cynnig yn ddwyieithog. Roedd y meini prawf ar gyfer y gwasanaethau tîm o amgylch y teulu wedi'u sefydlu'n dda ac yn cael eu rhannu gyda'r partneriaid. Fodd bynnag, nid oedd gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth a threfniadau ataliol yr awdurdod lleol wedi'u datblygu'n ddigonol. Roedd y cyngor yn ymatebol pan oedd arwyddion brys bod plentyn mewn perygl ond roedd y ddealltwriaeth o'r trothwyon rhwng partneriaid a'r gwasanaethau plant yn anghyson. Roedd angen gwaith aml-asiantaeth brys er mwyn mynd i'r afael â hyn. Roedd y wybodaeth atgyfeirio a dderbyniwyd gan bartneriaid yn wael. Roedd y gwasanaethau plant yn gweithio'n ddiwyd i gasglu'r wybodaeth a oedd ar goll ond roedd y dadansoddiadau o (ail)atgyfeiriadau yn amrywiol ac yn rhy aml nid oedd yr achosion hynny y dylent fod wedi'u huwchraddio i asesiad yn cael eu huwchraddio. Roedd yn amlwg bod y staff yn ymroddedig i wella bywydau'r plant a'r teuluoedd yr oeddent yn gweithio gyda hwy, ond nid oedd gan y tîm dyletswydd ac asesu y capasiti digonol, y profiad na'r gefnogaeth gan uwch reolwyr i gyflawni canlyniadau o ansawdd da yn effeithiol i blant a theuluoedd. Roedd arolygiaeth y rheolwyr o benderfyniadau yn annigonol.

## Diogelu ac asesu

Roedd ansawdd ac amseroldeb ymholiadau diogelu plant yn anghyson. Nid oedd y broses ar gyfer trefnu trafodaethau strategaeth yn effeithiol ac yn aml nid oedd yn cynnwys gwybodaeth gan bartneriaid perthnasol. Roedd trefniadau newydd wedi'u cadarnhau ac roedd angen gweithredu brys i sicrhau bod y rhain yn cael eu deall yn glir, eu cyflwyno'n gyson ac mai canlyniad hyn oedd bod oedi annerbyniol i ymholiadau diogelu plant yn cael eu hosgoi yn y dyfodol. Roedd ansawdd yr asesiadau yn amrywiol; pan oeddent yn dda, roedd tystiolaeth o ddefnyddio gwybodaeth amrywiol i hysbysu'r dadansoddiad risg. Gwnaed ymdrechion parhaus gan y gweithwyr cymdeithasol i ganfod dymuniadau a theimladau'r plant a gwnaed rhywfaint o ddefnydd da o ddarpariaeth eiriolaeth anffurfiol i gynorthwyo'r plant i wneud y defnydd gorau o'r cymorth a gynigiwyd. Fodd bynnag, roedd yr arfer gwaith cymdeithasol da a adlewyrchwyd yng nghynnwys rhai o'r asesiadau wedi'i danseilio gan yr ystod gyfyngedig o adnoddau oedd ar gael i gefnogi'r gwaith gyda phlant a theuluoedd a diffyg rheolwyr a staff gweithredol profiadol a sefydlog ar draws y timau gofal plant hirdymor. Roedd newidiadau rheolaidd i weithwyr cymdeithasol yn arwain at golli ysgogiad, a oedd yn effeithio ar yr ymgysylltiad â'r teuluoedd. Er y cafodd y rhan fwyaf o'r asesiadau eu rhannu gyda'r plant a'r teuluoedd, roedd diffyg ymgysylltiad effeithiol yn creu sefyllfa lle nad oeddent yn ddigon ymwybodol o ddiben yr help, gofal a chymorth a/neu ddiogelwch roeddent yn eu derbyn. Roedd ansawdd y cofnodi drwy'r broses asesu gyfan yn wael ac, yn sgîl hynny, yn llesteirio'r rhai a oedd yn cymryd cyfrifoldeb am achos rhag deall yr anghenion a'r risgiau oedd yn gysylltiedig â phlant a theuluoedd. Roedd hyn

yn arbennig o arwyddocaol o ystyried y lefel uchel o newidiadau o fewn y gweithlu. Nid oedd arolygiaeth y rheolwyr o ansawdd yr asesiad yn ddigon cadarn yn nhermau her a rheoli ansawdd.

## Arweinyddiaeth, rheoli a llywodraethu

Roedd gan yr uwch reolwyr weledigaeth a rennir ar gyfer gwella'r dulliau diogelu a hybu'r gwasanaethau sy'n cynorthwyo plant a theuluoedd i gyflawni gwytnwch ac i fyw bywydau annibynnol. Roeddent wedi ceisio atgyfnerthu'r ymrwymiad hwn drwy fuddsoddiad pellach yn y gwasanaethau plant. Roedd angen trawsnewid y cynlluniau strategol yn strategaeth ar gyfer darparu gwasanaethau ataliol a statudol o safon uchel ac wedi'u hintegreiddio'n dda. Roedd angen dosbarthu'r strategaeth yn well drwy'r gweithlu cyfan a'i rhannu'n fwy effeithiol gyda phartneriaid. Roedd angen i'r cyngor ddatblygu'r cydberthnasau sydd ganddo eisoes gydag asiantaethau partner i sicrhau perchenogaeth a rennir o gyfeiriad strategol y gwasanaethau plant a hefyd yr ysgogiad gweithredol sydd ei angen i wella gwasanaethau a chanlyniadau i blant a theuluoedd. Roedd uwch arweinwyr yn cydnabod bod eu ffocws ar y gwasanaethau plant wedi bod yn annigonol yn y gorffennol ac nid oedd y newidiadau yn cael eu gweithredu'n ddigon cyflym. Wrth gydnabod hyn, roedd y cyngor ar fin cyflwyno rhaglen uchelgeisiol o newidiadau trawsnewidiol; fodd bynnag, nodwyd pryderon ynglŷn â'r diffyg capasiti gweithlu sefydlog i gyflawni'r newidiadau dan sylw yn erbyn cefndir o gyni a galw cynyddol. Roedd angen gwelliannau penodol, parhaus a chyflymach er mwyn hybu diogelwch a lles plant a theuluoedd yn effeithiol.

Nid oedd y dadansoddiad o risgiau ac anghenion parhaus cymunedau yn hysbysu'r gwaith o gynllunio gwasanaethau plant. Nid oedd y trefniadau rheoli perfformiad, y dulliau monitro na'r strategaethau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod yr awdurdod yn cynnal diwylliant o ddysgu yn cynnwys lleisiau'r plant a theuluoedd. Nid oeddent ychwaith wedi'u gwreiddio'n ddigonol i ddarparu dealltwriaeth drylwyr o'r gwahaniaeth yr oedd help, gofal a chymorth a/neu ddiogelwch yn ei gael ar blant a theuluoedd. Roedd angen i'r uwch arweinwyr wella eu gwybodaeth am arfer a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n fwy effeithiol.

Roedd y gweithlu yn ymrwymedig i gyflawni canlyniadau da i blant a theuluoedd ac, er bod morâl y staff yn fregus, roedd yn ymddangos ei fod yn gwella. Fodd bynnag, nid oedd gwasanaethau bob amser yn cael eu darparu gan weithlu medrus, cymwys, a oedd yn meddu ar y cymwysterau a'r profiad addas a oedd yn creu'r capasiti i ddarparu help, gofal a chymorth a/neu ddiogelwch i blant a theuluoedd mewn dull cyson. Roedd gwendid penodol ar lefel rheolwyr tîm. Ystyriwyd bod y rheolwyr, yn cynnwys yr uwch reolwyr, yn hawdd mynd atynt ac roedd ystod a swm da o gyfleoedd hyfforddi ar gael i'r staff. Fodd bynnag, roedd angen arolygiaeth gadarnach o arfer, arolygiaeth staff fwy rheolaidd a safonol, ac roedd angen atgyfnerthu'r rhagolygon ar gyfer datblygu arweinwyr er mwyn cynorthwyo'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau sy'n creu canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd.

# Argymhellion

## Fel blaenoriaeth:

1. Dylai'r awdurdod fwrw ymlaen â'i ymrwymiad i ddatblygu fframwaith ar gyfer darparu gwaith ataliol gyda phlant a theuluoedd a fydd yn darparu gwasanaeth integredig yn ogystal â darparu help a chymorth cynnar sy'n oedi'n effeithiol yr angen am ofal a chymorth.

2. Dylid sefydlu systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddiant aml-asiantaeth effeithiol i sicrhau bod y staff a'r partneriaid yn deall y trothwyon ar gyfer asesu gwasanaethau plant statudol a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gyson; dylai hyn gynnwys datblygu protocol trothwyon diogelu plant aml-asiantaeth sy'n ymgorffori'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.

3. Dylai uwch arweinwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu barhau i gydweithio'n rhagweithiol i sicrhau gwelliannau i ansawdd, cysondeb ac amseroldeb ymholiadau diogelu plant.

4. Dylai'r cyngor barhau i gynorthwyo uwch arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o natur gymhleth a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant, er mwyn rhoi sicrwydd iddynt hwy, eu partneriaid, staff a chymunedau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni i'r eithaf.

5. Dylid datblygu strategaeth gadarn ar gyfer y gweithlu i gynnwys nodau byrdymor, tymor canolig a hirdymor er mwyn recriwito a chadw gweithwyr cymdeithasol.

6. Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer rheolwyr timau ac uwch ymarferwyr er mwyn sicrhau capasiti digonol i ddarparu arolygiaeth gan reolwyr o benderfyniadau a herio a chyfeirio staff ar draws y gwasanaeth; dylid bod rhaglen arweinyddiaeth a datblygiad ar gael er mwyn datblygu gwytnwch.

7. Dylai uwch reolwyr gymryd camau i wella amlder, cysondeb ac ansawdd arolygiaeth staff rheng flaen; mae'n rhaid cyflwyno dull sicrwydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd.

## Yn ystod y 12 mis nesaf:

8. Mae'n rhaid i gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y gwasanaethau plant barhau i sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliannau yn cyflymu ac yn cael ei gynnal.

9. Dylid sefydlu trefniadau aml-asiantaeth i atgyfnerthu cynlluniau gweithredol a fydd yn cynorthwyo cydlyniad effeithiol o waith cwblhau Fframweithiau Asesu ar y Cyd gan bartneriaid statudol.

10. Dylid gwella ansawdd asesiadau a chynlluniau i sicrhau eu bod o ansawdd da yn gyson, gyda ffocws clir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd, a bod dealltwriaeth glir o'r canlyniadau, amserlenni a'r cyfrifoldebau am weithredoedd a ddymunir.

11. Dylid gwella ansawdd a chysondeb cofnodion; dylai pob aelod o staff a rheolwr sicrhau bod eu cofnodion o safon dda, eu bod yn gyfredol a'u bod yn cael eu storio'n systemataidd.

12. Dylai'r awdurdod lleol a'i bartneriaid gydweithio i ddatblygu dull gydlynol ar gyfer casglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau sy'n cynnwys lleisiau plant a theuluoedd. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu'r broses o greu cynlluniau strategol er mwyn cyflawni aliniad effeithiol darpariaeth gwasanaethau rhwng gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, y sector ataliol a'r gwasanaethau statudol.

13. Mae angen ymgorffori trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, yn cynnwys craffu ar y galw am wasanaethau ac archwilio ansawdd arfer yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod gan reolwyr ar bob lefel wybodaeth amserol, berthnasol a chywir am berfformiad a sicrhau ansawdd i'w galluogi i wneud eu swyddi yn effeithiol ac i gyflawni gwelliannau.

14. Dylid monitro baich achosion ac adroddiadau ar ansawdd perfformiad gweithwyr yn barhaus er mwyn sicrhau bod capasiti digonol i alluogi'r gweithwyr i ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd.

# Trefniadau mynediad

## Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae pawb yn gallu cael mynediad at wybodaeth gynhwysfawr am y gwasanaethau Gwybodaeth, Cymorth a Chyngor a gallant gael cyngor a chymorth prydlon, yn cynnwys gwybodaeth am eu cymhwyster i dderbyn gwasanaethau gofal a chymorth. Mae'r gwasanaethau ataliol yn hygyrch ac yn effeithiol wrth oedi neu atal yr angen am ofal a chymorth. Mae partneriaid a'r bobl sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth yn deall y trefniadau mynediad at y ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol statudol ac maent yn gweithredu'n effeithiol.

## Crynodeb o'r canfyddiadau

- Roedd trefniadau mynediad at y gwasanaethau ataliol a statudol wedi'u sefydlu, roeddent yn parchu hawliau ac unigoliaeth pobl ac roeddent ar gael yn ddwyieithog.
- Roedd y meini prawf cymhwyster ar gyfer y gwasanaethau tîm o amgylch y teulu wedi'u sefydlu'n dda, wedi'u rhannu gyda'r partneriaid ac roedd dulliau sicrhau ansawdd yn golygu bod y trothwyon yn cael eu gweithredu'n drylwyr.
- Nid oedd trefniadau'r awdurdod ar gyfer cael mynediad at y gwasanaethau ataliol wedi'u datblygu'n ddigonol, ac roedd hynny'n cael effaith ar amseroldeb cymorth cynnar ac effeithiolrwydd oedi'r angen am ofal a chymorth; roedd angen gwneud mwy o waith gyda phartneriaid statudol ym meysydd iechyd ac addysg i sicrhau eu bod yn berchen ar ac yn rhannu'r gwaith o gwblhau'r Fframweithiau Asesu ar y Cyd.
- Pan dderbyniwyd cysylltiadau gan y gwasanaethau plant a bod arwyddion amlwg o niwed sylweddol, roedd camau cychwynnol prydlon a chymesur yn cael eu cymryd i ddiogelu plant.
- Roedd diffyg sefydlogrwydd, capasiti a phrofiad ar lefel rheolwr gweithredol/uwch ymarferydd yn y tîm dyletswydd ac asesu, ynghyd â diffyg dulliau sicrhau ansawdd a chymorth annigonol gan uwch reolwyr, wedi cael effaith andwyol ar y broses o adolygu achosion.
- Nid oedd polisi'r awdurdod ar drothwyon, penderfyniadau sgrinio a rheoli atgyfeiriadau i'r gwasanaethau plant yn cael ei rannu'n ddigonol gyda phartneriaid neu nid oedd ganddynt ddealltwriaeth ddigonol ohono.
- Roedd ansawdd y dadansoddiad o wybodaeth atgyfeirio, yn arbennig yn achos ailatgyfeiriadau, yn annigonol; nid oedd cronolegau a genogramau yn bwrpasol. Nid oedd gweithwyr proffesiynol yn derbyn gwybodaeth ddigonol neu nid oeddent yn ymgysylltu'n briodol yng nghanlyniad atgyfeiriadau a wnaed ganddynt i'r awdurdod.

- Roedd pob aelod o staff yn ymrwymedig i wella bywydau'r plant a'r teuluoedd yr oeddent yn gweithio gyda hwy.
- Roedd yr arolygiaeth o sicrwydd ansawdd ac arolygiaeth yr uwch reolwyr o'r trefniadau mynediad yn annigonol.

## Esboniad o'r canfyddiadau

1.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi sefydlu llwybrau atgyfeirio er mwyn cael mynediad at wasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh) i blant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol: Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd; Tîm o Amgylch y Teulu; a Thîm Dyletswydd ac Asesu'r gwasanaethau plant. Hefyd, roedd uwch drefniadau GCCh allgymorth a oedd wedi'u hanelu'n benodol at gynyddu mynediad plant anabl at wasanaethau, a oedd yn ategu'r llwybrau eraill. Er bod effeithiolrwydd trefniadau mynediad yr awdurdod yn amrywiol ar draws y gwasanaethau hyn, roedd pob un yn parchu hawliau ac unigoliaeth pobl ac yn cael eu cynnig yn Gymraeg, Saesneg ac mewn cyfieithiadau i ieithoedd eraill yn ôl y galw.

1.2. Roedd y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd wedi'u sefydlu'n dda ac yn adnodd pwysig. Gallai dinasyddion a gweithwyr proffesiynol gael mynediad iddynt drwy 'alw heibio' neu dros y ffôn. Roedd gwefan y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd wedi bod yn weithredol ond roedd wedi'i hatal dros dro wrth i welliannau technegol gael eu gwneud. Gallai staff y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ddarparu gwybodaeth a/neu gyfeirio pobl at ddarpariaeth gofal plant cyffredinol, gwasanaethau ataliol a/neu wasanaethau gofal a chymorth.

1.3. Roedd y gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu wedi bod yn weithredol ers cryn amser. Yn ogystal â darparu cymorth uniongyrchol i deuluoedd a phlant, roedd y tîm yn darparu llwybr at ystod o wasanaethau GCCh a gwasanaethau ataliol wedi'u comisiynu drwy gynlluniau grant "trechu tlodi" Llywodraeth Cymru.

1.4. Roedd y gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu yn derbyn 12 o atgyfeiriadau'r mis ar gyfartaledd, yn uniongyrchol gan deuluoedd a/neu weithwyr proffesiynol. Roedd pob atgyfeiriad yn cael ei sgrinio gan banel aml-asiantaeth. Roedd y dull sicrhau ansawdd hwn yn sicrhau bod trothwyon yn cael eu gweithredu'n drylwyr er mwyn cefnogi ethos y tîm; fodd bynnag, roedd hefyd yn golygu y gallai cyfnod o dair wythnos o oedi gronni cyn cyflwyno rhai o'r atgyfeiriadau i'r panel. Canfu'r arolygwyr hefyd fod rhestrau aros i gael mynediad at rai gwasanaethau wedi'u comisiynu. Effaith yr oedi hyn oedd nad oedd plant a theuluoedd a oedd yn cael eu hatgyfeirio at y Tîm o Amgylch y Teulu bob amser yn derbyn gwasanaeth yn ddigon prydlon i helpu i gyflawni eu hanghenion. Serch hynny, gwelodd yr arolygwyr dystiolaeth o waith rhagweithiol gyda phlant a theuluoedd a oedd yn cefnogi eu hannibyniaeth a gwella eu lles.

### Enghraifft o arfer

Roedd Lewis* yn berson ifanc ag anghenion iechyd difrifol. Roedd ei fam (Maggie) yn cael anhawster i gyflawni anghenion Lewis yn dilyn profedigaeth ac o ganlyniad i hyn ni allai Lewis wneud y defnydd gorau o'i addysg na'i amser hamdden. Roedd Maggie yn amharod i dderbyn help gan y gwasanaethau cymdeithasol statudol. Rhoddwyd gwybodaeth i Maggie gan weithiwr cymdeithasol am y gwasanaethau Tîm o Amgylch y Teulu a gofynnodd hi a Lewis am asesiad. Gwnaed ymdrech sylweddol gan y gweithiwr Tîm o Amgylch y Teulu i ymgysylltu ag aelodau unigol y teulu a thrafod gyda phob un beth yr oeddent am ei gael o gyfranogiad y tîm. Bu'n gweithio ar gyflymder a oedd yn addas i'r teulu er mwyn mynd i'r afael â nifer o faterion yn cynnwys: cymorth i hawlio budd-daliadau priodol; eiriolaeth gyda'r bwrdd iechyd lleol; cymorth i Lewis fynychu apwyntiadau yn annibynnol; cysylltu â'r ysgol er mwyn trafod anawsterau; a chysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol i oedolion ar gyfer gwasanaethau pontio. O ganlyniad i'r ymyriadau hyn, gallai'r teulu reoli eu cyllideb yn fwy effeithlon. Derbyniodd Maggie wasanaeth cwnsela ar ôl profedigaeth ac roedd yn ymdopi'n well yn gyffredinol. Gyda chymorth, roedd Lewis yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, yn mynychu apwyntiadau iechyd a gallai gael mynediad at weithgareddau hamdden nad oeddent wedi bod ar gael iddo cyn hyn. Mae'n amlwg bod y teulu hwn wedi'i rymuso ac roedd yn amlwg bod Lewis yn gwneud camau at fwy o wydnwch ac annibyniaeth.

1.5. Ar ôl cael eu gweld gan y panel Tîm o Amgylch y Teulu, roedd y plant a'r teuluoedd naill ai'n cael eu cyfeirio at gymorth asiantaeth unigol berthnasol neu, os oedd y teulu'n cyflwyno anghenion mwy cymhleth (nad oeddent yn gyfystyr â gofyniad am asesiad ar gyfer gofal a chymorth), cynhaliwyd Fframwaith Asesiad ar y Cyd. Roedd angen swm sylweddol uwch o waith gyda phartneriaid ym maes iechyd, ac yn arbennig ym maes addysg, i sicrhau eu bod yn berchen ar ac yn rhannu'r cyfrifoldeb am gwblhau'r fframwaith.

1.6. Roedd y meini prawf cymhwyster ar gyfer y gwasanaethau Tîm o Amgylch y Teulu wedi'u sefydlu'n dda ac roedd protocolau ysgrifenedig wedi'u rhannu gyda'r staff a'r partneriaid. Er bod y paramedrau cymhwyster ar gyfer y gwasanaethau Tîm o Amgylch y Teulu yn cwmpasu plant a theuluoedd sydd angen help neu gymorth ychwanegol, roedd yn siomedig gweld bod yr ystod o wasanaethau sydd ar gael yn annigonol er mwyn gallu cyflawni gofynion plant a theuluoedd eraill yr oedd eu hanghenion yn fwy dwys ond nad oeddent yn gymwys (eto) i dderbyn cynllun gofal a chymorth. Effaith y bwlch hwn yn y ddarpariaeth oedd bod rhai plant a theuluoedd wedi'u heithrio rhag derbyn gwasanaethau ataliol ac roedd y tebygolrwydd y byddai angen darpariaeth statudol fwy cymhleth a drud yn y dyfodol yn cynyddu. Roedd y bwlch trothwy sylweddol hwn rhwng y gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu a'r gwasanaethau statudol yn cael effaith negyddol hefyd ar gapasiti'r timau gofal plant i "gamu'n ôl" o achosion pan oedd angen cymorth o hyd ar blant a theuluoedd ar ôl gwneud cynnydd digonol o ran yr anghenion hynny a oedd yn gymwys ac oedd yn galw am gynlluniau gofal a chymorth.

**Dyfyniad o'r arolwg staff**
"Mae bwlch mawr rhwng y gwasanaethau diogelu a'r gwasanaethau ataliol. Mae yna nifer fawr o deuluoedd sydd dros y trothwy ataliol ac nid ydynt yn cyrraedd y trothwy diogelu. Mae'n broblem fawr."

1.7. Ar adeg yr arolygiad, y pennaeth dysgu gydol oes oedd y rheolwr llinell, a oedd yn gyfrifol ac yn atebol am waith maes ar gyfer y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a'r Tîm o Amgylch y Teulu. Roedd staff a phartneriaid yn mynegi rhwystredigaeth am nad oedd dull cwbl gydlynol o ddarparu help cynnar i deuluoedd, am eu bod yn credu y byddai hyn o fudd sylweddol i deuluoedd ac y gallai hefyd liniaru'r angen am wasanaethau statudol. Roedd yr awdurdod lleol wedi cydnabod y diffyg hwn yn y ddarpariaeth gwasanaeth ac roeddent yn datblygu cynlluniau fel rhan o'u hagenda drawsnewid er mwyn ailgyflunio gwasanaethau, yn cynnwys ailgomisiynu'r gyfres o wasanaethau ataliol i adlewyrchu anghenion plant a theuluoedd yn well. Roedd gweithrediaeth y cyngor wedi cymeradwyo cynnig ym Mai 2016 i gyfuno'r gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a'r Tîm o Amgylch y Teulu gyda'r Tîm Dyletswydd ac Asesu yn "hwb" GCCh unigol, gyda phennaeth y gwasanaethau plant yn atebol amdano, a chytunwyd y byddai'r gwasanaethau Tîm o Amgylch y Teulu a Theuluoedd yn Gyntaf yn cael eu trosglwyddo i'r gwasanaethau plant o fis Ebrill 2017. Wrth baratoi ar gyfer hyn, roedd rheolwyr a staff gweithredol y Tîm o Amgylch y Teulu wedi'u cyd-leoli gyda'r Tîm Dyletswydd ac Asesu ac roedd yr holl staff wedi datgan bod y broses gyfathrebu rhwng y gwasanaethau wedi gwella o ganlyniad i hyn. Roedd trefniadau diwygiedig uwch reolwyr ar gyfer cefnogi'r trosglwyddiad adnoddau hwn yn parhau i fod yn destun trafod.

1.8. Mae'r trefniadau ar gyfer cael mynediad at y gwasanaethau plant yn Ynys Môn yn cael eu trefnu drwy'r Tîm Dyletswydd ac Asesu. Mae'r atgyfeiriadau'n cael eu derbyn gan swyddog dyletswydd profiadol a chymwys nad yw'n weithiwr cymdeithasol cymwys. Mae'n ddwyieithog ac yn hyderus yn ei gallu i ymgysylltu'n dda gyda'r rhai sy'n atgyfeirio, i ddarparu gwybodaeth a chyfeirio pobl a gweithwyr proffesiynol at wasanaethau cyffredinol ac adnoddau priodol eraill, yn cynnwys y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a'r Tîm o Amgylch y Teulu. Dangosydd y swyddog dyletswydd bod ganddi ddealltwriaeth glir o sut a phryd i chwilio am gyngor a/neu drosglwyddo atgyfeiriadau mwy cymhleth, yn arbennig ar gyfer materion diogelu, i weithwyr cymdeithasol cymwys a/neu reolwyr. Gwelsom fod y penderfyniadau sgrinio ar gyfer cysylltiadau yn amserol. Pan oedd arwyddion clir bod plentyn neu blant mewn perygl o niwed sylweddol, cymerwyd camau cychwynnol cymesur a phrydlon i'w diogelu.


1.9. Roedd tîm o weithwyr cymdeithasol, uwch ymarferydd a rheolwr tîm yn cynorthwyo'r swyddog dyletswydd. Roedd pob aelod o staff yn ymroddedig i wella bywydau'r plant a'r teuluoedd yr oeddent yn gweithio gyda hwy.

**Dyfyniad gan weithiwr cymdeithasol**
"Mae'r gweithwyr yn gofalu'n ddirfawr am y teuluoedd, plant a gofalwyr y maent yn gweithio gyda hwy a byddant yn eirioli i sicrhau eu bod yn derbyn y gwasanaethau a'r cymorth maent yn haeddu eu cael."

1.10. Roedd yr arolygwyr yn bryderus nad oedd rheolwyr gweithredol a staff y Tîm Dyletswydd ac Asesu yn derbyn cefnogaeth ddigonol ac nad oedd gan y tîm y profiad angenrheidiol. Un mater a oedd yn destun pryder penodol oedd y lefel annigonol o gefnogaeth gan uwch reolwyr i'r rheolwr tîm a ddyrchafwyd yn ddiweddar a oedd, er clod iddi, wedi rheoli'r tîm am gyfnod o dri mis yn ogystal â gweithio yn swydd dau uwch ymarferydd. Cafodd un o'r swyddi hyn ei llenwi wedi hynny ar sail dros dro. Mae angen unioni'r diffyg capasiti a phrofiad hwn ar y lefel rheolwyr gweithredol/uwch ymarferwyr, ynghyd â'r diffyg dull sicrhau ansawdd i gefnogi arolygiaeth gan reolwyr, a hynny fel blaenoriaeth uchel. Er bod y staff yn datgan bod rheolwyr, yn cynnwys y rheolwyr gwasanaeth, ar gael iddynt, nid oedd yn bosibl i'r bylchau presennol yn y capasiti rheoli gael eu hamsugno'n ddigonol yn y sefydliad presennol ac roedd hyn wedi effeithio'n andwyol ar y gwaith o adolygu achosion.

1.11. Gwelwyd twf aruthrol yn nifer yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau plant ar Ynys Môn rhwng 2012/13 a 2014/15. Er i'r duedd hon gael ei gwyrdroi yn 2015/16, mae'r data ar gyfer 2016/17 yn dangos bod y cyfraddau atgyfeirio yn cynyddu unwaith eto. Er bod ganddynt gydberthnasau gweithio da ar y cyfan gydag asiantaethau partner, dywedodd y staff a rheolwyr nad oedd dealltwriaeth gyffredin o'r trothwy ar gyfer cynnal asesiad ar gyfer gofal a chymorth. Mae nifer y cysylltiadau (a elwir yn ffurflenni CID 16) gan yr heddlu sy'n mynegi pryderon a/neu ddigwyddiadau wedi parhau i fod yn gyson uchel. Fel yn achos awdurdodau eraill yng ngogledd Cymru, mae'r arfer o rannu pob ffurflen CID 16 heb ei sgrinio ymlaen llaw wedi rhoi pwysau ychwanegol ar y tîm dyletswydd. Yn y cyfnod rhwng Ebrill a Mehefin 2016/17, ni wnaeth 82% o gysylltiadau â'r heddlu arwain at atgyfeiriad/asesiad. Yn ystod yr un cyfnod, roedd cysylltiadau gan bartneriaid eraill, megis iechyd, ysgolion ac asiantaethau'r trydydd sector, wedi arwain at achosion tebyg o rhwng 26% a 54% o gysylltiadau na wnaethant arwain at atgyfeiriad/asesiad.

**Cysylltiadau na wnaethant arwain at asesiad**
**Chwarter 1 2016/17**



1.12. Er yr hyder a gofnodwyd yn y gwasanaethau plant, dywedodd partneriaid fod diffyg eglurder yn aml ynghylch sut yr oedd penderfyniadau trothwy yn cael eu gwneud ar achosion newydd. Hefyd, hysbyswyd yr arolygwyr bod partneriaid yn gorfod herio penderfyniadau trothwy'r gwasanaethau cymdeithasol yn achlysurol a'u bod wedi cynnull eu cyfarfodydd eu hunain ambell waith i gasglu gwybodaeth er mwyn ailgyflwyno eu hachos i'r gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd partneriaid hefyd nad oeddent yn derbyn gwybodaeth ddigonol am ganlyniadau atgyfeiriadau yn cynnwys pryd yr oedd achosion wedi'u cau.

1.13. Nodwyd absenoldeb protocol trothwy aml-asiantaeth gan yr arolygwyr. Roedd angen hyn i gynorthwyo partneriaid i wneud atgyfeiriadau mwy priodol a phenodol. Roedd hefyd yn peri pryder nad oedd unrhyw ddulliau sicrhau ansawdd aml-asiantaeth ar waith i adolygu trothwyon nac ansawdd yr atgyfeiriadau. Yr ydym yn cydnabod y gallai'r gwaith a ysgogwyd yn ddiweddar gan y gwasanaethau plant i adolygu'r canllaw diwygiedig ar drothwyon i staff mewn ymateb i gyflwyniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ffurfio'r sail i waith gwella yn y maes hwn. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth hyd yma o ymdrechion i ymgysylltu'n ystyrlon â phartneriaid yn y datblygiadau hyn na thystiolaeth bod partneriaid yn chwilio am ymgysylltiad o'r fath. Mae angen gwaith aml-asiantaeth cyflym i ddiweddaru'r protocolau a gwella cysondeb y trothwyon a fydd yn galluogi'r partneriaid i ymgysylltu'n fwy effeithiol â'i gilydd ac er mwyn i'r staff sicrhau perchenogaeth.

1.14. Dywedodd y staff a'r rheolwyr bod ansawdd yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau plant gan bartneriaid yn aml yn wael, ac er bod ffurflen atgyfeirio aml-asiantaeth (MARF) yn bodoli, nid oedd yn cael ei defnyddio'n gyffredinol. Canfu'r arolygwyr dystiolaeth o'n hadolygiad o'r atgyfeiriadau a oedd yn cefnogi'r safbwynt hwn. Ystyriwyd bod ansawdd yr atgyfeiriadau yn amrywiol iawn. Roedd staff dyletswydd yn gwneud y gwiriadau cefndir perthnasol er bod arolygwyr yn aml yn cael anhawster i'w canfod ar y cofnod electronig. Er clod iddynt, roedd y staff dyletswydd yn dilysu/egluro ac yn mynd ar drywydd gwybodaeth goll; fodd bynnag, oherwydd y niferoedd, roedd yr amser gormodol a oedd yn cael ei dreulio yn gwneud hyn yn llesteirio eu gallu i ymgymryd â gweithgareddau allweddol eraill sydd wedi'u hanelu'n fwy uniongyrchol at gefnogi plant a theuluoedd.

1.15. Effaith gronnus galw uwch a diffyg capasiti'r staff oedd cyfleoedd cyfyngedig ymgysylltiad y Tîm Dyletswydd ac Asesu gyda phlant a theuluoedd. Adlewyrchwyd hyn yn rhai o'r achosion y bu i'r arolygwyr eu hadolygu. Gwelsom enghreifftiau o achosion yn cael eu cau pan oedd arwydd clir bod angen help a chymorth ar blant a theuluoedd, er nad oedd unrhyw arwyddion clir bod y lefel o angen yn cyflawni'r trothwy ar gyfer niwed sylweddol. Er hynny, mae'n amlwg y dylai'r achosion fod wedi arwain at asesiad cyn penderfynu sut a gan bwy y gellid darparu'r cymorth yn fwyaf effeithiol.

1.16. Roedd trefniadau gweinyddol a thechnegol beichus ar waith er mwyn i'r staff dyletswydd gofnodi gwybodaeth atgyfeirio a phenderfyniadau yn ogystal ag arferion cofnodi gwael yn llesteirio'r gallu i gyflawni cyfrif clir o'r digwyddiadau sy'n arwain at

(ail)atgyfeiriadau. Roedd tystiolaeth o rai o'r ffeiliau achos a adolygwyd yn dangos diffyg dadansoddiad o'r wybodaeth atgyfeirio; roedd y rheswm dros atgyfeirio yn aml yn aneglur ac yn achos atgyfeiriadau lluosog roedd diffyg cyfrif clir cydlynol o'r anghenion/risgiau cronnus yn llawer rhy aml. Roedd methiant yr awdurdod i ddatblygu system effeithiol o gronolegau a genogramau a allai gefnogi'r broses o arolygu'r achos hefyd yn cyfrannu at achosion lle nad oedd gwybodaeth arwyddocaol yn cael ei hystyried yn briodol fel rhan o lunio penderfyniad ar risg.

### Enghraifft o arfer

Roedd Janice* yn wraig ifanc gyda diagnosis o awtistiaeth ac anhwylder diffyg canolbwyntio posibl a oedd wedi bod yn gwthio ffiniau. Ers 2014 cafwyd pymtheg atgyfeiriad i'r gwasanaethau plant; pump o'r rhain yn ystod 2016. Roedd yr atgyfeiriadau hyn yn ymwneud â digwyddiadau amrywiol, yn cynnwys: rhedeg i ffwrdd o adref a gwrthod dychwelyd; dadleuon treisgar a difrod troseddol i'r cartref a oedd yn ei brawychu hi, ei mam a'i chwaer iau; pryderon ynghylch gweithgareddau rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blentyn; camddefnyddio sylweddau; a hunan-niweidio. Yn dilyn rhai o'r atgyfeiriadau hyn, cynhaliwyd asesiad cychwynnol cyn cau'r achos. Roedd nifer o'r atgyfeiriadau eraill wedi arwain at ddim gweithredu pellach. Hyd yma, roedd pob un o'r digwyddiadau hyn wedi'u hystyried yn unigol, ac felly nid oeddent yn ystyried effaith gronnus yr ymddygiad hwn ar Janice a'i theulu. Yn dilyn atgyfeiriad diweddar, cynhaliwyd trafodaeth strategaeth ac roedd asesiad risg mwy trylwyr a oedd yn ystyried yr hanes a'r digwyddiadau diweddar yn cael ei gynnal yn awr.

1.17. Roedd y broses a ddefnyddiwyd gan y rheolwyr i adolygu'r trefniadau mynediad yn amlwg yn annigonol yn nhermau herio a rheoli ansawdd. Nid oedd yr achosion a atgyfeiriwyd at y Tîm Dyletswydd ac Asesu yn derbyn yr arolygiaeth angenrheidiol gan reolwyr i sicrhau'r awdurdod bod plant yn cael eu diogelu'n briodol a bod y teuluoedd yn derbyn y cymorth amserol yr oedd ei angen arnynt. Nid oedd uwch reolwyr yn archwilio cofnodion ffeiliau achos yn rheolaidd ar gyfer y gwaith hwn ac felly nid oedd ganddynt farn gywir ar ansawdd yr arfer. Gwelodd yr arolygwyr dystiolaeth o reolwyr yn cymeradwyo achosion ond nid oedd capasiti'r rheolwyr na'r systemau sicrhau ansawdd yn ddigon cadarn i adolygu ansawdd y gwaith mewn ffordd gadarnhaol.

## Casgliad

Gwelsom fod y trefniadau mynediad at y gwasanaethau ataliol a statudol wedi'u sefydlu ac yn cael eu cynnig yn ddwyieithog. Roedd y meini prawf ar gyfer y gwasanaethau tîm o amgylch y teulu wedi'u sefydlu'n dda ac wedi'u rhannu gyda phartneriaid. Fodd bynnag, nid oedd gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth na'r trefniadau ataliol wedi'u datblygu'n ddigonol. Roedd y cyngor yn ymatebol pan oedd arwyddion brys bod plentyn mewn perygl ond roedd dealltwriaeth partneriaid a'r gwasanaethau plant o'r trothwyon yn anghyson. Mae angen gwaith aml-asiantaeth brys er mwyn mynd i'r afael â hyn. Roedd y wybodaeth atgyfeirio a dderbyniwyd gan bartneriaid yn wael. Roedd y gwasanaethau plant yn gweithio'n ddiwyd i gasglu'r wybodaeth a oedd ar goll ond roedd y dadansoddiadau o (ail)atgyfeiriadau yn amrywiol ac yn rhy aml nid oedd yr achosion hynny y dylent fod wedi'u huwchraddio i asesiad yn cael eu huwchraddio. Roedd yn amlwg bod y staff yn ymroddedig i wella bywydau'r plant a'r teuluoedd yr oeddent yn gweithio gyda hwy, ond nid oedd gan y tîm dyletswydd ac asesu y capasiti digonol, y profiad na'r gefnogaeth gan uwch reolwyr i gyflawni canlyniadau o ansawdd da yn effeithiol i blant a theuluoedd. Roedd arolygiaeth y rheolwyr o benderfyniadau yn annigonol.

# Diogelu ac asesu

## Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae strategaethau diogelu lleol effeithiol yn cyfuno elfennau ataliol ac amddiffynnol. Lle mae pobl yn profi niwed, esgeulustod neu gam-drin, neu mewn perygl o'u profi, maen nhw'n derbyn ymatebion aml-asiantaeth prydlon, wedi'u cydlynu'n dda. Mae pobl yn cael asesiad prydlon o'u hanghenion a'u risgiau sy'n hybu eu diogelwch, eu lles a'u hannibyniaeth. Mae asesiadau yn rhoi sylw i ganlyniadau personol, safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r person sy'n destun i'r asesiad a phobl berthnasol eraill gan gynnwys y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant. Mae asesiadau'n cynnig dealltwriaeth glir o'r hyn fydd yn digwydd nesaf.

## Crynodeb o'r canfyddiadau

- Roedd ansawdd ac amseroldeb ymholiadau amddiffyn plant yn anghyson, a byddent wedi elwa o ymgysylltu mwy rhagweithiol gan yr heddlu.
- Nid oedd trafodaethau strategaeth yn ddigon amserol ac nid oeddent yn cynnwys rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau allweddol.
- Nid oedd asesiadau bob amser yn sicrhau dadansoddiad cyfannol o angen/risg o'r cychwyn cyntaf gan effeithio'n andwyol ar amseroldeb y cymorth a gynigir i deuluoedd; roedd ansawdd cofnodi gwneud penderfyniadau yn wael.
- Roedd gan weithwyr ddiffyg capasiti i gynnal ymyriadau byr â ffocws gyda phlant a theuluoedd ac roedd yr amrywiaeth o wasanaethau ar gael i gefnogi'r broses asesu yn annigonol.
- Adlewyrchwyd ymarfer gwaith cymdeithasol da, gan gynnwys defnydd effeithiol O Fodel Risg Gwynedd/Thornton, yng nghynnwys rhai asesiadau; roedd asesiadau oedd yn sail i geisiadau i'r llys yn rhoi cyfeiriad clir.
- Roedd angen i weithwyr cymdeithasol fod yn fwy cadarn a hyderus wrth weithio gyda theuluoedd a nodi eu dadansoddiad proffesiynol o risg ac anghenion.
- Roedd gweithwyr cymdeithasol yn gyson yn eu hymdrechion i wireddu dymuniadau a theimladau plant a gwnaed rhywfaint o ddefnydd da o eiriolaeth anffurfiol i gefnogi plant i wneud y defnydd gorau o'r cymorth a gynigir; nid oedd hyn yn cael ei adlewyrchu'n dda yn y cofnod asesu a/neu gynllunio bob amser.
- Nid oedd goruchwyliaeth o reoli diogelu ac asesu yn ddigon cadarn o ran herio a rheoli ansawdd.

## Esboniad o'r canfyddiadau

2.1. Nid oedd pob ymholiad amddiffyn plant a welwyd yn drylwyr a/neu'n amserol. Er bod y rhan fwyaf yn seiliedig ar benderfyniadau a wnaed mewn trafodaethau strategaeth, nid oedd yr holl drafodaethau strategaeth yn amserol ac, mewn lleiafrif o achosion, roedd oedi o sawl diwrnod yn gwbl annerbyniol. Gwelwyd nad oedd y broses ar waith, ar adeg yr arolygiad, ar gyfer trefnu trafodaethau/cyfarfodydd strategaeth yn effeithiol. Adroddodd staff, rheolwyr a phartneriaid fod cyfarfodydd/trafodaethau yn aml yn cael eu canslo a/neu eu haildrefnu. Dywedodd staff gwasanaethau plant a'r heddlu nad oedd y sawl allweddol i wneud penderfyniadau yn y ddwy asiantaeth weithiau ar gael ac y gallai hyn arwain at oedi wrth wneud trefniadau. Yr effaith ar weithwyr proffesiynol oedd rhwystredigaeth ac ansicrwydd ynghylch graddau'r risgiau a sut y gellid rheoli'r rhain. Yn bwysicach, yr effaith ar blant a theuluoedd oedd oedi o ran y cymorth, gofal a chefnogaeth a/neu ddiogelwch a chreu lefelau uchel o anghysur, straen a phryder.

2.2. Rhoddwyd gwybod i arolygwyr bod trefniadau newydd ar gyfer cynnal trafodaethau strategaeth nawr wedi'u rhoi ar waith gan Heddlu Gogledd Cymru. Roedd angen gweithredu ar frys i sicrhau bod staff, rheolwyr a phartneriaid eraill yn deall y trefniadau newydd yn glir; eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn gyson; ac o ganlyniad bod oedi annerbyniol o ran ymholiadau amddiffyn plant yn cael ei osgoi yn y dyfodol.

2.3. Roedd cyfarfodydd strategaeth wedi'u disodli o blaid trafodaethau strategaeth. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o drafodaethau strategaeth rhwng yr heddlu a gwasanaethau plant ac, fel mater o drefn, nid oedden nhw'n cynnwys partneriaid nad oeddent yn gallu cyfrannu'n effeithiol at y broses gwneud penderfyniadau hon, er gwaethaf eu gwybodaeth sylweddol am deulu. Roedd arolygwyr yn cydnabod y goblygiadau o ran adnoddau a'r anawsterau logisteg sy'n gysylltiedig â thrafodaethau/cyfarfodydd aml-asiantaeth. Serch hynny, mae peidio â chynnwys partneriaid, yn enwedig iechyd ac addysg, yn ddigon cynnar yn cyfyngu ystod a maint y wybodaeth a geir/rennir gan arwain at effaith negyddol ar ansawdd a chwmpas yr asesiad risg. Nid oedd y defnydd o drafodaethau/cyfarfodydd strategaeth canlyniad yn amlwg bob amser chwaith. Cyfrannodd hyn at bartneriaid yn honni nad oeddent yn cael digon o wybodaeth am ganlyniadau'r atgyfeiriadau.

### Enghraifft o arfer

Roedd Laura* ynghyd â'i brawd a'i chwaer wrth wraidd ymholiad adran 47 asiantaeth unigol ynghylch materion gwrthdaro rhwng rhieni. Yn ystod yr ymholiad, bu i chwaer Laura ddatgelu i weithiwr cymdeithasol ac i athro ei bod yn bryderus fod Laura mewn cysylltiad â chyn-droseddwr. Pan geisiodd y gweithiwr cymdeithasol i ailymgynnull y drafodaeth strategaeth, nid oedd ei rheolwr ar gael ac o ganlyniad ni chwblhawyd yr ymholiad tan y diwrnod canlynol, pan ymwelodd y gweithiwr cymdeithasol y teulu ar ei phen ei hun. Canlyniad hyn oedd bod chwaer Laura yn ofidus a phryderus dros nos gan na wyddai beth fyddai'r canlyniadau iddi hi ei hun nag i Laura wedi iddi ddatgelu'r wybodaeth. Ni chynhaliwyd trafodaeth strategaeth canlyniad. Nid oedd partneriaid yn chwarae rhan effeithiol wrth reoli risgiau ac nid oeddent wedi'u hysbysu'n llawn am ganlyniad yr ymholiad.

2.4. Er nad oedd yn tanseilio effeithiolrwydd gwaith aml-asiantaeth pan oedd yn digwydd, dywedodd yr awdurdod bod twf mewn ymholiadau adran 47 dan arweiniad un asiantaeth (gwasanaethau cymdeithasol) a llai o gyfleoedd ar gyfer ymholiadau gwasanaethau cymdeithasol/yr heddlu ar y cyd. Priodolwyd hyn yn rhannol i'r ffaith y canfyddir bod llai o aelodau'r heddlu ar gael ond roedd canfyddiad hefyd bod ffocws yr heddlu yn fwy ar y posibilrwydd o erlyn yn hytrach nag ar ddiogelu yn ehangach. Hefyd, nododd yr heddlu leihad yn nifer yr ymchwiliadau ar y cyd ond gwnaethant briodoli hyn i'w dull mwy trwyadl o sicrhau bod Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn cael eu cymhwyso'n briodol. Gwelwyd ychydig o dystiolaeth o'n hadolygiad o ffeiliau achos bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ymgymryd ag ymholiadau ar y cyd, gyda her gyfyngedig rhwng partneriaid o ran sut y gellir symud ymlaen orau gydag achosion. Nododd yr arolygwyr nifer fach o achosion lle byddai wedi bod yn briodol cael ymgysylltiad mwy rhagweithiol gan yr heddlu, a byddai hyn wedi sicrhau ymholiad mwy cadarn o ystyried cymhlethdod y problemau oedd yn cael eu cyflwyno. Hefyd, gwelsom dystiolaeth o oedi wrth gyflawni ymholiadau adran 47 oherwydd materion capasiti staff yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol. Mewn lleiafrif sylweddol o achosion a adolygwyd gennym, arweiniodd hyn at lefelau uchel o drallod i blant a'u teuluoedd o ganlyniad i fethu â bod yn glir o ran beth oedd i'w ddisgwyl ohonynt neu beth oedd yn debygol o ddigwydd nesaf.

### Enghraifft o arfer

Cafwyd atgyfeiriad gan ymwelydd iechyd yn mynegi pryderon ynglŷn â chamddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig yng nghartref Joseph*, bachgen bach. Yn ystod ymholiad adran 47 (asiantaeth sengl), daeth i'r amlwg fod hanes o ddigwyddiadau tebyg a bod llyschwaer Joseph, Mari, wedi ymuno â'r aelwyd. Roedd ei thad, Lee, yn gwrthod caniatáu i Mari ddychwelyd adref ar ôl iddo wneud honiadau yn erbyn ei mam. Roedd Lee yn ymosodol tuag at staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac wedi gwrthod pob cymorth a gynigiwyd gan adael mam Joseph, Louise, yn agored i ddigwyddiadau cam-drin ddigwydd eto. Gwnaed rhywfaint o waith da gan y gweithiwr cymdeithasol i ymgysylltu â Lee, darparwyd cymorth gydag anghenion tai ac fe ddeliwyd â mater preswyliaeth Mari drwy'r llys teulu. Fodd bynnag, gallai cyfranogiad yr heddlu mewn ymchwiliad ar y cyd fod wedi hwyluso gwell dealltwriaeth o'r lefel o risg oedd yn bresennol a chynllun diogelwch mwy cadarn ar gyfer Louise a'r plant.

2.5. Roedd cofnodion trafodaethau strategaeth ac ymholiadau adran 47 yn amrywio gormod o ran ansawdd. Er bod yr awdurdod yn dangos enghreifftiau o wneud penderfyniadau clir ar y cychwyn, wrth symud at gamau gweithredu amddiffyn plant roedd gormod o gofnodion yn cynnwys diffyg trefniadau cynllunio o ran rolau, cyfrifoldebau ac amserlenni ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Yn yr achosion a adolygwyd, ni welodd yr arolygwyr unrhyw enghreifftiau o blant a theuluoedd yn destun ymchwiliadau amddiffyn plant yn ddiangen.

2.6. Ar adeg yr arolygiad, roedd gwasanaethau plant Ynys Môn eto i gytuno ar arferion asesu gyda gofynion newydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Canlyniad hyn oedd bod staff yn dal i wneud asesiadau cychwynnol ac asesiadau craidd gyda chanllawiau blaenorol ac o ganlyniad nid oedd ein sampl o achosion yn cynnwys unrhyw enghreifftiau ymarfer o'r dull newydd o asesiadau cymesur.

2.7. Datblygwyd templedi ar gyfer cofnodi asesiadau cymesur a chanllawiau cyfatebol ond gohiriwyd eu rhoi ar waith tan fis Rhagfyr 2016 er mwyn cyflwyno'r trefniadau newydd ar sail ranbarthol. Nid oedd yr awdurdod wedi cynnwys partneriaid yn ddigonol wrth ddatblygu'r dulliau hyn. Roedd yr awdurdod yn cydnabod bod yr oedi cyn cyflwyno dulliau newydd yn dangos diffyg parodrwydd ar gyfer rhoi'r Ddeddf ar waith a bod cyfle sylweddol i ymgysylltu partneriaid yn fwy effeithiol wedi'i golli. Serch hynny, roedd staff a rheolwyr a gyfwelwyd gennym yn dangos ymwybyddiaeth dda o newidiadau i arferion sy'n ofynnol gan y Ddeddf ac mae enghreifftiau o ddogfennaeth newydd wedi'u rhannu â nhw. Roedd yr holl staff y siaradwyd â nhw wedi mynychu hyfforddiant am y Ddeddf newydd.

2.8. Cwblhawyd y rhan fwyaf o asesiadau cychwynnol a adolygwyd gennym mewn modd amserol. Fodd bynnag, yn rhy aml yr amcan asesu oedd casglu mwy o wybodaeth ac i gau'r achos. Felly, nid oedd cyfleoedd cynnar i ymyrryd yn cael eu hadlewyrchu ac roeddent yn cael eu methu. Mewn llawer o'r achosion a adolygwyd gennym, gwelsom nifer o asesiadau cychwynnol, gyda'r ansawdd yn amrywio, oedd yna'n cael eu cau. Roedd rhai o'r asesiadau hyn yn swyddogaethol ond roeddent wedi methu â darparu dadansoddiad cyfannol cydlynol o risg. Canlyniad y dull ysbeidiol hwn oedd y tanseiliwyd pwysigrwydd dealltwriaeth gyffredin gweithwyr proffesiynol o faterion oedd o bwys i'r teulu ac a oedd yn angenrheidiol i hybu eu lles, ynghyd â'u hasesiad risg a sut y gellid sicrhau diogelwch plant, ar gyfer teuluoedd.

2.9. Roedd tystiolaeth yn yr achosion a adolygwyd yn cynnwys enghreifftiau o staff yn cyfeirio teuluoedd at wasanaethau eraill, gan gynnwys ymweliadau ar y cyd â chydweithwyr y Tîm o Amgylch y Teulu, i helpu teuluoedd i werthfawrogi gwerth posibl ymyrraeth wirfoddol. Mewn rhai achosion, gwnaeth y gweithwyr cymdeithasol ddarn bach o waith uniongyrchol eu hunain. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, roedd yn ymddangos bod gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr yn ystyried y gweithgarwch hwn yn gysyniadol fel mecanwaith ar gyfer cwblhau asesiad a chau achos yn gynnar, ac wrth wneud hyn yn tanystyried arwyddocâd rhywfaint o'r wybodaeth a gasglwyd a gwerth eu hunain fel gwasanaeth ataliol yn ei hun. Mynegodd llawer o'r staff a rheolwyr a gyfwelwyd eu bod yn rhwystredig ynghylch y defnydd anghyson o drothwyon ac am eu gallu cyfyngedig i gynnal ymyriadau byr â ffocws gyda'r bwriad o helpu teuluoedd i gadw eu hannibyniaeth a'u gwytnwch ac i leddfu'r angen am ymyriadau mwy cymhleth yn y dyfodol.

### Enghraifft o arfer

Gwnaeth Maxim* honiadau o gamdriniaeth yn erbyn ei fam, Irene. Yn ystod yr ymchwiliad, gwnaeth Irene honiadau o gamdriniaeth yn erbyn tad Maxim, Joe. Roedd rhaid i Joe adael cartref y teulu ac roedd amodau mechnïaeth yn ei atal rhag cysylltu ag Irene ond nid oeddent yn berthnasol i Maxim; parhaodd Joe ac ef i weld ei gilydd. Ni phrofwyd yr honiadau a wnaeth Maxim. Serch hynny, o ystyried cymhlethdod y materion a gyflwynwyd, roedd y teulu hwn yn bodloni'r trothwy ar gyfer asesiad am ofal a chymorth. Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn cydnabod bod angen cymorth ar unwaith ar y teulu ac fe drefnodd gyfarfod aml-asiantaeth ar frys i nodi a chadarnhau trefniadau cefnogi ar gyfer y teulu yn ystod y cyfnod asesu. Prif ddiben y cynllun (interim) oedd sicrhau bod effaith negyddol ei rieni'n gwahanu yn cael ei lleddfu ar gyfer Maxim a bod y cryfderau yn ei berthynas gydag Irene yn cael eu cefnogi. Mae'n debygol fod yr ymyrraeth gynnar hon wedi hybu diogelwch Maxim ac wedi atal rhagor o ddirywiad yn ei berthynas gyda'r ddau riant.

2.10. Roedd gwasanaethau cymorth i deuluoedd ar gael i gefnogi asesu a/neu i ddarparu gwaith uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd. Roedd enghreifftiau'n cynnwys gwaith rhianta ac ymyriadau ataliol gan y gwasanaeth troseddau ieuenctid (YJS). Ond yn gyffredinol, roedd cwmpas y gwasanaethau oedd ar gael yn gyfyngedig iawn ac roedd staff yn teimlo'n rhwystredig oherwydd ystod annigonol a/neu ddiffyg hygyrchedd adnoddau ar ran plant a theuluoedd fyddai o bosibl wedi gallu elwa arnynt. Roedd y rhesymau dros hygyrchedd cyfyngedig/anghymhwystra yn amrywiol ond roeddent yn cynnwys: cyfyngiadau a osodwyd gan drefniadau ariannu grant (Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg); meini prawf cymhwyster tynn sy'n gysylltiedig â darpariaeth arbenigol (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol (CAMHS) a Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd Dwys (IFSS)); swyddi gwag staff yn y tymor hir (Cynadledda Grŵp Teuluoedd (FCG)); a dim digon o gapasiti a rhestrau aros (Gwasanaethau Cefnogi Plant, Cadw Dysgwyr ar TRAC a'r prosiect lles emosiynol).

### Dyfyniad o'r arolwg staff

"Mae angen mwy o adnoddau ar gael i fy nefnyddwyr gwasanaeth gael mynediad at wasanaethau."

2.11. Roedd yr awdurdod lleol wedi buddsoddi mewn model asesu risg gwasanaeth cyfan (Model Risg Gwynedd/Thornton) i gefnogi gweithwyr cymdeithasol i nodi a dadansoddi ffactorau risg posibl. Dywedodd y rhan fwyaf o staff wrthym eu bod yn teimlo bod y model yn ddefnyddiol a gwelodd yr arolygwyr rai enghreifftiau da o'i ddefnydd fel sail i asesiad ehangach. Fodd bynnag, defnyddiwyd y dull hwn yn annibynnol ar y broses asesu craidd bresennol ac o ganlyniad roedd asesiadau'n cael eu dyblygu a/neu daethant yn dameidiog a/neu yn hirfaith.

2.12. Roedd ansawdd asesiadau yn amrywiol. Mewn gormod o achosion roedd cyd-destun yr asesiad yn cael ei ddefnyddio rhy gul ac roedd yn rhy ddibynnol ar hunan-adrodd. Roedd gormod o asesiadau nad oeddent yn rhoi sylw i'r holl agweddau ar yr atgyfeiriad; methodd rhai â chymryd digon o ystyriaeth o effaith barhaus digwyddiadau arwyddocaol fel achosion ailadroddus o gam-drin domestig neu newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau, er enghraifft cyflwyno cyn-droseddwr i'r aelwyd. Methodd eraill â defnyddio dull digon trylwyr i fynd i'r afael â materion cronig fel esgeulustod a methu ffynnu. Roedd ymchwiliadau i effaith ymddygiad oedolion mewn perthynas â'u cyfrifoldebau gofalu yn annigonol mewn llawer o achosion. Felly, nid oedd asesiadau yn cynnig cyd-destun dysgu i'r teulu fyfyrio ar sut y gallent wneud pethau'n wahanol neu'n well. Ac nid oeddent yn llywio sail effeithiol i ganlyniad yr achos.

2.13. Cynhaliwyd yr asesiadau craidd yn bennaf lle bo'r trothwy ar gyfer amddiffyn plant wedi'i gyrraedd. Methodd rhai asesiadau gael golwg gyfannol ar y risgiau a'r anghenion oedd yna'n sail i gynllun amddiffyn plant cadarn. Nid oedd y cynlluniau a welwyd wedi'u hysgrifennu mewn iaith glir oedd yn egluro beth oedd wedi newid a sut y byddai'n cael ei fesur. Roedd angen i weithwyr cymdeithasol fod yn fwy cadarn a hyderus wrth weithio gyda theuluoedd a nodi eu dadansoddiad proffesiynol o risg ac anghenion. Roedd methu â sicrhau dadansoddiad cyfannol a chydlynol priodol o angen a risg o'r cychwyn cyntaf yn niweidiol i gyflawni eglurder gyda theuluoedd wrth nodi'n glir pa newid yr oedd angen iddynt ei wneud a/neu ganlyniadau posibl peidio â gwneud hyn.

**Dyfyniad gan riant**

"Rwyf yn dod ymlaen yn dda gyda fy ngweithiwr cymdeithasol nawr ac mae'r un yma'n dda ac yn ddibynadwy. Ond nid oeddwn yn teimlo bod yr asesiad wedi'i wneud yn iawn. Teimlais i'r gweithiwr cymdeithasol weld a chlywed yr hyn yr oedd hi'n dymuno ac ni ymchwiliodd i faterion neu wirio sut roedd pethau wir yn effeithio arnaf i a'r plant. Er fy mod yn ceisio cydweithredu, nid oeddwn i'n gwybod yn iawn beth ddylwn i ei wneud."

2.14. Yr asesiadau ansawdd gorau a welwyd oedd y rhai a aeth ymlaen i lys, lle rhoddwyd cyfarwyddyd clir. Nodwyd bod rheolwyr presennol yn defnyddio dull trothwy mwy cadarn i'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO). Gellir priodoli rhywfaint o'r cynnydd yn ffigurau plant mewn gofal yn Ynys Môn i'r ffaith nad oedd achosion wedi'u rheoli'n dda yn y gorffennol a bod materion wedi cael eu gadael i ddrifftio. Gellir cyflawni gwelliannau pellach drwy gyfuniad o'r newidiadau sy'n deillio o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mwy o eglurder o ran cymhwysedd a throthwyon, defnydd mwy effeithiol o PLO a dod i benderfyniadau ar achosion hanesyddol. Fodd bynnag, ni chyflawnir hyn oni bai bod y dull presennol yn cael ei gynnal ynghyd â mwy o gysondeb yn ansawdd yr asesiadau sy'n deillio o grŵp staff a rheolwyr sefydlog sydd wedi'u hyfforddi'n dda a mecanwaith sicrhau ansawdd effeithiol.

2.15. Er bod asesiadau a gwblhawyd mewn nifer o achosion yn cael eu rhannu'n effeithiol gyda phlant a/neu deuluoedd, mae'r graddau yr oedden nhw'n cymryd rhan ragweithiol yn y broses o gynhyrchu eu hasesiadau yn anghyson. O ystyried y diffyg cynnydd o ran mabwysiadu egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gwelsom dystiolaeth gyfyngedig yn unig o'r defnydd o "sgyrsiau beth sy'n bwysig", a chanlyniad hyn oedd bod rhai plant a theuluoedd yn ystyried ymyriad gwaith cymdeithasol fel rhywbeth gormesol yn hytrach na defnyddiol neu gefnogol. Dywedodd rhai teuluoedd wrthym nad oeddent wedi bod yn glir am ddiben cyfranogiad gwasanaethau plant yn eu bywydau. Mewn lleiafrif o achosion, effeithiodd hyn yn uniongyrchol ar brofiad y teulu a'u gallu/parodrwydd i gymryd rhan mewn proses nad oeddent yn ei deall.

**Dyfyniad cyfansawdd gan riant**

"Roeddwn i'n meddwl fod gwasanaethau cymdeithasol i fod i fy helpu ond rwyf yn gwybod fy mod i'n isel a fod gen i lefelau uchel o orbryder, ond mae gen i ofn mynd at fy meddyg rhag ofn iddi hi (y gweithiwr cymdeithasol) ei ddefnyddio yn fy erbyn. Teimlaf fod ganddi fendeta yn fy erbyn. Ni all fy mhlant ei dioddef ac nid ydynt yn dweud unrhyw beth wrthi. Cefais restr o bethau i'w gwneud a phethau na ddylwn eu gwneud ond mae'n newid y rhain drwy'r amser, ac er ei bod yn dweud y bydd yn ysgrifennu rhestr wedi'i diweddaru, dydy hi ddim yn gwneud. Dydw i byth yn gwybod lle'r ydw i, neu beth i'w wneud nesaf. Rwyf yn ceisio gwneud fy ngorau a cheisio ei chadw oddi ar fy nghefn."

2.16. Ni welsom y defnydd o eiriolaeth ffurfiol yn ystod y cyfnod asesu er ei bod yn glir bod rhai plant yn cael cynnig eiriolaeth i'w helpu i wneud y defnydd gorau o wasanaethau. Nodwyd rhywfaint o arfer da: yn eu cyfweliadau ag arolygwyr, roedd gweithwyr cymdeithasol yn aml yn gallu disgrifio ymdrechion dyfal roedden nhw wedi'u gwneud i gael dymuniadau a theimladau plant. Roedd yn siomedig, er gwaethaf y pwyslais a roddir gan staff ar geisio dymuniadau a theimladau plant, nad oed digon o ffocws ar hybu canlyniadau gorau ar gyfer y plentyn mewn dadansoddiadau asesiad a chynlluniau dilynol.

**Enghraifft o arfer**

Roedd Lucy* angen cymorth oherwydd dibyniaeth ei mam ar alcohol. Heb ffiniau rhieni roedd hi'n dechrau gwneud dewisiadau gwael ac roedd ei haddysg a'i hiechyd yn dioddef. I ddechrau, nid oedd Lucy'n gallu mynegi sut y gallai elwa ar gymorth. Fe wnaeth y gweithiwr cymdeithasol ei helpu i feddwl am rhywun y gallai ymddiried ynddynt i'w helpu i fynegi ei barn. Enwodd Lucy aelod agos o'r teulu fel ffynhonnell o gefnogaeth ac o ganlyniad mae wedi gallu creu cynllun cefnogaeth a diogelwch y mae hi a'i mam yn ei ddeall ac yn cytuno arno, gan gynnwys man diogel i Lucy fynd iddo pe byddai pethau'n mynd o chwith. Roedd Lucy wedi ailddechrau cael presenoldeb da yn yr ysgol ac nid oedd yn aros allan yn hwyr mwyach. Mae ei "eiriolwr" yn parhau i gynnig cymorth.

2.17. Er bod rhai o'r asesiadau a welwyd, gan gynnwys asesiadau cymhleth, o ansawdd digonol oedd yn defnyddio ystod o wybodaeth, gan gynnwys gan bartneriaid a theuluoedd er mwyn llywio'r dadansoddiad, nid oedd tystiolaeth o ansawdd da o ymarfer gwaith cymdeithasol a gafodd yr arolygwyr drwy gynnal cyfweliadau â staff bob amser wedi'i hadlewyrchu'n dda yn y cofnod o achosion. Nid oedd system wybodaeth electronig yn cefnogi trosolwg hygyrch o ymgysylltiad gwasanaethau cymdeithasol gyda theuluoedd chwaith. Mewn llawer o achosion, nid oedd cofnodion yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed gyda phlant unigol mewn teuluoedd. Effaith arferion cofnodi gwael oedd atal gweithwyr newydd neu'r rhai sy'n cymryd achos drosodd pan fydd y gweithiwr yn absennol, yn ogystal â rheolwyr, rhag deall anghenion a risgiau sy'n gysylltiedig â phlant a theuluoedd yn gyflym. Roedd hyn o arwyddocâd arbennig yn yr awdurdod hwn ar hyn o bryd o ystyried y trosiant staff uchel presennol o ran gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr gweithredol.

2.18. Roedd trefniadau llif gwaith ar gyfer trosglwyddo achosion y Tîm Dyletswydd ac Asesu i dimau gofal plant yn y tymor hir a rhwng timau tymor hir wedi'u cytuno a'u deall yn ddamcaniaethol. Fodd bynnag, roedd materion capasiti'r gweithlu sydd i'w gweld yn y Tîm Dyletswydd ac Asesu hefyd i'w gweld yn y Tîm Ymyrraeth Deuluol (FIT) a'r Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC). Nid oedd gan y Tîim Ymyrraeth Deuluol na'r Tîim Plant sy'n Derbyn Gofal reolwr tîm parhaol ac roedd swyddi gwag a phenodiadau dros dro ar lefel uwch ymarferydd yn y ddau dîm. Roedd y trefniadau hyn yn fregus iawn ac wedi'u cymhlethu gan natur tymor byr (tri mis) contractau staff asiantaeth a diffyg trefniadau cymorth busnes digonol ar gyfer y timau i gyd. Roedd hyn yn golygu bod trosglwyddo gwaith achos rhwng timau yn ymarferol yn ddibynnol ar allu'r gweithlu yn hytrach na'r polisi dyrannu. O ganlyniad, roedd achosion weithiau'n cael eu dal yn ôl yn y Tîm Dyletswydd ac Asesu yn amodol ar argaeledd yn y Tîm Ymyrraeth Deuluol neu'r Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal ac felly'n rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau mynediad. Yn yr un modd, roedd timau gofal plant tymor hir yn aml yn defnyddio meini prawf capasiti i reoli llif gwaith yn hytrach na phrofiad gorau neu arbenigedd gweithwyr i dderbyn achosion. Gwaethygwyd y sefyllfa gan drosiant uchel o staff a rheolwyr yn y timau hyn.

2.19. Roedd yr awdurdod wedi cydnabod y pwysau hyn ac wedi ceisio eu lliniaru drwy fuddsoddi mewn gweithwyr asiantaeth i lenwi'r holl swyddi gwag cyn gynted ag yr oeddent yn codi er gwaethaf y ddibyniaeth uchel yr oedd hyn yn ei chreu. Hefyd roedd y meini prawf dyrannu gwahanol ar gyfer y Tîm Ymyrraeth Deuluol a'r Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal wedi'u llacio, gan greu proses ddyrannu fwy generig ar draws y ddau dîm i bob pwrpas. Nid oedd y dacteg olaf hon wedi'i chyfathrebu'n dda gyda staff, ac roedd nifer ohonynt yn dweud wrthym eu bod yn teimlo bod eu sgiliau arbenigol neu feysydd o ddewis o ran gwaith yn cael eu tanseilio a bod hyn yn ymarferol yn cynyddu cymhlethdod eu llwythi achosion oedd ganddynt eisoes.

**Dyfyniad o'r arolwg staff**
"Un wythnos rydyn ni'n dîm Plant sy'n Derbyn Gofal, a'r wythnos wedyn rydyn ni'n dîm generig. Mae mor anodd cael llwyth achosion cymysg – gwaith llys a gwaith amddiffyn plant yw'r flaenoriaeth bob amser, rwyf yn teimlo'n ddrwg na allaf roi amser ac ymrwymiad i blant mewn gofal, dim amser i wneud gwaith hanes bywyd ac ati. Mae'n teimlo na all y tîm dyletswydd aros i drosglwyddo achosion a phan fydd achosion yn cael eu trosglwyddo nid yw'n ddi-dor byth."

2.20. Effaith yr ansefydlogrwydd o ran gweithlu ar lawer o blant a theuluoedd oedd eu bod yn profi newid gweithiwr cymdeithasol yn rheolaidd a hynny'n aml yn fyr rybudd. Roedd hyn wedi effeithio'n negyddol ar ansawdd y gwaith achos a'r berthynas rhwng plant, teuluoedd a staff. Mewn lleiafrif sylweddol o achosion roedd ansawdd cefnogaeth gwaith cymdeithasol yn wael, gyda diffyg cyffredinol o ran diben, oedd yn arwain at arafu'r cynnydd yn erbyn y cynllun gofal a chefnogaeth.

2.21. Gwelodd yr arolygwyr dystiolaeth ar ffeiliau bod rheolwyr yn llofnodi asesiadau ac yn rhoi sylwadau. Roedd yn gadarnhaol bod y broses hon yn amserol. Roedd y rhan fwyaf o sylwadau rheolwyr mewn perthynas ag asesiadau yn ymwneud â'r camau nesaf yn hytrach nag adlewyrchiad ar y cynnwys, ansawdd yr asesiad a'r cynllun sy'n deillio o hynny. Fel gyda'r trefniadau mynediad, roedd angen cryfhau goruchwyliaeth uwch reolwyr o ansawdd asesiadau yn sylweddol.

## Casgliad

Roedd ansawdd ac amseroldeb ymholiadau amddiffyn plant yn anghyson. Nid oedd y broses ar gyfer trefnu trafodaethau strategaeth yn effeithiol ac nid oedd fel mater o drefn yn cynnwys gwybodaeth gan yr holl bartneriaid perthnasol. Roedd trefniadau newydd wedi'u cadarnhau ac roedd angen gweithredu ar frys i sicrhau bod y rhain yn cael eu deall yn glir, yn cael eu rhoi ar waith yn gyson, a bod oediadau mewn perthynas ag ymholiadau amddiffyn plant yn cael eu hosgoi yn y dyfodol. Roedd asesiadau o ansawdd amrywiol; lle'r oeddent yn dda roedd tystiolaeth o ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth i lywio'r dadansoddiad risg. Gwnaeth y gweithwyr cymdeithasol ymdrechion cyson i wireddu dymuniadau a theimladau plant a gwnaed rhywfaint o ddefnydd da o eiriolaeth anffurfiol i gefnogi plant i wneud y defnydd gorau o'r cymorth a gynigir. Fodd bynnag, roedd yr arfer gwaith cymdeithasol da oedd yn cael ei adlewyrchu yng nghynnwys rhai asesiadau'n cael ei danseilio gan yr amrywiaeth gyfyngedig o adnoddau ar gael i gefnogi gwaith gyda phlant a theuluoedd, a diffyg staff rheoli gweithredol sefydlog a phrofiadol ar draws y timau gofal plant tymor hir. Roedd newidiadau rheolaidd mewn gweithiwr cymdeithasol yn arwain at golli ysgogiad, a hynny'n effeithio ar ymgysylltiad gyda theuluoedd. Er bod y rhan fwyaf o asesiadau yn cael eu rhannu gyda phlant a theuluoedd, roedd diffyg ymgysylltu effeithiol yn golygu nad oeddent yn glir o ran diben yr help, y gofal a'r gefnogaeth a/neu'r amddiffyn roedden nhw'n eu derbyn. Roedd ansawdd y cofnodi drwy gydol y broses asesu yn wael ac o ganlyniad roedd yn llesteirio'r rhai oedd yn cymryd achos drosodd rhag deall anghenion a risgiau oedd yn gysylltiedig â phlant a theuluoedd yn gyflym. Roedd hyn yn arbennig o arwyddocaol o ystyried y lefel uchel o fynd a dod yn y gweithlu. Nid oedd goruchwyliaeth o ansawdd asesu yn ddigon cadarn o ran herio a rheoli ansawdd.

# Arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu

## Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae'r trefniadau arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu gyda'i gilydd yn sefydlu strategaeth effeithiol ar gyfer cynnig gwasanaethau o ansawdd da a'r canlyniadau ar gyfer pobl. Mae'r awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i gomisiynu a darparu cymorth, gofal a chefnogaeth i bobl. Mae gan arweinwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o arfer a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Caiff gwasanaethau eu darparu gan weithlu cymwysedig, profiadol a galluog sy'n gallu adnabod ac ymateb i angen mewn modd amserol ac effeithiol.

## Crynodeb o'r canfyddiadau

- Roedd y cyngor wedi pennu'r egwyddor y dylid diogelu plant a theuluoedd agored i niwed, a mynegodd yr holl staff a rheolwyr ymrwymiad i hybu diogelwch a lles y plant a'r teuluoedd yr oedden nhw'n gweithio gyda nhw; roedd lefel dda o gefnogaeth wleidyddol i gyfeiriad strategol y cyngor ar gyfer gwasanaethau plant.
- Roedd angen trosi cyfeiriad strategol y cyngor i strategaeth ar gyfer cynnig gwasanaethau plant sy'n cael ei chyfleu'n effeithiol i staff, partneriaid a defnyddwyr gwasanaeth.
- Roedd uwch arweinwyr yn cydnabod bod angen cyflymu'r gwelliant sydd ei angen er mwyn i'r awdurdod fod yn sicr bod trefniadau ar gyfer cynnig gwasanaethau a chanlyniadau o ansawdd uchel ar gyfer plant a theuluoedd yn effeithiol; roedd y buddsoddiad cynyddol diweddar mewn gwasanaethau ar gyfer plant yn cynnig tystiolaeth o ymrwymiad y cyngor i hyrwyddo gwelliant.
- Roedd angen atgyfnerthu gallu aelodau etholedig i herio perfformiad drwy wella gwybodaeth am ansawdd y gwasanaethau a phrofiadau plant a theuluoedd oedd yn derbyn y rhain.
- Roedd uwch arweinwyr wedi ymrwymo i wella gwasanaethau i blant, ond nid oedd ganddynt wybodaeth gynhwysfawr a dealltwriaeth am y cymhlethdodau a'r risgiau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant; nac am arferion a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol.

- Roedd uwch arweinwyr yn cydnabod yr heriau sylweddol yr oeddent yn eu hwynebu i gyflawni cyflwyno'r agenda trawsnewid ar gyflymder priodol i sicrhau gwelliannau cyflym i wasanaethau wrth sicrhau bod staff, defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid yn cymryd rhan effeithiol yn y broses.
- Nid oedd trefniadau comisiynu a dyrannu adnoddau i wasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd yn cael eu defnyddio'n effeithiol i hyrwyddo'r effaith fwyaf cadarnhaol ar ganlyniadau i blant a theuluoedd; nid oedd lleisiau plant a theuluoedd yn cael eu dal na'u defnyddio i lywio datblygiad gwasanaeth.
- Nid oedd gwybodaeth am berfformiad a monitro sicrhau ansawdd yn ysgogi gwelliant parhaus yn effeithiol; nid oedd trefniadau sicrhau ansawdd yn cynnwys digon o adborth gan blant a theuluoedd.
- Mynegodd yr awdurdod lleol ymrwymiad cryf i ddysgu a datblygu; er gwaethaf problemau capasiti, roedd staff yn gadarnhaol o ran yr amrywiaeth a nifer y cyfleoedd hyfforddi a datblygu oedd ar gael.
- Roedd llwythi achos yn dod dan bwysau cynyddol o ran maint a chymhlethdod ar draws yr holl dimau; roedd hyn yn effeithio ar ansawdd a chysondeb y gwaith a wnaed gyda phlant a theuluoedd.
- Roedd angen datblygu strategaeth gadarn ar gyfer recriwtio a chadw ystod lawn o staff gwaith cymdeithasol a staff cymorth, gan gynnwys cynllun olyniaeth gweithlu, a'i roi ar waith ar frys.
- Nid oedd goruchwyliaeth staff yn digwydd yn ddigon rheolaidd ac yn aml roedd o ansawdd gwael; roedd bregusrwydd sylweddol ar lefel rheolwr tîm ac uwch ymarferwyr ar draws y gwasanaeth.

## Esboniad o'r canfyddiadau

3.1. Roedd y cyngor wedi pennu'r egwyddor y dylid amddiffyn a chefnogi plant a theuluoedd Ynys Môn sy'n agored i niwed i adeiladu ffordd gadarn ac annibynnol o fyw. Roedd y weledigaeth hon yn gyffredin ac yn cael ei deall ar y lefel fwyaf strategol yn y cyngor a mynegodd yr holl reolwyr a staff a gyfwelwyd eu hymrwymiad i wella canlyniadau lles a diogelwch ar gyfer plant a theuluoedd. Ond nid oedd y cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau plant wedi'i drosi eto i mewn i strategaeth ar gyfer darparu gwasanaethau oedd wedi'i dosbarthu'n effeithiol i'r gweithlu neu ei rhannu gyda phartneriaid allweddol. Yn benodol, gwelsom nad oedd dealltwriaeth gyffredin ymhlith staff neu asiantaethau partner am y dull gweithredu a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol i ailddiffinio a datblygu gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh) a gwasanaethau ataliol ymhellach neu i hybu gwelliant. Roedd y diffyg cysylltiad rhwng cynllunio strategol a fframwaith â ffocws clir ar gyfer darparu gwasanaethau i blant yn llesteirio staff, rheolwyr gweithredol a phartneriaid rhag deall yr hyn a ddisgwylir ohonynt.

**Dyfyniad o'r arolwg staff**
"Yr wyf yn ansicr o beth yw'r dangosyddion perfformiad. Rwyf yn ymwybodol bod cynllun busnes, ond nid ydynt yn darparu cyfeiriad clir i ni mewn gwirionedd."

3.2. Effaith hyn oedd dryswch ynghylch trefniadau gweithredol yn y dyfodol gan gynnwys y llwybrau arfaethedig i wasanaethau ataliol a llwybrau rhwng y rhain a'r sector statudol. Hefyd mynegodd staff a phartneriaid ar bob lefel eu pryder ynghylch gallu'r gwasanaeth i hyrwyddo lefel y gwelliant parhaus sydd ei angen, yn wyneb galw cynyddol, i hyrwyddo lles plant a theuluoedd.

3.3. Canfu'r arolygwyr bod lefel dda o gefnogaeth wleidyddol i gyfeiriad strategol y cyngor ar gyfer y gwasanaethau i blant. Trefnwyd bod panel trawsbleidiol o aelodau etholedig yn cyfarfod bob mis i oruchwylio'r gwaith o gyflawni cynllun gwella gwasanaethau plant a rhoi'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar waith. Roedd consensws ymysg y panel eu bod yn glir ynghylch y gwelliannau sydd eu hangen yn y gwasanaethau plant a'u bod wedi ymrwymo i gefnogi a dwyn swyddogion i gyfrif i gyflawni'r rhain. Roedd aelodau hefyd wedi mynychu hyfforddiant ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac roeddent felly yn ymwybodol o oblygiadau'r Ddeddf ar y gwasanaeth a'r awdurdod. Roedd yn siomedig bod cyflymder y gwelliant a rhoi'r Ddeddf ar waith wedi bod yn rhy araf hyd yma, er gwaethaf mynegi lefelau uchel o ymrwymiad.

**Dyfyniad cyfansawdd o gyfweliad panel**
"Fel y gwyddoch, rydym wedi ymrwymo i wasanaethau ataliol a gwybodaeth, cyngor a chymorth; i gadw plant allan o ofal drwy ddarparu gofal a chymorth i fynd i'r afael â materion yn ddigon cynnar. Rydym yn gweld pwysigrwydd y gwaith hwn fel buddsoddiad i helpu teuluoedd i ddod yn fwy gwydn a rhoi'r dechrau gorau i blant. Dyma ein gweledigaeth."

3.4. Roedd y trefniadau craffu a ddefnyddiwyd gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol a Gweithredol wedi'u sefydlu'n dda. Roedd aelodau'r pwyllgor yn deall eu rôl her a gallent ddarparu rhai enghreifftiau cadarnhaol o sut roedden nhw wedi cyflawni eu cyfrifoldebau o ran monitro perfformiad y cyngor. Canfu'r arolygwyr nad oedd adroddiadau a ddarparwyd i graffu arnynt bob amser yn cynnwys dadansoddiad ddigon cadarn ac roeddent yn credu y gellid cryfhau gallu'r aelodau etholedig i ddeall a herio perfformiad drwy wybodaeth well am ansawdd gwasanaethau a phrofiad pobl sy'n derbyn y rhain. Roedd angen mwy o bwyslais ar fynnu adborth gan blant a theuluoedd am eu profiadau a holi mwy trylwyr am dueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac yn codi o effaith y sector ataliol a'r rhyngberthynas gyda darpariaeth statudol i ddarparu mwy o sicrwydd bod canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd yn gwella.

3.5. Roedd trefniadau arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu ar waith sy'n cydymffurfio â chanllawiau statudol. Gwelsom atebolrwydd a chysylltiadau adrodd priodol rhwng y prif swyddog gweithredol (CEO); y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol (DSS); arweinydd y cyngor; a deiliad y portffolio ar gyfer plant. Sefydlwyd y grŵp hwn yn ddiweddar, er ei fod yn hyderus yn ei uchelgais, ac roedd yn dal i ddatblygu ei wybodaeth, ei gysylltiadau gweithio a'i atebolrwydd. Gwelwyd nad oedd gan uwch arweinwyr wybodaeth gynhwysfawr am y cymhlethdodau a'r risgiau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant; nac am arferion a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol. Nodwyd bod trefniadau mentora ffurfiol wedi'u sefydlu ar gyfer y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol. Roedd y cyfarwyddwr yn rhagweithiol wrth hwyluso ei ddysgu ei hun ac yn cyfarfod yn rheolaidd gyda phennaeth gwasanaethau plant i adolygu cynnydd. Roedd hefyd yn gadarnhaol bod aelodau etholedig yn ymweld â staff y rheng flaen yn rheolaidd i glywed eu barn yn uniongyrchol.

**Dyfyniad o'r arolwg staff**
"Mae angen symleiddio prosesau gwneud penderfyniadau – llai o fiwrocratiaeth. Mae angen lleihau'r prosesau i gael canlyniad. Mae cael Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn rhy faith. Mae dirymu gorchmynion gofal hefyd yn cael ei yrru gan broses yn hytrach na thrin y broblem a'i chael i'r llys. Mae popeth yn cymryd gormod o amser. Mae angen i uwch reolwyr wneud penderfyniadau yn gynt – gormod o baneli. Mae angen i'r adran uwch reoli fod yn fwy hyblyg fel y gellir clywed achosion yn hytrach na'u taflu allan ac oedi a rhoi plant mewn perygl oherwydd fod y gwaith papur braidd yn hwyr. Os nad ydynt yn gallu asesu risg mewn amser byr, ni ddylent fod yn gwneud eu swydd."

3.6. Fe'n sicrhawyd gan y tîm arweinyddiaeth uwch (SLT) bod trefniadau yn eu lle, drwy dargedau diogelu adrannol a chyfarfodydd rhyngadrannol rheolaidd, i sicrhau bod y gwasanaethau plant a materion diogelu ehangach i'w gweld ar draws y cyngor. Er gwaethaf perthynas waith gadarnhaol gyda gwasanaethau plant, roedd penaethiaid adrannau yn cydnabod nad oedd hyn bob amser yn sicrhau bod plant a theuluoedd yn derbyn gwasanaeth cwbl 'gydgysylltiedig'. Roedd angen mwy o waith i integreiddio gweithio traws-gyfarwyddiaeth i leihau dyblygu ac i wella canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd.

**Dyfyniad gan uwch reolwr**
"Rydym yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau plant, ond nid oes gennym broffil clir o'u hanghenion. Rydym yn gweithio mewn seilos yma, ond rydym yn ceisio cau'r seilos hynny. Bydd gwasanaethau addysg/tai yn gwneud popeth y gallant i gefnogi teuluoedd i atal digartrefedd/methiant addysgol ond mae hyn yn digwydd yn fwy anffurfiol na'n ffurfiol."

3.7. Nododd y tîm arweinyddiaeth uwch fod cydberthnasau gwaith da gyda phartneriaid ac roedd y farn hon yn cael ei hatgyfnerthu gan y trydydd sector ac asiantaethau partner statudol a gyfwelwyd. Nodwyd y penodiad diweddar ar gyfer arweinydd strategol i wasanaethau plant yn y bwrdd iechyd lleol ac fe'n gwnaed yn ymwybodol o rywfaint o waith aml-asiantaeth cychwynnol i ddatblygu prosesau newydd a diwygio dogfennau sy'n ofynnol gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae Bwrdd Partneriaeth rhanbarthol wedi'i sefydlu ac roedd cyfraniad Cyngor Sir Ynys Môn i hwn, i fwrdd rhanbarthol diogelu plant (SCB) ac i'r agenda Prevent yn amlwg. Fodd bynnag, dangosodd tystiolaeth o adolygiadau achos yn ogystal â chyfweliadau gyda staff, rheolwyr a phartneriaid nad oedd trefniadau partneriaeth yn ddull effeithiol, integredig o ddatblygu/darparu gwasanaethau i blant a theuluoedd. Canfuwyd bod asiantaethau wedi gweithio'n gytûn gyda'i gilydd yn hytrach na dal ei gilydd i gyfrif mewn gwirionedd am eu cyfraniadau ehangach i drefniadau diogelu.

**Dyfyniad o'r arolwg staff**
"Mae partneriaethau ag asiantaethau eraill wedi'u creu drwy wybodaeth a pherthnasoedd personol a chymhelliant gweithwyr cymdeithasol unigol. Nid oes unrhyw ymateb corfforaethol i weithio mewn partneriaeth a chael gafael ar adnoddau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth."

3.8. Ar adeg yr arolygiad hwn, roedd gwasanaethau plant Ynys Môn yn wynebu heriau parhaus sy'n gysylltiedig â sefydlogi'r gweithlu, rhoi'r ddeddfwriaeth newydd ar waith ac ad-drefnu darpariaeth i gyflawni GCCh a gwaith ataliol mwy effeithiol yn ogystal â gwasanaethau statudol i blant a theuluoedd, pob un yn erbyn cefndir o galedi a mwy o alw. Roedd absenoldeb dros dro pennaeth hirsefydlog y gwasanaeth hefyd wedi arwain at golli gwybodaeth leol ac arbenigedd. Roedd y tîm arweinyddiaeth uwch a'r aelodau etholedig yn cydnabod yr heriau hyn ac roedden nhw wedi datblygu cynllun gwella ar gyfer y gwasanaeth.

3.9. Roedd uwch arweinwyr yn cydnabod diffyg ffocws rheoli parhaus yn y gorffennol; hefyd bod cyflawni cynnydd yn erbyn y cynllun gwella wedi bod yn rhy araf. Nododd yr arolygwyr ffocws gwell yr awdurdod ar wasanaethau plant drwy fuddsoddiad cynyddol mewn cyllideb sylfaenol ac ar gyfer prosiectau gwella, a chroesawyd rhaglen y cyngor o newid trawsnewidiol. Ochr yn ochr â rhoi'r gofynion sy'n deillio o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar waith, mae'r rhain yn cynnwys: datblygu hwb GCCh; sefydlu tîm teuluoedd gwydn; ac alinio gwasanaethau ataliol a GCCh yn fwy effeithiol gyda'r sector statudol. Roedd hefyd yn hanfodol i bennu sut y gallai gwasanaethau statudol ac ataliol weithio'n well gyda'i gilydd i gynhyrchu asesiadau cymesur a mynd i'r afael ar yr un pryd ag anghenion cymwys a'r rhai nad ydynt yn gymwys; roedd angen ymgorffori'r agwedd hon yn yr agenda ar gyfer newid.

3.10. Roedd yr awdurdod wedi recriwtio capasiti rheoli ychwanegol i gefnogi'r rhaglen newid drawsnewidiol. Roedd hon dan arweiniad uwch reolwr gwasanaethau plant profiadol ar secondiad, a dan oruchwyliaeth panel o aelodau etholedig. Roedd gan arolygwyr amheuon difrifol ynghylch y cyflymder y symudodd y cynlluniau hyn yn eu blaenau. Y prif bryder a nodwyd oedd diffyg capasiti diogel y gweithlu i sicrhau'r

newidiadau a ddymunir i ddarpariaeth ataliol, i roi'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar waith ac i sicrhau'r gwelliant sydd ei angen i gyflawni cyfrifoldebau statudol. Er gwaethaf rhai cynigion lefel uchel fel y bwriad i symud gwasanaethau'r Tîm o Amgylch y Teulu o ddysgu gydol oes i wasanaethau plant, nid oedd unrhyw 'fap ffordd' clir o sut y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu cyflawni. Roedd y tîm arweinyddiaeth uwch a'r aelodau etholedig yn cydnabod yn llawn bod ganddynt lawer i'w wneud i lywio eu dyheadau gwella i fframwaith cyfannol â ffocws i gyflwyno gwasanaethau plant a theuluoedd. Cydnabuwyd bod y ffocws hyd yn hyn wedi bod gormod ar y cynllun prosiect a dim digon ar ymgysylltu neu weithredu. Roedd angen i'r awdurdod fod yn fwy rhagweithiol er mwyn sicrhau bod newid yn cyflymu a'i fod yn cael ei gyflawni mewn modd sy'n cludo staff gyda nhw ac yn cefnogi ymgysylltiad ystyrlon partneriaid a defnyddwyr gwasanaeth.

3.11. Gwelwyd nad oedd trefniadau comisiynu a dyrannu adnoddau i wasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd yn cael eu defnyddio'n effeithiol i hyrwyddo'r effaith fwyaf cadarnhaol ar ganlyniadau i blant a theuluoedd. Ni chanfu'r arolygwyr ddigon o dystiolaeth bod yr awdurdod wedi defnyddio gwybodaeth fanwl am ei boblogaeth fel sail i'w drefniadau comisiynu. Hefyd roedden nhw wedi bod yn rhy araf i ymgysylltu gyda phlant a theuluoedd er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu dal i gyfrannu at lywio darpariaeth y gwasanaeth. Nodwyd y bwriad i ddefnyddio data lleol a gasglwyd ar gyfer yr asesiad poblogaeth rhanbarthol a'r dangosyddion canlyniadau llesiant cenedlaethol yn y dyfodol. Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod, ynghyd â phartneriaid, ddatblygu dull cydlynol o gasglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau lleol yn gyflym, yn ogystal â gwybodaeth perfformiad, yn enwedig ar y rhyngwyneb rhwng y gwasanaethau statudol ac ataliol, i greu sylfaen o dystiolaeth gadarn fel sail i gefnogi eu cynlluniau strategol. Hefyd i ennill dealltwriaeth o effaith bosibl GCCh a gwasanaethau ataliol ar liniaru'r angen i blant a theuluoedd dderbyn (neu ailddderbyn) darpariaeth statudol.

3.12. Roedd gan reolwyr fynediad at ddata perfformiad drwy'r swyddog perfformiad corfforaethol a defnyddiwyd gwybodaeth i fesur rhai agweddau ar berfformiad. Nodwyd bod pennaeth y gwasanaethau plant wedi defnyddio'r data perfformiad yn adeiladol i gefnogi achosion busnes ar gyfer mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau plant ac yn yr hwb GCCh. Er bod systemau gwybodaeth yn cefnogi datblygiad adroddiadau unigryw, nid oedd gwybodaeth reoli yn cael ei defnyddio'n systematig i herio perfformiad neu i wella ansawdd gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd. Roedd arolygwyr yn bryderus nad oedd gwybodaeth perfformiad fel y wybodaeth mewn perthynas â chysylltiadau ailadroddus, ail-atgyfeiriadau ac asesiadau yn cael eu defnyddio'n adeiladol i herio'r awdurdod a/neu arferion eu partneriaid, er ei bod yn cael ei chasglu'n rheolaidd.

3.13. Roedd rheolwyr yn cydnabod bod angen gwella mecanweithiau sicrhau ansawdd cyffredinol. Roedd uned sicrhau ansawdd a diogelu wedi'i sefydlu ac roedd fframwaith sicrhau ansawdd a pherfformiad ar waith. Fodd bynnag, roedd hyn wedi'i dan-ddatblygu'n sylweddol ac nid oedd ganddo'r capasiti i fonitro cynnydd yn erbyn cynllun gwella gwasanaethau plant. Gwelsom fod gwaith yr uned yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrwydd adroddiadau plant mewn gofal ac ar brosesau amddiffyn plant statudol. Nid oedd archwilio arferol o achosion gan reolwyr ar draws y gwasanaethau plant yn fwy cyffredinol wedi'i wreiddio mewn busnes craidd. Ac nid oedd trefniadau monitro perfformiad na sicrhau

ansawdd yn cynnwys: dull aml-asiantaeth o fonitro trothwyon; gwybodaeth a gafwyd o amrywiaeth ddigon eang o ffynonellau, gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr; neu ymgynghoriadau uniongyrchol gyda staff. Nodwyd bod canlyniadau cwynion a chanmoliaeth yn cael eu rhannu gyda rheolwyr gwasanaethau a'u trafod mewn panel chwarterol ond nid oedd mecanwaith cyson i dynnu sylw at bwyntiau dysgu neu ar gyfer lledaenu hyn yn effeithiol i lywio gwelliannau mewn gwasanaethau. Gwelwyd nad oedd adroddiadau ar berfformiad ac ansawdd wedi'u casglu a'u coladu eto fel mater o drefn mewn ffordd a oedd yn ddigon ystyrlon i lywio gwell dadansoddiad o effeithiolrwydd gwasanaeth mewn perthynas â gwella canlyniadau i blant a theuluoedd. O ganlyniad, nid oedd y defnydd o wybodaeth perfformiad a monitro sicrhau ansawdd i ysgogi gwelliant parhaus yn gyson effeithiol.

3.14. Roedd yr awdurdod lleol yn ymwybodol o'r gofyniad hirdymor i wella gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd yn Ynys Môn ac yn cydnabod, er gwaethaf rhai gwelliannau i arfer, nad oedd cynnydd wedi parhau i ddigwydd ar gyflymder hyd yma. Fodd bynnag, roedd y prif swyddog gweithredol, uwch reolwyr ac aelodau etholedig wedi ymrwymo'n gryf i sicrhau diwylliant gwasanaeth oedd yn croesawu adborth adeiladol i gefnogi dysgu, datblygu a chynnal gwelliannau. Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gyfwelwyd yn gadarnhaol am argaeledd/hygyrchedd cyfleoedd hyfforddi a datblygu, er gwaethaf materion capasiti. Roedd pob aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, roeddent yn frwdfrydig, ac yn arddangos lefel dda o ddealltwriaeth am egwyddorion y Ddeddf a'r newidiadau mewn arfer y byddai rhoi'r Ddeddf hon ar waith yn gofyn amdanynt.

**Dyfyniad gan weithiwr cymdeithasol**
"Wedi dod drwy gyfnod anodd ac mae'r Ddeddf newydd yn gyfle i edrych ar atal ac arfer ac felly gobeithio am wella."

3.15. Fodd bynnag, roedd dilyn cynnydd hyfforddiant wedi cael ei rewi wrth roi'r Ddeddf ar waith ac roedd brwdfrydedd pwysig staff yn dechrau lleihau. Roedd hyder yn brin o ran sut y byddai'r strwythur yn y dyfodol yn edrych a sut y byddai'n cael ei staffio. Nid oedd trefniadau systematig yn ddigon sefydledig ar draws y gwasanaeth i gasglu a lledaenu dysgu ehangach o adborth defnyddwyr gwasanaeth neu ymarfer gwaith cymdeithasol. Roedd hyn ynghyd â diffyg capasiti a goruchwylio rheoli aneffeithiol a nodwyd drwy'r achosion a adolygwyd gennym yn llesteirio datblygiad proffesiynol.

3.16. Roedd rhwystrau i recriwtio a chadw gweithlu medrus, cymwys, galluog a phrofiadol wedi effeithio'n negyddol ar berfformiad yn y gwasanaethau i blant. Roedd cyfraddau absenoldeb uchel wedi gwaethygu'r broblem hon. Roedd bregusrwydd arbennig ar lefel rheolwr tîm. Er ei fod yn dacteg adeiladol i leihau pwysau gwaith, roedd dibynnu ar gontractau tymor byr i staff asiantaeth wedi cymhlethu anghysondebau mewn arfer a gwneud penderfyniadau er anfantais i blant a theuluoedd sy'n derbyn gwasanaethau. Roedd llawer o'r cwynion a welwyd gan yr arolygwyr yn adleisio pryderon ynglŷn â newid gweithiwr cymdeithasol a diffyg cyfathrebu neu gyfathrebu gwael yn aml. Roedd angen

datblygu strategaethau cadarn ar gyfer recriwtio a chadw ystod lawn o staff gwaith cymdeithasol a staff cymorth, gan gynnwys cynllun olyniaeth gweithlu, a'u rhoi ar waith ar frys, os yw'r awdurdod am gyflawni'r newidiadau angenrheidiol i wella canlyniadau i blant a theuluoedd.

**Dyfyniad gan weithiwr cymdeithasol**
"Taflodd defnyddiwr gwasanaeth hyn i fy ngwyneb – chi yw'r seithfed gweithiwr cymdeithasol – pa mor hir fyddwch chi o gwmpas?
Nawr oherwydd newid mewn rôl, bydd y person hwn yn cael newid arall.
Mae hyn yn gwneud i mi deimlo'n ofnadwy."

3.17. Dywedodd y mwyafrif o'r staff a rheolwyr gweithredol a gafodd eu cyfweld wrthym eu bod yn falch o weithio i wasanaethau plant Ynys Môn ac ar y cyfan eu bod yn teimlo bod pobl yn gwerthfawrogi'r gwaith maen nhw'n ei wneud. Fodd bynnag, tra bod llwythi gwaith yn "hylaw yn unig" roedden nhw'n dod dan bwysau cynyddol, o ran maint a chymhlethdod. Bu i bartneriaid fynegi pryderon hefyd nad oedd gan weithwyr cymdeithasol a rheolwyr oedd yn derbyn achosion wedi'u trosglwyddo ddigon o amser i ddarllen neu i ddeall hanes a chyd-destun yr achos. At hynny, roedd y staff yn teimlo'n rhwystredig ac yn bryderus ynghylch sut roedd diffyg capasiti gweithwyr cymdeithasol a lefelau annigonol o gymorth busnes yn eu rhwystro rhag creu perthynas waith effeithiol gyda phlant a theuluoedd; hyn ochr yn ochr â system gofnodi electronig anhylaw oedd yn achosi rhywfaint o straen a phryder ymhlith y gweithlu.

3.18. Nodwyd y byddai cwblhau'r cynllun gwerthuso swyddi yn arwain at y potensial o wella rhagolygon recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol ond nid oedd arolygwyr yn hyderus y byddai dyfarniad cyflog ynddo ei hun yn cefnogi cadw staff, neu y byddai canlyniad y cynllun gwerthuso swyddi yn effeithio'n gadarnhaol ar recriwtio staff cefnogi busnes.

3.19. Yn gyffredinol, roedd yn amlwg bod ysbryd staff wedi codi yn ddiweddar, ac roedd ymatebion i arolwg staff a ddosbarthwyd gennym yn cefnogi hyn. Fodd bynnag, mynegwyd lefelau amrywiol o bryder am effaith bosibl y newid sydd i ddod, yn arbennig ynghylch gweithio hyblyg ac ystwyth. Roedd hefyd yn gadarnhaol bod gweithwyr cymdeithasol yn gyffredinol yn teimlo bod yr holl reolwyr ar draws y gwasanaeth yr un mor hawdd mynd atynt ac ymatebol â'i gilydd a'u bod yn cael cymorth i reoli eu gofynion gwaith. Gwelwyd bod ysbryd staff, er ei fod yn gwella, yn parhau i fod yn fregus.

3.20. Dywedodd llawer o'r staff wrthym nad oedd ganddynt oruchwyliaeth reolaidd ac nad oedd unrhyw sesiwn gyflwyno â strwythur ar gyfer staff asiantaeth neu ddarpariaeth well ar gyfer gweithwyr newydd gymhwyso. Roedd hyn yn ddiffyg sylweddol yn arbennig mewn awdurdod sydd ar hyn o bryd yn fregus oherwydd bod staff yn gadael, gydag ysbryd isel ac sydd mor ddibynnol o ganlyniad ar staff asiantaeth.

**Dyfyniad o'r arolwg staff**
"Ni chefais sesiwn gyflwyno o gwbl a chefais fy llwyth achosion ar fy ail ddiwrnod, felly dim ond nawr yr wyf yn teimlo fy mod yn y broses o ymgyfarwyddo gyda pha gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd yn lleol. Mae hyn yn fy rhoi dan bwysau mwy byth."

3.21. Dangosodd tystiolaeth a gafwyd o'n hadolygiad o gofnodion goruchwylio a gwerthuso nad oedd staff yn cael eu goruchwylio'n ddigon rheolaidd a bod sesiynau yn aml o ansawdd gwael. Roedd diffyg goruchwyliaeth fyfyriol mewn cofnodion goruchwylio ac nid oeddent yn ystyried anghenion lles neu hyfforddi. Roedd cofnodion a welwyd yn bennaf yn adlewyrchu trafodaeth achos yn seiliedig ar dasg. Nid oedd unrhyw un o'r dogfennau gwerthuso a adolygwyd yn cynnwys cyfeiriad at gymwyseddau gwaith cymdeithasol neu ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Ac ni welwyd tystiolaeth o osod amcanion perfformiad clir ar gyfer datblygiad proffesiynol neu ddatblygiad personol.

3.22. Nodwyd bod bregusrwydd arwyddocaol ar lefel rheolwr tîm ac uwch ymarferydd ar draws yr holl dimau. Roedd y goruchwylio a dderbyniwyd gan reolwyr tîm ac uwch ymarferwyr yn llai rheolaidd a nodwyd ei fod yn aml yn fregus oherwydd galwadau cystadleuol. Hefyd, nid oedd unrhyw raglen gyflwyno neu hyfforddi ragweithiol ar gyfer staff sy'n symud i mewn i rôl rheoli. Mynegodd rheolwyr a staff bryder cynyddol bod anghysondebau o ran amser rheoli a phrofiad yn effeithio fwyfwy ar gadernid a diogelwch y gwasanaeth yn ogystal ag ar ansawdd y gwasanaethau a dderbynnir gan blant a theuluoedd.

## Casgliad

Roedd uwch arweinwyr o'r un farn am wella diogelu a hyrwyddo gwasanaethau sy'n cefnogi plant a theuluoedd i sicrhau cadernid a ffordd o fyw annibynnol. Roedden nhw wedi ceisio cryfhau'r ymrwymiad hwn drwy fuddsoddi mwy mewn gwasanaethau plant. Mae angen trosi cynlluniau strategol yn strategaeth ar gyfer cyflenwi gwasanaethau ataliol a statudol o ansawdd da ac sydd wedi'u hintegreiddio'n dda. Dylid lledaenu'r strategaeth yn well drwy'r gweithlu a'i rhannu yn fwy effeithiol gyda phartneriaid. Roedd angen i'r cyngor adeiladu ar y berthynas sydd ganddo gydag asiantaethau partner er mwyn sicrhau perchnogaeth ar y cyd o'r cyfeiriad strategol i wasanaethau plant, yn ogystal â'r angen am ysgogiad gweithredol i wella gwasanaethau a chanlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd. Roedd uwch arweinwyr yn cydnabod bod eu ffocws ar wasanaethau plant wedi bod yn annigonol yn y gorffennol a bod cyflymder y gwella yn rhy araf. I gydnabod hyn, roedd y cyngor ar fin cychwyn rhaglen uchelgeisiol o newid trawsnewidiol; fodd bynnag, nodwyd pryderon ynghylch diffyg capasiti diogel y gweithlu i sicrhau'r newid a ddymunir yn erbyn cefndir o galedi a galw cynyddol. Roedd angen gwelliant â ffocws parhaus a chyflymach i hyrwyddo diogelwch a lles plant a theuluoedd yn fwy effeithiol.

Nid oedd dadansoddiad o risgiau ac anghenion parhaus cymunedau yn llywio cynllunio ar gyfer y gwasanaethau i blant. Nid oedd trefniadau rheoli perfformiad, monitro sicrwydd ansawdd neu strategaethau i sicrhau bod yr awdurdod yn cadw diwylliant o ddysgu yn cynnwys lleisiau plant a theuluoedd. Ac nid oedden nhw wedi'u hymgorffori'n ddigon i ddarparu dealltwriaeth drylwyr o'r gwahaniaeth yr oedd help, gofal a chefnogaeth a/neu amddiffyn yn ei wneud i blant a theuluoedd. Roedd angen i uwch arweinwyr wella eu gwybodaeth am arferion a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau yn fwy effeithiol.

Roedd y gweithlu wedi ymrwymo i sicrhau canlyniadau da i blant a theuluoedd ac, er ei fod yn fregus, roedd ysbryd staff yn gwella. Fodd bynnag, nid oedd gwasanaethau bob amser yn cael eu darparu gan weithlu medrus, cymwys, galluog a phrofiadol gyda'r capasiti i helpu, gofalu a chefnogi a/neu amddiffyn plant a theuluoedd yn gyson ac effeithiol. Roedd bregusrwydd arbennig ar lefel rheolwr tîm. Gwelwyd bod rheolwyr, gan gynnwys uwch reolwyr, yn hawdd mynd atynt ac roedd amrywiaeth dda a digonedd o gyfleoedd hyfforddi ar gael ar gyfer staff. Ond roedd angen goruchwylio cryfach o arferion, goruchwyliaeth staff o ansawdd gwell ac yn fwy rheolaidd, a rhagolygon cryfach ar gyfer datblygu arweinyddiaeth er mwyn cefnogi'r gweithlu i gynnig gwasanaethau sy'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd.

# Methodoleg

## Cyn y gwaith maes

Cyflawnodd yr awdurdod hunanasesiad a rhoi dogfennau gwybodaeth perfformiad i AGGCC mewn perthynas â ffocws yr arolygiad. Adolygwyd y wybodaeth a ddarparwyd a'i defnyddio i lywio llinellau ymholi manwl ar gyfer yr arolygiad.

## Gwaith maes

Roedd y tîm arolygu ar y safle yn Ynys Môn am wyth diwrnod yn ystod mis Tachwedd 2016.

Adolygiad achos: ystyriodd yr arolygwyr 46 o achosion a ddewiswyd ar hap ac archwilio 20 o'r rhain yn fwy manwl gyda gweithwyr cymdeithasol a'u rheolwyr, gweithwyr proffesiynol eraill oedd yn rhan o'r achos a phlant a theuluoedd. Cynhaliwyd 24 o gyfweliadau gyda gweithwyr achos a rheolwyr tîm wedi'u neilltuo yn ogystal â 7 cyfweliad gyda phlant, teuluoedd a/neu ofalwyr. Cynhaliwyd un cyfweliad dilynol â gweithiwr proffesiynol arall.

Cyfweliadau a grwpiau ffocws: cynhaliodd arolygwyr 20 o gyfweliadau unigol neu gyfweliadau grŵp gydag uwch reolwyr, staff, aelodau etholedig a phartneriaid.

Arolwg staff: cynhaliwyd arolwg SNAP ar-lein ar gyfer 76 aelod o staff yn y gwasanaethau plant; dychwelwyd 31 o holiaduron.

Arsylwi arfer: arsylwodd yr arolygwyr ar waith y tîm dyletswydd ac asesu a'r panel porth cyfreithiol.

Adolygiad o gwynion a chanmoliaeth: adolygodd arolygwyr pob cwyn a chanmoliaeth a wnaed ynghylch gwasanaethau plant rhwng mis Ebrill a mis Medi 2016.

Adolygiad o ddogfennau goruchwylio a gwerthuso: adolygodd arolygwyr sampl ar hap o ddogfennau goruchwylio a gwerthuso 11 o staff y gwasanaethau plant.

Gellir gweld mwy o fanylion ynghylch y fframwaith ar gyfer arolygu, ymgysylltu ac adolygu perfformiad awdurdodau lleol yma: www.cssiw.org.uk/providingacareservice/our-inspections/how-we-inspect-local-authorities/?skip=1&lang=cy

## Y tîm arolygu

Roedd y tîm arolygu yn cynnwys pedwar arolygwr:

- Arolygydd arweiniol: Bobbie Jones
- Arolygwyr tîm: Christine Jones, Marc Roberts, Katy Young

## Cydnabyddiaethau

Hoffai AGGCC ddiolch i'r bobl a gyfrannodd at yr arolygiad: plant, teuluoedd a gofalwyr, staff a rheolwyr Cyngor Sir Ynys Môn, darparwyr gwasanaethau a sefydliadau partner, gan gynnwys y trydydd sector, am eu hamser, eu cydweithrediad a'u cyfraniadau at yr arolygiad hwn.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith/<br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **13/03/2017** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant** |
| **Aelodau(au) Portffolio** | **Aled Morris Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaethau:** | **Llyr Bryn Roberts** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost:** | **Llyr Bryn Roberts - Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant (Gweithrediadau)**<br>01248 752 765<br>llyrbrynroberts@YnysMon.gov.uk |
| **Aelodau lleol** | **Yn berthnasol i bob Aelod** |

**1.0 Cefndir**

1.1 Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) wedi datblygu fframwaith newydd ar gyfer arolygu awdurdodau lleol, ymgysylltu ac adolygu perfformiad. Mae'r dull trosfwaol o arolygu, ymgysylltu ac adolygu perfformiad yn golygu ymgysylltu â phobl, staff ac aelodau etholedig. Eu nod yw cefnogi prosesau trylwyr ar gyfer casglu tystiolaeth a gwybodaeth drylwyr sydd, ill dau, yn cyfrannu at y broses sicrwydd ac yn gwneud swyddogion ac aelodau etholedig yn fwy atebol am ddigonolrwydd ac ansawdd y gwasanaethau cymdeithasol. Mae cyflwyno rhaglen arolygu graidd ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol i blant ac oedolion yn ganolog i'r ymagwedd hon.

1.2 Cafodd gwasanaethau Plant Ynys Môn eu harolygu gan AGGCC yn ystod mis Hydref a Tachwedd 2016.

**2.0 Sgôp yr arolygiad**

2.1 Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar y modd y mae plant a theuluoedd yn cael eu grymuso i gael mynediad at wasanaethau cymorth a gofal ac ar ansawdd y canlyniadau a gyflawnir ar gyfer plant sydd angen cymorth, gofal a chefnogaeth ac / neu eu diogelu, gan gynnwys plant sydd wedi dod i ofal yr awdurdod lleol yn ddiweddar. Roedd yr arolygiad hefyd wedi gwerthuso

ansawdd y trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu a oedd ar waith i ddatblygu a chefnogi gwasanaethau cymorth.

2.2 Roedd sgôp yr arolygiad hwn yn cynnwys:

- Plant a phobl ifanc a gyfeiriwyd neu a ailgyfeiriwyd at yr awdurdod lleol, gan gynnwys y sawl y mae angen camau brys yn eu cylch er mwyn eu diogelu;
- Plant a theuluoedd sydd wedi cael eu cyfeirio ac/neu eu “trosglwyddo i lawr" i wasanaethau ataliol;
- Plant sy’n destun asesiad;
- Plant a ddaw yn blant sy'n derbyn gofal; a
- Phlant sy’n destun ymchwiliadau amddiffyn plant.
- Ansawdd y wybodaeth a roddir i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd gan y gwasanaeth IAA
- Profiadau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd sydd wedi derbyn Cyngor a Chymorth gan y gwasanaeth IAA a chanlyniadau hynny
- Y trefniadau arweinyddiaeth, llywodraethu a phartneriaeth sydd ar waith i gefnogi cyflawniad y gwasanaeth IAA.

3.0 Derbyniodd yr Awdurdod Lleol adroddiad drafft gan AGGCC ar 3ydd Ionawr 2017 yn amlinellu'r meysydd yr oedd angen eu gwella, a gofynnodd i'r Gwasanaeth ddarparu Cynllun Gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad. Bydd adroddiad terfynol AGGCC yn cael ei gyhoeddi ar 7 Mawrth.

**4.0 Cynllun Gwella Gwasanaethau (Ynghlwm)**

4.1 Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae’r Gwasanaethau Plant wedi bod yn gweithio ar Gynllun Gwella Gwasanaeth (CGG) diwygiedig i gwrdd â gofynion adroddiad arolygu AGGCC. Mae'r CGG blaenorol bellach wedi ei gau a bydd adroddiad yn cael ei ddarparu yn cadarnhau hynny.

4.2 Roedd y prif flaenoriaethau ar gyfer y CGG newydd yn cynnwys:

a) Datblygu'r gweithlu gan ganolbwyntio ar gyfleoedd recriwtio, cadw a datblygu fel y gall Rheolwyr i ddarparu cefnogaeth addas i staff.

b) Gwella ansawdd ymarfer mewn perthynas â diogelu, asesu a chynnal ymyraethau gyda phlant a theuluoedd a sicrhau bod ymyrraeth o safbwynt gwaith cymdeithasol yn cyd-fynd â'r ffordd wahanol o weithio gyda theuluoedd yn unol â’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd (2014).

c) Cryfhau cynlluniau gweithredol gyda phartneriaid i gefnogi cydlyniad effeithiol y gwasanaethau.

d) Cryfhau rheoli perfformiad a’r fframwaith perfformiad a’r trefniadau sicrhau ansawdd o fewn y Gwasanaeth.

d) Ailfodelu strwythur y gwasanaeth i fynd i'r afael â'r angen am well ymyraethau ataliol a dwys a gwella gallu'r Rheolwr i gefnogi a goruchwylio staff yn effeithiol.
f) Gweithredu Hyb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn y Gwasanaethau Plant.
g) Gweithredu'r Tîm Teuluoedd Gwydn i ddarparu cymorth dwys i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd fel y gallant barhau i fyw gyda'u teuluoedd.
h) Gwella cyfrifoldeb yr awdurdod lleol fel Rhiant Corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
i) Parhau i gefnogi uwch arweinwyr ac aelodau i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cymhlethdodau a'r risgiau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant.

## 5.0 Casgliad

5.1 Mae'r CGG yn canolbwyntio ar feysydd y mae angen gwneud cynnydd sylweddol yn eu cylch yn ystod y 12-18 mis nesaf. Mae AGGCC wedi croesawu'r ymrwymiad a fynegwyd gan yr uwch swyddogion a chynrychiolwyr y cyngor a'r ymagwedd adeiladol mewn ymateb i'r arolygiad. Ymgynghorwyd gyda staff y Gwasanaethau Plant ac maent yn ymwybodol o'r gwaith y mae angen ei wneud. Mae'r partneriaid allweddol yn cytuno bod angen cryfhau cynlluniau gweithredol i gefnogi cydlyniad effeithiol y gwasanaethau.

5.2 Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar nifer o feysydd allweddol. Bydd monitro cynnydd a gweithredu'r CGG yn digwydd drwy'r UDA, Panel Aelodau a thrwy gyfarfodydd rheolaidd gydag AGGCC.

| | CAMAU I'W CYMRYD | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD | YR ADNODDAU / CYMORTH ANGENRHEIDIOL A DIWEDDARIAD | CANLYNIAD / GWELLIANT DISGWYLIEDIG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1. Gweithlu hyderus a chymwys gyda chapasiti digonol i ddarparu gwasanaeth cyson ac effeithiol.** | | | | | | |
| 1.1 | Datblygu'r **Strategaeth Gweithlu** i i gynnwys:<br>• Arfer dda o ran Recriwtio<br>• Cadw a chefnogi staff<br>• Trefniadau cynefino clir<br>• Cyfeillio<br>• Hyfforddi a mentora<br>• Cysgodi<br>• Cyfleoedd gwell i hyfforddi a datblygu ar ôl cymhwyso<br>• blwyddyn gyntaf yn canllawiau ymarfer<br><br>Dolen Argymhelliad rhif 5 yr AGGCC:<br>Dylid datblygu strategaeth gweithlu gadarn ar frys a fydd yn cynnwys amcanion ar gyfer y tymor byr, canolig a hir ar gyfer recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol. | Melanie Jones, Rheolwr Gwasanaeth GAP<br><br>Cefnogir gan:<br>Ann Postle, Cydlynydd Dysgu Ymarfer<br><br>Dawn Owen, Rheolwr Tîm Maethu<br><br>Llyr Ap Rhisiart, GICD<br><br>Kelly Schofield, Uwch Ymarferydd<br><br>Leighton Rees, Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant | Ionawr 2017 | Dogfen wedi ei chwblhau erbyn Ebrill 2017 | 1. Papur Strategaeth Gweithlu Cychwynnol wedi'i ddrafftio.<br>2. Sesiwn i Reolwr ar ganllawiau Cynefino wedi ei drefnu ar gyfer mis Mawrth.<br>3. Sesiwn Gynefino Gorfforaethol yn cael ei chynnal yn fisol ar gyfer staff newydd.<br>4. Canllawiau ar flwyddyn gyntaf ymarfer wrthi'n cael eu hadolygu gan y Cydlynydd Dysgu Ymarfer. | Archwiliad o waith sy'n darparu tystiolaeth o weithlu hyderus a chymwys.<br><br>Gwelliant amlwg mewn cyfraddau recriwtio a chadw gyda mwy o staff yn cael eu recriwtio i swyddi parhaol a gostyngiad yn nifer y staff sy'n gadael. Cynefino - pob aelod newydd o staff yn cael cyfnod cynefino cynhwysfawr ac yn llwyr ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.<br><br>Arsylwi sgiliau a dealltwriaeth rheolwyr o arferion recriwtio da.<br><br>Adroddiad gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn dangos eu bod wedi derbyn cyfarwyddyd a disgwyliadau clir, cefnogaeth, ac adborth adeiladol ynghylch eu hymarfer ac ar ansawdd eu gwaith.<br><br>Staff yn dweud eu bod yn fodlon yn y gweithle ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth gyflawni eu cyfrifoldebau. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.2 | **Datrys Staffio materion** i gynnwys:<br>• Recriwtio i swyddi parhaol<br>• Strategaeth ymadael ar gyfer staff asiantaeth<br><br>Ymestyn contractau staff yr Asiantaeth tan ddiwedd mis Mehefin 2017 er mwyn sicrhau gweithlu sydd â nifer ddigonol o staff gyda digon o brofiad a lliniaru'r methiant i benodi i swyddi gweigion. | Penaethiaid Dros Dro y Gwasanaethau Plant<br><br>Cefnogir gan:<br>Rheolwyr Gwasanaeth<br><br>Ceri Jarvis, Swyddog Adnoddau Dynol<br><br>Rheolwyr Tîm<br><br>Rhys Roberts, Cyllid<br><br>Dafydd Bulman, Rheolwr Busnes a Thrawsnewid Strategol | Tachwedd 2016 | Rhagfyr 2017 | 1. Rydym yn parhau i hysbysebu am swyddi gwag drwy:<br>• Wefannau ALl a gwefannau rhanbarthol<br>• Sell2Wales<br>• Papurau Newydd<br>• Prifysgol<br>2. swyddi Gwaith Cymdeithasol ar agor i fyfyrwyr sy'n cymhwyso yn ystod y flwyddyn.<br>3. AD wedi cynnal sesiynau briffio ar recriwtio i Reolwyr.<br>4. AD i ddarparu diweddariadau rheolaidd ynghylch cyfraddau'r Gwasanaeth o ran recriwtio a chadw staff.<br>5. Arweiniad parhaus gan yr Adran Gyllid ar oblygiadau cost cyflogi staff asiantaeth.<br>6. strategaeth ymadael yn ei lle ar gyfer staff asiantaeth lle mae swyddi wedi cael eu llenwi gan weithwyr parhaol. | Gweithlu sefydlog a pharhaol sy'n arwain at:<br>• Gysondeb ymarfer ar draws y gwasanaeth.<br>• Cymorth o ansawdd gwell i blant a theuluoedd.<br>• Gwell perthynas rhwng teuluoedd a gweithwyr cymdeithasol yn arwain at well canlyniadau i blant a theuluoedd.<br><br>Partneriaid yn adrodd bod gwelliant o ran y trefniadau cydweithio â'r Gwasanaethau Plant o ganlyniad i ostyngiad mewn trosiant staff. |
| 1.3 | Adolygu'r **Polisi Goruchwylio.** Bydd hyn yn cynnwys canlynol:<br>• Cod Ymarfer<br>• Goruchwyliaeth ffurfiol ac anffurfiol neu ad-hoc<br>• Pwrpas Goruchwylio<br>• Manteision Goruchwylio<br>• Rolau a Chyfrifoldebau<br>• Isafswm y Sesiynau a Gynhelir a threfniadau Canslo | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant<br><br>Cefnogir gan:<br>Ann Postle, Cydlynydd Dysgu Ymarfer<br><br>Gemma Williams, Rheolwr Tîm | Rhagfyr 2016 | DOGFEN gwblhau erbyn Mawrth 2017<br><br>Awdit SA yn cael ei gynnal yn Mehefin 2017 yn cadarnhau fod y polisi yn cael ei ddilyn | 1. Drafftio polisi goruchwylio i bwrpas ar gyfer ymgynghori yn y Gynhadledd staff ar 27.2.17.<br>2. Hyfforddiant ar y Model Risg a'i gyswllt â Goruchwylio staff i gael ei darparu ar gyfer yr holl staff erbyn diwedd Mehefin.<br>3. Arweinwyr Ymarfer a Rheolwyr i gynnal archwiliad | Staff yn dweud eu bod yn cael eu cefnogi yn effeithiol i gyflawni eu dyletswyddau.<br><br>Staff yn adrodd yn gadarnhaol bod ansawdd eu hasesiadau a'u cynlluniau wedi gwella trwy oruchwyliaeth reolaidd o ansawdd. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 132 | • Cynllunio ar gyfer Sesiwn Oruchwylio<br>• Cofnodi Goruchwylio<br>• Anghydfodau<br>• Cyfrinachedd a Mynediad<br>• Cysylltiadau â Pholisïau a Gweithdrefnau Eraill<br><br>Dolenni i Argymhelliad rhif 7 AGGCC:<br>Dylai uwch arweinwyr gymryd camau i wella amlder, cysondeb ac ansawdd y goruchwylio ar gyfer staff rheng flaen; rhaid sefydlu mecanwaith sicrwydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd. | Llyr Ap Rhisiart, GICD<br><br>Rheolwyr Gwasanaeth a Rheolwyr Tîm | | | o ffeiliau achos, gan ddarparu adborth yn ystod goruchwyliaeth ac arddangos gwaith enghreifftiol ar draws y gwasanaeth.<br>4. Pob aelod o staff a Rheolwyr i dderbyn hyfforddiant erbyn diwedd Mehefin.<br>5. Angen darparu droddiadau chwarterol ar gyfer PG ynghylch cydymffurfiaeth â'r Polisi Goruchwylio.<br>7. Rheolwyr Gwasanaeth i gynnal Archwiliad o Oruchwyliaeth 4 gwaith y flwyddyn a samplu ar hap. | Rheolwyr yn dweud eu bod yn gallu cefnogi staff i'r safonau gofynnol.<br><br>Arweiniad clir ar safonau ac arfer dda yn cael ei gyfleu'n glir ac ar gael i bawb trwy Oruchwyliaeth reolaidd.<br><br>Rheolwyr yn cydymffurfio â'r Polisi Goruchwylio a'r Model Risg wedi ei ymgorffori yn y sesiynau Goruchwylio gyda staff.<br><br>Cynhelir archwiliadau rheolaidd ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn dangos Goruchwyliaeth o safon dda a chyson.<br><br>Mecanwaith sicrwydd wedi ei sefydlu'n yn ganolog i sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi Goruchwylio. |
| 1.4 | Darparu **cyfleoedd datblygu ar gyfer Arweinwyr Ymarfer i gefnogi'r gweithlu** i gyflawni eu dyletswyddau. Meysydd i ganolbwyntio arnynt: -<br>• Egwyddorion ar gyfer gwneud penderfyniadau cywir a diogel o ran rheoli achosion (rheolwyr â throsolwg o'r drefn gwneud penderfyniadau)<br>• Gwella a rheoli ymarfer a pherfformiad gan gynnwys | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant<br><br>Non Meleri Hughes, Swyddog Hyfforddi<br><br>Ann Postle, Cydlynydd Dysgu Ymarfer<br><br>Dawn Owen, Rheolwr tîm | Ionawr 2017 | Awdit SA ar benderfyniadau cywir ac holiadur yn cadarnhau bodlonrwydd staff. | 1. Uned Hyfforddi yn trefnu hyfforddiant gan Ymgynghorydd Annibynnol ar:<br>• Egwyddorion ar gyfer gwneud penderfyniadau rheoli achos cywir a diogel (rheolwyr yn goruchwylio'r broses gwneud penderfyniadau)<br>• Gwella a rheoli ymarfer a pherfformiad gan | Rheolwyr yn dweud bod ganddynt fwy o hyder yn eu sgiliau i wneud penderfyniadau rheoli achos cywir a diogel.<br><br>Cynhelir archwiliadau rheolaidd ar draws y Gwasanaeth sy'n dangos fod Rheolwyr yn gwneud penderfyniadau rheoli cywir a diogel. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 133 | darparu her a chyfarwyddyd adeiladol i staff<br>• Rheoli sgyrsiau anodd<br>• Darparu Goruchwyliaeth reolaidd o ansawdd<br>• Datblygu arweinwyr Ymarfer mewn sgiliau hyfforddi a mentora<br><br>Dolen i argymhelliad rhif 6 AGGCC:<br>Dylai trefniadau ar gyfer rheolwyr tîm ac uwch ymarferwyr gael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod capasiti ymysg rheolwyr i gadw golwg yn effeithiol ac yn gyson ar y drefn gwneud penderfyniadau, darparu her a chyfeiriad ar gyfer staff ar draws y gwasanaeth; dylai rhaglen arweinyddiaeth a datblygu fod ar gael i adeiladu gwytnwch. | Llyr Ap Rhisiart, GICD | | | gynnwys darparu her a chyfarwyddyd adeiladol i staff<br>• Rheoli sgyrsiau anodd<br>• Darparu goruchwyliaeth reolaidd o ansawdd<br>2. Mae 4 o reolwyr ar hyn o bryd yn derbyn hyfforddiant achrededig yn y maes Arweinyddiaeth a Datblygu.<br>3. Bydd ailstrwythuro gwasanaethau a sefydlu timau gweithredol llai yn sicrhau mwy o gapasiti ymysg Rheolwyr i roi arweiniad, goruchwyliaeth a chefnogaeth gyson i staff.<br>4. AD i ddarparu diweddariadau rheolaidd ynghylch cyfraddau recriwtio a chadw staff yn y y Gwasanaeth. | Staff yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael gwell cefnogaeth gan eu rheolwyr llinell i gyflawni eu cyfrifoldebau gyda hynny'n arwain at ostyngiad o ran trosiant staff, cyfraddau gwell o ran cadw staff a mwy o sefydlogrwydd yn y gweithlu.<br><br>Archwiliadau rheolaidd o ffeiliau yn dangos gwelliant yn ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth.<br>Adborth gan bartneriaid yn dangos mwy o hyder yn y gweithlu ac enw da'r sefydliad. |
| 1.5 | Argymhelliad 4 AGGCC:<br>Parhau i gefnogi uwch arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cymhlethdodau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant er mwyn bodloni eu hunain, partneriaid, staff a chymunedau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni i'r lefel orau bosib.<br><br>AGGCC Argymhelliad 8 AGGCC:<br>Rhaid i'r gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gryf ar gyfer gwasanaethau plant barhau er mwyn sicrhau bod y gwelliannau y mae angen eu gwneud i'r gwasanaeth yn | Dr Gwynne Jones, Prif Weithredwr<br><br>Dr Caroline Turner, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Aelodau Etholedig<br><br>Pennaeth y Gwasanaethau Plant | Ionawr 2017 | Parhaus | 1. Panel GC a Llesiant i barhau i fonitro'r broses o gwblhau'r Cynllun Gwella Gwasanaeth.<br>2. Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr i barhau i gynnal ymweliadau Laming yn rheolaidd.<br>3. Gwaith Rhianta Corfforaethol i gael ei ddatblygu ymhellach (gweler 5.3).<br>4. Angen adnoddau ychwanegol i ddarparu mwy o fewnwelediad ynghylch | Uwch arweinwyr ac aelodau etholedig yn dweud bod eu cyfranogiad yn y Panel Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datblygu eu dealltwriaeth o'r materion sylfaenol allweddol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth a'u gallu i sgriwtineiddio effeithiolrwydd y gwasanaeth.<br><br>Uwch arweinwyr ac aelodau etholedig yn dweud bod y Cynllun |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | cael eu blaenoriaeth a bod y gwelliant yn cyflymu ac yn cael ei gynnal. | | | | cymhlethdodau 'r Gwasanaethau Plant | Gwella Gwasanaeth yn cael ei gyflawni ar amser ac i'r safon ofynnol.<br><br>Uwch reolwyr yn y gwasanaeth yn dweud bod y cymorth a'r her a ddarperir gan uwch arweinwyr ac aelodau etholedig wedi parhau i wella.<br><br>Partneriaid proffesiynol a chymunedau yn dweud bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol yn unol â Deddf GC a Llesiant. |
| **2. Asesiadau, ymyriadau a phenderfyniadau amserol o safon uchel yn cael eu gwneud i ddiogelu, cefnogi a rheoli'r risgiau i blant: cronolegau, cofnodion a thystiolaeth a phecynnau cymorth ymchwil o ansawdd da** | | | | | | |
| 2.1 | Gwelliant o ran ansawdd ymarfer.<br><br><u>Meysydd i ganolbwyntio arnynt:</u><br>1. Amddiffyn plant, amddiffyn plant ac ymweliadau gwaith cymdeithasol LAC<br>2. Model Risg – gwella'r dadansoddiad o risg<br>3. Asesu - Beth sy'n bwysig, 5 maes asesu.<br>4. Cynlluniau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>5. Cwblhau cynlluniau Gofal a Chymorth dan y Ddeddf GC a Llesiant<br>6. Sefydlu a chynnal perthnasau o ansawdd uchel gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.<br>7. Cadw cofnodion | Penaethiaid Dros Dro y Gwasanaethau Plant<br><br>Cefnogir gan Non Meleri Hughes, Swyddog Hyfforddi Adnoddau Dynol<br><br>Ann Postle, Cydlynydd Dysgu Ymarfer<br><br>Laura Mowbray, Rheolwr y Rhaglen Trawsnewid Rheolwyr Gwasanaeth<br><br>Gemma Williams, Rheolwr tîm | Ionawr 2017 | Mawrth 2018<br><br>Awdit SA yn cadarnhau gwella yn ansawdd ymarfer. | Uned Hyfforddi yn trefnu hyfforddiant i'r holl staff gofal cymdeithasol ar:<br>1. Amddiffyn plant<br>2. Model Risg – gwella'r dadansoddiad o risg ac alinio hynny gyda Goruchwyliaetho.<br>3. Asesu - Beth sy'n bwysig, 5 maes asesu.<br>4. Canolbwyntio ar ganlyniadau.<br>5. Cynlluniau Gofal a Chymorth.<br>6. Sut i sefydlu a chynnal perthnasau o ansawdd uchel gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.<br>7. Cadw cofnodion. | Gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc gyda lleihad yn nifer y plant ar y CAP a'r plant sy'n derbyn gofal<br><br>Tystiolaeth o 'atal' a 'chefnogi' gyda mwy o blant yn aros yn eu cartrefi.<br><br>Cynnal archwiliadau rheolaidd yn cadarnhau gwelliannau yn ansawdd yr ymarfer, asesu risg a chadw cofnodion.<br><br>Sicrhau bod templedi rhanbarthol ar gyfer 'asesu ' / cynllunio gofal a |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 8. Cwrs Cyfathrebu ar y Cyd ar sgyrsiau sy'n seiliedig ar gryfderau<br><br>Argymhelliad 10:<br>Dylid gwella ansawdd yr asesiadau a'r chynlluniau er mwyn sicrhau eu bod yn gyson o ansawdd da, gyda ffocws clir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd, a bod y canlyniadau a ddeisyfir, amserlenni ac atebolrwydd ar gyfer camau gweithredu yn glir. | Rheolwyr tîm<br><br>Yr holl staff | | | 8. Datblygu canllawiau ar ymarfer da mewn perthynas â chadw cofnodion.<br>9. Canllawiau ymarfer i gael eu ddatblygu mewn perthynas â AP ac ymweliadau gwaith cymdeithasol LAC. | chefnogaeth' sy'n cofnodi glir anghenion, risgiau, cryfderau, canlyniadau, atebolrwydd am gweithredoedd a'r amserlenni cysylltiedig ar gael i'w defnyddio yn y gwasanaethau.<br><br>Cynhelir archwiliadau rheolaidd sy'n dangos gwelliant yn ansawdd a chysondeb y cofnodion a'u bod yn gyfredol ac yn cael eu storio yn systematig. |
| 2.2<br>Tudalen 135 | Argymhelliad 3 AGGCC:<br>Bydd uwch arweinwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau gwelliannau o ran:<br>1. ansawdd,<br>2. cysondeb a<br>3. amseroldeb<br>ymholiadau amddiffyn plant.<br><br>Canllaw Ymarfer i gael ei ddatblygu rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant mewn perthynas ag atgyfeiriadau diogelu plant, trafodaethau / cyfarfodydd strategaeth ac ymholiadau. | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant<br><br>Cefnogir gan Alex Kaitell, Rheolwr Gwasanaeth<br><br>DCI Andy Williams, Heddlu Gogledd Cymru | Ionawr 2017 | Hydref 2017 | 1. Cyfarfodydd misol yn cael eu trefnu rhwng y Gwasanaethau Plant a Heddlu Gogledd Cymru i fynd i'r afael â materion gweithredol ac i ddatblygu Canllawiau Ymarfer mewn perthynas ag atgyfeiriadau amddiffyn plant, trafodaethau / cyfarfodydd strategaeth ac ymholiadau.<br>2. PG yn cael gwybod am unrhyw anawsterau gweithredol mewn perthynas â chydweithio gyda'r Heddlu i sicrhau eu bod yn cael sylw ar frys sylw ac nad yw plant yn cael eu gadael sefyllfaoedd sy'n golygu eu bod yn agored i niwed.<br>3. Cynnal archwiliad i fonitro ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant. | Cynhelir archwiliadau rheolaidd yn dangos gwelliant yn ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant gan arwain at well canlyniadau i blant a phobl ifanc.<br><br>Staff yn dweud eu bod yn cael arweiniad cliriach a bod ganddynt well dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau oherwydd gweithrediad y Canllawiau Ymarfer. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.3<br><br>Tudalen 136 | Argymhelliad 9 AGGCC:<br>Dylid sefydlu trefniadau aml-asiantaethol i gryfhau cynlluniau gweithredol i gefnogi cydlyniad effeithiol er mwyn sicrhau bod partneriaid statudol yn cwblhau 'Fframweithiau Asesu ar y Cyd'.<br><br>Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg er mwyn sicrhau eglurder o ran trefniadau gweithredol – cytuno ar drothwy atgyfeirio, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, mynychu cyfarfodydd strategaeth, cyfarfodydd grŵp craidd a rhannu gwybodaeth. | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant<br><br>Cefnogir gan Alex Kaitell, Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Gemma Williams, Rheolwr Tîm<br><br>DCI Andy Williams, Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Angela Roberts, Uwch Nyrs Diogelu<br><br>Jayne Marr / Enid Christie, Addysg | Ionawr 2017 | Hydref 2017 | 1. Y Grŵp Cyflawni Diogelu Lleol wedi cytuno ar 16.2.17 y dylai cyfarfod amlasiantaethol rhwng Gwynedd ac Ynys Môn gael ei gynnal i drafod trefniadau gwaith ac anawsterau presennol a'u dwyn at sylw'r BRhDP.<br>2. Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg er mwyn sicrhau eglurder o ran trefniadau gweithredol - cytuno ar drothwy atgyfeirio, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, mynychu cyfarfodydd strategaeth, cyfarfodydd grŵp craidd a rhannu gwybodaeth , gweler. 3.3 (4) | Canllaw Ymarfer amlasiantaethol sydd yn rhoi diffiniad clir o swyddogaethau a chyfrifoldebau lleol a threfniadau diogelu.<br><br>Gwell trefniadau diogelu aml-asiantaethol sy'n arwain at well canlyniadau a phrofiadau i blant a phobl ifanc. |
| **3.** | **Fframwaith sicrhau ansawdd a pherfformiad sy'n cefnogi'r awdurdod lleol i reoli ei gyfrifoldebau tuag at blant yn effeithiol** | | | | | |
| 3.1 | Adolygu holl blant sydd mewn gofal er mwyn sicrhau bod cynlluniau cymorth a gofal yn seiliedig ar ganlyniadau mewn lle er mwyn sicrhau fod ganddynt sefydlogrwydd tymor hir.<br><br>Dealltwriaeth ar lefel gwasanaeth a chorfforaethol o broffil plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd ar y CAP.<br><br>Adolygu bob achos lle mae enwau plant wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant am 12 mis + er mwyn penderfynnu os y dylid ei trafod yng | Huw Owen, Rheolwr tîm<br><br>Cefnogir gan: Gemma Williams, Rheolwr tîm<br><br>Rona Jones, Swyddog Adolygu Annibynnol<br><br>Hayley Ennis, GC Ymgynghorol<br><br>Des Barker, | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 | 1. Rheolwyr Tîm i gadarnhau erbyn Mawrth 2017 pa blant / pobl ifanc fydd yn cael cynlluniau gofal a chymorth 'camu i lawr'.<br>2. Sicrhau Cytundeb erbyn mis Mawrth 2017 ynghylch y tasgau sy'n ofynnol er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a'r gwaith dwys y mae angen ei wneud gyda phlant sy'n derbyn gofal / pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn sicrhau | Gwaith dwys gyda phlant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sydd angen trefniadau 'camu i lawr' llwyddiannus yn arwain at well canlyniadau.<br><br>Cyngor yn cael sicrwydd bod lleoliadau yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Plant yn cael eu hailsefydlu yn ddiogel yn eu cartrefi trwy leoliadau gyda'u rhieni |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 137 | nghyfarfod cyfreithiol (camau cyfreithiol.) | Cydlynydd Amddiffyn Plant<br><br>Gweithwyr Cymdeithasol | | | bod trefniadau 'camu i lawr' yn llwyddiannus.<br>3. Swyddi o fewn y Tîm Teuluoedd Gwydn Cydnerth a phenodiadau wedi eu gwneud erbyn diwedd Mawrth 2017.<br>4. Cryfhau'r broses o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal trwy ddatblygu Canllawiau Ymarfer ychwanegol.<br>5. Polisi Sefydlogi wedi ei gytuno. | / gollwng Gorchmynion Gofal.<br><br>Gweithwyr Cymdeithasol yn rhoi blaenoriaeth i argymhellion Adolygiadau LAC a bod y broses o gwblhau asesiadau a gwaith sydd ar ôl i'w wneud yn digwydd yn gyflym ac yn cael ei chynnal.<br><br>Lleihad yn y nifer o blant mewn lleoliadau preswyl erbyn diwedd mis Mawrth 2018 o ganlyniad i waith dwys a wnaed i'w symud i drefniadau 'camu i lawr'<br><br>Costau a gwariant ar leoliadau costus wedi lleihau'n sylweddol o ganlyniad i drefniadau 'camu i lawr' ar gyfer plant a phobl ifanc'.<br><br>Archwiliadau o ffeiliau achos yn dangos bod cynllunio gofal gan Weithiwr Cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn gwella'n sylweddol drwy weithredu'r Canllaw Ymarfer.<br><br>Review of looked after children and children on the CPR provides detailed information and understanding of their |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | needs. This will assist with the prevention strategy and the work of the Resilient Families Team. |
| 3.2 | Cryfhau ac ymgorffori'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd o fewn y Gwasanaeth, trwy:<br>1. SAA a CAP i adrodd yn chwarterol ar eu hasesiad o berfformiad gweithredol cynadleddau ac adolygiadau.<br>2. SAA a CAP i ddwyn sylw, ar sail thematig, at faterion yn ymwneud ag ansawdd a dysgu ar gyfer y Gwasanaeth.<br>3. Rheolwyr i gynnal archwiliadau rheolaidd ar feysydd sy'n canolbwyntio ar:<br>• Oruchwylio<br>• Cofnodi<br>• Asesu<br>• Ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant<br><br>Llwyth achosion ac adroddiadau ynghylch ansawdd perfformiad gweithwyr i gael eu monitro yn barhaus.<br><br>Argymhelliad 13 AGGCC:<br>Mae angen gwreiddio trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, gan gynnwys sgriwtineiddio'r galw am wasanaethau ac archwiliadau rheolaidd o ansawdd ymarfer, fel bod rheolwyr ar bob lefel yn cael gwybodaeth amserol a pherthnasol o safon uchel am berfformiad a | Gareth Llwyd, Rheolwr Gwasanaeth Sicrhau ansawdd<br><br>Rona Jones, Swyddog Adolygu Annibynnol<br><br>Des Barker, Cydlynydd Amddiffyn Plant (CAP)<br><br>Pob Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Pob Rheolwr<br><br>Dyfrig Williams Cydlynydd WCCIS | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 | 1. Fframwaith Sicrhau Ansawdd wedi cael ei ddiwygio a'i gymeradwyo gan y Gwasanaethau Plant.<br>2. Cynllun Gweithredu Sicrhau Ansawdd wedi cael ei gytuno ar gyfer y 12 mis nesaf yn canolbwyntio ar archwiliadau rheolaidd ar feysydd sy'n canolbwyntio ar:<br>• Oruchwylio<br>• Cofnodi<br>• Asesu<br>• Ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant<br>3. Adroddiadau archwilio i'w trafod yng nghyfarfod Rheolwyr y Gwasanaethau Plant i benderfynu ar y camau gweithredu ar gyfer dysgu.<br>4. Trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch capasiti ychwanegol o safbwynt sicrhau ansawdd ychwanegol i gydlynu trefniadau.<br>5. Rheolwyr i ddarparu adroddiadau amlygu misol i reolwyr gwasanaeth a PG ar ansawdd perfformiad gweithwyr i sicrhau bod digon o gapasiti iddynt fedri | Archwiliadau o adroddiadau sicrwydd ansawdd a ffeiliau achos yn dangos tystiolaeth o welliant yn ansawdd yr ymarfer a'r dysgu a bod penderfyniadau diogel yn cael eu gwneud ar bob lefel.<br><br>Adroddiadau ansoddol rheolaidd ac amserol yn cael eu cyflwyno yn ddi-oed i'r tîm arweinyddiaeth, gan gynnwys aelodau.<br><br>Y sefydliad yn arddangos trefniadau llywodraethu a chraffu mwy strwythuredig drwy archwilio ffeiliau achosion yn rheolaidd.<br><br>Mae gan y Swyddog Adolygu Annibynnol / CAP rôl well o ran sicrhau ansawdd gyda hynny'n arwain at ddysgu a gwelliant yn ansawdd yr ymarfer<br><br>WCCIS yn cefnogi rheoli perfformiad a rheoli llwyth achosion drwy nodweddion 'adrodd' hwylus sydd ar gael i Reolwyr. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 139 | sicrwydd ansawdd i'w galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol ac i gyflawni gwelliannau.<br><br>Argymhelliad 14 AGGCC: Dylai Llwyth achosion ac adroddiadau ynghylch ansawdd perfformiad gweithwyr gael eu monitro'n barhaus er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti i weithwyr ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd. | | | | ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd.<br>6. Trafodaeth ynghylch darparu cymorth busnes ar gyfer Adolygiadau Statudol a Chynadleddau Achos.<br>7. Canllawiau i gael eu datblygu mewn perthynas â rheoli llwyth achosion i sicrhau bod digon o gapasiti i weithwyr fedru ymgysylltu'n effeithiol â phlant a'u teuluoedd | Mae rheolwyr yn darparu adroddiadau amlygu misol i reolwyr gwasanaeth a PG ar ansawdd perfformiad gweithwyr i sicrhau bod digon o gapasiti i ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd.<br><br>Mae gweithwyr â chapasiti digonol i ymgysylltu'n effeithiol â phlant a'u teuluoedd oherwydd bod Rheolwyr yn gweithredu'r Canllawiau llwyth achosion.<br><br>Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd i yrru gwelliannau a newid mewn ymarfer ar draws y Gwasanaeth wrth ddysgu o adroddiadau thematig a safonol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.3<br><br>Tudalen 140 | Datblygu'r fframwaith perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Plant ac Oedolion i gynnwys:<br>1. Dangosyddion perfformiad Amlinellol wedi eu rhannu'n berfformiad Cenedlaethol, Corfforaethol a Gwasanaeth.<br>2. Trefniadau llywodraethu i gynnwys adrodd, atebolrwydd a mecanwaith i yrru gwelliant.<br>3. Gwelliant parhaus wedi ei ymgorffori yn y fframwaith.<br>4. Gwella mewn perfformiad mewn meysydd penodol sydd oddi allan i'r lefel derbyniol:<br>• Asesu<br>• Adolygiadau plant mewn gofal<br>• Ymweliadau plant mewn gofal<br>• Ymweliadau plant ar y Gofrestr<br>• Cyfarfodydd Grwpiau Craidd<br>• Cynlluniau Llwybr | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant<br><br>Cefnogir gan Emma Edwards, Dirprwy Rheolwr Busnes<br><br>Rheolwyr Gwasanaeth Rheolwyr Tîm | Mawrth 2017 | Hydref 2017 | 1. Comisiynu arbenigedd allanol ym mis Mai / Mehefin i ddatblygu'r fframwaith perfformiad ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion.<br>2. System dracio yn cael ei ymestyn, wedi ei selio ar ymarfer da o fannau eraill; gan gyfuno y newid mewn strwythur ar gyfer Gwasanaethau Plant, bydd yn galluogi Rheolwyr Timau/Arweinwyr Ymarfer i sicrhau fod ymweliadau wedi ei cynnal pan mae staff yn absennol o'r gwaith (pan fo staff yn absennol neu i ffwrdd o'u gwaith oherwydd salwch). | Gwelliant o ran lefel dealltwriaeth y staff o ddangosyddion perfformiad a'r cysylltiad clir gydag ansawdd ac phrydlondeb ymarfer.<br><br>Mae hyn yn arwain at welliant parhaus mewn perfformiad a chanlyniadau i blant / pobl ifanc - un dangosydd yw gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.<br><br>Cryfhau'r trefniadau adrodd a monitro perthynas â gwybodaeth am Berfformiad.<br><br>Gwybodaeth perfformiad yn dangos gwella mewn perfformiad i lelelau derbynniol:<br>• Asesu<br>• Adolygiadau plant mewn gofal<br>• Ymweliadau plant mewn gofal<br>• Ymweliadau plant ar y Gofrestr<br>• Cyfarfodydd Grwpiau Craidd<br>• Cynlluniau Llwybr |
| 3.4 | Argymhelliad 2 AGGCC:<br>Sefydlu systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddiant aml- | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant | Rhagfyr 2016 | Rhagfyr 2018 | 1. Partneriaid yn darparu cytundeb i ddatblygu a chefnogi / blaenoriaethu: | System sicrhau ansawdd amlasiantaethol y cytunwyd arni yn arwain at welliant o |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 141 | asiantaethol i sicrhau bod staff a phartneriaid yn deall y trothwyon ar gyfer asesiadau gwasanaethau plant statudol ac y glynir wrth trothwyon hynny'n gyson.<br><br>Datblygu protocol ar gyfer trothwyon amddiffyn plant amlasiantaethol a bod y protocol hwnnw'n ymgorffori canllawiau diweddar Llywodraeth Cymru.<br><br>Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg er mwyn sicrhau eglurder o ran trefniadau gweithredol - trothwy atgyfeirio y cytunwyd arno, trothwy asesu, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, mynychu cyfarfodydd strategaeth, cyfarfodydd grŵp craidd a rhannu gwybodaeth. | Alex Kaitell, Rheolwr Gwasanaeth<br><br>DCI Andy Williams, Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Angela Roberts, Uwch Nyrs Diogelu<br><br>Jayne Marr / Enid Christie, Addysg | | | • systemau sicrhau ansawdd aml-asiantaethol<br>• Hyfforddiant ar gyfer staff y Gwasanaethau Plant a phartneriaid ar drothwyon ar gyfer asesu ac rolau a chyfrifoldebau phartneriaid.<br>• Datblygu trothwy amddiffyn plant amlasiantaethol<br>• Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg i gynnwys pob maes gwaith lle mae angen gwneud gwaith datblygu. | ran ansawdd a phrydlondeb ymarfer.<br><br>Yr holl staff a phartneriaid allweddol wedi cael yr hyfforddiant a nodwyd ac mae tystiolaeth o welliant o ran lefel y ddealltwriaeth o drothwyon ar gyfer atgyfeiriadau, asesiadau ac amddiffyn plant a'r modd y dylid defnyddio'r trothwyon hynny. Mae hyn yn digwydd oherwydd bod y Canllawiau Ymarfer yn cael eu gweithredu.<br><br>Mae gwybodaeth / cyfeiriadau gan yr Heddlu i'r Gwasanaethau Plant yn cael eu craffu ymlaen llaw yn cynnwys crynodeb sy'n rhoi rheswm dros yr atgyfeiriad a'r camau gweithredu y gofynnwyd amdanynt. Bydd hyn yn arwain at welliant yn ansawdd y cyfeiriadau a'r penderfyniadau ac yn gostwng yn sylweddol nifer yr atgyfeiriadau a dderbynnir gan y Gwasanaethau Plant wrth y drws ffrynt.<br><br>Mae ansawdd yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Plant wedi gwella'n sylweddol o |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | ganlyniad i'r gwelliant yn ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan bartneriaid. Bydd hyn yn galluogi staff i ganolbwyntio ar sefydlu perthynas gadarnhaol gyda theuluoedd a darparu ymyriadau o ansawdd. |
| 3.5 | Argymhelliad 11 AGGCC:<br>Dylid gwella ansawdd a chysondeb cofnodiadau; dylai'r holl staff a rheolwyr yn sicrhau bod eu cofnodion o ansawdd da, yn gyfredol ac yn cael eu storio yn systematig.<br><br>Staff i dderbyn hyfforddiant ar y safonau disgwyliedig o safbwynt cadw cofnodion.<br><br>Canllawiau ymarfer ar gadw cofnodion i gael eu datblygu er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd. | Gareth Llwyd, Rheolwr Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd<br><br>Cefnogir gan Dawn Owen, Rheolwr Tîm<br><br>Llyr Ap Rhisiart, GICD<br><br>Gemma Willams, Rheolwr tîm<br><br>Gweithwyr Cymdeithasol<br><br>Gweithwyr Cymorth | Ionawr 2017 | Medi 2017 | 1. Canllawiau ymarfer ar gadw cofnodiadau i gael eu datblygu er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd.<br>2. Staff i dderbyn hyfforddiant ar yr arferion gorau o ran cadw cofnodion a'r Canllawiau Ymarfer.<br>3. Ffeiliau achos i gael eu harchwilio er mwyn monitro ansawdd ac amseroldeb y cofnodion ar achosion unigol. | Rheolwr yn archwilio ffeiliau achos yn rheolaidd gyda hynny'n dangos gwelliant yn ansawdd a chysondeb y cofnodion.<br><br>Cefnogaeth ac arweiniad i staff trwy oruchwyliaeth reolaidd o safon yn arwain at welliant yn ansawdd y cadw cofnodion. |
| **4. Gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio rhagweithiol gyda theuluoedd i reoli – treulio llawer mwy o amser yn gweithio ochr yn ochr â theuluoedd yn eu helpu i newid fel bod y teulu yn lle diogel ar gyfer eu plant.** | | | | | | |
| 4.1 | Sicrhau bod ymyrraeth gwaith cymdeithasol yn cyd-fynd â'r ffordd wahanol o weithio gyda theuluoedd dan y Ddeddf Newydd ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig, gan adeiladu ar gryfderau pobl a'u galluogi i gymryd rhan yn y broses o roi sylw i anghenion a chyflawni canlyniadau. | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant<br><br>Cefnogir gan Non Meleri Hughes, Swyddog Hyfforddi<br><br>Ann Postle, Cydlynydd | Mawrth 2017 | Mawrth 2018 | 1. Hyfforddiant wrthi'n digwydd ar hyn o bryd ar Gyfweld Cymhellol a'r ymagweddau 'Teuluoedd Gwydn'.<br>2. Cynhelir hyfforddiant cyfathrebu ar y cyd ym mis Mawrth ar gyfer yr holl Reolwyr. | Staff yn dweud eu bod yn teimlo bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth ac yn gallu gwneud mwy o ymyriadau uniongyrchol gyda theuluoedd.<br><br>Tystiolaeth bod y gweithlu yn ddigon medrus i |

Tudalen 142

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu yn canolbwyntio ar:<br>1. Cwrs Cyfathrebu ar y cyd ar sgyrsiau sy'n seiliedig ar gryfderau.<br>2. Ymyriadau GICD<br>3. Newid diwylliant<br>4. Mesur perfformiad<br>5. Cyfweld Cymhellol | Dysgu Ymarfer<br><br>Rheolwyr Gwasanaeth<br><br>Arweinwyr Ymarfer<br><br>Yr holl staff | | | 3. Hyfforddiant ar ymyriadau GICD yn cael ei gynnal yn flynyddol.<br>4. Hyfforddiant ar newid diwylliant a mesur yn cael ei gynnal ym mis Mawrth ar gyfer Rheolwyr. | weithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd sy'n arwain at well canlyniadau - enghraifft o hyn yw gostyngiad yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.<br><br>Gwybodaeth bod mwy o blant yn cael eu cefnogi i barhau i fyw gartref gyda'u teuluoedd.<br><br>Adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth bod ansawdd ymyriadau yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. |
| 4. | Adolygu'r strwythur gwasanaeth presennol i fynd i'r afael â'r angen am ymyriadau ataliol ac ymyriadau dwys gwell.<br><br>Sefydlu timau llai gydag Arweinwyr Ymarfer i ddarparu cymorth a goruchwyliaeth effeithiol i staff. | Dr Caroline Turner, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cefnogir gan: Penaethiaid Dros Dro Gwasanaethau Plant<br><br>Rheolwyr Gwasanaeth | Ionawr 2017 | Ebrill 2017 | 1. Daw’r cyfnod ymgynghori gyda staff i ben ar 24.2.17.<br>2. PG Dros Dro wedi darparu dadansoddiad o’r sylwadau a’r adborth yn yr adroddiad gydag argymhellion.<br>3. Penderfyniad terfynol ac amserlenni i'w cytuno a'u rhannu yn y Gynhadledd staff ar 27.3.17. | Bydd strwythur newydd y gwasanaeth yn cefnogi ac yn cryfhau’r ddarpariaeth o wasanaethau ataliol ac ymyriadau dwys ac enghraifft o hyn fydd gostyngiad yn nifer y plant sy'n dod i ofal.<br><br>Rheolwyr yn dweud bod strwythur newydd y gwasanaeth yn cynyddu eu gallu i ddarparu arweinyddiaeth broffesiynol i gefnogi'r gweithlu trwy oruchwyliaeth reolaidd o ansawdd.<br><br>Staff yn adrodd eu bod yn cael eu cefnogi a'u goruchwylio’n ddigonol gan |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | eu rheolwyr wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.<br><br>Archwiliadau o ffeiliau achos yn dangos gwelliant amlwg yn ansawdd yr ymarfer o ganlyniad i'r llwybrau a systemau clir o fewn y Gwasanaeth a thrwy oruchwyliaeth reolaidd. |
| 4.3 | Gweithredu model Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) ar gyfer Ynys Môn | Leighton Rees, Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant<br><br>Cefnogir gan Laura Mowbray, Rheolwr y Rhaglen Trawsnewid<br><br>Rheolwyr Gwasanaeth | Rhagfyr 2016 | Ebrill 2017 | 1. Llunio, cymeradwyo a chyfieithu yr holl bolisïau, protocolau, trothwyon a'r templedi cysylltiedig sy'n ofynnol ar gyfer darparu gwasanaethau.<br>2. Cytuno ar fesurau llwyddiant<br>3. Sgopio anghenion TGCh<br>4. Cytuno ar y gofynion hyfforddi.<br>5. Enw'r tîm 'Teulu Môn' Cyfryngau Cymdeithasol, cytunwyd ar rif ffôn.<br>6. Hyfforddi staff wedi cychwyn<br>7. Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar fin symud i'r Pencadlys ddiwedd mis Ionawr<br>8. Logo ar gyfer y gwasanaeth newydd wrthi'n cael ei ddylunio.<br>9. Y bwrdd prosiect yn cyfarfod yn fisol<br>10. Grŵp tasg a gorffen Marchnata yn cyfarfod ac yn | Un pwynt mynediad ar gyfer yr holl ymholiadau sy'n ymwneud â phlant a theuluoedd wedi cael ei sefydlu ac yn 'fyw' erbyn 03.04.17<br><br>Dinasyddion yn dweud ei bod yn hawdd cael mynediad at wasanaethau a gofal cwsmer da.<br><br>Gwell cydlyniant o ran gwasanaethau a strategaethau ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal yn cael ei adlewyrchu yn y gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.<br><br>Llai o ddyblygu ymdrech fel sy'n digwydd ar hyn o bryd oherwydd bod nifer o 'ddrysau ffrynt' ar gael |

Tudalen 144

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | datblygu allbynnau marchnata ar gyfer y gwasanaeth.<br>11. Tîm newydd yn cychwyn ar gyfnod o 'adeiladu tîm'<br>12. Staff y Gwasanaethau Plant a phartneriaid allweddol yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ar y newidiadau o fewn y Gwasanaeth a thrwy Sesiynau Gwybodaeth. | |
| 4.4 | Datblygu Strategaeth Atal Gorfforaethol; rhaid i'r ALl ddarparu ystod a lefel o wasanaethau ataliol ar draws yGwasanaethau Plant ac Oedolion.<br><br>Darparu gwasanaeth integredig a rhoi help a chymorth cynnar sydd, i bob pwrpas, yn gohirio'n effeithiol yr angen am ofal a chymorth.<br><br>Bydd yr asesiad poblogaeth yn cynorthwyo'r awdurdod lleol i nodi'r gwasanaethau ataliol sydd eu hangen.<br><br>Cryfhau swyddogaeth gomisiynu o fewn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion i'n cefnogi i gyflawni'r agenda hon.<br><br>Argymhelliad 1 AGGCC.<br>Datblygu fframwaith ar gyfer gwneud gwaith ataliol gyda phlant a theuluoedd a fydd yn darparu gwasanaeth integredig ac yn rhoi help a chymorth cynnar gyda hynny i bob | Dr Caroline Turner, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Penaethiaid Dros Dro Gwasanaethau Plant<br><br>Alwyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Dafydd Bulman, Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes<br><br>Melanie Jones, Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Llyr Ap Rhisiart, GICD | Ionawr 2017 | Hydref 2017 | 1. Bydd adolygiad o'r gwasanaeth ataliol cyfredol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2017.<br>2. Ymgysylltiad ac ymgynghoriad ystyrlon gyda theuluoedd, plant, pobl ifanc a defnyddwyr gwasanaeth.<br>3. Ail-gomisiynu gwasanaethau yn unol â chanllawiau LlC drwy ddefnyddio data lleol ac Asesiad Anghenion y Boblogaeth Asesiad gyda hynny'n arwain at ganlyniadau o ansawdd oherwydd ymyrraeth gynnar.<br>4. Y swyddog comisiynu, cydlynu a monitro'r grant Teuluoedd yn Gyntaf, wedi trosglwyddo i'r Gwasanaethau Plant erbyn mis Ebrill 2017. | Rydym wedi ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion am y mathau o wasanaethau sydd eu hangen arnynt.<br><br>Mae gan yr Awdurdod Lleol weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal yn Ynys Môn.<br><br>Ail-gomisiynu gwasanaethau yn unol â chanllawiau LlC drwy ddefnyddio data lleol, safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth ac Anghenion y Boblogaeth / Cynlluniau Ardal Lleol yn arwain at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd (gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal).<br><br>'Teulu Mon', y gwasanaeth GCCh (IAA) newydd ar |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | pwrpas, yn gohirio’n effeithiol yr angen am ofal a chymorth.<br><br>Argymhelliad 12 AGGCC:<br>Dylai'r awdurdod lleol a phartneriaid gydweithio i ddatblygu dull cydlynol o gasglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau, sy'n cynnwys lleisiau plant a theuluoedd. Dylid defnyddio hyn i lywio’r broses o lunio cynlluniau strategol er mwyn sicrhau aliniad effeithiol rhwng gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, y sector ataliol a’r gwasanaethau statudol. | | | | 5. Adolygu ac aildrefnu ‘Gofal ysbaid’ sydd yn cael ei gynnig gan Gwasanaeth Arbennigol Plant. | gyfer Ynys Môn yn weithredol ac yn rhan allweddol o'r gwasanaeth ymyrraeth gynnar / atal.<br><br>Lleihad yn y nifer o blant sydd yn dod i ofal a cynnydd yn yn nifer o blant sydd yn cael ei cefnogi i fyw adref efo’l teuluoedd. |
| **5 Gwella gwasanaethau cymorth i deuluoedd a’u targedu tuag at ddarparu cefnogaeth ddwys a chyflym ar adeg pan fydd teuluoedd yn chwalu mewn ymagis i gadw’r teulu gyda’i gilydd.** | | | | | | |
| 5.1 | Adolygiad o Wasanaethau Cefnogi Plant i ganolbwyntio ar:<br>1. Gyswllt dan oruchwyliaeth<br>2. Rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith ataliol<br>3. Rôl y Swyddog Rhianta | Alex Kaitell, Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Cefnogir gan Helen Griffith, Rheolwr Gwasanaethau Cymorth<br><br>Grant Howard, Swyddog Rhianta<br><br>Huw Owen, Rheolwr Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal<br><br>Kelly Schofield, Uwch Ymarferydd | Ionawr 2017 | Mai 2017 | 1. Mae gwaith wedi cychwyn ar adolygu achosion lle nad oes angen i gael i’r awdurdod lleol oruchwylio cyswllt. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall y capasiti sydd ar gael i’w drosglwyddo i'r Tîm Teuluoedd Gwydn. | Y gwasanaeth yn gwneud gwell defnydd o'i adnoddau ac yn canolbwyntio ar gefnogi plant i barhau i fyw o fewn eu teuluoedd.<br><br>Darparu cymorth rhianta 1:1 ac / neu mewn Grŵp i rieni i gryfhau safon y gofal a gaiff eu plant.<br><br>Mwy o blant yn cael eu cefnogi i fyw gartref. Gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. |
| 5.2 | Gweithredu’r Tîm Teuluoedd Gwydn | Alex Kaitell, Rheolwr Gwasanaeth | Ionawr 2017 | Mai 2017 | 1. Mae gwaith wedi cychwyn ar adnabod plant a phobl ifanc y gellir gwneud | Y tîm newydd yn weithredol ac yn darparu cefnogaeth ddwys i blant, pobl ifanc a'u |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cefnogir gan Laura Mowbray, Rheolwr y Rhaglen Trawsnewid | | | gwaith dwys â nhw er mwyn eu galluogi i ddychwelyd adref yn ddiogel.<br>2. Mae Disgrifiadau Swydd newydd wedi cael eu llunio a byddir yn cychwyn recriwtio i'r swyddi ddiwedd mis Mawrth 2017<br>3. Bydd rhaglen hyfforddi a datblygu sgiliau hyfforddi yn cael ei llunio ar gyfer y Tîm newydd. | teuluoedd fel y gallant barhau i fyw gyda'u teuluoedd.<br><br>Gall y tîm ddangos tystiolaeth o ymyrraeth yn seiliedig ar atal a dad-ddwysáu drwy gyfrwng adroddiadau chwarterol.<br><br>Mae gwybodaeth am berfformiad yn dangos bod cysylltiad uniongyrchol rhwng ymyrraeth y tîm hwn a nifer y plant a phobl ifanc y llwyddwyd i'w hailsefydlu'n ôl yn eu cartrefi.<br><br>Mae gwybodaeth am berfformiad yn dangos cyswllt uniongyrchol rhwng gwaith y tîm a lleihad yn yr angen am leoliadau maethu/preswyl costus.<br><br>Mae archwiliadau o ffeiliau achos yn dangos bod y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu teilwra o amgylch anghenion y teulu unigol, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc. |
| 5.3 | Gwella cyfrifoldeb yr awdurdod lleol fel Rhiant Corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Meysydd y dylid canolbwyntio arnynt: | Alex Kaitell, Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Huw Owen, | Ionawr 2017 | Rhagfyr 2017 | 1. Sefydlwyd prosiect ôl-ofal.<br>2. Y Bwrdd Ôl-ofal yn cyfarfod bob mis ac â | Gwaith clir o ran cynllunio llwybr yn darparu amcanion yn y cynllun i baratoi'r person ifanc ar gyfer bod yn oedolyn. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
|  | • Adolygu'r gwasanaeth gadael gofal (ôl-ofal)<br>• Creu 'Polisi Llety â Chymorth'<br>• Cytuno ar 'Bolisi Ariannol Gadael Gofal'<br>• Trefniadau profiad gwaith a phrentisiaethau yn y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd<br>• Mynediad am ddim / am bris gostyngol i wasanaethau hamdden a gwasanaethau llyfrgell<br>• Penodi Aelod Lleol fel Hyrwyddwr ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal | Rheolwr Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal<br><br>Laura Mowbray, Rheolwr y Rhaglen Drawsnewid<br><br>Karen Roberts, Rheolwr Gwasanaeth, Tai | | | chynllun gweithredu y cytunwyd arno.<br>3. Cymeradwywyd protocol Ôl-ofal a thai ym mis Chwefror 2017<br>4. Cynhaliwyd trafodaethau gydag AD a Hamdden ynglŷn â phrofiad gwaith a gwasanaethau hamdden.<br>5. Drafft cynnar o'r polisi ariannol Ôl-ofal wedi'i lunio.<br>6. Wrthi'n ystyried cynnal Digwyddiad Rhianta Corfforaethol ar gyfer aelodau lleol ac uwch swyddogion i gytuno ar gryfhau'r trefniadau presennol.<br>7. Sefydlwyd grŵp ymgynghori gyda phlant sy'n derbyn gofal lle gallant roi eu barn am y gwaith datblygu y mae angen ei wneud. | Rhai sy'n gadael gofal yn dweud eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a bod yr awdurdod yn eu cefnogi yn y cyfnod trosiannol cyn gadael gofal.<br><br>Mae plant sy'n derbyn gofal yn dweud eu bod yn teimlo bod ganddynt ddylanwad ar y modd y darperir gwasanaethau ar eu cyfer.<br><br>Canllawiau clir ar waith ar gyfer staff y Gwasanaethau Plant a phartneriaid allweddol drwy bolisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant mewn perthynas â gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal. |
| 6.1 | Datblygu a gweithredu Protocol ar gyfer Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gan fyfyrio ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 - Rhan 8 Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. | Dr Caroline Turner, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Pennaeth y Gwasanaethau Tâl<br><br>Dafydd Bulman, Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes | Mai 2017 | Medi 2017 | 1. Bydd gwaith yn dechrau ar gryfhau rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai. | Cryfhau rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr Awdurdod Lleol. |

# Cynnydd a wnaed gyda Chynllun Gwella'r Gwasanaethau Plant ar gyfer 2016/17 a Chau Cam Cyntaf y Prosiect

Adroddiad i'r Panel Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
Mawrth 2017

**1.0 CYD-DESTUN:**

Yn ôl ym mis Chwefror 2016, penderfynodd y Gwasanaeth sefydlu Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG) oherwydd ei fod yn wynebu nifer o heriau, gyda rhai ohonynt yn ymwneud â materion gwella brys ac eraill a oedd yn ymwneud â'r angen i newid y model gwaith cymdeithasol mewn ymateb i faterion strategol cenedlaethol a lleol. 'Roedd yn gyfnod o newid sylweddol i'r Gwasanaethau Plant gyda chyflwyno'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Ar yr un pryd, 'roeddem yn wynebu heriau sylweddol i'r model traddodiadol o wasanaeth oherwydd:

- Llymder ariannol
- Cynnydd yn y galw
- Capasiti ac effeithiolrwydd
- Cymhlethdod y llwybrau ar gyfer teuluoedd sy'n chwilio am help

Mae dadansoddiad wedi dangos bod lefel sylweddol o wariant wedi ei ymrwymo i'r achosion hynny sydd ar ben eithaf ein graddfa ymyriadau - plant sy'n derbyn gofal, plant sy'n destun cynllun amddiffyn plant neu blant sy'n destun achosion gofal.

'Roedd yr Adroddiad Gwerthuso Perfformiad gan y Rheoleiddwyr ar gyfer 2014/15 yn cydnabod y gwelliannau a wnaed o fewn y Gwasanaethau Plant, ond 'roedd yn nodi bod ansawdd yr ymarfer yn fregus. Nodwyd yr angen i'r Awdurdod Lleol wneud gwelliannau yn y meysydd canlynol -

- Ansawdd y broses o wneud penderfyniadau ac atebolrwydd
- Datblygu'r gweithlu
- Datblygu gwefan a defnyddio gwybodaeth, cyngor a chymorth yn unol â'r Ddeddf
- Capasiti a chyflenwad yn y maes comisiynu
- Darparu ystod o leoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

Fe'n gyrrwyd ymlaen i gyfnod o welliannau hanfodol a thrawsnewid yn y gwasanaeth gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yng nghyd-destun rhai o'r gyrwyr eraill, roedd hynny'n mynd i fod yn her. Fodd bynnag, y gwir amdani yw na fyddai byth amser 'da' i ddiwygio a thrawsnewid y gwasanaeth. 'Roeddem wedi cymryd camau i sicrhau ein bod yn deall y sylfeini ar gyfer adeiladu'r newid hwnnw: ac 'roedd ein hymagwedd yn cydbwyso'r angen i newid yn erbyn yr angen i wneud y fath newid ar gyflymder priodol; gyda ffocws acíwt, brys ar gryfhau'r sylfeini a chyflawni gwelliannau

allweddol, gan alinio'r rhain, ar yr un pryd, â'n hawydd i newid y model gwaith cymdeithasol ym Môn.

Yn hwyr yn 2015, gofynnwyd i'r Tîm Cymorth Gwella gwreiddiol ac annibynnol a oedd wedi gweithio gyda'r gwasanaeth yn 2011 ac oedd yn allweddol o ran cefnogi'r gwasanaeth i wneud gwelliannau sylweddol, i ddychwelyd a hynny er mwyn adolygu'r pellter a deithiwyd. 'Roedd rhannau helaeth o'r cynllun gwella arfaethedig yn cyd-fynd â'u casgliadau o ran yr angen yn gyntaf i gryfhau ein sylfeini ac i wneud gwaith ar faterion staffio a materion sicrhau ansawdd cyn ceisio cyflawni unrhyw drawsnewid mawr.

Byddai'r cynllun yn cael ei gyflwyno mewn dau gam, a'r cyntaf oedd **Adfer, Symud Ymlaen a Gwella Gwasanaethau Gwaith Maes.** Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gau'r cam cyntaf fel bod y Cynllun Gwella Gwasanaeth ar gyfer 2017/18 yn canolbwyntio ar yr ail gam, sef **Ailosod y Weledigaeth - Trawsffurfio a Newid;** Ochr yn ochr â datblygu sgiliau a gwybodaeth ein gweithlu, mae angen i ni newid ein harferion a'n hathroniaeth i weithredu mewn modd sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau, gan leihau'r angen i'r gwasanaeth fod yn ymwneud ag achosion, gan weithio gyda theuluoedd mewn ffordd agored a gonest a chanolbwyntio ar y newidiadau sydd eu hangen a rhoi'r cyfle gorau iddynt aros gyda'i gilydd tra'n cadw'r plant yn ddiogel. Mae angen i ni newid y ffordd rydym yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae hyn yn fwy nag ymateb i Ddeddf newydd. Gwraidd hyn yw ein bwriad i gyflwyno dull sy'n canolbwyntio llawer mwy ar gefnogi Gwaith Cymdeithasol a rhoi gwasanaeth gwell i'r plant a'u teuluoedd.

'Roedd 47 o gamau gweithredu uchelgeisiol yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth, gyda rhai ohonynt yn brosiectau a fyddai'n cymryd blwyddyn i'w datblygu, eu sefydlu a'u gweithredu. Llwyddodd y gwasanaeth i gwblhau 26 ohonynt (gweler adran 2.0) a chwblhau cam 1 - Adennill, Symud Ymlaen a Gwella Gwasanaethau Gwaith Maes. Mae hyn yn golygu bod 21 o gamau gweithredu sy'n ymwneud â Cham 2 - Ailosod y Weledigaeth – Trawsffurfio Newid – yn dod drosodd i Gynllun Gwella Gwasanaeth 2017/18, ynghyd ag argymhellion a wnaed gan AGGCC; gweler y tabl yn adran 3.0.

**2.0 Elfennau o Gynllun Gwella 2016/17 a gwblhawyd ac a oedd yn ymwneud ag Adfer, Symud Ymlaen a Gwella Gwasanaethau Gwaith Maes** (Cam 1 Cynllun Gwella Gwasanaeth 2016/17):

Mae 2016/17 wedi bod yn flwyddyn heriol i'r gwasanaeth, gan gynnwys ymadawiadau staff a rheolwyr, penodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol newydd, cyfnod o absenoldeb dros dro ar gyfer y Pennaeth Gwasanaeth, cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, cynnydd yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ac arolygiad gan AGGCC. Wedi dweud hynny, 'rydym wedi bod yn ffodus ein bod wedi medru cael ymarferwyr a rheolwyr dros dro profiadol ac ymroddgar a bod gennym weithlu ymroddedig ac angerddol sydd yn cael cefnogaeth gref gan y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro a'r Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn o herio a newid.

**2.1 Sefydlogrwydd Staff:** 'Roedd ffocws cychwynnol y gwasanaeth ar osod

sylfeini i gefnogi newid. Oherwydd bod nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal bron wedi dyblu mewn 24 mis aeth y gwasanaeth ati'n gyntaf i fynd i'r afael â'r capasiti gwaith cymdeithasol drwy gyflogi 3 o weithwyr cymdeithasol ychwanegol, Swyddog Adolygu Annibynnol ychwanegol a chreu swydd Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol – swydd Llys; gyda golwg ar leihau a rheoli llwythi achosion, er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i Blant a'u Teuluoedd. (Cytunodd y Pwyllgor Gwaith i ddarparu arian craidd ychwanegol i ymateb i'r galw cynyddol ). 'Roedd hyn yn cynnwys cynnal y capasiti Rheoli cyfredol er mwyn cwrdd â chyfrifoldebau statudol a gweithredu'r Ddeddf, gan sicrhau na fyddai'r gwasanaeth a ddarperir yn cael ei effeithio'n andwyol.

**2.2 Hyfforddiant i Reolwyr:** Yn ogystal â materion capasiti a staffio, 'roedd gosod sylfeini cadarn yn cynnwys darparu cyfleon hyfforddi a datblygu ar gyfer uwch reolwyr. Darparwyd sesiynau grŵp i Uwch Reolwyr a'r Tîm Sicrhau Ansawdd gan Dîm Cymorth Annibynnol, a chofrestrodd dau o'r Uwch Reolwyr ar Raglen Rheolwyr Canol SSIA a gyflwynir gan IPS a Phrifysgol Brookes Rhydychen. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ddylanwad ac effaith bersonol, gwaith tîm, perfformiad a rheoli ansawdd, arweinyddiaeth, strategaeth a newid.

**2.3 Hyfforddiant i Staff:** Wrth gwrs, ni anwybyddwyd anghenion hyfforddi a datblygu'r gweithlu ehangach. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi trwy'r gwasanaeth i ddatblygu gwybodaeth am gyfreithiau perthnasol, deddfwriaeth, gweithdrefnau a chyfraith achosion ac i dangos sut i wneud defnydd ymarferol ohonynt. Canolbwyntiwyd ar: deall pa orchmynion sydd ar gael ar gyfer diogelu plant a sut i'w defnyddio, sut i gyrraedd y terfyn amser o 26 wythnos, gwella'r broses gwneud penderfyniadau, gwella sgiliau o ran cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig, cynlluniau gofal ac ysgrifennu adroddiadau, ynghyd â gwella sgiliau llys. O ganlyniad i'r hyfforddiant hwn cafwyd canmoliaeth gan y Farnwriaeth ac o ffynonellau cyfreithiol eraill ar fwy nag un achlysur am ansawdd tystiolaeth a chynlluniau gwaith cymdeithasol. Mae lefelau hyder wedi codi ac mae'r ymarfer wedi ei safoni. Yn ogystal â hyn, mae wyth o unigolion o fewn y gwasanaeth wedi derbyn hyfforddiant i fod yn aseswyr PAMS a fydd yn arwain at lai o ddefnydd o Weithwyr Cymdeithasol Annibynnol i gynnal asesiadau o'r fath.

Cyflwynwyd trefniadau Cyfweld Ysgogiadol a thechnegau sy'n gyson ag arferion y Gwasanaeth Cymorth Dwys i Deuluoedd ac mae sesiynau pellach wedi eu cynllunio. Trefnwyd cwrs cyfathrebu cydweithredol dau ddiwrnod ar gyfer holl staff y gwasanaeth ym mis Mawrth a fydd yn caniatáu i'r gwasanaeth alinio â'r Ddeddf.

**2.4 Adolygiad o Brosesau ac Ymarfer:** Er mwyn deall yn well y meysydd i'w gwella a'u datblygu, cynhaliodd y gwasanaeth ystod o adolygiadau. Y cyntaf oedd adolygiad o brosesau ac ansawdd ymarfer mewn perthynas ag asesu plant sydd heb eu geni. Arweiniodd hyn at gyflwyno dwy sesiwn hanner diwrnod o hyfforddiant gan Bruce Thornton (Cyd-awdur y Model Risg) ar gyfer 15 o'n Gweithwyr Cymdeithasol ar wella sgiliau a dealltwriaeth, defnyddio teclynnau risg i lywio dadansoddiadau ac adnabod yn gynharach yr achosion hynny lle mae angen gorchmynion i ddiogelu plant.

Mae adolygiad o gytundebau ysgrifenedig ac ymweliadau lles wedi dangos nad yw cynnal ymweliadau lles mwyach yn arferiad yn y gwasanaeth a bod hynny'n arwain at welliannau o ran rheoli risg a gweithredu'r trefniadau "llythyr cyn achos". Arweiniodd hynny at  adolygiad o'r achosion a oedd eisoes wedi cyrraedd y cam "llythyr cyn achos"  i sicrhau bod dealltwriaeth o'r broses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a'r trothwyon, ynghyd ag adolygiad o gofnodion Cyfarfodydd Porthgadw Cyfreithiol yn 15/16. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae Ymgynghorydd Annibynnol wedi dod i'r casgliad bod penderfyniadau yn awr yn gliriach a bod yr holl achosion yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd  i'r Cyfarfod Porthgadw Cyfreithiol a'u hadolygu ganddo.

Mae adolygiad o rôl y Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol - Sefydlogrwydd (gan gynnwys Sicrhau Ansawdd y cynlluniau gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal) wedi arwain at wella pherfformiad yn erbyn DPA lleol – cyfarfodydd cynllunio Sefydlogrwydd. Bydd y swydd hon yn rhan o'r strwythur 'Arweinydd Ymarfer' arfaethedig newydd yn 2017/18 ac o ganlyniad bydd yn destun adolygiad pellach yn y cyfnod hwn.

Roedd angen adolygu Cylch Gorchwyl y Panel Adnoddau i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar gefnogi gwydnwch ac annibyniaeth unigolion a theuluoedd. Er nad oedd angen gwneud llawer o newidiadau i'r Cylch Gorchwyl yn y cyfnod hwn bydd y strwythur gwasanaeth newydd arfaethedig yn 2017/18 yn arwain yn naturiol at adolygiad pellach o'r Panel a sut mae'n cefnogi'r strwythur newydd.

**2.5 Gwell Polisïau a Gweithdrefnau:** Yn dilyn cyfnod o hyfforddiant ac adolygu, nododd y gwasanaeth feysydd allweddol lle mae angen datblygu polisïau a gweithdrefnau newydd a/neu well ar gyfer eu gweithredu. Lansiodd y gwasanaeth y 'Polisïau a'r Gweithdrefnau Gwasanaethau Plant ' diwygiedig mewn Cynhadledd Staff, ac mae'r ddogfen hon ar gael i'r holl staff drwy'r gyriant a rennir.

Yn ogystal â'r rhain, gwnaed gwaith penodol i greu canllawiau ymarfer  mewn perthynas â Chronolegau. Datblygwyd y rhain ac fe'u cyflwynwyd i staff yn ystod Cynhadledd Staff, mewn ymgais i wella arferion asesu'. O ganlyniad i hyn, mae gan bob achos gronoleg erbyn hyn (sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd). Cyflwynir cronolegau i Gynadleddau Achos ac Adolygiadau Statudol ac mae'r Cydlynydd Amddiffyn Plant a'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn adrodd ar y rhain yn chwarterol i'r Panel Sicrwydd Ansawdd. Mae cynllun Archwilio Ffeiliau Achos ar gyfer y 12 mis nesaf (2017/18) yn cael ei ddatblygu a bydd Cronolegau'n nodwedd allweddol o'r archwiliad hwn.

Mae'r ddogfen drefniadol ddiwygiedig ar gyfer yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, ochr yn ochr â'r protocol A76 (a elwid gynt yn A20) sy'n ei chefnogi, wedi cael ei chwblhau a'i lansio mewn Cynhadledd Staff ac mae'n rhoddi i staff y canllawiau diweddaraf i gefnogi eu harferion. Atgyfnerthwyd pwysigrwydd gweithredu'r ddogfen hon yn ystod cyfarfod Gwasanaeth. O'n cyswllt gyda chydweithwyr sy'n ymwneud ag achosion teulu, rydym yn dod i'n casgliad bod ein hymarfer yn cael ei gefnogi a'i fod wedi gwella. Fel ffordd o fonitro'r baich achosion, mae'r gwasanaeth wedi creu 'Traciwr Llys' i gynorthwyo llif gwaith a chynllunio, gan osgoi oedi a chyflwyno gwaith yn hwyr ac i gefnogi gwaith rheoli perfformiad. Yn ogystal, rydym wedi cynyddu'r defnydd a wneir o 'Gynadleddau Grwpiau Teulu'

gan ddwyn ynghyd y rhwydwaith teulu ehangach i ddod o hyd i gyfleoedd i blant dderbyn gofal gan berthynas neu ffrind, sy'n arwain at well canlyniadau i blant ac sy'n golygu eu bod yn gallu aros o fewn eu hardaloedd a'u rhwydweithiau lleol. Mae pob achos ACG/ Llys wedi bod yn destun Cynhadledd Grŵp Teulu gan arwain at gynnydd y nifer y plant sy'n derbyn gofal o fewn eu teuluoedd biolegol.

**2.6 Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant:** Mae cyflwyno'r Ddeddf newydd wedi golygu y bu angen gwneud newidiadau mawr i'r ffordd yr ydym yn asesu plant. Er bod y gwasanaeth wedi datblygu ei fersiwn ei hun o'r Ffurflen Asesu newydd a chynlluniau gofal cysylltiedig yn Haf 2016 , mae Penaethiaid Rhanbarthol y Gwasanaethau Plant wedi sefydlu Grŵp Rhanbarthol gyda chymorth ymgynghorol i greu templed a dull gweithredu rhanbarthol. Am y rheswm hwn dewisodd y gwasanaeth beidio â lansio'r ei waith gan ddilyn gweddill y rhanbarth a manteisio ar ganllawiau a thempledi rhanbarthol. Efallai, yn wyneb yr arolygiad, y dylai'r gwasanaeth fod wedi lansio'r ffurflen yn annibynnol ar y grŵp rhanbarthol, ond drwy aros yn rhan o'r grŵp rhanbarthol rydym wedi osgoi drysu staff trwy lansio'r ffurflen ac wedyn ail-lansio ffurflenni mwy newydd wedyn. Rydym hefyd wedi elwa o gael cymorth ymgynghorol, canllawiau ymarfer a hyfforddiant ar gyfer pob aelod o staff a gwblheir ar 7 Ebrill 2017.

Mae'r Ddeddf hefyd wedi cyflwyno cynlluniau newydd fel 'Pan wyf yn Barod', ar gyfer sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc a mwy o sefydlogrwydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wrth iddynt ddod yn oedolion. 'Roedd y gwasanaeth yn ganolbwynt i'r gwaith rhanbarthol ar y cynllun hwn ac fe fabwysiadodd y cynllun yn gynnar. Mae'r polisi a'r gweithdrefnau wedi eu sefydlu ac mae'r cynllun yn weithredol gyda'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan yr Awdurdod Lleol.

Ynys Môn oedd un o'r awdurdodau cyntaf yng Ngogledd Cymru i ddatblygu Achos Busnes ar gyfer Hyb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth trwy ddwyn ynghyd drws ffrynt y Gwasanaeth Dyletswydd, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'r Tîm o Amgylch y Teulu. Mae llawer o awdurdodau cyfagos wedi gofyn am gael gweld ein Cynllun Busnes i ddatblygu eu dull gweithredu. Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith ar ddiwedd mis Mai 2016, mae'r Grŵp Prosiect, gyda chynrychiolaeth o'r Trydydd Sector a gwasanaethau partner megis Iechyd, CAMHS a Thai, wedi symud ymlaen gyda chyflwyno'r Achos Busnes, gan gynnwys creu a chymeradwyo'r holl bolisïau, protocolau, trothwyon a'u templedi cysylltiedig, ynghyd â gofynion TGCh y gwasanaeth, datblygu a darparu cynllun hyfforddi, datblygu a chyflwyno cynllun marchnata a chyfathrebu, elfennau ymarferol megis rhifau ffôn, presenoldeb cyfryngau cymdeithasol, cyfeiriadau gwe, cyfeiriadau e-bost a brandio. Symudodd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i'r adran ym mis Ionawr fel rhan o newid sylweddol tuag at fabwysiadu'r model newydd, a fydd yn weithredol o 3 Ebrill 2017.

**2.7 Datblygiadau Gwasanaeth:**
Mae'r gwasanaeth wedi mynd ati i gynyddu nifer y lleoliadau addas sydd ar gael drwy ofalwyr maeth mewnol. Cafwyd 40 o ymholiadau am y cynllun yn chwarter 3 o gymharu ag 8 yn chwarter tri yn y flwyddyn flaenorol.

Aelwydydd Maethu

| Nifer y gofalwyr maeth cymeradwy / cofrestredig | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| Sawl aelwyd maethu oedd gan eich gwasanaeth? (heb gynnwys aelwydydd teulu a ffrindiau ac egwyliau byr | 23 | 26 | 27 |
| Sawl aelwyd teulu a ffrindiau oedd gennych? | 9<br>Gan gynnwys 1<br>Rh 38 | 17<br>Gan gynnwys 17<br>Rh 38 | 16<br>Gan gynnwys 2<br>Rh 26 |
| Sawl aelwyd maethu oedd gennych ar gyfer egwyliau byr yn unig? | 1 | 0 | 0 |
| Cyfanswm gofalwyr maeth cymeradwy / cofrestredig | 33 | 43 | 43 |

Hefyd, nododd y gwasanaeth bod angen gwasanaeth dwys i'r teuluoedd hynny a chanddynt blant ar 'drothwy gofal'. Ar ôl i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo Achos Busnes yn hwyr ym mis Gorffennaf 2016, mae Gwasanaeth newydd o'r enw 'Tîm Teuluoedd Gwydn' yn cael ei sefydlu. Ei nod yw sicrhau nad yw anghenion yn cynyddu, hyrwyddo annibyniaeth, darparu gwasanaethau sydd wedi'u teilwra i gwrdd ag anghenion y teulu a lleihau'r angen am wasanaethau costus pan fydd problemau teuluol yn gwaethygu. Bydd sefydlu'r gwasanaeth hwn yn parhau fel rhan o Gynllun Gwella Gwasanaeth 2017/18.

**2.8 Prosiectau Corfforaethol:**

Rheolwyd y prosiect Gweithio'n Gallach ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant gan aelod o'r tîm Gwasanaethau Plant. Nod y prosiect yw darparu'r offer a'r teclynnau sydd raid wrthynt fel y gall gweithwyr cymorth / gweithwyr cymdeithasol dreulio mwy o amser yn gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd mewn modd hyblyg, gan weithio o ble mae angen iddynt fod. Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu wedi symud o Parc Mownt i ymuno â'r Gwasanaeth ym mis Mehefin 2016, ac mae'r Gwasanaethau Arbenigol Plant wedi symud o Neuadd y Sir i brif swyddfeydd y Cyngor ym mis Tachwedd 2016. Dechreuodd y drefn Gweithio'n Gallach, gan gynnwys 'rhannu desgiau', ym mis Tachwedd 2016 yn y Gwasanaeth Oedolion ac ym mis Chwefror 2017 ar gyfer y Gwasanaethau Plant.

**2.9 Cipolwg ar y camau a gwblhawyd o fewn Cynllun Gwella Gwasanaeth 2016/17:**

| Rhif | GWEITHREDU | Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF |
|---|---|---|
| **1.4** | Cynyddu capasiti gwaith cymdeithasol gyda golwg ar leihau beichiau achos<br><br>3 x Gweithiwr Cymdeithasol | Cytunwyd buddsoddiad ar gyfer cyllideb 2016/17.<br><br>Staff parhaol wedi cael eu recriwtio. |

| | | |
|---|---|---|
| **1.6** | Cynnal Capasiti Rheoli Presennol – gostyngiad o £25k yn yr arbediad a gynhigiwyd ar gyfer 2016/17 | Cytunwyd ar gyllideb 2016/17 |
| **1.7** | Tîm Cymorth Gwella yn mentora Rheolwyr Gwasanaeth i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau ac i weithio'n effeithiol fel tîm a / neu fynychu Cwrs Rheoli Strategol SSIA. | Sesiynau grŵp gan y TCG.<br><br>Dechreuodd sesiynau unigol ar 28 Mehefin 2016<br><br>Dau uwch reolwyr wedi cofrestru ar Raglen Rheolwyr Canol SSIA |
| **2.1** | Adolygu'r broses ac ansawdd yr ymarfer mewn perthynas ag asesiadau ynghylch plant sydd heb eu geni. | Dwy sesiwn hyfforddi ½ diwrnod gyda Bruce Thornton, a fynychwyd gan 15 o weithwyr cymdeithasol. |
| **2.2** | Datblygu a Gweithredu Canllawiau Ymarfer mewn perthynas â Chronolegau | Wedi eu cwblhau a'u cyflwyno yn y gynhadledd staff |
| | Rhaid i bob achos gynnwys cronoleg o ddigwyddiadau arwyddocaol. | Cronolegau wedi cael eu cwblhau ym mhob achos. |
| | Rhaid cyflwyno cronoleg i Gynadleddau Achos ac Adolygiadau Statudol. Cydlynydd Amddiffyn Plant (CAP) a Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA) i adrodd yn chwarterol i'r Panel Sicrwydd Ansawdd | Mae cyflwyno Cronolegau ac ansawdd yr ymarferion yn cael sylw drwy gyfrwng cynadleddau achos ac adolygiadau statudol. Adroddir yn ffurfiol ar ansawdd ymarfer drwy'r adroddiadau chwarterol i'r Panel Sicrwydd Ansawdd bob chwarter. |
| **2.3** | Nodi unigolion i gael eu hyfforddi fel aseswyr PAMS | 8 unigolyn o fewn y gwasanaeth wedi cael hyfforddiant PAMS |
| **2.4** | Datblygu model gwasanaeth ar gyfer Asesu gallu rhianta mewn achosion nad ydynt yn rhai PAMS. | Rhan o'r gwaith rhanbarthol ar gwblhau templed asesu gofal a chymorth sy'n cynnwys y fframwaith ar gyfer asesu. Caiff ei lansio drwy sesiwn hyfforddi yn gynnar ym mis Ebrill 2017. |
| **2.5** | Gweithredu dogfen drefniadol ddiwygiedig ar gyfer Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus | Wedi ei wneud, byddwn yn parhau i gryfhau'r defnydd o ACG. |
| **2.6** | Gweithredu'r protocol A20 / A76 | Wedi'i lansio mewn cynhadledd staff. |
| **2.8** | Cwblhau'r Traciwr Llys i gynorthwyo llif gwaith a chynllunio; er mwyn osgoi oedi ac osgoi cyflwyno gwaith yn hwyr, ac i gefnogi rheoli perfformiad. | Mae'r traciwr llys yn ddogfen weithredol a byw ac mae'n werthfawr ar gyfer adolygu a thracio cynnydd. |

| | | |
|---|---|---|
| **2.9** | Datblygu gwybodaeth am gyfraith, deddfwriaeth, gweithdrefnau a chyfraith achosion perthnasol a dysgu sut i'w defnyddio drwy ddarparu setiau dysgu dan arweiniad bargyfreithiwr uchel ei barch. | Adolygiad Cyfiawnder Teuluol ac Achosion Llys Cyfraith ACG ar gyfer holl staff y gwasanaeth. |
| **2.11** | Pan :<br>• fydd y gweithiwr cymdeithasol a'r rheolwr yn bwriadu gweithredu'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus neu<br>• fydd plentyn yn cael ei ailgofrestru<br>• fydd plentyn yn cael ei ddychwelyd<br>byddwn yn cynnal cymhorthfa gyfreithiol i gynorthwyo i fonitro cynlluniau gofal ac i roi cyfle i'r gwasanaeth cyfreithiol fonitro cynnydd a chadw at amserlen y llys: a deall y rhesymau pam mae'n ymddangos bod y peryglon i'r plentyn wedi ailgodi. | Mae dyddiadau adolygu ar gyfer pob achos ACG.<br>Cynhelir Cyfarfodydd Porthgadw Cyfreithiol (PC) bob wythnos. Mae achosion cyfreithiol yn cael eu tracio'n fisol. Cynhelir adolygiadau PC ar gyfer achosion sy'n destun achos ACG. Mae cyfarfodydd cynlluniau gofal terfynol bellach yn rhan annatod o'r arferion gwaith. |
| **2.13** | Adolygu'r defnydd o gytundebau ysgrifenedig ac ymweliadau lles | Cynhaliwyd adolygiad o ymweliadau lles a gwelwyd nad oes llawer o ymweliadau lles yn digwydd bellach.<br>Cytunwyd pan fydd yr achos olaf wedi dod i ben na fydd dim mwy o ymweliadau lles yn y dyfodol. Dyma'r safbwynt sydd orau gan y gwasanaeth. |
| **3.2** | Adolygu'r holl achosion yn y cam "Llythyr cyn Achos" - er mwyn sicrhau dealltwriaeth o ACG a'r trothwyon | Adolygir pob achos yn y Cyfarfodydd PC. Bydd achosion sydd ar ôl ac sydd angen sylw yn cael eu galw'n ôl i'r Cyfarfod PC. |
| **3.4** | Adolygu cofnodion Cyfarfodydd Porthgadw Cyfreithiol ar gyfer 15/16 | Ymgynghorydd Annibynnol wedi dod i'r casgliad bod y broses gwneud penderfyniadau'n gliriach yn awr a bod achosion yn cael eu cyflwyno i'r Cyfarfod PC. |
| **3.8** | Gweithredu Gweithdrefnau'r Gwasanaethau Plant | Wedi eu cyflwyno mewn cynhadledd staff ac mae'r holl staff yn ymwybodol o ble i gael hyd iddynt ar y gyriant a rennir. |
| **3.12** | Adolygu rôl y Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol (Sefydlogrwydd) | Cynhaliwyd adolygiad a arweiniodd at wella ansawdd a pherfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformio Allweddol ac adrodd yn rheolaidd. |

| | | |
|---|---|---|
| **4.1** | Sefydlu model newydd o ymyrraeth gwaith cymdeithasol yn unol â'r Ddeddf newydd | Darparwyd hyfforddiant ar Gyfweld Ysgogiadol ac ymagweddau Teuluoedd Gwydn. Rhoddir hyfforddiant i'r holl staff ar gyfathrebu cydweithredol ym mis Mawrth. |
| **4.3** | Adolygu Cylch Gorchwyl y Panel Adnoddau er mwyn sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar helpu unigolion a theuluoedd i fod yn wydn. | Adolygwyd y CG. Nid oedd angen gwneud llawer o newidiadau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn dilyn ailstrwythuro'r gwasanaeth bydd angen adolygu'r CG yn fanwl iawn er mwyn cefnogi'r strwythur newydd. |
| **4.5** | Gweithredu model Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) ar gyfer Ynys Môn | Mynd yn fyw ar 03/04/17 |
| **4.4** | Gwneud mwy o ddefnydd o'r Cydlynydd Cynadleddau Grŵp Teulu i ddwyn y rhwydwaith teulu ehangach ynghyd er mwyn dod o hyd i gyfleoedd i blant gael gofal gan berthynas neu ffrind. | Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn ymwybodol bod angen CGT ar gyfer pob achos ACG / Llys ac maent yn dilyn y drefn honno.<br>Mae cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal o fewn eu teuluoedd biolegol. |
| **5.1** | Mwy o leoliadau addas ar gael drwy ofalwyr maeth mewnol. | Adroddiad Ch3 16/17<br>40 o ymholiadau o gymharu ag 8 am yr un cyfnod y llynedd. Cynnydd o 10 yn y ddarpariaeth fewnol gan 10 (cynnydd o 30% o gymharu â 2015) |
| **6.1** | Gweithredu'r Gwasanaeth 'Pan wyf yn Barod' | Cytunwyd buddsoddiad ar gyfer 2016/17 ac i'r dyfodol<br><br>Mae Polisi a Gweithdrefn wedi eu sefydlu ac mae'r cynllun ar waith. |
| **6.3** | Achos Busnes ar gyfer Gwasanaeth Cymorth Dwys i Deuluoedd | Cymeradwyo cais ariannol yn y Pwyllgor Gwaith ar 25 Gorffennaf 2016.<br>Ymgynghorwyd â staff yn ystod cynhadledd staff.<br>Mae'r elfen Achos Busnes wedi ei chwblhau.<br>Mae gweithredu'r gwasanaeth newydd yn rhan o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ar gyfer 2017/18 |
| **7.1** | Gweithio'n Gallach - gan ddarparu'r offer a'r teclynnau i gefnogi gweithwyr. | Ymunodd y Tîm o Amgylch y Teulu â'r Gwasanaethau Plant ym mis Mehefin.<br>Symudodd y Gwasanaeth Arbenigol Plant i mewn i'r pencadlys a dechreuodd y drefn Gweithio'n Gallach yn y Gwasanaethau Oedolion ym mis Tachwedd.<br>Symudodd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i ymuno â'r Gwasanaethau Plant ym mis Ionawr a dechreuodd y drefn |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gweithio'n Gallach yn y Gwasanaethau Plant ym mis Chwefror. |
| **7. 2** | Lansio Templedi ar y Ddeddf newydd.<br><br>Prosesau Asesu a Systemau Ategol Integredig / Cymesur. | Symud graddol tuag at gael un fframwaith asesu cymesur, gan gael gwared ar ddyblygu a'r posibilrwydd y gallai nifer o weithwyr cymdeithasol fod yn ymgymryd â phob cam<br><br>Sefydlwyd cynllun clir sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gyda'r teulu. |

**2.10 Rheidrwydd Strategol 1: Adfer, Symud Ymlaen a Gwella Gwasanaethau Gwaith Maes** (Dyfyniad Gynllun Gwella Gwasanaeth 2016/17 - Adran 3.0)

| Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer y gwasanaeth? |
|---|
| Hanfodion y cam hwn yw datblygu sgiliau a gwybodaeth ein staff, recriwtio a chadw gweithlu gyda sgiliau, profiad a gwybodaeth ddigonol a sicrhau swyddogaeth sicrwydd ansawdd systemig, gan arwain at welliant parhaus ac ymarfer diogel.<br><br>Bydd hyn yn golygu y bydd angen buddsoddi'n sylweddol i ddatblygu'r gweithlu ac ymarfer, gan helpu staff i newid a rhoi cyfleon hyfforddiant a mentora iddynt er mwyn gwreiddio ffordd wahanol o weithio mentora.<br><br>Cynyddu capasiti Gwaith Cymdeithasol, er mwyn ymateb i'r galw cynyddol a sicrhau bod modd rheoli beichiau gwaith unigol, gan alluogi gweithwyr i dreulio mwy o amser o ansawdd gyda theuluoedd. Byddwn yn adolygu arferion a phenderfyniadau ar achosion yn drylwyr, ac yn gyrru gwelliannau yn y ffordd y mae'r uned sicrhau ansawdd yn gweithredu. |
| Gwreiddio'r drefn o ddefnyddio Fframwaith Risg Gwynedd / Bruce Thornton ar draws Gwasanaethau Plant, er mwyn creu cyd-ddealltwriaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol o beth sy'n cyfateb i berygl o niwed sylweddol i blant a phobl ifanc, ac o dan ba amgylchiadau y gellid bod angen ymyrraeth gofal cymdeithasol neu gynllun amddiffyn plant .<br><br>Byddwn yn canolbwyntio'n gryf ar wella ymarfer a'r broses gwneud penderfyniadau o fewn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus gan gynnwys recriwtio Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol - Rheoli Gwaith Llys: ac o ran cynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Bydd hyn yn cynnwys adolygu rôl y Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol - Sefydlogrwydd i gynnwys materion Sicrwydd Ansawdd ac archwilio cynlluniau gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal<br><br>Byddwn yn cefnogi ein rheolwyr llinell flaen fel bod penderfyniadau ymarfer yn ddiogel a bod tystiolaeth ar eu cyfer. |
| Byddwn yn gosod gofynion ymarfer clir ar gyfer staff drwy Weithdrefnau Gwasanaethau Plant. Bydd staff yn cael cymorth i'w gweithredu a chânt eu dal yn atebol oni fyddant yn glynu wrth y gofynion sylfaenol hyn. |

| |
|---|
| Rydym yn cydnabod bod gennym Fframwaith Sicrhau Ansawdd cynhwysfawr ac 'rydym angen i'r Uned Sicrhau Ansawdd ddatblygu ei gallu i goladu a dadansoddi'r wybodaeth o wahanol elfennau'r fframwaith i lywio gwelliannau yn y gwasanaeth fel system gyfan. |

**3.0** Yn erbyn cefndir heriol yn 2016/17, roedd y cynllun gwella gwasanaeth yn un uchelgeisiol ac mae'n ddigon naturiol y bydd rhai elfennau o'r cynllun yn trosglwyddo i'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ar gyfer 2017/18 gan ein bod yn awr yn dechrau ar gyflwyno ail gam y cynllun - **Ailosod y Weledigaeth - Trawsffurfio a Newid.** Yn ogystal â'r rhain, bydd angen rhoi sylw i'r argymhellion a wnaed gan AGGCC yn dilyn yr arolygiad ym mis Tachwedd. Nodir yr elfennau sy'n trosglwyddo o 2016/17 isod. Argymhellir bod aelodau o'r Panel Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn adolygu'r rhain ochr yn ochr ag argymhellion AGGCC a bodloni eu hunain bod y Gwasanaeth yn gallu cyflawni'r amcanion gwella a bod ganddo'r adnoddau i wneud hynny.

| | CAMAU I'W CYMRYD | YR ADNODDAU / CYMORTH SYDD ANGEN A DIWEDDARIAD |
|---|---|---|
| **1.1** | Datblygu'r **Strategaeth Gweithlu**<br><br>I gynnwys:<br><br>• Arfer da recriwtio<br>• Cadw a chefnogi<br>• Trefniadau cynefino clir<br>• Cyfeillio<br>• Hyfforddi a mentora<br>• Cysgodi<br>• Cyfleoedd hyfforddi a datblygu gwell ar ôl cymhwyso<br><br>Cyswllt ag Argymhelliad 5 AGGCC: Dylid datblygu strategaeth gweithlu cadarn ar fyrder i gynnwys amcanion tymor byr, canolig a hir ar gyfer recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol. | Ystyrir bod hyn yn bwysig iawn i'r gwasanaeth a gellir gweld y strategaeth yng Nghynllun Gwella Gwasanaeth (CGG) 17/18 dan bwynt 1.1 gyda dyddiad cwblhau o 30 Ebrill 2017. |
| **1.2** | Penodi a chadw staff Asiantaeth tan 31 Mawrth 2016 i sicrhau gweithlu o faint a phrofiad digonol<br><br>Bydd hyn yn cael ei ymestyn i mewn i 17/18 i liniaru yn erbyn methiant i benodi i swyddi gwag ac i gynyddu nifer y gweithwyr maes fel y bwriedir | Mae tîm rheoli'r gwasanaeth yn gweithio ar sicrhau strategaeth ymadael ar gyfer staff asiantaeth pan fo swyddi wedi cael eu llenwi gan weithwyr parhaol; gellir ei gweld ym mhwynt gweithredu 1.2 yn y CGG newydd |

| | | |
|---|---|---|
| **1.3** | Cymorth Busnes - hysbysebu dwy swydd weinyddol ar gytundebau parhaol | Cwblhawyd adolygiad gweinyddol a'r Rheolwr Cefnogi Busnes fydd yn gyfrifol am dîm gweinyddol y Gwasanaethau Plant yn awr.<br>Recriwtiwyd i swyddi. Angen capasiti ychwanegol sy'n cyfateb i 1 swydd amser llawn. Gobeithir recriwtio o fewn y 3 mis nesaf<br>Adran 1.2 y CGG newydd. |
| **1.5** | Dadansoddi'r Llwyth Achosion er mwyn asesu capasiti a rheoli galw ac i gynorthwyo'r broses gwneud penderfyniadau. | Cyswllt gydag Adran 3.2 yn y CGG newydd ac argymhelliad 14 yn adroddiad AGGCC. |
| **1.8** | Darparu cyfleoedd datblygu i Reolwyr Tîm ac Uwch Ymarferwyr drwy raglen arweinyddiaeth a datblygu fewnol i gynorthwyo'r gweithlu i gyflawni eu dyletswyddau. Meysydd ffocws: -<br>2. Gwneud gwell penderfyniadau rheoli achos (rheolwyr yn goruchwylio penderfyniadau a wneir)<br>3. Gwella a rheoli ymarfer a pherfformiad (gan gynnwys darparu her adeiladol a chyfeiriad i staff)<br>4. Goruchwyliaeth reolaidd ac o ansawdd<br><br>Cyswllt ag Argymhelliad 6 AGGCC: Dylid adolygu trefniadau ar gyfer rheolwyr tîm ac uwch ymarferwyr er mwyn sicrhau bod capasiti i reolwyr fedru goruchwylio penderfyniadau mewn ffordd effeithiol a chyson a rhoi cyfeiriad a her i staff. Dylid sefydlu rhaglen arweinyddiaeth a datblygu i adeiladu gwydnwch. | Darperir hyfforddiant gan Ymgynghorydd Annibynnol.<br><br>Datblygu Setiau Dysgu Gweithredol fel ffordd o gefnogi Rheolwyr – cyswllt gyda 1.4 yn CGG 17/18 |
| **2.7** | Penodi Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol ar gyfer Rheoli Gwaith Llys a fydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau ansawdd, mentora a thracio achosion. | Cytunwyd buddsoddiad yng nghyllideb 2016/17<br><br>Ni lwyddodd yr hysbyseb gyntaf ym mis Awst i ddenu ymgeisydd â'r sgiliau angenrheidiol. Ailhysbysebwyd y swydd ar ddechrau mis Medi a chafwyd pedwar cais. Trefnwyd y dyddiadau cyfweld. O ganlyniad i'r ailstrwythuro a'r gostyngiad mewn gwaith ACG, rhaid i'r gwasanaeth ystyried a oes angen y swydd hon wrth symud ymlaen.<br>Cyswllt i'r adolygiad o'r strwythur yn y CGG ar gyfer 17/18 |

| | | |
|---|---|---|
| **2.10** | Canolbwyntio ar gyflawni'n ddiogel. Adroddir i gynadleddau achos a bydd cofnodion y gynhadledd yn<br><br>• Nodi'r holl risgiau mewn achos ar wahân, gan asesu effaith y risgiau hynny ar y plant<br>• Blaenoriaethu cynlluniau er mwyn gwella'r sefyllfa a gostwng y risgiau mwyaf.<br><br>Bydd y Cadeirydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau diogelwch, fel y gall y grŵp craidd droi'r rhain yn gynllun amddiffyn cydlynol. | Ni fydd yr eitem hon yn trosglwyddo i Gynllun 17/18 SIP oherwydd blaenoriaethu. |
| **2.12** | Mae nifer o feysydd perfformiad sy'n perfformio islaw lefelau goddefgarwch a thargedau allanol:<br><br>➢ Asesiad cychwynnol / craidd<br>➢ Adolygiadau PDG<br>➢ Ymweliadau PDG<br>➢ Cofrestr Amddiffyn Plant<br>➢ Ymweliadau 10 diwrnod<br>➢ Grwpiau craidd<br>➢ Cynlluniau llwybr<br><br>Sicrheir y bydd y rhain o fewn y targed. | Trefnwyd cyfarfod â staff gweinyddol i drafod cefnogaeth i dimau fel bod modd cwblhau gwaith cofnodi mewn modd amserol.<br><br>Oherwydd nad yw wedi gwella, bydd yn trosglwyddo i 3.3 - Datblygu Fframwaith Perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant. |
| **3.1** | Adolygu'r holl achosion A76 gydag elfen annibynnol i'r adolygiad hwnnw | Capasiti Cyfreithiol Allanol<br>Cwblhawyd o fewn y CGG newydd fel rhan o'r Cynllun Archwilio Sicrhau Ansawdd o dan 3.2 |
| **3.3** | Adolygu'r holl achosion lle mae enw'r plentyn wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant am o leiaf 12 mis | Cwblhawyd yn y CGG newydd fel rhan o'r Cynllun Archwilio Sicrhau Ansawdd o dan 3.2 |
| **3.5** | Adolygu'r cynnydd yn nifer y plant ar y Gofrestr | Cwblhawyd o fewn y CGG newydd fel rhan o 3.1 Sicrhau Ansawdd |
| **3.6** | Adolygiad o gynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal | Cwblhawyd o fewn y CGG newydd fel rhan o 3.1, Sicrhau Ansawdd |
| **3.7** | Adolygu'r holl blant yn system PDG, gan sicrhau bod yr holl gynlluniau yn sicrhau sefydlogrwydd (Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol a Swyddog Adolygu Annibynnol i ymgymryd â'r gwaith hwn) | Cwblhawyd o fewn y CGG newydd fel rhan o 3.1, Sicrhau Ansawdd |
| **3.9** | Cynyddu'r capasiti ar gyfer Cadeirio Cynadleddau Achos ac Adolygiadau Statudol | Penodwyd Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol amser llawn ar ddechrau mis Medi a dechreuodd yn y swydd ym mis Hydref. Fodd bynnag, gadawodd yr unigolyn |

| | | |
|---|---|---|
| | | o fewn y mis ac ail-hysbysebwyd y swydd ers hynny. Am y rheswm hwn, bydd hyn yn cario drosodd i bwynt. 1.2 - 'Datrys Materion Staffio' o fewn y CGG newydd |
| **3.10** | Y Tîm Cymorth Gwella i fentora'r Tîm QAF i i ail-ganolbwyntio eu gweithgarwch er mwyn blaenoriaethu'r camau gweithredu sydd raid wrthynt i wella'r gwasanaethau ac i fonitro gweithrediad yn drylwyr. | Darparwyd sesiynau mentora unigol ac mewn grŵp. Cyflwynwyd adroddiad ar Ddatblygu'r Swyddogaeth Sicrhau Ansawdd yn y Gwasanaethau Plant i'r Tîm Rheoli ym mis Medi ac i Gynhadledd Staff y Gwasanaethau plant.<br><br>Mae angen i Dîm Rheoli'r Gwasanaeth gael trafodaeth ar : deall, datblygu, mentora, gwreiddio a monitro'r swyddogaeth Sicrwydd Ansawdd o fewn yr hyb er mwyn symud ymlaen gyda'r cam gweithredu hwn. Caiff ei gynnwys yn y CGG newydd, sef rhan 3.2 ar Sicrhau Ansawdd |
| **3.11** | SAA a CAP i adrodd yn chwarterol ar eu hasesiad o'r perfformiad gweithredol wrth i achosion ddod i gynadleddau ac adolygiadau.<br><br>Yn ogystal, dylid disgwyl iddynt amlygu, ar sail thematig, faterion sy'n ymwneud ag ansawdd fel gall Rheolwyr roi sylw iddynt wedyn | Trafodwyd gyda'r SAA a'r CAP. Y ddau yn ymwybodol o'r penawdau y mae angen adrodd danynt.<br><br>Gwneir hyn drwy fonitro rheolaidd chwarterol a thrwy gyflwyno adroddiadau i grwpiau priodol, a bydd yn parhau fel rhan o'r CGG newydd fel rhan o 3.2, sef Sicrhau Ansawdd |
| **4.2** | Adolygu'r **strwythur gwasanaeth** | Cymeradwyodd yr UDA drosglwyddo'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, y Tîm o Amgylch y Teulu a chomisiynu Plant yn Gyntaf i'r Gwasanaethau Plant.<br><br>Ymgynghorwyd ar y strwythur newydd gyda staff a bydd CGG 2017/18 yn gweld gweithredu'r strwythur gwasanaeth newydd - gweler pwynt 4.1 o fewn CGG newydd. |
| **5.2** | Adolygu effeithiolrwydd y cyfarfod Cynllunio Sefydlogrwydd: gan gynnwys adolygu rôl y Panel Maethu o ran Cynllunio Sefydlogrwydd | Rhan 3.1 CGG 17/18, sef Sicrhau Ansawdd |
| **6.2** | Cyfuno'r Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd | Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith gais Buddsoddi i Arbed am dîm trothwy gofal 'teuluoedd gwydn' fel cynllun peilot am dair blynedd. Rhoddir blaenoriaeth yn awr i sefydlu'r tîm hwn. Gohirir adolygiad o'r elfennau sy'n weddill o'r gwasanaethau cymorth a'r opsiynau ar gyfer cyfuno hyd nes y byddwn yn gwybod yn well beth fydd ar ôl o'r gwasanaeth yn dilyn y sefydlu'r tîm teuluoedd gwydn newydd. Gwneir hyn trwy |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfuniad o'r Tîm Teuluoedd Gwydn (5.1 a 5.2) ac ailstrwythuro (4.2) yn y CGG newydd. |
| **6.4** | Adolygu ac adnewyddu'r gwasanaeth gadael gofal (ôl-ofal), i gefnogi anghenion annibyniaeth plant a phobl ifanc sy'n gadael gofal. | Cymeradwywyd Protocol ar y Cyd rhwng y Gwasanaeth Tai a'r Gwasanaeth Ôl-Ofal.<br>Cymeradwywyd polisi a gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer Ôl-Ofal Gwasanaethau Plant ac fe'u rhoddwyd ar y gyriant a rennir ac fe'u rhannwyd gyda staff.<br>Mae Polisi Ariannol Ôl-ofal ar gyfer y rheini sy'n gadael gofal ar fin cael ei gwblhau.<br>Yn cario drosodd o dan bwynt 5.3 yn y CGG newydd |
| **6.5** | Adolygu ac ailddylunio'r 'Egwyliau Byr' a gynigir trwy'r Gwasanaeth Arbenigol Plant | Cwblhawyd Dogfennau Cychwyn Prosiect Cronfa Gofal Canolraddol sy'n canolbwyntio ar Symud Ymlaen, Egwyliau Byr a gwasanaethau ataliol. Mae'r DCP Egwyliau Byr wedi ei llunio ar y cyd â Chyngor Gwynedd. Y nod yw datblygu'r ystod gyfan o egwyliau byr, yn amrywio o becynnau gwasanaeth cymorth i seibiant byr dros nos. Mae Dogfennau Cychwyn Prosiect eraill yn cael eu datblygu ar y cyd â'r Gwasanaethau Oedolion - Tîm Anabledd Dysgu, Ynys Môn<br><br>Yn cario drosodd o dan bwynt 4.4 yn y CGG newydd - Strategaeth Ataliaeth Gorfforaethol |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **20fed o Fawrth 2017** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2017-2047** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Aled Morris Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Shan Lloyd Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Shan L Williams a Ned Michael**<br>**01248 752203** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo:-

**A1.** Cynllun Busnes 2017-2047 ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), ac yn arbennig gyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2016-2017 fel y nodir yn y Cynllun, i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru;

**A2.** Y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer Tai am 2017-2017 fel y nodir yn Atodiad 3.

**A3.** Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Gwasanaeth, Tai a'r Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau a'r Swyddog Adran 151, i wneud unrhyw newidiadau i'r Cynllun Busnes, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**Rhesymau**

**1.0 Cefndir**

**1.1** Mae'r Adroddiad a'r Cynllun Busnes hwn wedi cael ei baratoi mewn ymgynghoriad gyda Swyddogion o'r Gwasanaeth Cyllid. Cynllun Busnes yw'r prif gyfrwng ar gyfer cynllunio ariannol mewn perthynas â chyflawni a rheoli stoc dai'r Cyngor. Yn arbennig, mae'r Cynllun Busnes yn nodi:-

- sut bydd y Cyngor yn dod â'r cyfan o'i stoc i fyny i Safonau Ansawdd Tai Cymru – mae rhai eiddo'n parhau i gael eu categoreiddio fel 'methiannau derbyniol';
- y modd y mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal safonau SATC a rhagori arynt a
- y buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cynyddu'r stoc dai.

**1.2** Mae'r Cyngor, drwy ei CRT, yn berchen ar, ac yn rheoli 3,784 o eiddo ac ychydig dros 700 o garejys, ar hyd a lled yr Ynys.

**1.3** Mae'r Cynllun Busnes CRT (Atodiad 1) yn cyfrannu at yr holl themâu sylfaenol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'n cyfrannu bennaf at y themâu sy'n ymwneud â Thrawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn, Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi ac Adfywio ein Cymunedau a Dabtlygu'r Economi.

1.4 Mae Aelodau eisoes yn ymwybodol o'r ffaith y bu'r prosiect ar gyfer ymadael o'r system Cymhorthdal CRT yn llwyddiannus a bod yr 11 awdurdod yng Nghymru a oedd yn parhau i fod â stoc, wedi dod yn hunangyllidol ar 2 Ebrill 2015.

1.5 Fel rhan o'r Cytundeb Gwirfoddol a lofnododd yr Awdurdodau Lleol gyda Llywodraeth Cymru, trafodwyd a chytunwyd ar hyblygrwydd i fenthyca hyd at £13.482m fel yr oedd ym mis Mehefin 2015. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer adeiladu o'r newydd a chynnal Safonau Ansawdd Tai Cymru.

Yn sgil diddymu'r Cymhorthdal CRT ym mis Ebrill 2015 bu'n rhaid i'r Cyngor fenthyca mwy i brynu ein hunain allan o system Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r gofynion benthyca CRT fel a ganlyn:

Cyfrif Refeniw Tai – yn benthyca £46.42m ar hyn o bryd – gyda £21.17m ohono yn fenthyciad i dynnu allan o'r system gymhorthdal ar gyfer y CRT. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 14 Mawrth 2016 yn egluro'r ymagwedd a gymerwyd a'r rhesymau pam fod y Swyddog Adran 151 ar y pryd yn argymell dull un cronfa ar gyfer y ddyled CRT a Chronfa'r Cyngor.

1.6 Mae'r CRT yn parhau i gael ei glustnodi'n benodol ar gyfer swyddogaethau Landlord y Cyngor sy'n gysylltiedig â'r stoc dai. Mae hyn yn golygu na chaiff y Cyngor roi cymhorthdal i dai cyngor o'r gronfa gyffredinol.

**2.0 Welsh Housing Quality Standard (WHQS)**

2.1 Mae'r Aelodau'n ymwybodol bod y Cyngor wedi llwyddo i gwrdd â SATC ers 2012 – dim ond yr ail Awdurdod yng Nghymru i gyflawni'r safon ar y pryd.

Dywed Safon Ansawdd Tai Cymru y dylai bob aelwyd gael y cyfle i fyw mewn tai o ansawdd da sydd:

· Mewn cyflwr da.
· Yn ddiogel.
· Wedi eu gwresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran defnyddio tanwydd ac wedi'u hinswleiddio'n dda.
· Yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern.
· Wedi eu rheoli'n dda.
· Wedi eu lleoli mewn amgylchedd deniadol a diogel.
· Yn cwrdd â gofynion penodol yr aelwyd i'r graddau y mae hynny'n bosib (e.e. gofynion pobl ag anableddau penodol).

**3.0 Rhaglen Gyfalaf 2017-2018**

3.1 Amcangyfrifwyd bod y Rhaglen Gyfalaf yn werth £11.5m. Mae hyn yn cynnwys £6.585m ar gyfer gwaith mewnol / allanol, gwaith risg tân, asbestos, addasiadau i'r anabl a gwaith effeithlonrwydd ynni. Mae'r gyllideb hefyd yn caniatáu ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â SATC yn llawn drwy dargedu methiannau derbyniol, gwaith amgylcheddol ac ati. Gweler Atodiad 3 am fwy o fanylion.

3.2 Llawr y Dref - mae darpariaeth o £832k wedi'i chynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer cynllun ailfodelu Llawr y Dref yn Llangefni. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar ddau floc sy'n cynnwys 28 o unedau un ystafell wely gan sicrhau'r arwynebedd llawr mewnol mwyaf posib o fewn yr unedau, gan gynnwys lifft a gwella edrychiad yr adeilad yn gyffredinol. Y bwriad yw y bydd y cynllun yn cael ei ail-ddynodi fel bod yr unedau'n gartrefi ar gyfer anghenion cyffredinol.

3.3 Mae darpariaeth o £3.720m wedi'i chynnwys yn y gyllideb refeniw ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

3.4 Yn ogystal mae £4.125m yng nghyllideb 2017-2018 ar gyfer rhaglen ddatblygu i brynu tai ac i adeiladu tai cyngor o'r newydd ar yr ynys. Mae'r Cynllun Busnes yn rhagdybio y bydd 30 o unedau'n cael eu datblygu yn 2017-2018, 45 o unedau yn 2018-2019, 60 o unedau yn 2019-2020, 30 uned y flwyddyn o 2022-2023 i 2029-2030, a 25 o unedau y flwyddyn wedi hynny. Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar safleoedd ym Mhentraeth, Llanfaethlu, Y Fali a Chaergybi ar gyfer rhaglen y flwyddyn nesaf. O ganlyniad i'r cynnydd yn ein rhaglen ddatblygu, byddwn yn defnyddio cyfran o gap benthyca'r CRT fel y cyfeirir at hynny ym mharagraff 1.5 yr adroddiad hwn.

**4.0 Model Ariannol a Rhagdybiaethau**

4.1 Rhaid cefnogi'r Cynllun Busnes ar gyfer y CRT gyda model ariannol 30 blynedd ac Ymhelaethir ar y model ym mhennod 7.

Cyflwynir dadansoddiad sensitifrwydd gyda'r Cynllun Busnes ac mae'n dangos pa mor gadarn yw'r cynllun. Mae'r rhain yn seiliedig ar dybiaethau a pharamedrau allweddol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn darogan pa adnoddau fydd ar gael a pha adnoddau y bydd raid wrthynt i barhau i gwrdd â SATC ac i adeiladau tai cyngor newydd, gan anelu at roi sicrwydd ynghylch cynaliadwyedd tymor hir y Cyfrif Refeniw Tai.

Cyflwynodd Llywdraeth Cymru y Polisi Rhent Tai Cymdeithasol yn Ebrill 2015 ar gyfer awdurdodau lleol a bydd yn weithredol am gyfnod o 5 mlynedd. Mae'r polisi'n anelu at sicrhau cydgyfeiriant rhent rhwng y Cyngor a Chymdeithadau Tai dros gyfnod o amser. Yn seiliedig ar y senario achos sail, byddwn yn cyrraedd cydgyfeiriant rhent erbyn 2024-2025.

4.2 Mae incwm o renti a'r polisi ar gyfer gosod rhenti lleol yn ffactorau o bwys o ran hyfywedd y Cynllun Busnes yn y dyfodol. Mae polisi rhent tai cymdeithasol Cymru wedi ei ddatganoli gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, fodd bynnag, cafwyd pwysau i ddilyn y rheidrwydd y mae Llywodraeth y DU wedi ei roddi ar landlordiaid cymdeithasol yn Lloegr i ostwng renti tai

cymdeithasol 1% ar gyfer pob un o'r pedair blynedd nesaf. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am dystiolaeth gan landlordiaid ar hyd a lled Cymru am yr effaith a gâi'r newid hwn ar gynlluniau busnes ac mae wedi penderfynu glynu wrth y polisi rhent cyfredol am 2017-2018. Dyma yw un o'r prif risgiau i'r Cynllun Busnes ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Mae risg arall i incwm yn ymwneud â datganiad ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer yr Adran Waith a Bensiynau ar 21 Tachwedd 2016, yn cyhoeddi bod Llywodraeth y DU yn bwriadu gweithredu'r cap ar gyfer tenantiaid sy'n byw mewn tai ar gyfer anghenion cyffredinol a thai cymdeithasol o 2019. Mae effaith y newid arfaethedig wedi cael ei fodelu fel un o'r senarios yn y Cynllun Busnes a gall gael effeithiau negyddol ar hyfywedd datblygiad tai yn y dyfodol.

4.3 Risg bellach i hyfywedd y Cynllun Busnes yw ymestyn Credyd Cynhwysol a fydd yn cychwyn yn Ynys Môn yn Ebrill 2018. Yn y Cynllun Busnes, nodir y camau gweithredu yr ydym yn bwriadu eu cymryd gyda sefydliadau partner i gefnogi Tenantiaid rŵan ac yn y dyfodol er mwyn lliniaru'r effaith o ran yr incwm a gesglir.

4.4 Rhoddwyd prawf ar gadernid y cynllun busnes i gymryd i ystyriaeth y risgiau yn unigol a gyda'i gilydd a bod y cynllun busnes yn parhau i fod yn hyfyw dros y cyfnod o 30 blynedd.

4.5 Yn dilyn ymadael o'r system CRT, mae'r Cyngor bellach yn cadw'r holl incwm a gaiff o renti yn y CRT ac yn ei ddefnyddio i gwrdd â gwariant, dyledion gwasanaeth ac i fuddsoddi mewn gwasanaethau a thai ychwanegol.

Mae'r gyllideb gyfalaf a refeniw ar gyfer y 5 mlynedd nesaf wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad hwn yn Atodiad 2.

4.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu manylion am y cynnydd minimum rent increase for 2017-2018. Cyflwynwyd y wybodaeth ar bennu rhenti i'r Aelodau Portffolio ar gyfer Tai a Chyllid ar y 9fed o Chwefror er mwyn iddynt wneud penderfyniad drwy ddefnyddio eu pwerau dirprwyedig ac fe gyhoeddwyd y penderfyniad hwnnw ar 16fed o Chwefror ar gyfer Aelodau Etholedig.

**5.0 Ymgynghori gyda chydranddeiliaid**

Ymgynghorwyd yn ystod y flwyddyn drwy gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau gyda thenantiaid, staff ac Aelodau Etholedig er mwyn siapio blaenoriaethau'r Cynllun Busnes 30 Blynedd diwygiedig. Ymgynghorwyd hefyd gydag aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Tai sy'n cynnwys Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aelod Portffoli cysgodol ar brif dybiaethau'r Cynllun Busnes. Yn ogystal, bwriedir cyflwyno'r Cynllun Busnes terfynol i grŵp Llais Tenantiaid a Swyddogion Môn ym mis Mawrth a thrafod ei gynnwys gyda nhw.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

| |
|---|
| |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cynllun Busnes yn cael ei gymeradwyo gan yr UDA. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Mae'r Swyddog Adran 151 wedi ei fodlonni bod y rhagdybiaethau yn y cynllun busnes yn rhesymol ac yn cydymffurfio gyda chanllawiau LlC a bod y cynllun busnes yn hyfyw ac yn adlewyrchu'r sefyllfa ariannol gyfredol sy'n wynebu'r CRT. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | Mae'r holl aelwydydd sy'n byw mewn Tai Cyngor yn cael budd o SATC, y rhaglen gyfalaf a chymorth i baratoi ar gyfer newidiadau diwygio lles. |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 – Cynllun Busnes y CRT 2017-2047<br>Atodiad 2 – Cyllideb Gyfalaf a Refeniw 5 Mlynedd 2017<br>Atodiad 3 – Rhaglen Gyfalaf 2017-2020 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Adroddiad ar yr Arolwg o Gyflwr y Stoc, 2013<br>Adroddiad i'r Aelodau Portffolio ar Renti a Thaliadau Gwasanaeth Chwefror 16fed, 2017 |

Atodiad 2

# Cyllideb 5 Mlynedd Cyfalaf & Refeniw

## Cyllideb Refeniw

| | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 | 2021/2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Rheoli | 2,878 | 2,936 | 2,994 | 3,054 | 3,115 |
| Cynnal a Chadw | 3,720 | 3,869 | 4,040 | 4,307 | 4,574 |
| Costau Eraill | | 104 | | | |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 3,697 | 3,438 | 2,264 | 2,385 | 2,449 |
| Cyfraniad i'r Rhaglen Cyfalaf | 8,882 | 9,757 | 9,543 | 10,481 | 10,431 |
| Cyfanswm Gwariant | 19,177 | 20,104 | 18,841 | 20,227 | 20,569 |
| Incwm Rhent | 15,905 | 16,909 | 18,400 | 19,292 | 20,577 |
| Incwm Arall | 541 | 550 | 559 | 569 | 578 |
| Incwm Llog | | | | | |
| Cyfanswm Incwm | 16,446 | 17,459 | 18,959 | 19,861 | 21,079 |
| Gwarged/(Diffyg) Refeniw | - 2,731 | -1,645 | 118 | -366 | 510 |
| Gweddill a ddygwyd ymlaen | 7,060 | 4,329 | 1,684 | 1,802 | 1,436 |
| Gweddill a gariwyd ymlaen | 4,329 | 1,684 | 1,802 | 1,436 | 1,946 |

## Cyllideb Cyfalaf

| | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 | 2021/2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwelliannau SATC a Cynnal a Chadw | 6,585 | 5,981 | 6,244 | 5,789 | 6,148 |
| Adeiladu o'r Newydd | 4,125 | 6,436 | 8,959 | 9,552 | 10,143 |
| Ail fodelu Stoc Presenol | 832 | - | - | - | - |
| Gwelliannau Eraill | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm Gwariant Cyfalaf | 11,542 | 12,417 | 15,203 | 15,341 | 16,291 |
| Ariannu Cyfalaf | | | | | |
| Lwfans Atgyweirio Sylweddol | 2,660 | 2,660 | 2,660 | 2,660 | 2,660 |
| Benthyciadau | | | 3,000 | 2,200 | 3,200 |
| Gwariant Cyfalaf Ariannwyd drwy'r CRT | 8,882 | 9,757 | 9543 | 10,481 | 10,431 |
| Cyfanswm Ariannu Cyfalaf | 11,542 | 12,417 | 15,203 | 15,341 | 16,291 |

**Atodiad 3**

**Rhaglen Cyfalaf Tai Bwriedir ar gyfer 2017/18**

**1.1** Mae Tabl 1 isod yn dangos y modd y bwriedir dyrannu'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2017/18 sy'n gyfanswm o £6,585k.

**Tabl 1**

| Cynllun | Llithriad 2016-17 (£'000) | 2017-18 (£'000) |
|---|---|---|
| Gwaith SATC Mewnol ac Asbestos | | 600 |
| Gwaith Cynnal a Chadw Traddodiadol sydd wedi ei Gynllunio | | 4,635 |
| Rheoli Risg Tân | 250 | |
| Gwaith ar Systemau Gwres Canolog | | 600 |
| Gwaith Amgylcheddol | | 400 |
| Ailfodelu Llawr y Dref | 832 | |
| Addasiadau | | 350 |
| | **1,082** | **6,585** |

Bydd y gyllideb gyffredinol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau a ddygwyd ymlaen a llithriad o'r gyllideb a gymeradwywyd am 2016-17. Mae'r gyllideb gyfan, gan gynnwys ymrwymiadau, yn £7,667k. Bydd y cyllid ar gyfer y rhaglen, yn amodol ar gadarnhad, yn cynnwys £2,650k o Lwfans LIC ar gyfer Gwaith Trwsio Sylweddol a Chyfraniad Refeniw i Gyfalaf gwerth £5,017k. Nodwch os gwelwch yn dda bod y ffigyrau uchod yn amodol ar gau'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn a chadarnhad o'r llithriad a'r ymrwymiad gwirioneddol a ddygwyd ymlaen.

Isod, ceir naratif byr ar gynnwys y Rhaglen Gyfalaf:

**1.2 Gwaith SATC Mewnol**

Dyrennir swm o £600k yn y gyllideb ar gyfer mynd i'r afael ag achosion o wrthod gwaith SATC yn y gorffennol, gwaith cyfalaf a wneir ar adeg newid tenantiaeth a'r angen parhaus i adnewyddu ceginau, ystafelloedd ymolchi a gwaith ailweirio wrth i'r elfennau hyn ddod at ddiwedd eu cylch oes.

**1.3 Gwaith Cynnal a Chadw Allanol Traddodiadol wedi ei Gynllunio**

Mae cyfanswm o £4,635k yn y gyllideb ar gyfer Gwaith Cynnal a Chadw wedi ei Gynllunio ac mae'r Gwasanaeth Tai yn disgwyl dyfarnu o leiaf 4 o gontractau fel a ddangosir yn Nhabl 2 isod:

**Tabl 2**

| Contract | Nifer yr Eiddo | Amcangyfrif o'r Gwerth(£'000) |
|---|---|---|
| Maes Llewelyn, Aberffraw & Bethel | 26 | |
| Treseifion, Caergybi | 79 | |
| Bryn Tirion, Biwmares | 17 | |
| Fflatiau Plas Tudur & Queens Park | 50 | |
| | **172** | **4,550** |

Fel y nodwyd uchod, bydd y broses gaffael ar gyfer y pedwar cynllun a nodir uchod yn cynnwys yr angen i wneud gwaith gwella allanol sylweddol ar 172 eiddo. Gwahoddwyd tendrau am y contractau ar gyfer adnewyddu'r eiddo yn Aberffraw a Bethel a dyfarnwyd y contract yn amodol yn ystod Ch4 2016/17.

Bydd y broses gaffael ar gyfer y cyfan o'r cynlluniau yn parhau i gefnogi Datganiad Polisi Caffael Llywodraeth Cymru a bydd yr effaith ar yr economi leol yn cael ei mesur drwy Becyn Cymorth Budd Cymunedol Gwerth Cymru.

### 1.4 Rheoli Risg Tân

Bydd gwaith gwella cyfalaf mewn perthynas â Rheoli Risg tân yn cael ei gyllido drwy lithriad o 2016/17. Cychwynnodd contractwr arbenigol ar gontract tymor penodol 3 blynedd ar 1 Ebrill 2016 ac yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, bu wrthi'n cynnal asesiadau risg tân a fydd yn sylfaen i gynlluniau gwariant yn y dyfodol.

### 1.5 Gwaith ar Systemau Gwres Canolog

Yn ystod 2017/18, byddwn yn parhau i weithredu rhaglen i adnewyddu bwyleri gwresogi sy'n hŷn sy'n gynyddol annibynadwy. Mae cyllideb o £600k wedi cael ei neilltuo ar gyfer 2017/18 a bydd y gwaith y bwriedir ei wneud yn cynnwys adnewyddu oddeutu 170 o fwyleri nwy a 100 o fwyleri olew.

### 1.6 Gwaith Amgylcheddol

Mae cyfanswm o £400k wedi cael ei neilltuo dros dro tuag at waith gwella amgylcheddol yn ystod 2017/18. Bydd y gyllideb hon yn fodd i barhau i gyllido'r Gronfa Gwella Amgylcheddol a Chymunedol sy'n rhoi'r cyfle i denantiaid gyflwyno ceisiadau am gyllid tuag at waith gwella neu weithgareddau o'u dewis. Bydd y gronfa hon hefyd yn cael ei defnyddio i gychwyn ar y gwaith o ddymchwel garejis nad yw'n ymarferol parhau i'w cynnal a'u cadw fel rhan o'r portffolio CRT. Gweler os gwelwch yn dda'r adroddiad a aeth i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Rhagfyr 2016 am ragor o fanylion.

### 1.7 Gwaith Addasu yn y Sector Cyhoeddus

Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys swm o £350k ar gyfer gwaith addasu sylweddol i'r anabl. Mae enghreifftiau nodweddiadol o'r gwaith yn cynnwys gosod lifftiau grisiau, darparu cawodydd mynediad lefel gwastad ac estyniadau.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL





# CYNLLUN BUSNES
# Y CYFRIF REFENIW TAI
# 2017 - 2047

# HOUSING REVENUE ACCOUNT
# BUSINESS PLAN
# 2017 - 2047



www.ynysmon.gov.uk
www.anglesey.gov.uk

cyngormon
loacc

@cyngormon
@angleseycouncil

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| | Cynnwys | Rhif Tud |
|---|---|---|
| 1.0 | Cyflwyniad | |
| 2.0 | Amcanion y Cynllun Busnes | |
| 3.0 | Dadansoddiad o'r Cynllun Busnes | |
| 4.0 | Rhaglen Gyfalaf | |
| 5.0 | Amrywiaeth a Chydraddoldeb | |
| 6.0 | Rheoli Risg | |
| 7.0 | Y Cynllun Ariannol ar gyfer y CRT | |
| 8.0 | Y Cynllun Gweithredu ar gyfer y CRT - targedau gweithredol 2017/2018 | |

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
**Dadansoddiad Sensitifrwydd**


**Atodiad 2**
**Model ariannol 30 mlynedd**

# OEDDECH CHI'N GWYBOD?...

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

## RYDYM YN RHEOLI 3784 EIDDO

- Rydym yn bwriadu adeiladu 75 o gartrefi ychwanegol dros y 2 flynedd / 195 o gartrefi dros y 5 mlynedd nesaf.
- Erbyn hyn, mae o gwmpas 400 o bobl ar ein Cofrestr Tai Cyffredin.
- Mae trosiant tenantiaid yn ein stoc tai o gwmpas 7%, 260 o unedau y flwyddyn.
- Dros y 12 mlynedd diwethaf, rydym wedi buddsoddi dros £7m yn gwella a chynnal ein heiddo.




## YN YSTOD 2017/18

- Byddwn yn casglu £15.9m mewn incwm rhent.
- Byddwn yn buddsoddi £7.3m yn gwella a chynnal ein heiddo.
- Byddwn yn buddsoddi £4.1m yn datblygu 30 o gartrefi newydd.



# DID YOU KNOW?...

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

## WE MANAGE 3784 PROPERTIES

- We plan to build a further 75 homes over the next 2 years / 195 homes over the next 5 years.
- Currently there are approximately 400 people on our Common Housing Register.
- The churn of tenants in our housing stock is around 7%, 260 units per annum.
- Over the past 12 months we have invested over £7m in improving and maintaining our properties.




## DURING 2017/18

- We will collect £15.9m in rental income.
- We will be investing £7.3m improving and maintaining our properties.
- We will be investing £4.1m in developing 30 NEW HOMES.



## 1.0 Cyflwyniad

Nod y Cynllun Busnes ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai, a elwir yn CRT drwy'r ddogfen hon, yw cynllunio ymlaen i sicrhau bod yna gynllun ariannol ymarferol ar gyfer ein stoc o dai Cyngor, sef 3784 o unedau (fel ar ddiwedd mis Rhagfyr 2016).

Yn gyntaf ac yn bennaf, mae'r Cynllun Busnes yn nodi'n glir ein cyfeiriad a'n blaenoriaethau am y 5 mlynedd nesaf, ond gan gadw mewn cof effeithiau ein penderfyniadau tymor byr yn y tymor canol a'r tymor hir. Ein nod yn ystod y 5 mlynedd nesaf yw parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd i'n tenantiaid, gan sicrhau ei fod yn gost effeithiol ac yn gwella'n barhaus, a hynny drwy weithio'n agosach gyda'n tenantiaid, ein cymunedau a'n partneriaid datblygu.

Mae'r CRT yn ariannu'r holl waith y mae'r Cyngor yn ei wneud fel landlord y stoc dai. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gwaith cynnal a chadw, gwaith cyfalaf a gwelliannau amgylcheddol, uchafu incwm rhent, rheoli stadau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, sicrhau bod tenantiaid yn cael cymaint o gyfleoedd â phosib i ddylanwadu ar ein blaenoriaethau, ynghyd ag ychwanegu at ein stoc dai er mwyn cyfrannu tuag at gwrdd â'r angen am dai cymdeithasol ar yr Ynys.

Bydd y Cyngor yn parhau i gynnal CRT statudol, neilltuedig, gan gyfrifo am incwm a gwariant ar dai Cyngor ar wahân i incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â Chronfa'r Cyngor.

Mae'r Cynllun Busnes yn cadarnhau ymrwymiad y Cyngor i

- gynnal Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) a mynd i'r afael â 'methiannau derbyniol',
- mynd i'r afael â meysydd lle mae angen gwella perfformiad a chanlyniadau, gan sicrhau gwelliannau pellach yn y gwasanaeth ar gyfer ein tenantiaid,
- darparu gwasanaethau ar gyfer ein tenantiaid sy'n cynnig gwerth am arian, a hynny mewn cyfnod o ostyngiadau cynyddol mewn gwariant cyhoeddus,
- cynyddu atebolrwydd trwy ymgysylltu mwy gyda staff, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Aelodau Etholedig a rhanddeiliaid allweddol,
- sicrhau bod darpariaeth ddigonol i liniaru rhai o effeithiau posib y drefn Diwygio Lles ar y cymunedau lleol, drwy eu galluogi i helpu eu hunain yn hytrach na chreu diwylliant o ddibyniaeth, a
- cyflawni ein rhaglen ddatblygu ar gyfer adeiladu tai Cyngor newydd.

Mae'n cydymffurfio â gofynion Cynllunio Busnes Llywodraeth Cymru ar gyfer y gyfundrefn hunanariannu ynghylch Cyfrifon Refeniw Tai Awdurdodau Lleol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016.

Trwy ddarllen y Cynllun cewch sicrwydd bod y Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn effeithlon.

**Gweledigaeth y Gwasanaeth**

Ein Gweledigaeth yw:

***Cartrefi o ansawdd: cymunedau cynaliadwy***

ac mae'n seiliedig ar ein gwerthoedd fel gwasanaeth sy'n rhan annatod o'n gwaith ac sy'n gyrru'r ddarpariaeth gwasanaeth, fel ein bod yn :

♣ canolbwyntio ar gwsmeriaid ac yn atebol

♣ cynnig gwerth am arian

♣ ymrwymo i weithio mewn partneriaeth

♣ arloesol yn ein dull o weithio

Mae'r Gwasanaeth Tai wedi gallu gadael System Gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai, a bydd yn rhoi blaenoriaeth i'r canlynol o ran buddsoddi:

- Adfywio stadau;
- Adeiladu o'r newydd, gan gynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy;
- Llety ar gyfer grwpiau penodol, er enghraifft pobl hŷn, pobl â phroblemau iechyd meddwl;
- Mynd i'r afael â'r rhaglen effeithlonrwydd ynni / tlodi tanwydd.

Ymgynghorwyd ar y blaenoriaethau hyn gyda'n tenantiaid a'r Aelodau Etholedig.

Cyflwynwyd y Cynllun i Bwyllgor Gwaith y Cyngor, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Bwrdd Gwasanaethau Tai sydd newydd ei sefydlu. Mae Swyddog 151 y Cyngor wedi bod yn rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun.

Ymgynghorwyd â thenantiaid a fynychodd ddau ddiwrnod o hwyl i'r teulu yn ystod Ionawr 2016 ac â'r Fforwm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw sydd newydd ei sefydlu ac â chynrychiolwyr Llais Tenantiaid a Swyddogion Môn, sef y fforwm sy'n cynrychioli barn tenantiaid ar yr ynys, yng nghyswllt y cyfeiriad strategol a dewis targedau y byddir yn adrodd arnynt i'r fforwm ac a gyhoeddir yn flynyddol mewn Newyddlenni'r Tenantiaid.

Nod y Cynllun yw rhoi hyder i gyllidwyr, tenantiaid ac Aelodau Etholedig bod adnoddau a gwasanaethau'r CRT yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae rhagor o wybodaeth am bob agwedd ar y cynllun hwn ar gael gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn,
LL77 7TW. E-bost Tai@ynysmon.gov.uk

**Cynllunio ar gyfer y dyfodol**

Mae Tai yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor o safbwynt siapio'r ymdeimlad o le a chynyddu'r cyflenwad o dai o ansawdd. Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Tai ac arno gynrychiolwyr o'r lefel uchaf o blith yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau. Mae'r Bwrdd yn cryfhau trefniadau llywodraethu'r CRT ac mae'n debyg i drefniadau rheoli Cymdeithasau Tai. Dros y 12 mis nesaf bwriedir cael barn tenantiaid yn nhrafodaethau'r Bwrdd.

Yn sicr, mae mwy o bwyslais ar Ddeddf Tai (Cymru) 2014, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2015, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gwaith ataliol a chanlyniadau sy'n canolbwyntio ar lesiant ac sy'n hyrwyddo annibyniaeth i'r cwsmer. Dros amser, bydd y cysylltiadau rhwng y tair Deddf yn dod yn gliriach trwy gynllunio gwasanaethau ar y cyd. Un peth sy'n sicr yw bod materion Tai yn hollbwysig o ran cyflawni canlyniadau'r tair Deddf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi targed uchelgeisiol o ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod ei thymor nesaf. Mae gan y Cyngor rôl hanfodol i'w chwarae wrth gyfrannu tuag at y targed hwn. Amlygir hyn yn y cytundeb y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol wedi ymrwymo iddo fel ffordd o sicrhau bod modd cyrraedd y targed hwn.

**Yr Economi**

Yn unigryw i Ynys Môn, mae cynlluniau'n cael eu gwneud ar gyfer cynllun economaidd mwyaf y DU, sef adeiladu gorsaf niwclear Wylfa Newydd. Efallai y bydd hyd at 8,000 o gontractwyr yn cael eu cyflogi (aros am gadarnhad gan Pŵer Niwclear Horizon) a bydd yn rhaid i ni sicrhau ein bod yn cynllunio'n ofalus drwy ddefnyddio'r adnoddau ariannol sydd ar gael i ychwanegu at stoc dai'r Cyngor a gweithio gydag eraill i liniaru'r effeithiau ar yr aelwydydd mwyaf bregus yn ein cymunedau a'r effaith ar y farchnad dai leol. O ganlyniad, yn ein gwahanol senarios yn Atodiad 1, rydym yn dangos modelau ar gyfer cynyddu ein rhaglen adeiladu newydd yn ystod y 5 mlynedd nesaf o gymharu â'r hyn a gafodd ei gynnwys yn ein Cynllun blaenorol.

**Y Farchnad Dai Leol**

Mae adroddiad diweddar ar Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru yn dangos bod gennym rôl o ran darparu tai addas i bobl fregus yn ein cymdeithas. Y bylchau a nodwyd yw:

- Diffyg llety i bobl sengl
- Nifer gyfyngedig o hosteli
- Prinder darpariaeth arbenigol ar gyfer unigolion sydd â chyflyrau meddygol parhaus

- Bylchau mewn gwasanaethau cymorth

**Amcanion strategol**

Mae Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai yn un o ddogfennau Corfforaethol y Cyngor ac mae'n datgan mai nod y Cyngor, erbyn 2017, yw :

"... y byddwn yn gyngor proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda, yn arloesol yn ein hymagwedd, wedi ymrwymo i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ein dinasyddion."

Mae gwasanaethau'r Cyngor fel landlord a'r Cynllun Busnes ar gyfer y CRT yn cyfrannu at o leiaf 5 o'r saith blaenoriaeth.

Mae'r cynllun corfforaethol yn dweud ein bod, fel Cyngor, yn ymrwymedig i

- Drawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn
- Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi
- Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi
- Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein hysgolion
- Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)
- Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a'r Gymuned
- Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd

**Y Cyd-destun Strategol a'r Cysylltiad gyda Chynlluniau eraill**

Mae ei wasanaethau fel landlord, ynghyd â'i stoc dai, yn parhau i fod yn flaenoriaethau strategol i'r Cyngor, a gellir gweld hynny yn nodweddion y dogfennau strategol allweddol. Yn ogystal â'r Cynllun Corfforaethol, gellir gweld tystiolaeth yn y Cynllun Trawsnewid, Strategaeth y Cyngor ar gyfer Rheoli Asedau, y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, y Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, y Strategaeth TGCh Gorfforaethol a Chynlluniau Gwasanaethau unigol.

**Cysylltiadau gyda Strategaeth Dai Leol y Cyngor am 2014 - 2019**

Mae'r Strategaeth hon yn nodi amcanion y Cyngor ar gyfer pob math o ddeiliadaethau tai ar yr ynys i gwrdd ag anghenion tai a nodwyd ac i sicrhau safonau tai uchel ar gyfer pob dinesydd. Mae Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai yn un ffordd bwysig o'r gyflawni amcanion cyffredinol hyn a bydd cysylltiadau agos rhwng y ddwy ddogfen.

Gellir gweld amrywiol ddogfennau'r Cyngor ar ei wefan

www.ynysmon.gov.uk

## 2.0 Amcanion y Cynllun Busnes

**2.1** Fel landlord, rydym yn dymuno i'n tenantiaid fyw mewn llety o ansawdd dda, sy'n fforddiadwy, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac sydd mewn cymunedau diogel a chynaliadwy. Mae materion tai yn rhan annatod o fywyd pob dydd i bawb. Mae manteision sylweddol o fod yn byw mewn cartref da a fforddiadwy ac sydd mewn cyflwr da. Mae'n ddylanwad pwysig ar ein hiechyd a'n llesiant, ein haddysg, ein gallu i gynnal swydd ac i gael mynediad at weithgareddau hamdden a chymunedol lleol. Mae'n rhoi'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant ac mae'n sylfaen ar gyfer cymunedau cryf, diogel a theg. Mae hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig i'n nod o ostwng tlodi ac anghydraddoldeb yn ein cymunedau. Mae gan yr Adran Dai hefyd ran bwysig i'w chwarae mewn perthynas â'r economi; mae codi tai newydd a thrwsio'r stoc gyfredol yn creu swyddi, prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi.

Mae'r ffaith ein bod wedi llwyddo i gyflawni rhaglen ailwampio fewnol SATC yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddarparu llety o ansawdd i gwrdd ag anghenion a dyheadau ein cwsmeriaid a'n darpar gwsmeriaid.

Rydym hefyd yn sylweddoli bod darparu tai yn llawer iawn mwy na brics a morter yn unig. Mae'n cynnwys, er enghraifft, cymorth gyda materion tai, ymgysylltu â thenantiaid a gwelliannau amgylcheddol. Wrth fabwysiadu agwedd gyfannol at ddarparu gwasanaethau a thrwy wella'r gwasanaeth yn barhaus, rydym yn gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr i gwrdd â'r amcanion corfforaethol o gynorthwyo pobl i gyflawni eu llawn botensial ac i fod yn iach a diogel.

Mae'n her barhaus i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, a hynny mewn ffordd sy'n costio llai ond sy'n parhau i gwrdd â disgwyliadau o ran perfformiad ac yn erbyn cefndir o gyfyngiadau ariannol cynyddol. I'r perwyl hwn, byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n tenantiaid i ofyn iddynt pa wasanaethau y maent yn eu dymuno eu cael a sut y buasent yn hoffi iddynt gael eu darparu. Byddwn yn eu cynnwys yn y gwaith o wella'r gwasanaethau trwy adolygu a monitro safonau gwasanaethau. Byddwn hefyd yn gwneud gwell defnydd o adborth a gawn gan gwsmeriaid er mwyn bwrw ymlaen i wella gwasanaethau ymhellach.

Cwblhawyd a dadansoddwyd yr arolwg STAR yn ystod 2015-2016, ac mae wedi nodi dau faes lle mae perfformiad wedi dirywio ychydig ers yr arolwg blaenorol a gynhaliwyd ddwy flynedd yn ôl. Er mwyn rhoi sylw i hyn, datblygwyd Fforwm Gwaith Trwsio a Fforwm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, sy'n fforymau sy'n ychwanegol at y dulliau eraill yr ydym wedi eu mabwysiadu fel landlord i graffu ar denantiaid. Yn ddiweddar hyfforddwyd ein grŵp tenantiaid cwsmeriaid cudd i gynnal ymarfer cwsmer cudd i edrych ar safonau gwasanaeth cwsmer y Cyngor.

**2.2 Mae ein ffocws ar gyfer 2016/2017 wedi bod ar: -**

- Gyflawni canlyniadau sydd o fudd i'r gymuned leol drwy greu swyddi ac ati
- Bod yn bartner allweddol yn y gwaith o gyflawni'r rhaglen LILILIA yn ardal Caergybi.
- Gweithredu'r polisi gosod tai cyffredin newydd o fis Gorffennaf 2016.
- Ailstrwythuro'r Gwasanaethau Tai ar lefel Rheolwyr.
- Ym mis Chwefror, y cynllun cyntaf ers dros 30 mlynedd ar gyfer codi tai Cyngor newydd, sef 3 o dai dwy ystafell wely yng Nghaergybi.
- Caffael 15 eiddo a gollwyd yn flaenorol drwy'r Cynllun Hawl i Brynu.
- Mabwysiadu Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Wedi cyflwyno cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru i atal yr Hawl i Brynu ar Ynys Môn am gyfnod o 5 mlynedd.
- Gwario'n sylweddol ar waith allanol a gwelliannau amgylcheddol i stadau.
- Yn dilyn adolygiad, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith gynllun i ddymchwel 200 o garejis sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes ddefnyddiol.
- Cyflwyno cynllun gweithredu i leddfu effeithiau'r drefn Diwygio Lles a Chredyd Cynhwysol.

**2.3 Mae'r Blaenoriaethau Tai Allweddol ar gyfer ein gwasanaeth fel landlord dros y 2 flynedd nesaf (2017/2019) wedi eu nodi isod:**

- Cyflwyno'r rhaglen flynyddol o fuddsoddi arian cyfalaf a dangos y manteision a ddaw i'r gymuned yn sgil buddsoddi'n uniongyrchol mewn tai, drwy ddefnyddio offer mesur Gwerth Cymru.
- Cynyddu'r cyflenwad o dai Cyngor trwy gyfuniad o adeiladu o'r newydd a chaffael eiddo.
- Gweithio gyda'r Grŵp Rheoli Asedau Corfforaethol i nodi safleoedd y ceir gwared arnynt e.e safleoedd ysgol, a'u defnyddio fel safleoedd posib ar gyfer tai fforddiadwy ac fel rhan o gynlluniau adfywio'r Cyngor.
- Buddsoddi i ailddatblygu, adnewyddu ac ailddynodi unedau yn Llawr y Dref, Llangefni gan fynd i'r afael â'r tenantiaethau y mae'n anodd eu gosod.

- Cwblhau'r gwaith o allanoli'r swyddogaeth storfa gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.
- Ymateb i heriau Diwygio Lles, ac yn arbennig y newidiadau a wynebir gan bobl dan 35 oed a chyflwyno Credyd Cynhwysol, gan leihau'r effaith ar denantiaid a'u tenantiaethau.
- Parhau i wella'r ddarpariaeth gwasanaeth mewn meysydd lle mae perfformiad yn wael a / neu lle mae canlyniadau arolygon boddhad cwsmeriaid yn dangos yr angen i wella canlyniadau gwasanaeth, gan gynnwys gwelliannau o ran yr amser a gymerir i ailosod eiddo gwag.
- Parhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol o ran digartrefedd ac atal digartrefedd, yn unol â gofynion Deddf Tai (Cymru), 2014.
- Mynd i'r afael â materion ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy ddefnyddio darpariaethau sydd ar gael o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Monitro effeithiolrwydd y Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol newydd drwy'r Grŵp Tenantiaid ar gyfer Atal Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Tai newydd a chytuno ar y dull mwyaf priodol i sicrhau bod tenantiaid yn cael cymaint o gyfle â phosib i gymryd rhan mewn penderfyniadau ar y CRT ac i archwilio'r penderfyniadau hynny.
- Cwrdd â heriau ariannol y Cyngor, trwy gyflwyno ffyrdd newydd o weithio a gweithredu'n fwy fel busnes o ran y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau.

## 2.4 Cyd-destun Tai Lleol

### Angen am dai

Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn rhoi gwybodaeth i'r Awdurdod am yr anghenion tai yn ei ardal. Diweddarwyd Asesiad 2013 yn 2015 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2016. Mae diweddariad 2015 yn nodi bod angen 398 o anheddau fforddiadwy ychwanegol bob blwyddyn ar Ynys Môn am y 5 mlynedd nesaf (gan gynnwys tai cymdeithasol a thai canolraddol megis rhannu perchnogaeth a llety rhent canolraddol).

Mae'r Asesiad yn defnyddio model a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru i gyrraedd y ffigwr hwn ac mae'n cymryd i ystyriaeth ffactorau megis y trosiant o dai cymdeithasol, prisiau tai a rhent, twf yn y boblogaeth a gwybodaeth am anghenion tai ar yr ynys ar hyn o bryd.

Mae'n bwysig nodi nad nifer yr unedau tai fforddiadwy i'w hadeiladu bob blwyddyn mo'r ffigwr hwn. Mae'n cynorthwyo i gyfleu natur y broblem. Byddwn y cwrdd â'r angen am dai fforddiadwy drwy amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys gwneud gwell

defnydd o'r stoc bresennol (e.e. dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd) a gwneud gwell defnydd o'r sector rhentu preifat yn ogystal â datblygiadau newydd gan y Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Wrth ystyried pa dai fforddiadwy y dylid eu datblygu ystyrir data o'r Asesiad, ochr yn ochr â thystiolaeth arall megis y wybodaeth ddiweddaraf o'r rhestr aros am dai a'r gofrestr tai fforddiadwy, sef Tai Teg. Mewn rhai achosion, cynhelir asesiad ac arolwg tai fforddiadwy mewn ardaloedd cynghorau cymuned yn y rhannau mwyaf gwledig o'r Ynys.

Nid yw'r Asesiad yn cymryd i ystyriaeth effeithiau posib Wylfa Newydd ar y farchnad dai leol. Mae gwaith ychwanegol yn cael ei wneud gan y Cyngor mewn perthynas â hynny.

Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi canfyddiadau allweddol yr Asesiad (Diweddariad 2015) ac yn darparu'r cefndir y mae angen ystyried anghenion tai newydd yn ei erbyn.

**2.5 Cyd-destun cymdeithasol-economaidd**

i) Roedd Cyfrifiad 2011 yn nodi bod 69,751 o bobl yn byw yn y Sir ac y bu cynnydd o 4.4% yn y boblogaeth ers 2001. Mae maint y boblogaeth aelwydydd wedi cynyddu ar raddfa gyflymach rhwng 2001 a 2011, sef 7.7%.

ii) Mae'r gyfran o bobl o oed gweithio yn Ynys Môn yn llai na'r ffigyrau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r boblogaeth o Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn 1.8% o'r boblogaeth gyfan.

iii) Gwelwyd twf nodedig yn y niferoedd sydd â gwaith rhan amser yn Ynys Môn yn ystod y deng mlynedd diwethaf, tra bod y nifer sydd mewn cyflogaeth amser llawn wedi codi'n fwy cymedrol.

iv) Mae'r gyfran o drigolion sy'n gweithio mewn swyddi proffesiynol neu dechnegol yn uwch yn Ynys Môn nag a welir yn genedlaethol. Mae nifer y preswylwyr o oedran gweithio nad oes ganddynt gymwysterau hefyd yn is na'r cyfartaledd.

v) Mae'r Cyfrifiad diweddar yn dangos bod 34,183 o anheddau ar Ynys Môn yn 2011 ac, ers 2001, bu cynnydd o 10.1% yn y nifer. Y math o eiddo mwyaf cyffredin yn y Sir yw tai ar wahân, a thai teras yw'r ail fwyaf cyffredin.

vi) Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos mai perchen-ddeiliad yw 68.8% o'r aelwydydd a bod 14.6% yn byw mewn llety rhent cymdeithasol a 14.1% yn rhentu'n breifat. Mae'r sector rhentu preifat wedi tyfu dros 60% yn y Sir rhwng 2001 a 2011. Mae'r twf sylweddol hwn yn debyg i'r tueddiadau cenedlaethol.

## 2.6 Cost a fforddiadwyedd y tai

I. Aseswyd cost tai o wahanol faint a gwahanol ddeiliadaethau ar draws y Sir. Mae prisiau lefel-mynediad yn Ynys Môn yn amrywio o £80,000 fel y pris marchnad am gartref dwy ystafell wely yng Nghaergybi, i hyd at £312,500 fel pris marchnad ar gyfer eiddo pedair ystafell wely yn ardal Afon Menai. Mae rhenti lefel-mynediad ar y farchnad yn Ynys Môn yn amrywio o £350 y mis am gartref un ystafell wely yng Nghaergybi i hyd at £675 y mis ar gyfer eiddo pedair ystafell wely yn ardal Afon Menai.

II. Mae'r dadansoddiad o'r bylchau yn y farchnad yn dangos natur yr ystol dai mewn ardal benodol. Mae dadansoddiad o'r bylchau rhwng pob daliadaeth yn dangos bod yna fwlch incwm mawr rhwng y sector rhent fforddiadwy a mynediad i'r farchnad.

III. Er bod fforddiadwyedd wedi gwella, mewn theori, ers yr Asesiad blaenorol, mae cyfran fawr o aelwydydd yn Ynys Môn yn methu fforddio prisiau'r farchnad yn y Sir.

## 2.7 Y Gofrestr Dai Gyffredin

Mae'r Gwasanaethau Tai yn cadw Cofrestr Dai Gyffredin ar ran Partneriaeth Dai Ynys Môn sy'n cynnwys y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid i ni, sef Grŵp Cynefin, Pennaf a Tai Gogledd Cymru.

Yn ystod 2016/17 adolygwyd a diwygiwyd y Polisi Gosod Tai Cyffredin o fod yn system sy'n seiliedig ar bwyntiau i fod yn system sy'n seiliedig ar fandiau. Daeth y Polisi newydd i rym ar yn ffurfiol ar 4 Gorffennaf 2016. Mae'r system fandio yn cynnwys 4 band a gellir eu crynhoi fel a ganlyn: -

Brys - Cysylltiad lleol ac angen brys am dŷ

Band1 - Angen a chysylltiad lleol

Band2 - Angen brys ond dim Cysylltiad lleol

Band3 - Angen ond dim Cysylltiad Lleol.

Cyflwynwyd y Polisi Gosod Tai diwygiedig i gael gwared ar aneffeithlonrwydd yn y broses gosod tai, gan sicrhau bod tai cymdeithasol yn cael eu gosod i'r unigolion hynny sydd â'r angen mwyaf am dai, ac i sicrhau cysondeb o ran sut mae pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn gweithredu pan fo eiddo ar gael i'w osod.

Rhoddwyd gwybod yn ffurfiol i bob ymgeisydd a oedd ar y gofrestr dai cyn y dyddiad hwn fod y polisi tai'n cael ei adolygu. Wedi hynny, adolygwyd

ceisiadau'r holl ymgeiswyr ar y rhestr aros. Ar ddiwedd y broses hon rhoddwyd ceisiadau'r holl ymgeiswyr a oedd yn weddill ar y rhestr aros yn y bandiau perthnasol ac fe'u hysbyswyd am hynny trwy lythyr.

O ganlyniad i adolygu'r Polisi Gosod Tai a'r rhestr aros, bu gostyngiad sylweddol yn y niferoedd ar y rhestr aros.

Ar ddiwedd mis Ionawr 2017 'roedd y rhestr aros yn cynnwys : -

356 o geisiadau byw ar y gofrestr dai, 27 yn y Band Brys, 199 ym Mand 1, 2 ym Mand 2 a 128 ym Mand 3.

Mae'r Gwasanaethau Tai yn gosod tua 250 o unedau llety o'i stoc dai ac mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gosod tua 100.

Yn dilyn adolygu'r Polisi Gosod Tai, rydym wedi bod yn gweithio'n agos â'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac wedi bod yn darparu sesiynau hyfforddi er mwyn caniatáu i'r LCC gael mynediad ar-lein i'r Rhestr Aros am Dai fel bod modd iddynt weld enwebiadau am eu heiddo pan ddônt ar gael.

Hyd yma, mae'r Polisi Gosod Tai Cyffredin wedi cael derbyniad da ac mae'r canlyniadau'n galonogol. Byddwn yn parhau i adolygu gweithdrefnau a mesur canlyniadau'n ofalus.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio i sefydlu Cofrestr Tai Hygyrch at ddiben cofnodi manylion yr holl anheddau sydd wedi cael eu haddasu fel bod gennym ddealltwriaeth glir o ble maent. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i osod eiddo a addaswyd i denantiaid sydd angen eiddo o'r fath fel a phan fyddant ar gael.

## 2.8 Darparu tai addas

Mae'n anochel y bydd rhai ardaloedd yn gweld y bydd galw mawr am eiddo ac y bydd rhai anheddau yn fwy anodd eu gosod. Cymhlethir hyn gan leoliad a maint y stoc y Cyngor.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod 2017-18 er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o stoc ac fel sail ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

Mae rhagor o wybodaeth am broffil daearyddol, maint a math y stoc i'w gweld drwy fynd i'r ddolen ganlynol:
http://www.angleseyhousing.co.uk/index.php?section=information&option=areas

## 2.9 Bylchau yn y Ddarpariaeth Tai Cymdeithasol/Tai Cyngor

**Dadansoddiad o'r rhestr aros o gymharu â'r stoc**

Cyngor Sir Ynys Môn yw'r landlord cymdeithasol mwyaf ond un yn Ynys Môn.

Mae yna 4664 o unedau o dai cymdeithasol ar Ynys Môn. Dyma'r ganran o'r stoc y mae pob landlord yn berchen arni:

| Landlord | Nifer yr Unedau | Canran o'r Stoc |
|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3784 | 81% |
| Grŵp Cynefin | 524 | 11% |
| Tai Gogledd Cymru | 121 | 3% |
| Clwyd Alyn | 231 | 5% |
| **Cyfanswm** | 4660 | 100% |

| Cyfyngiad Oed | Canran | Dim Cyfyngiad Oed | Canran | Cyfanswm Unedau |
|---|---|---|---|---|
| 1420 | 37% | 2364 | 63% | 3784 |

Mae'r isod yn ddadansoddiad o stoc y Cyngor o gymharu â'r gofrestr dai sengl ar gyfer tai cymdeithasol.

| 1 Lloff t | % o'r stoc | % ar y rhestr aros | 2 Lofft | % o'r stoc | % ar y rhestr aros | 3 Llofft | % o'r stoc | % ar y rhestr fer | 4 Lloff t | % o'r stoc | % ar y rhestr aros |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 715 | 18.7 % | 58.5 % | 132 9 | 35.4 % | 24.6 % | 166 5 | 44 % | 7.7 % | 75 | 1.9 % | 7.7 % |

Mae'r tabl yn dangos bod cryn wahaniaeth rhwng y canrannau ar y rhestr aros sydd angen llety 1 llofft a llety 3 llofft o gymharu gyda proffil y stoc sydd ym mherchenogaeth y Cyngor.

Mae 58.5% o'r holl ymgeiswyr ar y rhestr fer angen eiddo 1 llofft ond dim ond 18.7% o'r stoc cyfredol sy'n eiddo un llofft. Er mai 7.7% o'r rheiny sydd ar y rhestr aros angen llety 3 lofft, mae 44% o stoc cyfredol y Cyngor yn eiddo 3 llofft.

Dylid nodi bod 578 o'r 715 o unedau 1 llofft yn rhai i bobl dros 60 oed (h.y. yn dai gwarchod neu'n dai i bensiynwyr) – mae hyn yn cynrychioli 81% o'r stoc 1 llofft. Fodd bynnag, mae canran y bobl sydd angen llety 1 llofft ac sydd dros 60 oed yn llawer is na hyn.

**Galw fesul ardal o gymharu â'r stoc sydd ar gael yn yr ardal**

Mae'r tabl isod yn defnyddio data o gofrestr dai gymdeithasol y Cyngor ac yn ei gymharu gyda chyfanswm y stoc sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd.

Mae'r tabl yn cymharu'r ganran o'r holl ymgeiswyr sydd wedi dweud y byddant yn barod i fyw ym mhob ardal gyda'r % o stoc y Cyngor ym mhob lleoliad. Mae hyn rhoi rhyw syniad o'r gwahaniaeth rhwng y cyflenwad sydd ar gael a'r galw amdano. Mae'r rhesi oren yn nodi'r ardaloedd lle mae'r galw yn .5% neu fwy o'r cyflenwad sydd ar gael. Mae'r rhesi glas yn nodi'r ardaloedd lle mae'r cyflenwad yn .5% neu fwy na'r galw.

Dengys y tabl bod y galw yn fwy na'r cyflenwad yn benodol yng Ngaerwen, Llanfairpwll, Porthaethwy a Thregele ac i raddau llai ym Menllech, Bodedern, Bryngwran, Cemaes, Pontrhydybont, Llandegfan, Llangaffo, Malltraeth, Pentraeth, Pentre Berw, Rhosneigr, Star, a'r Fali.

Efallai y bydd problem gyda'r galw am lefel y stoc yng Nghaergybi a Llangefni ac i raddau llai yn Amlwch, Llannerch-y-medd, Niwbwrch

| Lleoliad | % o Ymgeiswyr | % o Stoc |
|---|---:|---:|
| Amlwch | 4.2% | 6.7% |
| Benllech | 1.6% | 0.6% |
| Bodedern | 2.2% | 1.7% |
| Bryngwran | 1.8% | 1.2% |
| Cemaes | 2.5% | 1.6% |
| Pontrhydybont | 1.3% | 0.2% |
| Gaerwen | 3.7% | 1.2% |
| Caergybi | 8.4% | 29.0% |
| Llandegfan | 1.4% | 0.7% |
| Llannerch-y-medd | 2.0% | 2.5% |
| Llanfair PG | 5.6% | 2.6% |
| Llangaffo | 1.0% | 0.3% |
| Llangefni | 7.8% | 14.1% |
| Malltraeth | 1.2% | 0.7% |
| Porthaethwy | 6.4% | 4.3% |
| Niwbwrch | 1.4% | 2.1% |
| Pentraeth | 2.8% | 1.2% |

| | | |
|---|---|---|
| Pentre Berw | 0.8% | 0.1% |
| Rhosneigr | 1.6% | 1.0% |
| Star | 2.0% | 0.1% |
| Tregele | 4.0% | 0.2% |
| Y Fali | 4.6% | 2.9% |

## 3.0 Dadansoddiad o'r Cynllun Busnes

### 3.1.1 Dadansoddiad o'r Stoc Dai

Ar 17 Ionawr 2017, roedd gan y Cyngor stoc o 3,784 o dai a 766 o garejis.

| Stoc Dai'r Cyngor | 2015/16 | 2016/17 | Prynwyd yn ystod 2016/17 ond heb eu gosod eto |
|---|---|---|---|
| Fflatiau 1 ystafell wely | 318 | 319 | |
| Fflatiau 2 ystafell wely | 397 | 400 | 5 |
| Fflatiau 3 ystafell wely | 16 | 16 | |
| Tŷ / byngalo 1 ystafell wely | 397 | 397 | |
| Tŷ / byngalo 2 ystafell wely | 932 | 937 | 6 |
| Tŷ / byngalo 3 ystafell wely | 1649 | 1637 | 9 |
| Tŷ / byngalo 4 neu 6 ystafell wely | 75 | 78 | |
| CYFANSWM | 3784 | 3784 | 20 |

Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'n holl garejis yn ystod 2016 a chyflwynwyd argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr 2016 ac fe'u cymeradwywyd ganddo.

Bydd rhaglen tair blynedd yn cael ei sefydlu i ddiweddaru ein stoc gyfredol o garejis. Mewn rhai ardaloedd, bydd yn golygu gwella unedau y mae cryn ddefnydd yn cael ei wneud ohonynt a rhai y mae galw mawr amdanynt a chael gwared ar safleoedd sydd wedi mynd â'u pen iddynt ac sydd â nifer o unedau gweigion.

Bydd pob safle wedyn mewn cyflwr da ac yn fwy diogel. Lle ceir gwared ar garejys, ceisir dod o hyd i ddefnydd arall ar gyfer y safleoedd hynny.

### 3.1.2 Prisio Stoc

Cofnodir y stoc dai yng nghyfrifon yr Awdurdod ar sail cost hanesyddol gyda gwaith prisio'n cael ei wneud bob pum mlynedd yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod. Cynhelir y prisiad nesaf yn 2018.

## 3.2 Cyflawni Gwasanaethau Rheoli Tai

### 3.2.1 Rheoli Stadau

Mae gwaith rheoli stadau'n cynnwys rheoli ein stadau, rheoli tenantiaethau unigol a rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn ac o gwmpas stadau tai Cyngor.

Mae tri o Swyddogion Rheoli Tai (SRhT) yn gyfrifol am y swyddogaeth rheoli stadau ac maent yn rhoi sylw i bob agwedd ar reoli tenantiaethau. Maes gwaith y SRhT yw delio gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel isel, ymddygiad sy'n achosi niwsans ac achosion cyffredinol o dorri amodau tenantiaeth drwy ddefnyddio amrediad o ddulliau sy'n addas ar gyfer y gŵyn benodol, megis rhybuddion llafar, llythyrau rhybudd, cyfryngu, cyflwyno Contractau Ymddygiad Derbyniol ac ymestyn tenantiaethau rhagarweiniol. Gellir datrys y mwyafrif o achosion gyda'r SRhT yn gweithredu fel y swyddog arweiniol.

Yn ychwanegol at y SRhT, mae gan y Gwasanaethau Tai Swyddog sy'n delio'n benodol gydag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Maes gwaith y Swyddog YG yw cymryd arno/arni rôl orfodaeth a defnyddio, lle mae hynny'n briodol, y pwerau newydd a ganiatawyd dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2015 lle os yw dulliau unioni llai ffurfiol wedi methu â datrys problem neu mewn achosion lle ystyrir bod y gŵyn yn rhy ddifrifol ar gyfer ymyrraeth lefel isel a bod angen cymryd camau gorfodaeth mwy ffurfiol.

Mae llwyddiant y swyddogaethau Rheoli Tai ac YG yn dibynnu'n drwm ar barhad y trefniant gwaith partneriaethol llwyddiannus rhwng y Gwasanaethau Tai a'r asiantaethau partner statudol ac anstatudol. Mae swyddogion o'r Gwasanaethau Tai yn mynychu nifer o gyfarfod amlasiantaethol megis MAPPA (Trefniadau Diogelu Cyhoeddus Amlasiantaethol), MARAC (Cynhadledd Amlasiantaethol ar gyfer Asesu

Risg), EIT (Tîm Ymyrraeth Gynnar), VARM (Rheoli Risg ar gyfer Oedolion Bregus) a CAP (Partneriaeth Gweithredu Cymunedol) i enwi ond ychydig.

Yn ddiweddar, mae'r swyddogaeth YG wedi cael ei chryfhau yn sgil mabwysiadu Polisi YG newydd a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2016 ac a gafodd ei ddrafftio mewn ymgynghoriad gydag ymarferwyr YG a phanel tenantiaid, sydd erbyn hyn yn ffurfio'r Panel Sgriwtini Tenantiaid ar YG. Bydd y Panel yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro perfformiad yn erbyn yn erbyn nodau ac amcanion y Polisi.

Drwy adrodd ar ein perfformiad i Housemark, bydd ein perfformiad yn cael ei feincnodi yn erbyn darparwyr tai cymdeithasol eraill. Bydd adroddiadau perfformiad chwarterol yn cael eu darparu ar gyfer y Tîm Rheoli Tai ac yn ogystal, bydd adroddiadau blynyddol yn cael eu cyflwyno i'r Bartneriaeth Dai. Dyma enghraifft o'r dangosyddion perfformiad y byddwn yn adrodd arnynt:

- Nifer a natur unrhyw achosion YG newydd fesul math fesul chwarter.
- Nifer yr achosion sy'n cael eu cau bob chwarter (ar ôl eu datrys yn llwyddiannus).
- Manylion am y mesurau (fesul math) a ddefnyddiwyd i ddelio gyda phob cwyn.
- Nifer yr arolygon boddhad cwsmer ynghylch YG a ddychwelwyd a'r ymatebion ynddynt.
- Canlyniadau ar gyfer achwynwyr a dioddefwyr, h.y. y modd y mae ymyrraeth wedi gwella ansawdd bywyd dioddefwyr.

Oherwydd mai prif nod y ddeddfwriaeth newydd yw sicrhau ein bod yn canolbwyntio mwy ar y person wrth ymateb i YG, safon y canlyniadau a'r gwelliant yn ansawdd bywyd y dioddefwr fydd y dangosydd perfformiad pwysicaf

### 3.2.2 Ymgynghori a Chyfathrebu'n Effeithiol

Nid yw'r weledigaeth ar gyfer y strategaeth newydd wedi newid rhyw lawer:

Parheir i fonitro'r strategaeth yn chwarterol drwy adolygu'r Cynllun Gweithredu blynyddol yng nghyfarfodydd Llais Tenantiaid a Swyddogion Môn (MTOV).

Mae MTOV yn gyfle hefyd i wneud newidiadau i'r Cynllun Gweithredu er mwyn sicrhau bod gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r busnes sy'n newid o hyd.

Mae rhaglen waith 2016/17 wedi canolbwyntio ar y meysydd allweddol isod:

- Sicrhau bod tenantiaid yn chwarae rôl weithtredol yn y gwaith o ddatblygu, cyflawni a monitro gwasanaethau tai.

- Sicrhau bod gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid yn cynrychioli'r corff ehangach o denantiaid drwy gynnig amrediad eang o weithgareddau cyfranogi ar wahanol lefelau.

- Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau allanol er mwyn cynyddu'r nifer o weithgareddau cyfranogiad sydd ar gael i denantiaid a sicrhau'r canlyniadau gorau drwy rannu adnoddau a sgiliau.

- Datblygu mentrau i helpu i godi ymwybyddiaeth o Gredyd Cynhwysol a pharatoi tenantiaid a fydd yn cael eu heffeithio.

- Lleihau eithrio digidol a thlodi tanwydd.

- Gwella cyfathrebu gyda thenantiaid a swyddogion.

- Gweithio gyda thenantiaid i ddatblygu eu sgiliau, gwybodaeth a hyder.

### 3.2.3 Canlyniadau llwyddiannus yn y maes Cyfranogiad Tenantiaid

Mae prif lwyddiannau Cyfranogiad Tenantiaid yn ystod 2016 yn cynnwys yr isod:

- Wedi cyllido prosiectau amgylcheddol drwy'r Gronfa Gwella Amgylcheddol a Chymunedol gwerth cyfanswm o £13,170. Mae hyn wedi gwella boddhad cwsmer ac o ganlyniad mae tenantiaid (o'r 12 ardal) bellach yn teimlo'n ddiogel ac yn falch o'r ardal y maent yn byw ynddi.

- Yn ychwanegol at y prosiectau amgylcheddol uchod, gweithiodd y Tîm CT mewn partneriaeth gydag asiantaethau allanol i gyflawni'r isod:
    - 7 o gymorthfeydd Tai/Heddlu.
    - 5 o ddiwrnodau hwyl i deuluoedd i hyrwyddo ymgysylltiad tenantiaid
    - 5 o Sioeau Teithiol Gwledig i hyrwyddo Credyd Cynhwysol a'r newidiadau a ddaw yn o fuan

  Mae'r prosiectau uchod wedi cryfhau trefniadau partneriaeth gyda phartneriaid lleol sy'n gweithredu yn yr ardal ac mae hynny wedi sicrhau mwy o gyfleon i rannu sgiliau ac anoddau.

- Wedi gosod 8 o giosgau yn y cymunedau canlynol; Niwbwrch, Amlwch, Llanfaes, Biwmares, Llangefni (x2), Caergybi (x2). Gellir defnyddio'r ciosgau'n rhad ac am

ddim ac maent wedi eu cysylltu i'r rhyngrwyd. Mae hyn wedi bod o gymorth i leihau'r rhwystrau sy'n wynebu tenantiaid sydd wedi eu heithrio'n ddigidol.

- Yn ychwanegol at yr uchod, llwyddodd y tîm CT i sicrhau cyllid gan BT ar gyfer mynediad rhyngrwyd am ddim am ddwy flynedd yn neuadd gymuned Llanfaes a lolfa gymunedol Aberffraw.

- Wedi cael 3 gwobr gan TPAS Cymru a 2 wobr gan Ffederasiwn Tenantiaid Cymru. Roedd y gwobrau gan TPAS Cymru'n cynnwys y canlynol; 3ydd am y 'Porth Hunanwasanaeth 'Fy Nghartref' a chiosgau cyfrifiadurol i Denantiaid' yn y categori 'Ymgysylltiad Digiol' a'r ail wobr ar gyfer y prosiect 'Brwydro yn erbyn Tlodi Tanwydd' mewn dau gategori sef; *Prosiectau Amgylcheddol* a *Gweithredu Cymunedol*. Roedd gwobrau Ffederasiwn Tenantiaid Cymru'n cynnwys y canlynol; y wobr gyntaf ar gyfer y 'Porth Hunanwasanaeth 'Fy Nghartref' a chiosgau cyfrifiadurol i Denantiaid' yn y categori Arfer Dda mewn cyfathrebu a'r ail wobr am y prosiect 'Brwydro yn erbyn Tlodi Tanwydd' yn y categori 'Prosiectau Blaengar'.

- Wedi cefnogi 6 o grwpiau Tenantiaid a Thrigolion i weithio gyda'u cymunedau a dylanwadu ar y gwelliannau i'r gwasanaeth.

- Cynorthwyo tenantiaid sy'n cyfranogi ar lefel strategol i fynychu cynhadledd a digwyddiadau hyfforddi Rhwydwaith Agored Tenantiaid TPAS Cymru a chynhadledd Ffederasiwn Tenantiaid Cymru sydd wedi bod o gymorth i wella eu sgiliau, hyder a gwybodaeth.

- Wedi cynnal 4 o Fforymau Tai Gwarchod chwarterol gan ddenu rhwng 50 a 100 o denantiaid i bob un. Mae hyn wedi cefnogi'r tîm CT i weithio tuag at ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2016 drwy leihau unigrwydd ac unigedd ymysg tenantiaid mewn oed. Mae'r fforymau'n gyfle hefyd i sicrhau bod tenantiaid sy'n byw mewn cynlluniau tai gwarchod yn cael gwell mynediad at wybodaeth.

- Wedi datblygu 2 o newyddlenni i denantiaid (Llais Môn), sydd wedi helpu i wella cyfathrebu gyda thenantiaid.

- Wedi lansio'r porth hunanwasanaeth 'Fy Nghartref' i Denantiaid. Ar hyn o bryd, mae 102 o denantiaid wedi cofrestru ac yn defnyddio'r porth – cofrestrodd 39 o'r rhain yn ystod 2016. Mae hyn wedi grymuso tenantiaid i gymryd perchenogaeth o'u cyfrifon rhent a diweddaru unrhyw newidiadau yn eu manylion personol. Bwriedir uwchraddio'r porth hunanwasanaeth yn Ebrill 2017.

- Wedi cwblhau'r prosiect 'Brwydro yn Erbyn Tlodi Tanwydd' yn Nwyran a Llangoed gan helpu 30 o denantiaid mewn oed a oedd mewn tlodi tanwydd i ostwng eu biliau ynni o 49c yr uned i 28c yr uned. Yn dilyn y prosiect, cytunodd Calor Gas i ostwng biliau eu holl gwsmeriaid i'r gyfradd is o 28c yr uned.

- Wedi ymgynghori ynghylch yr uchod gyda thenantiaid:

- Ailfodelu Llawr Y Dref
- Gwelliannau i'r A5025
- Newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth warden (mae gwasanaeth newydd bellach wedi cael ei weithredu)
- Gwerthusiad o'r gwasanaeth tasgmon a gynigir i denantiaid mewn oed a phobl (cofrestredig) anabl
- 

**Lluniau Gardd Glan Cefni (amgylcheddol) neu unrhyw lun arall gyda phobl (LLYNIAU ANGEN YMA)**

### 3.2.4 Cyfathrebu – Mewn Print a Chyfryngau Erail

Mae cyfathrebu effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein Tenantiaid, lesddeiliaid a chyfranddeiliaid yn gallu ymgysylltu gyda'n gwaith ac mae'n chwarae rôl allweddol o ran darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y tenant. Yn ystod 2016/17, parhaodd y tim CT i gyfathrebu fel a ganlyn:

Y Wasg Leol

Newyddlenni i Denantiaid

Cyfryngau Cymdeithasol

Y Wefan

Fforymau Tenantiaid a diwrnodau agored

Posteri a Thaflenni

Llyfrynnau a Phamffledi

Mae'r holl denantiaid yn cael cynnig cyhoeddiadau ar ddiwyg sy'n addas ar eu cyfer, megis print bras neu braille.

### 3.2.5 Galluogi ein tenantiaid i dalu eu rhent

Mae modd casglu rhent mewn nifer o wahanol ffyrdd gan gynnwys Debyd Uniongyrchol, archebion sefydlog, Paypoint, Swyddfa'r Post, yn uniongyrchol o gyflogau, drwy gerdyn debyd neu gredyd dros y ffôn, tôn gyffwrdd awtomatig, taliadau ar-lein.

Rydym ar hyn o bryd yn cynnig dyddiadau talu ar gyfer Debyd Uniongyrchol ar unrhyw ddiwrnod o'r mis mewn paratoad ar gyfer Credyd Cynhwysol. Bydd hyn yn golygu y gall tenantiaid dalu eu rhent fel a phryd y maent yn derbyn y taliad Credyd

Cynhwysol. Mae dros 1200 o denantiaid yn talu trwy ddebyd uniongyrchol, sy'n oddeutu 32% o'n stoc.

Mae gwella'r modd yr ydym yn casglu incwm yn hanfodol bwysig er mwyn sicrhau bod cymaint o incwm ag sy'n bosibl yn dod i mewn i'r CRT. Yn ystod Medi 2016, roeddem yn cydymffurfio gyda AUDDIS a oedd yn fodd i ni wella trefniadau gweinyddol a'u gwneud yn fwy effeithlon drwy leihau gwaith papur a chamgymeriadau a phrosesu hawliadau'n gynt. Rhagwelir hefyd yn byddwn yn cydymffurfio gyda gofynion Debyd Uniongyrchol Di-bapur a fydd yn gwella'r trefniadau gweinyddol ymhellach. Gwelwyd cynnydd yn nifer y tenantiaid sy'n talu drwy archebion sefydlog a bydd app symudol newydd ar gael i wneud taliadau drwy App Môn.

Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr Adran Dai a'r Adain Budd-daliadau Tai wedi cael ei gynhyrchu a'i gytuno a bydd o gymorth i wella'r gwasanaeth. Hefyd, cynhelir cyfarfod bob pythefnos i wella cyfathrebu, rhannu data ystadegol a gwella amseroedd prosesu, datblygu ymagwedd gorfforaethol tuag at adennill dyledion a rhannu diweddariadau mewn perthynas â'r newidiadau yn y rheoliadau a'r ddeddfwriaeth.

Yn ystod Awst 2016, fe wnaethom gyflwyno 'Tenantiaethau Dyddiol' a fydd yn gymorth i ni ail-osod tai yn gynt a sicrhau'r incwm mwyaf.

### 3.2.6 Tlodi a Chynhwysiad Cymdeithasol

#### Diwygio Lles

Mae tenantiaid yn dweud wrthym eu bod y dymuno i'r Gwasanaethau Tai barhau i'w cefnogi drwy'r newidiadau mewn budd-daliadau lles. Mae'r rhaglen Diwygio Lles yn parhau i gael ei hymestyn ar draws Ynys Môn ac erbyn Ebrill 2018, disgwylir y bydd Credyd Cynhwysol wedi cael ei ymestyn i bawb sy'n hawlio budd-daliadau ar yr ynys. Bydd hyn yn newid diwylliant i hawlwyr budd-daliadau ac er mwyn cefnogi ein Tenantiaid drwy'r newidiadau hyn, byddwn:

- Yn gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cynghori a rhoi cymorth ymarferol i'r tenantiaid cyfredol a darpar denantiaid;
- Yn darparu cymorth cyn-tenantiaeth ac yn cefnogi ac yn nodi'n gynnar y tenantiaid hynny a all gael anhawster talu eu rhent ar amser;
- Yn darparu cefnogaeth a chyngor i Denantiaid sydd wedi cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y newidiadau Credyd Cynhwysol a gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill megis CG Môn, CAB, Shelter Cymru;

- Yn gweithio'n agos gyda'r Adran Waith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith ar ymestyn Credyd Cynhwysol;
- Yn helpu tenantiaid i sicrhau eu bod yn cael yr incwm mwyaf posib a'u bod yn gallu rheoli cyllideb eu haelwydydd;
- Yn darparu amrediad o opsiynau talu cyfleus er mwyn ei gwneud yn haws i Denantiaid dalu eu rhenti;
- Yn gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Digartref i gynllunio ac arbrofi gyda mentrau a fydd yn cefnogi llety a chymorth i bobl sengl, yn enwedig i bobl dan 35 oed sydd wedi eu heffeithio gan Ddiwygio Lles.

**Tlodi Tanwydd**

Mae tlodi tanwydd (lle mae pobl yn gwario rhagor na 10% o incwm y cartref ar filiau tanwydd) yn parhau i fod yn broblem i nifer o deuluoedd. Er mwyn cynorthwyo ein Tenantiaid i arbed arian ar eu biliau tanwydd, byddwn:

- Yn hyrwyddo amrediad o fentrau i gefnogi tenantiaid i fynd i'r afael â thlodi tanwydd;
- Yn parhau i ymestyn cynlluniau a fydd yn gwneud ein cartrefi'n fwy ynni-effeithlon, gyda'r nod o sicrhau cynnydd yn nifer yr eiddo sydd â sgôr ynni sy'n uwch na 65.

**Cefnogi pobl i mewn i gyfleoedd hyfforddiant, gwirfoddoli a gwaith**

Mae cefnogi pobl i mewn i gyfleoedd hyfforddiant, gwirfoddoli a gwaith yn cynyddu incwm y teulu, ond daw hefyd â manteision o safbwynt iechyd a llesiant i unigolion a'u teuluoedd. Mae nifer o gyfleon gwaith ar gael ar yr Ynys a nifer o fentrau wrthi'n cael eu datblygu i helpu i gefnogi Tenantiaid a'u teuluoedd i fanteisio ar gyfleon hyfforddiant a gwaith yn y dyfodol. Er mwyn cefnogi ein Tenantiaid, byddwn:

- Yn cefnogi Tenantiaid sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir i mewn i waith drwy raglenni megis Esgyn, Cymunedau ar gyfer Gwaith ac Opus;
- Yn parhau i weithio, datblygu a hyrwyddo cyfleon dysgu gydol oes gyda Choleg Llandrillo-Menai, CG Môn CF ac Opus lle bydd Tenantiaid efallai yn dymuno manteisio ar y cyfleon a'r gefnogaeth;
- Yn gweithio gyda Chanolfan Byd Gwaith i wneud y mwyaf o'r cyfleon cyflogaeth sydd ar gael;
- Yn edrych ar arbrofi i ddatblygu mentrau cymdeithasol gyda'n Tenantiaid.

**Cynhwysiad Digidol**

Mae ein Tenantiaid yn dweud wrthym yr hoffent i ni wneud mwy i'w helpu i wella eu sgiliau a'u galluoedd digidol. I'r perwyl hwn, byddwn:

- Yn hyrwyddo mynediad Tenantiaid i'r porth 'Fy Nghartref' fel y gallent edrych ar eu cyfrifon rhent, gwneud taliadau, rhoi gwybod i ni am waith trwsio y mae angen ei wneud a monitro cynnydd yn hynny o beth;
- Yn ceisio darganfod pa wasanaethau yr hoffai ein Tenantiaid gael mynediad iddynt ar y rhyngrwyd;
- Yn gweithio gyda chydweithwyr yn ein Gwasanaeth Gwybodaeth a Thechnoleg i ymestyn strategaeth ddigidol y Cyngor a buddsoddi mewn cyfleusterau wi-fi yn y cyfan o'n lolfeydd cymunedol dros y 12-18 mis nesaf

Yn ystod mis Mawrth 2016, cafodd y trefniadau ar gyfer y Cynllun Yswiriant Cynnwys Cartrefi i Denantiaid ei adolygu gan olygu bod y telerau a gynigiwyd i denantiaid yn well a'r premiymau'n is er mwyn ei wneud yn fwy fforddiadwy a rhoddi gwerth ardderchog am arian.

### 3.2.7 Tai anodd i'w gosod / galw isel amdanynt

Cydnabyddir gan lawer fod y galw am eiddo, yn gyffredinol, yn llawer uwch na'r cyflenwad sydd ar gael ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, mae rhai eiddo'n anos i'w gosod nag eraill a chyfeirir at y rhain fel 'Tai Anodd eu Gosod' (TAG).

Caiff eiddo eu categoreiddio fel TAG os bodlonir un neu fwy o'r amodau a ganlyn:

- Eiddo sydd wedi cael ei wrthod dair gwaith yn olynol
- Nid oes neb ar ôl ar y rhestyr aros am y math penodol hwnnw o eiddo
- Eiddo'n dod yn wag ar stad lle mae yna eiddo eisoes sy'n anodd eu gosod

Mae mwyafrif y TAG yn hanesyddol mewn cynlluniau tai gwarchod sydd â meini prawf gosod penodol (rhaid i denantiaid fod yn 60+ a / neu wedi'u cofrestru'n anabl).

Mae'r problemau mwyaf niferus wedi ymwneud ag un cynllun penodol a ddatblygwyd yn 1982, sef 'Llawr y Dref', Llangefni lle ceir 24 o unedau gwarchod gyda nifer ohonynt sydd ddim ar y llawr gwaelod a dim lifft ar gael. Cydnabu hefyd fod y llety ei

hun yn hynod fach ac mae darpar denantiaid wedi nodi hyn fel rheswm dros eu gwrthod..

Yn dilyn proses ymgynghori gynhwysfawr gyda thenantiaid a chydranddeiliaid allweddol eraill, byddwn yn cychwyn ar raglen ailfodelu sylweddol ar gyfer cynllun Llawr y Dref a fydd yn cynnwys gosod lifft yn yr adeilad, ailfodelu'r fflatiau unigol i wneud y defnydd gorau posibl o'r arwynebedd llawr y tu mewn i'r unedau a gwella'r cyfleusterau cymunedol sydd ar gael yn y cynllun.

O ganlyniad i'r gwaith ailfodelu, disgwylir y bydd modd gosod y cyfan o'r unedau.

**Camgyfatebu stoc**

O bryd i'w gilydd bydd nifer o eiddo yn cael eu categoreiddio fel TAG ac yn aml, bydd y rhain mewn ardaloedd yn y cefn gwlad lle nad oes fawr o fwynderau cyhoeddus a chysylltiadau trafnidiaeth.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn arbrofi gyda dulliau eraill o osod eiddo TAG, sef drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Dyma enghraifft o hysbyseb yn ddiweddar:




### 3.2.8 Diwygio Rhenti

Yn seiliedig ar y 'rhent targed' diwygiedig ym mholisi Llywodraeth Cymru ar Renti Tai Cymdeithasol, dyma rent targed Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer pob math o eiddo yn 2017/18:-

| **Math o Eiddo** | **Rhent Targed ar gyfer 2016/17** |
|---|---|
| Fflatiau Un Ystafell | £65.23 |
| Fflat un Ystafell Wely | £73.39 |
| Fflat dwy Ystafell Wely | £81.54 |
| Fflat tair Ystafell Wely | £89.69 |

| | |
|---|---|
| Fflat pedair Ystafell Wely | £97.85 |
| Tŷ un Ystafell Wely | £81.11 |
| Tŷ dwy Ystafell Wely | £90.13 |
| Tŷ tair Ystafell Wely | £99.13 |
| Tŷ pedair Ystafell Wely | £108.14 |
| Tŷ pump Ystafell Wely neu fwy | £117.16 |

Gan ddefnyddio'r ffigyrau uchod, mae 2,966 eiddo dan y rhent targed, 71 eiddo uwchben y targed a 743 ar darged. Mae hyn yn gyfanswm o 78.46%, 1.88% a 19.66% o'n stoc.

Er mwyn cyflawni'r ffigyrau rhent targed cyfredol, bwriad y Cyngor yw cynyddu'r rhent trwy ddefnyddio'r fformiwla Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) + 1.5% + £2 yr wythnos ar gyfer yr holl eiddo dan y targed a bydd hyn wedi'i gyflawni erbyn tua 2022/23.

Collwyd £208,000 yn 2015-16 oherwydd bod eiddo'n wag o gymharu â £193,000 yn 2016-17 tra collwyd £69,000 yn 2015-16 ar incwm rhent o garejis o gymharu â £62,000 yn 2016-17.

### 3.2.9 Gwasanaethau Prydles a Chodi am Wasanaethau

Yn y tabl hwn dangosir cost flynyddol pob gwasanaeth a nifer yr eiddo y bydd yn cael effaith arnynt:

| **Gwasanaeth** | **Cost flynyddol fras £'000** | **Nifer fras yr eiddo y mae'n cael effaith arnynt** |
|---|---|---|
| Cynnal a chadw tir | 95 | 788 |
| System agor drysau | 10.8 | 788 |
| Larwm ac offer tân | 7 | 99 |

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Lifft | 10.8 | 788 |
| Gwres a Goleuo mannau cyffredin | 17.9 | 788 |
| Erial Gyffredin | 5 | 1100 |
| Glanhau mannau cyffredin | 2 | 130 |
| Paentio mannau cyffredin | 26 | 232 |
| Carthffosiaeth | 15.4 | 88 |
| Rheoli | 11.3 | 972 |
| **Cyfanswm** | **221.2** | |

O gyfanswm costau'r gwasanaethau y codir arnynt, rydym yn disgwyl adennill oddeutu £144.8k oherwydd bod tenantiaid yn cael eu hesgusodi rhag talu am Gynnal a Chadw Tir.

O gymharu â chostau'r flwyddyn flaenorol, mae'r cyfanswm wedi cynyddu ychydig oherwydd bod y ffigyrau'n rhai gwirioneddol .

### 3.2.10 Cefnogi ein Tenantiaid yn eu cartrefi eu hunain

Yn dilyn y gofyniad mandadol gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl hŷn yn seiliedig ar angen yn hytrach na deiliadaeth, mae'r Cyngor wedi ailgyflunio'r modd y mae'n darparu cymorth ar gyfer Pobl Hŷn.

Cafodd y gwasanaeth warden hanesyddol mewn 490 o unedau llety gwarchod y cyngor ei ddigomisiynu oherwydd nad oedd y gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian.

Cyn cwblhau'r gwaith ailgyflunio, dim ond 9.8% o'r ddarpariaeth oedd yn seiliedig ar angen. Mae'r model diwygiedig wedi cael ei ymestyn i gynnwys y gymuned ehangach ac mae'n cynnwys pobl sy'n byw ynddynt fel perchen ddeiliaid, pobl mewn cartrefi anghenion cyffredinol neu bobl yn y sector rhentu preifat. Mae mynediad i'r gwasanaeth bellach yn deg ac os aseswyd bod pobl angen cymorth / ymyrraeth uniongyrchol neu wasanaeth larwm, darperir cymorth uniongyrchol yn rhad ac am ddim.

Mae'r gwasanaeth wedi bod yn cael ei ddarparu gan Gorwel sy'n rhan o Grŵp Cynefin. Mae gan y gwasanaeth gapasiti i gefnogi hyd at 460 o ddefnyddwyr gwasanaeth bob wythnos. Gall hyd at 380 o bobl dderbyn cymorth am hyd at 40 munud yr wythnos, tra bod 80 arall a chanddynt anghenion mwy cymhleth yn cael

awr yr un. Mae hyn yn golygu y gellir darparu 331 o oriau o gymorth sy'n gysylltiedig â thai i hyd at 460 o bobl sy'n 50 oed neu'n hŷn bob wythnos.

Mae'r cymorth a roddir yn cynnwys

- Helpu rhywun sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i ddod o hyd i rywle i fyw ymhen 56 diwrnod.
- Darparu pecyn cymorth a fydd yn fodd i berson bregus gynnal tenantiaeth a lliniaru'r risg y bydd y denantiaeth yn torri i lawr ac/neu'r person yn cael ei droi allan o'i gartref.
- Darparu cymorth gyda dyledion rhent, rheoli dyledion a sgiliau trin arian.
- Cefnogi'r defnyddiwr gwasanaeth i hawlio budd-daliadau lles a chynorthwyo a galluogi'r unigolyn i dderbyn y budd-daliadau y mae ganddo/ganddi'r hawl i'w derbyn ac i ddelio gydag asiantaethau perthnasol.
- Cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau bod eu llety'n ddiogel, e.e. egluro sut i gloi a rheoli mynediad priodol.
- Annog a chymell y defnyddiwr gwasanaeth i gadw unrhyw apwyntiadau sy'n ymwneud â gwella eu gallu i gynnal eu hunain yn eu llety.
- Annog a chymell defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac i gael yr hyder angenrheidiol i deimlo'n rhan o'r gymuned ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau o ddiddordeb.
- Hyrwyddo, annog a chymell defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu'r sgiliau bywyd angenrheidiol megis coginio, glanhau a golchi dillad.
- Darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i alluogi'r defnyddiwr gwasanaeth i gael at gyfleon addysg, hyfforddiant ac/neu gyfleon hyfforddiant priodol.
- Cynnal ymweliadau lles yn achos y sawl oedd yn eu derbyn fel rhan o'r gwasanaeth warden ac yr aseswyd bod eu hangen am y gwasanaeth yn parhau. Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth hon yn gostwng dros amser a byddir yn canolbwyntio mwy ar ymyrraeth wedi ei thargedau ac ymyrraeth arbenigol.
- Darparu cyngor ynghylch symud ymlaen a chyfleon ar gyfer cael tai parhaol.

Mae'n un o amcanion corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn i sefydlu hybiau cymunedol sy'n pontio'r cenedlaethau a drwy wneud hynny, gyfrannu'n sylweddol at greu cymunedau cryf a dabtlygu unigolion a theuluoedd gwydn.

Mae nifer o wahanol fodelau o hybiau cymunedol ar gael a fydd yn darparu canolbwynt ar gyfer gwella ansawdd bywydau pobl. Gweledigaeth y Cyngor yw datblygu a defnyddio asedau cyfredol megis Llety Gofal Ychwanegol a Chynlluniau Tai Gwarchod, Canolfannau Cymuned a Hamdden ynghyd â Llyfrgelloedd, fel lleoliad a fydd yn darparu amrediad o weithgareddau a gwasanaethau cymorth gan gynnwys cymorth a gwybodaeth, cyfeillio, cludiant ac ati. Bydd gan Hyb Cymunedol berthnasau gweithio cryf gyda gwasanaethau eraill yn y gymuned leol a dylai weithredu fel canolfan ar gyfer gwasanaethau allgymorth a chyfeirio pobl i wasanaethau lleol eraill. Bwriad y Cyngor yw cael dewislen o opsiynau y gall dinasyddion gael mynediad iddynt drwy ddefnyddio'r strwythurau cyfredol, e.e.pwynt mynediad sengl i'r trydydd sector, cydlyniant yn yr ardal leol a mynediad i hybiau cymunedol ym mhob ardal ddaearyddol ddynodedig.

### 3.2.11 Gwaith Addasu yn y Sector Cyhoeddus

Mae'r gyllideb yn cynnwys swm o £350k ar gyfer gwaith addasu sylweddol i bobl anabl. Mae gwaith nodweddiadol yn cynnwys gosod liffitiau ar risiau, darparu cawodydd mynediad gwastad ac estyniadau.

Bydd mân addasiadau megis gosod rheiliau llaw yn parhau i gael eu cyllido drwy'r gyllideb refeniw. Mae'r Gwasanaethau Tai hefyd yn gweithredu'r grant Hwyluso ar ran Llywodraeth Cymru.

### 3.2.12 Diogelu

Mae deddfwriaeth y Llywodraeth yn rhoi dyletswydd ar bob sefydliad i hyrwyddo diogelu. Fel staff Cyngor Sir Ynys Môn, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae o ran hyrwyddo llesiant a diogelu plant ac oedolion yn ein cymunedau sydd, fe ystyrir, naill ai'n 'fregus' neu 'mewn perygl', waeth beth yw ein swyddogaethau unigol.

Mae holl staff y Gwasanaethau Tai wedi derbyn canllawiau sy'n amlinellu'r hyn a olygir gan 'gamdriniaeth', 'esgeulustod' a chamfantis a sut i adnabod yr arwyddion a beth i'w wneud os oes gennych amheuon. Mae hyn yn cydymffurfio gyda'r Polisi Diogelu Corfforaethol a ddiweddarwyd yn 2016 a'r cynllun gweithredu cysylltiedig sy'n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn.

Mae'r Gwasanaeth Tai wedi datblygu ei bolisi ei hun mewn perthynas â chamdriniaeth ddomestig ac mae'r holl staff wedi cael eu briffio ar y gweithdrefnau diogelu a'r profion statudol ar gyfer gwneud cyfeiriadau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn y Cyngor yn nodi'r nodau ac amcanion diogelu y mae'n rhaid i'r holl Benaethiaid Gwasanaeth eu monitro ac adrodd arnynt yn fylynyddol yn unol â'r Cynllun Gweithredu Corfforaethol ar gyfer Diogelu a gaiff ei adolygu bob blwyddyn.

Darperir hyfforddiant priodol mewn perthynas â Threfniadau Recriwtio Diogel ac yn unol â'r trefniadau hynny, caiff yr holl staff a benodir wiriad GDG â gwiriadau cyn cyflogi ac yn ogystal, rhaid derbyn geirdaon boddhaol cyn iddynt gychwyn yn y swydd.

### 3.2.13 Pwynt Mynediad Sengl Cefnogi Pobl

Mae cynllun busnes yn argymell sefydlu Pwynt Mynediad Sengl / Swyddog Porth wedi cael ei gymeradwyo gan y Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl. Yn wahanol i reolaeth a gweinyddiaeth gyffredinol y Rhaglen Cefnogi Pobl, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y swydd Porth fel prosiect ynddo'i hun ac o'r herwydd, gellir defnyddio cyllid grant blynyddol i'r diben hwn.

Rhagwelir y bydd y ffordd newydd o ddelio ag atgyfeiriadau gan ddyrannu'n briodol ac yn amserol, yn weithredol erbyn dechrau Mehefin 2017. Mae manteision y rôl yn cynnwys:

- Gweld symudiad yn y modd y rheolir y broses atgyfeirio sydd ar hyn yn gyfrifoldeb ar ddarparwyr CP yn Ynys Môn
- Monitro'n well y swyddi gweigion ar draws y sector
- Lleihau lleoedd gweigion neu oriau dynodedig nad ydynt yn cael eu defnyddio o fewn prosiectau;
- Hwyluso mynediad gwell a haws i wasanaethau ar gyfer ein defnyddwyr gwasanaeth mwyaf bregus;
- Darparu teclyn rheoli mwy cadarn er mwyn gwella'r gwaith o fonitro darparwyr gwasanaeth;
- Sicrhau bod Ynys Môn yn gweithio yn yr un moddh â'r mwyafrif helaeth o Awdurdodau Lleol yng Nghymru sydd wedi gweithredu'r agwedd hon, yn cynnwys 4 allan o'r 6 Awdurdod Lleol yng Nghymru.
- Hwyluso a gwella cyfathrebu ac arferion gwaith rhwng y timau Cefnogi Pobl ac Opsiynau Tai a'r Tîm Un Pwynt Mynediad yn y Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Sicrhau bod agwedd fwy strategol yn cael ei chymryd tuag at ddatblygu gwasanaethau a datrysiadau tai cynaliadwy a bod y Rhaglen Cefnogi Pobl yn ymateb i anghenion presennol ac anghenion sy'n codi;
- Cynorthwyo i leihau bylchau o ran anghenion gwasanaeth a llety.

Amcangyfrifir mai cost gweithredu'r gwasanaeth hwn fydd £50,000 (yn cynnwys costau parhaus a'r holl gostau swyddfa gefn – a ariennir yn llawn drwy Gefnogi Pobl). Bydd hyn yn cynnwys un swyddog amser llawn ac efallai y bydd angen cymorth gweinyddol ychwanegol.

### 3.2.14 Cymorth Lefel Isel Fel y bo'r Angen

Yn dilyn trafodaethau gyda darparwyr cymorth yn ymwneud â thai a rhanddeiliaid, mae wedi dod i'r amlwg fod nifer o bobl sydd ag anghenion, yn dal i fod yn fregus wedi i'r cyfnod o gefnogaeth ddod i ben. Gall cyfnod o gefnogaeth bara am hyd at ddwy flynedd a gall gynnwys cyfnodau mewn hostel, lloches, tai gyda chymorth, llety

symud ymlaen a / neu gymorth fel bo'r angen neu gyfuniad o unrhyw un o'r mathau hyn o lety. Mae darparwyr o'r farn bod eu hamser ac ymdrechion wrth ddarparu'r cymorth hwn yn cael ei danbrisio ac nad yw dod â chymorth i ben bob amser yn gwneud y defnydd gorau o gyllid Cefnogi Pobl. Cydnabyddir y bydd rhai pobl angen ymyrraeth tymor byr o bryd i'w gilydd yn eu bywydau. Y bobl sydd fwyaf tebygol o elwa o wasanaeth o'r fath yw'r rheini ag anawsterau dysgu nad ydynt yn bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer cofrestru anabledd dysgu, iechyd meddwl lefel isel, megis gorbryder ac arwyddion cynnar o iselder a phobl hŷn sydd ar eu pennau eu hunain a'r rhai hynny sydd â thueddiadau anhrefnus ar draws y meysydd gwasanaeth. Gallai problemau o'r fath, heb yr ymyrraeth gynnar angenrheidiol, arwain at broblemau o ran trin arian, rheoli dyledion neu ôl-ddyledion rhent ar draws y Cyngor, y cymdeithasau tai ac eiddo sector preifat.

Rhagwelir y bydd modd cysylltu â'r gwasanaeth ar fyr rybudd wedi i'r defnyddiwr gwasanaeth, aelod o'r teulu a sefydliad statudol neu sefydliad trydydd sector nodi pwynt sbardun. Rhagwelir y bydd cefnogaeth yn para am gyfnod byr iawn ac y dylai gyfrannu tuag atal sefyllfa rhag dwysau i lefel o argyfwng posib sy'n golygu y bydd y person yn mynd yn ôl i mewn i'r system brif ffrwd a gyfer tai â chymorth / cymorth yn ôl yr angen. Byddai'r gwasanaeth hefyd yn cydymffurfio â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, lle mae'r angen cynyddol a'r cymorth cywir ar gael ar yr adeg gywir.

### 3.2.15 Hawl i Brynu

O dan Ddeddf Tai 1985, rhaid i'r Cyngor werthu tai Cyngor i denantiaid cymwys am bris gostyngol sydd ar hyn o bryd yn £8,000.

Ers cyflwyno'r Hawl i Brynu tua 35 mlynedd yn ôl, mae'r Awdurdod wedi gweld gostyngiad o tua 3,100 o unedau yn ei stoc dai.

Yn ystod 2016/17 fe gyflwynodd y Cyngor gais i Lywodraeth Cymru i gael atal yr Hawl i Brynu i denantiaid am gyfnod o 5 mlynedd.

Ar 6 Medi, 2016 cafwyd cadarnhad gan Carl Sargent AC, yr Aelod Cabinet ar gyfer Cymunedau a Phlant, bod Ynys Môn wedi cael yr hawl i atal Hawl i Brynu am gyfnod o 5 mlynedd hyd at 6 Medi 2021.

Rhagwelir y bydd y cyfnod gwahardd pum mlynedd ynghyd â'n rhaglen i ddatblygu adeiladau newydd yn ein galluogi ni i gynyddu ein stoc dai a lliniaru'r risgiau a ddaw yn sgil y cynnydd yn y galw am ddisgwylir am dai rhent cymdeithasol fforddiadwy ar yr Ynys o ganlyniad i'r datblygiadau economaidd sylweddol sydd ar y gweill.

### 3.2.16 Trawsnewid Gwasanaeth

Yn ystod 2016-2017 fe ailstrwythurwyd y Gwasanaethau tai a daeth hyn yn weithredol ar 1 Awst, 2017. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth bellach yn derbyn cymorth gan bedwar Uwch Reolwr, a fydd yn rhoi'r Gwasanaeth mewn llawer gwell sefyllfa er mwyn gallu cyflawni'r Cynllun Busnes uchelgeisiol newydd a fydd yn adlewyrchu disgwyliadau cenedlaethol a

lleol a chyfleoedd sydd wedi codi o ganlyniad i Ddeddf Tai (Cymru) 2014, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant 2015, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a hefyd cyfleoedd a fydd yn cael eu creu gan raglenni economaidd sylweddol a allai gael eu datblygu ar yr Ynys.

Mae'r gwaith o ailfodelu ein Gwasanaeth Wardeiniaid wedi sicrhau bod y rhai hynny sydd angen cymorth yn derbyn y lefel mwyaf priodol o gyswllt sy'n addas ar gyfer eu hanghenion a bod pobl hŷn hefyd yn cael cymorth i fyw'n annibynnol o fewn eu cymunedau.

**Cyswllt Môn**

Un o'r prif yrwyr ar gyfer newid o fewn y Prosiect Gweithio'n Gallach oedd gwella gwasanaeth i gwsmeriaid. Cyflawnwyd hyn yn 2016 drwy gyflwyno dull symlach o gyfathrebu gyda Gwasanaethau'r Cyngor. Cafodd 6 derbynfa, mewn 3 o adeiladau a oedd yn berchen i'r Cyngor, eu hailstrwythuro er mwyn creu Siop Un Stop ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor (Cyswllt Môn).

Mae Cyswllt Môn yn ffordd gyflymach, llai cymhleth i gwsmeriaid gysylltu â'r Cyngor a gellir delio ag ymholiadau o un lleoliad drwy gymorth ymgynghorydd cymwys sy'n gallu cynnig gwybodaeth fanwl, cefnogaeth ac arweiniad drwy gyfarfod â'r Gwasanaeth yn uniongyrchol neu'n annibynnol drwy ddefnyddio mannau hunanwasanaeth.

Mae 5 ystafell gyfweld, desg fawr, ardal eistedd foethus ac ardal hunan-wasaneth ar gael i gwsmeriaid a staff y Cyngor eu defnyddio wrth gefnogi neu gyfarfod cwsmeriaid.

Mae Cwsmeriaid bellach yn gallu ymweld â'r Cyngor drwy Cyswllt Môn a bydd yr un person yn delio gyda'u hymholiadau ar yr un diwrnod gan osgoi'r angen i fynd o un Gwasanaeth i'r llall. Mae ymholiadau'n amrywio o geisiadau am Fathodyn Glas neu Garej Cyngor i hysbysu'r Cyngor am dyllau yn y ffordd neu gael cymorth gan yr adain Cynnal a Chadw Tai i ymholi am geisiadau cynllunio neu holi am gasgliadau gwastraff.

Cyn agor Cyswllt Môn, gosodwyd peiriant 'Hapus neu Drist' er mwyn monitro bodlonrwydd cwsmeriaid. Mae'r un ymarfer wedi bod yn cael ei ddefnyddio ers agor Cyswllt Môn a gwelwyd cynnydd o 36% yn lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid ers agor y Siop Un Stop.



**Galw Gofal - allanoli'r gwasanaeth y tu allan i oriau**

Roedd y gwasanaeth Monitro Galwadau y Tu Allan i Oriau ar gyfer Atgyweiriadau Brys (OOH) yn cynnwys cael lle i reolwyr/goruchwylwyr dderbyn galwadau y tu allan i oriau craidd y gwasanaeth o rhwng 8:00am a 5:00pm. Roedd y wybodaeth o'r galwadau a dderbyniwyd yn galluogi'r rheolwr/goruchwyliwr i asesu natur y gwaith atgyweirio a dyrannu blaenoriaeth iddo.

Os oedd angen gwneud gwaith atgyweirio brys yn dilyn yr alwad, roedd y Rheolwr/Goruchwyliwr awdurdod i ddyrannu'r gwaith i'r gweithiwr priodol a fyddai'n mynychu'r gwaith atgyweirio perthnasol.

Yn y gorffennol, roedd y cyfleuster yn costio £13,890.24 y flwyddyn i'r awdurdod ddelio â thua 1400 o alwadau'r flwyddyn.

Yn dilyn asesiad dichonolrwydd rhoddwyd Galw Gofal ar gynllun peilot 3 mis yn Chwefror 2016 er mwyn rheoli'r gwasanaeth monitro tu allan i oriau. Yn ôl canlyniadau'r cynllun peilot, roeddem yn darparu gwasanaeth mwy proffesiynol a chyson i'n cwsmeriaid ac roedd hyn yn amlwg o'r adborth gan ein cwsmeriaid a'r tenantiaid sy'n aelodau ar y Fforwm Atgyweiriadau.

Gall Galw Gofal ddarparu adroddiadau sy'n ein galluogi i ddadansoddi tueddiadau yn y gwasanaeth atgyweiriadau OOH gan gynnwys y math o waith atgyweirio, amseriad, effeithiau tymhorol a phrif ardaloedd daearyddol. Yn sgil llwyddiant y cyfnod peilot, symudwyd ymlaen i ddarpariaeth flynyddol lawn o fis Mai 2016 ymlaen.

Gwerth ychwanegol o'r ddarpariaeth hon yw'r diogelwch y mae'n ei rhoddi i weithwyr sy'n gweithio ar eu pennau ein hunain oherwydd rydym wedi sefydlu cyfnod digyswllt o ddwy awr ar gyfer ein gweithwyr OOH. wedi'i sefydlu. Mae'n rhaid i'r gweithiwr

gysylltu â Galw Gofal wedi i'r gwaith gael ei gwblhau neu os oes dwy awr wedi pasio bydd Galw Gofal yn cysylltu â'r gweithiwr am adroddiad.

**Allanoli'r swyddogaeth storfeydd yn yr Uned Cynnal a Chadw Tai**

Mae'r gwasanaeth Trwsio a Chynnal a Chadw ar hyn o bryd yn cael ei ddarparu drwy wasanaeth storfa ganolog sydd wedi'i lleoli yng Ngaerwen ac sy'n cyflenwi holl stoc dai CSYM yn Ynys Môn. Yn dilyn proses dendro, penodwyd Jewson fel prif weithredwyr un storfa ganolog gyda chytundeb i gadw hyd at 1500 o eitemau safonol gyda chefnogaeth rhwydwaith ategol y darparwyr eu hunain o storfeydd dosbarthu gyda stoc o rhwng 200 a 500 o linellau o stoc safonol. Disgwylir y bydd y ddarpariaeth yn cael ei hallanoli'n derfynol erbyn Ebrill 2017.

Mae CSYM yn ystyried y bydd darparu'r gwasanaeth trwsio drwy'r math hwn o gytundeb yn cynhyrchu'r canlyniadau gorau yn y tymor hir. Yn amodol ar berfformiad boddhaol a bodloni'r datblygiadau o ran Dangosyddion Perfformiad Allweddol, rhagwelir y bydd gweddill Cyflenwadau'r Deunyddiau Adeiladu yn parhau o Ebrill 2019 ar gyfer y Gwasanaeth Atgyweiriadau Ymatebol a hynny am 3 blynedd ychwanegol.

Bydd hyn yn fodd i CSYM, y Cyflenwr a'i gadwyn gyflenwi sicrhau cytundebau cyflenwi cyfaint uchel ar gyfer yr hirdymor gan olygu y gellir cadw prisiau'n isel, bod y Cyflenwr yn dod yn fwy effeithlon wrth i wersi gael eu dysgu ac wrth i'r gweithredwyr ddod yn fwy cyfarwydd â'r anghenion contract a'r arloesedd a gyflwynir gan y Cyflenwr fel rhan o'r ymgyrch gyffredinol am welliant parhaus.

### 3.2.17 Y gyrwyr allweddol ar gyfer y Gwasanaeth Trwsio a Chynnal a Chadw

Gweledigaeth y gwasanaeth yw ei fod "yn darparu gwasanaeth rhagorol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac yn ymrwymo i ddarparu gwasanaethau modern, effeithlon, o safon uchel a werthfawrogir gan ein cwsmeriaid." Cyflawnir hyn drwy welliant parhaus drwy ymgynghori gyda'n Fforwm Tenantiaid a'n holl gleientiaid a chael atborth ganddynt a herio'n barhaus y modd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau trwsio a chynnal a chadw tai.

Gwneir hyn drwy:

- Sicrhau bod asedau'n cael eu cynnal a'u cadw mewn ffordd fwy effeithlon sydd wedi'i chynllunio, sy'n gynaliadwy ac sy'n fforddiadwy
- Darparu gwasanaeth trwsio a chynnal a chadw cost effeithiol sydd ag ethos 'yn gywir y tro cyntaf'.
- Sicrhau bod cartrefi'n cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel ac yn bodloni'r holl oblygiadau statudol
- Datblygu'r fframwaith rheoli perfformiad er mwyn i'r gwasanaeth trwsio allu cyflawni canlyniadau go iawn ar gyfer ei gwsmeriaid.
- Sefydlu gwasaneth cynnal a chadw sy'n seiliedig ar apwyntiadau.

## 4.0 Rheoli Asedau

### 4.1.1 Cydymffurfio gyda SATC a'r Strategaeth Fuddsoddi

Cyngor Sir Ynys Môn oedd un o'r awdurdodau cyntaf i gwrdd â safonau SATC yn ôl yn 2012. Yn ôl "Cartrefi Gwell i Bobl Cymru" gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw y bydd "pob aelwyd yng Nghymru … yn cael y cyfle i fyw mewn anheddau o ansawdd dda sydd" :-

- mewn cyflwr da
- yn saff a diogel
- wedi'u gwresogi'n ddiogel, yn rhad ar danwydd ac wedi'u hinsiwleiddio'n dda
- ag iddynt geginau ac ystafelloedd ymolchi modern
- yn cael eu rheoli'n dda
- mewn amgylchedd deniadol a saff
- i'r graddau y mae hynny'n bosibl, yn cwrdd â gofynion penodol yr aelwyd (e.e. anableddau penodol)

Mae cylch bywyd y cydrannau y caniatawyd ar eu cyfer yn ein rhagamcanion cost 30 mlynedd yn cynnwys:

- Cegin – 15 mlynedd
- Ystafell Molchi – 25 mlynedd
- Bwyleri – 15 mlynedd
- Gwresogyddion – 25 mlynedd
- Ail weirio llawn – 25 mlynedd

Rydym yn fodlon bod yr holl eiddo, lle bynnag bo hynny'n ymarferol bosibl, yn cwrdd â SATC ac eithrio'r rhai sy'n cael eu gwrthod neu rai sy'n cwrdd â meini prawf methiant derbyniol. Bydd gwaith gwella ar eiddo a wrthodwyd yn y gorffennol yn cael ei wneud yn awtomatig ar adeg Newid Tenantiaeth. Ni fedrwn ond ystyried cofnodi methiant derbyniol petai cost y gwaith unioni yn anymarferol o safbwynt economaidd.

Mae'r tabl canlynol yn cadarnhau ein sefyllfa bresennol o ran adnewyddu'r elfennau craidd:

| Elfen | Cyfanswm sydd wedi'i gynnwys yn yr arolwg sgopio gwreiddiol ar gyfer adnewyddu | Cyfanswm hyd yma | Gwrthodwyd gan Denantiaid | Cyfanswm yr eiddo nad ydynt wedi'u hadnabod yn yr arolwg sgopio ar gyfer adnewyddu |
|---|---|---|---|---|
| **Cegin** | 3073 | 3407 | 220 | 151 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ystafelloedd molchi / cawodydd mynediad gwastad** | 2271 | 3253 | 160 | 365 |
| **Ail-weirio** | 1543 | 2932 | 118 | 728 |

### 4.1.2 Gwaith Amgylcheddol

Mae Safon Amgylcheddol SATC yn ei gwneud yn ofynnol i gartrefi gael eu lleoli mewn 'amgylchedd deniadol a diogel y gall preswylwyr gysylltu ag o a lle gallant fod yn falch o fyw yno'.

Er mwyn cyflawni amgylchiadau amgylcheddol byddwn yn parhau i ariannu'r Gronfa Gwella Amgylcheddol a Chymunedol lle gwahoddir tenantiaid i gyflwyno ceisiadau am arian tuag at welliannau cymunedol o'u dewis. Roedd 17 o geisiadau llwyddiannus yn 2016/17.

At hyn, dros nifer o flynyddoedd mae'r Gwasanaeth Tai wedi buddsoddi arian sylweddol er mwyn gwella cyflwr ffyrdd, llwybrau a mannau parcio cyffredin ar ein stadau nad ydynt wedi'u mabwysiadu'n ffurfiol gan yr Awdurdod Priffyrdd. Yn hanesyddol, cytunwyd ar y gwaith gwella hwn yn flynyddol mewn ymgynghoriad â chydweithwyr o'r Adran Priffyrdd. Ymgymerwyd â'r gwaith gan gontractwyr tymor a gyflogwyd gan yr Adran Priffyrdd.

Cytunwyd bellach y bydd cyfrifoldeb dros fannau nad ydynt wedi'u mabwysiadu yn trosglwyddo i'r Adran Priffyrdd o 1 Ebrill, 2016. Er mwyn hwyluso'r trosglwyddiad hwn, cyfrannodd y Gwasanaethau Tai y swm terfynol o £250k tuag at waith cynnal a chadw hanfodol yn ystod 2016/17. Bydd y trefniant hwn yn rhoi gwell dealltwriaeth i'n preswylwyr yng nghyswllt goblygiadau cynnal a chadw yn y dyfodol.

Neilltuir cyfanswm o £400k tuag at welliannau amgylcheddol yn 2017/18. Bydd cyfran sylweddol o'r gyllideb hon yn cael ei ddefnyddio i gychwyn ar raglen 3 blynedd a fydd yn cynnwys dymchwel 202 o garejys nad ydynt bellach yn ymarferol i'w cynnal. Bydd y rhaglen hon yn cyflawni gwelliannau amgylcheddol yn ymwneud â pharcio, gwella diogelwch a gwella edrychiad ardaloedd yn gyffredinol.

### 4.1.3 Rhaglen Buddsoddiad Cyfalaf

Mae'r Rhaglen Cynnal a Chadw arfaethedig ar gyfer 2017/18 a welir yn y tabl isod sydd werth £9.103 miliwn yn clustnodi'r adnoddau cyfalaf sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Busnes. Bydd y gyllideb gyffredinol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer yr ymrwymiadau a ddygwyd ymlaen a llithriant o'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17. Mae cyfanswm y gyllideb, yn cynnwys yr ymrwymiad, yn £10.185 miliwn. Mae'r rhaglen yn cael ei hategu gan ddata a gasglwyd yn annibynnol ar gyflwr y stoc a bydd yn cyfrannu tuag at y Strategaeth Rheoli Tai a'r Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol.

Mae'r Rhaglen Buddsoddiadau Sector Cyhoeddus yn ffurfio rhan o'r Cynllun Cyfalaf Corfforaethol ar gyfer 2017/18. Mewn egwyddor, bydd yn mabwysiadu'r un broses fidio am gyfalaf flynyddol â'r Cynllun Cyfalaf Corfforaethol, gydag awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Bwrdd Gwasanaethau Tai fel y gall flaenoriaethu a gwerthuso cynlluniau unigol.

| *C ynllun* | 2016/17 (£ '000) | 2017/18 (£ '000) | 2018/19 (£ '000) |
|---|---|---|---|
| *Gwaith mewnol SATC ac Asbestos* | 750 | 600 | 500 |
| *Rhaglen Gynnal a Chadw Draddodiadol* | 4,832 | 4,635 | 2,377 |
| *Rheoli Risg Tân* | 250 | 0 | 100 |
| *Gwaith Gwres Canolog* | 350 | 600 | 250 |
| *Gwaith Amgylcheddol* | 350 | 400 | 250 |
| *Ailfodelu* | 832 | 0 | 0 |
| *Prynul Anheddau presennol* | 2,058 | 1,259 | 1,345 |
| *Adeiladau Newydd* | 2,058 | 1,259 | 1,345 |
| *Gwaith Addasu yn y Sector Cyhoeddus* | 250 | 350 | 250 |
| | **11,730** | **9,103** | **6,417** |

| *Cyllido:* | 2016/17 (£ '000) | 2017/18 (£ '000) | 2018/19 (£ '000) |
|---|---|---|---|
| *Lwfans ar gyfer Gwaith Trwsio Sylweddol* | 2,650 | 2,650 | 2,650 |
| *Derbyniadau Cyfalaf* | 565 | 0 | 0 |
| *Cyfraniadau Refeniw* | 8,515 | 6,453 | 3,767 |
| *Ymrwymiadau a ddygwyd ymlaen* | | | |
| *Benthyca* | 0 | 0 | 0 |
| | **11,730** | **9,103** | **6,417** |

4.1.4 **Cynllun Buddsoddi Mewnol**

Mae'r gyllideb yn dyrannu swm o £600,000 er mwyn mynd i'r afael â gwrthodiadau SATC, elfennau cyfalaf a ddiweddarir ar adeg newid tenantiaeth ac ar gyfer y gwaith parhaus o osod ceginau, ystafelloedd ymolchi a gwneud gwaith ailweirio wrth iddynt ddod i ddiwedd eu hoes.

Bydd y gyllideb hon hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer rheoli asbestos yn barhaus yn y stoc dai neu, lle bo'n briodol, ar gyfer cael gwared ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos.

**Gwaith Gwres Canolog**

Yn ystod 2016/17, fe wnaethom gychwyn ar raglen i osod 400 o fwyleri newydd yn lle ein bwyleri hŷn sy'n gynyddol annibynadwy.
Fel rhan o'r gwaith, bydd arolwg o'r system wresogi bresennol yn cael ei gynnal ac os bydd angen gwresogyddion newydd, byddant yn cael eu newid fel rhan o'r rhaglen adnewyddu bwyleri. Fel hyn, gallwn sicrhau bod y systemau sydd wedi'u gosod yn addas i'r diben, o'r maint cywir ac mor effeithlon â phosibl ar gyfer ein tenantiaid. Unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, disgwylir y byddwn yn gweld gostyngiad yn y gost o alw allan ein peirianwyr gwresogi.
Yn ystod 2017-18, rydym wedi clustnodi cyllideb o £600k ar gyfer parhau â'r rhaglen hon a byddwn yn mynd ati i geisio newid tua 270 o fwyleri nwy ac olew.

**Rheoli Risg Tân**

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â Gorchymyn Adnewyddu Rheoliadau Tân 2005 rydym wedi clustnodi swm o £250k ar gyfer diweddaru a/neu adnewyddu offer ymladd tân a systemau darganfod tân er mwyn cydymffurfio ag asesiadau risg tân.
Yn ystod 2016-17, cynhaliodd ein contractwr arbenigol asesiadau risg tân a fydd yn sylfaen i'r cynlluniau gwariant ar gyfer 2017-18.

### 4.1.5 Gwaith Cynnal a Chadw Allanol Traddodiadol sydd wedi'i Raglennu

Mae cyfanswm y gyllideb sydd wedi'i chadw ar gyfer gwaith Cynnal a Chadw wedi'i Raglennu yn £4.635 miliwn. Mae'r Gwasanaeth Tai yn disgwyl y bydd o leiaf 4 contract yn cael eu gosod yn 2017/18 a fydd yn cynnwys 170 eiddo.
Bydd caffael cynlluniau gwerth mwy na £500k yn parhau i gefnogi Datganiad Polisi Caffael Llywodraeth Cymru a bydd yr effaith ar yr economi leol yn cael ei fesur drwy Declyn Budd Cymunedol Gwerth Cymru.

Nod y Gwasanaethau Tai yw y bydd y contractau uchod a'r strategaeth gaffael yn rhoi pob cyfle i gontractwyr lleol fidio am waith buddsoddiadau cyfalaf.
Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i wario cymaint â phosib o'i gyllideb yn y gymuned leol a drwy wneud hynny mae'n hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Drwy ddefnyddio Gwerth Cymru, rydym yn disgwyl i'n contractwyr ddarparu rhai o'r buddion cymunedol canlynol:-

- Profiad gwaith drwy weithio gyda Cymunedau'n Gyntaf Môn a Coleg Menai Llandrillo
- Defnyddio llafur lleol
- Prentisiaid/hyfforddeion lleol
- Cyfleon ar gyfer busnesau bach a chanolig
- Defnyddio cadwyni cyflenwi lleol

Mae sgôp cyffredinol y gwaith a wnaed neu sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn cynnwys ail-doi, gosod system rendro wedi'i hinswleiddio, gosod ffenestri a drysau newydd lle mae hynny'n briodol, gwaith allanol yn cynnwys llwybrau, ffensio a waliau terfyn. Mae tai nad ydynt ar y prif rhwydwaith nwy hefyd yn cael budd lle bynnag y mae hynny'n ymarferol, o osod systemau Solar PV.

Bydd gwelliannau i gartrefi yn sgil yr holl gynlluniau uchod yn golygu eu bod yn fwy cyfforddus ac yn edrych yn well a, lle mae hynny'n berthnasol, byddant yn rhatach

i'w gwresogi. Bydd gwaith cynnal a chadw allanol traddodiadol sydd wedi ei raglennu yn parhau i ffurfio sylfaen ein cynlluniau buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol.

## 4.2 Rhaglen Adeiladu Tai Cyngor

Ers yr 1980au, mae gwahanol lywodraethau wedi annog cynghorau i beidio ag adeiladu tai fforddiadwy newydd eu hunain ac wedi eu hannog i weithredu fel 'galluogwyr' drwy hwyluso LCC i adeiladu tai fforddiadwy newydd. Fodd bynnag, gyda'r hyblygrwydd newydd a ddaeth gyda'r trefniadau hunan-ariannu mae hyn bellach wedi newid ac mae cynghorau'n cael eu hannog i adeiladu unwaith eto. Mae'r Aelodau Etholedig a'r tenantiaid yn gefnogol o hyn ac yn sgil hynny, mae'r Cyngor wedi cytuno i weithredu cynllun adeiladu tai cyngor newydd. Mae prif fanteision hyn fel â ganlyn:

- Gallai Tir Cyfrif Refeniw Tai a thir ac eiddo sy'n berchen i'r Cyngor gael ei ddatblygu ar gyfer tai fforddiadwy y mae gwir angen amdanynt.
- Bydd y tir a'r adeiladu yn cael eu cadw fel asedau Cyngor / Cyfrif Refeniw Tai yn hytrach na chael eu trosglwyddo i LCC am bris gostyngol er mwyn i'r LCC eu datblygu fel tai fforddiadwy.
- Mae Awdurdodau Lleol yn gallu hawlio cyfran sylweddol o gostau TAW yn ôl ar wella a chynnal a chadw eiddo ac o ganlyniad bydd hyn yn lleihau costau.
- Bydd yn fodd i'r Cyngor sicrhau cynnydd yn ei stoc dai yn hytrach na'r gostyngiad a welwyd o ganlyniad i'r cynllun hawl i brynu a bydd hynny'n gostwng y gost fesul uned o reoli a chadw stoc y Cyngor.
- Bydd gan y Cyngor fwy o reolaeth dros y modd y caiff tai fforddiadwy eu gosod yn y dyfodol.

Mae Strategaeth Datblygu Tai Cyngor yr Awdurdod ar gyfer 2015-2020 yn cynnwys targedau i gynyddu'r stoc dai 95 uned dros y cyfnod o 5 mlynedd. O ganlyniad i'r anghenion ychwanegol sydd wedi'u hadnabod ar gyfer tai fforddiadwy, byddwn yn cynyddu'r targedau sydd wedi'u gosod yn y Strategaeth Datblygu Tai Cyngor 2015-2020.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17, fe gwblhawyd y broses o gaffael 15 o hen dai Cyngor a werthwyd yn y gorffennol drwy'r cynllun hawl i brynu a chwblhawyd cynllun cyntaf y Cyngor i adeiladu 3 tŷ Cyngor newydd.

Yn ystod 2017/18 rydym yn disgwyl parhau â'n rhaglen adeiladu tai cyngor newydd ac mae gennym gynlluniau i ddechrau datblygu 20 o unedau yn ystod y flwyddyn yn ogystal â chynlluniau i gaffael 10 eiddo a arferai fod yn berchen i'r Cyngor.

Dyma fydd ein rhaglen ddiwygiedig ar gyfer adeiladu tai cyngor yn ystod y tair blynedd nesaf:-

**Blwyddyn** **Cyfanswm**

| | |
|---|---|
| 2017/18 | 30 |
| 2018/19 | 45 |
| 2019/20 | 60 |
| Cyfanswm | 135 |

Rydym ar hyn o bryd yn edrych ar safleoedd ym Mhentraeth, Llanfaethlu, Y Fali, Llangefni ar gyfer rhaglen y flwyddyn ddilynol.

O ganlyniad i'r cynnydd yn ein rhaglen ddatblygu, byddwn yn defnyddio cyfran o gap benthyca Cyfrif Refeniw Tai sydd tua £13 miliwn.

Er mwyn cyflawni ein nod o ddatblygu tai cyngor newydd bydd Tîm Datblygu bychan yn cael ei sefydlu o fewn y Gwasanaethau Tai a byddwn yn ceisio prynu gwasanaethau datblygu gan un o'n partneriaid Cyfrif Refeniw Tai yn ystod 2017/18.

Mae Tîm Cyllid Arloesol Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yr ail rownd o'r rhaglen Grant Cyllid Tai ar gael o Ebrill 2017 ac y bydd gan awdurdodau lleol sy'n cadw stoc fynediad i'r ffynhonnell hon o nawdd grant o Ebrill 2018.

## 5 Monitro a Gwerthuso

### 5.1.1 Rheoli Perfformiad 2017 / 2018

Mae dull corfforaethol o fesur ansawdd gwasanaethau ac adrodd ar berfformiad yn chwarterol trwy gerdyn sgorio perfformiad corfforaethol y Cyngor ac yn flynyddol wedyn trwy gyflwyno Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad. Caiff y ddau adroddiad eu sgriwtineiddio a'u herio gan Uwch Swyddogion ac yn gyhoeddus trwy'r Cyfarfod Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith / y Cyngor.

Cyflwynodd y Cyngor Gerdyn Sgorio Corfforaethol yn ystod 2013/2014 (sy'n cynnwys data perthnasol a phwysig y gofynnwyd amdano gan uwch swyddogion ac aelodau) ac mae manteision hyn i'w gweld yn barod.

Cynhelir adolygiadau gwasanaethau ddwywaith y flwyddyn ac maent yn canolbwyntio ar eu rheolaeth ariannol (Mehefin) a'u perfformiad (Tachwedd).

Er mwyn paratoi ar gyfer adolygiadau mis Ionawr, y disgwyl oedd bod pob gwasanaeth yn hunanasesu ei berfformiad yn erbyn deg maen prawf allweddol-


- Argymhellion archwiliad allanol
- Argymhellion archwiliad mewnol
- Gwasanaeth Cwsmer
- Cynllunio Busnes a Pherfformiad
- Edrych i'r dyfodol
- Llywodraethiant ac Atebolrwydd
- Rheoli Adnoddau
- Rheoli Pobl

- Cydweithio
- Aliniad Corfforaethol

Cânt eu herio gan Banel o Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgor Gwaith Cysgodol ac Uwch Uwyddogion gyda golwg ar ddod i gytundeb corfforaethol ar ddatganiad sefyllfa'r gwasanaeth a'i flaenoriaethau drafft ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Cyflwynwyd y model hunanasesu hwn am y tro cyntaf yn 2014 ac mae'n rhoi trosolwg corfforaethol o sefyllfa'r gwasanaeth.

## Sefyllfa o ran Tai a Aseswyd ar Fatrics (Ionawr 2017)



### 5.1.2 Dangosyddion Perfformiad a Thargedau

Defnyddir ystod o ddangosyddion i gymharu perfformiad a mesur gwelliant a rhydd hyn arwydd o ba mor effeithiol yw'r cyngor mewn maes penodol.

| | |
|---|---|
| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol** | Dangosyddion Perfformiad sy'n Genedlaethol neu a ddewisir gan y Cyngor sy'n monitro gweithgareddau allweddol y Cyngor. Adroddir ar y rhain gan Aelodau Etholedig, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a phartneriaid eraill yn chwarterol. Y nhw hefyd sydd yn eu monitro.<br><br>Ymhlith enghreifftiau mae: dyledion rhent tenantiaid cyfredol, nifer y canlyniadau, dyledion rhent cyn-denantiaid. |
| **Dangosyddion Perfformiad a ddewiswyd gan Denantiaid** | Dangosyddion a ddewisir gan ein Tenantiaid fel meysydd perfformiad sy'n bwysig iddynt. Adroddir ar y perfformiad i Lais Tenantiaid Môn yn chwarterol.<br><br>Ymhlith enghreifftiau mae: % yr apwyntiadau a gedwir gan Uned Cynnal a Chadw Tai, % y cartrefi sy'n wag ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **Dangosyddion Rheoli Gwasanaeth** | Caiff y dangosyddion hyn eu monitro gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai a Thîm Rheoli'r Gwasanaethau Tai ac, fel arfer, maent mewn meysydd y mae angen eu gwella. Caiff y rhain eu monitro un ai'n wythnosol neu'n fisol.<br><br>Ymhlith enghreifftiau mae: bodlonrwydd gyda'r gwasanaethau a gafwyd; amseroedd o ran ail-lenwi tai gwag; trawsnewid y gwasanaeth trwsio a chynnal a chadw. |

## 5.2 Adborth gan Denantiaid

### 5.2.1 STAR

Arolwg a luniwyd i gywain barn tenantiaid ar wasanaethau a gyflawnir gan landlordiaid cymdeithasol yw STAR. Mae wedi'i ddatblygu i fesur boddhad cwsmeriaid, monitro tueddiadau dros amser a meincnodi perfformiad yn erbyn landlordiaid eraill.

Cynhaliodd y Gwasanaethau Tai eu hail arolwg STAR yn ystod 2015. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i annog tenantiaid i gymryd rhan yn yr arolwg a derbyniwyd cyfanswm o 587.

Datblygwyd yr arolwg gan ddefnyddio wyth adran; Demograffeg, Craidd, Gwasanaethau Cyffredinol, Blaenoriaethau Gwasanaeth, Canfyddiadau, Stoc (*Pobl hŷn, prydleswyr, Tai â Chymorth, Cymru*), Thema (*Cyngor a Chefnogaeth, Cyswllt a chyfathrebu, Cymdogaeth, Gwaith Trwsio Ymatebol*), yn benodol i'r Gwasanaeth (*Ymddygiad gwrthgymdeithasol, Cwynion a Gwasanaethau Stadau*).

Dengys canlyniadau'r arolwg ostyngiad ym moddhad cwsmeriaid mewn nifer o feysydd gwasanaeth o gymharu â 2012. Gan fod STAR yn cynnig i landlordiaid cymdeithasol y gallu i fesur boddhad cwsmeriaid 'dros amser', anodd yw deall sut a phryd y mae hyn wedi digwydd.

Roedd 80% a gymerodd ran yn fodlon gyda'r gwasanaeth cyffredinol a roddwyd gan Tai.

Roedd 82% a gymerodd ran yn fodlon gydag ansawdd gyffredinol eu cartref.

Roedd 83% a gymerodd ran yn fodlon gyda'r gymdogaeth fel lle i fyw

Roedd 69% a gymerodd ran yn fodlon gyda'r ffordd yr oedd y Gwasanaethau Tai yn ymdrin â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

Mae 84% o denantiaid yn falch o'u cartref.

Roedd 78% o'r rhai a gymerodd ran yn fodlon (eithaf bodlon neu'n fodlon iawn) gyda chyflwr eu heiddo pan fu iddynt symud i mewn.

Roedd 96% o'r rhai a gymerodd ran yn fodlon (eithaf bodlon neu'n fodlon iawn) gyda'r gwasanaeth cefnogi yr oeddynt yn ei dderbyn.

Mae HouseMark bellach wedi lansio StarT (Arolwg o Drafodion Tenantiaid a Phreswylwyr) sy'n gweithio ochr yn ochr â STAR ac yn cynnig i landlordiaid cymdeithasol y gallu i fesur boddhad 'amser real' cwsmeriaid tra hefyd yn monitro tueddiadau dros amser a meincnodi perfformiad yn erbyn landlordiaid eraill.

Argymhellwyd bod y Gwasanaethau Tai'n cyflwyno StarT ar gyfer gwasanaethau megis gwaith trwsio ymatebol, cwynion neu denantiaethau newydd er mwyn cael dealltwriaeth o pam a sut mae boddhad cwsmeriaid wedi gostwng er 2012 a hefyd er mwyn monitro boddhad cwsmeriaid yn agosach.

Rhagwelir y bydd yr arolwg STAR nesaf yn cael ei gynnal yn 2018.

### 5.2.2 Grŵp Tenantiaid sy'n Archwilwyr

Sefydlwyd y Grŵp Tenantiaid sy'n Archwilwyr yn 2008. Nod yw grŵp yw sicrhau bod gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, y dinesydd a'r gymuned yn cael ei ddarparu sy'n cwrdd ag anghenion tenantiaid presennol ac yn y dyfodol.

Mae'r Grŵp Tenantiaid sy'n Archwilwyr yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau Tai ac fe bennir eu cynllun gwaith gan flaenoriaethau'r cynllun busnes. Cwblhawyd 7 archwiliad hyd yma; yn cynnwys ymarferiad cwsmer cudd mewn perthynas â'r Siarter Gofal Cwsmer Tai, gwasanaeth trwsio a chynnal a chadw dydd-i-ddydd, safon gosod Tai a'r gwasanaeth cyfranogiad tenantiaid.

Ar hyn o bryd, mae'r grŵp yn cynnal archwiliad ar y Siarter Gofal Cwsmer Corfforaethol fel dilyniant i archwiliad 2015. Yn 2015 roedd y grŵp yn teimlo fod safon Gofal Cwsmer Cyngor Môn yn foddhaol, fodd bynnag, barnwyd bod lle i wella. Anfonwyd adroddiad ysgrifenedig manwl i'r Bwrdd Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid ym mis Hydref yn rhoi argymhellion ar gyfer gwella a chyflwynwyd yr adroddiad i'r bwrdd ym mis Tachwedd.

### 5.4.5 Amrywiad a Chydraddoldeb

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gydraddoldeb cyfle a hynny wrth ddarparu gwasanaethau ac yn ei rôl fel cyflogwr mawr ar yr Ynys, ac i gael gwared â gwahaniaethu'n annheg ac anghyfreithlon yn ei bolisïau, ei weithdrefnau a'i arferion.

Rydym yn parhau i groesawu amrywiaeth a gwreiddio cydraddoldeb mewn arferion gweithio. Mae Cynllun Cydraddoldeb strategol diwygiedig 2016 – 2020 wedi nodi saith amcan cydraddoldeb newydd a fydd yn ei gwneud yn bosib i brif lifo cydraddoldeb i holl swyddogaethau'r Cyngor.

Mae'r Gwasanaeth Tai wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau cydraddoldeb triniaeth i'n holl gwsmeriaid heb wahaniaethu na rhagfarnu yn unol â pholisïau ac arferion corfforaethol.

Rydym yn cynnal Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ar strategaethau a pholisïau er mwyn ein cynorthwyo i ddeall effaith bosib penderfyniadau a'r modd y darperir gwasanaethau ar bobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol. Mae'r asesiadau hefyd yn nodi camau a allai liniaru er mwyn gostwng neu wneud i ffwrdd ag effeithiau andwyol. Ar hyn o bryd rydym yn tanysgrifio i Tai Pawb, sefydliad sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol mewn tai yng Nghymru.

Ceisiwn sicrhau fod cyngor a gwasanaethau yng nghyswllt tai ar gael yn gwbl hwylus i bawb. Ceisiwn hyrwyddo dealltwriaeth a goddefgarwch o'r gwahanol ddiwylliannau yn ein cymunedau a hefyd sicrhau fod pobl yn gwerthfawrogi anghenion a chyfraniadau unigolion a grwpiau o unigolion yn y cymunedau hynny. Cyflawnwn hyn trwy roi hyfforddiant i staff ac i denantiaid.

Mae data proffilio tenantiaid yn cynnwys gwybodaeth am gyfansoddiad aelwydydd a gwybodaeth arall megis ethnigrwydd, rhyw, oedran, anabledd ac iaith a bydd yn fodd i ni deilwrio'n gwasanaethau i sicrhau y cânt eu darparu'n briodol pan fo'r gofyn. Byddwn yn parhau i gasglu gwybodaeth am broffil amrywiaeth ein tenantiaid er mewn ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o'u hanghenion unigol. Mae hyn eisoes wedi cael ei gwblhau ar gyfer ein tenantiaid cyfredol ac mae gwaith proffilio tenantiaid newydd yn cael ei wneud fel mater o arfer ar gychwyn eu tenantiaethau. Gall tenantiaid yn awr gael at fanylion eu tenantiaeth a'u cyfrif rhent ar-lein a diweddaru eu gwybodaeth bersonol drwy gofrestru i ddefnyddio'r porth hunanwasanaeth i denantiaid, sef 'Fy Nghartref'.

At hyn, caiff y Gwasanaeth Tai ei arwain gan Gôd Ymarfer anstatudol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn perthynas â Chydraddoldeb Hiliol yn y maes Tai.

### 5.4.6 Yr Iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor Sir bellach wedi derbyn Gorchymyn Cydymffurfio mewn perthynas â Safonau'r Iaith Gymraeg. Golyga hyn y bydd 154 o safonau statudol yn dod i rym o 30/03/16 a byddant yn disodli'r Cynllun Iaith. At hyn, bydd chwe safon bellach yn dod i rym ar 30/09/16.


Yn ymarferol, dyma nhw:

- rhaid i'r cynnig o ddewis iaith fod yn amlwg weladwy yn ein derbynfeydd;
- rhaid i bob cyfarchiad dros y ffôn fod yn ddwyieithog gyda chynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg;
- dylai unrhyw gyfathrebu wyneb-yn-wyneb rhwng aelod o staff a chwsmer gynnig y gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg;


- rhaid i unrhyw ohebiaeth fod yn ddwyieithog neu yn Gymraeg os honno yw dewis iaith y cwsmer;
- dylid darparu cyfarfodydd cyfrwng Cymraeg i'r rhai hynny sy'n dewis cyfarfodydd cyfrwng Cymraeg;
- wrth drefnu cyfarfodydd cyhoeddus, rhaid i'r holl ddeunydd hyrwyddo fod ar gael yn Gymraeg a chyfieithydd yn bresennol
- rhaid i'r holl ddogfennau, posteri, rhybuddion, arwyddion, ffurflenni a phamffledi gwybodaeth barhau i gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog gyda nodyn ar y fersiwn Saesneg yn nodi bod fersiwn Gymraeg ar gael);
- ni ddylai tendr cyfrwng Cymraeg gael ei drin yn llai ffafriol nag un a gyflwynir yn Saesneg a rhaid cynnig cyfweliad cyfrwng Cymraeg i dendrwr cyfrwng Cymraeg;
- ni ddylai ceisiadau cyfrwng Cymraeg am grant gael eu trin yn llai ffafriol na rhai a gyflwynir yn Saesneg
- rhaid darparu unrhyw fater cyflogaeth (a deunydd ysgrifenedig cysylltiedig) yn Gymraeg os honno yw dewis iaith y gweithiwr;
- wrth ddiwygio neu greu polisi, rhaid cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth dwyieithog Cymraeg a Saesneg ar draws ei holl wasanaethau. Rydym yn hyrwyddo agwedd ragweithiol er mwyn sicrhau y gellir darparu gwasanaethau Iaith Gymraeg yn unol â Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru 'Mwy Na Geiriau'. Rydym yn barod yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor drwy fonitro gwasanaethau ar sail chwarterol a chynnal arolwg blynyddol o ddarparwyr er mwyn arfarnu cydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg, a'r Mesur Iaith Gymraeg ac mae'r canfyddiadau'n cael eu rhannu ag Adran Comisiynydd y Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru.

5.4.7 Statws Gwaith Tenantiaid y Cyngor



### 5.4.8 Grŵp Ethnig Tenantiaid Tai'r Cyngor




## 5.5 Cynllunio Adnoddau

### 5.5.1 Hyfforddi a Datblygu Staff

Mae'r Cyngor yn gweithredu proses Adolygu Datblygu Perfformiad (ADP) gynhwysfawr. Cynhelir cyfweliadau ffurfiol, strwythuredig rhwng Rheolwyr Llinell a'u staff yn flynyddol.

Mae'r broses ADP yn rhoi sylw i:

- Perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf;
- Cyfleoedd datblygiad personol a hyfforddiant a gafwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf;
- Adnabod meysydd sydd angen eu datblygu yn ystod y flwyddyn nesaf, yn cynnwys targedau perfformiad ac anghenion hyfforddiant;
- Cynllun Gweithredu Personol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae gan y Cyngor Rhaglen Hyfforddi Gorfforaethol – yn amrywio o gyrsiau undydd i raglenni datblygu hirach megis cyrsiau rheolaeth.

Fel arfer mae cyrsiau arbenigol yn ymwneud â thai'n cael eu prynu i mewn (os yw hynny'n gost effeithiol) neu mae un aelod o staff yn mynychu'r cwrs ac yna'n hyfforddi staff eraill.

### 5.5.2 Cynllunio Datblygiad y Gweithlu

Mae cynllunio datblygiad y gweithlu'n faes y mae angen i ni fel busnes ei gryfhau. Os caiff hyn ei wneud yn dda, gall gynorthwyo'r gwasanaeth i amcangyfrif anghenion y gweithlu yn y dyfodol a chyfrifo nifer, natur a gwasanaethau'r gweithwyr y mae'n debygol y bydd eu hangen er mwyn ateb i'r galw. Mae'n ymwneud â chael y nifer cywir o bobl, gyda'r sgiliau cywir, yn y lle cywir ar yr amser cywir.

| | Grŵp Oedran | Gwryw | Benyw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Amser Llawn** | | 63 | 58 | 121 |
| **Rhan Amser** | | 2 | 7 | 9 |
| | 16 – 24 | 6 | 4 | 10 |
| | 25 – 34 | 13 | 23 | 36 |
| | 35 – 44 | 11 | 13 | 24 |
| | 45 – 54 | 18 | 14 | 32 |
| | 55 – 64 | 14 | 11 | 25 |
| | 65+ | 3 | 0 | 3 |

Yn ystod 2017 – 2018 ein blaenoriaethau fydd i:-

- Feithrin gwell dealltwriaeth o nodweddion y gweithlu Tai, o ran rhyw, oriau gwaith, oedran a throsiant staff.

- Ddeall y rhesymau pam fod staff yn gadael a chymryd camau priodol i leihau trosiant staff yn y dyfodol.

- Adnabod staff sy'n debygol o ymddeol neu adael y Cyngor o fewn y dyfodol agos yn ogystal â swyddi allweddol / unigryw a chynllunio a gweithredu trefniadau olyniaeth.

### 5.5.3 Cyfathrebu â staff

Ein nod yw sicrhau bod yr holl staff yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol iddynt fedru gwneud eu gwaith a chynorthwyo i gyflawni blaenoriaethau gwasanaeth a Chorfforaethol. Rydym yn cyfathrebu'n rheolaidd â staff drwy gynnal cyfarfodydd staff bob dau fis, cyfarfodydd Tîm, Sgyrsiau Bocs Tŵls, cylchgrawn misol y Cyngor, Monitor (mewnrwyd) a fforymau staff.

## 6 Rheoli Risg

### 6.1.1 Cofrestr Risg Gorfforaethol

Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn adnabod y risgiau hynny allai effeithio ar allu'r Cyngor i gwrdd â'i nodau ac amcanion corfforaethol. Mae'n adnabod ffynhonnell ac effeithiau'r risg, a'r tebygrwydd y bydd yn digwydd, yr effaith y gallai gael, ac unrhyw gamau lliniaru y bernir eu bod yn angenrheidiol i reoli'r risg. Adolygir y Gofrestr Risg Gorfforaethol o leiaf bob chwarter bob blwyddyn ac yn sgil unrhyw newidiadau arwyddocaol.

### 6.2 Cofrestr Risg Tai

Mae'r holl Swyddogion yn gyfrifol am adnabod risgiau sy'n fygythiad i'w maes gweithgarwch. Mae'r Tîm Rheoli Tai yn gyfrifol ac yn atebol am weithredu a rheoli'r risgiau.

Cymerir camau Rheoli Risg ar gyfer pob risg a nodir – ac mae unrhyw risgiau newydd yn cael eu cofnodi yng Nghofrestr Risg y Gwasanaeth. Mae'r prif risgiau yng Nghofrestr Risg y Gwasanaeth Tai yn cael eu cynnwys yng Nghofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor hefyd.

Y Risgiau Gweithredol Allweddol ar gyfer y Gwasanaeth Tai yw:-

- Cyfyngu ar renti – yn sgil yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr o ran rhenti
- Cynnydd mewn chwyddiant – fyddai'n arwain at gynyddu costau
- Cynnydd mewn cyfraddau llog – fyddai'n arwain at gynyddu costau benthyca
- Chwyddiant mewn costau yn lleol yn sgil Wylfa Newydd
- Diwygio Lles

Profwyd cadernid y Cynllun Busnes er mwyn cymryd y risgiau i ystyriaeth, yn unigol a gyda'i gilydd, ac mae'r cynllun busnes yn parhau i fod yn hyfyw drwy gydol y cyfnod o 30 mlynedd (gweler yr atodiad).

### 6.3 Cynllun Parhad Busnes y Gwasanaeth Tai

- Yn ystod 2015 / 2016 cynhyrchwyd Cynllun Parhad Busnes gan y Gwasanaeth Tai ochr yn ochr â Chynllun Busnes Corfforaethol y Cyngor. Mae'r Cynllun Parhad Busnes yn esbonio beth fyddem yn ei wneud petai rywbeth difrifol yn digwydd i'r Gwasanaeth Tai. Er enghraifft, petai swyddfeydd y Cyngor yn cael eu difrodi'n ddifrifol neu petaem yn colli llawer o staff, oherwydd salwch o bosib.
- Bygythiadau o ran darparu gwasanaeth y gellir eu rhagweld (megis TGCh, rheoli data, tywydd garw, nam difrifol ar linellau careline neu BT).
- Y camau i'w cymryd yn sgil achosion o E-bola, epidemig ffliw.
- Ffyrdd o leihau'r bygythiad / risg
- Camau adfer yn dilyn argyfwng a blaenoriaethau
- Camau cychwynnol i'w cymryd

Mae cynllun hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd

## 7 Cynllun Ariannol CRT

### 7.1.1 Rhagdybiaethau Ariannol Sylfaenol

Defnyddir yr wybodaeth isod fel rhagdybiaethau ariannol ar gyfer y Cynllun Busnes

- Cyfrifir chwyddiant ar sail cyfradd darged y Llywodraeth o 2% y flwyddyn.
- Rhagdybir y bydd rhenti'n codi 1.5% uwchlaw chwyddiant y flwyddyn + £2 yr wythnos hyd at 2018/19 ac yna 1% uwchlaw chwyddiant + £2 yr wythnos hyd nes y byddant yn cyd-fynd â'r meincnod rhent (rhagwelir y bydd hyn yn digwydd yn 2024/25).
- Rhagdybir y bydd y rhent targed yn codi 1.5% uwchlaw chwyddiant bob blwyddyn hyd at 2018/19 ac 1% uwchlaw chwyddiant wedi hynny.
- Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn codi i 0.9% o 2017/18, 1.5% o 2018/19, yn lleihau 0.1% bob 2 flynedd nes cyrhaeddir lefel o 0.6% unwaith eto.
- Disgwylir y bydd tai gwag yn gostwng i 1.7% o 2017/18.
- Mae incwm cefnogi pobl yn ymwneud â'r cyfraniad y cytunwyd arno tuag at osod larymau yn eiddo CRT. Ni ddisgwylir i hwn godi gyda chwyddiant.
- Hawl i Brynu wedi ei ohirio drwy gydol cyfnod y cynllun.
- Mae'r cynllun cyfalaf yn seiliedig ar Archwiliad Stoc, gyda gwaith adnewyddu cydrannau'n cael ei wneud yn unol â chylch bywyd cydrannau.
- Rhagdybir y bydd rhaglen ddatblygu ar gyfer prynu tai ac adeiladu tai newydd yn parhau yn 2017/18 gyda 30 uned, 45 uned yn dilyn hynny yn 2018/19, 60 uned

yn 2019/20 a 2020/21, 30 uned bob blwyddyn hyd at 2029/2030, yna 25 uned y flwyddyn wedi hynny.

- Rhagdybir y bydd y gyfradd llog ar falansau credyd yn 0.4% y flwyddyn, ac yn 5.37% y flwyddyn ar fenthyciadau. Rhagdybir y bydd benthyciadau newydd dros gyfnod o 30 mlynedd gyda chyfradd llog o 3%.
- Mae'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys rhaglen unwaith ac am byth ar gyfer ail fodelu cynllun presennol o 28 uned sy'n anodd eu gosod. Cynhwyswyd £832k yn y cynllun ar gyfer 2017/18.
- Rhagdybir na fydd dyledion yn cael eu had-dalu'n gynnar
- Mae incwm arall yn cynnwys incwm gwerthu trydan i'r grid cenedlaethol, comisiwn o werthu yswiriant, ffioedd carthffosiaeth a gwaith cynnal a chadw y gellir codi tâl amdanynt.

### 7.1.2 Polisi Rheoli Trysorlys

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull un gronfa mewn perthynas â benthyciadau, sy'n golygu bod costau benthyca'n cael eu cyfrifo yn ôl cyfartaledd y gronfa gyffredinol a'r CRT ar sail cyfran y cyllid cyfalaf sydd ei angen ar y naill gronfa a'r llall.

## Cyllidebau Cyfalaf a Refeniw 5 Mlynedd

### Cyllidebau Refeniw Drafft

| | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 | 2021/2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Rheoli | 2,878 | 2,936 | 2,994 | 3,054 | 3,115 |
| Trwsio a Chynnal a Chadw | 3,720 | 3,869 | 4,040 | 4,307 | 4,574 |
| Costau Eraill | | 104 | | | |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 3,697 | 3,438 | 2,264 | 2,385 | 2,449 |
| Cyfraniad i'r Rhaglen Gyfalaf | 8,882 | 9,757 | 9,543 | 10,481 | 10,431 |
| Cyfanswm Gwariant | 19,177 | 20,104 | 18,841 | 20,227 | 20,569 |
| Incwm Rhent Net | 15,905 | 16,909 | 18,400 | 19,292 | 20,577 |
| Incwm Arall | 541 | 550 | 559 | 569 | 578 |
| Llog ar Falansau | | | | | |
| Cyfanswm Incwm | 16,446 | 17,459 | 18,959 | 19,861 | 21,079 |
| Arian Refeniw yn Weddill / (Diffyg) | - 2,731 | -1,645 | 118 | -366 | 510 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Balans a Ddygir Ymlaen | 7,060 | 4,329 | 1,684 | 1,802 | 1,436 |
| Balans a Gariwyd Ymlaen | 4,329 | 1,684 | 1,802 | 1,436 | 1,946 |

## Cyllideb Gyfalaf Ddrafft

| | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 | 2021/2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwelliannau a Chynnal a Chadw SATC | 6,585 | 5,981 | 6,244 | 5,789 | 6,148 |
| Adeiladu Tai Newydd | 4,125 | 6,436 | 8,959 | 9,552 | 10,143 |
| Adnewyddu/Ailfodelu stoc bresennol | 832 | - | - | - | - |
| Gwelliannau eraill | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm Gwariant Cyfalaf | 11,542 | 12,417 | 15,203 | 15,341 | 16,291 |
| Cyllid Cyfalaf | | | | | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | 2,660 | 2,660 | 2,660 | 2,660 | 2,660 |
| Benthyca | | | 3,000 | 2,200 | 3,200 |
| Gwariant Cyfalaf a gyllidir gan y CRT | 8,882 | 9,757 | 9543 | 10,481 | 10,431 |
| Cyfanswm Cyllid Cyfalaf | 11,542 | 12,417 | 15,203 | 15,341 | 16,291 |

## 8.0 CYNLLUN GWEITHREDU Blaenoriaethau Allweddol CRT 2016 / 2017

| Camau Gweithredu Cyfrif Refeniw Tai Cyffredinol | | | |
|---|---|---|---|
| | **Camau gweithredu** | **Y sawl sy'n gyfrifol** | **Dyddiad targed** |
| | Lle mae angen am dai wedi cael ei nodi, asesu ac adnabod safleoedd posibl fel sail i gynllun adeiladu tai'r cyngor | Rheolwr Busnes Tai | Parhaus |
| | Cwblhau'r gwaith o adnewyddu cynllun Llawr y Dref yn Llangefni a gosod y fflatiau a ail-fodelwyd | Rheolwr Gwasanaethau Busnes | Gorffennaf 2017 |
| | Adolygu Mesurau Perfformiad | Rheolwr Gwasanaethau Busnes | Ebrill 2017 |
| | **Rheoli Tai** | | |
| | Datblygu strategaeth a chynllun gweithredu cyfoes ar gyfer rheoli incwm | Rheolwr Rhent, Incwm a Chynhwysiant Ariannol | Mawrth 2018 |
| | Sicrhau ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol er mwyn lliniaru effaith y Credyd Cynhwysol | Rheolwr Rhent, Incwm a Chynhwysiant Ariannol | Misol |
| | Adolygu gwybodaeth am broffil ein tenantiaid a dulliau casglu gwybodaeth | Rheolwr Tîm Cymdogaeth | Misol |
| | Adolygu'r Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a'r tueddiadau o ran digwyddiadau | Rheolwr Tîm Cymdogaeth | Mawrth 2018 |
| | Adolygu'r Polisi Gosod Tai Cyffredin yn dilyn ei gyflwyno yn 2016 | Rheolwr Tîm Cymdogaeth | Medi 2017 |
| | **Cyfranogiad Tenantiaid** | | |
| | Adolygu'r Strategaeth | Rheolwr Tîm | Ebrill 2017 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfranogiad Tenantiaid | Cymdogaeth | |
| | Adolygu'r Gwasanaeth Gofal Cwsmer | Rheolwr Tîm Cymdogaeth | Mehefin 2017 |
| **Trwsio a Chynnal a Chadw Tai** | | | |
| | Cwblhau'r gwaith o drawsnewid yr Uned Cynnal a Chadw Tai | Rheolwr Trawsnewid | Medi 2017 |
| | Cwblhau'r gwaith o allanoli swyddogaeth storfeydd modern o ansawdd uchel | Rheolwr Trawsnewid | Ebrill 2017 |
| | Gwella perfformiad mewn perthynas ag eiddo gwag | Rheolwr Trawsnewid | Mawrth 2018 |
| | Gwella profiad y cwsmer mewn perthynas â'r broses drwsio o'i dechrau i'w diwedd | Rheolwr Trawsnewid | Mawrth 2018 |
| **Cynllun Cyfalaf Tai** | | | |
| | Cwblhau 30 uned newydd i'w gosod gan y Cyngor | Rheolwr Busnes | Mawrth 2018 |
| | Sicrhau bod model o gefnogaeth yn ymwneud â thai ar gyfer pobl hŷn yn cael ei gyflwyno i'r holl denantiaid posib | Prif Reolwr Datblygu | Medi 2018 |
| | Cytuno ar raglen waith ar gyfer y Tîm Datblygu ar gyfer rhaglen Adeiladu Tai Cyngor | Rheolwr Busnes | Ebrill 2017 |
| | Cynnwys Tenantiaid fel Aelodau Bwrdd yn strwythur Byrddau Gwasanaethau Tai | Rheolwr Busnes | Mai 2017 |

Atodiad 1

# Dadansoddiad Sensitifrwydd

## Dadansoddiad Sensitifrwydd y Cynllun 30 Mlynedd

### 30 Year Plan Sensitivity Analysis

| Scenario | Base Case | Increase Bad Debt by 1.0% | No MRA Grant from 2018/19 | Increase Maintenance costs by a further 1% | Increase Management costs by a further 1% | CPI and RPI increased by 1% | Increase Rents by Inflation Only from 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Year | Surplus (Deficit) c/fwd £,000 | Surplus (Deficit) c/fwd £,000 | Surplus (Deficit) c/fwd £,000 | Surplus (Deficit) c/fwd £,000 | Surplus (Deficit) c/fwd £,000 | Surplus (Deficit) c/fwd £,000 | Surplus (Deficit) c/fwd £,000 |
| 2017.18 | 4,329 | 4,329 | 4,329 | 4,329 | 4,329 | 4,329 | 4,329 |
| 2018.19 | 1,684 | 1,652 | 1,875 | 1,589 | 1,655 | 1,661 | 3,198 |
| 2019.20 | 1,802 | 1,730 | 2,303 | 1,506 | 1,714 | 1,702 | 6,541 |
| 2020.21 | 1,436 | 1,324 | 2,425 | 3,229 | 2,848 | 1,394 | 9,072 |
| 2021.22 | 1,944 | 1,790 | 3,614 | 5,853 | 4,924 | 1,753 | 12,115 |
| 2022.23 | 4,014 | 3,809 | 5,034 | 9,112 | 6,810 | 4,075 | 13,836 |
| 2023.24 | 2,689 | 2,515 | 3,867 | 9,017 | 5,282 | 2,805 | 12,936 |
| 2024.25 | 1,924 | 1,973 | 3,021 | 9,371 | 4,276 | 2,091 | 11,807 |
| 2025.26 | 2,969 | 2,980 | 4,078 | 11,405 | 5,039 | 3,300 | 11,947 |
| 2026.27 | 1,456 | 1,426 | 2,663 | 10,727 | 3,201 | 1,711 | 9,290 |
| 2027.28 | 2,663 | 2,585 | 4,041 | 12,596 | 4,038 | 2,888 | 9,372 |
| 2028.29 | 2,956 | 2,835 | 4,616 | 13,382 | 3,917 | 3,077 | 9,247 |
| 2029.30 | 1,484 | 1,316 | 3,522 | 12,207 | 1,982 | 1,505 | 7,124 |
| 2030.31 | 1,925 | 1,689 | 3,084 | 13,188 | 2,410 | 2,079 | 6,070 |
| 2031.32 | 3,097 | 2,781 | 3,406 | 14,667 | 3,528 | 3,493 | 5,286 |
| 2032.33 | 3,838 | 3,447 | 3,379 | 15,502 | 4,181 | 4,417 | 3,943 |
| 2033.34 | 4,566 | 4,097 | 3,399 | 16,077 | 4,780 | 5,331 | 3,244 |
| 2034.35 | 5,599 | 5,047 | 3,783 | 16,687 | 5,642 | 6,609 | 2,541 |
| 2035.36 | 4,542 | 3,906 | 2,930 | 16,562 | 4,385 | 5,415 | 2,141 |
| 2036.37 | 2,841 | 2,128 | 1,344 | 15,562 | 2,758 | 3,432 | 1,626 |
| 2037.38 | 3,647 | 2,852 | 2,357 | 16,788 | 3,600 | 3,937 | 3,396 |
| 2038.39 | 2,294 | 1,456 | 1,308 | 15,555 | 2,247 | 2,230 | 2,775 |
| 2039.40 | 4,611 | 3,717 | 3,621 | 17,625 | 4,515 | 4,405 | 5,282 |
| 2040.41 | 2,424 | 1,527 | 1,563 | 14,883 | 2,246 | 1,864 | 3,925 |
| 2041.42 | 7,055 | 6,155 | 6,417 | 18,583 | 6,751 | 6,124 | 9,131 |
| 2042.43 | 4,611 | 3,896 | 4,292 | 14,804 | 4,134 | 3,291 | 6,991 |
| 2043.44 | 3,000 | 2,463 | 3,042 | 11,368 | 2,291 | 1,493 | 5,027 |
| 2044.45 | 4,096 | 3,808 | 4,658 | 10,231 | 3,116 | 2,167 | 5,817 |
| 2045.46 | 2,761 | 2,729 | 3,948 | 6,166 | 1,614 | 1,526 | 3,902 |
| 2046.47 | 1,433 | 1,666 | 3,355 | 1,577 | 1,356 | 1,517 | 1,636 |
| New Units | 920 | 891 | 625 | 606 | 855 | 910 | 440 |
| | Convergence Reached in 2024/25 | Convergence Reached in 2024/25 | Convergence Reached in 2024/25 | Convergence Reached in 2024/25 | Convergence Reached in 2024/25 | Convergence Reached in 2025/26 | Convergence not reached |

Under all scenarios the borrowing cap is used to within £65k of the limit as measured using the CFR

Dengys y cynllun busnes achos sylfaenol fod y CRT ar seiliau ariannol cadarn oherwydd bod cyflwr y stoc tai yn cwrdd â Safonau Ansawdd Tai Cymru. Mae'r Cyngor yn cynllunio i fuddsoddi'n sylweddol er mwyn datblygu cartrefi newydd ac ail-brynu cyn dai Cyngor, fydd yn arwain at 920 o dai ychwanegol dros y cyfnod 30 mlynedd. Er mwyn gwneud hyn, bydd rhaid i'r Cyngor fenthyca arian ychwanegol, ond disgwylir y bydd lefelau benthyca tua £1m islaw'r cap dyledion a osodwyd yn dilyn gadael y cynllun cymhorthdal CRT blaenorol, yn seiliedig ar y rhagdybiaethau presennol.

**Cynnydd mewn Dyledion Drwg**

Petai'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn cynyddu 1% uwchben y ddarpariaeth yn yr achos sylfaenol byddai'n rhaid i'r Cyngor leihau ei fuddsoddiad mewn eiddo newydd, gan leihau'r tai ychwanegol i 891. Yn ogystal, byddai'n rhaid benthyca mwy, gan adael y Cyngor £703k o dan y cap dyledion.

**Colli'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr**

Petai'r grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr bresennol o £2.66m y flwyddyn yn cael ei ddileu ar ôl 2017/18, byddai'n rhaid i'r Cyngor ostwng nifer y tai ychwanegol i 589 yn ogystal â gorfod benthyca mwy gan adael £553k yn weddill cyn mynd dros y cap dyledion.

**Cynyddu Costau Cynnal a Chadw 2% yn ychwanegol uwchlaw chwyddiant**

Mae'r achos sylfaenol yn gwneud rhagdybiaeth ofalus y bydd costau cynnal a chadw'n cynyddu 1% uwchlaw chwyddiant drwy gydol cyfnod y cynllun, gyda chynnydd ychwanegol o 2% tra bod Wylfa Newydd yn cael ei adeiladu. Petai gynnydd pellach o 2% y flwyddyn yn y costau byddai'n rhaid i'r Cyngor ostwng nifer yr eiddo i 580 ac i weithredu i leihau niferoedd y rhaglenni cynnal a chadw a gynlluniwyd er mwyn aros o fewn y cap dyledion.

**Cynyddu rhenti yn ôl cyfradd chwyddiant yn unig ar ôl 2019/20**

Petai polisi rhent Llywodraeth Cymru'n newid gan olygu y byddai rhenti'n codi yn ôl cyfradd chwyddiant yn unig, byddai'n rhaid i'r Cyngor wneud arbedion sylweddol yn ei raglenni cyfalaf er mwyn aros o fewn y cap dyledion. O dan y senario hwn dim ond 495 o eiddo ychwanegol fyddai modd eu hariannu. Yn ychwanegol, gyda chynnydd mewn costau cynnal a chadw uwchlaw chwyddiant yn cael eu rhagweld, ni fyddai'r senario hwn yn gynaliadwy yn y tymor hir.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **20 Mawrth,2017** |
| **Pwnc:** | **Strategaeth Interim Digartrefedd a chynllun gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Aled M Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Shan Lloyd Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Elliw Llŷr**<br>**01248 752137**<br>**ElliwLLyr@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo:-

**A1.** Y Strategaeth Interim a Chynllun Gwaith Digartrefedd am y cyfnod 2017-2018, yn dilyn y cyfnod hwn bwriedir cyflwyno Strategaeth Ranbarthol a Chynllun Gwaith Lleol ar gyfer cyfnod o 5 mlynedd.

**Rhesymau**

Er mwyn dilyn gofynion Rhan II o Ddeddf Tai 2014 mae gofyn i awdurdodau lleol cytuno Strategaeth Ddigartrefedd. Bwriad y Papur hwn yw cyflwyno Strategaeth Interim ar gyfer 2017-18 ynghyd a rhaglen waith i lunio Strategaeth ar gyfer 2018 ymlaen am gyfnod o 5 mlynedd.

**1. Cefndir**

**1.1** Mae gofyn bod Awdurdodau Lleol yn llunio Strategaeth Ddigartrefedd er mwyn:

- Atal digartrefedd
- Darparu llety addas ar gyfer pobl sydd yn ddigartref neu gall fod yn ddigartref
- Darparu cefnogaeth addas ar gyfer pobl sydd yn ddigartref neu gall fod yn ddigartref

Mae disgwyliad bod y Strategaeth mewn lle erbyn 2018.Mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru wedi datganiad eu bwriad i lunio Strategaeth Ranbarthol gyda bob Awdurdod Lleol yn llunio Cynllun Gwaith unigol, mae angen felly cymeradwyo Strategaeth Interim ar gyfer 2017-18 a dyma yw bwriad y papur hwn.

**1.2** Mae'r Strategaeth Interim hwn a chynllun gwaith wedi ei ddatblygu ar y cyd gyda'n prif bartneriaid sydd yn cefnogi pobl digartref neu sydd angen cefnogaeth er mwyn peidio bod yn ddigartref.

**1.3** Mae'r gwasanaethau gweithredol tai eisoes wedi ei haddasu er mwyn darparu gwasanaeth sydd yn ymateb i ofynion y Ddeddf. Ceir dwy agwedd i'r gwasanaeth sef, asesu a datrysiadau ac mae ein Polisi Gosod Cyffredin wedi cael ei addasu er mwyn adlewyrchu'r modd mae

| |
|---|
| ymgeiswyr yn cael eu hasesu o ran cyswllt lleol a pha mor argyfyngus yw eu hanghenion tai.<br><br>**1.4** Bwriedir llunio Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol ar gyfer 2018 ymlaen ac fe gynhelir gweithdy yn mis Mawrth er mwyn sgopio'r gwaith hwn. Mae gwaith o adnabod beth yw'r heriau eisoes wedi cymryd lle ar y Ynys fel rhan o'r gwaith ar gyfer llunio y cynllun gwaith hwn. Y bwriad yw defnyddio hyn ac gwybodaeth ystadegol o aseisiad anghenion poblogaeth a data am bobl sydd yn cael mynediad i wasanaethau digartrefedd er mwyn gallu cydweithio ar lefel lleol er mwyn atal digartrefedd. Bydd y papur sgopio a rhaglen waith yn cael ei gymeradwyo gan Tim Rheoli Tai yn ystod Ebrill 2017. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Opsiwn arall fyddai peidio gweithredu am gyfnod o tua 18 mis hyd nes byddai Strategaeth Rhanbarthol wedi ei fabwysiadu. Gallai hyn olygu methiant i beidio gydweithio gyda'n partneriaid allweddol a gosod risg i'r Grant Cefnogi Pobl a'r Grant Atal Digartrefedd gan Llywodraeth Cymru gan na fyddai trosolwg strategol o'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni fel Cyngor.<br>Bydd peidio gweithredu yn mynd yn groes i amcanion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol,2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, 2014. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Oherwydd gofynion Deddfwriaethol gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae'r Cyngor eisoes wedi cymeradwyo Polisi Gosod Cyffedin sydd yn ymateb i ofynion y Ddeddf ynghyd a Chynllun Cefnogi Pobl (Pwyllgor Gwaith 14.2.17)sydd yn darparu gwasanaethau i bobl fregus ag allai fod dan risg o golli eu cartref heb y gefnogaeth hwn. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Mae dyletswydd ar y Cyngor ddarparu'r gwasanaeth hwn ar gyfer pobl fregus ac mae cyllideb wedi eu hadnabod ar gyfer darparu'r gwasanaeth hwn yn ogystal â chyfraniad grant gan Lywodraeth Cymru sydd yn ariannu gwasanaethau cefnogol drwy Grant Cefnogi Pobl a Grant Atal Digartrefedd |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**<br>(mandadol) | |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim sylwadau |
| **5** | **Eiddo** | Dd/b |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Dd/b |
| **7** | **Sgriwtini** | Dd/b |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Dd/b |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Mae’r Strategaeth a Chynllun Gwaith yn seiliedig ar flaenoriaethau sydd wedi cael eu hadnabod drwy aelodau o’r Fforwm Atal Digartrefedd sydd yn cynnwys nifer o ddarparwyr gwasanaeth |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | Strategaeth Tai Lleol wedi bod yn testun asesiad effaith ac roedd mabwysiadu Strategaeth Digartrefedd yn nod o fewn y Strategaeth hwnnw. Mae’r Strategaeth Interim a’r Cynllun Gwaith wedi cael bod yn destun asesiad effaith yn ogystal |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Strategaeth Digaretrefedd Interim a Chynllun Gwaith |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

Tud 4 o 2

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**STRATEGAETH INTERIM AR DDIGARTREFEDD 2017-2018**

## 1) Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi datblygu Strategaeth Ddigartrefedd interim ar y cyd â'i bartneriaid sy'n darparu cynllun ar gyfer sut bydd y Sir yn cynnal ac yn gwella gwasanaethau sy'n atal digartrefedd ac yn cynorthwyo'r rheini sy'n dod yn ddigartref. Yn benodol, mae tri maes blaenoriaeth wedi eu hadnabod ar gyfer y 18 mis nesaf a hynny yn dilyn gweithdy lle bu sefydliadau'n trafod y risgiau presennol ar gyfer y rhai sydd â'r risg fwyaf o fod yn ddigartref a sut y gellid delio â'r materion hyn.

Y meysydd blaenoriaeth hyn yw:

- Gweithio i sicrhau bod y sector rhentu preifat yn delio ag atal digartrefedd yn y ffordd orau bosibl
- Sicrhau bod tenantiaid sydd â phroblemau iechyd meddwl ac sydd â phroblemau cyffuriau ac alcohol yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt
- Delio â materion sy'n codi o ganlyniad i weithrediad parhaus diwygio lles

## 2) Cefndir

### i) Deddfwriaeth

Mae Rhan II o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 bellach yn darparu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru.
Rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu Strategaeth Ddigartrefedd er mwyn gallu cyflawni'r amcanion canlynol:

- atal digartrefedd;
- darpariaeth llety addas ar gyfer pobl sydd neu a allai fod yn ddigartref;
- bod cefnogaeth foddhaol ar gael i bobl sydd neu a allai fod yn ddigartref.

Mae Deddf 2014 yn nodi fod yn rhaid i'r holl Awdurdodau Lleol fabwysiadu Strategaeth Digartrefedd yn 2018. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cytuno i weithio gydag Awdurdodau Lleol ledled Gogledd Cymru er mwyn datblygu Strategaeth Ddigartrefedd gynhwysfawr yn unol â'r cod arweiniad statudol ar gyfer ei fabwysiadu yn 2018. Bydd pob Awdurdod Lleol unigol yn gyfrifol am gynhyrchu eu cynlluniau gweithredu lleol eu hunain. Am y rheswm hwn, mae strategaeth interim wedi'i datblygu er mwyn arwain y gwaith tan 2018 pan ddisgwylir y bydd y Strategaeth Ranbarthol newydd yn cael ei mabwysiadu.

### ii) Cyd-destun Cenedlaethol

Mae Rhan II o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 wedi newid yn sylweddol y dyletswyddau statudol a roddir ar awdurdodau lleol mewn perthynas â digartrefedd ac wedi rhoi llawer mwy o bwyslais ar atal digartrefedd.

Mae gwaith partneriaeth effeithiol yn ran allweddol o Ran II. Mae Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd yn nodi: "*the successful development and delivery of the strategy will be dependent upon strong partnership arrangements with other statutory and voluntary sector organisations as well as the private rented sector".*

Gwnaeth Deddf 2014 nifer o agweddau Cynllun Digartrefedd 10 Mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru (Llywodraeth Cymru 2009), yn ddyletswyddau statudol. Mae 11 thema'r Cynllun Digartrefedd wedi eu defnyddio er mwyn siapio'r Cynllun Gweithredu Digartrefedd hwn ar gyfer yr awdurdod.

O ganlyniad, mae bwriadau Rhan II o'r Ddeddf yn cyd-fynd yn agos â bwriadau eang Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Un o themâu Lles y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol yw gwneud i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well â phobl a chymunedau a'i gilydd, edrych i atal problemau a chymryd agwedd sydd fwy cydgysylltiedig. Yn debyg iawn, y pwyslais o ran y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol yw bod lles yn cael ei gyflawni orau drwy wasanaethau yn cydweithio er mwyn bodloni anghenion unigol y rhai hynny sy'n derbyn gwasanaethau. Dros gyfnod y Strategaeth Interim ac ymlaen i'r Strategaeth Iawn yn 2018, bydd angen i'r agwedd hon fod wedi'i mewnosod yn y cydweithio rhwng gwasanaethau er mwyn atal digartrefedd mewn sefyllfaoedd o argyfwng ac yn y tymor hir. Yn ôl yr angen o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles mae asesiad anghenion poblogaeth, a gynhyrchir mewn partneriaeth gan awdurdodau Gogledd Cymru, yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd a bydd yn darparu sylfaen bwysig o wybodaeth o ran dealltwriaeth a gweithredu ar anghenion sy'n ymwneud â digartrefedd.

### iii) Cyd-destun Lleol

Ar Ynys Môn, bydd Fforwm Atal Digartrefedd yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn galluogi asiantaethau i weithio mewn partneriaeth er mwyn atal ac ymateb i ddigartrefedd. Mae'r fforwm yn cynnwys asiantaethau, rhanddeiliaid a phartïon â diddordeb sy'n darparu gwasanaeth i drigolion Ynys Môn sydd ag anghenion llety a/neu gymorth yn ymwneud â digartrefedd neu atal digartrefedd.

Mae gan yr awdurdod lleol ei hun ddyletswyddau penodol er mwyn helpu pobl sy'n ddigartref neu sydd dan bygythiad o fod yn ddigartref. Mewn ymateb i'r dyletswyddau atal digartrefedd yn Neddf Tai (Cymru) 2014, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi adolygu strwythur y Tîm Opsiynau Tai ac wedi adolygu'r Polisi Gosod Tai. Mae Opsiynau Tai wedi eu rhannu'n ddau dîm: asesiadau a datrysiadau. Mae'r strwythur newydd yn sicrhau bod yr holl gwsmeriaid yn derbyn cyngor o fewn pum diwrnod i'r cyswllt cyntaf ac o ganlyniad bydd cyfweliad opsiynau rai ar gael i bob cwsmer sydd angen cyngor neu gymorth i gael llety addas.

Mae'r Polisi Gosod wedi newid o system sy'n seiliedig ar bwyntiau i system fandio. Mae statws bandio cwsmer yn cael ei benderfynu yn ôl a oes ganddynt gysylltiad lleol a beth yw eu brys am lety.

Mae'r Polisi yn golygu mai dim ond cwsmeriaid sydd ag angen am lety sy'n gallu cofrestru am denantiaeth gymdeithasol a bydd gan y cwsmeriaid hyn well dealltwriaeth am eu blaenoriaethau tai a pha mor debygol y maent yn debygol o gael cynnig llety. Bydd y rhai hynny nad ydynt yn gymwys i gofrestru ar gyfer tai cymdeithasol yn cael eu hysbysu am opsiynau eraill megis sut y gallant gael mynediad i 'Tai Teg', cofrestr tai rhent neu cymorth i brynu fforddiadwy Gwynedd a Môn, a fydd yn eu helpu i ddod o hyd i lety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion.

### iv) Materion sy'n effeithio ar bobl sydd â risg o fod yn ddigartref ar Ynys Môn.

Mae'r strategaeth interim yn ymateb i unrhyw fylchau sy'n bodoli yn y ddarpariaeth ac hefyd yn ystyried y materion ehangach a allai gynyddu'r risg o ddigartrefedd ar gyfer rhai grwpiau neu a allai wneud bodloni eu hanghenion yn fwy o her. Mae'r canlynol wedi eu hadnabod fel pryderon

pwysig sydd angen sylw yn y cynllun gweithredu hyd at 2018 ac yn fwy eang ar draws y Cyngor. Mae dau fater o bwys penodol:

**a) Effeithiau Diwygio Lles**

Mae'r rhaglen hirdymor o newidiadau i fudd-daliadau lles yn parhau a dros y ddwy flynedd nesaf mae angen mesurau lliniaru neu gynlluniau mewn perthynas â:

| Mesur | Prif Risg |
|---|---|
| 1.Gweithrediad Credyd Cynhwysol | • Taliadau Uniongyrchol<br>• Ceisiadau Ar-lein |
| 2.Cynnig arfaethedig o gapio rhenti cymdeithasol ar lefelau Lwfansau Tai Lleol o 2019 | Cyfradd ar gyfer rhai o dan 35 oed yn debygol o gael ei osod ar £58.11 yr wythnos (cyfradd rhannu ystafell) gan wneud tenantiaethau yn bethau na ellir eu fforddio yn y sector cymdeithasol. |
| 3. Rhewi lwfans tai cymdeithasol ar lefelau 2016 am bedair blynedd. | Gostyngiad yn nifer y mannau rhentu preifat sy'n fforddiadwy i drigolion mewn angen. |
| 4. Cynnydd yn y nifer sy'n destun cosbau budd-daliadau. | Mwy o risg o ddigartrefedd o ganlyniad i ôl-ddyledion rhent a llai o incwm. |
| 5. Cyfyngiadau posibl ar fudd-daliadau tai ar gyfer pobl 18-21 oed. | Mwy o bobl ifanc mewn perygl o fod yn ddigartref. |

**b) Wylfa Newydd**

Ym mis Hydref 2016, ymgymerodd Horizon â'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio II mewn perthynas â Wylfa Newydd ar Ynys Môn. Mae'n fwriad gan Horizon i ymgeisio am orchymyn caniatâd datblygu yn 2017 a disgwylir y penderfyniad terfynol ar fuddsoddiad yn 2018.

Disgwylir y bydd y prif waith ar y safle yn dechrau o 2019/2020 (yn amodol ar unrhyw newidiadau yn strategaeth caniatâd datblygu Horizon), fodd bynnag mae gwaith galluogi ar gyfer y prosiect eisoes wedi dechrau ac mae gweithwyr o du allan i Ynys Môn eisoes yn gweithio yma ac angen llety. Mae CSYM wedi adnabod risg uchel o effeithiau ar dai i bobl leol o ganlyniad i'r mewnlifiad o weithwyr adeiladu ac mae wedi dechrau cydweithio â Llywodraeth Cymru, awdurdodau cyfagos a Horizon er mwyn trafod pryderon ac er mwyn ceisio dod o hyd i fesurau lliniaru priodol. Bydd y Fforwm Atal Digartrefedd hefyd yn chwarae rôl bwysig o ran monitro effeithiau'r nifer cynyddol o weithwyr sy'n gysylltiedig â'r Prosiect Wylfa ac sy'n chwilio am lety yn yr ardal.

**3) <u>Datblygiad y Strategaeth Interim</u>**

Er mwyn adnabod y meysydd gwaith allweddol yn ystod y cyfnod interim fe gynhaliwyd gweithdy, a hwyluswyd gan Brif Swyddog Digartrefedd a Chefnogi Pobl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ym mis Tachwedd 2016 ac fe fynychwyd y digwyddiad gan aelodau fforwm Atal Digartrefedd Ynys Môn a rhanddeiliaid eraill.

Cyn y gweithdy, gofynnwyd i bartneriaid lenwi holiadur a oedd yn gofyn iddynt nodi beth oeddent yn deimlo, ar hyn o bryd, oedd y prif resymau a'r risgiau o bobl yn dod yn ddigartref a'r syniadau cychwynnol ar gyfer cydweithio er mwyn ceisio datrys y materion hyn.

Y 3 prif faes pryder a nodwyd oedd:

- Y sector rhentu preifat
  - Landlordiaid ddim yn fodlon derbyn tenantiaid sy'n derbyn Budd-daliadau Tai.
  - Lefelau rhent yn uwch na'r Lwfans Tai Lleol.
  - Llety anaddas; cyflwr a maint.
- Tenantiaid â phroblemau iechyd meddwl a phroblemau cyffuriau ac alcohol
  - Methu ymgysylltu'n effeithiol gyda gwasanaethau cefnogi.
  - Trefniadau partneriaeth gyda'r Gwasaneth Iechyd.
- Credyd Cynhwysol
  - Taliadau uniongyrchol
  - Ceisiadau Ar-lein.
  - Cyfyngiadau Budd-daliadau Tai ar gyfer rhai o dan 21 oed.
  - Cynnydd yn nifer y cosbau.

Trafodwyd yr uchod mewn mwy o fanylder yn ystod y gweithdy ac fe ganolbwyntiwyd ar ddod o hyd i atebion er mwyn datrys y problemau ac o ganlyniad cafwyd tair thema blaenoriaeth i'r strategaeth a nifer o'r gweithredoedd cysylltiedig.

**Y Cynllun Gweithredu**

Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys cyfnod o hyd at 18 mis pan fydd y strategaeth ranbarthol yn cael ei rhoi ar waith ac mae'n cymryd i ystyriaeth y thema a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru o fewn y cynllun digartrefedd 10 mlynedd 2009. Mae'r cynllun digartrefedd 10 mlynedd yn nodi agwedd hirdymor tuag at fynd i'r afael â digartrefedd.

Yr 11 o themâu ar gyfer y cynllun 10 mlynedd yw:

- Gwella Iechyd a Lles
- Datblygu'r Sector Rhentu Preifat
- Cynnal Tenantiaethau
- Darparu cyngor llety
- Lleihau nifer yr adfeddiannu morgais
- Cyfiawnder troseddol – torri'r cylch
- Atal digartrefedd rhan camdriniaeth ddomestig
- Gwella cyfleoedd bywyd; sgiliau a chyflogaeth
- Sicrhau'r Cynhwysiant Ariannol gorau posibl
- Mynd i'r afael â digartrefedd yng nghefn gwlad
- Lletya Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid

Mae'r 11 o themâu yn cydnabod fod gan bobl ddigartref amrywiaeth eang o anghenion a bod angen gwasanaethau ac ymyraethau amrywiol er mwyn ymgysylltu â, cefnogi ac awdurdodi defnyddwyr gwasanaeth. Drwy ddelio â'r meysydd hyn mae Ynys Môn yn rhoi cyfres gynhwysfawr o fesurau yn eu lle sydd â'r nod o ddatrys y rhesymau dros ddigartrefedd.

Y tri cyntaf o'r rhain yw'r rhai y canolbwyntir arnynt yn benodol yn y cynllun gweithredu interim gan mai'r rhain a gafodd eu hadnabod fel blaenoriaethau uniongyrchol gan randdeiliaid yn y digwyddiad ymgynghori diweddar.

Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei fonitro'n chwarterol gan Fforwm Atal Digartrefedd Ynys Môn ac yn cael ei adrodd yn ôl arno i Bartneriaeth Dai Ynys Môn.

# CYNLLUN GWEITHREDU

# ACTION PLAN

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL



www.ynysmon.gov.uk www.anglesey.gov.uk

DRAFT



**Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd 2017-18**

***Darpariaeth Cyngor ar Lety a Lles***

Nod: sicrhau bod y cyngor a roddir yn canolbwyntio ar atal a'i fod ar gael i bawb sydd ei angen.

| Rhif. | Prosiect/Tasg | Gweithred | Dyddiad Targed | Canlyniad sydd ei angen | Mesurir drwy | Blaen Bartner | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1) | Gwella'r cyngor ymhellach er mwyn atal digartrefedd drwy sicrhau bod y Tîm Opsiynau tai a'r sefydliadau trydydd sector yn cydweithio mewn modd mor effeithiol â phosibl. | a) Datblygu a mabwysiadu Cytundeb Lefel Gwasaneth sy'n cytuno ar flaenoriaethau ac sy'n nodi'n glir beth yw rolau'r gwahanol sefydliadau gyda fframwaith monitor wedi'i gytuno. | Medi 2017 | Gwell cydweithio a chydweithio mesuradwy er mwyn atal digartrefedd. | Cwblhau a gweithredu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth | Tai Strategol, CSYM | |
| 2) | Sicrhau'r mynediad gorau posibl i gyngor ariannol a chynhwysiant digidol ar gyfer pobl sy'n hawlio | Mapio ffynonellau o gymorth ariannol a hyfforddiant TG sy'n addas ar gyfer y grŵp hwn a sicrhau bod yr opsiynau | Medi 2017 | Gwell mynediad i gynhwysiant ariannol a digidol gan | Cwblhau a chyhoeddi ymarfer mapio. | Tai Strategol, CSYM | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | budd-daliadau a'r rhai hynny sydd â risg o fod yn ddigartref. | yn hysbys i ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaeth. | | ddefnyddwyr gwasanaeth a chyfleoedd i osgoi dyblygu gwasanaethau | | | |

***Datblygu'r Sector Rhentu Preifat***

***Nod:*** Gwella mynediad i amrywiaeth o lety o safon o fewn y PRS, sy'n fforddiadwy ac yn gynaliadwy ar gyfer pobl fregus.

| **Rhif.** | **Prosiect/Tasg** | **Gweithred** | **Dyddiad Targed** | **Canlyniad sydd ei angen** | **Mesurir drwy** | **Blaen Bartner** | **Cynnydd** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3) | Hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth ymysg landlordiaid presennol a phosibl o'r mathau o eiddo sydd eu hangen ar Ynys Môn gan bobl sydd angen rhentu. | Rhannu gwybodaeth am anghenion tei lleol sydd wedi'i chasglu gan yr awdurdod lleol gyda landlordiaid preifat drwy gylchlythyrau, is-grwpiau landlordiaid a fforwm blynyddol. | Tachwedd 2017 | Gwell dealltwriaeth ymysg landlordiaid preifat o anghenion leol gan edrych i sicrhau gwell cyflenwad o eiddo llai am rent y gellir ei reoli | Defnyddio sianeli priodol er mwyn rhannu gwybodaeth . Adborth gan landlordiaid. | Tîm Iechyd Amgylcheddol (Sector Preifat) CSYM.<br><br>Partneriaid: Opsiynau Tai CSYM, swyddogion strategaethau tai yn cefnogi adeiladwyr er mwyn rhoi darlun o'r anghenion. | |
| 4) | Ymchwilio i opsiynau ar gyfer hwyluso rhannu, yn enwedig ar gyfer pobl sengl o dan 35 oed fel ymateb i'r newidiadau i fudd-daliadau lles sy'n cyfyngu costau tai i raddfa llety wedi'i rannu. | Sefydlu grŵp tasg a gorffen er mwyn ystyried cyfleoedd<br>Cam 1 – adrodd ar gyfleoedd lleol ar gyfer datblygu modelau rhannu llety<br>Cam 2 – sefydlu rhaglenni peilot yn seiliedig ar y gwerthusiad cychwynnol. | | Cam 1 – dealltwriaeth o faterion tenantiaeth, cyfleoedd a risgiau<br>Cam 2 – cynllun peilot wedi'i sefydlu | | Digartref i arwain y grŵp Tasg a Gorffen er mwyn ystyried cyfleoedd. | |







DRAFT

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5) | Par. Sector Rhentu Preifat i ddatblygu rhaglen o weithredoedd sy'n annog ac yn cefnogi landlordiaid preifat i gynnig mwy o denantiaethau i gwsmeriaid bregus sy'n wynebu digartrefedd neu sydd â risg o fod yn ddigartref. | 1. Adolygu effeithlonrwydd mesurau sydd eisoes yn cael eu defnyddio.<br><br>2. Ystyried mesurau posibl gan gynnwys:<br>• Sesiynau hyfforddiant sy'n darparu landlordiaid â mwy o wybodaeth a phrofiad am sut i gefnogi tenantiaid sydd ag anghenion cefnogi neu sy'n derbyn budd-daliadau.<br>• Cyfeirio mwy o denantiaid posibl ar yr Undeb Gredyd er mwyn iddynt allu deall manteision cyfrifon 'Pot Jam'.<br>• Adnabod mwy o landlordiaid sy'n barod i gymryd tenantiaid ar incwm isel ac sy'n derbyn budd-daliadau.<br>• Defnyddio cymhelliannau mewn amgylchiadau priodol er mwyn annog landlordiaid i roi tenantiaethau i denantiaid sy'n fwy bregus. | | Mwy o fynediad i lety yn y sector rhentu preifat gan gwsmeriaid fwy bregus | 1) Rhaglen wedi'i diweddaru o weithredoedd er mwyn cynyddu ymgysylltiad gan landlordiaid preifat ar Ynys Môn.<br>2) Mwy o landlordiaid yn cael eu rhestru gan y Cyngor fel rhai sy'n fodlon derbyn tenantiaid incwm isel / sy'n dibynnu ar fudd-daliadau. | Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol CSYM | |
| 6) | Cyfrannu at wella cyflwr eiddo yn y sector llety preifat i'w rentu. | Parhau i sicrhau bod llety rhent preifat yn cydymffurfio â deddfwriaethau cyfredol.<br><br>Parhau i hyrwyddo Rhentu | Adroddiad ar ddiwedd yr ail a'r pedwerydd chwarter | Lleihau nifer y tenantiaid sy'n symud ymlaen o ganlyniad i amodau gwael | Nifer y landlordiaid sydd wedi cofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru. | Tîm Iechyd Amgylcheddol (Sector Preifat) CSYM. | |

DRAFT

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Doeth Cymru. Cychwyn proses orfodaeth ar gyfer landlordiaid nad ydynt hyd yma wedi cofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru. | | eiddo rhent preifat. | Nifer yr atgyfeiriadau mewn perthynas â'r sector rhentu preifat a ymgymerir â nhw gan EHOau a nifer y gorfodaethau. | | |

*Gwella Iechyd a Lles*

- Sicrhau bod safonau tai yn hyrwyddo iechyd a lles.

| Rhif. | Prosiect/Tasg | Gweithred | Dyddiad Targed | Canlyniad sydd ei angen | Mesurir drwy | Blaen Bartner | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7) | Gwneud gwaith er mwyn dechrau gwella'r trefniadau partneriaeth gyda'r GIG mewn perthynas â phobl sydd â risg o ddigartrefedd. | Aelodau o Fforwm Atal Digartrefedd Ynys Môn i roi adborth ar y cyd mewn perthynas â gwendidau yn ymwneud â gadael yr ysbyty, rhaglen dadwenwyno, diagnosis deublyg i'r<br>a) Bwrdd Gwasanaeth Lleol<br>b)Is-grŵp Tai ac Iechyd rhyddhau o'r Ysbyty 2025*<br>(*Mae Tai ac Iechyd 2025 yn bartneriaeth Gogledd Cymru sy'n gweithio i sicrhau y bydd anghydraddoldebau iechyd y gellir eu hosgoi sy'n bodoli yng Ngogledd Cymru yn 2015 yn dod i ben cyn 2025). | Rhagfyr 2017 | Y Bwrdd Gwasaneth Lleol yn ymwybodol o lle y gellid gwneud gwelliannau. | Ymateb gan y Bwrdd Gwasanaeth Lleol. | Tîm Tai Strategol CSYM i ymgynnull grŵp tasg a gorffen o aelodau'r Fforwm Atal Digartrefedd. | |

DRAFT

DRAFT

***Cynnal Tenantiaethau***

- Gwasanaethau Cefnogi wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer anghenion pobl fregus er mwyn eu galluogi nhw i gael a chynnal y sgiliau a/neu'r hyder angenrheidiol er mwyn gallu cael a chadw llety.

| Rhif. | Prosiect/Tasg | Gweithred | Dyddiad Targed | Canlyniad sydd ei angen | Mesurir drwy | Blaen Bartner | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8) | Ymchwilio i ehangu mentrau sy'n cefnogi ymgysylltiad gyda defnyddwyr gwasanaeth bregus y mae hi'n anodd ymgysylltu â nhw drwy lwybrau presennol. | Ystyried sefydlu neu ymestyn:<br>-gwasanaeth cyfaill / monitro cyfoedion.<br>- Sesiynau galw heibio<br>- gwasanaethau eiriolaeth a gwasanaethau cymodi | Mesurir ddwy waith y flwyddyn | Ymgysylltu â phobl a oedd yn amharod i ymgysylltu yn y gorffennol drwy gynnig amrywiaeth ehangach o fentrau sydd o natur fwy anffurfiol a hyblyg. | Nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n ymgysylltu o ganlyniad i'r mentrau newydd. | Tîm Opsiynau Tai CSYM, Tîm Strategaeth a Rheoli Tai i weithio gyda Digartref. | |
| 9) | Datblygu opsiynau ar gyfer parhau'r cymorth tu hwnt i 2 flynedd mewn achosion unigol lle mae angen hynny. | Gwerthuso digonolrwydd cymorth 2 flynedd; ymchwilio i opsiynau eraill e.e. gwasanaeth galw i mewn ac allan. | Dec 2017 | Darparu gwasanaeth sy'n bodloni anghenion y cwsmeriaid sydd ag anghenion cefnogaeth parhaus. | Canlyniadau'r gwerthusiad, wedi'i ddilyn gan weithrediad y cynnig os yn briodol. | Cefnogi Pobl | |
| 10) | Datblygu agwedd gyson ar gyfer cwsmeriaid sydd angen cymorth sy'n eu galluogi nhw i gael mynediad i'r cymorth cywir mewn modd mor hawdd â phosibl. Gwella | Sefydlu pwynt mynediad unigol, o fewn yr Awdurdod Lleol ar gyfer yr holl wasanaethau a | Dec 2017 | Deallir rôl pob partner.<br><br>Cwsmer yn cael mynediad i'r gwasanaeth cywir iddyn nhw. | Pwynt mynediad sengl yn ei le ac yn gweithio'n effeithiol. | Cefnogi Pobl | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | mynediad i wasanaethau Cefnogi Pobl drwy sefydlu Pwynt Mynediad Unigol wedi'i leoli o fewn Tîm Opsiynau Tai y Cyngor. | ariennir drwy gefnogi pobl. | | | | | |

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **20/03/17** |
| **Pwnc:** | **Cynnig i barhau'r trefniant o ddarparu'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd am 5 mlynedd bellach (2017-2022)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cyng. Richard Dew**<br>**Y Cyng. Ieuan Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan J. Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Dylan Williams, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**<br>**2499**<br>**dwxpl@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Mater i'r ynys gyfan** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Cymeradwyo'r cynnig i barhau'r trefniant o ddarparu'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd am 5 mlynedd bellach.

Rhoi'r awdurdod i Uwch Swyddogion Adran Rheoleiddio a'r Adran Gyfreithiol, i adolygu a chytuno ar gytundeb cydweithio newydd i ymestyn y cyfnod cydweithio i gynnwys:

1. **Adolygu a chytuno ar drefniadau gweinyddu, gweithredu a rheoli'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd;**

**B – Cefndir a pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Cytunodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Cyngor Gwynedd i gydweithio i ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd yn ôl ym Mehefin 2010, pryd cytunwyd y canlynol:

- i) Bod Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei sefydlu i ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol Ynys Môn a Gwynedd.
- ii) Bod Bwrdd Prosiect ar y Cyd yn cael ei sefydlu i arolygu gwaith yr Uned.
- iii) Bod yr Uned yn dechrau gweithio ar un Cynllun Datblygu Lleol sengl ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol Ynys Môn a Gwynedd.
- iv) Bod Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd yn cael ei sefydlu i lywio'r gwaith o gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer y ddau Awdurdod.
- v) Bod Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei sefydlu fel corff trawsffiniol ar gyfer cymryd penderfyniadau
- vi) Bod Pennaeth yr Adran Reoleiddio a Phennaeth yr Adran Democratiaeth a Chyfreithiol yn derbyn awdurdod i weithredu i), ii), iii), iv) a v).

Lluniwyd cytundeb cydweithio er mwyn gweithredu ar benderfyniad y ddau Gyngor, gyda chyfnod y cytundeb ynghlwm a'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer ardaloedd y ddau Awdurdod Cynllunio (ddim yn cynnwys ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri). Mae'r cytundeb cyfredol felly'n nodi bod y trefniadau cydweithio yn parhau nes bod y CDLl ar y cyd yn cael ei fabwysiadu, neu tan 31 Rhagfyr 2017 (pa un bynnag oedd y cynharaf), oni bai bod y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol yn cytuno i'w hymestyn. Nodir ein bod ar hyn o bryd yn gobeithio y bydd y ddau Gyngor mewn sefyllfa i fod yn ystyried mabwysiadau CDLl yn ystod Mehefin / Gorffennaf 2017 yn ddibynnol ar ddyddiadau cyfarfodydd y Cynghorau Llawn (Gweler Atodiad 1 : Amserlen a Chamau'r CDLl).

**Pam sefydlwyd y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd?**

1. Wrth ystyried y cyfiawnhad dros gydweithio yn wreiddiol roedd y ddau Gyngor yn gytûn bod nodweddion oedd yn debyg yn y ddau Awdurdod o ran darpariaeth gwasanaeth polisi cynllunio. Roedd hyn yn fwyaf amlwg o ran swyddogaethau'r gwasanaethau polisi, y materion allweddol ynghylch swyddogaethau'r gwasanaeth, cyswllt cwsmeriaid, cymeriad yr ardaloedd a'r prif heriau roedd y ddau Awdurdod yn eu hwynebu (e.e. datblygiadau sylweddol megis Wylfa Newydd ac ati) wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol, sef prif faes gwaith.

2. Edrychwyd ar sawl senario posib ar gyfer beth fuasai'r trefniant cydweithio fuasai'n debygol o ddod a'r buddion mwyaf i'r ddau Awdurdod. Cytunwyd mai'r opsiwn oedd yn dod a'r buddion mwyaf oedd creu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (gyda Chyngor Gwynedd fel Awdurdod Cynhaliol ar gyfer yr UPCC), gan gychwyn ar y broses o baratoi un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer ardaloedd y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol. Roedd yr achos busnes ar y pryd yn cynnwys rhesymau cynllunio ac ariannol dros y dull yma o gydweithio gyda'r buddion yn cynnwys:

   a) Rhannu gwybodaeth arbenigol
   b) Cyfleoedd datblygu gyrfa
   c) Cynhyrchu gwasanaeth cadarnach
   d) Cynyddu hyblygrwydd adnoddau staff a defnyddio staff yn fwy effeithiol
   e) Cynllunio ar lefel fwy strategol ac integreiddio polisïau trawsffiniol
   f) Symleiddio, llyfnhau a gwella trefniadau cyswllt gyda chwsmeriaid ac felly gwella gwasanaeth i gwsmeriaid
   g) Rhannu costau, gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac arbed costau i'r ddau Gyngor
   h) Rhannu gweledigaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol
   i) Rhannu ymchwil ar gyfer y gwaith Cynllun Datblygu Lleol
   j) Cyfuno gwybodaeth ac ymdrechion i roi rhagor o rym i ddadleuon er mwyn cyrraedd amcanion cyffredin (e.e. tai i bobl leol, materion ieithyddol)
   k) Mynd i'r afael yn llawn â'r materion ynghylch cadernid y Cynllun Datblygu Lleol
   l) Gallu paratoi Cynllun Datblygu Lleol cadarn

3. Paratoi Cynllun Datblygu Lleol yw prif allbwn gwaith gwasanaeth polisi cynllunio ac mae'n ofyn statudol ar bob Awdurdod Cynllunio i baratoi Cynllun. Mae'n broses sydd angen arbenigedd eang, peth gwaith comisiynu allanol ac archwiliad cyhoeddus tuag at diwedd y broses.

4. Paratoi CDLl yw'r elfen fwyaf costus o waith gwasanaeth polisi cynllunio, ac ar y pryd, gan edrych ar gostau comisiynu gwaith ymchwil ac archwiliadau cyhoeddus mewn Awdurdodau eraill, rhoddwyd amcan gost o tua £250,000 y flwyddyn (ddim yn cynnwys costau staff) i baratoi un Cynllun Datblygu Lleol. Gwnaethpwyd gwaith proffilio gwariant posib ar y broses paratoi CDLl oedd yn darogan y buasai cost paratoi 2 Gynllun (1 i Cyngor Sir Ynys Môn ac 1 i Gyngor Gwynedd) yn costio tua £1.9 miliwn, gydag un Cynllun ar y Cyd yn cael ei baratoi gan Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, yn costio tua £1.3 milwn. Ar sail y gwaith proffilio a gafodd ei wneud cyn cychwyn y broses, roedd hyn golygu y buasai'r ddau Awdurdod yn arbed costau o tua £600, 000 rhyngddynt yn sgil y trefniant cydweithio.

**Beth yw pwrpas y UPPC a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd?**

Pan grëwyd yr UPCC ar y cyd roedd yr Uned yn cynnwys 12 aelod o staff a phwrpas yr UPCC oedd **'hwyluso datblygu cynaliadwy, cyfrannu at adfywio cymdeithasol ac economaidd yn ogystal â chreu amgylchedd o'r safon uchaf sy'n hygyrch i bawb, drwy reoli'r defnydd o dir ac adeiladau'.** Gellir crynhoi prif ddyletswyddau'r UPCC fel a ganlyn:

a) Cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol sengl ar gyfer Ardaloedd Cynllunio Lleol Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd
b) Monitro Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd sydd wedi'i fabwysiadu.
c) Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol.
d) Darparu cyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor ar geisiadau cynllunio, cynigion, materion gorfodaeth ac apeliadau) ac ymatebion ymgynghori ar faterion polisi cynllunio i'r ddau Awdurdod, sefydliadau allanol a'r cyhoedd yn gyffredinol.
e) Cynnal Arolygon o Argaeledd Tir ar gyfer Tai bob blwyddyn.
f) Cyfrannu at gynhyrchu Briffiau Datblygu a Strategaethau Datblygu ar gyfer y ddau Awdurdod

Mae'r UPPC yn atebol i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a grewyd fel rhan o'r cytundeb cydweithio, ac sydd yn cynnwys 14 Cynghorydd (sef 7 yr un o'r ddau Gyngor). Rôl y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yw:

a) Cytuno a chwblhau'r CDLl ar y Cyd Adneuol ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd.
b) Cytuno a chwblhau'r adroddiadau ar yr ymatebion i'r ymgynghoriadau a (lle bo'n briodol) newidiadau i'r CDLl ar y Cyd Adneuol ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd.
c) Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â CDLl ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd.
d) Derbyn a chytuno adroddiad yr Arolygydd Cynllunio.
e) Bod yn gyfrifol am fonitro ac adolygu CDLl ar y Cyd ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd.

Mae yna hefyd Banel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n cynnwys yr un Cynghorwyr sy'n perthyn i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Ei rol yw ystyried dogfennau drafft ac sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r CDLl ar y Cyd.

**Asesiad o'r trefniant cydweithio**

Mewn cyfarfod o'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 24ain o Fehefin 2016, cytunwyd ei bod yn amserol i adolygu trefniadau presennol y gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y cyd rhwng Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd.

Yn dilyn hyn fe gytunwyd y bydd Christian Branch (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, Cyngor Sir Ynys Môn) yn ymgymryd ag adolygiad ar ran Dylan Williams (Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) a Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd). Pwrpas yr adolygiad oedd :

a) Darganfod effeithlonrwydd a phriodoldeb y trefniadau cydweithredol presennol.

b) Amlinellu gwersi a ddysgwyd o’r trefniadau presennol a fydd yn dylanwadu a llywio trefniadau gweithio cydweithredol y dyfodol.

c) Ystyried trefniadau ar gyfer y dyfodol.

Mae copi o’r adolygiad llawn yn Atodiad 2 ond crynhoir y prif gasgliadau sydd yn deillio o’r adolygiad isod.

Mae’r model cydweithio wedi torri tir newydd yn y maes polisi cynllunio. Mae’r prosiect wedi bod yn arloesol ac yn unigryw yn y maes polisi cynllunio yng Nghymru. Mae’r model cydweithio’n cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru fel esiampl y dylai Awdurdodau Cynllunio eraill fod yn ei ystyried. Credir hefyd bod y trefniant yn mynd i’r un cyfeiriad yn gyffredinol a’r hyn sydd yn cael ei grybwyll ym Mhapur Gwyn (Ionawr 2017) Llywodraeth Cymru, ynglŷn ag ad-drefnu gwasanaethau llywodraeth leol a pharatoi ar gyfer cynllunio defnydd tir strategol yn Rhanbarthol. Credir hefyd bod y trefniant yn mynd i’r un cyfeiriad yn gyffredinol a’r hyn sydd yn cael ei grybwyll ym Mhapur Gwyn (Ionawr 2017) Llywodraeth Cymru, ynglŷn ag adrefnu gwasanaethau llywodraeth leol a pharatoi ar gyfer cynllunio defnydd tir strategol yn Rhanbarthol.

Gweler o’r amserlen sydd yn Atodiad 1, bod y ddau Gyngor bron a chyrraedd diwedd y broses o ran paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, gyda’r Cynllun wedi ei raglennu ar gyfer ystyried ei fabwysiadu gan y ddau Gyngor yn ystod Mehefin / Gorffennaf 2017. Mae hyn yn dystiolaeth gadarn fod y trefniadau yn gyffredinol wedi gweithio ac yn debygol o gyflawni'r prif allbwn allan o’r trefniant cydweithio, sef mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Bydd hyn yn rhoi sylfaen polisi cadarn i hwyluso datblygiadau bydd yn cwrdd ag anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y ddau Gyngor, ac i atal datblygiadau gall fod yn niweidiol.

Mae’r Uned wedi datblygu i fod yn dîm cryf gydag arbenigedd eang a phrofiad yn y maes polisi Cynllunio a’r gallu i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, sydd wrth gwrs yn hynod bwysig i drigolion ardal y ddau Gyngor. Mae swyddogion yr Uned yn gweithio fesul maes cynllunio yn hytrach na fesul ardal, sydd wedi hwyluso’r gwaith o roi arweiniad polisi trawsffiniol cyson. Mae’r capasiti a’r ystod o arbenigedd eang o fewn yr Uned wedi cwtogi faint o waith oedd angen ei gomisiynu gan ymgynghorwyr allanol.

Mae'r cydweithio i baratoi un Cynllun wedi arbed costau ac wedi cyflawni arbedion i’r ddau Gyngor. Fel y nodwyd eisoes y brif gost (ddim yn cynnwys costau staffio) yw’r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol a crynhoir y materion perthnasol fel a ganlyn:

- Roedd y ddau Gyngor yn rhagweld y buasai un Cynllun ar y Cyd yn gallu arbed tua

£600,000 rhwng y ddau Awdurdod.

- O edrych ar gostau'r broses hyd yma (2011-2017), ymddengys bod y ddau Gyngor wedi arbed costau o tua £320, 000 (o leiaf yr un). Bydd costau 2016 – 2017 yn cynnwys costau cynnal yr archwiliad cyhoeddus, sef un o'r costau mwyaf gallai fod hyd at £500,000. Trwy fod angen un archwiliad cyhoeddus yn unig fydd y Cynghorau'n arbed rhagor o arian.
- Mae mwy o arbenigedd a chapasiti o fewn yr Uned yn golygu bod rhan helaeth o'r gwaith wedi ei wneud gan yr Uned, gan gwtogi ar gostau comisiynu gwaith yn allanol.
- Mae'r trefniant mae'n debyg wedi arbed costau i gyrff megis Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac ati sydd yn rhoi mewnbwn i un Cynllun yn unig yn lle dau gynllun ar wahân.

Yn ogystal ag arbed costau i'r ddau Gyngor bydd arbedion / toriadau'n cael eu cyflawni yn yr Uned fydd yn torri nifer staff yr Uned o 12, i 10 (diwedd Mawrth 2017) ac wedyn i 8 (diwedd Mawrth 2018) gan ddod ag arbedion o £111,570 i'w rannu rhwng y ddau Gyngor.

Gan ystyried yr uchod credir bod y trefniant cydweithio wedi bod yn briodol ac yn effeithlon ac i raddau helaeth, wedi cyflawni'r buddion oedd yn cael eu rhagweld wrth sefydlu'r trefniant yn y lle cyntaf ac wedi bod yn llwyddiant. Unwaith bydd y Cynllun wedi ei fabwysiadu'n ffurfiol, mae'n bwysig bod y llwyddiant yma'n cael ei gydnabod a'i ddathlu, gan gydnabod cyfraniad staff yr Uned, Aelodau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, a'r ddau Gyngor i'r llwyddiant.

Er yr ystyrir y trefniant cydweithio i fod yn llwyddiant mae'r Adolygiad yn adnabod cyfleoedd lle gellir cryfhau a gwella'r trefniadau cydweithio ac yn adnabod materion fydd angen eu hystyried os am barhau gyda'r trefniant cydweithio ar gyfer y dyfodol. Mae'r materion hyn yn cynnwys:

a) Cryfhau perchnogaeth o'r Uned o fewn y ddau Gyngor.

b) Cryfhau a gwella trefniadau rheolaethol ar y cyd ar gyfer gwaith a blaenoriaethau'r Uned, materion perfformiad, cyllid a materion staff.

c) Angen creu rhaglen waith clir a pendant i'r Uned ar ôl i'r Cynllun gael ei fabwysiadu ac edrych ar yr adnoddau sydd eu hangen (mewn cyfnod o arbedion / toriadau)

d) Angen trefniadau mwy pendant ar gyfer cyd-weithio ac integreiddio'r Uned gyda gwasanaethau cynllunio'r ddau Gyngor a gwasanaethau eraill.

e) Angen i'r Uned weithio'n fwy hyblyg a bod yn fwy gweledol o fewn y ddau Gyngor.

f) Angen i ddiffinio rôl yr Uned yn y gwaith o gyfarch anghenion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol

Mae'r Adolygiad yn argymell bod cyfiawnhad i barhau gyda'r trefniant cydweithio ar gyfer y 5 mlynedd nesaf (2017-22) i gyd-fynd a'r adolygiad ffurfiol cyntaf o'r Cynllun. Mae hyn wrth gwrs yn ddarostyngedig i'r trefniant newydd fod yn cyfarch y materion sydd yn cael eu crybwyll yn a) i f)

uchod, fel rhan o'r cytundeb cydweithio newydd.

Nodir bod yr Adolygiad o'r UPCC sydd yn Atodiad B wedi cael ei adrodd a'i graffu mewn cyfarfod o'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar y 27 Ionawr 2017, a bod Aelodau'r Panel wedi cefnogi'r argymhelliad yn unfrydol.

Mae'r Adolygiad o'r Uned yn dod i'r casgliad bod y trefniant cydweithio wedi bod yn llwyddiant, gyda hynny i raddau helaeth yn cyfiawnhau parhau gyda'r trefniant cydweithio am 5 mlynedd arall. Er bod yr Adolygiad yn cyffwrdd ar beth gall y buddion fod i'r Cynghorau yn sgil parhau gyda'r trefniant cydweithio pellach, credir fod angen ymhelaethu ar hynny wrth ystyried dyfodol y Gwasanaeth Polisi Cynllunio. Mae angen edrych ar beth fydd sgôp gwaith yr Uned Polisi ar ôl mabwysiadu'r Cynllun, yn ogystal â nodi beth yn union yw'r manteision posib i'r ddau Gyngor.

**Sgôp Gwaith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd 2017 - 2022**

5. Rhagwelir bod y prif ddyletswyddau'r Uned yn cynnwys:

a) Gwaith monitro blynyddol o bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gan baratoi un **Adroddiad Monitro Blynyddol ar y cyd** i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i chyhoeddi

b) Cynhyrchu un gyfres o **Ganllawiau Cynllunio Atodol** i'r Cynghorau fydd yn rhoi cig ar asgwrn polisïau'r CDLl.

c) Archwilio hyfywdra **creu rhestr codi ardoll** am ddatblygu (Rheoliadau CIL) yn ardaloedd y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol.

d) Cynnal arolygon blynyddol i fesur **argaeledd tir ar gyfer tai** yn ardaloedd y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol

e) Darparu cyngor arbenigol mewn **ymateb i ymholiadau am faterion polisi cynllunio** i'r ddau Awdurdod Cynllunio Lleol.

f) Dechrau adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a chyhoeddi un **Adroddiad yr Adolygiad**;

g) Yn ddibynnol ar gasgliadau'r adolygiad o'r Cynllun, ymgymryd â'r **broses i ddiwygio'r** Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (y weithdrefn ddiwygio fer neu lawn).

Yn ogystal â'r prif ddyletswyddau uchod bydd gwaith yr Uned hefyd yn cynnwys cyfrannu i'r broses creu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a/ neu Gynllun Datblygu Strategol, yn ôl y gofyn, cydweithio gyda chymunedau penodol yn ardal y ddau Gyngor i greu Cynllun Lleoliad, yn ôl y gofyn ac arwain ar roi cyngor / mewnbwn polisi arbenigol i'r ddau Gyngor, yn Rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae Atodiad 3 yn ymhelaethu ar beth fuasai sgôp gwaith yr Uned, gan dynnu sylw hefyd at ofynion statudol gwaith yr Uned. Yr hyn sydd yn cael ei amlygu yma yw nad yw gwaith yr Uned, o bell ffordd, yn dod i ben ar ôl mabwysiadu cynllun.

**Beth yw'r budd i'r ddau Gyngor o barhau gyda'r trefniant cydweithio?**

Bydd cael un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi ei fabwysiadu ar gyfer ardaloedd y ddau awdurdod yn rhoi sylfaen bolisi cadarn i'r ddau Awdurdod, fod yn hwyluso datblygiadau sydd yn cwrdd ag anghenion y ddau awdurdod. Mae hefyd yn rhoi'r ddau Awdurdod mewn sefyllfa gryfach i fod yn gallu manteisio ar fuddion posib yn sgil parhau'r trefniadau cydweithio cyfredol.

Gweler o baragraff 25 uchod y bydd gan yr Uned ystod eang o ddyletswyddau bydd angen i'r ddau gyngor eu cyflawni, ar ôl mabwysiadu'r Cynllun, gyda nifer o'r dyletswyddau yma'n rai statudol. Bydd parhau gyda'r trefniant cydweithio'n golygu gorfod cyflawni'r dyletswyddau unwaith gan un Uned Polisi sef yr Uned ar y cyd ar gyfer y ddau Gyngor.

**Pa Opsiynau eraill wnaethoch ystyried?**

Petai'r ddau Awdurdod yn ystyried dod a'r trefniant cydweithio i ben, buasai hyn yn golygu rhannu'r Uned a chreu Unedau llai o fewn y ddau Gyngor. Gan ystyried bod yr Uned yn mynd i lawr i 8 aelod o staff diwedd erbyn diwedd Mawrth 2018, buasem yn edrych ar 2 Uned fechan gydag oddeutu 4 aelod o staff yr un. Buasai'r 2 Uned fechan angen cyflawni'r dyletswyddau a nodir ym mharagraffau 25 a 26, ar ben eu hunain ac ar wahân, gyda'r gwaith yn cynnwys 2 Adroddiad Monitro Blynyddol, 2 gyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol, 2 Adolygiad o'r Cynllun a 2 broses o ddiwygio'r Cynllun. Credir ei bod yn rhesymol dod i gasgliad na fuasai'r opsiwn yma o fudd i'r ddau Gyngor gan ystyried :

- Yr effaith negyddol posib o chwalu'r Uned
- Y buasem yn colli arbenigedd mewn meysydd penodol
- Y buasai hyn yn milwrio yn erbyn dyheadau Llywodraeth Cymru i gael mwy o gydweithio yn y maes cynllunio
- Y gwaith dyblygu a'r costau posib i'r ddau Gyngor
- Yr effaith negyddol tebygol ar wasanaethau polisi'r ddau Gyngor

Credir bod cyfiawnhad o safbwynt cynllunio ac arbed costau'n yn debygol o ddeillio allan o barhau gyda'r trefniadau cydweithio cyfredol. O safbwynt cynllunio mae'r adolygiad wedi cadarnhau bod y trefniant cydweithio wedi bod yn llwyddiant, ac mae sefydlu un Uned gref sydd wedi datblygu arbenigedd eang wedi bod yn rhan bwysig o'r llwyddiant. Bydd parhau gyda'r trefniant cydweithio'n rhoi cyfle i'r ddau gyngor gallu adeiladu ar y llwyddiant, a cheisio cadw'r arbenigedd sydd wedi ei ddatblygu yn yr Uned. Credir y buasai hyn yn rhoi'r ddau Gyngor yn y sefyllfa gryfaf i gwrdd â'r heriau cynllunio ac ariannol, o fewn y ddau Awdurdod dros y 5 mlynedd nesaf. Credir hefyd y bydd hyn yn sicrhau fod gan y ddau Gyngor lais cryf o fewn y rhanbarth (ac yn genedlaethol), pan fydd ystyriaeth yn cael ei roi i baratoi cynlluniau datblygu strategol.

Credir y bydd parhau gyda'r trefniadau cydweithio cyfredol yn parhau i arbed costau i'r ddau Gyngor, ond mae'n anodd rhoi ffigyrau cadarn ar yn union faint o arian gall y ddau Gyngor ei arbed. Buasai'r costau yn cael eu harbed drwy osgoi dyblygu gwaith, ac mae Atodiad 4 yn rhoi amcangyfrif yn unig o'r costau o baratoi un gyfres o ddogfennau (ddim yn cynnwys costau staff) yn unig gan Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd. Mae'r costau'n cynnwys y gost o baratoi 17 Canllaw

Cynllunio Atodol, Astudiaeth Tir ar gyfer Tai, monitro, asesu'r angen am restr ardoll, argraffu'r Cynllun Datblygu Lleol (ar ôl mabwysiadu) a diwygio'r Cynllun. Mae'r amcangyfrif o'r gost oddeutu £631,000, gyda'r gost fwyaf o tua £409,000 yn gysylltiedig â'r broses o ddiwygio'r Cynllun. Nodir y gall y gwaith o ddiwygio'r Cynllun fod yn ymestyn tu hwnt i 2022, heblaw bod angen adolygiad cynnar. Pwysleisir eto mai amcangyfrif o'r gost yn unig a roddir yma, ond eto mae'n rhesymol dod i'r casgliad y gall y ddau Gyngor fod yn wynebu costau o tua £631,000 yr un, yn hytrach na rhyngddynt petai'r trefniant cydweithio'n dod i ben.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Gan ein bod ym mlwyddyn olaf y cytundeb cydweithio, credir ei bod yn amserol i ystyried a phenderfynu ar ddarpariaeth y Gwasanaeth Polisi ar gyfer y ddau Awdurdod i'r dyfodol. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd a sefydlogrwydd i'r ddau Gyngor ac i staff yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC).

Er mwyn gallu rhoi ystyriaeth lawn i ddarpariaeth y Gwasanaeth Polisi Cynllunio i'r dyfodol, credir fod angen edrych ar yr achos busnes a'r cyfiawnhad ar gyfer sefydlu trefniadau cydweithio yn y lle cyntaf, ac asesu os yw'r trefniant wedi cyflawni'r buddion oedd yn cael eu rhagweld ar y pryd, i'r ddau Gyngor. Mae hefyd angen cadarnhau beth yw pwrpas yr UPCC o dan y trefniant cydweithio presennol. Nodir yng nghyd-destun hyn bod Adolygiad Annibynnol wedi ei gynnal o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn ddiweddar (Gweler Atodiad 2). Bydd prif ganfyddiadau ac argymhellion yr Adolygiad yn cael eu hystyried yn yr adroddiad hwn, o ran penderfynu ar y ffordd ymlaen ar gyfer y Gwasanaeth Polisi Cynllunio i'r dyfodol. Credir hefyd fod angen rhoi ystyriaeth i beth yn union yw'r gwaith sydd angen ei gyflawni gan Wasanaeth Polisi Cynllunio dros y 5 mlynedd nesaf, beth fuasai'r budd i'r ddau Gyngor o barhau gyda'r trefniant o gydweithio, yn ddarostyngedig i adolygiad o'r cytundeb cydweithio.

Paratoi Cynllun Datblygu Lleol yw prif allbwn gwaith gwasanaeth polisi cynllunio ac mae'n ofyn statudol ar bob Awdurdod Cynllunio i baratoi Cynllun. Mae'n broses sydd angen arbenigedd eang, peth gwaith comisiynu allanol ac archwiliad cyhoeddus tuag at diwedd y broses.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Cytunodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Cyngor Gwynedd ar y strwythur i ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd yn ôl ym Mehefin 2010.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Cyfraniad ariannol wedi adnabod o fewn cyllideb Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

O edrych ar gostau'r broses hyd yma (2011-2017), ymddengys bod y ddau Gyngor wedi arbed costau.

| |
|---|
| Gweler Atodiad 4: Amcan gost y 5 mlynedd nesaf (heb gynnwys costau staff) |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Os ydi lefel staffio yr Uned yn lleihau o dreuan dros y flwyddyn nesaf yna mae'n rhaid llunio cynllun gwaith fydd yn gorfod adlewyrchu hyn |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Dim yn benodol berthnasol yn yr achos hwn. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1: Amserlen a chamau paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd<br>Atodiad 2: Adolygiad o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd<br>Atodiad 3: Sgôp gwaith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd<br>Atodiad 4: Amcan gost y 5 mlynedd nesaf (heb gynnwys costau staff) |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

## ATODIAD 1 – Amserlen a chamau paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tachwedd 2011 & Ionawr 2014 | Tachwedd 2011 – Ionawr 2013 | Mai – Mehefin 2013 | Gorff 2013 - Rhagfyr 2014 | Chwef – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Ionawr 2016 | Chwefror - Ebrill 2016 | Mawrth 2016 – Mai 2017 | Mehefin/ Gorffennaf 2017 |

### PROSES CDLI AR Y CYD

1. Paratoi a chyhoeddi CYTUNDEB CYFLAWNI (sy'n cynnwys Cynllun Cyfranogiad Cyhoeddus) →
2. Adnabod a phrofi opsiynau strategol yn ystod cyfnod cyfranogiad cyhoeddus ac yna datblygu'r HOFF STRATEGAETH →
3. Cyhoeddi'r HOFF STRATEGAETH ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus →
4. Paratoi'r CYNLLUN ADNAU →
5. CYNLLUN ADNAU – ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos →
6. YSTYRIED SYLWADAU AM Y CYNLLUN ADNAU →
7. NEWIDIADAU Â FFOCWS – ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos →
8. ARCHWILIAD CYHOEDDUS →
9. MABWYSIADU CYNLLUN

**1.**
- Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd
- Cyngor Gwynedd/ Cyngor Mon
- Llywodraeth Cymru

**2.**
- Rhanddeiliaid allanol, Cynghorau Cymuned a Chynghorwyr
- Swyddogion
- Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd
- Cabinet/ Pwyllgor Gwaith
- Cyngor Gwynedd/ Cyngor Mon

**4.**
- Panel CDLl ar y Cyd
- Cynghorwyr a Chynghorau Cymuned
- Rhanddeiliaid allanol
- Swyddogion
- Cabinet/ Pwyllgor Gwaith
- Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd

**6.**
- Panel CDL lar y Cyd
- Pwyllgor Polisi Polisi Cynllunio ar y Cyd

**8.**
- Arolygiaeth Cynllunio

**9.**
- Pwyllgor Polisi Polisi Cynllunio ar y Cyd (i'w gadarnhau)
- Cyngor Gwynedd/ Cyngor Mon

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adolygiad o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd

**Ionawr 2017**
**Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**

**1) Pwrpas**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn Sir (CSYM) a Chyngor Gwynedd (CG) yn rhagweld y bydd y broses o baratoi a mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd newydd (CDLl ar y Cyd) wedi ei chwblhau'n llwyddiannus yn gynnar yn 2017.

O ystyried mai cyflawni'r CDLl ar y Cyd oedd prif amcan sefydlu'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC), mae'n amserol ac yn briodol i gynnal adolygiad lefel uchel o'r trefniadau cydweithio cyfredol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i bwrpas, yn wydn ac yn fforddiadwy.

Mae tri amcan i'r adolygiad lefel uchel:

a) Penderfynu effeithiolrwydd a phriodoldeb y trefniadau cydweithio presennol ar gyfer darparu swyddogaethau polisi cynllunio ar y cyd ar ran Cynghorau Sir Ynys Môn a Gwynedd
b) Nodi gwersi a ddysgwyd o'r trefniadau presennol a fydd yn dylanwadu ac yn llywio cydweithio yn y dyfodol - gan gynnwys materion cyd-destunol megis heriau ariannol; rhaglen waith sy'n newid; heriau cydymffurfio â deddfwriaeth newydd, caniatâd ar gyfer prosiectau mawr; canfyddiadau cyfredol ac yn y blaen.
c) Nodi ac ystyried y trefniadau sefydliadol a staffio (amgen) ar gyfer y dyfodol a fydd yn cwrdd ag anghenion cyfredol a disgwyliedig y ddau Gyngor mewn modd cadarn, effeithlon a chost effeithiol.

Mae'r Adolygiad hwn wedi ei gomisiynu ar y cyd gan Dylan J. Williams (Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, CSYM) a Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio, yr Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd, CG). Bwriedir cyflwyno'r Adolygiad i'r Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd i'w ystyried a'i gymeradwyo.

**2) Cefndir**

Ar 15 Mehefin 2010, cytunodd Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i sefydlu trefniadau gweithio ar y cyd ar gyfer darparu swyddogaeth polisi cynllunio. Mae'r Achos Busnes a gyflwynwyd i Fwrdd Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith CSYM wedi'i gynnwys yn **Atodiad A.** Cytunodd y ddau Awdurdod i:

- Greu UPCC i gyflawni'r swyddogaethau polisi cynllunio ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn.
- Y byddai'r Uned yn dechrau gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol sengl ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn.
- Sefydlu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (PPCC) fel corff gwneud penderfyniadau trawsffiniol

Sefydlwyd yr UPCC yn ffurfiol gan CG a CSYM ar 1 Mai 2011 – a chytunwyd ym mis Hydref 2011 ar Gytundeb Rhannu Gwasanaeth ar gyfer Polisi Cynllunio ar y Cyd. Mae copi o'r Cytundeb hwnnw i'w weld yn **Atodiad B.**

Cytunwyd y byddai'r trefniadau cydweithio yn parhau nes bod y CDLl ar y Cyd wedi ei fabwysiadu neu tan 31 Rhagfyr 2017 (pa un bynnag oedd y cynharaf) oni bai bod y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol yn cytuno i'w hymestyn.

Pwrpas yr UPCC oedd **'hwyluso datblygu cynaliadwy, cyfrannu at adfywio cymdeithasol ac economaidd yn ogystal â chreu amgylchedd o'r safon uchaf sy'n hygyrch i bawb, drwy reoli'r defnydd o dir ac adeiladau'.**
Gellir crynhoi prif ddyletswyddau'r UPCC fel a ganlyn:

- Cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol sengl ar gyfer Ardaloedd Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (neu fel y'u diwygiwyd).
- Monitro Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd sydd wedi'i fabwysiadu.
- Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol.
- Darparu cyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor ar geisiadau cynllunio, cynigion, materion gorfodaeth ac apeliadau) ac ymatebion ymgynghori ar faterion polisi cynllunio i'r ddau Awdurdod, sefydliadau allanol a'r cyhoedd yn gyffredinol.
- Cynnal Arolygon o Argaeledd Tir ar gyfer Tai bob blwyddyn.
- Cyfrannu at gynhyrchu Briffiau Datblygu a Strategaethau Datblygu ar gyfer y ddau Awdurdod.

'Roedd dyletswyddau eraill yn cynnwys:

- Cynghori neu gymryd rhan mewn materion cynllunio rhanbarthol, isranbarthol a thrawsffiniol, megis trafnidiaeth, gwastraff, mwynau, ynni adnewyddadwy.
- Darparu tystiolaeth ac ymddangos fel tystion arbenigol yn yr Archwiliad Annibynnol o'r Cynllun Datblygu Lleol sengl ar gyfer y ddau Awdurdod.
- Darparu tystiolaeth ac ymddangos fel tystion arbenigol ar faterion polisi mewn apeliadau cynllunio a gorfodaeth pan fo angen.
- Cynrychioli buddiannau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd gyda'r wasg neu'r cyfryngau eraill a chyda sefydliadau allanol eraill.
- Ymateb i faterion perthnasol eraill sy'n codi o ran defnydd tir

Mynegwyd mai manteision sefydlu'r UPCC i CSYM a CG fyddai:

- Creu tîm mwy gwydn sy'n fwy hyblyg ac effeithlon o ran staffio ac adnoddau.
- Mwy o gynhwysedd i baratoi CDLl ar y Cyd 'cadarn'.
- Y gallu i gynllunio ar lefel fwy strategol ac integreiddio polisïau trawsffiniol.
- Gweledigaeth ranbarthol ar y cyd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.
- Uno gwybodaeth ac ymdrech arbenigol i roi mwy o bwysau y tu ôl i ddadleuon i gyflawni nodau cyffredin.
- Symleiddio strwythurau rheoli cyfredol a chyflwyno gweithdrefnau a pholisïau safonol.
- Symleiddio a mireinio'r trefniadau cyswllt presennol i wella'r gwasanaeth i gwsmeriaid.
- Gwell cyfleoedd datblygu gyrfa ar gyfer swyddogion polisi cynllunio.

Cyflwynwyd y CDLl ar y Cyd i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio ym Mawrth 2016 ar gyfer Archwiliad annibynnol. Cynhaliwyd y Gwrandawiadau a raglennwyd ar gyfer yr Archwiliad rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2016. Gellir cynnal Gwrandawiadau ychwanegol ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch 'Newidiadau oherwydd Materion sy'n Codi' – rhaglennwyd y rhain ar gyfer 6 wythnos yn Ionawr / Mawrth 2017. Disgwylir adroddiad yr Arolygydd ar ddiwedd mis Ebrill neu ddechrau Mai 2017 – bydd hyn yn dibynnu ar y materion a godwyd yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y materion sy'n codi.

**3) Llywodraethu'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd**

Cytunodd CSYM a CG bod angen 'Awdurdod Derbyn' i reoli a chydlynu gwaith dyddiol yr UPCC. Penderfynwyd mai Cyngor Gwynedd ddylai'r Awdurdod hwnnw fod o ystyried ei brofiad 'diweddar' o baratoi a mabwysiadu Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd. Llywodraethu'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd

CG yw prif gyflogwr yr UPCC (cafodd holl staff CSYM eu trosglwyddo i CG drwy'r rheoliadau TUPE) a CG sy'n rheoli darparu llety, cyfarpar swyddfa a chymorth TG ac ati.

Mae'r Uned yn cael ei rheoli gan Reolwr Cynllunio a leolir yn Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor. Ar y cychwyn roedd 12 aelod parhaol o staff, ond bydd yn lleihau i 10 erbyn diwedd mis Mawrth 2017, ac wedyn i 8 erbyn diwedd mis Mawrth 2018 yn sgil yr angen i ddarganfod arbedion. Mae strwythur cyfredol yr UPCC i'w weld yn **Atodiad C.**

Llywodraethir yr UPCC a'r CDLl ar y Cyd gan Fwrdd Prosiect ar y Cyd a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.  Mae'r trefniadau hyn wedi'u hamlinellu'n fanylach dros y dudalen.

Mae'r UPCC yn atebol i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ac mae'n sicrhau bod y cyngor a roddir iddo'n gymwys ac yn cydymffurfio â'r gyfraith gyfredol ac arferion da.

Rôl y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yw:

a) Cytuno a chwblhau'r CDLl ar y Cyd Adneuol ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd.
b) Cytuno a chwblhau'r adroddiadau ar yr ymatebion i'r ymgynghoriadau a (lle bo'n briodol) newidiadau i'r CDLl ar y Cyd Adneuol ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd.
c) Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â CDLl ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd.
ch) Derbyn a chytuno adroddiad yr Arolygydd Cynllunio.
d) Bod yn gyfrifol am fonitro ac adolygu CDLl ar y Cyd ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd.

Mae yna hefyd Banel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n cynnwys yr un aelodau â'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, sy'n ystyried dogfennau drafft ac yn cyfrannu at ddatblygu polisi.

Mae rhagor o wybodaeth ar y Panel a'r Pwyllgor yma.

**Diagram 1: Llywodraethiant yr UPCC a'r CDLl ar y Cyd**

### Bwrdd Prosiect ar y Cyd

**Pwrpas:**Rhoi mewnbwn strategol i'r gwaith o baratoi'r CDLl ar y Cyd a sicrhau bod yr UPCC yn glynu wrth amserlen y Cytundeb Cyflawni

**Aelodsaeth:** Cyfarwyddwr Corfforaethol a Phennaeth yr Adran Reoleiddio, CG & Phrif Weithredwr Cynorthwyol a Phennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, CSYM

### Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd

**Pwrpas:** Hwyluso a gallogi gwneud penderfyniadau trawsffiniol unwaith y bydd penderfyniad strategol y CDLL ar y Cyd wedi ei sefydlu gan Gabinet CG a Phwyllgor Gwaith CSYM

**Aelodaeth:** Yr un Aelodau â'r Panel CDLl ar y Cyd

### Panel y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

**Pwrpas:** Ystyried dogfennau drafft, tystiolaeth newydd, trafod datblygiad polisi ac ystyried sylwadau a gyflwynwyd gan randdeiliaid yn ystod cyfnodau ymgynghori ac ymgysylltu cyhoeddus

**Aelodaeth:** 7 Aelod Etholedig o bob Awdurdod

**4) Trosolwg ariannol o’r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd**

CG sy’n gyfrifol am reolaeth ariannol a gweinyddiaeth yr UPCC. Mae’r Rheolwr Cynllunio, yr Uwch Reolwr a'r Pennaeth Cyllid yn gosod y gyllideb flynyddol ar gyfer yr UPCC ac yn cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd i’w cytuno.

Mae CG yn cyflwyno anfoneb i CSYM i dalu 50% o gostau staffio blynyddol yr Uned ymlaen llaw ar ôl 1 Ebrill. Caiff unrhyw danwariant ar staffio ei ail-fuddsoddi yn yr Uned.

Mae'r trefniadau cyfrifyddu ac archwilio mewn perthynas â Phwyllgorau ar y Cyd yn golygu bod rhaid cyflwyno adroddiad ar y cyfrifon blynyddol i’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd bob blwyddyn. Mae hynny wedi bod yn cael ei wneud yn unol â’r gofynion perthnasol fel rhan o'r trefniant cydweithio ac mae’r cyfrifon terfynol blynyddol ar gyfer y trefniant cydweithio hwn wedi bod yn cael eu harchwilio gan archwilydd allanol a gymeradwywyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae **Atodiad CH** yn rhoi trosolwg o gostau staffio’r UPCC ers 2013/14. Sylwer y bydd arbedion ychwanegol / effeithlonrwydd (a gymeradwywyd eisoes) yn golygu y bydd nifer y staff yn gostwng o 12 i 10 (ar 1 Ebrill 2017) ac wedyn i 8 (ar 1 Ebrill 2018). Bydd hyn yn sicrhau arbedion o £111,570 (i'w rhannu'n gyfartal rhwng y ddau Gyngor).

Mae CG hefyd yn anfonebu CSYM am dâl ymlaen llaw mewn perthynas â'i gyfraniad at y gwaith o baratoi'r CDLl ar y Cyd ac unrhyw ymchwil ategol. Caiff unrhyw danwariant ar y gweithgareddau hyn ei ail-fuddsoddi fel mater o drefn yng nghyllideb yr UPCC ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Mae **Atodiad D** yn darparu crynodeb o gostau paratoi'r CDLl ar y Cyd ers 2011/12. Rhan annatod o'r achos busnes ar gyfer cydweithio oedd y manteision ariannol sy'n deillio o gael un Uned Amlsgiliau yn cynhyrchu Cynllun ar gyfer y ddau Awdurdod. ‘Roedd y dull hwn yn golygu y bu’r Uned yn ymgymryd â mwy o waith tystiolaeth yn fewnol; caffael llai o waith o’r tu allan; a chael dim ond un Archwiliad annibynnol (y rhan o'r broses gyda'r costau uchaf). Mae'r wybodaeth a ddarperir yn Atodiad E yn dangos bod y ddau Awdurdod (hyd yma) wedi osgoi costau o £300,000 ychwanegol bob un wrth baratoi’r CDLl ar y Cyd.

**5) Rheoli Perfformiad yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd**

Mae’r Rheolwr Cynllunio yn cydlynu gwaith yr UPCC drwy raglen waith flynyddol ac mae’n adrodd yn uniongyrchol i'r Uwch Reolwr Cynllunio, Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwarchod y Cyhoedd, GC (sydd wedyn yn adrodd i'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd).

Mae'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd yn cynnal trosolwg o waith yr UPCC ac yn gwneud penderfyniadau gweithredol o ran y gwasanaeth a ddarperir gan yr Uned i’r ddau Awdurdod. Rhaglennwyd bod y Bwrdd Prosiect yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn.

Er mwyn sicrhau bod cyfeiriad strategol y CDLl ar y Cyd yn gydnaws ag amcanion corfforaethol y ddau Gyngor, sefydlwyd Grŵp Swyddogion Strategol hefyd. Mae'r Grŵp yn cynnwys Uwch Swyddogion o groestoriad o wasanaethau perthnasol, ynghyd ag Aelodau o Bwyllgorau Gwaith perthnasol y ddau Gyngor.

Yr unig fesur ffurfiol i asesu perfformiad yr UPCC (cyf: Cynllun Darparu Gwasanaeth – Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd CSYM 2016-17) yw:

| Gweithred Allweddol | Swyddog Cyfrifol | Erbyn pryd | Meini Prawf Llwyddiant | | Targed 16/17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflawni cerrig milltir yn y Cytundeb ar gyfer Cyflawni CDLl ar y Cyd | Rheolwr Cynllunio | Dechrau 01/04/16 | Ch 1 | Cyflwyno dogfennaeth Cynllun Adnau i’r Arolygiaeth Gynllunio | Ch1: 100% |
| | | | Ch 2 | Cynnal Archwiliad Cyhoeddus o'r Cynllun | Ch2: 100% |
| | | Diwedd 31/03/17 | Ch 3 | Cynnal Archwiliad Cyhoeddus o'r Cynllun | Ch3: 100% |
| | | | Ch 4 | Derbyn Adroddiad yr Arolygydd Cynllunio | Ch4:100 % |

Mae’r UPCC yn adrodd ar gynnydd mewn perthynas â’r camau allweddol hyn a’r meini prawf llwyddiant bob chwarter. Yn ogystal, mae'r UPCC wedi bod yn adrodd i Fyrddau Rhaglen Drawsnewid CSYM.

**6) Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**
I gynorthwyo gyda chynnal yr adolygiad hwn o'r UPCC, mae'r Adolygydd wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol (drwy arolwg electronig) i gael eu sylwadau ac adborth. Mae'r rhanddeiliaid hyn yn cynnwys yr UPCC, y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd; Aelodau Etholedig CG a CSYM ac Uwch Reolwyr ac ymgyngoreion statudol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru).

Roedd yr arolwg yn canolbwyntio ar dri chwestiwn allweddol:

- *Beth yw prif gyflawniadau'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd?*
- *Pa agweddau ar yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd sy'n gweithio'n dda?*
- *Pa agweddau ar yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd y gellid eu gwella?*

Mae'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau wedi eu crynhoi yn **Atodiad DD.**

**7) Dadansoddiad o Ymatebion Rhanddeiliaid**
Er mwyn cynnal adolygiad diduedd a hyd braich o'r UPCC, mae'r Adolygydd wedi dadansoddi'r ymatebion a dderbyniwyd gan randdeiliaid, yn ogystal ag ystyried gwybodaeth / tystiolaeth o amryw o ffynonellau gwybodaeth am y trefniadau cydweithio cyfredol (gan gynnwys yr Achos Busnes ar gyfer Cydweithio).

Cynhaliwyd y dadansoddiad a'r gwerthusiad hefyd gan gyfeirio at y gwahanol egwyddorion sy'n sail ar gyfer sefydlu a rheoli gwasanaethau a rennir (cyf: ' Gwasanaethau a Rennir a Rheolaeth - Canllaw i Gynghorau

- Gall rhannu gwasanaethau wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir; gwella gwydnwch a chyflwyno cost-effeithiolrwydd drwy leihau dyblygu.
- Mae rhannu gwasanaethau yn golygu bod rhaid cael arweinyddiaeth glir gan wleidyddion a rheolwyr
- Mae sawl her ynghlwm wrth reoli gwasanaethau a rennir. Rhwystrau diwylliannol neu ymddygiadol yw rhai o'r rhwystrau a nodwyd amlaf o ran rhannu gwasanaethau yn effeithiol
- Mae strwythurau a phrosesau cadarn ac effeithiol yn hanfodol i sicrhau bod lefelau priodol o reolaeth dros wasanaethau a rennir.
- Mae rhannu gwasanaethau yn fygythiad gwirioneddol a chanfyddedig i sofraniaeth – h.y. mae gallu Aelodau Etholedig a Swyddogion i benderfynu ar yr hyn sy'n digwydd yn eu hardaloedd yn gallu bod yn faen tramgwydd mawr o ran rhannu gwasanaethau.
- Mae'n bwysig sefydlu trefniadau llywodraethu sy'n darparu lefel briodol o sicrwydd i Aelodau Etholedig am berfformiad y gwasanaethau a rennir a chyfleoedd i aelodau ddylanwadu ar eu gweithrediad.
- Mae'n rhaid i'r sefydliad "arweiniol" fod â'r cynhwysedd, y gallu a'r adnoddau i gyflawni'r datrysiad rhannu gwasanaeth.
- Rhaid i nod y Cytundeb Rhannu Gwasanaeth fod yn glir, ymarferol a realistig.
- Mae llwyddiant unrhyw wasanaeth a rennir yn dibynnu ar gyfathrebu effeithiol, perthynas ragweithiol a chyd-ddealltwriaeth.

- Mae gallu dangos y llwyddiant a gafwyd drwy rannu gwasanaeth yn hanfodol i ennyn cefnogaeth; gallai methiant i fesur manteision rhannu gwasanaeth olygu nad yw ei lwyddiant yn cael ei ddathlu'n iawn.
- Mae'n rhaid sicrhau bod gan bob gwasanaeth a rennir strategaeth ymadael.

O ystyried natur amrywiol yr ymatebion a'r atborth a dderbyniwyd, bu'n rhaid cynnal dadansoddiad o'r trefniadau cydweithio trwy edrych yn ôl ac edrych ymlaen.

Mae'r Adolygydd o'r farn:

**Edrych yn ôl**

i. Mae'r cynnydd y mae'r UPCC wedi'i wneud wrth baratoi'r CDLl ar y Cyd a chyrraedd y cam archwiliad yn y broses yn garreg filltir a chyflawniad sylweddol i'r ddau Awdurdod.

ii. Mae'r UPCC yn dîm clos gydag ysbryd / ethos cryf. Mae pob swyddog wedi croesawu sefydlu'r Uned ac wedi cyfrannu at ei gweithgareddau a'i llwyddiannau. Mae'n amlwg bod yr Uned wedi integreiddio'n llwyddiannus i greu tîm medrus a phrofiadol sydd wedi datblygu systemau, prosesau ac arferion gwaith sy'n helpu i sicrhau cysondeb y swyddogaeth polisi cynllunio.

iii. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth feintiol i ddangos bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i ddefnyddwyr wedi gwella oherwydd y trefniadau cydweithio yn gyfyngedig.

iv. Mae'n amlwg y gallai perchnogaeth o'r UPCC a'r CDLl ar y Cyd, a'r atebolrwydd amdanynt gan gyn-uwch swyddogion CSYM fod wedi bod yn fwy effeithiol a phendant. Mae llawer yn teimlo bod y difaterwch hwn wedi cyfrannu tuag at y proffil negyddol o'r Uned a'r pryderon am y modd y mae'r Cynllun wedi'i baratoi. Ynghyd â'r newidiadau rheolaidd i gynrychiolaeth wleidyddol CSYM ar y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, mae hyn yn aml wedi creu heriau i'r UPCC o ran arweinyddiaeth ac ymgysylltiad effeithiol ac ystyrlon.

v. Mynegwyd rhai pryderon ynghylch rhannu gwybodaeth ariannol yn ymwneud â'r UPCC a'r CDLl ar y Cyd rhwng CG a CSYM. Mae'r diffyg gwybodaeth reolaidd wedi achosi ansicrwydd ac anawsterau i Wasanaeth Cyllid CSYM i sefydlu, monitro a chau cyllidebau priodol a chywir mewn modd effeithiol ac effeithlon. Mae'r Adolygydd yn nodi'r pryderon ond hefyd yn deall nad yw hyn wedi'i godi o'r blaen fel problem gan CSYM yn uniongyrchol gyda CG.

vi. Yn yr un modd, mae angen rhoi mwy o gydnabyddiaeth i'r angen i gyfathrebu ac adrodd yn fwy rheolaidd ar raglen waith y UPCC a'i pherfformiad (cyflawniadau, allbynnau a chanlyniadau) fel bod modd i'r ddau Awdurdod fonitro'r trefniadau cydweithio yn gadarn. Yr unig fesur perfformiad yw hwnnw sy'n ymwneud â pharatoi'r CDLl ar y Cyd; ac nid oes unrhyw gydnabyddiaeth o ddyletswyddau eraill yr UPCC i asesu llwyddiant ac effaith yr Uned. Mae angen gwella'r cyfleoedd i'r ddau Awdurdod flaenoriaethu a dylanwadu ar waith yr UPCC (trwy'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd).

**Edrych Ymlaen**

vii. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y CDLl ar y Cyd yn dangos yn glir fod yna werth mewn ymgymryd â gweithgareddau cydweithredol rhanbarthol i daclo ac ymateb i faterion a heriau cyffredin. Mae’r ddau Gyngor yn rhoi pwysa mawr ar y ffaith bod y trefniadau cydweithio hyn ar gyfer yr UPPC yn unigryw yng Nghymru ac mai’r CDLl ar y Cyd fydd y cyntaf o'i fath i gael ei baratoi o dan amgylchiadau fel hyn. Mae'r Adolygydd yn nodi fod Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio at yr UPCC fel model arfer da i gynghorau eraill ei ddilyn o ran cydweithio.

viii. Mae angen eglurder a sicrwydd ynghylch beth yw rôl / pwrpas yr UPCC ar ôl mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd. Bydd angen monitro’r cynllun yn flynyddol a’i adolygu ar ôl 4 blynedd (oni bai fod y gwaith monitro'n dangos bod angen cynnal adolygiad cynnar). Bydd gofyn i’r UPCC hefyd baratoi ystod eang (tua 19) o Ganllawiau Cynllunio Atodol newydd yn ychwanegol at archwilio hyfywedd y ddau ACLl i gyflwyno tariff Ardoll Seilwaith Cymunedol. Bydd y ddwy Adain Rheoli Datblygu yn Ynys Môn a Gwynedd angen cymorth gan yr UPCC i ddehongli'r polisïau cynllunio newydd yn y CDLl ar y Cyd yn gywir. Mae angen rhaglen waith fanwl i amlinellu gweithgareddau posib yn y dyfodol i sicrhau cefnogaeth barhaus y ddau Awdurdod ac i sicrhau hefyd bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael.

ix. Bydd angen hefyd i'r UPCC ystyried ac ymateb i oblygiadau deddfwriaeth newydd (e.e. Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a fydd yn effeithio ar sgôp gweithgareddau yn y dyfodol a'r adnoddau sydd eu hangen i ymgymryd â nhw).

x. Rhaid i’r ddau Gyngor fod â gweithdrefnau llywodraethiant clir, cadarn a theg os yw’r trefniadau cydweithio am fod yn effeithiol, ychwanegu gwerth a bod yn gost-effeithiol. Mae angen adolygu telerau’r Cytundeb Rhannu Gwasanaethau i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol a’u bod yn cwrdd ag anghenion a disgwyliadau’r ddau Awdurdod. Mae'n amlwg fod gan rai pobl bryderon a rhwystredigaethau ynghylch gwerth / manteision y trefniadau cydweithio. Er enghraifft, mynegwyd pryderon ynghylch a yw anghenion economaidd-gymdeithasol Ynys Môn wedi cael eu cydnabod yn iawn ac wedi cael sylw priodol yn ystod y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd. Byddai'r Adolygydd yn cyfeirio at y materion a godwyd ym mhwynt iv (uchod) a allai fod wedi cyfrannu at bryderon o'r fath.

xi. Yn ychwanegol at hyn, ac yn dibynnu ar yr ardal neu’r maes sydd o ddiddordeb i’r atebydd (naill ai’n thematig neu’n ddaearyddol), mae’r canfyddiad o’r UPCC a’i phroffil yn amrywiol ac anghyson. Llongyferchir yr UPCC gan rai am ansawdd y gwasanaethau a ddarperir a'r ffordd y mae'r Uned yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a chwsmeriaid; tra bod ymatebwyr eraill wedi nodi meysydd clir ar gyfer eu gwella ac mae pryderon am ganfyddiad o anghydbwysedd o ran ei gwrthrychedd a’i gweithgareddau. Byddai'r Adolygydd unwaith eto yn cyfeirio at y materion a godwyd ym mhwynt iv (uchod) a allai fod wedi cyfrannu at bryderon o'r fath.

xii. Mae angen gwneud gwaith pellach i wella proffil ac amlygrwydd yr UPCC i sicrhau bod ei chyfraniad i gyfrifoldebau statudol y ddau Awdurdod yn cael ei gydnabod yn llawn.) Mae angen pwysleisio fod y gwaith hwn yn aml yn gymhleth, yn ddadleuol ac yn heriol. Yn ogystal, mae angen gwella pa mor hawdd ydyw i gysylltu â’r UPCC (ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a swyddogion eraill y Cyngor) ac mae angen ymgysylltu’n fwy rheolaidd ag Adrannau Rheoli Datblygu GC a CSYM.

xiii. Mae ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch y gyllideb sydd ei hangen i ariannu'r UPCC yn y dyfodol agos (h.y. yn gysylltiedig â rhaglen waith yr Uned yn y dyfodol). Er bod arbedion ariannol wedi'u gwneud eisoes a rhagor o arbedion wedi eu cytuno ar gyfer 2017 a 2018, mae'n anorfod y bydd rhaid i’r Cyngor gysidro arbedion pellach yn sgil yr heriau ariannol na welwyd mo’u tebyg o’r blaen ac sy'n wynebu CG a CSYM. Rhagwelir y bydd hyn yn effeithio ar allu'r UPCC ac argaeledd adnoddau i ariannu ei gweithgareddau yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd hyn yn effeithio ar gynhwysedd yr UPCC ac argaeledd adnoddau i ariannu ei gweithgareddau yn y dyfodol.

xiv. Fel y gall yr UPCC weithredu'n fwy llwyddiannus yn y dyfodol, mae'n hanfodol ei bod yn gallu cysylltu ac integreiddio’n llawn â systemau gwybodaeth ddigidol swyddogaethau cynllunio CSYM. Mae'r methiant i fynd i'r afael â rhwystr hwn wedi cael effaith ar allu'r UPCC i ymgymryd â'i gyfrifoldebau trawsffiniol yn effeithiol ac yn amserol.

**8) Casgliadiadau**

I gloi, a chyda sylw arbennig i bwrpas yr adolygiad lefel uchel (Gweler Adran 1), mae'n amlwg yr ystyrir bod y trefniadau gweithio ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi bod yn effeithiol ac yn briodol o gofio’r cynnydd a wnaed mewn perthynas â pharatoi CDLl ar y Cyd; yr arbedion ariannol a wireddwyd yn sgil gorfod paratoi dim ond un Cynllun ar gyfer y ddwy ardal; yn ogystal â'r Tîm medrus a phrofiadol sydd wedi sefydlu a datblygu ers 2011. Mae paratoi cynllun "ar y cyd" wedi bod yn broses hir, heriol a dadleuol yn aml, a rhaid canmol yr UPCC ac Aelodau'r  Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd am eu hymagwedd broffesiynol a’u hymrwymiad i'r dasg.

Ar ben hynny, mae'n rhaid cydnabod nad yw gwaith yr UPCC yn gyfyngedig i gynhyrchu'r CDLl ar y Cyd, ac felly nid yw'n dod i ben pan fydd y Cynllun yn cael ei fabwysiadu. Mae gwaith yr UPCC yn cynnwys amrywiaeth o ddyletswyddau eraill, gan gynnwys y gofyniad statudol i fonitro'r Cynllun mabwysiedig yn flynyddol; cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol newydd a darparu cyngor polisi cynllunio arbenigol. Pe bai’r UPCC yn cael ei diddymu, yna byddai'n rhaid dyblygu’r holl ddyletswyddau yn y ddau Awdurdod unigol gan Unedau / Timau ar wahân.

O ystyried llwyddiant cyffredinol y UPCC fel model ar gyfer cydweithio (gan dybio y bydd y Cynllun ar y Cyd yn cael ei fabwysiadu), mae'r Adolygydd yn ystyried bod digon o gyfiawnhad i barhau gyda'r UPCC fel y model ar gyfer parhau i gydweithio mewn perthynas â darparu capasiti polisi cynllunio.  Fodd bynnag, mae yna wersi i'w dysgu o'r trefniadau presennol gan fod pryderon wedi'u mynegi ynghylch llywodraethiant, atebolrwydd, sgôp dylanwad, proffil a blaenoriaethau'r UPCC - yn ogystal ag ansicrwydd ynglŷn â gwerth a chyfraniad yr Uned (h.y.  i faterion ar wahân i’r CDLl ar y Cyd).  Rhaid mynd i'r afael â'r pryderon hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw gydweithio yn y dyfodol yn effeithiol, cadarn a theg; rhaid nodi a gwireddu cyfleoedd i wella proffil, amlygrwydd ac integreiddiad yr UPCC gyda’r ddau Awdurdod a rhanddeiliaid eraill.

O ran trefniadau sefydliadol a staffio yn y dyfodol, mae'n hanfodol bod pwrpas yr UPCC yn cael ei hailddiffinio ar ôl i’r CDLl ar y Cyd gael ei fabwysiadu fel y disgwylir, a bod gan y ddau Awdurdod eglurder a manylder digonol am natur rhaglen waith yr Uned i’r dyfodol. O ystyried maint yr heriau ariannol sy'n wynebu'r ddau Awdurdod, mae’r  Adolygydd o’r farn y bydd angen i’r UPCC wneud rhagor o arbedion effeithlonrwydd, yn ychwanegol at y rheini a gyflawnwyd eisoes a’i bod yn anochel y bydd hyn yn effeithio ar gynhwysedd ac adnoddau’r Uned i’r dyfodol. Mae'r Adolygydd yn nodi bod unrhyw arbedion ychwanegol ar ben y rhai a gytunwyd eisoes yn fater i'r Cynghorau unigol benderfynu.

Fel sylw olaf, mae'r Adolygydd yn cydnabod yn llawn yr ansicrwydd a'r pryder y mae amseriad yr adolygiad wedi eu hachosi, o gofio ei fod wedi digwydd ar yr un pryd â'r archwiliad ffurfiol o'r CDLl ar y Cyd. Yn anffodus, nid oedd modd osgoi'r sefyllfa hon o ystyried yr angen i gwblhau'r adolygiad er mwyn adnabod, cyn gynted â phosibl, sgôp / natur y trefniadau gwaith i'r dyfodol ac i siapio'r prosesau pennu cyllideb cyfredol.

**9) Argymhellion**

Ystyrir bod digon o gyfiawnhad i barhau gyda'r UPCC fel y model cydweithio a ffefrir ar gyfer darparu swyddogaeth polisi cynllunio ar gyfer CG a CSYM. Felly argymhellir paratoi Cytundeb Rhannu Gwasanaeth newydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf (2017-2022) i gyd-fynd â'r adolygiad ffurfiol cyntaf o'r Cynllun. Dylai Cytundeb Rhannu Gwasanaeth newydd / diwygiedig adlewyrchu'r canlynol:

a) Ailddiffiniad o bwrpas a rôl yr UPCC yn dilyn mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd i adlewyrchu anghenion a disgwyliadau CSYM a CG.

b) Sefydlu rhaglen waith glir, benodol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer yr UPCC ar ôl mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd a sicrhau adnoddau digonol ar ei chyfer (mewn cyfnod o arbedion / effeithlonrwydd).

c) Cryfhau llywodraethiant a rhannu perchnogaeth gyffredinol o'r UPCC yn y ddau Gyngor - gan gynnwys mireinio rôl y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

ch) Adolygu a sefydlu beth yw'r lleoliad mwyaf effeithiol ar gyfer swyddfa'r UPCC er mwyn integreiddio'r Uned a'i swyddogion yn well â gwasanaethau cynllunio'r ddau Gyngor (a'u systemau busnes a'u harferion gwaith) ac o bosibl lleihau gorbenion a chostau.

d) Gwella'r trefniadau rheoli a'r dylanwad mewn perthynas â chynllunio ac adroddiadau ariannol, materion adnoddau dynol, monitro perfformiad a blaenoriaethu gwaith / gweithgareddau.

dd) Annog cyfathrebu ac ymgysylltu mwy effeithiol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol i wella proffil ac amlygrwydd yr UPCC a sicrhau cydnabyddiaeth o ddyletswyddau, cyflawniadau a gwerth ychwanegol yr Uned.

e) Gwella proffil ac ymwybyddiaeth o'r UPCC, galluoedd, gwybodaeth ac arbenigedd gyda'r ddau Gyngor.

f) Diffinio rôl yr UPCC wrth fynd i'r afael â gofynion penodol y Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Atodiad A - Cyflawni ar y cyd o'r Achos Gwasanaeth Polisi Cynllunio Busnes

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **BWRDD Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **15 Mehefin 2010** |
| **TEITL** | **Cynigion ar gyfer cyflwyno'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y cyd** |
| **DIBEN** | **Cymeradwyo cyflwyno'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y cyd** |
| **ARGYMHELLION** | **i) Bod Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei sefydlu i ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.**<br>**ii) Bod Bwrdd Prosiect ar y Cyd yn cael ei sefydlu i arolygu gwaith yr Uned.**<br>**iii) Bod yr Uned yn dechrau gweithio ar un Cynllun Datblygu Lleol sengl ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd ac Ynys Môn. (Senario 1)**<br>**iv) Bod Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd yn cael ei sefydlu i lywio'r gwaith o gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer y ddau Awdurdod.**<br>**v) Bod Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei sefydlu fel corff trawsffiniol ar gyfer cymryd penderfyniadau**<br>**vi) Bod Pennaeth yr Adran Reoleiddio a Phennaeth yr Adran Democratiaeth a Chyfreithiol yn derbyn awdurdod i weithredu i), ii), iii), iv) a v).** |
| **AWDUR** | **Aled Davies, Pennaeth yr Adran Reoleiddio (Gwynedd)**<br>**Jim Woodcock, Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ( Ynys Môn)** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Y Cynghorydd Gareth Roberts (Gwynedd)**<br>**Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Ynys Môn)** |

## 1. CYFLWYNIAD

**Cefndir**

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn yn dilyn trafodaethau rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ynghylch manteisio ar gyfle i ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio. Mae Arweinyddion, Arweinwyr Portffolio perthnasol a Phenaethiaid Gwasanaeth y ddau Awdurdod wedi cytuno mewn egwyddor ar argymhellion yr adroddiad hwn. Bu'r trafodaethau rhwng y ddau Awdurdod yn bennaf ynghylch pa ddewisiadau sydd yna ar gyfer cydweithio i ddarparu'r Cynlluniau Datblygu Lleol (gofyniad statudol) gan mai dyma swyddogaeth bennaf Gwasanaeth Polisi Cynllunio. Fodd bynnag, mae argymhellion yr adroddiad hwn ynghylch darparu'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio yn ei gyfanrwydd i awdurdodau Gwynedd a Môn (gweler **Atodiad 1** Ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Lleol).

1.2 Cynhaliwyd trafodaethau hefyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ond mae'n debyg nad yw'r math o gydweithio y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn yn addas ar gyfer ei anghenion ar hyn o bryd, gan fod yr Awdurdod wedi gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith ar ei Gynllun Datblygu Lleol. Fodd bynnag, efallai y gallai argymhellion yr adroddiad hwn hefyd fod yn berthnasol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn y dyfodol.

1.3 Pwrpas yr adroddiad yma yw gwneud argymhellion ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd. Mae'r adroddiad yn cynnwys:

- Y cyfiawnhad dros y trefniant cydweithio
- Y dewis a ffafrir ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth
- Senarios posibll ar gyfer darparu'r Cynllun Datblygu Lleol
- Argymhellion ar y ffordd orau o ddarparu'r gwasanaeth

## 2. Y CYFIAWNHAD DROS Y TREFNIANT CYDWEITHIO

2.1 Er mwyn asesu a oes cyfiawnhad dros y trefniant cydweithio ar gyfer cyflwyno Gwasanaeth Polisi Cynllunio Gwynedd ac Ynys Môn, mae angen edrych ar drefniadau gwasanaeth presennol yr Awdurdodau, sut y bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn asesu'r Cynllun Datblygu Lleol a'r cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth.

**Y trefniadau gwasanaeth presennol**

2.2 Diben cyffredinol y swyddogaeth Polisi Cynllunio yw:

**Hwyluso datblygiad cynaliadwy, cyfrannu at adfywio cymdeithasol ac economaidd a chreu amgylchedd o'r ansawdd uchaf sy'n dderbyniol i bawb, trwy reoli defnydd tir ac adeiladu trwy:**

1. **Gynhyrchu a Monitro cynlluniau datblygu**
2. **Cynhyrchu Arweiniad Cynllunio Atodol**
3. **Cynnig cyngor arbenigol ac ymatebion ymgynghori ar faterion Polisi Cynllunio i'r Awdurdod, sefydliadau allanol a'r cyhoedd**
4. **Cynnal Arolygon Argaeledd Tir Ar gyfer Tai yn flynyddol**
5. **Cyfrannu at gynhyrchu Briffiau Datblygu a Strategaethau Datblygu**

## 6. Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy

**Y trefniadau gwasanaeth presennol**

2.3 Ystyrir mai'r prif faterion ynghylch y trefniadau gwasanaeth presennol yw:

- Mae **swyddogaethau**'r gwasanaeth polisi cynllunio yng Ngwynedd ac Ynys Môn i raddau helaeth yr un fath. Prif swyddogaeth y Gwasanaeth Polisi Cynllunio yw cynhyrchu, monitro, adolygu a dadansoddi'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae swyddogaethau eraill y Gwasanaeth Polisi Cynllunio, megis cynhyrchu Arweiniad Cynllunio Atodol, Datblygu Briffiau ac Asesiadau Tir ar gyfer Tai yn Flynyddol yn ymwneud yn bennaf â Chynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod.

- Mae gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio **swyddogaeth gynghori** hefyd o ran cynnig cyngor ar geisiadau cynllunio i'r Adran Rheoli Datblygu a chynnig cyngor polisi i wasanaethau eraill yr Awdurdod Lleol, Aelodau etholedig, y cyhoedd ac amryw sefydliadau allanol eraill. Yn ychwanegol at hyn, mae gan y Gwasanaeth swyddogaeth bwysig o geisio sicrhau bod anghenion yr Awdurdod yn cael eu hystyried mewn polisi ac arweiniad cenedlaethol a rhanbarthol ac ymateb i ddogfennau ymgynghori a gynhyrchir gan wahanol sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdodau Lleol eraill.

- Y prif **faterion allweddol** ynghylch swyddogaethau'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio yw cynhyrchu, monitro ac adolygu Cynllun Datblygu Lleol. Mae yna broses statudol ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol, sy'n gofyn am gynhyrchu dogfennau penodol megis Asesiadau Amgylcheddol Strategol ac Asesiadau Effaith Iechyd. Ceir gweithdrefn statudol hefyd sy'n gofyn am ymgynghori ar gyfnodau penodol ac am archwiliad annibynnol (tebyg i ymchwiliad cyhoeddus). Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnig polisïau cynllunio ar ddefnydd tir ar gyfer tai, swyddi, twristiaeth, trafnidiaeth, gwastraff, mwynau, ynni a'r amgylchedd. Bydd Arweiniad Cynllunio Atodol yn cynnig gwybodaeth fanylach ar wahanol bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r **materion allweddol** o ran cynhyrchu a chynnwys y Cynllun Datblygu Lleol at ei gilydd yr un fath yng Ngwynedd ac yn Ynys Môn.

- Ceir ystod eang o **gysylltiadau cwsmeriaid** gyda gwahanol adrannau a gwasanaethau'r Cyngor yn ogystal â sefydliadau allanol a'r cyhoedd. Cysylltir â chwsmeriaid yn bennaf trwy e-bost, llythyr a ffôn, er y trafodir wyneb yn wyneb hefyd.

- Ceir nodweddion allweddol tebyg yng **nghymeriad** a phroffil Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r ddau awdurdod yn wledig eu natur yn bennaf a chydag amgylchedd naturiol ac adeiledig o ansawdd uchel (ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, nifer o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, nifer fawr o adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, ardaloedd cadwraeth ac ardaloedd o bwysigrwydd archeolegol). Mae gan y ddau Awdurdod boblogaeth wasgaredig ac isel ei dwysedd yr hectar a'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru gyda chyfartaledd o dros 60% yn siarad Cymraeg. Mae'r economi yn ardaloedd y ddau awdurdod yn ddibynnol ar nifer fach o gyflogwyr allweddol (e.e. Y Sector Cyhoeddus (Cynghorau Sir, Gwasanaeth Iechyd), yr Wylfa ac RAF y Fali (Ynys Môn). Mae gan dwristiaeth rôl bwysig i'w chwarae yn economïau'r ddau Awdurdod ac o ystyried cymeriad gwledig yr ardal mae'r

diwydiant amaethyddol yn dal yn amlwg. Ymhlith y prif **heriau** y mae Gwynedd ac Ynys Môn yn eu hwynebu y mae:
Mae'r morlin cyfan a rhannau eraill o'r ardal mewn perygl **llifogydd**

i. Mae **newid hinsawdd** yn digwydd ac mae angen ymateb i'w effeithiau posibl a gostwng effeithiau pellach (e.e. arbed ynni a darparu ynni adnewyddadwy)
ii. Datblygiadau **ynni**, yn bennaf yn yr Wylfa ac ym Môr Iwerddon gyda seilwaith cysylltiedig a goblygiadau defnydd tir eraill
iii. **Cadwraeth** a gwella asedau amgylcheddol yr ardal
iv. Pprisiau tai uchel, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, wedi arwain at alw cryf am **dai fforddiadwy** i fodloni anghenion tai lleol
v. Newidiadau yn **nodweddion aelwydydd** o ran maint a chyfansoddiad
vi. **Darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus** mewn lleoliadau ymylol yn benodol yn cael ei danseilio gan newidiadau cymdeithasol a demograffig a phrinder arian gan ddarparwyr
vii. Mae'r **economi** wedi tyfu'n hanesyddol ar gyfradd sylweddol arafach na gweddill Cymru a'r DU. Mae'r dirwasgiad economaidd presennol wedi arwain at weithfeydd allweddol yn cau (e.e. Alwminiwm Môn) a cholli swyddi yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus
viii. Mae **patrymau siopa** sy'n newid sy'n golygu bod canol trefi a phentrefi mewn perygl
ix. **Isadeiledd** annigonol ar draws yr ardal
x. Datblygiad a dyfodol yr **Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig**
xi. Diffyg **tir cyflogaeth** mewn rhai rhannau o'r ardal
xii. Rhannau o'r ardal yn dioddef yn sgil **aml amddifadedd**
xiii. Deall a bodloni gofynion **Sipsiwn a theithwyr** yn yr ardal
xiv. Cynllunio ar gyfer darparu rhwydwaith o gyfleusterau rheoli **gwastraff** ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy

- Mae **strwythurau staff a rheolwyr** y ddau Awdurdod mewn gwasanaeth, neu adran sydd hefyd yn cynnwys Rheoli Datblygu. Yng Ngwynedd mae gan y Tîm Polisi Cynllunio bum swydd gyfwerth llawn amser barhaol ac un swydd gyfwerth llawn amser dros dro sy'n cynnwys Rheolwr Polisi Cynllunio. Yn Ynys Môn mae'r Tîm yn cynnwys wyth swydd gyfwerth llawn amser barhaol, sy'n cynnwys Rheolwr Polisi Cynllunio (swydd yn wag ar hyn o bryd), swydd wag arall a awydd yn adrodd i Ddatblygu Economaidd, sy'n gwneud pum swydd barhaol, gyfwerth llawn amser ar hyn o bryd.

- Ar hyn o bryd mae'r Awdurdodau yn **cydweithio**'n anffurfiol yn "ad hoc" ac yn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd. Mae hyn yn digwydd trwy Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru (Polisi) sy'n cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Mae Consortiwm Gogledd-orllewin Cymru ar gyfer Asesiad Marchnadoedd Tai Lleol hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ddau Awdurdod. Mae enghreifftiau hefyd o gomisiynu gwaith ar y cyd, gan gynnwys ym meysydd mân-werthu a bydd hefyd yn cynnwys gwaith ar fodloni anghenion lletya sipsiwn a theithwyr.

**Sut y bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn asesu'r Cynllun Datblygu Lleol**

2.4 Tua diwedd proses cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd Arolygiaeth Gynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal Archwiliad Annibynnol ar Gynlluniau Datblygu Lleol y ddau Awdurdod. Diben yr archwiliad hwn yw pennu a yw'r

Cynllun yn gadarn. Mae yna 10 prawf ar gaderndid sef profion trefniadol, cysondeb a chydlyniad ac effeithiolrwydd. Mae'r profion penodol yn cynnwys yr isod:

- Mae'n gynllun defnydd tir sy'n ystyried cynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol eraill ar gyfer yr ardal **neu ardaloedd cyfagos**
- Mae'r cynllun yn amlinellu strategaeth resymegol y bydd ei pholisïau a dyraniadau yn llifo'n rhesymegol a, **lle fo materion trawsffiniol yn berthnasol, mae'n gydnaws gyda'r cynlluniau datblygu sydd wedi'u paratoi gan awdurdodau cyfagos**

2.5 Os nad yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn bodloni'r profion caderndid bydd yn cael ei **wrthod** gan yr Arolygydd Cynllunio, sy'n risg sylweddol i'r Awdurdod. Y materion allweddol yma yw bod yn rhaid i Gynllun Datblygu Lleol un awdurdod ystyried Cynlluniau Datblygu Lleol ardaloedd cyfagos, Yn yr achos yma, mae materion trawsffiniol strategol allweddol yn berthnasol i Wynedd ac Ynys Môn, sy'n golygu fod yn rhaid i Gynllun Datblygu Lleol ar gyfer un Awdurdod fod yn gydnaws â'r llall. Byddai'r materion trawsffiniol strategol hyn yn cynnwys Both ("Hub") Môn-Menai, dyfodol yr Wylfa a rôl Bangor fel canolfan isranbarthol.

**Cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau**

2.6 Ar sail asesiad goddrychol o ddarpariaeth gyfredol y Gwasanaeth Polisi Cynllunio yng Ngwynedd ac Ynys Môn, ystyrir bod yr isod yn dangos y Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a'r Bygythiadau presennol: (Nid yw pob un o'r isod yn berthnasol i'r ddau Awdurdod)

| CRYFDERAU | GWENDIDAU |
|---|---|
| Gwybodaeth leol o'r ardal<br>Gwasanaeth yn yr un Adran / Gwasanaeth / Cyfarwyddiaeth â Rheoli Datblygu<br>Gwasanaeth proffesiynol yn cael ei gynnig i gwsmeriaid<br>Proffil uchel<br>Arbenigedd / gwybodaeth arbenigol<br>Gwasanaeth i gwsmeriaid, ymatebolrwydd<br>Darparu gwasanaeth dwyieithog<br>Cysylltiadau da gyda Rheoli Datblygu | Dibynnu ar grant i ariannu staff<br>Dim cydweithio ffurfiol rhwng yr Awdurdodau<br>Prinder adnoddau'n effeithio ar y gwasanaeth<br>Anawsterau wrth recriwtio<br>Prinder adnoddau i ariannu cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol<br>Diffyg cyfleoedd datblygu gyrfa<br>Dim dangosyddion perfformiad gwasanaeth safonol<br>Dyblygu gwaith<br>Risgiau posibl o ran cyfanrwydd Cynllun Datblygu Lleol unigol pob ardal |
| **CYFLEOEDD** | **BYGYTHIADAU** |
| Rhannu gwybodaeth arbenigol<br>Darparu gweithdrefnau a pholisïau safonol<br>Cyfleoedd datblygu gyrfa<br>Adnoddau staff mwy hyblyg<br>Cynllunio ar lefel fwy strategol (gall hyn ostwng pwysau ar un awdurdod drwy ddatblygu yn yr yn arall)<br>Integreiddio polisïau trawsffiniol<br>Symleiddio a llyfnhau trefniadau cyswllt gyda chwsmeriaid | Diffyg ariannu ac adnoddau<br>Anawsterau oherwydd gwahanol systemau TGCh<br>Diffyg cefnogaeth bosibl gan Aelodau<br>Pryder posibl gan staff<br>Llai o hygyrchedd i gwsmeriaid<br>Anhawster wrth gyflenwi swyddogaethau gwasanaeth cymorth<br>Gwrthdaro posibl oherwydd gwahanol flaenoriaethau yn y 2 Awdurdod |

| | |
|---|---|
| Safoni gweithdrefnau TGCh<br>Rhannu costau (e.e. cynhyrchu 1 neu 2 Cynllun Datblygu Lleol yn lle 3)<br>Mwy o gyfle i fodloni profion dros gaderndid | Anghysonderau o ran telerau ac amodau staff |

**Y cyfiawnhad dros gydweithio**

2.7 Mae'r trefniadau gwasanaeth presennol yn tynnu sylw at nodweddion sy'n debyg yn y Gwasanaeth Polisi Cynllunio yn y ddau Awdurdod o ran swyddogaethau'r gwasanaeth, materion allweddol ynghylch swyddogaethau'r gwasanaeth, cyswllt cwsmeriaid, cymeriad yr ardaloedd a'r prif heriau y mae'r ddau Awdurdod yn eu hwynebu wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.8 Ymhellach, mae'n hanfodol fod Cynllun Datblygu Lleol un Awdurdod yn ystyried Cynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod arall a bod Cynlluniau Datblygu Lleol y ddau Awdurdod yn gydnaws â'i gilydd, gan y bydd y materion hyn yn cael eu hasesu gan yr Arolygiaeth Gynllunio er mwyn profi caderndid y Cynlluniau. Byddai methu bodloni profion cyfanrwydd yn golygu y byddai'r Arolygiaeth Gynllunio yn **gwrthod** Cynllun.

2.9 O ystyried y trefniadau gwasanaeth a'r profion sy'n gysylltiedig ag asesu caderndid y Cynllun Datblygu Lleol, ystyrir bod cyfiawnhad clir dros drefnu i gydweithio wrth gyflwyno'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio.

## 3. Y DEWIS A FFAFRIR AR GYFER CYFLWYNO'R GWASANAETH

**Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd**

3.1 Wrth ystyried y dewisiadau posibl sydd ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth canolbwyntiwyd ar ffurfioli'r cydweithio rhwng y gwasanaethau Polisi Cynllunio yn y ddau Awdurdod. Er mwyn adeiladu ar gryfderau cyfredol, talu sylw i wendidau cyfredol a chymryd mantais ar gyfleoedd, credir bod yn rhaid ffurfioli'r cydweithio rhwng gwasanaethau'r ddau Awdurdod. Credir mai'r unig ddewis sy'n debygol o osod y gwasanaeth mewn sefyllfa i elwa o'r cyfleoedd i gydweithio fyddai creu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a fyddai'n cael ei reoli gan Awdurdod Cynhaliol. Byddai hyn yn canoli'r gwasanaeth mewn un swyddfa a byddai'r gwasanaeth cyfan yn cael ei reoli gan yr Awdurdod Cynhaliol.

3.2 Byddai Bwrdd Prosiect ar y Cyd, a fyddai'n cynnwys Pennaeth Adran Rheoleiddio Cyngor Gwynedd a Phennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir Ynys Môn yn cael ei sefydlu i i arolygu gwaith yr Uned. Byddai'r Awdurdod Cynhaliol, felly, yn adrodd i'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd.

3.3 Byddai'n rhaid cael Cytundeb (neu debyg) i gytuno ar fanylion megis cylch gorchwyl yr Uned, yr Awdurdod Cynhaliol a'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd.

3.4 Ymhlith buddion cynnig y gwasanaeth trwy Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd y mae:

- Rhannu gwybodaeth arbenigol
- Paratoi gweithdrefnau a pholisïau safonol
- Cyfleoedd datblygu gyrfa
- Cynhyrchu gwasanaeth cadarnach
- Cynyddu hyblygrwydd adnoddau staff a defnyddio staff yn fwy effeithiol

- Cynllunio ar lefel fwy strategol ac integreiddio polisïau trawsffiniol
- Symleiddio, llyfnhau a gwella trefniadau cyswllt gyda chwsmeriaid ac felly wella gwasanaeth i gwsmeriaid
- Rhannu costau a gwneud y defnydd gorau o adnoddau
- Rhannu gweledigaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol
- Rhannu ymchwil ar gyfer y gwaith Cynllun Datblygu Lleol
- Symleiddio'r strwythur rheoli
- Cyfuno gwybodaeth ac ymdrechion i roi rhagor o rym i ddadleuon er mwyn cyrraedd amcanion cyffredin (e.e. tai o bobl leol, problemau iaith)
- Mynd i'r afael yn llawn â'r materion ynghylch caderndid y Cynllun Datblygu Lleol
- Gallu paratoi Cynllun Datblygu Lleol cadarn

**Dethol Awdurdod Cynhaliol ar gyfer yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd**

3.5 Mae yna gytundeb rhwng y ddau Awdurdod fod angen Awdurdod Cynhaliol er mwyn rheoli gwaith beunyddiol yr Uned.

3.6 Mae Pennaeth yr Adran Rheoleiddio (Gwynedd) a Phennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Môn) yn cytuno, o gofio am strwythur staffio presennol y ddau awdurdod a phrofiad diweddar Gwynedd o fynd â Chynllun Datblygu Unedol drwy'r broses o'i fabwysiadu, fod yna gyfiawnhad, am resymau ymarferol, mai Cyngor Gwynedd ddylai fod yr Awdurdod Cynhaliol.

3.7 O greu'r uned newydd, byddai strwythur staff newydd hefyd yn cael ei greu a fyddai'n gyfle i wneud y defnydd gorau o swyddi gwag. Byddai hefyd yn rhoi cyfle i staff ddatblygu eu gyrfaoedd ac i rannu a datblygu gwybodaeth a sgiliau arbenigol mewn materion polisi cynllunio.

3.8 Er mwyn gallu ymdrin â phroblemau strategol allweddol, megis yr Wylfa, datblygiadau ynni eraill, swyddogaeth Bangor fel canolfan isranbarthol a chludiant cynaliadwy, bydd yn rhaid ystyried a fydd yr Uned angen staff ychwanegol yn y dyfodol.

## 4. SENARIOS POSIBL AR GYFER DARPARU'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

**Y sefyllfa ar hyn o bryd**

4.1 Y sefyllfa ar hyn o bryd o ran paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol yw bod Gwynedd wedi dechrau ar waith ar Gytundeb Darparu, gan fod ei Chynllun Datblygu Unedol newydd gael ei fabwysiadu (Gorffennaf 2009). Fodd bynnag, hyd yma ni chyflwynwyd unrhyw gais ffurfiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru i gychwyn yn ffurfiol ar y Cynllun Datblygu Unedol.

4.2 Mae Ynys Môn wedi dechrau gweithio'n ffurfiol ar ei Chynllun Dartblygu Lleol ond wedi gorfod ail ddrafftio'r Drafft Cyn Adnau a oedd i fod yn barod ar gyfer ymgynghori fis Awst 2010. Fodd bynnag, mae'r ail ddrafftio hwn yn dibynnu ar yr hyn a fydd yn Strategaeth Ynni'r Llywodraeth ac ar a fydd yr Wylfa'n cael ei datblygu ac oblygiadau hynny o ganlyniad ar Fôn fel "Ynys Ynni". Mae'r Llywodraeth wrthi ar hyn o bryd yn cynnal Asesiad Safle Strategol a disgwylir y cyhoeddir yn derfynol yn 2010 pa safleoedd sydd wedi'u dewis. Ymhellach, ers

dechrau'r gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol, mae Alwminiwm Môn, un o gyflogwyr mwyaf yr Ynys, wedi cau. Gallai'r ddau fater yma gael effaith pellgyrhaeddol ar y gwaith presennol ar y Cynllun Datblygu Lleol.

4.3 Roedd amserlen wreiddiol Môn yn dangos y byddai eu Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei fabwysiadu fis Medi 2013. Yn dilyn trafodaethau rhwng y ddau Awdurdod, comisiynodd Môn waith yn ddiweddar i asesu'r gwaith a wnaed ar sail tystiolaeth, nodi'r gwaith sydd ei angen a chynghori a yw'n realistig disgwyl y bydd y Cynllun yn cael ei fabwysiadu fis Medi 2013. Seiliwyd y cyngor a roddwyd ar y byddai'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a chanlyniad yr asesiad yw y byddai mis Rhagfyr 2013 yn ddyddiad mabwysiadu mwy realistig. Mae'r cyngor hefyd yn datgan - ***"fodd bynnag, dylid pwysleisio mai senario'r achos gorau yw hyn ac y gallai'r amserlen lithro'n hawdd o chwe mis a mwy pe byddai'r Cynllun yn mynd i drafferthion neu'n dioddef o ddiffyg cymryd penderfyniadau".*** Felly, gallai Cynllun Datblygu Lleol Môn yn hawdd gymryd tan yn gynnar yn 2015 cyn ei fabwysiadu, yn bennaf oherwydd ansicrwydd ynghylch dyfodol yr Wylfa.

4.4 O gofio am safbwyntiau'r ddau Awdurdod, gellir ystyried gwahanol senarios o ran sut y gallai Uned Cynllunio Polisi ar y Cyd ddarparu'r Cynllun Datblygu Unedol. Mae'r ddau Awdurdod wedi ystyried tri senario a byddai pob un yn gofyn am:

- Awdurdod Cynhaliol ar gyfer yr Uned
- Bwrdd Prosiect ar y Cyd
- Fod yr Uned yn y pen draw'n gweithio ar un Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer y ddau Awdurdod

Byddai gofyn sefydlu trefniadau llywodraethu ychwanegol ar gyfer gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol sengl fel y disgrifir yn Senario 1.

4.4 **SENARIO 1 : Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i ddechrau gweithio ar un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Môn ar unwaith**

**Trefn Lywodraethu**

Mae'n bwysig sefydlu trefniadau llywodraethu gwleidyddol a gweinyddol er mwyn sicrhau fod y ddau Awdurdod yn cefnogi ac yn berchen ar gyfeiriad strategol uchaf y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n bwysig hefyd fod Aelodau'r ddau Awdurdod â rhan yn y broses o gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol.

Bydd yn rhaid adrodd i'r ddau Awdurdod ar gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol sengl. Bydd hyn yn cynnwys adrodd i'r:-

- **Cyngor Llawn (Gwynedd a Môn)**
  Mae rheoliadau'r Cynllun Datblygu Lleol yn gofyn i rai rhannau o'r Cynllun gael eu hadrodd wrth y Cyngor Llawn.
- **Bwrdd a Thîm Rheoli'r Cyngor (Gwynedd a Môn)**
  Bydd hyn yn sicrhau fod y ddau awdurdod yn cefnogi ac yn derbyn perchenogaeth ar gyfeiriad strategol y Cynllun Datblygu Lleol sengl.
- **Pwyllgor Craffu (Gwynedd a Môn)**

Bydd hyn yn sicrhau y bydd Aelodau'r ddau Awdurdod yn cael cyfle i gymryd rhan ar gyfnodau allweddol paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol sengl.

Bydd gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol sengl ar gyfer y ddau Awdurdod hefyd yn gofyn am sefydlu **Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.** Bydd y Panel yma yn cynnwys Aelodau o Fôn a Gwynedd gyda'r prif gyfrifoldeb o lywio'r gwaith o gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd yr Uned yn adrodd ar gynnydd gwaith y Cynllun i'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Bydd yn rhaid hefyd cael corff cymryd penderfyniadau trawsffiniol gyda hawl i gymryd penderfyniadau trawsffiniol ar ôl i Fwrdd Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Ynys Môn gytuno ar gyfeiriad strategol y Cynllun Datblygu Lleol. Y ffordd fwyaf ymarferol ac effeithiol o wneud hyn fyddai drwy sefydlu **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd** gydag Aelodau o Wynedd ac Ynys Môn arno. Byddai hyn yn osgoi'r peryglon i amserlen y Cynllun Datblygu Lleol pe byddai angen penderfyniadau gan bob Awdurdod yn unigol ac, yr un pryd, yn parchu'r ffaith y bydd yn rhaid i awdurdodau unigol gymryd penderfyniadau a chymeradwyo ar gyfnodau allweddol. Bydd yn rhaid sefydlu trefniadau hefyd ar gyfer datrys unrhyw anghydfod a allai godi o ran y penderfyniadau a wneir drwy'r trefniant llywodraethu hwn.

Ystyrir y bydd y trefniadau llywodraethu gwleidyddol y cyfeirir ato uchod yn rhoi'r cydbwysedd iawn o ran cymryd penderfyniadau, craffu a rhoi mewnbwn ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r tabl yn **Atodiad 2** yn rhoi syniad o sut y cymerir y penderfyniadau adrodd a phenderfynu ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol.

**Amserlen:** Mabwysiadau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Môn erbyn 2016. Amcangyfrif o ddyddiad targed yw hwn, o gofio y gallai sefyllfaoedd annisgwyl godi wrth gynhyrchu'r cynllun a allai effeithio ar yr amserlen ar gyfer ei fabwysiadu.

.

**Buddion:** Pob un o'r buddion a geid pe bai'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn darparu'r gwasanaeth fel y nodir yn 3.4 uchod, ond yn fwy penodol mewn perthynas â chynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol:

i. **Canolbwyntio ar 1 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r ddau Awdurdod yn rhannu gweledigaeth.**
Mae'r senario hon yn rhoi'r cyfle gorau posibl i gynllunio ar lefel fwy strategol ac i gyfuno polisïau cynllunio trawsffiniol.
**Mabwysiadu un Cynllun Datblygu Lleol dwy ardal yr Awdurdodau Cynllunio Lleol**
Mae'n debygol y byddai targed y senario hon yn arwain at fabwysiadu un Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Sir Fôn a Gwynedd erbyn tua 2016.

iii. **Cynllunio ar gyfer canlyniadau gwahanol**
Mae yna faterion strategol yn effeithio ar ddwy ardal yr Awdurdodau Cynllunio Lleol ac mae'n rhaid mai Wylfa B yw'r un fwyaf sylweddol. Bydd Wylfa B, os bydd yn cael ei hadeiladu ai peidio, yn cael effaith ar flaengynllunio yn ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Lleol Môn a Gwynedd. Mae hyn yn fater y bydd rhaid i'r ddau Awdurdod gynllunio ar ei gyfer beth bynnag a byddai cydweithio ar un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn rhoi'r

ddau Awdurdod mewn sefyllfa gryfach i gynllunio ar gyfer canlyniadau gwahanol a thrin canlyniadau gwahanol yn fwy effeithiol.

ii. **Arbed costau**

Mae'n bosibl y bydd y senario hwn yn arbed costau. Mae'n debygol y gwelid yr arbedion yng nghostau'r broses o gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Ni fydd yr arbedion sylweddol ar y cychwyn, ond fe'i gwelid fwyfwy wrth i'r broses o wneud y cynllun fynd rhagddi gan y bydd llai o waith yn cael ei ddyblygu ac y gellid cyflawni gwaith mewn modd mwy effeithiol a chyflymach. Byddai cynhyrchu un Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer y ddau Awdurdod yn cael gwared ar ddyblygu'r un gwaith, rhywbeth a geid wrth gynhyrchu dau Gynllun Datblygu Lleol (un i bob Awdurdod). Gellid cydgomisiynu gwaith yn seiliedig ar dystiolaeth; byddai un Asesiad Amgylcheddol Strategol, un Asesiad Iechyd Strategol, un Archwiliad Annibynnol ac ymgynghoriadau ar gyfer un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn unig. Yn seiliedig ar y data sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol, amcangyfrifir bod cynhyrchu un Cynllun Datblygu Lleol yn costio, ar gyfartaledd, tua £250,000 y flwyddyn (ar ben costau staffio presennol) yn seiliedig ar amcangyfrifon Gwynedd. Ar gyfartaledd byddai felly'n costio rhwng £1m a £1.25m i un Awdurdod gynhyrchu un Cynllun Datblygu Lleol a rhwng £2m i £2.5m i ddau Awdurdod gynhyrchu dau Gynllun Datblygu Lleol. Mae'n debygol y byddai cynhyrchu un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (un i bob Awdurdod) yn costio llai (efallai 70% o gost o gynhyrchu dau Gynllun Datblygu Lleol), gan y byddai hynny yn osgoi dyblygu gwaith. Mae'n rhaid pwysleisio mai amcangyfrifon yw'r costau hyn ac y byddai costau un Cynllun ar gyfer pob Awdurdod yn debyg o fod yn wahanol.

**Problemau a risgiau:**

i) Byddai'r gwaith ar Gynllun Datblygu Lleol Môn yn dod i ben a byddai hynny'n yn oedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Môn. Fodd bynnag, mae'n debygol mai dim ond tua deuddeg mis o oedi a geid o gymharu â mabwysiadu Cynllun Datblygu lleol i Ynys Môn ac y gellid defnyddio'r gronfa dystiolaeth i gynhyrchu un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'n rhaid pwysleisio na fyddai'r gwaith a wnaed ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Môn yn cael ei wastraffu ac y byddai'n cyfrannu at y gwaith y byddai ei angen ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

**ii)** Byddai gofyn cael y trefniadau llywodraethu gweinyddol a ddisgrifir uchod a byddai hynny'n cynnwys sefydlu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar Y Cyd a fyddai â hawl i wneud penderfyniadau trawsffiniol. Pe na fyddai'r dull hwn o wneud penderfyniadau yn cael ei sefydlu gallai oedi'r broses o gynhyrchu cynllun, gan y byddai'n rhaid adrodd wrth Bwyllgorau perthnasol y ddau Awdurdod.

**iii)** Byddai rhaid cael ymrwymiad cadarn gan y ddau Awdurdod i gynhyrchu un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

**iv)** Problemau adnoddau dynol ynghylch ag adleoli / trosglwyddo staff

**v)** Costau sefydlu gan gynnwys costau swyddfeydd newydd a materion TG. Mae'n debygol y byddai rhannu costau rheoli'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn talu am y rhain, yn arbennig o gofio am arbedion costau wrth gynhyrchu dim ond un Cynllun Datblygu Lleol.

**4.5 SENARIO 2 : Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i barhau i weithio ar Gynllun Datblygu Lleol Môn nes y bydd yn cael ei fabwysiadu ac yna'n dechrau gweithio ar un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i Wynedd a Môn**

**Trefn Lywodraethu:** Byddai'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn adrodd, yn y lle cyntaf, i'r Panel a'r Pwyllgor(au) Cynllun Datblygu Lleol presennol yn unol â'r broses benderfynu bresennol a sefydlwyd ar gyfer Môn, gan y byddai hyn yn benodol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Môn. Mae'n debygol y defnyddid yr un drefn lywodraethu ar gyfer un Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Gwynedd a Môn ag a geir yn senario 1, a byddai rhaid ei sefydlu cyn cychwyn ar waith ar Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

**Amserlen:** Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Môn yn 2015. Cychwyn gwaith ar un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Môn yn 2014 gan fabwysiadu un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn 2019.

**Buddion:** Pob un o'r buddion a ddaw o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn darparu'r gwasanaeth fel y nodir yn 3.4, ond yn fwy penodol mewn perthynas â chynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol:

i) **Efallai y bydd gan Fôn Gynllun Datblygu Lleol wedi'i fabwysiadu erbyn 2015**
Yn y sefyllfa hon, Môn fyddai'n cael y budd ar y dechrau, ond byddai gwaith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ar Gynllun Datblygu Lleol Sir Fôn yn datblygu dealltwriaeth o'r broses, y materion allweddol a gellid dysgu gwersi ar gyfer paratoi un Cynllun Datblygu lleol ar y Cyd i Fôn a Gwynedd.

ii) **Gellir cychwyn ar waith paratoi un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i Fôn a Gwynedd.**
Byddai'n bosibl cydgomisiynu elfennau o'r gwaith yn seiliedig ar dystiolaeth.

iii) **Cynllunio ar gyfer canlyniadau gwahanol**
Byddai'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn dal i fod mewn sefyllfa gryfach gan y byddai'r Uned yn gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol Môn ond byddai hefyd yn datblygu gweledigaeth ac yn dechrau gweithio ar un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i'r ddwy ardal.

iv) **Arbed costau**
Ar y cyfan byddai'r rhain yn berthnasol i waith ar un Cynllun Datblygu lleol ar gyfer y ddau awdurdod, ac, unwaith eto, byddai'r broses o wneud cynllun yn arbed arian (gweler Senario 1). Fodd bynnag, ar ben hynny, byddai'r gost o gwblhau'r broses o gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol Môn.

**Problemau a risgiau:**

i) Ni fyddai gwaith yn cychwyn ar Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a fyddai'n cynnwys ardal Gwynedd tan 2014 ac mae'n bosibl na fyddai unrhyw Gynllun Datblygu Lleol ar gyfer Gwynedd tan 2019.

ii) Ni ddeuai'r arbedion gwirionedd yn y broses Cynllun Datblygu Lleol yn amlwg nes y byddai'r gwaith yn cychwyn ar yr un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer y ddau Awdurdod, er y byddai oedi o ran gwariant i Wynedd yn ystod y cyfnod cychwynnol.

iii) Byddai rhywfaint o ddyblygu gwaith yn dal yn y broses o gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol gan y byddai dau Gynllun (Cynllun Datblygu Lleol

Môn a Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd) yn cael eu cynhyrchu yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

iv) Yn y senario hwn, cynhyrchir dau gynllun yn ystod y 10 mlynedd nesaf ac mae'n debyg na welir arbedion yn y broses nes y bydd gwaith ar yr un Cynllun Datblygu Lleol i Wynedd a Sir Fôn yn cychwyn yn 2014. Byddai cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol Môn yn costio rhwng £1m a £1.25m (ar ben y costau staff presennol) a fyddai ar ben y gost o gynhyrchu un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar ben y ddwy ardal.

v) Pe byddai Cynllun Datblygu Lleol Môn yn cael ei fabwysiadu yn 2015, dim ond tua 12 mis ynghynt fyddai hynny na mabwysiadu un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer ardaloedd Gwynedd a Môn (h.y. Senario 1)

vi) Byddai angen ymrwymiad cadarn gan y ddau Awdurdod y câi un Cynllun Datblygu Lleol ei gynhyrchu ar gyfer y ddwy ardal neu, fel arall, byddai hyn yn ormod o risg i Wynedd.

**vi)** Problemau adnoddau dynol o ran adleoli / trosglwyddo staff

**vii)** Costau sefydlu gan gynnwys costau swyddfeydd newydd a materion TG. Mae'n debygol y byddai rhannu costau rheoli'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn talu am y rhain.

**4.6 SENARIO 3 : Yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i barhau i weithio ar Gynllun Datblygu Lleol Môn nes y bydd yn cael ei fabwysiadu ac, yr un pryd, yn gweithio ar un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Môn.**

**Amserlen:** Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Môn yn 2015. Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd yn 2016. Dechrau gweithio ar un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i Wynedd a Môn yn 2015 gan fabwysiadu un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn 2020.

**Trefn Lywodraethu:** Byddai'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn parhau i adrodd wrth y Paneli a'r Pwyllgorau Cynllun Datblygu Lleol presennol yn unol â phrosesau penderfynu presennol yn yr awdurdodau. Byddai'r drefn lywodraethu a nodir yn senario 1 yn gymwys i gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Môn.

**Buddion:** Pob un o'r buddion a geid pe byddai'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn darparu'r gwasanaeth fel y nodir uchod, ond yn fwy penodol mewn perthynas â chynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol:

i) **Efallai y byddai gan Fôn Gynllun Datblygu Lleol wedi'i fabwysiadu erbyn yn gynnar 2015 ac un gan Wynedd erbyn diwedd 2016**
Byddai buddion i'r ddau awdurdod o fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys polisïau cynllunio cyfredol. Byddai gwaith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ar y ddau Gynllun Datblygu Lleol yn baratoad da ar gyfer cynhyrchu un Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer y ddau Awdurdod.

ii) **Gellid cychwyn gweithio ar un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Môn a Gwynedd.**
Byddai'n bosibl cydgomisiynu elfennau o'r gwaith yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn bod yn barod i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i ymdrin ar gyfer y ddau Awdurdod.

iii) **Cynllunio ar gyfer canlyniadau gwahanol**

Byddai'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn dal i fod mewn sefyllfa gryfach gan y byddai'n gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol Môn ond byddai hefyd yn datblygu gweledigaeth ac yn gwneud gwaith rhagbaratoawl ar gyfer un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i'r ddwy ardal.

iv) **Arbed costau**
Byddai'r rhain yn berthnasol yn bennaf i'r gwaith a wneir ar un Cynllun Datblygu lleol i'r ddau awdurdod ac unwaith eto byddai'n arbed arian wrth wneud hynny (gweler Senario 1). Ond byddai'r gost o gwblhau un Cynllun Datblygu Lleol i Fôn ac un i Wynedd ar ben cost cynhyrchu un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

**Problemau a risgiau:**

i) Byddai'r senario hwn yn golygu na fydd gwaith yn cychwyn ar un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Cynghorau Gwynedd a Môn tan 2015.

ii) Byddai rhywfaint o waith yn cael ei ddyblygu wrth gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol gan y byddai tri Chynllun (Cynllun Datblygu Lleol Môn ac un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd) yn cael eu paratoi yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Byddai cynhyrchu dau Gynllun Datblygu Lleol (un i bob Awdurdod) yn costio rhwng £2 a £2.5 miliwn – a fyddai ar ben costau cynhyrchu un Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer y ddwy ardal.

iii) Yn y senario hwn, byddai tri chynllun yn cael ei gynhyrchu yn ystod y 10 mlynedd nesaf ac mae'n debyg na cheid arbedion amlwg nes y byddai gwaith yn cychwyn ar yr un Cynllun Datblygu Lleol yn 2015.

iv) Pe byddai Cynllun Datblygu Lleol Môn yn cael ei fabwysiadu ddechrau 2015, dim ond tua 12 mis ynghynt fyddai hynny nag a fyddai'n ei gymryd i fabwysiadu un Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer ardaloedd Gwynedd a Môn (h.y. Senario 1)

v) Byddai'n rhaid cael ymrwymiad cadarn gan y ddau Awdurdod i gynhyrchu 1 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer y ddwy ardal.

vi) Problemau adnoddau dynol yn gysylltiedig ag adleoli / trosglwyddo staff

**viii)** Costau sefydlu gan gynnwys costau swyddfeydd newydd a materion TG. Mae'n debygol y byddai rhannu costau rheoli'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn talu am y rhain.

4.7 Mae **Atodiad 3** yn dangos yr amserlenni ar gyfer cychwyn ar y gwaith a mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol gan dalu sylw i'r tri senario y cyfeirir atynt uchod.

**Prif risgiau gweithio ar y cyd**

4.8 Mae risgiau cydweithredu'r un rhai â'r risgiau y bydd y ddau Awdurdod yn eu hwynebu wrth gynhyrchu eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Fodd bynnag, dylai fod llai o risg gan y byddai cael yr Uned i reoli gwaith y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfrannu at gysondeb trawsffiniol ac yn cyfuno polisïau cynllunio'r ddau awdurdod. Dylai hyn gyfrannu at sicrhau cadernid y Cynllun Datblygu Lleol, a bydd hyn yn ystyriaeth allweddol pan fydd yr Arolygydd Cynllunio'n dechrau ystyried y Cynllun.

4.9 Pe na byddai Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei ffurfio, byddai'n rhaid i'r ddau Awdurdod ddal i weithio ar eu Cynlluniau eu hunain a byddai'r ddau yn cael eu

hadolygu'n ffurfiol bedair blynedd ar ôl eu mabwysiadu. Fodd bynnag, ni fyddai'r un Awdurdod yn medi'r buddion a geid drwy sefydlu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.

4.10 Gallai fod yna risgiau o ran adnoddau dynol yn y gwasanaeth gan y byddai'r ffordd y darperir y gwasanaeth yn newid, er y byddai natur y gwaith, yn ei hanfod, yr un fath. Mae trafodaethau â staff, cynrychiolydd yr undeb ac â'r Adran Adnoddau Dynol eisoes ar y gweill.

4.11 Mae'n hanfodol, unwaith y sefydlir yr uned, nad oes gymal 'optio allan' ar gyfer yr un o'r Awdurdodau yn ystod cyfnod cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol gan y gallai hynny fod yn risg sylweddol ac annerbyniol i'r ddau Awdurdod. Mae'n debyg, hefyd, y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gofyn am ymrwymiad cadarn gan y ddau Awdurdod i ddarparu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd.

## 5. CASGLIADAU

5.1 Mae'r asesiad o drefniadau gwasanaeth presennol yn y ddau Awdurdod wedi amlygu tebygrwydd yn swyddogaethau allweddol y gwasanaethau, cymeriad a phroffil y ddau Awdurdod a hefyd y prif heriau sy'n wynebu'r ddau Awdurdod wrth gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol. At hyn, mae'n hanfodol sicrhau bod y Cynllun yn pasio'r prawf cadernid. Byddai trefn ffurfiol ar weithio ar y cyd yn rhoi'r ddau Awdurdod mewn sefyllfa gryfach ar gyfer ateb y prawf cadernid, yn enwedig o ran cysondeb polisïau trawsffiniol. Ystyrir bod cyfiawnhad clir a chadarn dros sefydlu trefniadau gweithio ar y cyd rhwng Gwynedd a Môn.

5.2 Byddai creu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei rheoli gan Awdurdod Cynhaliol yn gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau prin a byddai â'r siawns orau posibl o fanteisio ar y cyfleoedd a geid drwy weithio ar y cyd. Ystyrir mai dyma'r achos beth bynnag fyddai'r senarios ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol.

5.3 Ystyrir mai dechrau gweithio ar un Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd mor fuan â phosibl (Senario 1) fyddai'n rhoi'r manteision gorau i'r ddau awdurdod. Dylai'r gwaith a wnaed hyd yma gan Ynys Môn ffurfio rhan o'r wybodaeth graidd a fydd yn cael ei bwydo i'r broses o gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol sengl ar gyfer y ddau Awdurdod a bydd yn cyfrannu'n arwyddocaol at waith yr Uned. Mae'n rhaid adeiladu ar y sail tystiolaeth, yn enwedig o ran ymestyn y gwaith ymchwil cychwynnol i ardal Cyngor Gwynedd.

5.4 Mae'n amlwg hefyd nad yw'n debygol y bydd gwahaniaeth arwyddocaol yn yr amserlenni ar gyfer cynhyrchu Cynllun Ynys Môn (Senario 2), Cynllun Gwynedd (Senario 3) a'r Cynllun sengl ar gyfer y ddau Awdurdod (Senario 1).

5.5 Byddai Senario 1 yn ffordd bragmataidd o symud ymlaen i ymdrin â'r ansicrwydd ynghylch yr Wylfa, yn enwedig gan y byddai'r ansicrwydd yn effeithio ar y ddau Awdurdod. Byddai'n lleihau'r risgiau ynghylch cadernid a byddai'n costio llai i baratoi'r Cynllun. Ymhellach, mae yna gyfle yma i gael prosiect 'patrymol' a allai

ddangos effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cydweithio rhwng dau Awdurdod i weddill Cymru.

5.6 Y prif amcan yma yw gwneud y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adnoddau i sefydlu fframwaith i baratoi un Cynllun Datblygu Lleol sengl ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'n golygu sefydlu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, sefydlu Bwrdd Prosiect ar y Cyd i arolygu gwaith yr Uned, sefydlu Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i lywio'r gwaith o gynhyrchu'r cynllun a sefydlu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, fel corff trawsffiniol ar gyfer cymryd penderfyniadau ynghylch Cynllun Datblygu Lleol sengl.

**ARGYMHELLION:**

**i) Bod Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei sefydlu i ddarparu gwasanaeth Polisi Cynllunio ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.**

**ii) Bod Bwrdd Prosiect ar y Cyd yn cael ei sefydlu i arolygu gwaith yr Uned.**

**iii) Bod yr Uned yn dechrau gweithio ar un Cynllun Datblygu Lleol sengl ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd ac Ynys Môn. (Senario 1)**

**iv) Bod Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd yn cael ei sefydlu i lywio'r gwaith o gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer y ddau Awdurdod.**


**v) Bod Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei sefydlu fel corff trawsffiniol ar gyfer cymryd penderfyniadau**

**vi) Bod Pennaeth yr Adran Reoleiddio a Phennaeth yr Adran Democratiaeth a Chyfreithiol yn derbyn awdurdod i weithredu i), ii), iii), iv) a v).**

**Atodiad B – Cytundeb Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwasanaethau a Rennir**

Gweler atodiad am y fersiwn PDF.

**Atodiad C - Strwythur Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (Ionawr 2017)**



**Atodiad CH - Trosolwg o gostau ac arbedion staff yr UPCC ers 2013/14**

| | 2013-14 | | 2014-15 | | 2015-16 | | 2016-17 | | 2017-18 | | 2018-19 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau** | **FTE** | **Total** | **FTE** | **Cyfanswm** | **FTE** | **Cyfanswm** | **FTE** | **Cyfanswm** | **FTE** | **Cyfanswm** | **FTE** | **Cyfanswm** |
| **Costau Rheoli** | N/A | £11,960 | N/A | £13,520 | N/A | £13,670 | N/A | £14,050 | N/A | £14,050 | N/A | £14,050 |
| **JPPU Capacity** | 12.0 | £444,450 | 11.6 | £424,580 | 11.6 | £429,250 | 11.6 | £442,880 | 10.0 | £394,520 | 10.0 | £394,520 |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Arbedion / Effeithlonrwydd** | - | - | 0.4 Post<br>Ymddeoliad hyblyg Cynorthwy-ydd Cynllunio | - | - | -£50,000<br>Gostyngiad o £ 25,000 gan y ddau CG a CSYM a ariennir gan tanwariant o baratoi'r CDLl ar y Cyd | - | -£50,000<br>Gostyngiad o £ 25,000 gan y ddau CG a CSYM a ariennir gan tanwariant o baratoi'r CDLl ar y Cyd | - | -£1,640<br>Arbediad a gymeradwywyd - 2 swydd i'w dileu (Swyddog Systemau a Cymhorthydd Polisi) | -2.0 Swyddi | -£61,640<br>Arbedion ychwanegol o £60,000 wedi ei gymeradwyo (2 swyddi) |
| **Cyfanswm** | **12.0** | **£444,450** | **11.6** | **£424,580** | **11.6** | **£379,250** | **11.6** | **£392,880** | **10.0** | **£392,880** | **8.0** | **£332,880** |
| **Crynodeb o arbedion ers 2013/14** | | | | | | | | | | | **-4.0** | **-£111,570** |

**Atodiad D - Crynodeb o’r costau o baratoi Cynllun Datblygu ar y Cyd ag Arbedion Disgwyliedig ar gyfer yr Awdurdodau**

Mae’r tabl isod yn cynnwys gwybodaeth a gafodd ei gynnwys yn y Crynodeb o'r Adborth gan Rhanddeiliaid (Atodiad F). Mae’r wybodaeth am y gwariant posib wedi ei seilio ar y wybodaeth gorau oedd ar gael ar y pryd, tynnwyd y wybodaeth yma o’r dadansoddiad o wariant gan Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill ar gostau ymchwil a phrosesau. Ar yr amser hynny fe ragwelir y bod Horizon, o dan y Cytundeb Perfformio Cynllunio arfaethedig, yn cyfrannu i rai elfennau o’r ymchwil ar y sail y byddai’r ymchwil yn cynnwys gwaith a fyddai’n ychwanegol at ymchwil a fyddai’n ofynnol heb brosiect Wylfa Newydd. Mae’r llinell ddiwethaf yn y tabl yn cyfeirio at y cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â grantiau sydd wedi ei seilio ar berfformiad. Mae’r tabl yn ceisio dangos arbedion posib ar gyfer y ddau Awdurdod: sy’n fwy na £300,000 i bob Awdurdod.

<u>Proffil Gwariant Posib Cynllun Datblygu Lleol</u>

| | **2010/11** | **2011/12** | **2012/13** | **2013/14** | **2014/15** | **2015/16** | **2016/17** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 140,600 | 86,600 | 87,600 | 109,600 | 41,600 | 441,600 | 42,600 | 950,200 |
| **Môn** | 179,000 | 100,000 | 86,000 | 108,000 | 40,000 | 440,000 | 41,000 | 994,000 |
| **Total** | **319,600** | **186,600** | **193,600** | **217,600** | **81,600** | **881,600** | **83,600** | **1,944,200** |
| **Gwynedd a Môn ar y Cyd** | **236,600** | **157,600** | **127,600** | **139,600** | **42,600** | **540,600** | **52,600** | **1,297,200** |
| **Lleihau Cyllideb gan Horizon ar gyfer gwaith yn seiliedig ar dystiolaeth** | (64,500) | (64,500) | | | | | | |
| **Lleihau Cyllideb gan Lywodraeth Cymru i’w wario cyn diwedd Mawrth 2011** | (25,000) | | | | | | | |

Yn unol a rheolau adrodd cyfrifo ag archwiliad penodol ar gyfer y Pwyllgorau ar y Cyd a adroddiad yn cyflwyno'r cyfrifon terfynnol y cael ei gyflwyno i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn flynyddol. Mae'r cyfrifon terfynnol yn amodol ar archwiliad gan Archwilydd allanol sydd wedi ei gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r canlynol yn rhoi trosolwg o'r costau gwirioneddol yn gysylltiedig a'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

| **Blwyddyn** | **Costau Gwirioneddol Prosesau (£)** | **Incwm (£)** | **Cost Net (£)** |
|---|---|---|---|
| 2011 – 2012 | 59,122 | (7,426) | 51,696 |
| 2012 – 2013 | 178,702 | 0 | 178,702 |
| 2013 – 2014 | 152,167 | (364) | 151,803 |
| 2014 – 2015 | 169,480 | (157,272) | 12,208 |
| 2015 – 2016 | 78,050 | (4,620) | 73,430 |
| **Cyfanswm Costau** | **637,521** | **(169,682)** | **467,839** |

Mae'n rhesymol i gymryd yn ganiataol y byddai pob Awdurdod yn gorfod gwario swm cyfatebol o arian i baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol unigol. Ar y sail hyn, mae pob Awdurdod o bosib wedi arbed oddeutu £318,760 **hyd yma** (sef £637,521 / 2) drwy baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras gyda'r lefel o arbedion oedd wedi eu disgwyl ar ddechrau'r broses. Mae'r baich ar y ddwy Awdurdod wedi lleihau o ganlyniad i incwm, sy'n cynnwys grant 'un tro' gymharol sylweddol gan Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ymchwil a thaliad am waith wedi eu ymgymryd yn gysylltiedig a phrosiect Llywodraeth Cymru o dan y Cytundeb Perfformiad Cynllunio.

Mae'r costau gwirionedd ar gyfer 2016-2017 yn cael eu amcangyfrif i fod yn uwch na blynyddoedd blaenorol ar y sail y bydd costau'r Arholiad Cyhoeddus yn gorfod cael eu talu gan yr Awdurdodau. Gall hyn fod yn swm oddeutu £500,000. Ar wahan i Wylfa Newydd, mae'r materion a godwyd Archwiliad yn gyffredin i'r ddau Awdurdod. Eto, mae'n rhesymol i gymryd yn ganiataol y byddai un Archwiliad o'r Cynllunio Datblygu Lleol ar y Cyd yn rhoi budd ariannol i'r ddau Awdurdod, gan y bydd costau'r Arolygydd a'r holl gostau eraill yn gysylltiedig ag Archwilaid, e.e. Swyddog Rhaglen, yn cael ei rannu ar sail 50:50.

**Atodiad DD - Crynodeb o'r Adborth gan Randdeiliaid**

**a) Beth yw prif gyflawniadau'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd?**

I. Cynnydd da ar y CDLl ar y Cyd (h.y. casglu sylfaen tystiolaeth gadarn, paratoi dogfennau ymgynghori ac ati) a chyrraedd cam archwilio'r broses baratoi.
II. Cadw at amserlen dynn y Cytundeb Cyflawni ar gyfer y CDLl ar y Cyd a symud y CDLl ar y Cyd ymlaen trwy drefniadau llywodraethu'r ddau Awdurdod heb anghytundeb neu wrthdaro.
III. Paratoi fframwaith polisi cynllunio cadarn ar gyfer Gogledd-Orllewin Cymru (ynghyd â gwaelodlin cryf) i roi cysondeb i ddatblygwyr a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau.
IV. Mae'r trefniadau cydweithio / ar y cyd yn arloesol, yn torri tir newydd ac yn unigryw yng Nghymru.
V. Sefydlu ac integreiddio'r Uned yn llwyddiannus - heb fawr o gefnogaeth neu gymorth gan y naill Awdurdod na'r llall.
VI. Eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau. Integreiddio staff a thechnoleg yn llwyddiannus gan arwain at rannu a datblygu sgiliau newydd / ehangach.
VII. Gwasanaeth ardderchog i holl gwsmeriaid yr Uned (yn fewnol ac yn allanol). Datblygwyd a chynhaliwyd perthynas waith dda ar draws Adrannau a Gwasanaethau'r Cyngor.
VIII. Staff cyfeillgar a hawdd mynd atynt sy'n rhoi arweiniad a chymorth clir a chyson.
IX. Ystyriaeth effeithiol o faterion trawsffiniol (a allai fod yn ddadleuol) e.e. Wylfa Newydd.
X. Rhannu cynhwysedd arbenigol i sicrhau bod yr Awdurdodau yn cael mynediad at gyngor polisi cynllunio proffesiynol.
XI. Darparu cefnogaeth gref, proffesiynol a phriodol i Wasanaethau Cynllunio'r ddau Awdurdod (a meysydd gwasanaeth eraill o'r fath megis y Gwasanaeth Tai a Datblygu Economaidd).
XII. Cymorth a mewnbwn i amryw o bartneriaethau a grwpiau e.e. Partneriaethau Tai ac ati
XIII. Lefel uchel o lythrennedd cyfrifiadurol a gallu technegol h.y. mapio meddalwedd
XIV. Datblygu polisïau cynllunio i ddiogelu'r iaith Gymraeg.
XV. Cwblhau arolygon tai blynyddol.
XVI. Arbedion ariannol ar gyfer y ddau Awdurdod yn sgil y cydweithio.

**b) Pa agweddau ar y Polisi Cynllunio ar y Cyd sy'n gweithio'n dda?**

I. Cydweithio a chydweithredu effeithiol rhwng yr UPCC a'r ddau Awdurdod
II. Integreiddio swyddogion, arferion gwaith a systemau'n llwyddiannus gan sicrhau dull cyson o weithredu o ran rhaglen a thasgau gwaith yr Uned.
III. Sgiliau, profiad a phroffesiynoldeb yr holl staff. Mae'r swyddogion yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn cynnig gwasanaethau dwyieithog.
IV. Arbenigedd sy'n gallu rhoi cyngor ar faterion penodol.
V. Cysondeb o ran y cyngor a roddir a safon y wybodaeth a ddarperir i ddefnyddwyr gwasanaeth.
VI. Ystyriaeth ehangach, ranbarthol o faterion cynllunio polisi, yn hytrach na ffocws lleol yn unig.
VII. Safon y cyngor cyn ymgeisio sy'n cynorthwyo i lunio ceisiadau cynllunio (ac sydd hefyd yn cynhyrchu incwm sylweddol i'r ddau Wasanaethau Cynllunio).

VIII. Cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol gydag Aelodau Etholedig a chymunedau.
IX. Rhannu arfer da (o fewn yr Uned, gyda'r ddau Awdurdod a phartneriaid eraill).

**c) Pa agweddau ar yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd gellid eu gwella?**

I. Mae angen gwella ymwybyddiaeth o'r UPCC i sicrhau bod pobl yn cael gwell dealltwriaeth o'r gweithgareddau y mae'n ymgymryd â nhw ar gyfer y ddau Awdurdod.
II. Mae'r diffyg cysylltiad rheolaidd gyda Swyddogion o'r ddau Awdurdod yn golygu llai o gyfleoedd ar gyfer cydweithio anffurfiol a gweithio agosach.
III. Mwy o gefnogaeth gan Uwch Reolwyr ac Aelodau Etholedig - yn enwedig pan fo unigolion yn mynegi rhwystredigaeth gyda goblygiadau polisïau a / neu brosesau cynllunio.
IV. Mwy o ymgysylltu â Thimau Uwch Arweinyddiaeth y ddau Gyngor i drafod materion polisi cynllunio strategol cyn i unrhyw waith manwl gael ei wneud.
V. Mae angen sicrwydd bod yr UPCC yn mynd i'r afael â materion Gwynedd a Môn yn deg, yn gyfartal ac mewn modd cytbwys.
VI. Ymgysylltiad mwy rhagweithiol gyda rhanddeiliaid i sicrhau mwy o berchenogaeth a dealltwriaeth o faterion polisi cynllunio.
VII. Angen annog Gwasanaethau o'r ddau Awdurdod (e.e. Addysg) i gymryd mwy o ddiddordeb mewn materion polisi cynllunio a materion paratoi cynlluniau datblygu.
VIII. Dylai fod yn haws i'r cyhoedd ymgysylltu â swyddogion o'r Uned. Mae proffil yr Uned yn rhy isel mewn lleoliadau fel Llangefni, Pwllheli a Chaernarfon.
IX. Cred bod yr UPCC wedi'i hynysu / ar wahân yn Neuadd y Dref ym Mangor.
X. Ymgysylltu cryfach rhwng yr Uned a'r staff Rheoli Datblygu yn y ddau Awdurdod.
XI. Mae'r canfyddiad o'r Uned yn wael o fewn rhai gwasanaethau. Dylai swyddogion "rannu desg" gyda swyddogion o Wynedd ac Ynys Môn i hyrwyddo gwaith yr Uned, yn ogystal â rhoi mwy o gyfleoedd i gwrdd â thrigolion yn eu cymunedau eu hunain.
XII. Mae anallu'r UPCC i gael mynediad i systemau CSYM yn rhwystr i gyfathrebu effeithiol.
XIII. Diffyg cydnabyddiaeth yn swyddfeydd CSYM fod staff UPCC yn gweithio i'r Awdurdod, h.y. yn gorfod llofnodi i mewn i adeiladau a gwisgo bathodynnau ymwelwyr.
XIV. Rhaid i'r UPCC wneud mwy i greu hinsawdd gadarnhaol i annog datblygiad economaidd yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
XV. Dylid ehangu'r trefniadau gweithio ar gyfer yr UPCC i gynnwys gwasanaethau Cynllunio arbenigol fel bod mwy o amrywiaeth a chysondeb yn y cyngor a roddir.
XVI. Gwell defnydd o dechnegau a phrosesau rheoli prosiectau.

**ATODIAD 3 : Sgôp Gwaith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd 2017 - 2022**

**Prif Ddyletswyddau:**

1. **Monitro Blynyddol** - casglu a dadansoddi (i) gwybodaeth gyd-destunol am y ddwy ardal (i adnabod unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol, h.y. materion strategol ehangach sy'n effeithio ar yr ardal leol a'r cyd-destun mae'r Cynllun yn gweithredu o fewn iddo); a (ii) gwybodaeth am ganiatâd cynllunio a datblygiadau yn y ddwy ardal, er mwyn monitro gweithrediad polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn flynyddol, gan ddefnyddio'r Fframwaith Fonitro mabwysiedig ac Adroddiad yr Asesiad o Gynaliadwyedd;
2. Paratoi un **Adroddiad Monitro Blynyddol ar y cyd** i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i chyhoeddi;
3. Cynhyrchu un gyfres o **Ganllawiau Cynllunio Atodol** am bolisïau sy'n berthnasol i'r ddau Awdurdod Cynllunio Lleol yn ogystal â chyfres fechan o CCA a fydd ond yn berthnasol i safleoedd yn un o'r ddau Awdurdod Cynllunio Lleol;
4. Archwilio hyfywdra **creu rhestr codi ardoll** am ddatblygu (Rheoliadau CIL) yn ardaloedd y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol fel ei gilydd neu ar gyfer is-ardaloedd perthnasol;
5. Cynnal arolygon blynyddol i fesur **argaeledd tir ar gyfer tai** yn ardaloedd y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol ar wahân yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 1 a chyfuno'r wybodaeth i adrodd am y sefyllfa yn ardal y Cynllun;
6. Darparu cyngor arbenigol mewn **ymateb i ymholiadau am faterion polisi cynllunio** i'r ddau Awdurdod Cynllunio Lleol fel ei gilydd adeg: ceisiadau am gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio; ceisiadau cynllunio; achosion gorfodaeth; ac apeliadau neu wrandawiadau cyhoeddus;
7. Dechrau adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn llawn cyn pob pedair blynedd o'r adeg y'i mabwysiadwyd a chyhoeddi **Adroddiad yr Adolygiad**;
8. Yn ddibynnol ar gasgliadau'r adolygiad o'r Cynllun, ymgymryd â'r **broses i ddiwygio'r** Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (y weithdrefn ddiwygio fer neu lawn).

**Dyletswyddau Eraill:**

9. Cynrychioli'r ddau Gyngor yn ôl y galw i gyfrannu i'r broses creu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a/ neu Gynllun Datblygu Strategol, yn ôl y gofyn;
10. Cydweithio gyda chymunedau penodol yn ardal y ddau Gyngor i greu Cynllun Lleoliad, yn ôl y gofyn;
11. Ymddangos fel tyst ar faterion polisi mewn apeliadau cynllunio neu orfodaeth yn ôl y gofyn;
12. Darparu cyngor arbenigol mewn ymateb i ymholiadau am faterion polisi cynllunio i adrannau eraill o'r ddau Gyngor, mudiadau allanol ac i'r cyhoedd yn gyffredinol, yn ôl y gofyn ;
13. Rhoi mewnbwn penodol i mewn i ddatblygu a gweithredu amcanion a pholisïau mewn strategaethau a chynlluniau corfforaethol y ddau Gyngor, lle bo hyn yn berthnasol i faterion polisi cynllunio;
14. Cymryd rhan mewn cyfarfodydd grwpiau/ bartneriaethau amlddisgyblaeth (sirol, traws- sirol, rhanbarthol neu genedlaethol) i roi cyngor arbenigol am faterion polisi cynllunio;
15. Arwain ar neu gyfrannu i ddarparu ymateb ar ran y ddau Gyngor i ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill perthnasol os oes goblygiadau cynllunio defnydd tir;

16. Arwain ar neu gyfrannu at waith ymchwil o fewn y ddau Gyngor, lle mae'r gwaith yn berthnasol i faterion polisi cynllunio;
17. Codi ymwybyddiaeth ym mysg swyddogion ac Aelodau o fewn y ddau Gyngor o unrhyw newidiadau arwyddocaol i bolisi cynllunio cenedlaethol;
18. Ymateb i faterion cynllunio defnydd tir eraill a allai godi.

| Tasg | | Sylwadau |
|---|---|---|
| 1. | Monitro blynyddol | Gofyniad statudol.<br><br>68 o ddangosyddion/ targedau polisi a throthwyon + ystyriaeth o newidiadau cyd-destunol sylweddol + monitro cynaliadwyedd (adroddiad Asesiad Cynaliadwyedd).<br><br>Datblygu cronfeydd data perthnasol o'r Gofrestr Cynllunio + ymgymryd â gwaith maes perthnasol, e.e. tai, cyflogaeth, siopau + gwaith ymchwil, e.e. iaith Gymraeg.<br><br><u>Costau</u> – amser swyddogion i sefydlu'r cronfeydd data, dulliau casglu'r data ac ymgymryd ag unrhyw waith maes neu ddadansoddi gwybodaeth am newidiadau cyd-destunol.<br><br>Un cronfa ddata yn lle un yr un a sicrhau cysondeb mesur/ dehongli'r wybodaeth. |
| 2. | Paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol | Gofyniad statudol. Paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 1/4 - 31/3. Cyflwyno'r AMB i Lywodraeth Cymru erbyn 31/10 pob blwyddyn a'i gyhoeddi ar y wefan. Felly AMB cyntaf erbyn 31/10/18 .<br><br>1 AMB i gyfro Gwynedd a Môn, ond yn adnabod tueddiadau gofodol lle mae'n berthnasol gwneud hynny. Strwythur penodol i'w ddilyn. Casgliadau ac argymhellion ar ddiwedd yr AMB<br><br>Dim gofyniad i gael penderfyniad y Cynghorau ond arfer da cael cefnogaeth y PPCC a chymeradwyaeth y ddau Gyngor cyn cyflwyno i LC.<br><br><u>Costau</u> - amser swyddogion i baratoi'r Adroddiad. Cost fechan o argraffu copi caled i'w roi yn y llyfrgelloedd cyhoeddus a swyddfeydd (oni bai gellir cyfeirio'r cyhoedd i'r cyfrifiaduron sydd ar gael) . |

| | | |
|---|---|---|
| | | Un AMB nid un yr un, gan sicrhau cysondeb mesur/ dehongli'r wybodaeth a argymhellion datrys unrhyw faterion yn gyson. Os mai angen codi ymwybyddiaeth/ gwella dealltwriaeth swyddogion neu Aelodau o amcan polisi ydi'r gweithrediad sydd ei angen i fynd i'r afael a'r materion – cyfle i wneud hynny ar y cyd neu o leiaf sicrhau bod yr un neges yn cael ei roi i bawb perthnasol. |
| 3. | Cynhyrchu CCA | 17 o bynciau wedi cael eu hadnabod hyd yma i'w cwblhau fesul grŵp o fewn 18 mis i fabwysiadu'r Cynllun.<br><br>Ar wahân i'r CCA diwygiedig ar gyfer Wylfa Newydd a'r rhai a fydd yn golygu cynhyrchu briff datblygu ar gyfer dynodiadau tai - 1 CCA i bob pwnc i'w ddefnyddio gan y 2 Gyngor.<br><br>Costau – amser swyddogion i baratoi drafft i sylw'r Panel/ Pwyllgor Craffu, cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, ystyried a dadansoddi'r sylwadau i baratoi CCA terfynol.<br><br>Costau argraffu posib adeg ymgynghoriad cyhoeddus i roi copïau caled yn y llyfrgelloedd cyhoeddus a swyddfeydd.<br><br>Costau argraffu adeg ymgynghori gyhoeddus i roi copïau caled i Gynghorau Cymuned oherwydd nad ydi'r clercod i gyd ar lein a chan nad ydi aelodau'r Cynghorau Cymuned ar lein.<br><br>Trwy baratoi 1 CCA fesul pwnc yn lle 1 yr un – hyrwyddo cysondeb o ran sut mae polisiau yn cael eu gweithredu. |
| 4. | CIL | Gwaith ymchwil i adnabod yr isadeiledd strategol a phrofi os ydi'r farchnad ddigon hyfyw i gynnal ardoll; ymgynghoriad cyhoeddus ar restr drafft cychwynnol; ystyried sylwadau a pharatoi rhestr drafft terfynol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus arall; Arolygydd annibynnol yn ystyried y mater; ystyried argymhellion yr Arolygydd a mabwysiadu'r rhestr ardoll (os ydi'n hyfyw i wneud hynny).<br><br>Canllawiau yn annog gweithio traws-ffiniol. Angen dangos perthynas efo'r CDLl sydd yn un ar y cyd. Ond, fe all gwaith ddangos mai dim ond is-ardaloedd/ |

| | | |
|---|---|---|
| | | parthau all fod yn berthnasol ac yn hyfyw. Cyfle i fanteisio ar arbenigedd yn yr Uned yn dilyn o waith yn gysylltiedig â'r Asesiad Hyfywdra Tai Fforddiadwy a chysylltiadau efo swyddogion tai, datblygu economaidd, eiddo yn y ddwy Sir.<br><br>Costau - amser swyddogion i ddiweddaru sail tystiolaeth am anghenion isadeiledd a chydgordio gwaith ymchwil ynglŷn â'r farchnad leol. Costau comisiynu gwaith ymchwil gan arbenigwyr a chostau archwiliad cyhoeddus.<br><br>Rhannu costau yn lle ysgwyddo'r gost fesul Cyngor.<br><br>Sicrhau cysondeb traws – ffiniol. |
| 5. | Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai | Gofyniad statudol.<br><br>Nifer o gamau i gyd-fynd efo TAN 1 cyfredol: Mewnbynnu gwybodaeth benodol am ganiatâd cynllunio ar gyfer tai o APAS/ ANITE i gronfa ddata AATT sydd gan yr Uned ar gyfer y ddau Awdurdod Cynllunio (misol), digideiddio gwybodaeth (GIS) (misol), cynhyrchu ffurflenni am safleoedd (blynyddol), ymgymryd â gwaith maes ar gyfer pob safle efo caniatâd cynllunio manwl (Ebrill/ Mai - blynyddol); cofnodi'r wybodaeth gwaith maes yn y gronfa ddata, cysylltu efo tirfeddianwyr/ datblygwyr i ddeall y bwriad ar gyfer y safleoedd, cynhyrchu rhestrau a chofnodi rhagolygon datblygu fesul blwyddyn ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, trafod efo'r Grŵp Astudiaeth, cysylltu efo Ll C os oes angen Arolygydd (blynyddol), cyhoeddi adroddiad erbyn diwedd Medi (blynyddol).<br><br>Costau - amser swyddogion i wneud y gwaith cefndirol a dadansoddi + gwaith maes; cynnal a chadw'r meddalwedd. Potensial i arbed costau ac amser os gellir mewnbynnu gwybodaeth am safleoedd wrth wneud y gwaith maes.<br><br>Un adroddiad. Cysondeb wrth gasglu a dadansoddi gwybodaeth. |
| 6. | Adolygiad llawn o'r Cynllun - bob pedair blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu'n | Gofyniad statudol<br><br>Dehongli gwaith monitro blynyddol dros gyfnod o amser a'i gofnodi mewn Adroddiad yr Adolygiad, gan wneud |

| | | |
|---|---|---|
| | gyntaf | argymhellion ynglyn a Diwygio'r Cynllun.<br><br>Costau – amser swyddogion i baratoi'r adroddiad. Dim costau argraffu hyd y gwelaf ar wahân i gost fechan o argraffu copi caled i'w roi yn y llyfrgelloedd cyhoeddus a swyddfeydd. |
| 7. | Diwygio'r Cynllun (weithdrefn ddiwygio fer neu lawn) | Gofyniad statudol<br><br>Dilyn trefn debyg i'r broses paratoi'r Cynllun yn wreiddiol ond ei wneud yn gyflymach. Cytundeb Cyflawni, diweddaru sail tystiolaeth perthnasol, e.e. tir cyflogaeth, manwerthu, gofynion tai….., cyhoeddi Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, Archwiliad Cyhoeddus, Mabwysiadu.<br><br>Costau – amser swyddogion, comisiynu gwaith ymchwil, asesiad cynaliadwyedd, ayb., argraffu dogfennau adeg ymgynghori cyhoeddus, archwiliad cyhoeddus. Llai costus na pharatoi Cynllun o'r newydd. Rhannu costau 50:50 |

**ATODIAD 4: Amcangyfrif gwariant 2017 – 2022**

Ar wahân i gostau staff dyma amcangyfrif bras o'r costau posib:

| **Maes gwaith** | **Disgrifiad** | **Amcangyfrif costau (£k) 2017 - 2022** |
|---|---|---|
| Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (mabwysiadu) | Dylunio ac argraffu copi caled & pdf o'r fersiwn terfynol = £25k<br><br>Meddalwedd dylunio copi interactif o'r CDLl a CCA ar y we = £35k | **60** |
| Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) | 17 CCA wedi cael eu hadnabod hyd yma.<br><br>Costau argraffu copïau i lyfrgelloedd , swyddfeydd a chynghorau cymuned adeg ymgynghori gyhoeddus = £34k<br><br>Costau ymgynghorydd allanol (dim yn cynnwys gwaith paratoi CCA diwygiedig Wylfa Newydd – ariannu gan Horizon) = £50k | **84** |
| Astudiaeth Tir ar gyfer Tai | Costau ymgynghorydd allanol (ychwanegu at capasiti) = £12.5k<br><br>Datblygu meddalwedd cofnodi gwaith maes = £10k<br><br>Cynnal cronfa ddata = £5.5k | **23** |
| Ardoll Isadeiledd Cymdeithasol | Costau ymgynghorydd allanol = £10k<br><br>Arolygiaeth Cynllunio ( os oes angen gwrandawiad) = £5k | **15** |

| Maes gwaith | Disgrifiad | Amcangyfrif costau (£k) 2017 - 2022 |
|---|---|---|
| Monitro blynyddol o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | Astudiaeth adnabod tir manwerthu = £10k<br><br>Astudiaeth Marchnad Tai Lleol 2020 (cyfraniad iddo) = £10k<br><br>Astudiaeth Angen Llety S & T 2020 (cyfraniad iddo) = £10k<br><br>Amrywiol – Uned Ymchwil a Gwybodaeth = £10k | **40** |
| Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – cam diwygio<br><br>(**Nodir y gall hyn fod yn digwydd tu hwnt i 2022 heblaw bod angen adolygiad cynnar)** | Gwaith ymchwil – diweddaru rhai cyfredol – comisiynu ymgynghorwyr allanol = £200k<br><br>Dylunio ac argraffu copi caled & pdf o'r fersiwn Adnau = £25k<br><br>Meddalwedd dylunio copi interactif adeg ymgynghoriad cyhoeddus ar y we = £35k<br><br>Arolygydd Cynllunio ar gyfer Archwiliad Cyhoeddus = £100k<br><br>Swyddog Rhaglen = £24k<br><br>Dylunio ac argraffu copi caled & pdf o'r fersiwn terfynol = £25k | **409** |
| | **CYFANSWM** | **631** |

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 16 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adrodd i'r:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **20ed o Fawrth 2017** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg 2017-2018, ac addasiadau I'r Polisi Iaith Addysg.** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Kenneth Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif ffôn:<br>E-bost: | **Delyth Molyneux**<br>**2916**<br>**dxmed@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i'r holl aelodau etholedig** |

**A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau**

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i gymeradwyo'r canlynol:

1. Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020;
2. Cynllun Gweithredu ar gyfer gwireddu amcanion y CSGA;
3. Adolygiad o Bolisi Iaith Addysg Ynys Môn yn sgil y CSGA a pholisi iaith CSYM.

**<u>Rhesymau</u>**

Disgwylir i bob Awdurdod Lleol gyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i'r Llywodraeth sy'n amlinellu sut bydd y Cyngor yn gwella'i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (Atodiad 1).

Mae Atodiad 3 yn cynnig darlun o berfformiad dros nifer o flynyddoedd, ynghyd â chynnig targedau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'n ofynnol i CSGA ddangos sut y byddwn yn ymateb i'r Deilliannau canlynol:

1. Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
2. Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
3. Mwy o fyfyrwyr 14-16 yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

4. Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.
5. Mwy o ddisgyblion a myfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg.
6. Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg.
7. Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Dros y misoedd diwethaf bu'r CSGA drwy broses ddrafftio ac ymgynghoriad gyda Fforwm Iaith y Cyngor, gyda'r ysgolion a rhanddeiliaid diswgyliedig eraill, a bu cyfle i'r cyhoedd a mudiadau perthnasol arall ymateb. Derbyniwyd ymatebion gan nifer o fudiadau. Addaswyd y Cynllun yn sgîl yr ymgynghoriad yma a cytunwyd ychwanegu Cynllun Gweithredu CSGA sy'n amlinellu'r camau fydd yr adran yn eu cymryd i wireddu'r CSGA (Atodiad 2).

Bydd Fforwn Iaith y Cyngor yn monitro cynnydd y CSGA yn flynyddol a bydd yr adran yn adrodd ar weithrediad y Cynllun Gweithredu CSGA i'r fforwm yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

O ganlyniad i greu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg newydd, bu'n amserol i'r adran addysg adolygu rhai agweddau o'r Polisi Iaith Addysg i Ysgolion i gydfynd a'r deilliannau, nodau ac amcanion o fewn Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 (Atodiad 4).

| **B – Pa opsiynau eraill y bu i chi eu hystyried a pham y bu i chi eu gwrthod a dewis/neu ddewis ar gyfer yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| **C – Pam y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Disgwylir cymeradwyaeth aelodau etholedig o'r CSGA a pholisi iaith addysg Cyngor Sir Ynys Môn. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwyd gan y Cyngor?** |
|---|

| Ydyw.. |
|---|

| DD – Â phwy y bu i chi ymgynghori? | | Beth a ddywedwyd ganddynt? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth Strategol (TAS/SLT)** (gorfodol) | Wedi ei drafod a'i gytuno gan ur UDRh |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Dim sylwadau |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol/Monitro** (gorfodol) | Dim sylwadau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim sylwadau |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGaCh)** | |
| 7 | **Craffu/Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill**<br>**Cymdeithas yr Iaith,**<br>**Y Comisynydd Iaith**<br>**Rhieni Dros Addysg Gymraeg**<br>**Fforwm Iaith Cyngor Ynys Mon**<br>**Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | Derbyniwyd sylwadau a chynigion am welliannau, sydd wedi'i cynnwys o fewn y CSGA newydd, a'r cynllun gweithredu atodol cyn belled a phosib. |

| E – Risgiau ac unrhyw liniaru (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Deilliant** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| |

| FF – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad  am unrhyw wybodaeth bellach): |
| --- |
| |

# Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Ynys Môn 2017-2020

## Drafft

1. Gweledigaeth, nod ac amcanion Ynys Môn ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg dros y dair blynedd nesaf

**Gweledigaeth:**
Bod holl blant a phobl ifanc Môn yn hyfedr ddwyieithog ac yn meddu ar y gallu i ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfartal ar ddiwedd eu gyrfa addysgol gan sicrhau nad oes yr un disgybl yn cael ei amddifadu o'r gallu na'r haeddiant hwnnw.

**Nod:**
Bod pob disgybl sydd yn mynd trwy gyfundrefn addysg Ynys Môn yn gwbl ddwyieithog erbyn cyrraedd 16 oed ac yn hyderus i siarad y ddwy iaith yn gyfartal yn y byd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.

**Amcanion:**

- **Blynyddoedd Cynnar:** Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin pwrpasol a phriodol (gan gynnwys dulliau trochi), y rhoddir i bob plentyn (beth bynnag yw eu cefndir ieithyddol) sylfaen gadarn yn y Gymraeg cyn gynted â phosibl.

- **Cyfnod Sylfaen:** Adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg.

- **Cyfnod Allweddol 2:** Parhau i ddatblygu gafael y plant ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol.

- **Cyfnod Allweddol 3:** Sicrhau bod pob disgybl sydd wedi derbyn asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA2 yn parhau i astudio Cymraeg Iaith Gyntaf er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol yn yr iaith; a bod ymyrraeth briodol a phwrpasol ar gyfer y disgyblion hynny nad ydynt yn cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 er mwyn iddynt barhau i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol; ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA3, sicrhau eu bod yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl trwy ddarpariaeth briodol yn CA3.

- **Cyfnod Allweddol 4:** Sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn sefyll arholiad mewn Cymraeg TGAU ar ddiwedd CA4: ar gyfer 'hwyr-ddyfodiaid' yn CA4 sicrhau eu bod yn derbyn sylfaen yn y Gymraeg trwy ddarpariaeth briodol erbyn diwedd y Cyfnod.

- **Cyfnod Allweddol 5:**

- Cynyddu’r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg Ôl-16 a chodi ymwybyddiaeth myfyrwyr o’r ddarpariaeth honno
- Sicrhau bod gan pob myfyriwr ôl-16 wybodaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru trwy raglenni ymwybyddiaeth iaith cynhwysfawr a’r Cwricwlwm Cymreig a bod hyn yn rhan annatod o ethos holl ysgolion yr Awdurdod, er mwyn eu datblygu i fod yn dinasyddion hyderus ddwyieithog sy’n eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o’r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Mae’r cynllun hefyd yn ymgorffori ac yn cydymffurfio â pholisiau a strategaethau’r Cyngor a Llywodraeth Cymru:

- Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 – 2021 Cyngor Sir Ynys Môn
- Polisi Iaith Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn
- Strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru ‘Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050’

Fel atodiad i’r Cynllun hwn, llunir Cynllun Gweithredu a fydd yn manylu ar y camau gweithredu er mwyn ymgyrraedd tuag at y nod a’r amcanion a nodir. Arfernir y cynllun yn flynyddol gan adrodd ar y cynnydd i Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn. Fel rhan o gylch gwaith y Fforwm bydd disgwyl iddynt graffu ar weithredu’r Cynllun.

2. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan adran 10 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhowch ddatganiad ynghylch hygyrchedd darpariaeth gyfrwng Cymraeg yn eich awdurdod lleol mewn perthynas â chludiant o’r cartref i'r ysgol. Nodwch unrhyw heriau a/neu feysydd o arfer dda drwy gydweithio

Mae darpariaeth addysg gyfrwng Cymraeg ar gael yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd ym mhedwar o bum dalgylch ysgol yr Awdurdod ac mae mynediad a chludiant o’r cartref i’r ysgol i’r ddarpariaeth honno ar gael fel gwasanaeth naturiol y Sir.

Ar gyfer disgyblion sydd yn byw yn nalgylch Caergybi sydd yn dymuno derbyn addysg gyfrwng Cymraeg / ddwyieithog, mae darpariaeth ar gael i gludo’r disgyblion o’r dalgylch i Ysgol Uwchradd Bodedern. Mae’r cludiant i’r ysgol yn rhad ac am ddim. Mae’r ddarpariaeth yma yn ddarpariaeth hanesyddol

3. Cyflawni deilliannau 1-7 :

**Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

**Nod:** Cynyddu’r ganran o ddisgyblion fydd yn dilyn trac Iaith Gyntaf ac a asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen erbyn haf 2017 gan anelu at 86% erbyn 2020.

Canran y plant saith oed a asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen:

| **Sefyllfa gyfredol:** | **Targedau:** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** |
| 72.4% | 76% | 80.4% | 84.8% | 86% |

**Amcanion:**

1. Cynyddu nifer y dysgwyr saith oed sy’n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y

Gymraeg.

2. Sicrhau bod cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cryfhau'r darpariaeth gyfrwng Cymraeg.
3. Cynyddu'r gallu i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gynlluniau trochi a chanolfannau i hwyrddyfodiaid.
4. Targedu'r ysgolion hynny nad ydynt yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Adran Dysgu Gydol Oes y Cyngor

**Datganiad cefnogol:**

1. Mae'r niferoedd uchod yn cymharu'n ffafriol iawn gyda'r rhan fwyaf o awdurdodau Cymru, ond mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen cryfhau'r ddarpariaeth iaith gyntaf yn yr ysgolion sydd wedi dewis asesu Cymraeg fel ail iaith. Gyda bwriad Llywodraeth Cymru i ddileu Cymraeg ail iaith, mae'r Awdurdod mewn sefyllfa gref i ymateb i'r gofyn hwnnw.

2. Yr un yw'r disgwyliad mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer pob ysgol, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y Sir fod yn hyderus ddwyieithog. Yn sgîl hyn, mae unrhyw gynlluniau newydd a gyflwynir, megis cynigion ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn ddarostyngedig i ofynion Strategaeth Iaith yr Awdurdod a Pholisi Iaith Adran Dysgu Gydol Oes y Cyngor.

   Bu cryn ail-fodelu yn yr Awdurdod yn ddiweddar. Caewyd nifer o ysgolion llai a throsglwyddodd y disgyblion i ysgolion cyfagos, yr oll ohonynt yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yn 2017, bydd dwy ysgol newydd yn agor yng Ngogledd y Sir sef:

   - Ysgol y Llannau, ysgol ardal fydd yn gwasanaethu tri phentref ble mae'r ysgolion yn cau - Ysgol Llanfachraeth, Ysgol Ffrwd Win ac Ysgol Cylch y Garn. Bydd yr ysgol newydd yn ysgol cyfrwng Cymraeg ac yn parhau gyda'r gwaith a wneir yn y tair ysgol bresennol.
   - Ysgol Cybi, yn nhref Caergybi. Bydd yr ysgol yn derbyn disgyblion o ysgolion Y Parc, Llaingoch a Thomas Ellis. Bydd yr ysgol hon hefyd yn ysgol cyfrwng Cymraeg , gan gryfhau'n sylweddol y ddarpariaeth ieithyddol i ddisgyblion y dref.

   Mae ymgynghoriad ar ddyfodol ysgolion de-orllewin y Sir a hefyd ysgolion dalgylch Llangefni yn weithredol ar hyn o bryd. Arfaethir sefydlu ysgol ardal yn ardal Niwbwrch i ddarparu addysg i ddisgyblion ysgolion Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo maes o law. Bydd yr ysgol hon hefyd yn gyfrwng Cymraeg ac yn darparu addysg Gymraeg gyflawn. Mae'r Awdurdod yn gwbl ymrwymedig i ddarparu gofodau dysgu o'r radd flaenaf ble mae'r Gymraeg yn cael ei hybu a'i meithrin. Mae'r Awdurdod yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer wynebu heriau datblygiadau mawrion arfaethedig yn y Sir yn y dyfodol.

3. Mae Strategaeth Iaith yr Awdurdod a Pholisi Iaith Adran Dysgu Gydol Oes y Cyngor yn rhoi pwyslais ar ddwyieithrwydd a'r nod o osod sylfeini cadarn ar gyfer y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar a datblygu ar hyn yn y cyfnodau allweddol sy'n dilyn, nid yw'r angen i 'fesur y galw' yn berthnasol yn lleol. Mae'r Awdurdod yn cefnogi'r ddarpariaeth i blant o oedran 3 i fyny drwy un o ddwy ffordd:

   - Cefnogi drwy grant 41 o leoliadau nas cynhelir - 28 drwy'r Mudiad Meithrin a 11 trwy Gylchoedd Chwarae WPPA. Gwneir y ddarpariaeth uchod ar y ddealltwriaeth bod y lleoliadau'n gweithredu Polisi Iaith yr Awdurdod.
   - Cyllido ysgolion drwy'r fformiwla Ariannu Teg i gynnal dosbarth meithrin. Ym mis Ionawr 2016 roedd gan 41 o ysgolion ddosbarth meithrin ar gyfer 680 o ddisgyblion.

Mae'r Awdurdod yn darparu cefnogaeth i'r staff perthnasol. Yn y sector nas cynhelir, cyflogir tair athrawes gefnogol sydd yn ymweld â'r lleoliadau'n gyson. Mae darparu arweiniad i weithredu gofynion y Polisi Iaith yn greiddiol i'w cefnogaeth. Yn y sector ysgolion, cyflogir un athrawes gefnogol trwy GwE i weithio gyda'r ysgolion. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r prosiect 'Dechrau'n Deg' wedi datblygu'n gryf ar yr Ynys. Mae gweithwyr 'Dechrau'n Deg' yn gweithio ar ddatblygu'r ddarpariaeth gyda'r lleoliadau yma. Mae deg meithrinfa ar yr Ynys, naw ohonynt yn cael eu rhedeg yn breifat er y ceir cyswllt gyda mudiad gwirfoddol mewn pedair ohonynt. Mae'r un arall yn cael ei chynnal drwy bwyllgor Cymunedau'n Gyntaf yng Nghaergybi. Mae'r awdurdod yn awyddus i gydweithio gyda darparwyr y meithrinfeydd preifat i hyrwyddo amcanion ieithyddol y Polisi Iaith.

4. Mae Canolfan Iaith ym Môn. Nod y Ganolfan Iaith yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog. Mae'r ddarpariaeth hon yn greiddiol i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith cyfredol. Mae un Ganolfan Iaith ym Moelfre gydag uned loeren yn Ysgol Llanfawr ac mae'n fwriad i gynnal y ddarpariaeth bresennol. Eleni, treialwyd darpariaeth gyffelyb ar gyfer hwyrddyfodiaid i'r ysgolion uwchradd er mwyn diwallu'r angen. Cynhaliwyd cynllun peilot mewn Canolfan Iaith newydd a leolir yn Ysgol Uwchradd Bodedern. Diweddarwyd a digideiddiwyd cynllun Canolfan Iaith Uwchradd Gwynedd a thrwy ddefnydd o'r grant iaith, a chyfraniad gan y pum ysgol uwchradd ar yr ynys, bu'r arbrawf yn llwyddiant. Nid oes cyllid i barhau gyda'r gyfundrefn ar hyn o bryd, er bod galw amdano, ond y mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cyffelyb os daw mewnlifiad sylweddol I'r Ynys yn sgil datblygiadau'r dyfodol (e.e. Wylfa B)

5. Mae'r Awdurdod yn llwyr ymroddedig i sicrhau fod pob disgybl sydd yn derbyn ei addysg yn y Sir yn meddu ar feistrolaeth lwyr o'r Gymraeg ar ddiwedd eu gyrfa addysgol. Damcaniaeth yr Awdurdod yw mai 'hawl y plentyn' yw gallu cyfathrebu'n rhugl yn y ddwy iaith gan ganiatáu iddynt fod yn rhan lawn o'r gymdeithas ddwyieithog yr ydym oll yn byw ynddi. Dylai pob disgybl fod yn hyfedr ddwyieithog i allu cyfathrebu, gweithio a bod yn rhan lawn o ddiwylliant yr ardal hon ac mae darparu gwybodaeth i'r holl randdeiliaid yn hanfodol i lwyddiant y broses honno.

6. Mae'r Siarter Iaith ar waith yn holl ysgolion y Sir ers dwy flynedd ac y mae ymron i bob ysgol gynradd wedi derbyn achrediad Efydd y cynllun ddiwedd y flwyddyn addysgol ddiwethaf. Rhan annatod o weithdrefnau'r Siarter yw'r ymwneud â rhieni, Llywodraethwyr a'r gymdeithas leol. Darperir gwybodaeth i rieni trwy bamffled pwrpasol a chyflwyniadau gan benaethiaid ysgolion ac aelodau o gynghorau ysgol. Mae llwyddiant y Siarter Iaith a'i hamcanion yn ddibynnol ar gydweithrediad yr holl randdeiliaid ac mae enghreifftiau niferus o lwyddiannau yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae ewyllys dda ryfeddol tuag at yr iaith, dealltwriaeth o fanteision dwyieithrwydd a chydnabyddiaeth gyffredinol na ddylai'r un plentyn gael ei amddifadu o'r fraint hon.

   Un o ofynion penodol y Siarter yw penodi lladmeryddion dros yr iaith a bydd yr Awdurdod yn ymchwilio ymhellach i gyfleoedd i gryfhau'r rôl honno ochr yn ochr â gwasanaeth Menter Iaith Môn. Bu'r Awdurdod yn datblygu partneriaethau yn ystod y blynyddoedd diwethaf er mwyn cyfoethogi profiadau'r disgyblion drwy'r Gymraeg. Mae'n nod i gryfhau eto'r cydweithio hwn gyda'r partneriaid gyda'r bwriad o ddatblygu a rhannu gweledigaeth gytûn ar gyfer datblygiad y Gymraeg yn Ynys Môn. Mae'r cysylltiadau gyda'r sector cyn-ysgol nas cynhelir, Menter Iaith Môn, Yr Urdd, y

Gwasanaeth Ieuenctid, Adran Hamdden y Cyngor Sir a Mudiad y Ffermwyr Ifanc wedi ei sefydlu ac maent yn rhan o Fforwm Iaith Addysg Môn. Crëwyd cysylltiadau hefyd gyda'r sector 14-19 a Phrifysgol Bangor ac y mae yna gynrychiolaeth o aelodau etholedig yn aelodau hefyd. Cred yr Awdurdod mai trwy feithrin a chryfhau cysylltiadau traws sector yn y modd hwn y gellir diwallu'r angen am ddarpariaeth eang a hyfyw drwy'r Gymraeg yn y gymdeithas y mae ein hysgolion yn ei wasanaethu. Bydd yr Awdurdod yn adeiladu eto ar y berthynas hon ac mae'n fwriad parhau i sefydlu partneriaethau cymdeithasol, addysgol a byd busnes i hyrwyddo'r iaith yn ein hysgolion. Mae Strategaeth Iaith Cyngor Ynys Môn yn allweddol i'r datblygiad hwn hefyd.

Mae'r Siarter Iaith yn weithredol yn y sector cynradd, ac mae gofyn cynyddol gan yr ysgolion uwchradd am gyfundrefn gyffelyb. Yn ddibynnol ar beilot Cyngor Sir Gwynedd mewn ysgolion peilot, bydd yr Awdurdod yn symud i sefydlu Siarter Iaith ar gyfer y sector uwchradd. Bydd hyn yn ei hanfod yn gymorth i gryfhau'r continwwm ieithyddol yn yr Awdurdod.

.

**Deilliant 2: Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**

**Nod:** sicrhau fod disgyblion sydd yn trosglwyddo i'r sector uwchradd yn parhau i ddilyn y trac iaith gyntaf a ddilynwyd ganddynt yn y sector cynradd a bod disgyblion oedd yn dilyn tCymraeg ail iaith yn cael eu hannog i symud i Gymraeg iaith gyntaf pan fo hynny'n briodol, gan anelu at 80% yn cael eu hasesu yn Gymraeg Iaith Gyntaf erbyn 2020.

Canran dysgwyr Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3:

| Sefyllfa gyfredol: | Targedau: | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** |
| 67.3% | 70% | 73% | 77.3% | 80% |

**Amcanion:**

1. Cynyddu canran y disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf)
2. Sicrhau trosglwyddo mwy effeithiol rhwng y cyfnod cyn ysgol i ddarpariaeth statudol, rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3 a Chyfnodau Allweddol 3 a 4.
3. Sicrhau cyfran uwch o ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg o fewn ysgolion y Cyngor Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu a dysgu

**Datganiad cefnogol:**

1. Mae'r % a asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3, mewn cymhariaeth ag awdurdodau eraill, yn dda. Fodd bynnag mae lle i wella ymhellach trwy gryfhau'r ddarpariaeth Cymraeg Iaith Gyntaf yn y CS a CA2 a thracio disgyblion yn CA3. Sefydlwyd trefn i gydlynwyr iaith dracio disgyblion ar draws Bl 7,8 a 9. Bydd deilliant y drefn hon i'w gweld yn ystod oes y cynllun hwn.

2. Mae'r % sydd yn llwyddo i ennill gradd TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf (A*-C) wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf (77.5% yn Haf 2016). Mae gwella dilyniant rhwng CA2 a CA3 wedi cael dylanwad cadarnhaol ar y % sydd yn symud ymlaen i sefyll arholiad TGAU mewn Cymraeg Iaith Gyntaf. Mae angen cynyddu ymhellach nifer y disgyblion sydd yn cael y cyfle i barhau i ddilyn eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector uwchradd. Mae'r Awdurdod yn monitro targedau iaith yr

ysgolion uwchradd ac yn annog gosod targedau heriol. Mae angen parhau i gynyddu'r ganran a asesir mewn Cymraeg iaith gyntaf yn CA3 drwy sicrhau bod yr ysgolion yn gosod targedau heriol ac yn gweithredu i'w cyflawni. Bydd y gweithgarwch hwn hefyd yn caniatáu cynnal trafodaeth barhaus gydag ysgolion unigol fel bod y disgyblion yn cael y cyfleoedd gorau i gyflawni yn unol â'u gallu erbyn diwedd CA4. Bydd yr Awdurdod yn monitro targedau iaith yr ysgolion ac yn herio'r trefniadau'n uniongyrchol trwy'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) i sicrhau cynnydd yn niferoedd y disgyblion sydd yn dilyn Cymraeg Iaith Gyntaf hyd at ddiwedd CA4.

3. Er bod dilyniant rhwng y Cyfnod Sylfaen a rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn dda, mae peth gostyngiad yn y % gafodd asesiad athro Cymraeg iaith gyntaf yn B9 ar ôl derbyn asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA2 yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ffigwr wedi lleihau eto yn 2016. Mae'r Awdurdod yn disgwyl i'r ysgolion uwchradd i roi sylw i hyn ac mae sicrhau cysondeb gweithrediad y Polisi Iaith yn un o flaenoriaethau Cynllun Strategol Iaith y Cyngor. Er bod niferodd disgyblion yn gallu amrywio'n sylweddol dros gyfnod, mae'r data uchod yn awgrymu bod lleihad yn y niferodd sydd yn parhau i ddilyn y trac iaith a osodwyd yn y sector cynradd ar ôl iddynt drosglwyddo i'r uwchradd. Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw i hyn, ac yn ei fonitro, er mwyn sicrhau'r dilyniant ieithyddol.

4. O ran dilyniant yn y defnydd o'r Gymraeg, mae disgwyl i bob ysgol gynllunio dilyniant yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu ar gyfer pob disgybl. Caiff ysgolion uwchradd wybodaeth am garfanau iaith pob disgybl [hyfedredd dwyieithog pob disgybl] gan y Cyd-Gysylltydd Iaith dalgylchol, wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol gynradd. Mae disgwyl i bob ysgol ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer penderfynu ar y rhaglen er mwyn gwella sgiliau yn y Gymraeg. Adroddir ar ddilyniant ieithyddol disgyblion o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 ac ymlaen gan y Cyd-Gysylltydd wrth iddynt olrhain datblygiad yn ôl carfanau iaith. Mae'r ysgolion uwchradd yn defnyddio'r wybodaeth carfanau iaith wrth osod targedau ar ddechrau B7, a bydd yr Awdurdod yn monitro'r datblygiad ym mlynyddoedd 7, 8 a 9 i sicrhau fod y datblygiad ieithyddol yn parhau. Er mwyn gosod targed meintiol mae angen sefydlu gwaelodlin, ac mae hynny i'w wneud ar ddechrau'r cynllun. Mae'r Awdurdod yn cydweithio â Theuluoedd Ysgolion Môn ac ysgolion unigol i'w cymell i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Derbyniodd 72.5% o ddisgyblion B6 asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA2 yn Haf 2016, ac mae ewyllys yn yr ysgolion a'r Awdurdod i gynyddu'r nifer fydd yn dilyn eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Awdurdod yn trafod gyda'r ysgolion hyn ac yn cytuno ar dargedau cyraeddadwy i gynyddu'n niferoedd fydd yn dilyn trac iaith gyntaf er lles y disgyblion ac i sicrhau eu bod yn hyfedr yn y Gymraeg erbyn diwedd eu gyrfa addysgol. Proses sy'n parhau yw hon ond arfaethir i sefydlu'r drefn yn y Cyfnod Sylfaen ac ymestyn drwy'r ysgolion gydag amser. Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu cynllun 'Siarter Iaith' ar y cyd gyda'r ysgolion, (gweler datganiad 6, Deilliant 1) Mae'r cam hwn wedi cryfhau addysg cyfrwng Cymraeg' ein hysgolion. Mae Penaethiaid ysgolion cynradd yr Awdurdod yn gefnogol i egwyddorion y Siarter.

**Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg**

**Nod:** Cynyddu nifer y disgyblion 16 oed sydd yn dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg Gosodwyd targedau heriol, ond realistig, o 80% o ddisgyblion CA4 yn dilyn o leiaf dau bwnc drwy'r Gymraeg ac 48% yn dilyn o leiaf pum pwnc erbyn 2020.

**Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.**

**Nod:** Cynyddu o 5% nifer y myfyrwyr ôl-16 sydd yn dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2020

Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf ynghyd ag o leiaf ddau gymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg:

| Sefyllfa gyfredol: | Targedau: | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** |
| 73.6% | 75 % | 76.5% | 78% | 80% |

Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf ynghyd ag o leiaf bum cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg:

| Sefyllfa gyfredol: | Targedau: | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** |
| 42.7% | 44% | 45% | 46.5% | 48% |

**Amcanion:**

1. Cynyddu canran y myfyrwyr 14-16 sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.
2. Sicrhau bod darpariaeth i ddysgwyr 14-19 oed yn cydymffurfio â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009
3. Cynyddu canran y myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion.
4. Gweithio drwy Rwydweithiau ardal 14-19 a Fforymau 14-19 er mwyn cynnal a gwella darpariaeth gyfrwng Cymraeg.

**Datganiad cefnogol:**

1. Mae pob ysgol yn ymateb i ofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau ac yn manteisio oddi wrth bartneriaethau cydweithredol.

2. Parheir i hyrwyddo datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg fel un o brif flaenoriaethau strategol y Rhwydwaith 14-19 a sicrheir dilyniant ieithyddol priodol fel rhan greiddiol o gylch gorchwyl grwpiau gweithredol y Rhwydwaith. Mae'r protocolau cyllido cydweithio lleol yn nodi'r disgwyliad i bob cwrs 14-16 gaiff ei gyllido trwy'r grant fod ar gael yn ddwyieithog [mewn eithriadau prin yn unig y rhoddir ystyriaeth i gefnogi cyrsiau fydd ar gael mewn un iaith yn unig].Yn unol â'r Mesur Dysgu a Sgiliau mae pob ysgol yn sicrhau bod pob disgybl CA4 yn gwneud defnydd o'r Cynllun Llwybr Dysgu unigol sydd ar gael yn ddwyieithog i gofnodi ei lwybr dysgu.

3. Gwna'r Rhwydwaith 14-19 ddefnydd o grant refeniw 14-19 i hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog ôl-16. Ceir dilyniant ieithyddol ar gyfer y darpariaethau cydweithredol galwedigaethol CA4. Arweinir y gwaith cynllunio strategol sydd ei angen yng nghyd-destun gofynion agenda Trawsnewid gan Gonsortiwm ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn. Rhoddir sylw i adnabod y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis cyfrwng dysgu ôl-16. Mae gwaith y Consortiwm ôl-16, wrth adnabod anghenion a phennu blaenoriaethau, yn ystyried data am gyfrwng iaith. Adnabuwyd yr angen i gysoni prosesau derbyn dysgwyr ar gyrsiau ôl-16 yr ardal i sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth am y cyfrwng yr addysgir pwnc ynddo. Yn ogystal, mae angen

sefydlu fframwaith o fesurau ar gyfer y Gymraeg fel bo darpariaeth ôl-16 gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol yn cael ei fonitro ac i adnabod bylchau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Elfen arall o waith y Consortiwm fydd adnabod cyfleoedd yn yr economi ble mae'r defnydd o'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer gwaith.

**Deilliant 5: Mwy o ddisgyblion a myfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg**

**Nod:** Bod ysgolion yn gosod targedau realistig, heriol a chyraeddadwy ar gyfer ein myfyrwyr. Gan anelu at y targedau canlynol erbyn 2020:

- 41.9% D6+ ar ddiwedd CS
- 40.9% L5+ ar ddiwedd CA2
- 70.1% L6+ ar ddiwedd CA3
- 20.5% A*/A TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA4

Ar gyfer disgyblion sydd yn dilyn trac Ail Iaith, anelir at darged o 85% yn ennill graddau TGAU A*-Cmewn Cymraeg Ail Iaith erbyn 2020

| **Sefyllfa gyfredol:** | | **Targedau:** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2015-16** | | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** |
| CS: D6+ | 36.4% | 40.4% | 40.9% | 41.4% | 41.9% |
| CA2: 5+ | 35.3% | 39.4% | 39.9% | 40.4% | 40.9% |
| CA3: 6+ | 66.5% | 68.6% | 69.1% | 69.6% | 70.1% |
| CA4: A*/A | 16.9% | 17.8% | 18.7% | 19.6% | 20.5% |

**Amcanion:**

1. Gwella gwaith sgiliau llythrennedd Cymraeg.
2. Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf.
3. Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith.
4. Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran i ymarfer eu Cymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth.

**Datganiad Cefnogol:**

1. Mae'r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol (2012) yn chwarae rhan amlwg yng nghynlluniau'r Awdurdod i wella sgiliau llythrennedd disgyblion yn y Gymraeg, yn ogystal un o amcanion Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd GwE yw sicrhau bod gan pob disgybl ym mhob ysgol o fewn y rhanbarth y sgiliau iaith a rhif y maent eu hangen i lwyddo ar hyd eu taith trwy'r ysgol. Cefnogir ysgolion gan roi sylw i ddatblygiad llythrennedd yn gyffredinol ynghyd â datblygiad sgiliau yn y Gymraeg. Gwneir hyn drwy hyrwyddo cymunedau dysgu a datblygiad proffesiynol fydd yn rhoi sylw i agweddau perthnasol.

2. Mae'r % sy'n cael asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd y cyfnodau allweddol a'r % sy'n cyrraedd y lefelau/graddau disgwyliedig yn dda. Serch hynny, mae angen parhau i geisio gwella a chodi safonau yn y Gymraeg ac yn y cyd-destun hwn bydd disgwyl i bob ysgol uwchradd ddefnyddio'r carfanau iaith i gynllunio'n ieithyddol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu. Rhagwelir hefyd y bydd cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd o ran sicrhau cyd-ddealltwriaeth dealltwriaeth o lefelau /asesiadau a pharatoi proffiliau ar gyfer eu hachredu yn gymorth i'r cyfeiriad hwn.

3. Mae canlyniadau Cymraeg Ail Iaith ar ddiwedd CA2 a CA3 yn isel. Mae'r targed yn adlewyrchu disgwyliad o gynnydd sylweddol, ac mae'n realistig. Nodir y bydd y rhan fwyaf o ganlyniadau ysgolion unigol yn rhagori ar y targed. Yn yr un modd, bydd

cynnal canlyniad o dros 70% ar gyfer cwrs llawn ar ddiwedd CA4 yn gosod her i'r ysgolion.

4. Mae hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn un o flaenoriaethau'r Adran Dysgu Gydol Oes. Mae'r Adran yn cydweithio gyda Menter Iaith Ynys Môn fel partner arweiniol ar yr agweddau isod:
    - Hyrwyddo manteision addysg Gymraeg
    - Hyrwyddo cyrsiau Cymraeg i deuluoedd a rhieni.Codi statws y Gymraeg. yng ngoleuni pobl ifanc
    - Hyfforddiant i weithlu ehangach ysgol i wella sgiliau iaith.

**Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg**

**Nod:** Parhau i sicrhau bod 100% o'r gwasanaethau ar gael twy gyfrwng y Gymraeg.

**Amcanion:**

1. Gwella darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Cyfrwng Cymraeg.

**Datganiad cefnogol:**

1. Darperir gwasanaethau ADY Ynys Môn yn bennaf trwy'r Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig [CBAAA], sef trefniant ar y cyd â Chyngor Sir Gwynedd. Mae staff y CBAAA yn cynnwys athrawon arbenigol, seicolegwyr addysgol, cydlynydd datganiadau a staff gweinyddol/clerigol. Yn sgîl hyn, mae gan ddisgyblion a'u rhieni fynediad i wasanaeth sydd yn gwbl ddwyieithog ac mae'r holl broses o lunio datganiadau AAA, gan gynnwys y ddogfennaeth, yn cael ei chynnig i rieni/gwarchodwyr yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae hyn yn adeiladu ar y ddarpariaeth a geir trwy'r cynllun cyfeirio sydd ar waith yn y sector nas cynhelir ac a ariennir.

2. Cydymffurfir yn llwyr â Chôd Ymarfer AAA Cymru. Sicrheir cydraddoldeb o ran darpariaeth iaith ym mhob gwasanaeth a chanfyddir beth yw dewis iaith rhieni yn gynnar yn y broses o ddelio â phlentyn sydd ag ADY. Cynhelir asesiadau yn newis iaith y rhieni a chymerir camau i sicrhau bod pawb sydd a wnelont â'r broses yn cael gwybod am anghenion iaith y plentyn. Cydymffurfir â'r gofynion hefyd o safbwynt darparu cynlluniau addysg unigol yn ddwyieithog a darperir pob gohebiaeth a deunydd ysgrifenedig naill ai'n ddwyieithog neu yn y Gymraeg.

3. Darperir adnoddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar gyfer y disgyblion. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o ADY. Darperir gwasanaeth seicolegol addysg ddwyieithog i Ysgolion Arbennig a phrif-ffrwd. Un anhawster a all godi i'r dyfodol yw sicrhau cyflenwad digonol o seicolegwyr addysg dwyieithog.

4. Mae'n ddisgwyliad i gynorthwywyr cynnal dysgu fod yn ddwyieithog. Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant ar eu cyfer hefyd yn ddwyieithog.

5. Mae gan yr Adran Dysgu Gydol Oes gytundeb lefel gwasanaeth gyda SNAP. Sicrheir mewn cyfarfodydd cyswllt â hwynt eu bod yn ymwybodol o'r gofynion arnynt o safbwynt yr iaith Gymraeg.

6. Gan fod yr Awdurdod yn darparu gwasanaeth ADY yn ddwyieithog nid yw'r angen i "fesur y galw" yn berthnasol.

**Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)**

**Nod:** Bod gan pob aelod o weithlu addysg yr Awdurdod y gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg i lefel briodol y swydd

**Amcanion:**

1. Sicrhau cyflenwad digonol o ymarferwyr ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.
2. Gwella sgiliau ieithyddol a methodoleg ymarferwyr.
3. Integreiddio ystyriaethau cyfrwng Cymraeg ym mhob agwedd ar raglen 'Gwella Ysgolion'

**Datganiad cefnogol:**

1. Nid oedd unrhyw swyddi dysgu cynradd neu uwchradd a oedd yn gofyn am y gallu i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn wag ar ddechrau Medi 2016. Mae hyn hefyd yn wir am swyddi cynorthwywyr dosbarth/dysgu ar gyfer gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth hysbysebu swyddi mae'r Awdurdod yn datgan ei bod yn ofynnol i ddeiliaid swyddi allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i lefel briodol y swydd. Anogir staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol ac fe'u rhyddheir, os bydd angen, i ddysgu neu i loywi eu sgiliau. Mae'r cynllun Teuluoedd Ysgolion yn caniatáu i athrawon a chymorthyddion gydweithio i ddatblygu sgiliau iaith pan fydd gofyn am hynny.

2. Mae GwE, mewn cydweithrediad gyda rhanddeiliaid allweddol eraill, wedi cynllunio a pharatoi Rhaglen Arweinyddiaeth draws sector gynhwysfawr ar gyfer ymarferwyr y Rhanbarth sydd yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ddwyieithog. Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i feithrin cynhwysedd arweinyddiaeth drwy annog a chefnogi pob ymarferydd i ddatblygu ei botensial arweinyddiaeth ei hun a photensial arweinyddiaeth ymarferwyr eraill. Anogir staff i fanteisio ar y cyfleoedd datblygu proffesiynol effeithiol hyn.

3. Mae'r holl arweiniad a roddir i'r ysgolion i'w gael ac yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod drwy gyfrwng y Gymraeg.

Llofnodwyd:……………………………… Dyddiad: ………………………

(Mae angen llofnod y Prif Swyddog Addysg o fewn yr awdurdod lleol)

Atodiad 1

Data

# Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Ynys Môn 2017-2020:

# Cynllun Gweithredu

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| Strategaeth Iaith | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | **Camau Gweithredu:** | **Cyfrifoldeb:** | **Erbyn:** | **Meini Prawf Llwyddiant:** | **RAG** | | |
| | | | | | **2017-18:** | **2018-19:** | **2019-20:** |
| Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg | • Llunio Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2017-18. Y cynllun i:<br>➢ ymateb i ofynion a chanllawiau LlC<br>➢ bod yn gyson a chydnaws â Strategaeth Iaith y Cyngor | Uwch Swyddog Addysg | Tachwedd 2016 | CSGA 2017-20 wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor a LlC | | | |
| | • Ymgynghori gyda rhanddeiliaid ar y CSGA 2017-20 (drafft) | | Rhagfyr 2016 | | | | |
| | • Cadarnhau y CSGA ai gyflwyno i LlC | | Chwefror 2017 | | | | |
| | • Cyflwyno CSGA 2017-20 ynghyd a'r Cynllun Gweithredu a disgwyliadau i Benaethiaid | Uwch Swyddog Addysg | Mawrth 2017 | | | | |
| | • Cyflwyno CSGA 2017-20 ynghyd a'r Cynllun Gweithredu a disgwyliadau i Gyrff Llywodraethu ysgolion | Penaethiaid Ysgolion | Mehefin 2017 | CSGA 2017-20 ynghyd a'r Cynllun Gweithredu wedi ei gyflwyno i Gorff Llywodraethol pob ysgol | | | |
| | • Pob ysgol i nodi'r Gymraeg fel un o brif flaenoriaethau'r ysgol yn y CDY, gan lunio cynllun gweithredu tair mlynedd ac adolygu'r cynllun yn flynyddol | Penaethiaid Ysgolion | Gorffennaf 18/19/20 | Y Gymraeg yn un o brif flaenoriaethau CDY pob ysgol | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi Iaith | • Adolygu a diwygio Polisi Iaith Adran Dysgu Gydol Oes y Cyngor gan sicrhau eu bod yn gyson ac yn gydnaws â:<br>➢ Strategaeth Iaith y Cyngor<br>➢ CSGA 2017-20<br><br>• Ymgynghori gyda holl ysgolion y Cyngor<br><br>• Cadarnhau Polisi Iaith Adran Dysgu Gydol Oes y Cyngor<br><br>• Adolygu'r Polisi yn flynyddol | Uwch Swyddog Addysg | Ionawr 2017<br><br>Chwefror 2017<br><br>Mawrth 2017<br><br>Gorffennaf 18/19/20 | Polisi Iaith Adran Dysgu Gydol Oes wedi ei gymeradwyo gan fforwm Iaith y Cyngor | | | |
| Polisi Iaith Ysgolion | • Pob ysgol i lunio Polisi gan sicrhau ei fod yn gyson ac yn gydnaws â:<br>➢ Polisi Iaith Adran Dysgu Gydol Oes y Cyngor<br>➢ Strategaeth Iaith y Cyngor<br>➢ CSGA 2017-20<br>gan sicrhau bod y Polisi wedi:<br>➢ Cael ei drafod gan y Cyngor Ysgol<br>➢ ei gymeradwyo gan y Corff Llywodraethol<br>➢ ei rannu gyda rhieni<br>➢ ei gynnwys ym mhrosbectws yr ysgol<br>➢ ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol<br><br>• Pob ysgol i gyflwyno eu polisi iaith i Bennaeth Dysgu'r Cyngor | Penaethiaid Ysgolion | Mai 2017<br><br>Mehefin 2017 | Pob ysgol gyda Pholisi iaith sydd yn gyson ac yn gydnaws â Strategaeth Iaith a CSGA 2017-20 y Cyngor | | | |
| Monitro ac arfarnu | • Polisi Iaith Adran Dysgu Gydol Oes y Cyngor yn cael ei adolygu'n flynyddol<br><br>• Cynllun Gweithredu CSGA 2017-20 y Cyngor:<br>➢ yn cael ei fonitro'n flynyddol<br>➢ Arfarniad blynyddol yn cael ei gyflwyno i Fforwm Iaith y Cyngor<br>➢ y Fforwm iaith yn craffu ar weithredu'r CSGA 2017-18 | Uwch Swyddog Addysg<br><br>Pennaeth Dysgu<br><br>Fforwm iaith | Mehefin 18/19/20<br><br>Gorffennaf 18/19/20 | Polisi Iaith Adran Dysgu Gydol Oes wedi ei adolygu'n flynyddol – ac wedi ei ddiwygio os yn briodol<br><br>Fforwm iaith wedi craffu'r Cynllun Gweithredu CSGA 2017-18 yn flynyddol | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Pob ysgol yn monitro'r Polisi Iaith, blaenoriaethau'r CDY (Cymraeg) a Chynllun Gweithredu CSGA 2017-18 gan:<br>➢ Adrodd yn flynyddol i'r Corff llywodraethol<br>➢ Adrodd yn flynyddol ar gynnydd tuag at amcanion a thargedau y CSGA 2017-20 i Bennaeth Dysgu'r Cyngor | Penaethiaid ysgolion | Gorffennaf 18/19/20 | Pennaeth Dysgu wedi craffu cynnydd ysgolion tuag amcanion a thargedau'r CSGA 2017-20 | | | |

| **Deilliant 1:** | **Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg** | | | | **Targedau:** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **2017-18:** | **2018-19:** | **2019-20:** |
| | | | | | **80.4%** | **84.8%** | **86%** |
| **Amcan:** | **Camau Gweithredu:** | **Cyfrifoldeb:** | **Erbyn:** | **Meini Prawf Llwyddiant:** | **RAG** | | |
| | | | | | **2017-18:** | **2018-19:** | **2019-20:** |
| 1 | Cynyddu nifer y dysgwyr saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>• Pob ysgol wedi cael eu cyfarwyddo'n glir o ddisgwyliadau'r Awdurdod parthed polisi iaith a strategaeth iaith yng nghyfarfod Arfer Dda Chwefror 2017.<br><br>• Pob ysgol **Cyfrwng Cymraeg** yn asesu cynnydd iaith disgyblion Bl 2 yn y Gymraeg Mehefin 2017.<br><br>• Awdurdod i gynnig hyfforddiant torchi 3-7 oed ar gyfer ysgolion penodol cyn diwedd Mawrth 2017. Ardal Caergybi.<br><br>• Ysgolion i fuddsoddi mewn hyfforddiant llefaredd GwE sy'n rhoi ystyriaeth i llefaredd yn y Cyfnod Sylfaen Mehefin 2017<br><br>• YH GwE yn monitro'r ddarpariaeth Trochi drwy ymweliadau ar lawr dosbarth ac yn adrodd ar gynnydd i'r Awdurdod, Gorffennaf 2017 | <br><br>Uwch swyddog Awdurdod<br><br>Ysgolion Cynradd<br><br>Uwch Swyddog/ GwE<br><br>GwE<br><br>Ysgolion Cynradd | Mehefin 2017<br><br>Chwefror 9fed<br><br>Mehefin 2017<br><br>Mawrth 2017<br><br>Mehefin 2017<br><br>Gorffennaf 2017 | <br><br>Disgwyliad cenedlaethol a sirol yn gwbl glir i holl Benaethiaid Ysgolion Cynradd<br><br>95.7% o ysgolion cynradd Môn yn asesu disgyblion diwedd cyfnod Sylfaen mewn Cymraeg Mehefin 2017<br><br>Hyfforddiant trochi wedi ei dargedu i godi hyder staff penodo yn ardaloedd Caergybi.<br><br>Adroddiadau monitro GwE yn nodi tystiolaeth o ddarpariaeth effeithiol mewn dulliau trochi ym | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Ysgolion targed i gyd weithio YiY drwy gynllunio gweithgareddau addas hefo ysgolion sydd eisoes yn defnyddio dulliau trochi llwyddiannus. Barn GwE/ Tystiolaeth data. | | Tachwedd 2017 | mhob ysgol sydd wedi ei thargedu. Canran o ddisgyblion yn gwneud cynnydd mewn Cymraeg yn codi 6% erbyn 2020<br><br>Partneriaethau a chynlluniau llwyddiannus YiY yn codi safonau Cymraeg CS | | | |
| 2 | Sicrhau bod cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnig ystyriaeth lawn o ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg.<br><br>• Awdurdod yn cydweithio gyda Cyrff Llywodraethu i osod cyfeiriad strategol pendant yn datgan y gofyn i bob ysgol newydd gael ei hadnabod yn Ysgol Cyfrwng Cymraeg . [Yn unol a rhaglen moderneiddio]<br><br>• Awdurdod yn cyd weithio gyda'r partneriaethau amrywiol fel Menter Môn, i ddwyn perswâd ar gymunedau ar fanteision dwyieithrwydd llawn.<br><br>• Cyrff Llywodraethu cysgodol a pharhaol yn ymrwymo i'r strategaeth a Pholisi Iaith y Sir ac yn gweithredu'n gefnogol i warchod a ddatblygu ysgolion Cyfrwng Cymraeg. | Uwch Swyddogion Awdurdod Addysg<br><br>Cyrff LLywodraethu | Yn syth ac yn unol a rhaglen moderneiddio | Cymraeg ydi statws ieithyddol 100% ysgolion sy'n agor o'r newydd<br><br>Holl ran ddeiliad wedi derbyn statws iaith Cymraeg bob ysgol newydd<br><br>Cynnydd mewn cyfathrebwyr Cymraeg hyfedr 2020. Cyrraedd targed o gynnydd 6% | | | |
| 3 | Cynyddu'r gallu i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gynlluniau trochi [a chanolfannau i hwyrddyfodiaid.]<br><br>Arian grant Blynyddoedd Cynnar i ddarparu hyfforddiant trochi Mawrth 2017 [Ysgolion targed, ardal Caergybi, ]. | Uwch swyddog Awdurdod Addysg. GwE | Mawrth 2017 | Dulliau trochi dwys yn weithredol ym mhob ysgol targed Tymor yr Haf. | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Ysgolion Targed yn cynllunio'n strategol drwy blaenoriaethu hyfforddiant Cyfnod Sylfaen a chymryd mantais llawn o'r hyfforddiant trochi mis Mawrth ac Ebrill 2017.<br><br>• Ymestyn hyfforddiant trochi i ysgolion tu allan i ardal Caergybi drwy ddefnydd o Grant Cymraeg. Mehefin 2017<br><br>• [Pennaeth/ UDRh/ Corff Llywodraethu pob ysgol i sicrhau bod cynnydd yn y Gymraeg yn cael blaenoriaeth mewn CDY Haf 2017 ymlaen .<br><br>• YH yn monitro cynnydd y Gymraeg drwy graffu ar lyfrau , arsylwadau dosbarth, dadansoddi data ac yn adrodd y ôl i'r Awdurdod.<br><br>• Awdurdod yn parhau gyda'r ymrwymiad cyllidol i gefnogi canolfannau iaith fel eu bod yn cynnal disgyblion hwyrddyfodiad am 10 wythnos ac am dri tymor llawn.<br><br>• Awdurdod/ GwE i gryfhau defnydd o arbenigedd athrawon Canolfannau Iaith i arwain hyfforddiant dulliau trochi mewn ardaloedd penodol yng Nghyfnod Allweddol 2. Hydref 2017 | Ysgolion<br><br>Ysgolion Awdurdod Addysg<br><br>Ysgolion<br><br>GwE<br><br>Uwch swyddog Awdurdod<br><br>GwE | Ebrill 2017<br><br>Gorffennaf 2017<br><br>Gorffennaf 2017 Tachwedd 2017<br><br>Ebrill 2017<br><br>Mawrth 2018 | Strategaeth iaith wedi ei fabwysiadu ac ar waith ym mhob ysgol .<br><br>Canlyniadau mewn Cymraeg yn y CS yn codi 2% yn uwch na'r flwyddyn blaenorol Gorffennaf 2018<br><br>CDY pob ysgol yn rhoi blaenoriaeth i'r Strategaeth Iaith Haf 2017 ac yn gweithredu yn unol a'u anghenion i ddatblygu ymhellach.<br><br>Tystiolaeth o gynnydd drwy adroddiadau monitro GwE<br><br>Cyllid wedi ei warchod 2017-18 2018-19 2019-20<br><br>Defnydd effeithiol o arbenigedd. | | | |
| 4 | Targedu'r ysgolion hynny nad ydynt yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Adran Dysgu Gydol Oes y Cyngor<br><br>• Yr Awdurdod a GwE i gynnig cyflwyniad i Gadeiryddion ysgolion Targed ar y strategaeth iaith a pholisi iaith y Sir fel bod ganddynt well dealltwriaeth o'r disgwyliadau a'r effaith bydd hyn yn gael ar eu hysgol a'u disgyblion . | Uwch swyddog Awdurdod GwE | Mehefin 2017 | Statws ieithyddol 100% y dosbarthiadau CS yn gwireddu nod ac amcanion y Sir yn llawn erbyn 2019. | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Cydnabyddiaeth gan yr Awdurdod a GwE na fydd canlyniadau ysgolion targed yn y flwyddyn gyntaf yn cyrraedd y chwarteli uwch mewn Cymraeg yng Nghyfnod Sylfaen erbyn Haf 2017.<br><br>• Cydnabyddiaeth bydd gan ambell ysgol her i gyrraedd chwarteli uwch dros dwy flynedd mewn Cymraeg.[ Haf 2018]. Estynnir cefnogaeth ychwanegol i'r ysgolion hyn.<br><br>• Ysgolion i dderbyn arweiniad cefnogol gan GwE fel bod safonau mewn Cymraeg yn gwireddu uchelgais yr Awdurdod o gael 95% o Ysgolion Môn yn asesu Cymraeg iaith gyntaf Mehefin 2017 a bod 100% ysgolion Môn yn asesu iaith gyntaf Cymraeg erbyn Mehefin 2019. | | | Ysgolion wedi ymateb yn hyderus i her y strategaeth Ac wedi mabwysiadu'r Polisi Iaith yn llawn<br><br>Niferoedd disgyblion sy'n cael eu hasesu Cymraeg iaith gyntaf yn cynyddu . 100% erbyn 2019<br><br>5%+ uwch o ddisgyblion yn sgorio D5+ erbyn 2020 | | | |

| **Deilliant 2:** | **Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd** | | | | **Targedau:** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **2017-18:** | **2018-19:** | **2019-20:** |
| | | | | | **73%** | **77.3%** | **80%** |
| **Amcan:** | **Camau Gweithredu:** | **Cyfrifoldeb:** | **Erbyn:** | **Meini Prawf Llwyddiant:** | **RAG** | | |
| | | | | | **2017-18:** | **2018-19:** | **2019-20:** |
| 1 | Cynyddu canran y disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf)<br><br>• Cydlynwyr iaith Cynradd pob dalgylch yn gwirio bod disgyblion Bl6 sydd wedi llwyddo 3+ mewn Cymraeg yn dilyn trac Cymraeg iaith gyntaf ym Mlwyddyn 7.<br><br>• Pob ysgol Uwchradd yn sicrhau eu bod yn glynu tuag at y strategaeth a Pholisi iaith y Sir. | Ysgol GwE<br><br>Ysgolion Uwchradd a chynradd | Mehefin 2018 | Canran uwch o ddisgyblion yn parhau ar yr un trac ieithyddol o'r Cynradd i'r Uwchradd, Medi 2017<br><br>Ysgolion Uwchradd yn gwireddu Polisi Iaith y Sir Erbyn 2020 bydd 80% o Ysgolion y Sir yn cynnig un trac ieithyddol yng Nghyfnod | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Allweddol 3 | | | |
| | • Pob ysgol Uwchradd i fapio eu strwythur staffio yn ofalus erbyn Haf 2018 fel bod y ddarpariaeth i addysg cyfrwng Cymraeg iaith gyntaf yn cael ei wireddu yn llawn yng Nghyfnod Allweddol 3 erbyn 2020. | Uwchradd | | Strwythur staffio ysgolion yn hyrwyddo targedau'r Sir. 100% o'r pynciau Cwricwlaidd yn gallu eu addysgu drwy Cyfrwng y Gymraeg | | | |
| | • Drwy adeiladu ar arferion da o'r cynradd, datblygu'r Siarter Iaith i Flwyddyn 7 yn eang . Ee Ffocws parhaus a grymusol o'r Gymraeg ym mhob ysgol Uwchradd o fewn dosbarthiadau, neuadd ffreutur a'r coridor. | Ysgolion Uwchradd | | Ethos Cymraeg amlwg ym mhob Ysgol Uwchradd . | | | |
| | • Sicrhau bod rhaglen y Siarter iaith yn datblygu blwyddyn ar ôl blwyddyn gyda'r cohort o'r disgyblion sy'n dechrau eu gyrfa ysgol Uwchradd Medi 2017 | Uwchradd Swyddogion Siarter Iaith | | Cymreictod disgyblion o'r Cynradd i'r Uwchradd yn gadarn . Tystiolaeth Cyngor Ysgol, aelodaeth Urdd | | | |
| 2 | Hyrwyddo trosglwyddo mwy effeithiol rhwng y cyfnod cyn ysgol i ddarpariaeth statudol, rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3 a Chyfnodau Allweddol 3 a 4. | | | . | | | |
| | • O fewn y sector cynradd, ac yn benodol y Cyfnod Sylfaen pob ysgol i gynllunio rhaglen bartneriaeth bendant gyda rhieni a sefydliadau nas gynhelir i werthu manteision dwyieithrwydd ein cymunedau. Delwedd Cymraeg pob ysgol ym Môn yn gadarn. Cyflwyno polisi trosglwyddo . | Ysgolion Cynradd | Mehefin 2018 | Cysondeb mewn negeseuon gan 95% o ysgolion Medi 2018 a 100% erbyn 2020 | | | |
| | • Pob dalgylch i sicrhau bod eu polisïau trosglwyddo yn rhoi ystyriaeth lawn ar adnabod anghenion ieithyddol pob disgybl ar hyd eu taith addysg a bod yr anghenion hynny yn cael ei ddiwallu bob tro i annog hyfedr yn yr iaith Gymraeg yn ogystal a'r Saesneg | Ysgolion Cynradd/ Uwchradd | Mehefin 2017 | Tracio carfanau iaith effeithiol gyda'r nod o gael 80% o ysgolion Uwchradd yn cadw holl ddisgyblion trosglwyddo Bl 7 ar un trac iaith erbyn 2020. | | | |
| | • Ysgolion Uwchradd yn cydnabod gwaith da'r cynradd i drochi ac yn cadw disgyblion ar drac Cymraeg iaith gyntaf holl ddisgyblion sydd wedi cyrraedd lefel3+ diwedd CA2 Medi 2017. | Ysgolion Uwchradd | Ionawr 2018 | Ysgolion Uwchradd yn gosod her uchel a disgwyliadau clir er mwyn gwarchod a mynnu'r Gymraeg i holl rhan ddeiliaid | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Ysgolion i baratoi cynlluniau trosglwyddo CA3 i CA4 bwriadus a strwythuredig fel bod 10% mwy o ddisgyblion yn sefyll 2 bwnc Cyfrwng Cymraeg i TGAU a 5% mwy o ddisgyblion yn sefyll 5 pwnc drwy'r Gymraeg erbyn 2020 ble mae hynny yn resymol bosib | Ysgolion Uwchradd | Mehefin 2020 | ysgol<br><br>Canran uwch o ddisgyblion yn sefyll arholiad TGAU cyfrwng Cymraeg erbyn 2020. 5% yn fwy. | | | |
| 3 | Hyrwyddo cyfran uwch o ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg o fewn ysgolion dwyieithog.<br><br>• Ysgolion i adnabod cyfleon priodol ble gellir cynyddu eu darpariaeth Cyfrwng Cymraeg o fewn cynlluniau gwaith pynciau penodol.<br><br>• Cynyddu darpariaeth Cyfrwng Cymraeg blwyddyn ar ôl blwyddyn.<br><br>• Cynnig hyfforddiant Sabothol i athrawon sydd yn d-i hyder yn y Gymraeg | Ysgolion Uwchradd<br><br>GwE | Medi 2018 | Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn cynyddu traws bynciol .<br><br>O leiaf un pwnc sylfaen ychwanegol yn cael ei gynnig bob blwyddyn.<br><br>Hyfryder Cymraeg athrawon yn cynyddu. | | | |
| 4 | Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu a dysgu er mwyn cynyddu'r % a nodir yng ngharfanau iaith A neu B.<br><br>• Ysgolion i fapio yn draws bynciol Cwricwlwm drwy'r Gymraeg<br><br>• Gosod her gyraeddadwy,- adeiladu ar y ganran flwyddyn ar ôl blwyddyn .<br><br>• Dulliau monitro yn mesur cynnydd darpariaeth yn cymryd lle drwy graffu ar lyfrau gwaith / gwirio asesiadau athrawon / tracio data cyrhaeddiad diwedd bob blwyddyn flwyddyn<br><br>• Awdurdod i ddefnyddio data diwedd blwyddyn bob ysgol i fel tystiolaeth gadarn o gynnydd i'r Fforwm iaith. | Ysgol<br><br>GwE Awdurdod<br><br>Uwch Swyddog | Medi 2018<br><br>Medi 2018 | Cyfeiriad strategol gan bob ysgol i godi canran disgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn Cymraeg traws bynciol. Cynnydd darpariaeth ym mhob ysgol bob blwyddyn<br><br>Darpariaeth cadarn yn codi safon lefel 6,7 ac 8 mewn Cymraeg erbyn diwedd bl 9 5% yn fwy erbyn 2019<br><br>Adroddiadaiu blynyddol yn rhoi darlun clir o'r cynnydd yn erbyn CSA. | | | |

| **Deilliant 3:** | **Mwy o fyfyrwyr 14-16 yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg** | | | | **Targedau:** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **2017-18:** | **2018-19:** | **2019-20:** |
| | | | | | **76.5%** | **78%** | **80%** |
| **Amcan:** | **Camau Gweithredu:** | **Cyfrifoldeb:** | **Erbyn:** | **Meini Prawf Llwyddiant:** | **RAG** | | |
| | | | | | **2017-18:** | **2018-19:** | **2019-20:** |
| 1 | Cynyddu canran y myfyrwyr 14-16 sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• Pob ysgol i sicrhau bod pob pwnc yn CA4 ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.<br>• Pob ysgol Uwchradd i gynnwys datganiad ar ddilyniant ieithyddol o CA3 i CA4 yn eu polisi iaith a bod cynyddu'r niferoedd sydd yn dilyn cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg yn un elfen o'r prif flaenoriaeth – y Gymraeg yn y CDY<br>• Codi ymwybyddiaeth rhieni o addysg cyfrwng Cymraeg yn CA4<br>• Anelu at y disgwyliad bydd pob disgybl sydd yn ennill:<br>➢ Lefel 5 neu fwy mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3 i ddilyn o leiaf pump pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg yn CA4<br>➢ Lefel 4 mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3 i ddilyn o leiaf dau bwnc trwy gyfrwng y Gymraeg yn CA4 | Penaethiaid Ysgolion Uwchradd | Medi 2020<br><br>Medi 2020 | Pob pwnc yn CA4 ar gael trwy cyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg | | | |

| Deilliant 4: | **Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith** | | | | **Targedau:** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **2017-18:** | **2018-19:** | **2019-20:** |
| | | | | | | | |
| **Amcan:** | **Camau Gweithredu:** | **Cyfrifoldeb:** | **Erbyn:** | **Meini Prawf Llwyddiant:** | **RAG** | | |
| | | | | | **2017-18:** | **2018-19:** | **2019-20:** |
| 1 | Sicrhau bod darpariaeth i ddysgwyr 14-19 oed yn cydymffurfio â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009<br><br>• Pob ysgol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 | Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn<br>+<br>Rhwydwaith 14-19 | Gorffennaf 17/18/19/20 | | | | |
| 2 | Cynyddu canran y myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion.<br><br>• Pob ysgol / coleg i sicrhau bod pob pwnc ar gyfer myfyrwyr ôl-16 ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>• Pob ysgol / Coleg i gynnwys datganiad ar ddilyniant ieithyddol o CA4 - ôl-16 yn eu polisi iaith a bod cynyddu'r niferoedd sydd yn dilyn cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg yn un elfen o'r prif flaenoriaeth – y Gymraeg yn y CDY<br><br>• Codi ymwybyddiaeth rhieni o addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16<br><br>• Codi ymwybyddiaeth myfyrwyr o gyfleoedd yn yr economi leol ble mae'r defnydd o'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer gwaith | Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn<br><br>Ysgolion Uwchradd<br><br>Holl rhan ddeiliaid addysg | Medi 2020<br><br>Medi 2020<br><br>Medi 2018 | Darpariaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg wedi ei gynllunio a'i weithredu'n llawn<br><br>Polisi iaith yn cydymffurfio a gofynion y Sir<br><br>Noson agored/ llawlyfr / cylch lythyr gwefan yn ddulliau addas o gyfathrebu cyfleon i rieni | | | |
| 3 | Gweithio drwy Rwydweithiau ardal 14-19 a Fforymau 14-19 er mwyn cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg. | Ysgolion | | Bod cynllun gweithredu strategol | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Sicrhau bod addysg cyfrwng Gymraeg yn un o brif flaenoriaethau y Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn a'r Rhwydwaith 14-19<br>• Rhwydwaith 14-19 yn rhoi darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth wrth ystyried darpariaeth cwricwlaidd ôl-16 | Uwchradd a Consortiwm Gwynedd a Mon | Medi 2019 | yn ei le i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ôl 16<br><br>Cyd weithio effeithiol o fewn sectorau yn adnabod cyfleon ar draws yr Ynys | | | |

| **Deilliant 5:** | **Mwy o ddisgyblion a myfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg** | | | | **Targedau:** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **2017-18:** | **2018-19:** | **2019-20:** |
| | | | | | | | |
| **Amcan:** | **Camau Gweithredu:** | **Cyfrifoldeb:** | **Erbyn:** | **Meini Prawf Llwyddiant:** | **RAG** | | |
| | | | | | **2017-18:** | **2018-19:** | **2019-20:** |
| 1 | Gwella gwaith sgiliau llythrennedd Cymraeg. | | | | | | |
| 2 | Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf.<br>• Pob ysgol i roi sylw i wella safonau Cymraeg Iaith Gyntaf ym mhob CA | Penaethiaid ysgolion | | Cynnydd yn nifer y disgyblion sydd yn:<br>• Ennill D6+ ar ddiwedd y CS mewn Cymraeg Iaith Gyntaf<br>• Ennill L5+ ar ddiwedd CA2 mewn Cymraeg Iaith Gyntaf<br>• Ennill L6+ ar ddiwedd CA3 mewn Cymraeg Iaith Gyntaf<br>• Ennill graddau A*/A TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | | | |
| 3 | Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith.<br>• Sicrhau bod darpariaeth priodol Cymraeg Ail Iaith ar gael i hwyrddyfodiad sy'n arwain at gymhwyster TGAU ar gael ym mhob ysgol. | Penaethiaid Ysgolion | | Disgyblion hwyr ddyfodiad yn ennill cymhwyster perthnasol | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran i ymarfer eu Cymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth.<br><br>• Pob ysgol uwchradd i ymrwymo i 'Prosiectau Cefnogi Arferion Iaith (PCAI)' ac i hyrwyddo'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg<br><br>• Pob ysgol Uwchradd a Chynradd i gynnwys datganiad ar ethos Cymreig a diwylliant yn eu llawlyfr a bod hyrwyddo'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn un elfen o'r prif flaenoriaeth – y Gymraeg yn y CDY<br><br>• Pob ysgol, Cynradd ac Uwchradd wedi ymrwymo yn llawn i'r Siarter Iaith.<br><br>• Pob ysgol i gynnig cyfleon cymdeithasol megis yr Urdd, Ffermwyr Ifanc ayb | | Medi 2018<br><br>Medi2018<br><br>Medi 2018 | 100% o ymrwymiad<br><br>Datganiad ar y Gymraeg ym mhob llawlyfr<br><br>Siarter Iaith yn weithredol yn yr Uwchradd<br><br>Clybiau Cymdeithasol all gwricwlaidd yn cael eu cynnig o leiaf un noson yr wythnos am dymor. | | | |

| **Deilliant 6:** | **Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg** | | | | **Targedau:** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **2017-18:** | **2018-19:** | **2019-20:** |
| | | | | | | | |
| **Amcan:** | **Camau Gweithredu:** | **Cyfrifoldeb:** | **Erbyn:** | **Meini Prawf Llwyddiant:** | **RAG** | | |
| | | | | | **2017-18:** | **2018-19:** | **2019-20:** |
| 1 | Gwella darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Cyfrwng Cymraeg. | | | | | | |

| Deilliant 7: | Cynllunio’r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) | | | | Targedau: | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 2017-18: | 2018-19: | 2019-20: |
| | | | | | | | |
| Amcan: | Camau Gweithredu: | Cyfrifoldeb: | Erbyn: | Meini Prawf Llwyddiant: | RAG | | |
| | | | | | 2017-18: | 2018-19: | 2019-20: |
| 1 | Sicrhau cyflenwad digonol o ymarferwyr ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.<br>• Codi ymwybyddiaeth disgyblion ôl 16 o gyfleoedd gyrfaoedd ym myd addysg .<br>• Cyd weithio gyda’r Brifysgolion hyfforddi Athrawon i gynyddu cyflenwad digonol o ymarferwyr . | | | | | | |
| 2 | Gwella sgiliau ieithyddol a methodoleg ymarferwyr.<br>• Holl Ysgolion a chanolfannau Addysg yn annog a chynnal sesiynau gloyw iaith i staff<br>• Cyd weithio gydag adnoddau dynol cyrsiau sabothol | | Medi 2019 | | | | |
| 3 | Integreiddio ystyriaethau cyfrwng Cymraeg ym mhob agwedd ar raglen ‘Gwella Ysgolion’<br>• Pob sector addysg yn  cael eu barnu ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ymweliadau GwE<br>• | Awdurdod a GwE | 2017 | | | | |

Atodiad 1

# Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg – Ynys Môn

**Cyfnod Sylfaen:**

- Nifer disgyblion yng ngharfan CS, a'r nifer a aseswyd yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf:

| CS | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer Disgyblion: | 682 | 678 | 671 | 721 | 755 | 751 |
| Nifer Aseswyd Cymraeg Iaith Gyntaf | 469 | 510 | 468 | 520 | 539 | 544 |
| % Aseswyd Cymraeg Iaith Gyntaf | 68.7% | 75.2% | 69.7% | 72.1% | 71.4% | 72.4% |

- Perfformiad ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen (% Sgiliau Llythrennedd a Chyfathrebu – Cymraeg D5+) % o'r nifer a aseswyd yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf:

| CS | Perfformiad: | | | Targedau: | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
| Ynys Môn | 88.1% | 89.8% | 86.2% | 93.0% | 93.2% | 93.4% | 93.6% |
| GwE | 88.4% | 88.8% | 87.8% | 94.4% | 94.8% | 95.3% | |
| Cymru | 89.8% | 91.3% | 90.7% | | | | |

- Lleoliad asesu Cymraeg Iaith Gyntaf CS yr Awdurdod yn erbyn Awdurdodau eraill:

| CS | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 98.4 | 97.5 | 97.8 | 98.6 | 98.2 |
| 2 | 75.2 | 76.4 | 74.0 | 76.3 | 75.4 |
| 3 | 73.3 | 69.7 | 72.1 | 71.4 | 72.4 |
| 4 | 55.6 | 55.6 | 55.4 | 57.0 | 56.8 |
| 5 | 23.7 | 28.1 | 25.1 | 26.5 | 26.6 |
| 6 | 23.2 | 22.9 | 24.5 | 24.3 | 23.3 |
| Cymru | 21.9 | 22.4 | 22.2 | 22.2 | 22.0 |
| 7 | 21.2 | 19.9 | 19.9 | 20.7 | 21.0 |
| 8 | 20.5 | 19.1 | 19.7 | 19.2 | 18.9 |
| 9 | 19.4 | 18.8 | 19.3 | 19.1 | 18.5 |
| 10 | 17.7 | 17.4 | 18.9 | 18.3 | 16.6 |
| 11 | 16.7 | 17.4 | 18.7 | 16.4 | 16.5 |
| 12 | 15.0 | 15.2 | 15.1 | 15.8 | 15.5 |
| 13 | 13.6 | 14.2 | 14.1 | 14.6 | 15.3 |
| 14 | 12.2 | 13.1 | 12.9 | 14.4 | 14.9 |
| 15 | 12.1 | 12.6 | 12.0 | 11.8 | 13.0 |
| 16 | 10.2 | 11.9 | 11.7 | 11.6 | 11.4 |
| 17 | 9.8 | 9.2 | 10.2 | 11.3 | 11.4 |
| 18 | 9.5 | 8.4 | 8.6 | 9.4 | 8.3 |
| 19 | 6.8 | 8.0 | 5.8 | 6.2 | 7.1 |
| 20 | 4.6 | 5.3 | 5.7 | 5.7 | 6.6 |
| 21 | 4.6 | 5.2 | 5.1 | 5.0 | 4.6 |
| 22 | 4.3 | 4.9 | 4.5 | 4.8 | 3.5 |

| |
|---|
| Cymru |
| Ynys Môn |

Atodiad 1

**Cyfnod Allweddol 2:**

- Nifer disgyblion yng ngharfan CA2, a'r nifer a aseswyd yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf:

| CA2 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer Disgyblion:** | 659 | 685 | 682 | 644 | 707 | 659 |
| **Nifer Aseswyd Cymraeg Iaith Gyntaf** | 530 | 572 | 508 | 468 | 494 | 478 |
| **% Aseswyd Cymraeg Iaith Gyntaf** | 80.4% | 83.5% | 74.5% | 72.8% | 69.9% | 72.5% |

- Nifer disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg fel Ail Iaith ar ddiwedd CA2:

| CA2 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer Disgyblion:** | 659 | 685 | 682 | 644 | 707 | 659 |
| **Nifer Aseswyd Cymraeg Ail Iaith** | 128 | 77 | 168 | 179 | 166 | 177 |
| **Nifer Aseswyd Cymraeg Ail Iaith** | 19.4% | 11.2% | 24.6% | 27.8% | 23.5% | 26.9% |
| **Nifer enillodd Lefel 4+** | 62 | 26 | 65 | 116 | 83 | 119 |
| **% enillodd Lefel 4+** | 48.4% | 33.8% | 38.7% | 64.8% | 50.0% | 67.2% |

- Perfformiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (% Cymraeg Lefel3+ a 4+) - % o'r nifer a aseswyd yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf:

| CA2 | Perfformiad: | | | Targedau: | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
| **Ynys Môn: 3+** | 94.6% | 97.6% | 96.9% | | | | |
| **Ynys Môn: 4+** | 83.4% | 89.7% | 88.0% | 94.8% | 95.0% | 95.2% | 95.4% |
| **GwE (4+)** | 87.2% | 89.7% | 88.9% | 96.4% | 97.8% | 99.1% | |
| **Cymru (4+)** | 88.1% | 90.5% | 90.8% | | | | |

Atodiad 1

- Lleoliad asesu Cymraeg Iaith Gyntaf CA2 yr Awdurdod yn erbyn Awdurdodau eraill:

| CA2 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 99.2 | 99.2 | 97.5 | 98.8 | 97.9 |
| 2 | 83.8 | 74.9 | 72.5 | 69.9 | 73.1 |
| 3 | 70.9 | 71.6 | 71.6 | 69.8 | 69.7 |
| 4 | 51.4 | 50.5 | 50.2 | 51.9 | 50.5 |
| 5 | 21.9 | 23.1 | 23.0 | 22.3 | 22.1 |
| 6 | 21.6 | 21.9 | 21.2 | 21.5 | 21.5 |
| Cymru | 20.2 | 20.0 | 20.2 | 20.2 | 21.0 |
| 7 | 20.1 | 18.8 | 19.4 | 19.0 | 20.4 |
| 8 | 18.9 | 18.3 | 18.1 | 18.7 | 18.7 |
| 9 | 16.5 | 17.3 | 16.2 | 15.6 | 17.0 |
| 10 | 15.4 | 16.4 | 15.0 | 15.4 | 15.6 |
| 11 | 12.2 | 13.1 | 13.7 | 14.3 | 15.3 |
| 12 | 11.2 | 12.9 | 11.9 | 14.1 | 13.9 |
| 13 | 10.5 | 10.4 | 11.8 | 12.0 | 12.4 |
| 14 | 10.0 | 9.4 | 11.5 | 11.2 | 11.1 |
| 15 | 10.0 | 8.8 | 9.8 | 10.6 | 10.6 |
| 16 | 8.2 | 7.8 | 8.8 | 9.9 | 9.8 |
| 17 | 8.1 | 7.1 | 8.5 | 7.8 | 8.9 |
| 18 | 6.6 | 6.3 | 8.3 | 7.6 | 7.5 |
| 19 | 5.5 | 4.5 | 5.8 | 5.1 | 6.0 |
| 20 | 3.9 | 4.3 | 4.5 | 3.9 | 4.6 |
| 21 | 3.2 | 3.6 | 3.7 | 3.5 | 4.3 |
| 22 | 2.1 | 2.7 | 3.2 | 3.1 | 3.2 |

| |
|---|
| Cymru |
| Ynys Môn |

Atodiad 1

**Cyfnod Allweddol 3:**

- Nifer disgyblion yng ngharfan CA3, a'r nifer a aseswyd yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf:

| CA3 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer Disgyblion:** | 736 | 664 | 685 | 622 | 660 | 661 |
| **Nifer Aseswyd Cymraeg Iaith Gyntaf** | 466 | 431 | 423 | 418 | 428 | 445 |
| **% Aseswyd Cymraeg Iaith Gyntaf** | 63.3% | 64.9% | 61.8% | 67.2% | 64.8% | 67.3% |

- Nifer disgyblion aseswyd yn y Gymraeg fel Ail Iaith ar ddiwedd CA3

| CA3 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer Disgyblion:** | 736 | 664 | 685 | 622 | 660 | 661 |
| **Nifer Aseswyd Cymraeg Ail Iaith** | 270 | 233 | 262 | 204 | 232 | 216 |
| **% Aseswyd Cymraeg Ail Iaith** | 36.7% | 35.1% | 38.2% | 32.8% | 35.2% | 32.7% |
| **Nifer enillodd Lefel 5+** | 181 | 154 | 199 | 156 | 180 | 148 |
| **% enillodd Lefel 5+** | 67.0% | 66.1% | 76.0% | 76.5% | 77.6% | 68.5% |

- % disgyblion enillodd lefel 3 neu uwch yn CA2 a gafodd asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3:

| CA2 →CA3 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **% disgyblion enillodd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 a gafodd asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3** | 77.9% | 84.3% | 81.3% | 87.2% | 82.9% | 87.7% |

- Perfformiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (% Cymraeg Lefel 5+) - % o'r nifer a aseswyd yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf:

| CA3 | Perfformiad: | | | Targedau: | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
| **Ynys Môn** | 88.4% | 93.2% | 92.1% | 92.8% | 93.3% | 93.5% | 93.7% |
| **GwE** | 89.9% | 92.3% | 92.9% | 93.8% | 94.8% | 95.8% | |
| **Cymru** | 90.1% | 90.9% | 92.0% | | | | |

Atodiad 1

- Lleoliad asesu Cymraeg Iaith Gyntaf CA3 yr Awdurdod yn erbyn Awdurdodau eraill:

| CA3 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 86.1 | 81.2 | 83.2 | 82.5 | 83.7 |
| 2 | 64.9 | 64.2 | 67.2 | 64.8 | 67.3 |
| 3 | 60.7 | 61.8 | 64.8 | 61.8 | 64.3 |
| 4 | 36.5 | 39.0 | 43.2 | 36.6 | 42.2 |
| 5 | 18.8 | 20.2 | 21.3 | 19.9 | 20.1 |
| 6 | 18.7 | 18.9 | 19.4 | 17.9 | 19.9 |
| 7 | 17.2 | 17.1 | 19.2 | 17.4 | 17.9 |
| Cymru | 16.8 | 17.0 | 17.8 | 17.0 | 17.7 |
| 8 | 13.8 | 15.5 | 14.1 | 15.2 | 15.8 |
| 9 | 13.7 | 13.0 | 12.5 | 13.3 | 15.1 |
| 10 | 11.0 | 11.7 | 12.1 | 12.7 | 14.1 |
| 11 | 11.0 | 11.2 | 11.8 | 11.4 | 13.0 |
| 12 | 10.6 | 10.5 | 11.6 | 11.4 | 12.7 |
| 13 | 10.4 | 10.4 | 10.6 | 10.5 | 12.7 |
| 14 | 10.3 | 10.0 | 9.7 | 10.3 | 10.7 |
| 15 | 9.7 | 9.3 | 9.3 | 9.3 | 10.5 |
| 16 | 8.4 | 8.9 | 8.8 | 9.2 | 8.4 |
| 17 | 5.9 | 6.6 | 6.7 | 5.7 | 5.2 |
| 18 | 4.6 | 4.6 | 5.5 | 5.1 | 3.9 |
| 10 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| 20 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| 21 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| 22 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |

| |
|---|
| Cymru |
| Ynys Môn |

**Cyfnod Allweddol 4:**

- Nifer disgyblion yng ngharfan CA4, a'r nifer a safodd arholiad TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf:

| CA4 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer Disgyblion: | 687 | 712 | 721 | 640 | 668 | 599 |
| Nifer yn sefyll TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | 481 | 499 | 491 | 456 | 426 | 395 |
| % yn sefyll TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | 70.0% | 70.1% | 68.1% | 71.3% | 63.8% | 65.9% |

- Nifer disgyblion yng ngharfan CA4, a'r nifer a safodd arholiad TGAU Cymraeg Ail Iaith (cwrs llawn):

| CA4 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer Disgyblion: | 687 | 712 | 721 | 640 | 668 | 599 |
| Nifer yn sefyll TGAU Cymraeg Ail Iaith | 106 | 170 | 185 | 150 | 196 | 138 |
| % yn sefyll TGAU Cymraeg Ail Iaith | 15.4% | 23.9% | 25.7% | 23.4% | 29.3% | 23.0% |

- Perfformiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 (% A*-C TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf cwrs llawn) - % o'r nifer a aseswyd yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf:

| CA4 | Perfformiad: | | | Targedau: | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
| Ynys Môn | 71.6% | 71.6% | 77.5% | 78.9% | 79.6% | 80.3% | 81.0% |
| GwE | 72.7% | 75.6% | 76.2% | | | | |
| Cymru | 73.7% | 75.1% | | | | | |

- Perfformiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 (% A*-C TGAU Cymraeg Ail Iaith) - % o'r nifer a aseswyd yn y Gymraeg fel Ail Iaith:

| CA4 | Perfformiad: | | | Targedau: | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
| Ynys Môn | 76.1% | 81.3% | 74.6% | | | | 85% |
| GwE | | | | | | | |
| Cymru | | | | | | | |

- % y disgyblion CA4 a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf a astudiodd ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg:

| CA4 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % astudiodd 2+ trwy gyfrwng y Gymraeg | 69.7% | 69.4% | 73.4% | 75.5% | 88.8% | 73.6% |
| % astudiodd 5+ trwy gyfrwng y Gymraeg | 48.7% | 61.5% | 68.1% | 60.5% | 47.6% | 42.7% |

Atodiad 1

**Cyfnod Sylfaen - Cyfnod Allweddol 4:**

- % disgyblion ym mhob CA a aseswyd yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf:

| CA | | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CS** | **% Aseswyd Cymraeg Iaith Gyntaf** | 68.7% | 75.2% | 69.7% | 72.1% | 71.4% | 72.4% |
| **CA2** | **% Aseswyd Cymraeg Iaith Gyntaf** | 80.4% | 83.5% | 74.5% | 72.8% | 69.9% | 72.5% |
| **CA3** | **% Aseswyd Cymraeg Iaith Gyntaf** | 63.3% | 64.9% | 61.8% | 67.2% | 64.8% | 67.3% |
| **CA4** | **% yn sefyll TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf** | **70.0%** | **70.1%** | **68.1%** | **71.3%** | **63.8%** | **65.9%** |

**Ôl-16:**

- Nifer ymgeiswyr TGAU Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith ar ddiwedd CA4 a symudodd ymlaen i astudio Cymraeg Iaith Gyntaf / Cymraeg Ail Iaith i Safon Uwch.:

| CA4 | | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cy1** | **Nifer ymgeiswyr (Cy1)** | 481 | 499 | 491 | 456 | 426 | 395 |
| | nifer sy'n mynd ymlaen i astudio Safon Uwch. | **20** | **24** | **27** | **23** | **27** | **20** |
| | % sy'n mynd ymlaen i astudio Safon Uwch. | **4.2%** | **4.8%** | **5.5%** | **5.0%** | **6.3%** | **5.0%** |
| **Cy2** | **Nifer ymgeiswyr (Cy2)** | **106** | **170** | **185** | **150** | **196** | **138** |
| | nifer sy'n mynd ymlaen i astudio Safon Uwch. | **3** | **4** | **3** | **5** | **4** | **4** |
| | % sy'n mynd ymlaen i astudio Safon Uwch. | **2.8%** | **2.4%** | **1.6%** | **3.3%** | **2.0%** | **2.9%** |

Atodiad 1

## Deilliannau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg – Ynys Môn

| | Deilliant | Sefyllfa Gyfredol: | |
|---|---|---|---|
| **Deilliant 1** | Canran y plant saith oed a asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen | 72.4% | |
| **Deilliant 2** | Canran dysgwyr Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3 | 67.3% | |
| | Canran dysgwyr Blwyddyn 6 a aseswyd mewn Cymraeg Iaith Gyntaf dair blynedd yn gynharach | 74.5% | |
| | Trosglwyddo effeithiol a pharhad ieithyddol - Cyfraddau dilyniant ieithyddol rhwng:<br>• lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y sector nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen:<br>• lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y sector nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed a lleoliadau nas cynhelir a gyllidir yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen:<br>• lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog:<br>• lleoliadau gofal plant nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed a lleoliadau nas cynhelir cyfrwng Cymraeg a gyllidir yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ac wedyn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog:<br>• y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2:<br>• Cyfnodau Allweddol 2 a 3:<br>• Cyfnodau Allweddol 3 a 4: | XX%<br>XX%<br>XX%<br>XX%<br>93.7%<br>87.6%<br>94.5% | |
| | Ysgolion Uwchradd: % disgyblion B9 a B11 sydd yn dilyn Cymraeg Iaith Gyntaf | CA3: | CA4: |
| | • Ysgol Syr Thomas Jones | 90.2% | 98.8% |
| | • Ysgol Caergybi | 18.2% | 16.2% |
| | • Ysgol Llangefni | 99.2% | 91.7% |
| | • Ysgol Bodedern | 82.7% | 87.6% |
| | • Ysgol David Hughes | 78.0% | 66.7% |
| **Deilliant 3** | • Canran disgyblion Blwyddyn 11 sy'n cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf sy'n astudio ar gyfer 2 neu fwy o gymwysterau lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg:<br>➢ Targed ar gyfer cynyddu'r ganran hon erbyn diwedd y Cynllun<br>• Canran disgyblion Blwyddyn 11 sy'n cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf sy'n astudio ar gyfer 5 neu fwy o gymwysterau lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg:<br>➢ Targed ar gyfer cynyddu'r ganran hon erbyn diwedd y Cynllun | 73.6%<br>80%<br>42.7%<br>48% | |
| **Deilliant 4** | Canran myfyrwyr Ôl- 16 sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau:<br>➢ Drwy gyfrwng y Gymraeg<br>➢ yn ddwyieithog | XX%<br>XX% | |
| **Deilliant 5** | Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf:<br>• Canran y disgyblion diwedd y CS sy'n cyrraedd o leiaf Deilliant 5:<br>• Canran y disgyblion diwedd CA2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg:<br>• Canran y disgyblion diwedd CA3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg<br>• Beth yw canran y disgyblion diwedd CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf: | 86.2%<br>88.0%<br>92.1%<br>74.6% | |
| | Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf:<br>• Canran y disgyblion diwedd y CS sy'n cyrraedd o leiaf Deilliant 6: | 36.4% | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Canran y disgyblion diwedd CA2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg:<br>• Canran y disgyblion diwedd CA3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 6 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg<br>• Beth yw canran y disgyblion diwedd CA 4 sy'n cyrraedd graddau A*/A mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf: | 35.3%<br>85.7%<br>XX% |
| | Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg ail iaith<br>• Canran y disgyblion diwedd CA2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg Ail Iaith:<br>➢ Targed ar ddiwedd y cynllun:<br>• Canran y disgyblion diwedd CA3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg Ail Iaith:<br>➢ Targed ar ddiwedd y cynllun:<br>• Canran y disgyblion diwedd CA3 4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Llawn:<br>➢ Targed ar ddiwedd y cynllun: | 67.2%<br>XX%<br>68.5%<br>XX%<br>74.6%<br>85% |
| | Canran o'r garfanBlwyddyn 11 sydd wedi cofrestru ar gyfer<br>➢ TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf:<br>➢ TGAU Cymraeg Ail Iaith:<br>➢ heb eu cofrestru ar gyfer y naill na'r llall: | 65.9%<br>23.0%<br>11.1% |
| | Cymraeg lefel uwch:<br>➢ Cyfanswm myfyrwyr sydd yn dilyn Lefel A Cymraeg Iaith Gyntaf 2016-17 fel canran o'r cofrestriadau disgyblion B11 TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf 2015-16:<br>➢ Cyfanswm myfyrwyr sydd yn dilyn Lefel A Cymraeg ail iaith 2016-17 fel canran o'r cofrestriadau disgyblion B11 TGAU Cymraeg Ail Iaith cwrs llawn 2015-16: | 7.6%<br>7.2% |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Polisi Iaith Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn

Draft

Mae Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu polisi dwyieithog trwy holl ysgolion y Sir.

Disgwylir i bob Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'i staff a'r Corff Llywodraethol adolygu Polisi Iaith yr ysgol yn flynyddol.

## Gweledigaeth:

Bod holl blant a phobl ifanc Môn yn gallu cyfathrebu yn hyderus erbyn diwedd CA2 ac yn hyfedr ddwyieithog ar ddiwedd eu gyrfa addysgol gan sicrhau nad oes yr un disgybl yn cael ei amddifadu o'r gallu na'r haeddiant hwnnw.

## Nod:

Bod pob disgybl sydd yn mynd trwy gyfundrefn addysg Ynys Môn yn gwbl ddwyieithog erbyn diwedd eu gyrfa addysgol ac yn hyderus i gyfathrebu yn y ddwy iaith yn gyfartal yn y byd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.

## Amcan Cyffredinol:

1. Datblygu gallu holl ddisgyblion a myfyrwyr y Sir I fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

2. Cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg y gweithlu addysgol a plant a phobl ifanc sydd yn mynychu sefydliadau addysgol o fewn yr Awdurdod ac hefyd fel cyfrwng dysgu.

3. Bydd holl sefydliadau addysgol y Sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiaeth, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

## Amcanion Penodol:

1. **Blynyddoedd Cynnar:** Sicrhau darpariaetha threfniadaeth feithrin bwrpasol ac effeithlon drwy gynnwys dulliau trochi, y rhoddir i bob plentyn beth bynnag yw ei gefndir ieithyddol sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn cyn gynted â phosibl.

2. **Cyfnod Sylfaen:** Adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y Blynyddoedd Cynnar drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses i ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg erbyn diwedd y cyfnod.

3. **Cyfnod Allweddol 2:**
   - Parhau i ddatblygu medrau y plant ar y Gymraeg a'r Saesneg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn y ddwy iaith gan sicrhau - trwy gynllunio pwrpasol - lefel gyfartal o ddwyieithrwydd erbyn diwedd y Cyfnod;
   - ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA2, sicrhau eu bod yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl trwy'r Canolfannau Iaith Cynradd

4. **Cyfnod Allweddol 3:**
   - Sicrhau bod pob disgybl sydd wedi dilyn trac Cymraeg Iaith Gyntaf yn y sector Cynradd yn parhau i ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol yn y ddwy iaith;
   - Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a'r nifer o bynciau a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg
   - bod ymyrraeth briodol a phwrpasol ar gyfer y disgyblion hynny nad ydynt yn cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 er mwyn iddynt barhau i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol;
   - ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA3, sicrhau eu bod yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl trwy ddarpariaeth briodol yn CA3.

Draft

5. **Cyfnod Allweddol 4:**
    - Sicrhau bod pob disgybl sydd wedi dilyn trac Cymraeg Iaith Gyntaf yn y sector Cynradd yn parhau i ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol yn y ddwy iaith;
    - sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg a Saesneg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn sefyll arholiad mewn cymhwyster cydnabyddedig yn y ddwy iaith ar ddiwedd CA4;
    - Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a'r nifer o bynciau a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg
    - ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA4 sicrhau eu bod yn derbyn Sylfaen yn y Gymraeg trwy ddarpariaeth briodol erbyn diwedd y Cyfnod.

6. **Cyfnod Allweddol 5:**
    - Sicrhau bod cyfleoedd ar gael i fyfyrwyr ddilyn pynciau trwy'r Gymraeg.
    - Sicrhau bod gan fyfyrwyr ôl-16 wybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru trwy raglenni ymwybyddiaeth iaith cynhwysfawr a chyfoethogi'r Cwricwlwm Cymreig trwy holl ysgolion yr Awdurdod, gan eu datblygu i fod yn ddinasyddion hyderus dwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

7. **Addysg Arbennig:** yn achos disgyblion ag anawsterau dysgu dwys rhoddir hawl I Bennaeth - mewn ymgynghoriad â'r Adran Dysgu Gydol Oes - roi ystyriaeth unigol i bob achos, tra'n sicrhau bod disgyblion gyda'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol iddynt ymdopi fel oedolion o fewn eu cymunedau.

**Gweler hefyd:**

- Strategaeth Iaith Gymraeg Ynys Môn, 2016 - 2021
- Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg Ynys Môn, 2014 – 2017
- Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg Ynys Môn, 2017 – 2020
- Polisiau Iaith ysgolion unigol

Draft

## Atodiad 1

## Gofynion asesu:

**Cyfnod Sylfaen:** Disgwylir i bob disgybl (ac eithrio hwyrddyfodiad sydd yn cyrraedd yr ysgol ar ôl Rhagfyr 31 yn eu blwyddyn olaf o'r CS, sef B2) dderbyn asesiad *'Sgiliau Llythrennedd a Chyfathrebu – Cymraeg'.* Y lefel ddisgwyliedig yw D5

**CA2:** Disgwylir i bob disgybl (ac eithrio hwyrddyfodiad sydd yn cyrraedd yr ysgol yn ystod blwyddyn olaf CA2, sef B6) dderbyn asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg ar ddiwedd CA2. *Y* lefel ddisgwyliedig yw L4

**CA3:** Disgwylir i bob disgybl a dderbyniodd asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA2 ddilyn trac mamiaith yn yr ysgol Uwchradd. Disgwylir i bob disgybl (ac eithrio hwyrddyfodiad sydd yn cyrraedd yr ysgol yn ystod blwyddyn olaf CA3, sef B9):

- a gafodd asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA2
- a ddaeth i'r Sir yn ystod dwy flynedd gyntaf CA3 (sef Hwyrddyfodiaid) dderbyn asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3. Y lefel ddisgwyliedig yw L5.

**CA4:** Disgwylir i bob disgybl a dderbyniodd asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 ddilyn trac mamiaith ym mlynyddoedd 10 ac 11 ysgol Uwchradd. Disgwylir i bob disgybl:

- a gafodd asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 – sefyll cymhwyster cydnabyddedig mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA4
- sydd yn dilyn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, ddilyn rhai o'u pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg
- a gafodd asesiad Cymraeg Ail Iaith yn CA3 – naill ai:
    - 'Croesi'r bont' i drac mamiaith gan sefyll cymhwyster cydnabyddedig mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA4; Neu
    - sefyll cymhwyster cydnabyddedig mewn Cymraeg Ail Iaith ar ddiwedd CA4
- a gyrhaeddodd yr ysgol yn ystod CA4 ddilyn cwrs priodoli rhoi Sylfaen o'r Gymraeg iddynt

**Ni ellir asesu disgybl fel disgybl ail iaith os aseswyd ef fel Iaith Gyntaf yn y Cyfnod Allweddol blaenorol.**

Draft

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **20 Mawrth 2017** |
| **Pwnc:** | **Gostwng Oed Mynediad Ysgol Brynsiencyn** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Ken Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Gareth Jones**<br>**01248 752947**<br>**dgjed@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Hywel Eifion Jones**<br>**Victor Hughes** |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Derbyniwyd cais oddi wrth Corff Llywodraethu Ysgol Brynsiencyn i'r Awdurdod ystyried gostwng oed mynediad yr ysgol i dderbyn disgyblion yn rhan-amser o'r Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor Gwaith , Mehefin 2016,  i gychwyn y drefn ymgynghori ar y cynnig –<br><br>"Y cynnig yw i ostwng oed mynediad Ysgol Brynsiencyn i dderbyn  disgyblion yn rhan amser o'r mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed; hyn yn weithredol o 31 Awst 2017."<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod agored yn yr ysgol ar 13 Medi 2016 i drafod Dogfen Ymgynghori Drafft. Yna lluniwyd y ddogfen derfynol gan ymgynghori rhwng 24 Hydref a 4 Rhagfyr. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar wefan y Cyngor. |

| |
|---|
| Cytunodd y Pwyllgor Gwaith, wrth ystyried yr adroddiad, i gyhoeddi Rhybudd Statudol yn gwahodd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig. Bu'r rhybudd yn rhedeg o 6 Chwefror i 5 Mawrth. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad. Atodir yr adroddiad ac mae pawb sydd â diddordeb wedi derbyn copi a chyhoeddwyd yr adroddiad ar wefan y Cyngor.<br><br>**Mae swyddogion yr Awdurdod yn argymell y dylid derbyn y cynnig a bod oedran mynediad Ysgol Brynsiencyn yn gostwng i dderbyn disgyblion rhan amser o Fedi 2017.** |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Yr opsiwn arall yw parhau gyda'r trefniadau presennol ond ni chafwyd gwrthwynebiadau i'r cynnig. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae newid ystod oedran ysgol yn "newidiad a reoleiddir" o fewn trefn ail strwythuro ysgolion ac o fewn gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion, 006/2013. Penderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith yw hyn ac mae angen iddynt gyhoeddi cynigion ar y newid gan ystyried yr ymatebion. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi,mae'r Awdurdod wedi dilyn y broses gyda ysgolion eraill dros y blynyddoedd diwethaf. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | . |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| **ADRODDIAD AR YR YMATEBION I'R RHYBUDD STATUDOL YNGLŶN Â CHYNNIG I OSTWNG OED MYNEDIAD YSGOL BRYNSIENCYN AR 31 AWST 2017** |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Dim |

**Atodiad 1 .**

**ADRODDIAD AR YR YMATEBION I'R RHYBUDD STATUDOL YNGLŶN Â CHYNNIG I OSTWNG OED MYNEDIAD YSGOL BRYNSIENCYN AR 31 AWST 2017**

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# ADRODDIAD AR YR YMATEBION I'R RHYBUDD STATUDOL YNGLŶN Â CHYNNIG I OSTWNG OED MYNEDIAD YSGOL BRYNSIENCYN AR 31 AWST 2017

# REPORT ON THE RESPONSES TO THE STATUTORY NOTICE REGARDING PROPOSALS TO LOWER THE ADMISSION AGE OF YSGOL BRYNSIENCYN AS FROM 31 AUGUST 2017

**ADRODDIAD AR YR YMATEBION I'R RHYBUDD STATUDOL YNGLŶN Â CHYNNIG I OSTWNG OED MYNEDIAD YSGOL BRYNSIENCYN AR 31 AWST 2017**

Yn ystod y cyfnod rhwng 6 Chwefror a 5 Mawrth 2017 bu'r Cyngor, drwy gyhoeddi Rhybudd Statudol, yn casglu unrhyw wrthwynebiadau ar y cynnig canlynol -

"Y cynnig yw i ostwng oed mynediad Ysgol Brynsiencyn i dderbyn disgyblion yn rhan amser o'r mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed; hyn yn weithredol o 31 Awst 2017."

Rhannwyd y Rhybudd Statudol i bawb sydd â diddordeb, gan gynnwys yr Awdurdod a sicrhawyd bod copiau o'r rhybudd ar gael yn yr ysgol ac yn y lleoliadau nas-gynhelir perthnasol ac ar safwe Cyngor Sir Ynys Môn.

**<u>Ymatebion.</u>**

Yn dilyn cyhoeddi Rhybudd Statudol ar y cynnig i ostwng oed mynediad yr ysgol ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad.

**<u>Camau nesaf.</u>**

1. Bydd yr Awdurdod yn rhannu'r adroddiad yma gyda pawb sydd â diddordeb gan gyhoeddi'r adroddiad ar wefan y Cyngor.

2. Cyflwynir yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith gan swyddogion yr Awdurdod ar 20 Mawrth 2017 ynghyd â argymhelliad.

**REPORT ON THE RESPONSES TO THE STATUTORY NOTICE REGARDING PROPOSALS TO LOWER THE ADMISSION AGE OF YSGOL BRYNSIENCYN AS FROM 31 AUGUST 2017**

During the period between 6 February and 5 March 2017 the Council, through the publication of a Statutory Notice collected any objections to the following proposal -

“The proposal is to lower the admission age of Ysgol Brynsiencyn to admit pupils on a part time basis from the September following their 3rd birthday with effect from 31 August 2017.

The Statutory Notice was provided to all interested parties, including the Authority and it was ensured that the notice was available at the school and at the relevant non-maintained settings as well as on the Isle of Anglesey website.

**Responses.**

Following the publication of the Statutory Notice on the proposal to lower the age of admission at the school no objections were received.

**Next steps.**

1. The Authority will share this report with all interested parties and the report will be published on the Isle of Anglesey web site.

2. Authority officers will present the report to the Executive Committee on 20 March 2017 along with a recommendation.

## Atodiad A Y Rhybudd Statudol. / Appendix A The Statutory Notice

**RHYBUDD STATUDOL**

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 41 a 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir Ynys Môn ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig, gan ddilyn el rymoedd priodol, gostwng oed mynediad Ysgol Brynsiencyn i dderbyn disgyblion yn rhan-amser o'r Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Ar hyn o bryd mae Ysgol Brynsiencyn yn derbyn plant yn llawn amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed.

Cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn. (www.ynysmon.gov.uk)

Cynigir gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2017. Cyngor Sir Ynys Môn (yr awdurdod lleol) fydd yr awdurdod derbyn.

Bydd y meithrin yn darparu lle i 9 o blant ar sail rhan amser.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 5 Mawrth 2017. Dylid anfon gwrthwynebiadau at Gareth Jones (Swyddog Addysg), Adran Dysgu Gydol Oes, Swyddfa'r Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW.

Arwyddwyd



**DELYTH MOLYNEUX (Pennaeth Dysgu)**

**Ar ran Cyngor Sir Ynys Môn**

Dyddiad – 6 Chwefror 2017

---

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw'r Nodyn Esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad, yn hytrach, ymgais ydyw i gynnig eglurhad)

Rhybudd Statudol yw hwn sy'n dweud y bydd Ysgol Brynsiencyn yn derbyn plant 3 oed yn rhan amser o 1 Medi 2017.

## STATUTORY NOTICE

Notice is given in accordance with section 41 and 43 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and the School Organisation Code that the Isle of Anglesey County Council having consulted such persons as required, propose, in pursuance of their powers, to lower the age of admission at Ysgol Brynsiencyn so as to admit pupils part time in the September following their third birthday. At present Ysgol Brynsiencyn admits children full time in the September following their fourth birthday.

The Isle of Anglesey County Council undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A consultation report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposer's responses and the views of Estyn is available on the Isle of Anglesey County Council's website. (www.anglesey.gov.uk)

It is proposed to implement the proposal on 1 September 2017. The Isle of Anglesey County Council (the local authority) will be the admission authority.

Within a period of 28 days after the date of publication of these proposals, that is to say by 5 March 2017 any person may object to the proposals. Objections should be sent to Gareth Jones (Education Officer) , Lifelong Learning Department, Isle of Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey LL77 7TW.

Signed



**DELYTH MOLYNEUX (Head of Learning)**

**for the Isle of Anglesey County Council**

Date – 6 February 2017

---

## EXPLANATORY NOTE

(This Explanatory Note does not form part of the Notice but is offered by way of clarification)

This is a statutory notice saying that Ysgol Brynsiencyn will admit 3 year old pupils on a part time basis from 1 September 2017.

# DIM I'W GYHOEDDI / NOT FOR PUBLICATION

**Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant /Transformation of the Cultural Service**

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff 12,13,14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph 12,13,14 Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is: - |
| Gwelir enwau a swyddogaethau staff yn y siart strwythur staff<br><br>*Staff names and roles are provided in the staff structure diagram.* | Gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn penodol ( Para12)<br>*Information relating to a particular individual (Para 12)*<br><br>Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw'r unigolyn ( Para 13)<br>*Information which is likely to reveal the identity of an individual (Para 13)* |
| Mae sylwadau a wneir gan blant yn cael eu cynnwys, ond gellid eu hadnabod yn lleol.<br>*Comments made by children are included, but they could be identified locally.* | Gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn penodol ( Para12)<br>*Information relating to a particular individual (Para 12)* |
| Ymagwedd busnes y Cyngor yn cael ei datgelu, yn arbennig ei safiad tuag at arddangoswyr; mae hefyd yn darparu gwybodaeth a allai, o bosib wneud y Cyngor yn wan a/ neu'n agored i niwed wrth ymdrin â chyflenwyr.<br><br>*The Council's business approach is revealed, in particular its stance towards exhibitors; it also provides information that could, potentially make the Council vulnerable and /or weakened in its dealings with suppliers.* | Gwybodaeth yn ymwneud â materion busnes neu ariannol unrhyw unigolyn penodol (Gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth) (para 14)<br><br>*Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information) ( para 14)* |
| Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption is more important than the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate] | |

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank